*MASTER NEGATIVE NO. 91-80106-4*

MICROFILMED 1992

COLUMBIA UNIVERSITY LIBRARIES/NEW YORK

as part of the
"Foundations of Western Civilization Preservation Project"

Funded by the
NATIONAL ENDOWMENT FOR THE HUMANITIES

Reproductions may not be made without permission from
Columbia University Library

COPYRIGHT STATEMENT

The copyright law of the United States -- Title 17, United States Code -- concerns the making of photocopies or other reproductions of copyrighted material...

Columbia University Library reserves the right to refuse to accept a copy order if, in its judgement, fulfillment of the order would involve violation of the copyright law.

*AUTHOR:*

SWEDENBORG, EMANUEL

*TITLE:*

NEF AC UFFERN, HEFYD, Y SEFYLLA...

*PLACE:*

LONDON

*DATE:*

1899

Master Negative #

91-80106-4

COLUMBIA UNIVERSITY LIBRARIES
PRESERVATION DEPARTMENT

## BIBLIOGRAPHIC MICROFORM TARGET

Original Material as Filmed - Existing Bibliographic Record

.94
Sw337

Swedenborg, Emanuel, 1688-1772
Nef ac uffern, hefyd, y sefylla canolog, neu fyd yr ysbrydoedd, traethiad o bethau welwyd ac a glywyd...cyfieithedig o'r Lladin. London, Swedenborg society, 1899.
vii, 603 p. 22 cm.

Restrictions on Use:

TECHNICAL MICROFORM DATA

FILM SIZE: 35 mm    REDUCTION RATIO: 11 X
IMAGE PLACEMENT: IA (IIA) IB IIB
DATE FILMED: 6/24/91    INITIALS M.D.C.
FILMED BY: RESEARCH PUBLICATIONS, INC WOODBRIDGE, CT

AIIM

**Association for Information and Image Management**

1100 Wayne Avenue, Suite 1100
Silver Spring, Maryland 20910
301/587-8202

Centimeter

Inches

MANUFACTURED TO AIIM STANDARDS
BY APPLIED IMAGE, INC.

# NEF AC UFFERN

SWEDENBORG

40

938.94 Sw33?

Columbia University
in the City of New York

LIBRARY

# NEF AC UFFERN.

# NEF AC UFFERN;

HEFYD,

## Y Sefyllfa Ganolog,

NEU FYD YR YSBRYDOEDD;

*TRAETHIAD O BETHAU WELWYD AC A GLYWYD.*

EMANUEL SWEDENBORG.

CYFIEITHEDIG O'R LLADIN.

THE SWEDENBORG SOCIETY,
1 BLOOMSBURY STREET, LONDON.
WREXHAM: PUBLISHED BY HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET.
1899.

20-47953

938.94
Sw337

# CYNWYSIAD.

## Y NEFOEDD.

| | TUD. |
|---|---|
| Rhagarweiniad ... ... ... ... ... ... | 1 |
| Yr Arglwydd yw Duw y Nefoedd ... ... ... ... | 2 |
| Dwyfoldeb yr Arglwydd wna y Nefoedd ... ... ... | 4 |
| Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn y Nefoedd yw Cariad atto Ef a Chariad at Gymydog ... ... ... ... | 6 |
| Dosparthir y Nefoedd i Ddwy Deyrnas ... ... ... | 9 |
| Fod Tair Nefoedd ... ... ... ... ... ... | 11 |
| Cynwysa y Nefoedd Gymdeithasau dirif ... ... | 14 |
| Pob Cymdeithas sydd Nefoedd mewn ffurf lai, a phob Angel sydd Nefoedd yn y ffurf leiaf ... ... ... | 17 |
| Yr Holl Nefoedd, gyda'u gilydd, sydd debyg i Un Dyn ... | 20 |
| Pob Cymdeithas yn y Nefoedd sydd debyg i Un Dyn ... | 23 |
| Felly, y mae pob Angel mewn Ffurf Ddynol berffaith ... | 24 |
| Y Nefoedd Gyffredinol a phob Rhan o Honi sydd debyg i Ddyn, am ei bod yn bodoli o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd ... ... ... ... ... ... ... | 26 |
| Fod Cyfatebiaeth rhwng pob peth yn y Nefoedd a phob peth perthynol i Ddyn ... ... ... ... ... ... | 30 |
| Y mae Cyfatebiaeth rhwng y Nefoedd a holl bethau y Ddaear ... ... ... ... ... ... ... | 34 |
| Yr Haul yn y Nefoedd ... ... ... ... ... ... | 39 |
| Goleu a Gwres yn y Nefoedd ... ... ... ... ... | 43 |
| Y Pedwar Parth yn y Nefoedd ... ... ... ... | 50 |
| Cyfnewidiadau Ystâd Angylion y Nefoedd ... ... ... | 54 |
| Amser yn y Nefoedd ... ... ... ... ... ... | 57 |
| Arddangosiadau ac Ymddangosiadau y Nefoedd ... ... | 60 |
| Y Gwisgoedd sydd am yr Angylion ... ... ... ... | 61 |
| Preswylfeydd a Phalasau yr Angylion ... ... ... | 63 |
| Am Le yn y Nefoedd ... ... ... ... ... ... | 66 |
| Ffurf y Nefoedd, yr hon a reola y Cymdeithasau a'r Cymundeb Nefol ... ... ... ... ... ... | 68 |
| Llywodraethau yn y Nefoedd ... ... ... ... ... | 73 |
| Addoliad Dwyfol yn y Nefoedd ... ... ... ... | 76 |
| Nerth Angylion y Nefoedd ... ... ... ... ... | 78 |

TUD.
Lleferydd yr Angylion ... ... ... ... ... ... 81
Lleferydd yr Angylion wrth Ddyn ... ... ... ... 85
Ysgrifeniadau yn y Nefoedd ... ... ... ... ... 90
Doethineb Angylion y Nefoedd ... ... ... ... 93
Ystâd Diniweidrwydd yr Angylion yn y Nefoedd ... ... 100
Yr Ystâd o Dangnefedd yn y Nefoedd ... ... ... 104
Undeb y Nefoedd â'r Hîl Ddynol ... ... ... ... 108
Undeb y Nefoedd â Dyn trwy y Gair... ... ... ... 113
Fod Nefoedd ac Uffern yn cael eu ffurfio o'r Hîl Ddynol ... 118
Am y Cenhedloedd neu y Bobloedd tuallan i'r Eglwys yn y Nefoedd ... ... ... ... ... ... ... 122
Plant Bach yn y Nefoedd ... ... ... ... ... 128
Y Doethion a'r Anysgedig yn y Nefoedd ... ... ... 135
Y Cyfoethog a'r Tlawd yn y Nefoedd ... ... ... 142
Priodasau yn y Nefoedd ... ... ... ... ... 148
Gwaith yr Angylion yn y Nefoedd ... ... ... ... 158
Llawenydd a Dedwyddwch Nefol ... ... ... ... 161
Mawredd y Nefoedd ... ... ... ... ... ... 171

## AM FYD YR YSBRYDOEDD, A CHYFLWR DYN AR OL ANGEU.

Beth yw Byd yr Ysbrydoedd ... ... ... ... ... 175
Ysbryd yw pob dyn o ran ei fewnolion ... ... ... 180
Adgyfodiad Dyn oddiwrth y Meirw a'i fynediad i Fywyd Tragwyddol ... ... ... ... ... ... 184
Dyn ar ol Angeu sydd mewn Ffurf Ddynol berffaith ... 187
Côf, Meddwl, Teimlad, a phob Synwyr feddai dyn yn y byd a arosant gydag ef wedi marw; ni âd ddim ar ei ol ond ei gorff daearol ... ... ... ... ... 192
Cymeriad Dyn ar ol Marw sydd yr un a'i Fywyd yn y Byd 200
Pleserau Bywyd pob un ar ol Marw a droant i Bleserau yn cyfateb iddynt ... ... ... ... ... ... 210
Ystâd Gyntaf Dyn ar ol Marw ... ... ... ... ... 216
Ail Ystâd Dyn ar ol Marw ... ... ... ... ... 219
Trydedd Ystâd Dyn ar ol Angeu, sef Ystâd Addysg y rhai a ânt i'r Nefoedd ... ... ... ... ... ... 226
Nad oes Neb yn myned i'r nefoedd trwy Weithred o Drugaredd Ddiamodol ... ... ... ... ... 231
Nid yw mor anhawdd, ag y tybia llawer, Byw Bywyd sydd yn arwain i'r Nefoedd ... ... ... ... ... 235



## AM UFFERN.

TUD.
Yr Arglwydd Reola yr Uffernoedd ... ... ... ... 243
Nad yw yr Arglwydd yn Taflu neb i Uffern, ond mai yr Ysbrydion Aflan a Daflant eu Hunain yno ... ... 246
Y mae holl Drigolion Uffern mewn drygau ac yn y cyfeiliornadau ddeilliant o'r drygau, yn tarddu oddiar Hunan-gariad a Chariad at y Byd ... ... ... 249
Beth feddylir wrth Dân Uffern a Rhingcian Dannedd ... 257
Am Ddwfn Ddrygioni a Dichellion Echryslawn yr Uffernolion... ... ... ... ... ... ... ... 263
Ymddangosiad, Sefyllfa, ac Amledd yr Uffernoedd ... 266
Y Cydbwysedd rhwng Nefoedd ac Uffern ... ... ... 271
Fod Dyn yn Mwynhau Rhyddid trwy y Cydbwysedd rhwng Nefoedd ac Uffern ... ... ... ... ... 275

# NEF AC UFFERN.

## RHAGARWEINIAD.

1. Yn ymddiddan yr Arglwydd a'i ddysgyblion am ddiwedd y byd, yn golygu amser olaf yr Eglwys, ar derfyn ei ragddywediadau am gyflyrau olynol yr Eglwys mewn perthynas i gariad a ffydd, ceir y geiriau canlynol:—"Ac yn y fan wedi gorthrymder y dyddiau hynny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r ser a syrth o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir. Ac yna yr ymddengys arwydd Mab y dyn yn y nef: ac yna y galara holl lwythau y ddaear; a hwy a welant Fab y dyn yn dyfod ar gymylau y nef, gyda nerth a gogoniant mawr. Ac Efe a ddenfyn ei angelion â mawr sain udgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion Ef yn nghyd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt," Math. xxiv. 29, 30, 31. Y rhai a ddeallant y geiriau hyn yn ol eu hystyr lythrenol yn unig, a gredant y cymer yr holl bethau hyn le fel eu desgrifir yn llythrenol, yn yr amser diweddaf a elwir y farn ddiweddaf: am hyny dychmygant y tywylla yr haul a'r lleuad, y syrth y ser o'r nefoedd, yr ymddengys arwydd yr Arglwydd yn y nefoedd, y cant ei weled Ef yn y cymylau ac angelion a'u hudgyrn gydag Ef, ac nid felly yn unig ond yn ol rhagddywediadau rhanau ereill o'r Ysgrythyr—y diflana yr holl fyd gweledig, ac wedi hyny y creir nefoedd newydd a daear newydd. Dyma yr opiniwn a ffyna yn awr yn mysg y mwyafrif yn yr Eglwys; ond y rhai a goleddant yr opiniwn hwn ni wyddant y dirgelion cuddiedig yn manylion manaf y Gair; canys yn mhob rhan o hono y mae ystyr fewnol, yn trin, nid am bethau naturiol a bydol, fel y rhai a gynwysir yn yr ystyr lythrenol, ond am bethau ysbrydol a nefol. Felly y mae nid yn unig am ystyr amryw eiriau gyda'u gilydd, ond hefyd am bob gair neillduol: am fod y Gair wedi ei ysgrifenu trwy gyfattebion pur, mewn trefn i bob gair neillduol gynwys ystyr fewnol. Dangoswyd natur yr ystyr hono yn amlwg yn yr hyn a ddywedwyd am dani yn yr ARCANA COELESTIA, o'r hyn y gellir gweled crynodeb yn yr esboniad ar Farch Gwyn y Datguddiad. Yn ol yr ystyr hono y mae geiriau yr Arglwydd a ddifynwyd uchod i'w deall. Wrth yr *haul* a dywyllir yr arwyddir yr Arglwydd mewn perthynas i Gariad; wrth y *lleuad* yr Arglwydd mewn perthynas i Ffydd; wrth *y ser*, gwybodaeth am ddaioni a

gwirionedd, neu am gariad a ffydd; wrth *arwydd Mab y dyn yn y nef*, y Gwirionedd Dwyfol yn ymddangos; wrth *lwythau y ddaear yn galaru*, holl bethau gwirionedd a daioni, neu, ffydd a chariad; wrth *ddyfodiad yr Arglwydd yn nghymylau y nef gyda nerth a gogoniant*, Ei bresenoldeb yn y Gair a datguddiad yno; wrth *gymylau*, ystyr llythrenol y Gair; wrth *ogoniant*, ystyr fewnol y Gair; ac wrth *angylion a mawr sain udgorn*, datguddiadau o'r nefoedd, o'r lle y daw Gwirionedd Dwyfol. Amlwg yw oddiyma mai ystyr y geiriau hyn gan yr Arglwydd yw, y gwna Efe agor y Gair yn ei ystyr fewnol a datguddio dirgelion y nefoedd, yn niwedd yr Eglwys pan na byddo cariad ac o ganlyniad pan na byddo ffydd. Y dirgelion a ddatguddir yn y tudalenau canlynol a driniant am nefoedd ac uffern, ac hefyd am y bywyd wedi angeu. Nid oes gan ddyn o'r Eglwys heddyw nemawr ddim gwybodaeth am nefoedd ac uffern, nac am ei fywyd ei hun ar ol angeu, er eu bod oll yn cael eu desgrifio yn eglur yn y Gair; yn wir, y mae llawer a aned yn yr Eglwys yn gwadu y pethau hyn, ac yn dywedyd yn eu calonau, "Pwy erioed ddaeth oddiyno i ddweyd wrthym?" Rhag gan hyny i'r fath wadiad dirgel, a ffyna yn neillduol yn mhlith y rhai a feddant wybodaeth fydol, lygru a heintio y syml o galon a'r syml o ffydd, caniatawyd i mi am dair mlynedd ar ddeg gymdeithasu âg angylion, ac ymddiddan â hwynt fel un dyn a'r llall; a gweled y pethau sydd yn y nefoedd yn gystal a'r pethau yn yr uffernoedd; a'u desgrifio oddiar brofiad, mewn gobaith y gall anwybodaeth gael ei oleuo, ac anghrediniaeth ei chwalu. Gwneir y fath ddatguddiad uniongyrchol yn awr, oblegid mai hyn yw y peth a olygir wrth ddyfodiad yr Arglwydd.

### Yr Arglwydd yw Duw y Nefoedd.

2. Anghenrhaid yw, yn gyntaf, i wybod pwy yw Duw y nefoedd, gan fod pob peth arall yn dibynu ar hyn. Yn y nefoedd gyffredinol ni chydnabyddir un Duw ond yr Arglwydd yn unig. Dywedir yno fel y dysgodd Ef ei hun, *Ei fod Ef yn un a'r Tad; fod y Tad ynddo Ef ac yntau yn y Tad; fod pwy bynag a'i gwel Ef yn gweled y Tad; a bod pob peth santaidd yn deilliaw oddiwrtho Ef*, Ioan x. 30, 38; Pen. xiv. 10, 11; Pen. xvi. 13, 14. 15. Ymddiddenais yn fynych â'r angylion ar y pwnc hwn, a dywedent yn gyson nas gallant yn y nefoedd wahaniaethu y Duwdod i dri, am eu bod yn gwybod a chanfod mai Un yw yr Egwyddor Ddwyfol, a'i bod yn Un yn yr Arglwydd. Dywedant hefyd am aelodau yr Eglwys, y rhai a ddeuant o'r byd yn coleddu y syniad am dri pherson dwyfol, nas gellir eu derbyn i'r nefoedd tra y cyfeiliornad hwn yn meddianu eu heneidiau, am fod eu meddwl yn crwydro o'r naill berson i'r llall, ac nid oes ganiatad yno i feddwl am dri a chyffesu





un, am fod pob un yn y nefoedd yn llefaru fel y meddylia. Iaith yno sydd iaith feddyliol, neu feddwl yn llefaru; ac am hyny, y rhai a wahaniaethant y Duwdod i dri pherson, ac a ffurfiant syniad gwahanol am bob un, ac heb ganolbwyntio y syniad hwnw i un yn yr Arglwydd, nis gellir eu derbyn pan adawant y byd hwn; canys yn y nefoedd y mae cymundeb rhwng meddyliau pawb, ac am hyny, pe deuai neb yno yn meddwl am dri a chyffesu un, datguddid a gwrthodid Ef yn uniongyrchol. Noder, er hyny, fod pawb nad ysgarasant rhwng gwirionedd a daioni, neu ffydd a chariad, yn cael eu dysgu yn y byd arall, ac yn derbyn y syniad nefol am yr Arglwydd, sef mai Ef yw Duw y bydysawd; ond fel arall y mae gyda y rhai a ysgarasant rhwng ffydd a bywyd, trwy beidio byw yn ol rheolau gwir ffydd.

3. Y rhai o fewn i'r Eglwys a wadasant yr Arglwydd, ac a gydnabyddent y Tad yn unig ac a gadarnhasant eu hunain yn y ffydd hono, ydynt allan o'r nefoedd: a chan na all dylifiad o'r nefoedd, lle yr addolir yr Arglwydd yn unig, eu cyrhaedd, amddifadir hwynt yn raddol o'r gallu i feddwl yr hyn sydd wir ar unrhyw bwnc, ac o'r diwedd ânt yn fudion, neu llefarant yn ffol, a chrwydrant i fewn ac allan wrth rodio, gan hongian a siglo eu breichiau fel pe byddent wedi colli pob nerth yn y cymalau. Y rhai a wadant Ddwyfoldeb yr Arglwydd, ac a gydnabyddant ei Ddynoliaeth yn unig, fel y Sosiniaid, ydynt hefyd allan o'r nefoedd. Cludir hwynt yn mlaen ychydig tua'r deheu, a gollyngir hwynt i lawr i'r dyfnder, ac fel hyn didolir hwynt yn hollol oddiwrth bawb ereill a ddeuant o'r byd Cristionogol: ond y rhai a broffesant gredu mewn Duwdod Anweledig, yr hwn a alwant yn egwyddor fywiol (Ens.) y bydysawd, o'r hon y bodola pob peth, a'r rhai a wrthodant ffydd yn yr Arglwydd, dysgir hwynt trwy brofiad nad ydynt yn sylweddol gredu yn unrhyw Dduw; am fod Duwdod Anweledig fel natur yn ei hegwyddorion cyntaf, yr hon nad yw wrthrych ffydd a chariad am nad yw yn wrthrych meddwl. Caiff y rhai hyn eu coelbren yn mysg y rhai a elwir naturolwyr. Amgen ydyw gyda y rhai a aned allan o'r Eglwys, ac a elwir Cenhedloedd, am y rhai y dywedir rhagor yn y tudalenau canlynol.

4. Cynwysir y drydedd ran o'r nefoedd gan blant bach, cant oll eu dysgu i gredu a chydnabod mai yr Arglwydd yw eu Tad, ac, wedi hyny ei fod Ef yn Arglwydd pawb, ac o ganlyniad yn Dduw y nefoedd a'r ddaear. Plant bach a dyfant yn y nefoedd, ac a berffeithir trwy wybodaeth, nes y cyrhaeddont ddeall a doethineb angylaidd, fel y gwelir yn yr hyn a ganlyn.

5. Nis gall yr Eglwys amheu mai yr Arglwydd yw Duw y nefoedd, canys dysgodd Ef ei Hun *mai ei eiddo Ef yw holl bethau y Tad*, Matt. xi. 27; Ioan xvi. 15; Pen. xvii. 2; *a bod ganddo bob awdurdod yn y nef a'r ddaear*, Matt. xxviii. 16. *Dywedodd yn*

*y nef ac ar y ddaear, am* mai yr Hwn a reola y nef reola y ddaear hefyd, gan fod y naill yn dibynu ar y llall. Rheoli y nef a'r ddaear, a arwydda, derbyn oddiwrtho Ef yr holl ddaioni a gyfyd o gariad, a'r holl wirionedd seiliedig ar ffydd, o ganlyniad pob deall a doethineb, a thrwy hyny pob dedwyddwch: yn fyr bywyd tragwyddol. Dysgodd yr Arglwydd hyn hefyd pan ddywedodd, "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab ni wel fywyd," Ioan iii. 36. "Myfi yw yr Adgyfodiad a'r bywyd: yr hwn sydd yn credu ynof fi er iddo farw a fydd byw: A phwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd," Ioan ii. 25, 26. Hefyd "Myfi yw y ffordd, ar gwirionedd, a'r bywyd," Ioan xiv. 6.

6. Rhai ysbrydion, yn ystod eu bywyd yn y byd, a broffesent gredu yn y Tad, ac heb syniad am yr Arglwydd ond fel am ddyn arall. Ni chredent, gan hyny, mai Efe yw Duw y nefoedd, ac o ganlyniad caniateid iddynt grwydro o gylch a gofyn pa le bynag y mynent, a oes unrhyw nefoedd arall heblaw eiddo yr Arglwydd. Chwiliasant dros amryw ddyddiau ond ni chawsant un. Y rhai hyn oeddynt o'r dosbarth hwnw o bersonau a wnant ddedwyddwch y nefoedd yn gynwysedig mewn gogoniant ac arglwyddiaeth, ac am na allent fwynhau yr hyn a ddymunent, ac y dywedid wrthynt nad mewn pethau felly y cynwysir y nefoedd, digofus oeddynt, a dymunent gael nefoedd yn yr hon y gallent arglwyddiaethu ar ereill, a mwynhau gogoniant a safle uchel, fel yn y byd.

### Dwyfoldeb yr Arglwydd wna y Nefoedd.

7. Holl gynulliad yr angylion a elwir nefoedd, am mai hwy a gyfansoddant y nefoedd; ond eto yr Egwyddor Ddwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, yr hon a lifa i'r angylion ac a dderbynir ganddynt, hyny sydd yn gwneyd y nefoedd yn gyffredinol ac yn neillduol. Yr Egwyddor Ddwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, yw daioni yn codi o gariad, a gwirionedd seiliedig ar ffydd; mor bell, gan hyny, ag y derbyniant yr hyn sydd dda a gwir o'r Arglwydd, y maent yn angylion, ac i'r un graddau y maent yn nefoedd.

8. Pob un yn y nef a ŵyr, a gred ac a genfydd, nad ewyllysia ac na wna ddim daioni ohono ei hun, ac na feddwl ac na chred ddim gwirionedd ohono ei hun, ond o Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn unig, ac felly o'r Arglwydd; ac nad yw y daioni a'r gwirionedd a ddeillia o hono ef ei hun, yn ddaioni a gwirionedd, am nad oes fywyd ynddynt o'r Egwyddor Ddwyfol. Angylion y nefoedd fwyaf mewnol a eglur ganfyddant, ac a deimlant, y dylifiad; ac ymddangosant iddynt eu hunain eu bod yn y nefoedd i'r graddau y derbyniant Ef, am eu bod mor bell mewn cariad a ffydd, yn ngoleu deall a doethineb, ac o ganlyniad mewn llawen-





ydd nefol. Gan y deillia hyn oll o Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd, ac y meddiana yr angylion nefoedd ynddynt, eglur yw mai Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd a wna y nefoedd, ac nid yr angylion oddiwrth ddim priodol iddynt eu hunain. Felly y gelwir y nefoedd, yn y Gair, yn *breswylfa yr Arglwydd*, a'i *Orsedd Ef:* ac y dywedir fod ei phreswylwyr *yn yr Arglwydd:* ond pa fodd y deillia yr Egwyddor Ddwyfol o'r Arglwydd, a llanw y nefoedd, a ddangosir yn yr hyn a ganlyn.

9. Yr angelion, yn rhinwedd eu doethineb, a ânt yn mhellach, a dywedant, nid yn unig fod pob peth da a gwir o'r Arglwydd, ond hefyd yr oll o fywyd; a chadarnhant hyn trwy yr ystyriaeth nas gall dim fodoli o hono ei hun, ond o rywbeth blaenorol iddo ei hun; o ganlyniad fod pob peth yn bodoli o'r Achos Cyntaf, yr hwn a alwant yn wir Hanfod bywyd pob peth; a'u bod yn cael eu cynal yn yr un modd—am mai parhad bodolaeth yw cynaliaeth—a bod yr hyn na chedwir o hyd mewn cysylltiad a'r Achos Cyntaf trwy gyfryngau, yn darfod ar unwaith, a chael ei lwyr chwalu. Dywedant hefyd mai Un Ffynon bywyd sydd, ac mai ffrwd yw bywyd dyn ddarfyddai lifo ar unwaith pe heb gyflenwad parhaus o'r Ffynon; nad oes dim yn deilliaw o'r Arglwydd—Unig Ffynon bywyd—ond Daioni Dwyfol a Gwirionedd Dwyfol, a bod y rhai hyn yn effeithio ar bob un yn ol ei dderbyniad o honynt; felly fod y nefoedd yn y rhai a'u derbyniant mewn ffydd a bywyd, ond fod y rhai wrthodant neu fogant y Daioni a'r Gwirionedd Dwyfol yn eu troi yn uffern, am eu bod yn troi da yn ddrwg, y gwir yn gau, ac felly bywyd yn angeu. Fod yr Oll o fywyd o'r Arglwydd a gadarnhant hefyd trwy yr ystyriaeth fod pob peth yn y bydysawd yn perthyn i ddaioni a gwirionedd—bywyd Ewyllys dyn yr hwn yw bywyd ei gariad, i Ddaioni, a bywyd Deall dyn, yr hwn yw bywyd ei ffydd, i Wirionedd—a chan mai oddiuchod y daw pob peth da a gwir, canlyna fod yr Oll o fywyd hefyd oddiuchod. Am fod yr angylion yn credu hyn gwrthodant bob diolch am y da a wnant hwy, digiant a chiliant os gwna neb briodoli daioni iddynt hwy; a synant pa fodd y gall neb goelio ei fod yn ddoeth o hono ei hunan, a'i fod yn gwneyd da ohono ei hunan. Dywedant nad yw gwneyd da er mwyn hunan, yn ddaioni, am ei fod yn cael ei wneyd o hunan; ond gwneyd daioni er mwyn daioni, hyn a alwant yn ddaioni o'r Duwdod, a dywedant fod y daioni hwn yn gwneyd nefoedd, am mai y daioni hwn yw yr Arglwydd.

10. Ysbrydion yn ystod eu harosiad yn y byd, a gadarnhasant eu hunain yn y gred fod pob da a wnant a phob gwirionedd a gredant, o honynt eu hunain, neu yn cael eu priodoli iddynt fel yr Eiddynt (yn yr hon gred y mae pawb a osodant haeddiant yn eu gweithredoedd da, ac a honant gyfiawnder iddynt eu hunain) ni dderbynir hwynt i'r nefoedd. Yr angelion a'u gochelant fel

ffyliaid ac fel lladron; fel ffyliaid, am eu bod yn barhaus yn edrych atynt eu hunain ac nid at y Duwdod; ac fel lladron am eu bod yn ysbeilio yr Arglwydd o'i eiddo. Croes yw y fath bersonau i ffydd y nefoedd, yr hon yw mai Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn cael ei derbyn gan yr angylion wna nefoedd.

11. Y rhai sydd yn y nefoedd ac yn yr Eglwys, ydynt yn yr Arglwydd, a'r Arglwydd ynddynt hwy, fel y dysg Efe ei Hun gan ddywedyd, "Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chwi. Megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden; felly nid ellwch chwithau onid arhoswch ynof fi. Myfi yw y winwydden, chwithau yw y canghenau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi a minau ynddo yntau, hwnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer: oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim," Ioan xv. 4, 5.

12. Felly y mae yn amlwg fod yr Arglwydd yn trigo yn ei eiddo ei Hun gydag angylion y nefoedd, ac am hyny mai yr Arglwydd yw yr Oll yn Oll o'r nefoedd, gan mai daioni o'r Arglwydd yw yr Arglwydd gyda'r angylion, am mai Efe ei Hun yw yr hyn sydd o hono: ac felly daioni o'r Arglwydd yw y nefoedd i'r angylion, ac nid dim priodol iddynt eu hunain.

## Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn y Nefoedd yw Cariad atto Ef a Chariad at Gymydog.

13. Yr Egwyddor Ddwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd a elwir yn y nefoedd Gwirionedd Dwyfol, am reswm a ymddengys fel yr awn yn mlaen. Y Gwirionedd Dwyfol hwn a lifa i'r nefoedd o'r Arglwydd allan o'i Gariad Dwyfol, canys gellir cydmaru Cariad Dwyfol, a Gwirionedd Dwyfol yn tarddu o hono, i dân yr haul a'r goleu yn deilliaw o hono; cariad fel tân yr haul, a'r gwirionedd yn deilliaw o gariad, fel y goleu. Tân hefyd, oddiar gyfatebiaeth, a arwydda gariad, a'r goleu, y gwirionedd yn deilliaw o gariad. Gan hyny y mae y Gwirionedd Dwyfol a ddeillia o Gariad Dwyfol yr Arglwydd, yn ei hanfod, yn Ddaioni Dwyfol mewn undeb a Gwirionedd Dwyfol: ac o'r undeb hwn, efe a fywha bob peth yn y nefoedd, fel gwres yr haul, yn un a'r goleu, yn ffrwythloni pob peth ar y ddaear yn y gwanwyn a'r haf. Bydd fel arall pan na byddo y gwres yn un a'r goleu, a phan fydd y goleu felly yn oer, yna bydd pob peth yn farw a difywyd. Y Daioni Dwyfol, a gydmerir i'r gwres, yw daioni cariad gyda'r angylion: ac o'r Gwirionedd Dwyfol, a gydmerir i'r goleu, y derbyniant y daioni hwn.

14. Yr Egwyddor Ddwyfol yn y nefoedd, a'i gwna yn nefoedd, yw Cariad, am mai cariad yw undeb ysbrydol. Cariad a una yr angylion a'r Arglwydd ac â'u gilydd; a'u hundeb â'u gilydd trwy gariad a'i gwnant oll i ymddangos yn ngolwg yr Arglwydd fel un. Hefyd, cariad yw gwir Hanfod bywyd gyda phob un, ac felly bywyd a lifa o gariad gyda dynion ac angylion. Eglur yw i bob





un ystyria, mai Cariad yw gwreiddyn egwyddor fywydol fwyaf mewnol dyn; canys yn ei bresenoldeb efe a gynesa, yn ei absenoldeb efe a oera, ac hebddo efe a drenga. Teilwng yw o sylw neillduol fod ansawdd bywyd pob un yr un peth ag ansawdd ei gariad.

15. Y mae dau gariad gwahanol yn y nefoedd—cariad at yr Arglwydd, a chariad at gymydog. Cariad at yr Arglwydd a dreiddia drwy y drydedd nef neu y fwyaf mewnol, a chariad at gymydog yr ail, neu y nef ganol: deillia y ddau o'r Arglwydd, a'r ddau a wnant y nefoedd. Y gwahaniaeth rhwng y ddau gariad hyn a'r modd y maent yn un a ymddengys yn y nefoedd mewn goleu clir, ond yn aneglur yn y byd. Yn y nefoedd, caru yr Arglwydd ni olyga ei garu o ran ei Berson, ond caru y daioni a ddeillia o hono; a charu daioni yw ewyllysio a gwneyd daioni o gariad: yr un modd caru cymydog ni olyga caru ei gymdeithas fel person, ond caru y gwirionedd o'r Gair; a charu y gwirionedd yw ei ewyllysio a'i wneyd. Felly amlwg yw fod y ddau gariad hyn yn wahanol fel daioni a gwirionedd, a'u bod yn un fel daioni a gwirionedd; ond pethau anhawdd eu deall yw y rhai hyn i ddynion anwybodus o natur cariad a daioni ac o wir ystyr y term cymydog.

16. Bûm weithiau yn ymddiddan âg angylion ar y pwnc hwn, ac amlygent syndod fod dynion o'r eglwys heb wybod, mai caru yr Arglwydd a charu cymydog yw caru daioni a gwirionedd, a'u gwneyd o galon: am y gallent wybod fod pob un yn dangos ei gariad tuag at arall trwy ewyllysio a gwneyd yr hyn y mae arall yn ewyllysio, am fod hyn yn cynyrchu cariad ac undeb o bob tu. Caru un arall heb wneyd ei ewyllys ni chynyrcha gyd-gariad ac undeb, ac nid yw gariad o gwbl. Gallai yr eglwys hefyd wybod fod y daioni a ddeillia o'r Arglwydd yn ddelw o hono, am ei fod Ef ynddo: a bod y rhai a wnant ddaioni a gwirionedd yn elfenau eu bywyd trwy eu hewyllysio a'u gwneyd, yn ddelwau o hono Ef, ac yn un âg Ef. Ewyllysio yw caru gwneyd, a hyn a ddysg yr Arglwydd lle y dywed, "Yr hwn sydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i: a'r hwn sydd yn fy ngharu i a gerir gan fy Nhad i: a minau a'i caraf Ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo." Eto "Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad. Ioan xiv. 21. Ioan xv. 10.

17. Pob profiad yn y nefoedd a dystia mai Cariad yw yr Egwyddor Ddwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, yr hon gyffroa angylion ac a wna y nefoedd; y mae pawb yn y nefoedd yn ffurfiau cyfatebol i'w cariad: eu harddwch sydd anarluniadwy, a chariad lewyrcha allan o'u hwynebau, eu geiriau a manylion eu bywyd. Y mae cylchoedd ysbrydol yn deilliaw o fywyd pob angel, ac ysbryd yn eu hamgylchu, a thrwyddynt yr adwaenir

ansawdd eu serchiadau weithiau o bellder mawr. Y cylchoedd hyn a lifant o serch, ac yna o feddwl, neu, o gariad a ffydd pob un. Mor llawn o gariad yw y cylchoedd a ânt allan o'r angylion, fel yr effeithiant ar fywyd mwyaf mewnol eu cymdeithion. Canfyddais hwynt weithiau a theimlais eu heffaith. Mae cariad yw yr egwyddor o'r hon y tardd bywyd yr angylion, sydd eglur hefyd, am fod pob un yn y byd arall yn troi ei hun yn llythrenol yn ol ei gariad. Y rhai ydynt mewn cariad at yr Arglwydd ac at gymydog, droant eu hunain yn gyson at yr Arglwydd; ond y rhai sydd mewn hunan-gariad, droant eu hunain yn gyson oddiwrth yr Arglwydd yn mhob ysgogiad o'r corff; canys y mae lleoedd, yn y byd arall, yn dibynu ar gyflwr mewnol y rhai a drigant yno, felly hefyd am y pedwar pwynt, nid ydynt sefydlog yno fel yn y byd hwn, ond cânt eu penodi gan gyfeiriad gwynebau y trigolion. Nid yr angylion, er hyny, a droant eu hunain at yr Arglwydd, ond yr Arglwydd a dry ato ei Hun y rhai a garant wneuthur y pethau sydd oddiwrtho Ef; ond ceir rhagor ar hyn pan ddeuwn at y Pedwar Pwynt yn y byd arall.

18. Cariad yw Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn y nefoedd, am mai cariad yw derbynfa pob peth yn y nefoedd, sef, tangnefedd, deall, doethineb, a dedwyddwch; cariad a dderbynia bob peth cydnaws âg ef ei hun; dymuna hwynt, cais hwynt, ac ŷf hwynt yn awyddus, am ei fod yn ewyllysio cael ei gyfoethogi a'u berffeithio yn barhaus. Gŵyr dyn hyn, canys y mae ei gariad fel yn arolygu a thynu ato ei hun o'i gôf bob peth cydnaws âg ef ei hun, crynhoa a threfna hwynt ynddo ei hun a dano ei hun—ynddo ei hun fel y byddant eiddo ei hun, a dano ei hun fel y byddont iswasanaethgar iddo ei hun. Ond efe a wrthyd ac a deifl allan bob peth anghydnaws. Fod pob gallu i dderbyn gwirioneddau cydnaws, a'r dymuniad i'w huno âg ef ei hun, yn gynhenid mewn cariad, a welir yn amlwg hefyd yn y rhai a godant i'r nefoedd; oblegid er y gallent fod yn anysgedig yn y byd, deuant i ddoethineb angylaidd, ac i ddedwyddwch y nefoedd, pan yn mhlith yr angylion; am y rheswm iddynt garu daioni a gwirionedd er eu mwyn eu hunain, a'u planu yn eu bywyd, ac felly daethant yn alluog i dderbyn y nefoedd gyda'i holl berffeithderau anarluniadwy. Y rhai sydd mewn cariad at hunan a'r byd, ni feddant allu i dderbyn y fath ddoniau; casant hwynt, gwrthodant hwynt, a ffoant ymaith wrth eu cyffyrddiad a'i dylifiad cyntaf, ac ânt i gymdeithas rhai o serchiadau tebyg iddynt eu hunain yn uffern. Yr oedd rhai ysbrydion yn amheu a oedd y fath alluoedd yn gynhenid mewn cariad nefol, a dymunent wybod y gwir: am hyny y rhwystrau ynddynt eu hunain am dymhor a symudwyd, gollyngwyd hwynt i ystad o gariad nefol, a dygwyd hwynt yn mlaen i ryw bellder lle yr oedd nefoedd angylaidd: oddiyno ymddiddanent â





mi, gan ddywedyd eu bod yn canfod dedwyddwch mewnol, nas gallent ddatgan mewn geiriau, a gofidient yn fawr fod yn rhaid iddynt ddychwelyd i'w cyflwr blaenorol. Dyrchafwyd ereill hefyd i'r nefoedd, ac yn gyfartal i'w dyrchafiad mwy mewnol, neu uwch, daethant i ddealltwriaeth a doethineb, fel y gallent ganfod pethau anamgyffredadwy iddynt o'r blaen. Felly amlwg yw mai cariad yn deilliaw o'r Arglwydd yw derbynfa y nefoedd a phob peth yn y nefoedd.

19. Fod Cariad at yr Arglwydd a chariad at ein cymydog yn cynwys yr holl wirioneddau, sydd amlwg oddiwrth eiriau yr Arglwydd ei hun. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl. Hwn yw y cyntaf, a'r gorchymyn mawr. A'r ail sydd gyffelyb iddo; Câr dy gymydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r proffwydi yn sefyll," Matt. xxii. 37—40. Y gyfraith a'r Proffwydi yw y Gair oll, a'r Gwirionedd Dwyfol oll.

### Dosparthir y Nefoedd i Ddwy Deyrnas.

20. Y mae amrywiaethau aneirif yn y nefoedd, nid oes un gymdeithas nac unrhyw angel unigol yn hollol fel y llall; ond dosparthir yr oll mewn modd cyffredinol, neillduol, a mwy neillduol. Yn gyffredinol i ddwy deyrnas; neillduol i dair nefoedd; ac yn fwy neillduol, i gymdeithasau dirif. Triniwn bob un mewn trefn.

Y dosparthiadau cyffredinol a elwir teyrnasoedd, am y gelwir y nefoedd yn *Deyrnas Duw.*

21. Rhai angylion a dderbyniant yr Egwyddor Ddwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd yn fwy mewnol nag ereill. Y rhai a'i derbyniant yn fwy mewnol a elwir yn angylion nefol, a'r rhai a'i derbyniant yn llai mewnol a elwir yn angylion ysbrydol: ac oddiyma y dosparthir y nefoedd i ddwy deyrnas. Y DEYRNAS NEFOL A'R DEYRNAS YSBRYDOL.

22. Yr angylion a gyfansoddant y deyrnas nefol a dderbyniant y Duwdod o'r Arglwydd yn fwy mewnol, ac am hyny a elwir yn angylion mewnol ac uwchraddol; ac o ganlyniad gelwir y nefoedd a gyfansoddant yn nefoedd fewnol ac uwchraddol. Gelwir hwynt uwchraddol ac israddol, am fod pethau mewnol ac allanol yn cael eu galw felly.

23. Gelwir cariad y rhai a gyfansoddant y deyrnas nefol, yn gariad nefol; a chariad y rhai a gyfansoddant y deyrnas ysbrydol, yn gariad ysbrydol. Cariad nefol yw cariad at yr Arglwydd, a chariad ysbrydol yw cariad at gymydog. Pob da a ddeillia o gariad, canys y peth a gâr un a gyfrif yn dda: am hyny hefyd y gelwir daioni y naill deyrnas yn nefol, a daioni y llall yn ysbrydol. Felly amlwg yw fod y ddwy deyrnas hyn i'w gwahaniaethu fel daioni yn codi o gariad at yr Arglwydd, a'r daioni yn codi o gar-

iad at gymydog; a chan fod y daioni a gyfyd o gariad yn ddaioni mewnol, a chariad mewnol yw cariad at yr Arglwydd, am hyny angylion mewnol yw yr angylion nefol, a chant eu galw yn uwch-raddol.

24. Y deyrnas nefol a elwir hefyd yn Deyrnas Offeiriadol yr Arglwydd, ac yn y Gair ei *Breswylfa;* a'r deyrnas ysbrydol a elwir Ei deyrnas Frenhinol, ac yn y Gair ei *Orseddfainc.* Yr Arglwydd a elwid IESU yn y byd o'r Egwyddor Ddwyfol Nefol, a CHRIST o'r Egwyddor Ddwyfol Ysbrydol.

25. Yr angylion yn nheyrnas nefol yr Arglwydd a dra-rhagorant ar angylion ei deyrnas ysbrydol mewn doethineb a gogoniant, am eu bod yn derbyn mwy o'r Duwdod o'r Arglwydd; wedi eu gwreiddio mewn cariad ato Ef, y maent yn nes ato Ef ac mewn undeb agosach âg Ef. Dyma gymeriad yr angylion nefol, am eu bod yn derbyn gwirioneddau Dwyfol yn uniongyrchol yn eu bywyd, ac nid fel y rhai ysbrydol yn gyntaf i'r cof a'r meddwl; felly y maent ganddynt yn ysgrifenedig ar eu calonau; canfyddant a gwelant hwynt ynddynt eu hunain, ac nid ydynt un amser yn rhesymu am danynt pa un a'u ydynt wirioneddau neu beidio. Tebyg ydynt i'r rhai ddesgrifir yn Jeremiah,—"Myfi a roddaf fy nghyfraith o'u mewn hwynt; ac a'i hysgrifenaf hi yn eu calonau hwynt. Ac ni ddysgant mwyach bob un ei gymydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnabyddwch yr Arglwydd: o herwydd hwynt hwy oll o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt, am hadnabyddant medd yr Arglwydd," xxxi. 33, 34. Gelwir hwynt yn Esaiah yn rai "Wedi eu dysgu gan yr Arglwydd," liv. 13, sef y Jehofa yr hwn yw yr Arglwydd Iesu fel y dysg Ef ei hun, Ioan vi. 45, 46.

26. Dywedwyd fod yr angylion nefol yn meddu doethineb a gogoniant uwch na'r lleill, am eu bod yn derbyn gwirioneddau Dwyfol yn uniongyrchol i'w bywyd: oblegid mor fuan ag y clywant hwynt, ewyllysiant a gwnant hwynt, yn lle eu trysori yn eu côf a meddwl wedi hyny a ydynt wirioneddau neu beidio. Pawb o'r fath gymeriad a wyddant ar unwaith, trwy ddylifiad o'r Arglwydd, a yw y gwirionedd a glywant yn wirionedd: canys yr Arglwydd a lifa fewn i ewyllys dyn yn uniongyrchol, ond yn an-uniongyrchol i'w feddwl trwy ei ewyllys; neu yr hyn sydd yr un peth, yr Arglwydd a lifa fewn yn uniongyrchol i ddaioni, ac yn anuniongyrchol trwy ddaioni i wirionedd; canys y peth a berthyn i'r ewyllys ac a ddaw oddiyno i weithred a elwir daioni, ond y peth a berthyn i'r côf ac a â i'r meddwl a elwir gwirionedd. Pob gwirionedd hefyd a droir yn ddaioni, ac a blenir yn y serch, mor fuan ac yr â i'r ewyllys; ond cyhyd yr erys gwirionedd yn unig yn y côf ac oddiyno yn y meddwl, nid yw yn ddaioni, nac yn byw, na chael ei briodoli i ddyn; oblegid fod dyn yn ddyn yn gyntaf o'r ewyllys ac yna o'r deall, ac nid o'r deall ar wahan a'r ewyllys.





27. Y fath yw y gwahaniaeth rhwng angylion y deyrnas nefol a rhai y deyrnas ysbrydol, nid ydynt yn cyd-drigo, na chyd-gymdeithasu; ond y mae cymundeb rhyngddynt trwy gymdeithasau angylaidd cyfryngol a elwir nefol-ysbrydol, a thrwyddynt dylifa y deyrnas nefol i'r ysbrydol. Er y rhenir y nefoedd i ddwy deyrnas, eto un ydynt, am fod yr Arglwydd yn wastad yn darparu angylion cyfryngol i'w cysylltu a sicrhau cymundeb.

28. Gan y trinir angylion y ddwy deyrnas yn helaeth yn nghwrs y gwaith hwn, diangen yw manylu mwy yma.

### Fod Tair Nefoedd.

29. Y mae tair nefoedd yn berffaith wahanol i'w gilydd; y fwyaf mewnol, neu y drydedd nef, y ganol neu yr ail nef, a'r isaf neu y nef gyntaf. Dilynant mewn trefn, a pherthynant i'w gilydd fel y rhan uchaf o'r dyn, sef y pen, y rhan ganol, sef y corff, a'r rhan isaf, sef y traed; ac fel y llofft uchaf, y ganol, a'r llawr isaf mewn tŷ. Yr Egwyddor Ddwyfol yn deilliaw a disgyn o'r Arglwydd a ddosparthir yn yr un modd; ac o hyn y cyfyd yr angen am drefn driphlyg y nefoedd.

30. Yr un drefn hefyd sydd i fewnolion dyn, perthynol i'w feddwl mewnol ac allanol, cynwysant y mwyaf mewnol, y canol a'r isaf; canys yn nghreadigaeth dyn, planwyd pob peth ynddo perthynol i Ddwyfol Drefn, gwnawd ef yn Drefn Ddwyfol wedi cymeryd ffurf, ac felly yn ddarlun bach o'r nefoedd, neu yn nefoedd fach. O herwydd hyn y gwna dyn, o ran ei fewnolion, ddal cymundeb a'r nefoedd, a dyfod yn angel ar ol marw, yn y nefoedd fwyaf mewnol, y ganol, neu yr isaf, yn ol ei dderbyniad o Ddaioni Dwyfol a gwirionedd o'r Arglwydd, yn ystod ei fywyd yn y byd.

31. Yr Egwyddor Ddwyfol a ddylifa o'r Arglwydd, ac a dderbynir yn y nefoedd fwyaf mewnol neu y drydedd, a elwir nefol, ac felly yr angylion yno a elwir angelion nefol: yr hon a dderbynir yn yr ail nef neu y ganol, a elwir ysbrydol, ac felly yr angylion yno a elwir angelion ysbrydol; a'r hon a dderbynir yn y nef gyntaf neu yr isaf, a elwir naturiol; ond gan nad yw y naturiol yn y nefoedd hono fel y naturiol yn y byd—am fod ysbrydol a nefol o'i mewn—am hyny y nefoedd hono a elwir ysbrydol naturiol, a nefol naturiol, a'r angylion yno yn angylion ysbrydol naturiol a nefol naturiol. Y rhai a dderbyniant ddylifiad o'r ail nef neu y ganol, yr hon yw y nef ysbrydol, a elwir ysprydol naturiol: a'r rhai a dderbyniant ddylifiad o'r drydedd nef neu y fwyaf mewnol, yr hon yw y nef nefol, a elwir nefol naturiol. Yr angylion ysbrydol naturiol, a'r rhai nefol naturiol ydynt ar wahan a'u gilydd, ond eto cyfansoddant un nefoedd am eu bod yn yr un gradd.

32. Y mae yn mhob nefoedd y Mewnol a'r Allanol. Y rhai sydd yn y mewnol, a elwir angylion mewnol; a'r rhai sydd yn yr

allanol, angylion allanol. Yr allanol a'r mewnol yn y nefoedd, gyfatebant i'r ewyllys a'r deall mewn dyn; y mewnol i'r ewyllys a'r allanol i'r deall. Rhywbeth deallol a berthyn i bob peth yn yr ewyllys, y naill ni fodola heb y llall. Gellir cydmaru yr ewyllys i'r fflam, a'r deall i'r goleu yn deilliaw o honi.

33. Teilwng yw o sylw neillduol, mai mewnolion yr angelion benderfyna pa nefoedd y byddant ynddi; canys pa fwyaf agored y bydd eu mewnolion i'r Arglwydd, mwyaf mewnol y bydd y nefoedd a breswyliant. Y mae tri gradd yn mewnolion pob un, pa un ai angel, ysbryd neu ddyn. Y rhai y mae y trydydd gradd yn agored ynddynt, ydynt yn y nefoedd fwyaf mewnol; y rhai y mae yr ail radd yn agored ynddynt, ydynt yn y nefoedd ganol; a'r rhai y mae y gradd cyntaf yn unig yn agored ynddynt, ydynt yn y nefoedd isaf. Agorir y mewnolion trwy dderbyn Daioni Dwyfol a Gwirionedd Dwyfol. Y rhai yr effeithia y Gwirioneddau Dwyfol arnynt, ac a'u derbyniant yn uniongyrchol i'w bywyd, gan eu hewyllysio a'u gwneyd, ydynt yn y drydedd neu y nefoedd fwyaf mewnol; ond y rhai ni dderbyniant y Gwirioneddau Dwyfol yn uniongyrchol i'r ewyllys, ond yn gyntaf i'r côf, ac o'r côf i'r deall, ac yna eu hewyllysio a'u gwneyd, ydynt yn yr ail neu y nefoedd ganol; tra y rhai sydd yn byw yn ol rheolau moesoldeb, ac yn credu yn y Bod Dwyfol, heb ofal neillduol am gael eu haddysgu, ydynt yn y nefoedd gyntaf, neu yr isaf. Felly, amlwg yw mae cyflwr y mewnolion wna y nefoedd, a bod y nefoedd o fewn i bob un, ac nid o'r tu allan iddo, fel y dywed yr Arglwydd, "Ni ddaw teyrnas Dduw wrth ddisgwyl, Ac ni ddywedant, Wele yma: neu wele acw: canys wele teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae," Luc xvii. 20, 21.

34. Pob perffeithrwydd a gynydda tua'r mewnolion, ac a leiha tua'r allanolion, am fod pethau mewnol yn nes at y natur Ddwyfol, ac ynddynt eu hunain yn burach; ond y mae pethau allanol yn bellach oddiwrth y natur Ddwyfol, ac ynddynt eu hunain yn llai pur. Perffeithrwydd angylaidd a gynwysir mewn deall, doethineb, cariad a phob daioni, ac mewn dedwyddwch deilliedig o honynt, ond nid mewn dedwyddwch hebddynt, canys hebddynt allanol yw dedwyddwch ac nid mewnol. Gan fod mewnolion angylion y nefoedd fwyaf mewnol yn agored yn y trydydd gradd, tra rhagora eu perffeithrwydd ar angylion y nefoedd ganol sydd a'u mewnolion yn agored yn yr ail radd; ac yn yr un modd perffeithrwydd angylion y nefoedd ganol a ragora ar angylion y nefoedd isaf.

35. Oherwydd y gwahaniaeth hwn, nis gall angel un nefoedd fyned i mewn at angylion nefoedd arall; mewn geiriau ereill, nis gall neb esgyn i nefoedd uwch, na disgyn i nefoedd îs; canys pwy bynag a esgyn o nefoedd îs i un uwch a feddienir gan bryder





poenus, nis gall weled y rhai a drigant yno, a llawer llai y gall siarad a hwynt: a'r hwn a ddisgyno o nefoedd uwch i nefoedd îs, a gyll ei ddoethineb, bydd attal ar ei dafod, ac anobaith yn ei orlanw. Rhai angylion y nefoedd isaf, heb gael eu dysgu eto, mai yn mewnolion yr angylion y cynwysir y nefoedd, credent y cyrhaeddant radd uwch o ddedwyddwch nefol pe caent fyned i fewn i nefoedd o angylion rhagorach, ac am hyny cawsant ganiatad i fyned i fewn; ond wedi myned yno ni welant neb, er chwilio o amgylch a bod tyrfa fawr yn bresenol; canys nid oedd mewnolion y dieithriaid, ac felly nid oedd eu llygaid yn agored yn yr un gradd a mewnolion yr angylion a breswylient y nefoedd hono. Yna ar fyrder meddienid hwy gan dristwch calon mor fawr, nes amheu o honynt gael byw; ac am hyny dychwelasant ar frys i'r nefoedd o'r hon y daethant, yn llawen am eu bod eto gyda'u cymdeithion, gan addaw na chwenychant mwy am fwyniant uwch nac sydd gytun a'u bywyd. Gwelais hefyd angylion yn cael eu gollwng i lawr o nefoedd uwch, gan golli eu doethineb fel na wyddent natur eu nefoedd eu hunain. Ond ni ddigwydd hyn pan y gwna yr Arglwydd yn fynych godi angylion o nefoedd îs i nefoedd uwch, er gweled ei gogoniant; y pryd hwnw cânt eu rhagbarotoi, a'u hamgylchu gan angylion cyfryngol, yn sicrhau cymundeb. Felly amlwg yw fod y tair nefoedd yn hollol wahanol i'w gilydd.

36. Gall y rhai sydd yn yr un nefoedd gymdeithasu a phawb sydd yno, ond fod pleser y gymdeithas yn dibynu ar debygrwydd y daioni sydd yn y naill a'r llall; ceir rhagor eto ar hyn.

37. Er fod y tair nefoedd mor wahanol i'w gilydd fel nas gall angylion y naill nefoedd gymdeithasu âg angylion nefoedd arall, eto yr Arglwydd a'u gwna oll yn un trwy ddylifiad uniongyrchol ac anuniongyrchol: trwy ddylifiad uniongyrchol o hono Ei Hun i bob nefoedd, a thrwy ddylifiad anuniongyrchol o'r naill nefoedd i'r llall; ac felly y cyflawna ei fwriad fod y tair nefoedd yn un; fel y byddo yr oll mewn cysylltiad â'u gilydd o'r cyntaf i'r diweddaf; canys beth bynag nad yw gysylltiedig trwy gyfryngau a'r Achos Cyntaf, nis gall fodoli, ond efe a chwelir ac a ddiddymir.

38. Y rhai anghyfarwydd a natur Dwyfol Drefn mewn perthynas i raddfeydd, nis gallant amgyffred pa fodd y mae y tair nefoedd yn wahanol, na pha beth a feddylir wrth y dyn mewnol ac allanol. Nid oes gan y rhan amlaf o ddynion syniad amgen am y mewnol a'r allanol, neu am bethau uwch ac îs, nag am rywbeth parhaol, yn ymestyn o'r hyn sydd burach i'r hyn sydd fwy cwrs: tra mae cyfateb i'w gilydd y mae y mewnol a'r allanol ac nid parhau o'r naill i'r llall. Y mae dau fath o raddau—parhaol ac heb fod yn barhaol. Gellir cydmaru graddau parhaol i raddau y goleuni o'r fflam i'r gwyll; neu raddau purdeb yr awyr o'r ddaear i fyny; neu raddau y gweled o'r goleu i'r cysgod. Penderfynir y graddau

hyn gan *bellderau;* tra mae graddau heb fod yn barhaol, ond yn cyfateb, yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd fel cyntaf a diweddaf, fel achos ac effaith, ac fel yr hyn sydd yn cynyrchu a'r hyn a gynyrchir. Sylwedydd craff a wel fod y fath raddau yn bodoli yn mhob peth creuedig, ac yn mhob rhan o honynt, fel mai o un peth y cynyrchir peth arall, a thrydydd peth o hwnw, ac felly yn mlaen. Y rhai ni ddeallant y graddau hyn, ni ddeallant wahaniaethau y nefoedd, na'r gwahaniaethau rhwng galluoedd mewnol ac allanol dyn: ni ddeallant chwaith y gwahaniaeth rhwng y byd ysprydol a'r byd naturiol; na rhwng ysbryd dyn a'i gorff; nac o ganlyniad beth yw cyfatebiaethau ac arddangosiadau, a'u tarddiad; na pheth yw natur Dylifiad. Dynion anianol ni chanfyddant y gwahaniaethau hyn, am y tybiant mai parhaol yw pob cynydd a lleihad, hyd yn oed mewn graddau cyfatebol; ac felly nis gallant synied am yr hyn sydd ysbrydol ond fel rhywbeth naturiol wedi ei buro. O herwydd hyn pell ydynt o bob deall.

39. Nodaf, wrth ddiweddu, ddirgelwch perthynol i angelion y tair nefoedd, na ddaeth i feddwl dyn erioed o'r blaen, am na ddeallodd neb hyd yma natur y graddau. Y mae yn mhob angel ac yn mhob dyn, râdd oruchel neu fwyaf mewnol, neu ryw oror oruchel a mwyaf mewnol yn yr enaid, i'r hon y llifa Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn gyntaf, ac o'r hon y trefnir pob peth mewnol arall yn ol graddau trefn mewn angel a dyn. Gellir galw yr oror oruchel a mwyaf mewnol hon yn ddyfodfa yr Arglwydd i angylion a dynion, ac hefyd Ei drigfa neillduol ynddynt. Yn rhinwedd yr oror oruchel a mwyaf mewnol hon y mae dyn yn ddyn, ac i'w wahaniaethu oddiwrth yr anifeiliaid, y rhai sydd hebddi; o herwydd hyn gall dyn, o ran holl fewnolion ei feddwl mewnol ac allanol, gael ei godi gan yr Arglwydd ato ei Hun; a chredu ynddo, a'i garu a'i weled; a gallu derbyn deall a doethineb, a llefaru yn rhesymol. O herwydd hyn hefyd y bydd dyn byw byth; ond y trefniadau a'r darpariadau wneir gan yr Arglwydd yn yr oror oruchel hon, ni ddeuant yn amlwg i syniad unrhyw angel, am eu bod uwchlaw eu meddwl a thuhwnt eu doethineb.

40. Gwirioneddau cyffredinol yw y rhai hyn am y tair nefoedd, ond yn yr hyn a ganlyn llefarwn am bob nefoedd yn neillduol.

### Cynwysa y Nefoedd Gymdeithasau dirif.

41. Nid yw angylion unrhyw nefoedd oll yn yr un lle, ond gwahaniaethir hwynt i gymdeithasau uwch ac is, yn ol gwahaniaeth eu cariad a'u ffydd. Y rhai sydd mewn daioni tebyg a ffurfiant un gymdeithas. Y mae amrywiaethau aneirif o ddaioni yn y nefoedd, ac y mae ansawdd pob angel yr un peth a'i ddaioni.

42. Penderfynir pellder y cymdeithasau angylaidd yn y nefoedd





oddiwrth eu gilydd, gan wahaniaeth eu daioni cyffredinol a neillduol; oblegid yn y byd ysbrydol tardda pellder yn hollol o'r cyflwr mewnol, ac o ganlyniad, yn y nefoedd cyfyd o ystad y cariad. Angelion yn gwahaniaethu llawer ydynt bell oddiwrth eu gilydd, a'r rhai yn gwahaniaethu ychydig ydynt agos, am fod tebygrwydd yn eu dwyn at eu gilydd.

43. Pawb yn yr un gymdeithas a drefnir yn amlwg yn ol yr un ddeddf. Y rhai mwyaf perffaith, sef, y rhai a ragorant mewn daioni, ac felly mewn cariad, doethineb a deall ydynt yn y canol; a'r rhai llai rhagorol ydynt tua'r amgylchedd, yn bell yn ol y graddau y lleiha eu perffeithrwydd. Gellir cydmaru y drefn hon i oleuni yn lleihau o'i ganolbwynt i'w amgylchedd. Y rhai yn y canol sydd yn y goleuni mwyaf, a'r rhai yn yr amgylchedd sydd mewn llai.

44. Y rhai o'r un duedd a gymdeithasant o honynt eu hunain; am eu bod gyda rhai tebyg iddynt eu hunain yn teimlo fel pe baent gartref yn mhlith eu perthynasau, ond gydag ereill teimlant fel pe baent oddicartref yn mhlith dieithriaid. Pan fyddant gyda rhai o'r un feddwl, y maent hefyd mewn rhyddid, ac felly mewn cyflawn fwynhad o'u bywyd.

45. Felly amlwg yw fod pawb yn mhob nefoedd yn cymdeithasu trwy ddaioni, a gwahaniaethir hwynt yn ol ei ansawdd; er hyny, yr Arglwydd, ffynon pob daioni, drefna y cymdeithasau angylaidd fel hyn, ac nid yr angylion eu hunain. Efe a'u harwain hwynt, una hwynt a'u gilydd, trefna hwynt, a cheidw hwynt mewn rhyddid, mor bell ag y maent mewn daioni; ac fel hyn ceidw bob un yn ei gariad ei hun, ei ffydd, ei ddeall a'i ddoethineb, ac felly mewn dedwyddwch.

46. Pawb mewn graddau tebyg o ddaioni a adwaenant eu gilydd, bron yr un fath a dynion yn y byd yn adwaen eu ceraint, eu perthynasau a'u cyfeillion, er nas gwelsant hwynt erioed o'r blaen; oblegid nid oes gâr, na pherthynas na ffrynd yn y byd arall, ond sydd ysbrydol, sef yr hyn a dardd o gariad a ffydd. Caniatawyd i mi gael gweled hyn yn fynych, pan yn yr ysbryd allan o'r corff, ac yn nghwmpeini angylion. Yr adegau hyn, gwelais rai a ymddangosent i mi fel pe yr adwaenwn hwynt er yn blant, ond ereill a ymddangosent yn hollol anadnabyddus i mi. Y rhai a ymddangosent yn adnabyddus i mi er yn blant, oeddent mewn ystad debyg i ystad fy ysbryd, ond y rhai anadnabyddus mewn ystad anhebyg.

47. Y mae tebygrwydd cyffredinol yn wynebpryd angelion yr un gymdeithas, ond gwahaniaethant bob un ar ei ben ei hun. Gellir deall i fesur y fath debygrwydd cyffredinol, gydag amrywiaethau yn mhob un, oddiwrth esiamplau tebyg yn y byd. Gwyddir yn dda fod i bob hil o bobl ryw debygolrwydd cyffredinol yn y

gwyneb a'r llygaid, i'w hadwaen a'u gwahaniaethu oddiwrth ereill; ac yn fwy byth mewn teuluoedd neillduol; ond ceir hyn yn berffeithiach yn y nefoedd, am fod yr holl deimladau mewnol yno yn ymddangos a llewyrchu allan o'r wyneb; oblegid yn y nefoedd y gwyneb yw ffurf a llun allanol y fath deimladau. Nis gall gwyneb heb fod yn cyfateb i'r serchiadau fodoli yn y nefoedd. Dangoswyd hefyd i mi pa fodd y mae y tebygolrwydd cyffredinol yn amrywio yn unigolion yr un gymdeithas. Ymddangosodd i mi wyneb fel eiddo angel, yn amrywio yn ol serchiadau daioni a gwirionedd, fel y bodolant gydag angylion yr un gymdeithas. Parhaodd yr amrywiaethau hyn yn hir, a sylwais fod yr un gwynebpryd cyffredinol yn parhau fel sylfaen gyffredinol, a bod y gwynebau ereill yn tarddu o hono. Trwy y gwyneb hwn hefyd dangoswyd i mi serchiadau yr holl gymdeithas, yn ol yr hwn yr amrywia gwynebau pob un o'r gymdeithas; canys fel y sylwyd uchod, ffurfiau yw gwynebau angylion o'u mewnolion, sef eu serchiadau perthynol i'w cariad a'u ffydd.

48. O herwydd hyn, yr adwaen angel yr hwn a ragora mewn doethineb, ansawdd un arall a'r unwaith trwy ei wyneb; oblegid nis gall neb yn y nefoedd guddio ei fewnolion trwy wyneb ffugiol, ac anmhosibl iddo yw dweyd celwydd a thwyllo trwy gyfrwysdra a rhagrith. Digwydd weithiau fod rhagrithwyr yn ymlithro i gymdeithasau, wedi dysgu cuddio eu mewnolion, a gosod eu hallanolion i ymddangos yn ffurf daioni aelodau y gymdeithas, ac fel hyn i ymrithio yn angelion goleuni; ond nis gallant aros yno yn hir, am y dechreuant deimlo ing fewnol, a dirdyniadau, duant yn eu gwynebau, a chollant eu bywyd dan ddylanwad dylifiadau bywyd gwahanol i'r eiddynt hwy; felly taflent eu hunain ar frys i lawr i'r uffern a berthyn i'w cymdeithion, ac ni chwenychant esgyn mwyach. Y rhai hyn a feddylir wrth y dyn yn mhlith y gwahoddedigion heb y wisg briodas ac a daflwyd i'r tywyllwch eithaf. Matt. xxii. 11, &c.

49. Y mae cymundeb rhwng yr holl gymdeithasau nefol a'u gilydd, ond nid trwy gyfeillach agored, oblegid ychydig a ânt o'u cymdeithas eu hunain i un arall, am fod myned allan o'u cymdeithas eu hunain fel pe yr aent allan o honynt eu hunain, neu allan o'u bywyd eu hunain, gan basio i un arall, yr hyn nad yw mor ddymunol: er hyny bydd cymundeb rhyngddynt oll trwy eangiad cylch y bywyd a ddeillia o bob un. Cylch y bywyd yw cylch y serchiadau sydd a'u tarddiad mewn cariad a ffydd. Ymwasgara y cylch hwn yn bell a llydan i'r cymdeithasau amgylchol; cynydda ei eangder fel y byddo y serchiadau yn fwy mewnol a pherffaith, a bydd yr angylion yn ddeallus a doeth yn ol mesur yr eangder hwn. Y rhai sydd yn y nefoedd mwyaf mewnol, ac yn ei chanol, a wasgarant gylch eu bywyd trwy y nefoedd gyffredinol,





ac felly bydd cymundeb rhwng pawb o'r nefoedd a phob un, a rhwng pob un a phawb: ond trinir y gwasgariad hwn yn fwy cyflawn pan lefarwn am y ffurf nefol yn ol yr hon y trefnir y cymdeithasau angylaidd, ac hefyd pan driniwn ddoethineb a deall yr angylion; am fod pob gwasgariad o'r serchiadau a'r meddyliau yn deilliaw yn ol y ffurf hono.

50. Dywedwyd uchod, fod cymdeithasau mwy a llai yn y nefoedd: cynwysa y rhai mwyaf fyrddiwnau o angylion, rhai llai filoedd, a'r rhai lleiaf ganoedd. Y mae rhai angylion hefyd yn byw ar wahan fel mewn tai a theuluoedd gwahanol; ond er eu bod yn byw ar wahan, yr un drefn sydd yn eu plith ag yn y cymdeithasau, y rhai doethaf yn y canol, a'r rhai llai doeth yn y terfynau. Dyma yr angylion goreu, ac y maent yn fwy uniongyrchol o dan ymgeledd yr Arglwydd.

### Pob Cymdeithas sydd Nefoedd mewn ffurf lai, a phob Angel sydd Nefoedd yn y ffurf leiaf.

51. Pob cymdeithas sydd nefoedd mewn ffurf lai, a phob angel sydd nefoedd yn y ffurf leiaf, am mai y daioni gyfyd o gariad a ffydd wna y nefoedd, ac y mae y daioni hwnw yn mhob cymdeithas o'r nefoedd, ac yn mhob angel o bob cymdeithas. Nid oes wahaniaeth fod y daioni hwn yn mhob man yn amrywio, daioni y nefoedd ydyw, a'i amrywiaethau a achosa amrywiaethau cyfatebol yn ansawdd y nefoedd. Dywedir gan hyny am unrhyw un pan godir ef i unrhyw gymdeithas o'r nefoedd, ei fod "wedi myned i'r nefoedd," ac am ei phreswylwyr, eu bod yn y nefoedd, a phob un yn ei nefoedd ei hun. Gŵyr pawb yn y byd arall hyn, ac felly y rhai a safant tuallan neu islaw y nefoedd, ac a edrychant ar drigfanau y cymdeithasau angylaidd o draw, a ddywedant fod y nefoedd *yna* neu *accw*. Tebyg ydyw i arglwyddi, swyddogion a gweision, yn yr un llys neu balas breninol, er byw ar wahan yn eu hystafelloedd neillduol, un uwchlaw a'r llall islaw, eto y maent oll yn yr un llys neu balas, yn barod i wasanaethu y brenin yn eu gwahanol gymhwysderau. Eglura hyn ystyr geiriau yr Arglwydd, "Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau," Ioan xiv. 2: ac a esbonia yr hyn feddylir wrth *breswylfeydd y nefoedd*, ac wrth *nefoedd y nefoedd* yn y proffwydi.

52. Pob cymdeithas sydd nefoedd mewn ffurf lai, am fod pob cymdeithas mewn ffurf nefol fel ffurf y nefoedd gyffredinol; oblegid yn yr holl nefoedd y rhai a ragorant ar ereill ydynt yn y canol, a'r rhai a ragorant lai o'u hamgylch, hyd y terfynau, mewn trefn yn graddol leihau, fel y dangoswyd mewn penod flaenorol r. 43. Yr Arglwydd hefyd a arweinia bawb yn y nefoedd gyffredinol fel pe byddent un angel, ac yn yr un modd yr arweinia Efe y rhai sydd yn mhob cymdeithas, ac felly cymdeithas angyl-

aidd gyfan a ymddengys weithiau fel un angel, megis y gwelais trwy ganiatad yr Arglwydd. Pan ymddengys yr Arglwydd ei Hun yn mhlith yr angylion, nid ymddengys yn cael Ei amgylchu gan dyrfa, ond fel Un Person, mewn ffurf angylaidd; ac am hyny y gelwir yr Arglwydd yn y Gair yn *Angel*, ac hefyd gelwir cymdeithas gyfan yr un peth; oblegid nid yw Michael, Gabriel a Raphael ond cymdeithasau angylaidd, yn cael eu henwi oddiwrth eu swyddau.

53. Fel y mae cymdeithas gyfan yn nefoedd mewn ffurf lai, felly hefyd y mae pob angel yn nefoedd yn y ffurf leiaf; oblegid nid yw y nefoedd tuallan i angel, ond tufewn iddo, am fod ei fewnolion perthynol i'w feddwl wedi eu trefnu yn ffurf y nefoedd, ac felly yn addas i dderbyn pob peth o'r nefoedd tuallan iddo. Derbynia y pethau hyn yn ol ansawdd y daioni sydd ynddo o'r Arglwydd, ac felly y mae pob angel yn nefoedd.

54. Nis gellir dywedyd mewn un modd fod y nefoedd tuallan i unrhyw un, ond tufewn iddo, am fod pob angel yn derbyn y nefoedd sydd tuallan iddo yn ol y nefoedd sydd tufewn iddo; dengys hyn fel y twyllir y rhai a gredant mae myned i'r nefoedd yw codi i blith angylion, yn annibynol ar y bywyd mewnol, ac fel hyn y gellir rhoddi y nefoedd i unrhyw un trwy weithred o drugaredd ddiamodol; pan mai y gwir yw, os na fydd y nefoedd o fewn i ni, nas gall dim o'r nefoedd tuallan lifo fewn a chael ei derbyn. Llawer o ysbrydion a gredant fel arall, a chymerwyd rhai o honynt i fynu i'r nefoedd mewn canlyniad; ond am fod eu bywyd mewnol yn groes i fywyd yr angylion, aethant yn ddall o ran eu deall, ac o'r diwedd yn wallgofiaid, yn ddirdynol eu teimladau gan ymddwyn fel ynfydion. Yn fyr, y rhai a ant i'r nefoedd wedi byw yn ddrwg, a gollant eu hanadl ac a nydd-droant fel pysg wedi eu codi o'r dwfr i'r awyr; neu fel anifeiliaid yn *Ether* yr *Air Pump*, wedi dyhysbyddu yr awyr; ac felly amlwg yw fod y nefoedd nid o faes i ni, ond o fewn i ni.

55. Gan fod pawb yn derbyn y nefoedd sydd o'n tuallan yn ol ansawdd y nefoedd sydd o'n mewn, felly yn yr un modd y derbyniant yr Arglwydd, am mai Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd wna y nefoedd; ac, o ganlyniad, pan amlyga yr Arglwydd ei Hun mewn unrhyw gymdeithas, Efa a ymddengys yno yn ol ansawdd daioni y gymdeithas, ac felly nid yr un mewn un gymdeithas a'r llall; ond nid yw yr anhebygrwydd hwn yn yr Arglwydd, ond yn y rhai a'i gwelant Ef yn ol eu daioni eu hunain. Effeithia golwg yr Arglwydd hefyd ar yr angylion yn ol ansawdd eu cariad; ar y rhai a'i carant yn fwyaf mewnol yr effeithia ddyfnaf; effeithia lai ar y rhai a'i carant yn llai; tra y rhai drwg, tuallan i'r nefoedd, a boenir gan ei bresenoldeb. Pan ymddengys yr Arglwydd mewn unrhyw gymdeithas, Efe a ymddengys yno fel angel; ond Efe a





wahaniaethir oddiwrth angylion ereill gan y Dwyfoldeb a lewyrcha drwyddo.

56. Bodola y nefoedd pa le bynag y caiff yr Arglwydd ei gydnabod, ei gredu, a'i garu; a'r amrywiaeth addoliad yn codi o amrywiaeth daioni mewn gwahanol gymdeithasau, mantais yw ac nid niwed; am fod perffeithrwydd y nefoedd yn deilliaw o'r fath amrywiaeth. Anhawdd egluro yn ddeallus pa fodd y mae perffeithrwydd y nefoedd yn deilliaw o amrywiaeth, heb arfer geiriau cynefin i'r dysgedig; ond trwy eu help gellwn ddangos y modd y ffurfir UN perffaith trwy unoliaeth amryw ranau. Pob peth unigol a gyfansoddir o amryw ranau, oblegid peth unigol nad yw gyfansoddedig o amryw ranau nid yw ddim, am ei fod heb ffurf ac o ganlyniad heb ansawdd; ond pan fyddo gwrthrych unigol yn gyfansoddedig o amryw ranau, wedi eu trefnu mewn ffurf berffaith, a phob rhan yn cydgordio mewn cynghanedd ar rhanau ereill, yna y mae yn berffaith. Nawr, gwrthrych unigol yw y nefoedd cyfansoddedig o amryw ranau wedi eu trefnu yn y ffurf berffeithiaf; oblegid y ffurf nefolaidd yw y fwyaf perffaith o'r holl ffurfiau; eglur yw fod pob perffeithrwydd yn deilliaw o gydgordiad amrywiaethau, pan ystyriom yr holl brydferthwch a'r pleserau a effeithiant ar y synwyrau a'r meddwl; canys bodolant a deilliant nid o ffynonell amgen na chyngherdd a chynghanedd llawer o ranau cydgordiol, gyda'u gilydd neu yn olynol, ac nid oddiwrth un peth yn unig. Felly y dywedir fel diareb, "fod amrywiaeth yn swynol," a gwyddir fod swynion amrywiaeth yn dibynu ar ei ansawdd. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn gellir gweled y modd y mae perffeithrwydd yn deilliaw o amrywiaeth, hyd yn oed yn y nefoedd; canys y mae gwrthrychau y byd naturiol fel drych yn adlewyrchu gwrthrychau y byd ysbrydol.

57. Beth bynag a ddywedir am y nefoedd ellir ddywedyd am yr Eglwys, am mai yr Eglwys yw nefoedd yr Arglwydd ar y ddaear. Cynwysa yr Eglwys, fel y nefoedd, lawer o gymdeithasau, ac eto gelwir pob un yn Eglwys, ac y mae yn Eglwys, mor bell ag y rheola cariad a ffydd ynddi; ac yma eto gwna yr Arglwydd unoliaeth o amrywiaeth, ac un Eglwys o lawer; a pha beth bynag a ddywedir am yr Eglwys yn gyffredinol ellir ddywedyd am bob aelod yn neillduol, am fod yr Eglwys o fewn i ddyn ac nid o faes iddo; a phob dyn y mae yr Arglwydd yn bresenol ynddo trwy ffydd a chariad sydd Eglwys. Hefyd, beth bynag a ddywedir am angel ar nefoedd ynddo, ellir ddywedyd am ddyn a'r Eglwys ynddo, canys y mae efe yn eglwys yn y ffurf leiaf, fel y mae angel yn nefoedd yn y ffurf leiaf; yn wir gellir dywedyd am ddyn ar Eglwys ynddo ei fod yn nefoedd gydradd â'r angel, am fod dyn wedi eu greu fel y gallo fyned i'r nefoedd a dyfod yn angel; am hyny yr hwn a dderbynia ddaioni o'r Arglwydd sydd angel-ddyn.

Gall fod yn fuddiol nodi yr hyn sydd gyffredin i ddyn ac angel, a'r hyn sydd gan ddyn yn fwy nag angel. *Dyn fel yr angel* sydd a'i fewnolion wedi eu ffurfio yn ol delw y nefoedd, a daw yn ddelw y nefoedd i'r graddau y bydd mewn cariad a ffydd; *ond dyn yn fwy na'r angel* sydd a'i allanolion wedi eu ffurfio yn ol delw y byd, ac i'r graddau y bydd efe yn dda, bydd y byd ynddo yn îs-wasanaethgar i'r nefoedd; a bydd yr Arglwydd yn bresenol yn y naill a'r llall, fel yn Ei nefoedd Ei Hun; am ei fod Ef yn mhob man yn ei Drefn Ddwyfol ei Hun, oblegid Trefn yw Duw.

58. Gellwn sylwi yn olaf fod yr hwn sydd a'r nefoedd ynddo, ei bod nid yn unig yn ei bethau mwyaf a chyffredinol, ond hefyd yn y pethau lleiaf a mwyaf neillduol; a bod y pethau lleiaf ynddo yn ddelw o'r pethau mwyaf. Y rheswm yw mae ei gariad ei hun yw pob un, a'i fod yr un ansawdd a'r serch sydd yn ei reoli; oblegid y serch sydd yn rheoli a lifa fewn ac a drefna y manylion manaf, ac yn mhob man a dyn ei lun Ei Hun. Y serch sydd yn rheoli yn y nefoedd yw cariad at yr Arglwydd, oblegid yno cerir yr Arglwydd uwchlaw pob peth, ac Efe sydd OLL YN OLL. Efe a lifa i bawb a phob un o'r angylion, trefna hwynt ac argraffa ei lun Ei Hun arnynt, gan sicrhau lle y byddo Ef, fod y nefoedd yno. Felly, angel sydd nefoedd yn y ffurf leiaf, cymdeithas sydd nefoedd mewn ffurf fwy, ar holl gymdeithasau yn nghyd ydynt y nefoedd gyffredinol. Mae Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd wna y nefoedd, a'i bod yr Oll yn Oll yno, a welir uchod, r. 7—12.

### YR HOLL NEFOEDD, GYDA'U GILYDD, SYDD DEBYG I UN DYN.

59. Fod y nefoedd, gyda'u gilydd, yn debyg i un dyn, sydd ddirgelwch anadnabyddus eto yn y byd; ond y mae yn hollol adnabyddus yn y nefoedd; gwybod hyn, a'r pethau pendant a mwyaf neillduol a berthyn iddo, yw prif bwnc deallol yr angylion. Ar y wybodaeth hon y dibyna llawer o bethau ereill, nas gallent hebddi gael unrhyw syniad clir am danynt. Gan fod yr angylion yn gwybod fod y nefoedd a'r holl gymdeithasau nefol yn debyg i un dyn, am hyny y galwant y nefoedd yn DDYN MAWREDDOG A DWYFOL. Dwyfol, am mai Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd a wna y nefoedd. Gwel r. 7—12.

60. Y rhai sydd heb syniad iawn am bethau ysbrydol a nefol, ni allant ddeall mai y ffurf ddynol yw portread eu trefn a'u hundeb. Dychmygant mai y pethau daearol a materol, a gyfansoddant natur isaf dyn, a'u gwnant yn ddyn, ac nad yw dyn yn ddyn hebddynt; er nad yw dyn yn ddyn yn rhinwedd y pethau hyn, ond am y gall ddeall Gwirionedd ac ewyllysio Daioni, oblegid y pethau ysbrydol a nefol hyn a'u gwnant yn ddyn. Hefyd, gwyddir yn gyffredin, mae ansawdd y deall ar ewyllys yw ansawdd y dyn; a





gellid gwybod yn mhellach fod y corff materol wedi ei ffurffo i wasanaethu y deall a'r ewyllys yn y byd, ac ufuddhau iddynt yn nghylch isaf natur. Oherwydd hyn nid oes weithgarwch yn y corff o hono ei hun, ond gosodir ef i weithio yn hollol gan y deall a'r ewyllys; fel pa beth bynag a feddylia dyn, efe a'i traetha â'r tafod a'r genau, a pha beth bynag a ewyllysia, Efe a'i gwna â'r corff ac a'i aelodau, ac felly y deall a'r ewyllys sydd yn gweithio, ac nid y corff o hono ei hun. Eglur gan hyny, mai pwerau y deall a'r ewyllys a'u gwnant yn ddyn, a'u bod yn ffurf y corff, am eu bod yn gweithredu yn holl ranau manaf y corff, fel yr hyn sydd o fewn a'r hyn sydd o faes. Yn rhinwedd y galluoedd hyn, y gelwir dyn yn ddyn mewnol ac ysbrydol; a chyfryw ddyn yw y nefoedd yn y ffurf fwyaf a pherffeithiaf.

61. Y fath yw y syniad angylaidd am ddyn, ac am hyny ni sylwa yr angylion ar weithrediadau y corff, ond ar yr anian a'u hanog; canys galwant yr anian neu yr ewyllys y dyn ei hun, a'r deall hefyd, mor bell ag y gweithreda yn un â'r ewyllys.

62. Nid yw yr angylion yn gweled y nefoedd i gyd gyda'u gilydd yn ffurf dyn, am fod y nefoedd gyffredinol yn rhy fawr i neb ei gweled, ond gwelant weithiau gymdeithasau pell, o lawer o filoedd o angylion fel un, yn y ffurf hono; ac oddiwrth gymdeithas, fel rhan, casglant am y cyfan, yr hyn yw y nefoedd; oblegid yn y ffurf fwyaf perffaith, y cyfan sydd fel y rhanau, a'r rhanau fel y cyfan; yr unig wahaniaeth rhyngddynt yw gwahaniaeth maint. Felly yr angylion a ddywedant fod yr holl nefoedd yn ngolwg yr Arglwydd yn debyg i un gymdeithas i'w golwg hwy; ac fod y Duwdod, o'i drigfa ganolog a goruchel, yn gweled pawb gyda'u gilydd.

63. Am fod cyfansoddiad y nefoedd y fath, rheolir hi gan yr Arglwydd fel un dyn, ac felly fel un gwrthrych; oblegid gwyddir yn dda, er fod dyn yn gyfansoddedig o amrywiaethau aneirif, megis aelodau, ermigau a pherfeddion; a'u hadraniadau, y giau, y gewynau a'r gwythienau—eto y dyn, pan weithreda, Efe a weithreda fel Un Person. Y fath hefyd yw y nefoedd dan reolaeth ac arweiniad yr Arglwydd.

64. Yr holl bethau amrywiol hyn a gydweithredant yn y dyn, am nad oes dim ynddo na chyfrana i ryw fesur i les y cwbl. Y mae yr oll yn ddefnyddiol i'w holl ranau, a'r rhanau yn ddefnyddiol i'r oll; am fod yr oll yn gyfansoddedig o'r rhanau, a'r rhanau gyfansoddant yr oll, ac am hyny darparant dros eu gilydd, perthynant i'w gilydd, ac unant yn y fath ffurf, yn gyffredinol a neillduol, er mantais y cwbl; ac felly y gweithredant yn un. Tebyg yw cymdeithasau y nefoedd, unir pawb a'u gilydd yno yn ol y lles a wnant, a'r rhai na wnant les i'r gymdeithas, a deflir allan o'r nefoedd fel estroniaid. Bod o les yw dymuno daioni

ereill er mwyn daioni pawb; a bod yn ddiles yw dymuno daioni ereill, nid er mwyn daioni pawb, ond er mwyn hunan-les. Y rhai a weithredant felly, a garant eu hunain uwchlaw pob peth; ond y rhai a geisiant les pawb a garant yr Arglwydd uwchlaw pob peth; ac fel hyn y nefolion a weithredant yn un, nid o honynt eu hunain, ond o'r Arglwydd: oblegid golygant Ef fel Unig Ffynonell pob peth a'i Deyrnas fel y wladwriaeth sydd i'w lleshau. Hyn fedd-ylir wrth eiriau yr Arglwydd,—"Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder Ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg," Math. vi. 33. Ei gyfiawnder Ef yw Ei Ddaioni. Y rhai yn y byd a garant les eu gwlad yn fwy na'u heiddo eu hunain, a lles eu cymydog fel eu hunain, carant a cheisiant deyrnas yr Arglwydd yn y byd arall, am mai teyrnas yr Arglwydd sydd yn sefyll yno yn lle eu gwlad; a'r rhai a garant wneyd da i ereill, nid er mwyn hunan, ond er mwyn daioni, a garant eu cymydog, oblegid daioni yw y cymydog yn y byd arall. Y mae pawb o'r fath yn y DYN MAWREDDOG, sef, yn y nefoedd.

65. Gan fod y nefoedd gyffredinol yn debyg i un dyn, ac yn ddyn ysbrydol a dwyfol, hyd yn oed mewn ffurf, am hyny gwahan-iaethir y nefoedd, fel dyn, i aelodau a rhanau, ac enwir hwynt fel aelodau a rhanau dyn. Gŵyr yr angelion yn mha aelod y mae pob cymdeithas, a dywedant fod un gymdeithas yn y pen, neu ryw ran o'r pen; un arall yn y fynwes, neu ryw ran o'r fynwes; un arall yn y lwynau, neu ryw ran o'r lwynau; ac felly yn mlaen. Y drydedd nef neu yr uchaf a gyfansodda y pen hyd y gwddf; yr ail nef neu y ganol gyfansodda y fynwes i lawr hyd y lwynau a'r penlinoedd; a'r nefoedd gyntaf neu yr isaf a gyfansodda y cluniau i lawr hyd y gwadnau, ac hefyd y breichiau i lawr hyd y bysedd; oblegid y breichiau a'r dwylaw yw pellafion dyn, er wrth yr ochrau. Felly amlwg yw yn mhellach paham y mae tair nefoedd.

66. Yr ysbrydion islaw y nefoedd a synant yn fawr pan glywant ac y gwelant fod y nefoedd ar lawr fel ar lan; am y credant fel dynion yn y byd, mai fry yn unig y mae y nefoedd, ac ni wyddant fod ei safle fel yr aelodau, yr ermigau a'r perfeddion mewn dyn—rhai fry a rhai obry; a'i bod fel safle y rhanau yn mhob aelod, ermig a pherfeddyn—rhai o fewn a rhai o faes. Fel hyn cym-ysgfa yw eu syniadau am y nefoedd.

67. Rhaid yw gwybod y pethau hyn am y nefoedd fel y Dyn Mawreddog, mewn trefn i amgyffred yr hyn a ganlyn; hebddynt nis gellir cael unrhyw syniad clir am ffurf y nefoedd, nac am undeb yr Arglwydd â'r nefoedd, nac am undeb y nefoedd â dyn, nac am y dylifiad o'r byd ysbrydol i'r byd naturiol, na dim o gwbl am gyfatebiaeth. Trinir y pynciau hyn mewn trefn yn y tudalenau canlynol, a gwneir y sylwadau rhagarweiniol yma er taflu goleuni arnynt.





### Pob Cymdeithas yn y Nefoedd sydd debyg i Un Dyn.

68. Caniatawyd i mi weithiau weled fod pob cymdeithas yn y nefoedd yn debyg i un dyn, ac mewn ffurf ddynol. Llawer o ysbrydion, y rhai oeddynt ragrithwyr, yn medru ymrithio yn angylion goleuni a ymlithrasant unwaith i un o'r cymdeithasau angylaidd; a phan ysgarwyd hwy oddiwrth yr angylion, gwelais yr holl gymdeithas yn ymddangos fel un cruglwyth aneglur; ond yn raddol daeth i ffurf ddynol, aneglur ar y gyntaf, ond amlwg yn y diwedd. Y rhai oeddynt yn y dyn hwnw ac yn ei gyfansoddi oeddynt yn naioni y gymdeithas hono; ond y rhai nad oeddynt yn y dyn hwnw, nac yn ei gyfansoddi, oeddynt ragrithwyr; gwrthod-wyd hwy, ond cadwyd y lleill, ac fel hyn y cawsant eu gwahanu. Rhagrithwyr a lefarant yn dda ac a wnant yn dda, ond eu bryd sydd arnynt eu hunain yn mhob peth. Llefarant fel angylion am yr Arglwydd, a'r nefoedd, a chariad a bywyd nefol; gwnant yn dda hefyd, fel yr ymddangosont yr un mewn gair a gweithred; ond meddyliant fel arall, am nad ydynt yn credu dim, nac yn dymuno da i neb ond iddynt eu hunain; pan wnant dda, gan hyny, bydd er eu mwyn eu hunain, ac os bydd er mwyn ereill, bydd er eu dangos hwy, ac felly eto er eu mwyn eu hunain.

69. Caniatawyd i mi hefyd weled cymdeithas angylaidd gyfan yn ymddangos fel Un Bod mewn ffurf ddynol, pan fyddo yr Arglwydd yn amlwg bresenol yn eu plith. Gwelais yn uchel tua'r dwyrain, fath o gwmwl gwyn-goch, a ser bychain yn ei am-gylchu. Yr oedd yn disgyn, ac wrth ddisgyn daeth yn raddol yn fwy amlwg, gan ymddangos o'r diwedd mewn ffurf ddynol ber-ffaith. Angylion oedd y ser bychain o gylch y cwmwl, yn ym-ddangos felly yn rhinwedd goleuni oddiwrth yr Arglwydd.

70. Ond sylwer, er fod pawb yn yr un gymdeithas nefol, pan eu gwelir gydâ'u gilydd, yn ymddangos fel Un Bod mewn ffurf ddynol, eto gwahaniaetha ffurf pob cymdeithas; gwahaniaethant fel gwynebau gwahanol bersonau yn yr un teulu. Dangosir yr achos o hyn uchod yn r. 47, sef, eu bod yn gwahaniaethu yn ol amrywiaethau eu daioni; am mai daioni benderfyna y ffurf. Y cymdeithasau sydd yn nghanol y nefoedd uchaf a mwyaf mewnol, a ymddangosant yn y ffurf ddynol fwyaf perffaith a hardd.

71. Teilwng yw o sylw, fod ffurf ddynol unrhyw gymdeithas nefol yn fwy perffaith yn ol lliosogiad ac unol gydweithrediad ei haelodau; am fod amrywiaeth mewn trefn nefol, yn cynyrchu perffeithrwydd fel y dangoswyd uchod, r. 56, a lliosawgrwydd yn cynyrchu amrywiaeth. Pob cymdeithas nefol, hefyd, a gynydda beunydd mewn rhif, ac fel y cynydda, daw yn fwy perffaith; gwna hyn y nefoedd gyffredinol yn fwy perffaith, oblegid cymdeithasau a gyfansoddant y nefoedd. Gan fod cynydd mewn rhif yn per-ffeithio y nefoedd, gwelir mor fawr y twyllir y rhai a gredant y

cauir y nefoedd pan ddaw yn llawn. I'r gwrthwyneb, ni chauir y nefoedd byth, canys pa fwyaf ei llawnder, mwyaf ei pherffeithrwydd; am hyny nid oes dim y dymuna yr angylion yn daerach am dano na derbyn rhai newydd.

72. Pob cymdeithas, gyda'u gilydd, a ymddengys yn y ffurf ddynol, am fod y nefodd gyffredinol yn y ffurf hono, fel y dangoswyd yn y benod flaenorol; ac oblegid, yn y ffurf berffeithiaf, yr hon yw ffurf y nefoedd, y rhanau a ddygant ddelw y cyfan, a'r lleiaf a arddengys y mwyaf. Y rhanau lleiaf o'r nefoedd yw y cymdeithasau a'i cyfansoddant, a bod pob un o'r rhai hyn yn nefoedd fach a welir uchod, r. 51—58. Bythol ffyna y tebygrwydd hwn, am fod daioni pawb yn y nefoedd yn tarddu o un cariad, ac felly o un ffynon. Yr un cariad o'r hwn y tardd daioni pawb yn y nefoedd yw cariad o'r Arglwydd at yr Arglwydd; ac felly y mae y nefoedd gyffredinol yn ddelw gyffredinol o hono Ef, pob cymdeithas yn llai cyffredinol, a phob angel yn ddelw neillduol. Gwel yr hyn a ddywedwyd uchod ar y pwnc, r. 58.

### Felly, y mae pob Angel mewn ffurf Ddynol berffaith.

73. Yn y ddwy benod flaenorol dangoswyd fod y nefoedd gyda'u gilydd yn debyg i un dyn, a'r un modd pob cymdeithas o'r nefoedd; ac oddiwrth gadwen yr achosion a ddangoswyd, y mae yn canlyn hefyd fod pob angel mewn ffurf ddynol. Fel y mae y nefoedd yn ddyn yn y ffurf fwyaf, a chymdeithas o'r nefoedd yn ddyn mewn ffurf lai, felly y mae angel yn ddyn yn y ffurf leiaf; oblegid yn y ffurf fwyaf perffaith, yr hon yw ffurf y nefoedd, y mae delw o'r cyfan yn mhob rhan, a delw pob rhan yn y cyfan. Bodola y ddelw hon am fod y nefoedd yn gyfundeb: oblegid yr holl nefoedd a gyfrana yr oll a fedd i bob angel, a phob angel a dderbyn yr oll a fedd oddiwrth yr holl nefoedd. Felly y mae yr angel yn nefoedd yn y ffurf leiaf am ei fod yn derbyn pob peth sydd yn y nefoedd oll. Dangoswyd hyn uchod mewn erthygl neillduol. Dyn hefyd pan dderbynia y nefoedd oll, sydd dderbynfa angylaidd, sydd nefoedd, ac angel. Gwel r. 57. Desgrifir hyn yn y Datguddiad, yn y geiriau hyn, "Ac Efe a fesurodd ei mur hi yn gant a phedwar cyfudd a deugain, wrth fesur dyn, hyny yw, eiddo yr angel," xxi. 17. Jerusalem yma yw Eglwys yr Arglwydd, ac mewn ystyr uwch y nefoedd: Y *mur* yw gwirionedd yn ei hamddiffyn rhag ymosodiadau cyfeiliornadau a drygau; *cant a phedwar cyfudd a deugain*, a dengys swm ei daioni a'i gwirionedd; *mesur* a ddengys ei hansawdd; *dyn* yw gwrthrych yr holl nodweddau ysbrydol hyn, am hyny y mae y nefoedd ynddo; a chan fod angel hefyd yn ddyn yn rhinwedd yr un nodweddau, am hyny y dywedir, "wrth fesur dyn, hyny yw, eiddo yr angel." Dyna ystyr ysbrydol y geiriau hyn, ac heb yr ystyr hono, pwy fedr





ddeall beth a ddeallir wrth fur y Jerusalem Sanctaidd ei bod "yn fesur dyn, hyny yw, eiddo yr angel."

74. Ond cadarnhaf hyn trwy brofiad. Gwelais filoedd o weithiau fod angylion yn y ffurf ddynol, neu yn ddynion; bum yn ymddiddan â hwynt fel dyn gyda dyn, weithiau âg un ei hunan, ac weithiau â llawer mewn cwmpeini, ac ni welais ddim yn eu ffurf yn wahanol i ddyn. Bum yn synu weithiau at hyn, a rhag y dywedir ei fod yn dwyll, neu yn weledigaeth rithiol, caniatawyd i mi eu gweled pan yn gyflawn ar ddihun, pob synwyr corfforol yn gweithio a minau mewn cyflwr i synied yn glir. Dywedais hefyd yn fynych wrthynt fod dynion yn y byd Cristionogol mor anwybodus am angylion ac ysbrydion, gan gredu mai meddyliau heb ffurf ydynt, neu egwyddorion meddyliol yn unig, heb syniad am danynt ond fel rhywbeth awyrawl byw; a chan na phriodolant i ysbrydion ddim dynol oddieithr egwyddor feddyliol, credant nas gallant weled, am nad oes ganddynt lygaid; na chlywed am nad oes ganddynt glustiau; na llefaru am nad oes ganddynt enau na thafod. Attebodd yr angylion, eu bod yn gwybod fod y fath gredo i'w chael yn y byd, a'i bod yn ffynu yn mhlith dysgedigion, ac, hefyd, er eu syndod, yn mhlith pregethwyr. Rhoddasant y rheswm am hyn, fod y dysgedigion, a fuont enwog arweinwyr, ac a goleddasant yn gyntaf y fath syniadau am angylion ac ysbrydion, eu bod yn meddwl am danynt oddiar egwyddorion cnawdol y dyn allanol; a bod y rhai a feddyliant oddiar yr egwyddorion hyny, ac nid oddiar oleuni mewnol ar syniadau cyffredinol cynhenid i bob un, y rhaid iddynt fabwysiadu y fath ffugiau, am nas gall egwyddorion cnawdol y dyn allanol, amgyffred dim ond sydd mewn natur—dim sydd uwchlaw natur, ac felly dim o gwbl am y byd ysbrydol. Oddiwrth yr awdurdodau hyn, fel arweinwyr, y lledwyd gausyniadau am yr angylion i ereill, nad oeddynt yn meddwl drostynt eu hunain, ond o'u harweinwyr: y rhai a feddyliant yn gyntaf o ereill, ac a fabwysiadant y fath feddyliau fel egwyddorion ffydd, a'u dal yn y deall, anhawdd iddynt eu gadael, ac am hyny mynych y gwnant eu cadarnhau. Dywedodd yr angylion yn mhellach, nad yw y syml mewn ffydd a chalon yn coleddu y fath syniadau am angylion, ond yn meddwl am danynt fel dynion nefol; oherwydd nad yw dysg wedi diffodd y syniad cynhenid a gawsant o'r nefoedd, ac nas gallant synied am ddim heb ffurf; felly dangosir angylion fel dynion yn yr eglwysi, mewn arluniau a cherfiadau. Am y fath syniad cynhenid o'r nefoedd y dywedasant mae y Dylanwad Dwyfol ydyw yn dylifo i fewn i'r rhai a feddent wir ffydd a bywyd da.

75. Oddiar fy holl brofiad, wedi parhau yn awr am lawer o flynyddau, gallaf ddatgan a sicrhau, fod y ffurf angylaidd yn mhob peth yn ddynol; a bod gan angylion wynebau, llygaid, clustiau,

bronau, breichiau, dwylaw a thraed; eu bod yn gweled, clywed, ac yn ymddiddan â'u gilydd; ac yn fyr nid ydynt ddiffygiol o ddim a fedd dyn, oddieithr y corff materol. Gwelais hwynt yn eu goleu eu hunain, dysgleiriach raddau lawer, na goleu canolddydd y byd hwn; ac yn y goleu hwnw sylwais ar holl ranau eu gwynebau yn fwy neillduol a chlir nag y gwnes erioed ar wynebau dynion ar y ddaear. Caniatawyd i mi hefyd weled angel o'r nefoedd fwyaf mewnol. Tecach a harddach oedd ei wyneb na gwynebau angylion y nefoedd îs. Creffais yn fanwl arno, ac yr oedd ganddo ffurf ddynol o'r fath berffeithiaf.

76. Ond sylwer, nas gall dyn weled angylion â llygaid y corff, ond yn unig â llygaid yr ysbryd sydd o'i fewn; am fod holl synhwyrau y corff yn y byd naturiol, ond yr ysbryd sydd yn y byd ysbrydol, a thebyg a wel ei debyg, am eu bod o'r un tarddiad. Heblaw hyn, gŵyr pawb fod y synwyr o weled, sef y llygad mor bwl, fel nas gall weled gwrthrychau manaf natur heb help chwydd-wydrau; felly, llawer llai y gall ganfod gwrthrychau uwchlaw cylch natur, megis y mae holl bethau y byd ysbrydol; er hyny gellir eu gweled gan ddyn pan godir ef o'i weledigaeth corfforol, ac yr agorir llygaid ei ysbryd. Gwneir hyn mewn moment, pan wêl yr Arglwydd yn dda i ddyn weled pethau y byd ysbrydol; yr adeg hon ni ŵyr lai nai fod yn eu gweled â llygaid y corff. Fel hyn y gwelwyd angylion gan Abraham, Lot, Manoah a'r proffwydi; ac fel hyn y gwelwyd yr Arglwydd gan Ei ddysgyblion wedi Ei Adgyfodiad; ac fel hyn, hefyd, y gwelwyd angylion genyf finau. Gelwid y proffwydi yn *weledyddion* a *dynion yr agorwyd eu llygaid* (1 Sam. ix. 9; Num. xxiii. 3), am eu bod yn gweled â llygaid yr ysbryd. Gelwyd hyn yn agoriad llygaid, megis y darllenwn am was Eliseus, "Ac Eliseus a weddiodd ac a ddywedodd, O Arglwydd, agor, attolwg, ei lygaid ef, fel y gwelo. A'r Arglwydd a agorodd lygaid y llanc; ac efe a edrychodd: ac wele y mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanllyd o amgylch Eliseus," 2 Bren. vi. 17.

77. Yr ysbrydion da, yr ymddiddenais â hwynt ar y pwnc hwn, a ofidient yn eu calon fod y fath anwybodaeth yn ffynu yn yr Eglwys am natur y nefoedd, ac am ysbrydion ac angylion; a dymunent mewn soriant arnaf ddatgan mai nid meddyliau heb ffurf ydynt hwy, na rhithiau awyrawl, ond dynion mewn ffurf, a'u bod yn gweled, clywed a theimlo mor berffaith a dynion yn y byd.

### Y Nefoedd Gyffredinol a phob Rhan o Honi sydd debyg i Ddyn, am ei Bod yn Bodoli o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd.

78. Canlyna oddiwrth yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol fod y nefoedd gyffredinol a phob rhan o honi yn debyg i ddyn, am ei





bod yn bodoli o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd; dangoswyd I. *Mai yr Arglwydd yw Duw y nefoedd.* II. *Mai Dwyfoldeb yr Arglwydd wna y nefoedd.* III. *Fod y nefoedd yn cynwys cymdeithasau anneirif; fod pob cymdeithas yn nefoedd mewn ffurf lai; a phob angel yn y ffurf leiaf.* IV. *Fod yr holl nefoedd gyda'u gilydd yn debyg i un dyn.* V. *Fod pob cymdeithas yn y nefoedd, hefyd, yn debyg i un dyn.* Ac VI. *Felly fod pob angel mewn ffurf ddynol berffaith.* Y gwirioneddau hyn a brofant fod yr Ysbryd Dwyfol mewn ffurf ddynol, am mai yr Ysbryd Dwyfol wna y nefoedd; yr Ysbryd Dwyfol hwn yw Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd. Fod Dynoliaeth yr Arglwydd yn Ddwyfol, ac nid dynol yn unig, fel y cred yr Eglwys heddyw, a brofir hefyd yn y Gyfrol ar "Y Jerusalem Newydd a'i Hathrawiaeth nefol." r. 298.

79. Fod hyn yn ffaith a amlygwyd i mi trwy lawer o brofiad, o'r hyn yn awr y dywedaf ran. Nid oes angel yn yr holl nefoedd byth yn synied am yr Ysbryd Dwyfol mewn unrhyw ffurf ond Dynol; a pheth sydd yn rhyfedd, preswylwyr y nefoedd uchaf nis gallant *feddwl* am yr Ysbryd Dwyfol yn amgen. Yr anghenrheidrwydd hwn a gyfyd o'r Dylifiad Dwyfol yn treiddio iddynt, ac hefyd o ffurf y nefoedd, yn ol yr hon y lledir eu meddyliau; oblegid y mae holl feddyliau yr angylion yn lledu o'u cwmpas i'r nefoedd, ac yn ol eangder y lledaeniad y bydd eu deall a'u doethineb. Felly y mae pawb yn y nefoedd yn cydnabod yr Arglwydd, am mai ynddo Ef yn unig y mae y Ddynoliaeth Ddwyfol. Nid yn unig dywedwyd y pethau hyn wrthyf gan angylion, ond rhoddwyd hefyd i mi eu canfod pan ddyrchefid fi i gylch mewnol y nefoedd. Felly, amlwg yw pa ddoethaf y byddo yr angylion, mwyaf amlwg y canfyddant fod Duw yn ffurf dyn, ac am hyny yr ymddengys yr Arglwydd iddynt; canys y mae yr Arglwydd yn ymddangos mewn ffurf Ddwyfol angylaidd, yr hon yw y ffurf ddynol, i'r rhai a gydnabyddant, ac a gredant mewn Duwdod gweledig; ond ddim i'r rhai a gydnabyddant, ac a gredant mewn Duwdod Anweledig, oblegid gall y blaenaf weled eu Duw, ond nis gall yr olaf.

80. Nid oes gan yr angylion syniad am Dduwdod Anweledig—yr hwn a alwant yn Dduw heb ffurf—ond am Dduwdod gweledig mewn ffurf ddynol; am hyny y dywedant yn gyffredin, mai yr Arglwydd yn unig sydd ddyn, a'i bod hwythau yn ddynion o hono Ef; a bod pob un yn ddyn i'r graddau y derbynia yr Arglwydd. Wrth dderbyn yr Arglwydd y meddyliant derbyn y daioni a'r gwirionedd a ddylifant o hono, am fod yr Arglwydd yn ei Ddaioni ei Hun, ac yn ei wirionedd ei Hun. Galwant hyn hefyd yn ddeall a doethineb, a dywedant y gŵyr pawb mai deall a doethineb, wnant ddyn, ac nid y gwyneb yn unig. Y gwirionedd hwn sydd amlwg yn angylion y nefoedd fewnol, y rhai sydd mewn daioni a gwirionedd o'r Arglwydd, ac felly mewn doethineb a

deall; y maent o ganlyniad, yn y ffurf ddynol fwyaf perffaith a hardd, tra angylion y nefoedd is mewn ffurf ddynol llai perffaith a hardd. Ond i'r gwrthwyneb y mae yn uffern—y trigolion yno, ac edrych arnynt yn ngoleu y nefoedd—nid ymddangosant fel dynion o gwbl, ond fel anghenfilod: am nad ydynt mewn daioni a gwirionedd, ond mewn drygedd a thwyll, ac felly yn y gwrthwyneb i ddeall a doethineb; am hyny ni elwir eu bywyd yn fywyd, ond angeu ysbrydol.

81. Gan fod y nefoedd oll a phob rhan o honi yn debyg i ddyn, am y dibyna ei bodolaeth ar Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, am hyny y dywed yr angylion eu bod *yn yr Arglwydd:* a rhai eu bod yn *Ei gorff Ef:* wrth hyn y meddyliant eu bod mewn cariad at yr Arglwydd, megis y dysg yr Arglwydd ei Hun gan ddywedyd, "Arhoswch ynof fi a mi ynoch chwi. Megis na all y ganghen ddwyn ffrwyth o honi ei hun, onid erys yn y winwydden; felly ni ellwch chwithau, onid arhoswch ynof fi. Arhoswch yn fy nghariad i. Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad" Ioan xv. 4—10.

82. Gan mai y fath yw syniad y nefoedd am Dduw, pob dyn a dderbynia unrhyw ddylifiad o'r nefoedd, a feddylia am Dduw mewn ffurf ddynol. Meddyliai yr henafiaid fel hyn, a'r rhai diweddar hefyd, tufewn a thufaes i'r Eglwys. Personau syml o feddwl a syniant am Dduw fel Dyn a dysgleirdeb o'i amgylch; ond y syniad greddfol hwn a ddiffoddir yn mhob un a wrthyd y dylifiad nefolaidd, trwy falchder y deall, neu trwy fywyd drwg. Y rhai a'u diffoddant trwy falchder y deall nid ydynt foddlawn i gydnabod neb ond Duw anweledig: a'r rhai a'i diffoddant trwy fywyd drwg nid ydynt foddlawn i gydnabod unrhyw Dduw; nis gwyddant chwaith fod y fath syniad greddfol yn bod, am nad yw yn bod mwyach gyda hwy; ac eto dyma y wir Egwyddor Nefolaidd sydd yn llifo yn gyntaf o'r nefoedd i ddyn, am fod dyn wedi ei eni i'r nefoedd, ac nid â neb i'r nefoedd heb syniad am y Duwdod.

83. Y rhai sydd heb wir syniad am y nefoedd, sef, am y Duwdod o'r hwn y bodola y nefoedd, nis gellir eu codi i drothwy isaf y Deyrnas Nefol; mor fuan ag y dynesant, teimlant wrthwynebiad a gwrthdarawiad cryf, am nad yw eu mewnolion, y rhai a ddylent fod yn agored i dderbyn y nefoedd, yn y ffurf nefolaidd, cauedig ydynt; a mwy cauedig fel y dynesant at y nefoedd. Dyna ran y rhai a wadant yr Arglwydd, a'r rhai, fel y Sosiniaid, a wadant ei Dduwdod; ond beth yw rhan y rhai a anwyd tuallan i'r Eglwys, y rhai nid adwaenant yr Arglwydd am nad yw y Gair ganddynt, dywedir ychydig ar hyn yn fuan.

84. Fod gan yr hynafiaid syniad am ddynoliaeth Duw, sydd eglur oddiwrth ymddangosiad Duw i Abraham, Lot, Josua, Gideon, Manoah, ei wraig, ac ereill (er gweled Duw fel dyn) eto





addolent Ef fel Duw y Bydysawd, gan Ei alw yn Jehofah, a Duw y nefoedd a'r ddaear. Mai yr Arglwydd welwyd gan Abraham a ddysg Efe ei Hun yn Ioan viii. 56; Efe hefyd welwyd gan y lleill, fel y mae y mae yn eglur oddiwrth eiriau yr Arglwydd, pan y dywed am y Tad. "Ond ni chlywsoch chwi ei lais Ef un amser, ac ni welsoch ei wedd Ef," Ioan i. 18; v. 37.

85. Y rhai farnant bob peth oddiar egwyddorion cnawdol y dyn allanol, anhawdd iddynt amgyffred fod Duw yn Ddyn; am nas gall y dyn cnawdol feddwl am Dduw ond o'r byd a'r pethau sydd yn y byd; am hyny nis gall efe feddwl am Ddyn Dwyfol ac Ysbrydol, ond fel am ddyn corfforol a naturiol: felly y tybia, pe byddai Duw yn Ddyn, y byddai mor fawr a'r Bydysawd; a phe, fel Dyn, y rheolai y nefoedd a'r ddaear, y gwnai hyny trwy lawer o swyddogion, yn ol dull breninoedd byd. Pe dywedid wrtho, nad oes yn y nefoedd eangder lle fel yn y byd, ni wnai ei amgyffred: am fod yr hwn sydd yn meddwl o natur a'i goleu yn unig, yn meddwl am eangder ysbrydol, fel yr hwn a wel: ond camgymeriad mawr yw meddwl fel hyn am y nefoedd. Nid yw eangder yn y nefoedd yn debyg i eangder yn y byd, am fod eangder yn y byd yn derfynedig, ac felly yn fesuradwy; ond eangder yn y nefoedd nid yw derfynedig, ac felly nis gellir ei fesur. Dywedwn ragor am eangder yn y nefoedd, pan ddeuwn i son am le ac amser yn y byd ysbrydol; ond gŵyr pawb pa mor bell y gall y llygad weled—hyd yr haul a'r ser o bellder mor anferth—a'r hwn a feddylia yn ddyfnach a ŵyr hefyd, fod y llygad mewnol, sef llygad y meddwl yn cyrhaedd yn mhellach byth, ac felly y rhaid i lygad mwy mewnol gyrhaedd yn mhellach drachefn: beth gan hyny raid fod llygad Duw—y mwyaf mewnol a'r uchaf o bawb? Gan fod meddyliau yn gallu ymeangu fel hyn, felly (fel y dangoswyd eisioes), holl bethau y nefoedd a gyfrenir i bob un yno, ac o ganlyniad holl bethau Duw yr hwn a wna y nefoedd, ac a'i lleinw.

86. Trigolion y nefoedd a synant, fod dynion yn tybied eu hunain yn ddeallus, tra yn meddwl am Dduw fel Bod anweledig, hyny yw, fel Bod anamgyffredadwy dan unrhyw ffurf, gan alw ereill a feddyliant yn wahanol yn aneallus a ffol; y gwrthwyneb yw y gwir. Dywed yr angylion fod y rhai a dybiant eu hunain yn ddeallus am eu bod yn meddwl nad oes i Dduw ffurf, y ceid hwynt, mewn arholiad, yn gosod Natur yn lle Duw; rhai o honynt natur fel y mae yn amlwg i'r llygad, a rhai o honynt Natur yn ei dirgelfanau anweledig; a'u bod mor ddall fel na wyddant beth yw Duw, beth yw angel, beth yw ysbryd, beth yw yr enaid sydd i fyw ar ol angeu, beth yw bywyd y nefoedd mewn dyn, a llawer o bethau ereill o bwys i'w deall; tra yr holl bethau hyn yn wybyddus i fesur i'r rhai a alwant yn ffol: canys eu syniad hwy yw, fod eu

Duw yn ffurf Dyn; fod angel yn ddyn nefolaidd; fod yr enaid sydd i fyw ar ol angeu yn debyg i angel; ac mai bywyd y nefoedd mewn dyn yw cadw gorchymynion Duw. Y rhai hyn gan hyny a eilw yr angylion yn ddeallus, ac addas i'r nefoedd, ond y lleill, i'r gwrthwyneb, yn aneallus.

### Fod Cyfatebiaeth rhwng pob peth yn y nefoedd a phob peth perthynol i ddyn.

87. Ni wyddir heddyw beth yw cyfatebiaeth, ac amryw achosion sydd am yr anwybodaeth; ond y prif achos yw, fod dyn wedi symud ei hun o'r nef trwy hunan a bydol gariad: canys yr hwn sydd yn caru ei hunan a'r byd uwchlaw pob peth, a ofala yn unig am bethau bydol—am eu bod yn lliniaru y synhwyrau allanol, ac yn boddio y dymher naturiol—ac ni ofala ddim am bethau ysbrydol, sydd yn lliniaru y synhwyrau mewnol, ac yn boddio y meddwl rhesymol, y fath ddynion, gan hyny, a wrthodant bethau ysbrydol gan ddywedyd eu bod yn rhy uchel i'w hamgyffred. Fel arall yr oedd gyda'r henafiaid, oblegid iddynt hwy, gwyddor y cyfatebion oedd y benaf o'r holl wyddorau. Casglent ddysg a doethineb drwyddi, a'r rhai oeddynt yn yr Eglwys a ddalient gymundeb â'r nefoedd drwyddi; canys gwyddor angylaidd yw gwyddor y cyfatebion. Y bobl henaf, y rhai oeddynt ddynion angylaidd, a feddylient yn hollol, fel yr angylion oddiar gyfatebiaeth, ac felly ymddiddanent hefyd âg angylion, a dysgid hwynt yn fynych gan bresenoldeb amlwg yr Arglwydd; ond y wyddor hono sydd yn awr mor llwyr ar goll, fel na wyddir beth yw cyfatebiaeth.

88. Heb ddirnad cyfatebiaeth, anmhosibl yw gwybod dim yn glir am y byd ysbrydol, a'i ddylifiad i'r byd naturiol; am yr ysbrydol mewn cydmariaeth i'r naturiol; am ysbryd dyn a elwir yr enaid; am weithrediad yr enaid ar y corff; ac am gyflwr dyn wedi marw; am hyny anghenrhaid yw egluro natur cyfatebiaeth, gan barotoi y ffordd i'r hyn a ganlyn.

89. Dangosir yn gyntaf beth yw cyfatebiaeth. Cyfateba yr holl fyd naturiol i'r byd ysbrydol, nid yn unig yn y cyfan, ond yn mhob rhan; am hyny beth bynag a fodola yn y byd naturiol sydd *gyfatebol* i'r hyn y deillia o hono yn y byd ysbrydol; oblegid bodola a chynelir y byd naturiol o'r byd ysbrydol, bron fel y bodola effaith o'i achos. Pob peth o dan yr haul, yn derbyn ei oleu a'i wres, a elwir y byd naturiol; ond y byd ysbrydol yw y nefoedd, a phethau y byd hwnw yw yr holl bethau a fodolant yn y nefoedd.

90. Gan fod dyn yn nefoedd ac hefyd yn fyd ynddo ei hun, am hyny y mae y byd ysbrydol a naturiol ynddo ef. Ei fewnolion, perthynol i'w feddwl, i'w ddeall a'i ewyllys gyfansoddant ei fyd





ysbrydol; ond ei allanolion perthynol i'w gorff, i'w synhwyrau a'i actau, gyfansoddant ei fyd naturiol; beth bynag, gan hyny, a fodola yn ei fyd naturiol, neu ei gorff daearol, gyda ei synhwyrau a'i actau, a elwir yn gyfatebion ei ddeall a'i ewyllys perthynol i'w feddwl neu ei gorff ysbrydol.

91. Gellir gweled natur cyfatebiaeth yn y gwyneb dynol. Mewn gwyneb na ddysgwyd i ragrithio, holl serchiadau y meddwl a ddangosant eu hunain mewn ffurf naturiol, am hyny, y gelwir y gwyneb *yn ddangoseg o'r meddwl.* Fel hyn y mae byd ysbrydol dyn yn weledig yn ei fyd naturiol. Yn yr un modd, syniadau ei ddeall a amlygant eu hunain yn ei leferydd, a phenderfyniadau ei ewyllys yn ystumiau ei gorff. Pob peth gan hyny a wneir yn y corff, ai yn y gwyneb, y lleferydd, neu yr ystumiau a elwir yn *gyfatebion.*

92. Oddiwrth ddeddf cyfatebiaeth gellir gweled yn glir y gwahaniaeth rhwng y dyn mewnol a'r allanol,—y mewnol a elwir y dyn ysbrydol, a'r allanol a elwir y dyn naturiol; a'r naill sydd mor wahanol i'r llall ag yw y nefoedd i'r byd. Pob peth a wneir ac a fodola yn y dyn allanol neu naturiol, a wneir ac a fodola o'r dyn mewnol neu ysbrydol.

93. Cyn belled am gyfatebiaeth y dyn mewnol neu ysbrydol a'r dyn allanol neu naturiol. Triniwn yn awr gyfatebiaeth yr holl nefoedd a phob rhan o'r dyn.

94. Dangoswyd fod y nefoedd gyffredinol yn debyg i un dyn, a'i bod yn ffurf dyn, ac am hyny yn cael ei galw yn Ddyn Mawreddog. Dangoswyd hefyd fod y cymdeithasau angylaidd gyfansoddant y nefoedd, wedi eu trefnu fel yr aelodau, yr ermigau, a'r perfeddion mewn dyn; rhai yn y pen, rhai yn y fron, rhai yn y breichiau, a rhai yn mhob rhan neillduol o'r aelodau hyn. (Gwel r. 59—72.) Y mae y cymdeithasau, gan hyny, yn unrhyw aelod yn y nefoedd yn cyfateb i'r un aelod yn y dyn: er engraifft, y cymdeithasau sydd yn y pen yn cyfateb i'r pen yn y dyn; y rhai sydd yn y fron i'r fron yn y dyn; y rhai sydd yn y breichiau i'r breichiau yn y dyn; ac felly am yr oll. O'r gyfatebiaeth hon y cynelir dyn, canys cynelir ef yn hollol o'r nefoedd.

95. Dangoswyd eisioes fod y nefoedd yn cael ei gwahaniaethu i ddwy deyrnas, gelwir un y deyrnas nefol, a'r llall y deyrnas ysbrydol. Y Deyrnas Nefol, yn gyffredinol, sydd yn cyfateb i'r Galon, ac i bob peth perthynol i'r galon yn yr holl gorff; a'r Deyrnas Ysbrydol yn cyfateb i'r Ysgyfaint, a phob peth perthynol i'r ysgyfaint yn yr holl gorff. Y galon a'r ysgyfaint a wnant ddwy deyrnas mewn dyn. Rheola y galon ynddo trwy y rhedweliau a'r gwythienau; a'r ysgyfaint trwy y giau gewynol ac ysgogol, a chydunant yn mhob grym a gweithred. Yn myd ysbrydol pob dyn, yr hwn a elwir ei ddyn ysbrydol, y mae hefyd

ddwy deyrnas; teyrnas yr ewyllys, a theyrnas y deall. Yr ewyllys a reola trwy gariad at ddaioni, a'r deall trwy gariad at wirionedd, cyfateb hefyd wna y teyrnasoedd hyn i deyrnasoedd y galon a'r ysgyfaint yn y corff. Tebyg ydyw yn y nefoedd. Y deyrnas nefol yw ewyllys y nefoedd, a chariad reola yn y deyrnas hono; a'r deyrnas ysbrydol yw deall y nefoedd, ac yno gwirionedd reola. Dyma gyfatebion gwaith y galon a'r ysgyfaint mewn dyn, ac am hyny y mae y *galon*, yn y Gair yn arwyddo yr ewyllys, ac hefyd y daioni a gyfyd o gariad; ac *anadl* yr ysgyfaint a arwydda y deall, ac hefyd y gwirionedd a gyfyd o ffydd. Am hyny y priodolir y serchiadau i'r galon, er nad ydynt ynddi, nac yn deilliaw o honi.

96. Cyfatebiaeth dwy deyrnas y nefoedd a'r galon a'r ysgyfaint yw cyfatebiaeth fwyaf cyffredinol y nefoedd â dyn; ond y mae cyfatebiaeth mwy neillduol â phob aelod, ermig a pherfeddyn, y cawn yn awr ei desgrifio. Yn y Dyn Mawreddog, sef y nefoedd, y rhai sydd yn y pen a ragorant ar bawb ereill yn mhob daioni; canys y maent hwy mewn cariad, tangnefedd, diniweidrwydd, doethineb a deall, ac o ganlyniad mewn llawenydd a dedwyddwch. Y rhai hyn a lifant i ben y dyn ac o'r pen i bob peth perthynol iddo gan gyfateb i hyny. Y rhai yn y Dyn Mawreddog, neu y nefoedd, sydd yn y fynwes, sydd mewn cariad a ffydd, ac a lifant i fynwes dyn, gan gyfateb iddi. Y rhai yn y Dyn Mawreddog, neu y nefoedd, sydd yn y lwynau, sydd mewn cariad priodasol; y rhai yn y traed sydd yn naioni isaf y nefoedd, a elwir daioni ysbrydol—naturiol; y rhai yn y breichiau a'r dwylaw, sydd yn ngrym gwirionedd deilliedig o ddaioni; y rhai yn y llygaid, ragorant mewn deall; y rhai yn y clustiau, mewn sylw ac ufudd-dod; y rhai yn y ffroenau, mewn dirnadaeth; y rhai yn y genau a'r tafod, mewn siarad oddiar ddeall a dirnadaeth; y rhai yn yr arenau a ragorant yn y gwirionedd sydd yn chwilio, gwahaniaethu a chywiro; y rhai yn yr afu a'r perfeddion (pancreas ar spleen) yn fedrus mewn amryw foddau i buro daioni a gwirionedd. Felly am ranau eraill y Dyn Mawreddog, llifant oll i ranau tebyg yn y dyn, gan gyfateb iddynt; ond dilifiad y nefoedd sydd i swyddau a defnyddioldeb yr aelodau; eu defnyddioldeb sydd o'r byd ysbrydol, yn cymeryd ffurf yn y byd naturiol, ac yn ymddangos mewn effeithiau. Dyma darddiad cyfatebiaeth.

97. Aelodau, ermigau a pherfeddion dyn, pan enwir yn y Gair, a olygant bethau tebyg, am fod ystyr yn ol cyfatebiaeth i bob dywediad yn y Gair. Y *pen*, gan hyny, a arwydda ddeall a doethineb; y *fynwes*, gariad; y *lwynau*, cariad priodasol; y *breichiau* a'r *dwylaw*, grym gwirionedd; y *traed*, y gallu naturiol isaf; y *llygaid*, dealltwriaeth; y *ffroenau*, dirnadaeth; y *clustiau*, ufudd-dod; yr *arenau*, pureiddiad y gwirionedd; ac felly am y gweddill. Felly, arferir mewn siarad cyffredin, i ddweyd am ddyn deallus a





doeth fod ganddo "ben"; am un cariadus, ei fod yn "gyfaill mynwesol"; am un ragora mewn dirnadaeth, ei fod yn "arogli yn gyflym"; am un tra ddeallus, ei fod yn "gweled yn graff"; am ddyn cryf iawn, fod ei "freichiau yn hir"; ac am un o dymher dirion, fod ganddo "galon deimladwy." Y dywediadau hyn, a llawer ereill mewn arferiad, a darddant o gyfatebiaeth; y fath ffurfiau ymadrodd a ddeilliant o'r byd ysbrydol, er na ŵyr dyn.

98. Y gyfatebiaeth rhwng pob peth yn y nefoedd a phob peth yn y dyn a amlygwyd i mi trwy lawer o brofiad; gan gymaint, yn wir, fel yr wyf mor sicr o hono, ag o wirionedd hunan-eglur ac anwadadwy. Nid oes angen dweyd yr holl brofiad hwn yma, ac ar gyfrif ei helaethrwydd, buasai yn anghyfleus; ond gellir ei weled yn yr ARCANA COELESTIA, yn y penodau, *Ar Gyfatebion, Ar Arddangosiadau, Ar Ddylifiad y Byd Ysbrydol i'r Naturiol, Ar y Gyfathrach rhwng yr Enaid a'r Corff.*

99. Ond er fod pob peth yn y corff dynol yn cyfateb i bob peth yn y nefoedd, eto nid yw dyn yn ddelw o'r nefoedd o ran ei ffurf allanol, ond o ran ei ffurf fewnol; canys mewnolion dyn dderbyniant y nefoedd, ond ei allanolion dderbyniant y byd. Mor bell, gan hyny, ag y derbynia ei fewnolion y nefoedd, bydd dyn o fewn yn nefoedd mewn ffurf fach, yn ol delw y nefoedd gyffredinol; ond mor bell ag na dderbynia ei fewnolion y nefoedd, nid yw efe yn nefoedd, nac yn ddelw o'r nefoedd. Eto, gall ei allanolion, yn derbyn y byd, fod mewn ffurf yn ol trefn y byd ac mewn amryw harddwch; am fod harddwch allanol, yr hwn sydd o'r corff, yn deilliaw o'r rhieni, ac o'r ffurfiad yn y groth, ac yna yn cael ei gadw gan ddylifiad cyffredin o'r byd; felly, gall fod gwahaniaeth dirfawr rhwng ffurf y dyn naturiol a ffurf y dyn ysbrydol. Gwelais weithiau ffurf ysbryd rhai personau o wyneb teg a hardd, a'r ysbryd yn hagr, du ac anghenfilaidd, fel y gellid ei alw yn ddelw o uffern ac nid o'r nefoedd; gwelais ereill nad oeddynt allanol hardd, a'r ysbryd yn hardd, teg ac angylaidd. Ysbryd dyn, hefyd, wedi angeu, a ymddengys yr un fath a phan yn y corff a'i gwisgai pan yn byw yn y byd.

100. Cyrhaedda cyfatebiaeth yn mhellach nag at ddyn; canys y mae cyfatebiaeth rhwng y naill nefoedd a'r llall. Y mae cyfatebiaeth rhwng y drydedd neu y nef fwyaf mewnol, a'r ail neu y ganol, a rhwng yr aill neu y ganol, a'r gyntaf neu yr isaf, a rhwng y gyntaf neu yr isaf ar ffurfiau corfforol mewn dyn, a elwir ei aelodau, organau a pherfeddion; ac felly rhanau corfforol dyn yw y terfynau lle y ceir y nefoedd yn cau, ac arnynt y gorphwys fel ar ei sylfaen; ond datguddir y dirgelwch hwn yn helaethach mewn lle arall.

101 Ond anghenrheidiol yw gwybod, fod pob cyfatebiaeth â'r nefoedd yn gyfatebiaeth â Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, am

fod y nefoedd o hono Ef, ac Efe yw y nefoedd, fel y dangoswyd mewn penodau blaenorol; canys pe na ddylifai y Ddynoliaeth Ddwyfol i bob peth yn y nefoedd, ac yn ol cyfatebiaethau, i bob peth yn y byd, nis gallai angel na dyn fodoli. Felly, ymddengys yn mhellach, paham y daeth yr Arglwydd yn ddyn, ac y gwisgodd ei Dduwdod â Dynoliaeth o'r cyntaf i'r diweddaf; canys y Ddynoliaeth Ddwyfol o'r hon y cynelid y nefoedd cyn dyfodiad yr Arglwydd, nid oedd ddigonol mwy i gynal pob peth, am fod dyn, yr hwn yw sylfaen y nefoedd, wedi syrthio, a dystrywio sylfaen trefn. (Ond yr Arglwydd a'i hadferodd yn Ei Berson ei Hun trwy yr ymgnawdoliad). Natur ac ansawdd y Ddynoliaeth Ddwyfol cyn dyfodiad yr Arglwydd, a chyflwr y nefoedd y pryd hwnw a ddesgrifir yn yr Arcana Coelestia.

102. Syna yr angylion pan glywant fod dynion i'w cael a briodolant bob peth i natur a dim i'r Duwdod; y rhai a gredant hefyd fod eu cyrff sydd, yn drysorfa o ryfeddodau y nefoedd, yn cael eu ffurfio gan natur, a bod eu galluoedd rhesymol yn deilliaw o'r un ffynonell: er, pe gallent ddyrchafu eu meddyliau ond ychydig, gallent weled fod y fath ryfeddodau yn dyfod o'r Duwdod, ac nid o natur; a bod natur wedi ei chreu yn unig er gwisgo yr hyn sydd ysbrydol a'i ddangos mewn ffurf gyfatebol yn ngraddfa isaf trefn. Cydmara yr angylion y fath bersonau i'r dyllhuanod, yn gweled yn y tywyllwch, ond yn ddeillion yn y goleu.

### Y mae Cyfatebiaeth rhwng y Nefoedd a holl bethau y Ddaear.

103. Yn y Benod flaenorol dangoswyd beth yw cyfatebiaeth, ac hefyd fod holl ranau y corff anifeilaidd, yn gyffredinol, a neillduol, yn gyfatebion; y cam nesaf yw dangos fod holl bethau y ddaear, a'r byd o'r bron, yn gyfatebion.

104. Pob peth perthynol i'r ddaear a wahaniaethir i dri math, a elwir tair teyrnas, sef, yr anifeilaidd, y lysieuol, a'r fwnawl. Gwrthrychau y deyrnas anifeilaidd ydynt gyfatebion yn y radd flaenaf, am eu bod yn fyw; gwrthrychau y deyrnas lysieuol yn yr ail radd, am nad ydynt ond tyfu: a gwrthrychau y deyrnas fwnawl yn y trydydd gradd, am nad ydynt yn fyw nac yn tyfu. Y cyfatebion yn y deyrnas anifeilaidd yw y creaduriaid byw o amryw fathau, y rhai a rodiant ac a ymlusgant ar y ddaear, a'r rhai a ehedant yn yr awyr. Y cyfatebion yn y deyrnas lysieuol yw yr holl bethau a dyfant ac a flagurant mewn gerddi, coedwigoedd, caeau-yd a gweirgloddiau. Y cyfatebion yn y deyrnas fwnawl yw yr holl feteloedd, gwych a gwael, meini gwerthfawr a chyffredin, pridd o amryw rywiau, a dwfr. Heblaw y pethau hyn, cyfatebion hefyd yw pob peth a barotoa dyn o honynt i'w wasanaeth ei hun; megis bwyd o bob math, dillad, tai, adeiladau cyhoeddus a'r cyffelyb.





105. Y pethau uwchlaw y ddaear, fel yr haul, y lloer, a'r ser, ac hefyd y pethau yn yr awyrgylchoedd, fel y cymylau, y niwloedd, y gwlaw, y mellt a'r taranau, ydynt gyfatebion; felly hefyd y pethau a ddeilliant o bresenoldeb ac absenoldeb yr haul, fel y goleu a'r gwyll, y gwres a'r oerni, tymhorau y flwyddyn ac amserau y dydd.

106. Mewn gair, cyfatebion yw pob peth fodola mewn natur, o'r lleiaf i'r mwyaf: am fod y byd naturiol, a'r oll a gynwys yn bodoli a chael ei gynal o'r byd ysbrydol, a'r ddau o'r Duwdod. Dywedwn *ei gynal* yn gystal *a bodoli* am fod cynaliaeth pob peth yn dyfod o'r hyn roddodd iddo ei fodolaeth—*parhad bodolaeth yw cynaliaeth*—ac am nad yw yn bosibl i ddim gynal ei hun; cynelir pob peth o achos blaenorol iddo ei hun, ac yn wreiddiol o'r Achos Cyntaf, ac felly beth bynag a ysgerir oddiwrth yr Achos Cyntaf a lwyr ddiflana.

107 Cyfatebion yw pob peth fodolant ac a gant eu cynal mewn natur yn ol Dwyfol Drefn; a Dwyfol Drefn a ddylifa o'r Daioni Dwyfol ddeillia o'r Arglwydd; canys dechreua o hono Ef, a deillia o hono drwy y nefoedd yn olynol i'r byd, gan derfynu yno fel yn y gris isaf. Cyfatebion yw pob peth sydd yn y byd yn ol trefn; ac y mae pob peth yn ol trefn, pan fyddont yn dda ac yn atteb eu dyben; canys y mae pob peth yn dda yn ol ei ddefnyddioldeb; ei ffurf a berthyn i wirioneddd, am mai *gwirionedd yw ffurf daioni;* ac felly y mae pob peth yn yr holl fyd, ac yn cyfranogi o natur y byd, ac mewn Dwyfol Drefn, yn perthyn i Ddaioni a Gwirionedd.

108. Eglur yw oddiwrth gyfansoddiad y Teyrnasoedd Anifeilaidd a llysieuol, fod pob peth yn y byd yn bodoli o'r Duwdod, a'u bod wedi eu gwisgo yn addas âg elfenau natur i fod yn ddefnyddiol, ac felly yn gyfatebion. Gall pob un sydd yn meddwl oddiar egwyddor fewnol weled fod pethau o'r nefoedd yn y ddwy Deyrnas. Nodir rhai o'r aneirif engreifftiau er eglurhad; yn gyntaf o'r *Deyrnas Anifeilaidd.*

Gwyddir yn gyffredin, y fath wybodaeth ryfedd sydd fel yn reddfol yn mhob anifail. Gŵyr y gwenyn pa fodd i gasglu mêl o'r blodau, adeiladu eu celloedd cŵyr i ystorio y mêl ynddynt, ac felly i ddarparu bwyd iddynt eu hunain a'u cymdeithion erbyn y gauaf dyfodol. Y frenhines a esyd ei hwyau, a'r lleill a weiniant arni ac a'u cuddiant, fel y cyfyd cenedl newydd o honynt. Y maent yn byw dan fath o ffurf lywodraeth, a phawb yn reddfol hysbys o honi. Noddant y rhai defnyddiol, a thaflant allan y rhai diddefnydd gan dori eu hadenydd: heb son am bethau rhyfedd ereill a dderbyniant o'r nefoedd er llês; canys y mae eu cŵyr yn llesol yn ganhwyllau yn holl barthau y byd, a'u mêl a felusa ymborth dyn. Y fath greaduriaid rhyfeddol yw y lyndys, y rhai sydd yn mhlith y pethau gwaelaf yn y deyrnas anifeilaidd! Gwydd-

ant y ffordd i borthi eu hunain a sûdd y dail sydd yn taro eu natur, ac yn mhen amser i amdoi eu hunain â gorchudd, a gosod eu hunain fel mewn croth, a chynyrchu eu rhyw eu hunain. Rhai o honynt yn gyntaf a drawsffurfiant i *nymphs* a *chrysalises*, nyddant bellen o edafedd, ac wedi gorphen eu gwaith, addurnir hywynt â chyrff gwahanol, wedi eu harddu âg adenydd, ehedant yn yr awyr fel yn eu nefoedd, priodant, gosodant eu hwyau a darparant drostynt eu hunain a'u plant. Heblaw yr engreifftiau neillduol hyn, holl adar y nefoedd a adwaenant eu bwyd priodol i'w porthi, ac nid yn unig pa beth yw, ond pa le i'w gael. Gwyddant pa fodd i adeiladu eu nythod, pob rhyw yn ei ddull neillduol ei hun —i ddodwy ynddynt, i eistedd ar ei hwyau, gori ar y cywion, eu cynal a'u gyru allan pan allont ofalu am danynt eu hunain. Gwyddant hefyd y gelynion i gilio rhagddynt, a'r cyfeillion i dynu attynt, a'r oll o'u babandod boreuaf; heb son am y rhyfeddodau yn yr wyau eu hunain, lle y ceir pob peth wedi eu trefnu yn y modd addasaf er ffurfio a meithrin y cyw anelwig; gyda rhyfeddodau aneirif ereill. Pwy yn meddwl oddiar unrhyw ddoethineb resymol, a ddywed fod y greddfau hyn yn tarddu o unrhyw ffynonell ond o'r byd ysbrydol; canys y mae y byd naturiol yn is-wasanaethgar i'r byd ysbrydol er mwyn gwisgo â chorff yr hyn a ddeillia oddiyno, neu arddangos fel effaith, yr hyn sydd ysbrydol yn Ei Achos? Caiff bwystfilod y ddaear ac adar y nefoedd eu geni i bob gwybodaeth, ond ni chaiff dyn, er ei fod yn rhagorach na hwy; am fod yr anifeiliaid yn nhrefn briodol eu bywyd, ac heb allu dystrywio yr hyn sydd blanedig ynddynt o'r byd ysbrydol am nad oes ganddynt reswm; ond fel arall y mae gyda dyn, canys y mae efe yn meddwl o'r byd ysbrydol, ac oherwydd gwyrdroi y pethau a dderbynia o'r byd hwnw trwy groesi trefn a rhesymu dros anrhefn, rhaid iddo ef gael ei eni yn gwbl anwybodus, ac wedi hyny ei adferyd i Drefn y Nefoedd trwy foddion Dwyfol.

109. Pa fodd y mae gwrthrychau y Deyrnas Lysieuol yn gyfatebion a ymddengys oddiwrth lawer o ystyriaethau; megis, er engraifft, fod hadau bychain yn tyfu yn goed, yn deilio, yn blodeuo, yn ffrwytho a hadu; a bod y pethau hyn yn dod yn olynol, ac o'r diwedd yn cydfodoli yn y fath drefn ryfeddol, nas gellir eu desgrifio ar fyr eiriau. Yn wir, ped ysgrifenid cyfrolau arnynt, eto arosai dirgelion mewnol yn nglyn âu defnyddioldeb, na ddichon gwyddor byth eu ddyhysbyddu; a chan fod y pethau hyn hefyd o'r byd ysbrydol, neu y nefoedd, yr hon sydd yn ffurf dyn—fel y dangoswyd mewn penod wahanol—felly y mae pob peth yn y deyrnas lysieuol a rhyw berthynas rhyngddo â rhywbeth mewn dyn, fel y gŵyr rhai dysgedigion. Fod pob peth yn y deyrnas lysieuol yn gyfatebion a amlygwyd i mi trwy lawer o brofiad; canys yn fynych pan fum mewn gerddi, a sylwi ar goed,





ffrwyth, blodau, a llysiau, gwelais eu cyfatebion yn y nefoedd ac ymddiddenais â'r rhai yr oedd y cyfatebion ynddynt, a dysgwyd fi am eu tarddiad a'u hansawdd.

110. Nid posibl heddyw i neb wybod y pethau ysbrydol yn y nefoedd sydd yn cyfateb i bethau naturiol yn y byd, ond trwy ddatguddiad o'r nefoedd, am fod gwyddor cyfatebiaeth wedi ei hollol golli; ac felly eglurwn trwy rai esiamplau natur cyfatebiaeth pethau ysbrydol a naturiol.

Anifeiliaid y ddaear, yn gyffredinol, a gyfatebant i serchiadau; y rhai dof a defnyddiol i serchiadau da, a'r rhai gwyllt a diddefnydd i sèrchiadau drwg. Eidionau ac ychain gyfatebant, yn neillduol, i serchiadau y meddwl naturiol, a defaid ac ŵyn i serchiadau y meddwl ysbrydol; ond adar, neu greaduriaid adeiniog, yn ol eu rhywogaeth, a gyfatebant i bethau Deallol y ddau feddwl; ac felly yr oedd amrywiol anifeiliaid, megis eidionau, ychain, hyrddod, defaid, geifr gwryw a benyw, ŵyn gwryw a benyw, colomenod a durturod yn cael eu defnyddio i ddybenion santaidd yn yr Eglwys Iuddewig; am fod yr Eglwys hono yn arddangosiadol, defnyddid yr anifeiliaid hyny ynddi yn aberthau a phoethoffrymau, am eu bod yn cyfateb i bethau ysbrydol, y rhai a ganfyddid yn y nefoedd yn ol y gyfatebiaeth. Anifeiliaid, yn ol eu rhywogaeth, ydynt serchiadau, am eu bod yn fyw; nis gall dim fyw ond o'r serch ac yn ol y serch; ac felly y mae pob creadur yn meddu gwybodaeth reddfol yn ol serch ei fywyd. Arferir hefyd mewn siarad cyffredin cydmaru dyn i'r anifeiliaid. Gelwir dyn mwyn yn ddafad neu yn oen; y dyn ffyrnig yn flaidd neu yn arth; a'r dyn cyfrwys yn gydnaw neu yn sarff, a'r cyffelyb.

111. Y mae cyfatebiaeth debyg yn treiddio y deyrnas lysieuol. Gardd yn gyffredinol sydd yn cyfateb i'r nefoedd yn ei deall a'i doethineb; am hyny y gelwir y nefoedd yn y Gair yn *Ardd Duw*, a *Pharadwys*, a dyn, yn *Baradwys nefol*. Coed, yn ol eu rhywogaeth, a gyfatebant i syniadau a gwybodaeth o'r gwirionedd, o'r rhai y daw deall a doethineb; am hyny yr hynafiaid—medrus yn ngwyddor cyfatebiaeth—a gadwent eu haddoliadau santaidd mewn llwyni; oherwydd hyn y sonir am goed mor aml yn y Gair, ac y cydmerir y nefoedd, yr Eglwys a dyn i'r winwydden, yr olewydden, y gedrwydden, a choed ereill; ac y cydmerir gweithredoedd da i ffrwythau. Y bwydydd hefyd wneir o'r ffrwythau, yn neillduol o'r grawn, a gyfatebant i serchiadau at ddaioni a gwirionedd; am fod y serchiadau hyn yn porthi bywyd ysbrydol dyn, fel y porthir ei fywyd naturiol gan fwyd daearol; ac felly bara, yn gyffredinol, gyfateba i serch at bob daioni, am ei fod yn cynal bywyd yn well na phob bwydydd ereill, ac am fod bara yn arwyddo pob bwyd. Ar gyfrif y gyfatebiaeth hon y geilw yr Arglwydd ei Hun *yn fara y bywyd;* ac am yr un rheswm, hefyd, y

defynddid bara i ddybenion sanctaidd yn yr Eglwys Iuddewig, gan ei osod ar y bwrdd yn y Tabernacl a'i alw yn *fara gosod*. Yr holl addoliad Dwyfol trwy aberth a phoethoffrwm a elwid *bara*, ac ar gyfrif y gyfatebiaeth hon, y ddefod santeiddiolaf yn addoliad yr Eglwys Gristionogol yw y Swper Sanctaidd, cynwysedig o fara a gwin. Oddiwrth yr ychydig enghreifftiau hyn gellir gweled natur cyfatebiaeth.

112. Y modd yr unir y nefoedd a'r byd trwy gyfatebion a eglurir yn fyr.

Teyrnas dybenion yw Teyrnas yr Arglwydd, sef defnyddioldeb; neu yr hyn sydd yr un peth, Teyrnas Defnyddioldeb, sef dybenion. Oherwydd hyn y crewyd ac y lluniwyd y bydysawd gan y Duwdod, fel y gellid gwisgo a dangos defnyddioldeb yn mhob man mewn act neu effaith, yn gyntaf yn y nefoedd, ac wedi hyny yn y byd; ac felly trwy raddfeydd ac yn olynol hyd eithafed natur. Felly, eglur yw fod cyfatebiaeth pethau naturol a phethau ysbrydol, neu y byd a'r nef yn bodoli trwy ddefnyddioldeb, ac mai defnyddioldeb sydd yn eu huno; a bod y ffurfiau y gwisgir defnyddioldeb ynddynt, yn gyfatebion â chyfryngau undeb, i'r graddau y byddont ffurfiau defnyddioldeb. Yn y byd naturiol a'i dair teyrnas, yr holl bethau a fodolant yn ol Dwyfol Drefn, ydynt ffurfiau defnyddioldeb, neu effeithiau wedi eu ffurfio *oddiar* ddefnyddioldeb *i* ddefnyddioldeb; am hyny y maent yn gyfatebion. Defnyddioldeb mewn ffurf yw actau dyn a chyfatebion yn ei uno â'r nefoedd, mor bell ag y mae yn byw yn ol Dwyfol Drefn, neu mor bell ag y mae yn byw mewn cariad at yr Arglwydd ac at ei gymydog—caru yr Arglwydd a'r cymydog yn gyffredinol yw defnyddioldeb. Heblaw hyn, sylwer mai dyn sydd yn uno y byd naturiol a'r byd ysbrydol: canys efe yw cyfrwng eu huniad, bodola y ddau fyd ynddo ef megis y dangoswyd uchod. r. 57, am hyny, mor bell ag y mae dyn yn ysbrydol, y mae efe yn gyfrwng yr uniad, ac mor bell ag y mae efe yn naturiol, ac nid yn ysbrydol, nid yw gyfrwng uniad. Er hyny, parha y Dylifiad Dwyfol lifo i'r byd yn *annibynol* ar gyfryngdod dyn, ac hefyd i'r pethau hyny *mewn* dyn perthynol i'r byd, ond nid i'w egwyddor resymol.

113. Fel y mae pob peth sydd yn ol Dwyfol Drefn, yn cyfateb i'r nefoedd, felly y mae pob peth croes i Ddwyfol Drefn yn cyfateb i uffern: canys perthyn y blaenaf i'r hyn sydd gywir a da, a'r olaf i dwyll a drwg.

114. Dywedir rhywbeth yn awr am wyddor cyfatebion a'i defnyddioldeb.

Eglurwyd yn barod, fod y byd ysbrydol, sef y nefoedd, yn un â'r byd naturiol trwy gyfatebion, a bod dyn trwyddynt mewn cymundeb â'r nefoedd. Angylion y nefoedd nid ydynt yn meddwl oddiar bethau naturiol fel dyn, felly pan fyddo dyn yn gyfarwydd





â gwyddor cyfatebion, gall o ran ei feddyliau gymdeithasu â'r angylion, a bod yn un â hwynt o ran ei ddyn mewnol neu ysbrydol. Ysgrifenwyd y Gair trwy gyfatebion pur fel y gallai dyn fod yn un â'r nefoedd; am hyny y mae manylion manaf y Gair yn cyfateb i rywbeth ysbrydol, a phe byddai dyn yn fedrus yn ngwyddor cyfatebion, efe a ddeallai ei ystyr ysbrydol ac a ganfyddai ddirgelion na wêl ddim o honynt yn ystyr y llythyren; oblegid y mae yn y Gair ystyr lythrenol ac ystyr ysbrydol. Yr ystyr lythrenol a gynwys y fath bethau âg sydd yn y byd, a'r ystyr ysbrydol y fath bethau âg sydd yn y nef, a chan mai cyfatebion sydd yn uno nef a daear, rhoddwyd Gair, a phob iod ynddo yn meddu rhyw gyfatebiaeth ysbrydol.

115. Dywedwyd wrthyf o'r nefoedd, fod y bobl henaf ar ein daear, y rhai oeddynt ddynion nefolaidd, yn meddwl oddiar gyfatebion eu hunain, a bod pethau naturiol y byd, y rhai oedd o flaen eu llygaid, yn gwasanaethu fel cyfryngau i'r fath feddwl; eu bod, oherwydd y nodwedd neillduol hon, yn mwynhau cymdeithas â'r angylion, ac yn ymddiddan â hwynt; a bod y nef trwyddynt yn un â'r byd. Ar gyfrif hyn y galwyd y cyfnod hwnw *yr oes euraidd*, am dano y dywed hen ysgrifenwyr fod trigolion y nefoedd yn trigo gyda dynion, ac yn ymddiddan â hwynt fel cyfeillion gyda chyfeillion; ond ar ol yr amserau hyny daeth dynion ereill, na feddylient oddiar gyfatebion eu hunain, ond oddiar *wyddor* cyfatebion; er hyny yr oedd undeb eto rhwng y nefoedd â dyn, ond nid mor agos. Gelwid y cyfnod hwn *yr oes arianaidd*. Wedi hyn y cyfododd oes arall, cyfarwydd yn wir â chyfatebion, ond ni feddylient oddiar y wyddor o hono, am nad oeddynt ond mewn daioni naturiol yn unig, ac nid fel eu rhagflaenwyr, mewn daioni ysbrydol. Gelwid y cyfnod hwn *yr oes gopr*. Dywedwyd wrthyf, i ddyn yn raddol, wedi yr oesau hyn fyned yn allanol, ac o'r diwedd yn gorfforol; ac yna aeth gwyddor cyfatebion yn llwyr ar goll, a chyda hi wybodaeth am y nef, a'r rhan fwyaf o bethau perthynol i'r nef. Enwyd yr oesau hyn oddiwrth aur, arian, a chopr, am fod *aur*, yn iaith cyfatebiaeth, yn arwyddo *daioni nefol*—yn yr hwn y sylfaenwyd y bobl henaf; *arian* a arwydda *ddaioni ysbrydol*, prif nodwedd yr hynafiaid ddaeth ar eu hol; *copr*, *daioni naturiol*, egwyddor yr hiliogaeth nesaf; ond *haiarn*, o'r hwn yr enwid yr oes olaf, a arwydda *wirionedd caled heb ddaioni*.

## Yr Haul yn y Nefoedd.

116. Ni welir haul y byd hwn yn y nefoedd, na dim ddeillia o hono am fod yr oll yn naturiol. Dechreua natur o'r haul hwnw, a phob peth gynyrchir ganddo a elwir *naturiol;* ond y cylch ysbrydol lle y mae y nefoedd, sydd uwchlaw natur, ac yn hollol ar wahan i'r hyn sydd naturiol; ac nid oes gymundeb rhyngddynt

a'u gilydd ond trwy gyfatebion. Gellir amgyffred natur y gwahaniaeth rhyngddynt oddiwrth yr hyn a ddywedwyd yn r. 38, am raddfeydd; ac ansawdd eu cymundeb, oddiwrth yr hyn a ddywedwyd yn y ddwy benod flaenorol am gyfatebion.

117. Er na welir haul y byd hwn yn y nefoedd, na dim fodola o hono, eto y mae haul yno a goleu, a gwres, a phob peth sydd yn y byd, heblaw aneirif bethau ereill, ond nid ydynt o'r un tarddiad; canys y mae yr holl bethau a fodolant yn y nefoedd yn ysbrydol, a'r holl bethau yn y byd yn naturiol. Haul y nefoedd yw yr Arglwydd, Gwirionedd Dwyfol yw y goleuni, a Daioni Dwyfol yw y gwres, deilliant o'r Arglwydd fel o'r haul. Dyna darddiad yr holl bethau fodolant ac a ymddangosant yn y nefoedd; ond dywedir rhagor mewn penodau dyfodol am y goleu a'r gwres, a'r pethau fodolant o honynt yn y nefoedd; yn bresenol traethwn ar haul y nefoedd. Ymddengys yr Arglwydd yn y nefoedd fel haul, am fod pob peth ysbrydol yn bodoli o'r Cariad Dwyfol, fel y mae pob peth naturiol yn bodoli o haul y byd hwn. *Y Cariad Dwyfol lewyrcha fel haul yn y nefoedd.*

118. Fod yr Arglwydd yn ymddangos yn wir yn y nefoedd fel haul a ddatguddiwyd imi, nid yn unig gan angylion, ond weithiau trwy ei weled; yr hyn a glywais ac a welais gan hyny a ddesgrifiaf yn fyr.

Nid yw yr Arglwydd yn ymddangos fel haul *yn y* nefoedd, ond fry *uwchlaw* y nefoedd; nid uwchben chwaith, neu yn yr entrych, ond o flaen gwynebau yr angylion, mewn uchder canolog. Ymddengys mewn pellder mawr, ac mewn dau le gwahanol, un o flaen y llygad dehau, a'r llall o flaen y llygad aswy. O flaen y llygad deheu Efe a ymddengys yn gywir fel haul, ac o'r un faint a haul y byd; ond o flaen y llygad aswy nid ymddengys Efe fel haul, ond fel lleuad, gwyn fel lleuad ein byd ni, yn debyg mewn maint, ond yn fwy dysglaer. Ymddengys hefyd yn cael ei amgylchu âg amryw leuadau llai, a phob un o honynt yn gyffelyb wyn a dysglaer. Ymddengys yr Arglwydd yn y ddau le gwahanol hyn, am ei fod yn ymddangos i bob un yn ol ansawdd ei dderbyniad o hono; ac felly mewn un ffordd i'r rhai a'u derbyniant Ef mewn daioni yn tarddu o gariad, ac mewn ffordd arall i'r rhai a'u derbyniant Ef mewn daioni yn tarddu o ffydd. I'r rhai a'u derbyniant Ef mewn daioni yn tarddu o gariad, yr Arglwydd a ymddengys fel haul, tanbaid a fflamllyd, yn ol eu derbyniad; y rhai hyn sydd yn Ei deyrnas nefol; ond i'r rhai a'i derbyniant Ef mewn daioni yn tarddu o ffydd, Efe a ymddengys fel lleuad, wen a dysglaer, yn ol eu derbyniad; y rhai hyn sydd yn ei Deyrnas Ysbrydol. Y gwahaniaeth hwn yn ymddangosiad yr Arglwydd a gyfyd o gyfatebiaeth; y daioni yn tarddu o gariad sydd yn cyfateb i *dân*, ac felly *tân* yn yr ystyr ysbrydol yw *cariad:* a'r





daioni yn tarddu o ffydd sydd yn cyfateb i *oleuni*, ac felly *goleuni* yn yr ystyr ysbrydol yw *ffydd.*

Y rheswm fod yr Arglwydd yn ymddangos o flaen y llygaid yw, am fod y mewnolion, perthynol i'r meddwl, yn gweled trwy y llygaid: y rhai sydd dda o gariad trwy y llygad deheu, a'r rhai sydd dda o ffydd trwy y llygad aswy: canys y mae pob peth sydd ar yr ochr ddeheu, mewn angylion a dynion, yn cyfateb i'r daioni o'r hwn y tardd gwirionedd; a'r pethau ar yr ochr aswy yn cyfateb i wirionedd o'r hwn y tardd daioni. *Y daioni yn tarddu o ffydd sydd*, yn ei hanfod, *yn wirionedd wedi tarddu o ddaioni.*

119. Oherwydd hyn, yn y Gair, cydmerir yr Arglwydd o ran ei gariad i'r haul, ac o ran ei ffydd i'r lleuad; hefyd, cariad o'r Arglwydd at yr Arglwydd a arwyddir gan yr haul; megis yn y geiriau canlynol. "A bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul fydd saith mwy, megis llewyrch saith niwrnod," Es. xxx. 26. "Ie, cuddiaf y nefoedd wrth dy ddiffoddi, a thywyllaf eu ser hwynt; yr haul a guddiaf â chwmwl, a'r lleuad ni wna i'w goleuni oleuo. Tywyllaf arnat holl lewyrch goleuadau y nefoedd, a rhoddaf dywyllwch ar dy dir, medd yr Arglwydd Dduw," Ez. xxxii. 7, 8. "Canys ser y nefoedd a'u planedau ni roddant eu llewyrch; yr haul a dywyllir yn ei godiad, a'r lloer ni oleua â'i llewyrch," Es. xiii. 10. "Yr haul a'r lleuad a dywyllir, a'r ser a attaliant eu llewyrch. Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lleuad yn waed, o flaen dyfod mawr ac ofnadwy ddydd yr Arglwydd," Joel ii. 10, 31. "A'r haul a aeth yn ddû fel sachlen flew, a'r lleuad a aeth fel gwaed," Dat. vi. 12. "Yn y fan wedi gorthrymder y dyddiau hyny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r ser a syrth o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir," Math. xxiv. 29; ac mewn manau ereill. Yn y geiriau hyn, wrth yr *haul* y golygir cariad, wrth y *lleuad* ffydd, ac wrth y *ser* gwybodaethau am ddaioni a gwirionedd, y dywedir eu bod yn tywyllu, yn colli eu goleu ac yn cwympo o'r nefoedd pan na byddont mwyach yn bodoli. Fod yr Arglwydd yn ymddangos hefyd fel haul a ddangoswyd trwy Ei weddnewidiad ger bron Petr, Iago, ac Ioan, "A'i wyneb a ddisgleiriodd fel yr haul," Math. xvii. 2. Gwelwyd yr Arglwydd fel hyn gan y dysgyblion am eu bod allan o'r corff, ac yn ngoleuni y nefoedd; felly yr hynafiaid perthynol i'r Eglwys gynrychiadol, pan yn addoli Duw, a droent eu hwynebau at yr haul yn y dwyrain; oddiwrthynt y deilliodd yr arferiad o adeiladu Eglwysi a'u gwyneb ar y dwyrain.

120. Gellir deall natur ac angerddoldeb cariad Duw wrth ei gydmaru â haul y byd hwn, canys llawer tanbeidiach yw na'r haul, er y gall ymddangos yn anghredadwy; am hyny, yr Arglwydd fel haul ni lifa yn uniongyrchol i'r nefoedd, ond tanbeidrwydd ei gariad a gymedrolir yn raddol gan gyfryngau, yn ymddangos fel

cylchoedd disglaer o amgylch yr haul. Gorchuddir yr angylion hefyd â chwmwl teneu, rhag eu niweidio ar dylifiad Dwyfol; ac, am yr un rheswm, y mae pellder pob nefoedd oddiwrth yr Arglwydd yn ol eu derbyniad O'i Gariad. Y nefoedd uchaf sydd agosaf at yr Arglwydd am ei bod yn dda o gariad; y nefoedd îs sydd bellach, am eu bod yn dda o ffydd; a'r rhai nid ydynt dda, fel yr uffernolion ydynt bellach byth, a'u pellder sydd fwy i'r graddau y byddont yn fwy gwrthwynebol i ddaioni.

121. Pan ymddengys yr Arglwydd *yn* y nefoedd, fel y gwna yn fynych, nid ymddengys wedi ymwisgo â'r haul, ond mewn ffurf angylaidd, gwahanol i'r angylion trwy y dwyfoldeb lewyrcha o'i wyneb; ond nid yw Efe yno yn bersonol—oblegid fel person y mae Efe bob amser wedi ymwisgo â'r haul—ond ei fod yn *ymddangos* yno: canys, hyd yn oed, trigolion y nefoedd a ymddangosant yn fynych yn bresenol yn y lle y syllont arno, er ei fod yn bell iawn o'r lle y byddont ynddo ar y pryd; gelwir y presenoldeb hwn, *presenoldeb yr olwg fewnol*, y cawn siarad am dano eto. Gwelais yr Arglwydd hefyd mewn ffurf angylaidd allan o'r haul, ychydig odditano, mewn uchder mawr; ac hefyd yn agos yn yr un ffurf, gyda gwyneb disglaer: ac unwaith fel pelydr fflamllyd yn nghanol yr angylion.

122. Haul y byd naturiol a ymddengys i'r angylion yn barhaus fel tywyllwch dudew a'r gyfer haul y nefoedd, a'r lleuad fel tywyllwch llai ar gyfer lleuad y nefoedd; am fod unrhyw beth tanllyd perthynol i'r byd, yn cyfateb i hunangariad, a'r goleu o hono yn cyfateb i'r twyll a dardd o'r cariad hwnw. Hunangariad sydd hollol groes i gariad Duw, a'r twyll sy'n tarddu o'r cariad hwnw sydd hollol groes i Wirionedd Duw; a'r hyn sydd groes i Gariad a Gwirionedd Duw sydd dywyllwch dudew i'r angylion. Am hyny, *addoli haul*, a *lleuad*, y byd naturiol, *ac ymgrymu iddynt*, a arwydda yn y Gair hunangariad a'r cyfeiliornadau darddant o hono; felly, yr oedd y fath eulunaddolwyr i gael eu tori ymaith. Gwel Deut. iv. 19; pen. xvii. 3, 4, 5; Jer. viii. 1, 2; Ezek. viii. 15, 16, 18; Dat. xvi. 8; Math. xiii. 6.

123. Gan fod yr Arglwydd yn ymddangos fel haul yn y nefoedd, yn rhinwedd y Dwyfol Gariad sydd ynddo ac yn deilliaw o hono, am hyny, pawb yn y nefoedd a droant eu hunain yn gyson ato; y rhai yn y deyrnas nefol a droant ato fel haul, a'r rhai yn y deyrnas ysbrydol fel y lleuad. Ond y rhai yn uffern a droant eu hunain i'r tywyllwch dudew, a'r tywyllwch sydd groes, gan gefnu ar yr Arglwydd, am eu bod yn boddi mewn hunan a bydol gariad, ac felly yn wrthwyneb i'r Arglwydd. Y rhai a droant eu hunain i'r tywyllwch dudew sydd yn lle haul y byd, ydynt yn yr uffernoedd o'r tu cefn, ac a elwir Elffod (genii); a'r rhai a droant eu hunain i'r tywyllwch sydd yn lle y lleuad, ydynt yn yr uffernoedd o'r tu





blaen, ac a elwir ysbrydion; ac felly y dywedir am y rhai yn uffern eu bod yn *y tywyllwch*, a'r rhai yn y nefoedd yn y *goleuni*. *Tywyllwch* a arwydda dwyll yn tarddu o ddrwg, a goleuni, gwirionedd yn tarddu o ddaioni. Troant eu hunain felly, am fod pawb yn y byd arall yn edrych at y pethau reolant eu bywyd mewnol, sef i gyfeiriad eu serchiadau, a'r serchiadau a'r meddyliau mewnol ffurfiant wyneb angel neu ysbryd. Yn y byd ysbrydol nid oes leoedd terfynol, fel yn y byd naturiol, ond penderfynir y lleoedd gan gyfeiriad y gwyneb. Dyn, hefyd, o ran ei ysbryd, a dry ei hun yr un modd; ei gefn ar yr Arglwydd os dan reolaeth cariad at hunan a'r byd, ei wyneb ato os dan reolaeth cariad at yr Arglwydd a'i gymydog; ond dyn ni ŵyr hyn, am ei fod yn y byd naturiol, ac am fod lleoedd yno yn cael eu penderfynu gan godiad a machludiad yr haul. Ond gan fod y pwnc hwn yn anhawdd ei ddeall, eglurir ef yn helaethach, wrth drafod Parthau, Lle, ac Amser yn y nefoedd.

124. Gan mai yr Arglwydd yw haul y nefoedd, a phob peth deilliedig oddiwrtho yn edrych tuag ato, Efe, gan hyny, yw y canolbwynt cyffredin o'r hwn y caiff pob peth eu cyfeiriad a'u terfynau. Felly y mae pob peth yn y nef a'r ddaear, odditano, yn ei bresenoldeb, ac o dan ei ymgeledd.

125. Gellir gweled yn fwy clir yn awr y pethau a ddywedwyd yn y penodau blaenorol am yr Arglwydd, sef, *mai Efe yw Duw y nefoedd*, r. 2—6. *Mai Ei Ddwyfoldeb wna y nefoedd*, r. 7—12. *Mai Dwyfoldeb yr Arglwydd yn y nefoedd yw cariad ato Ef ac at gymydog*, r. 13—19. *Fod cyfatebiaeth rhwng pob peth yn y byd a'r nefoedd, a thrwy y nefoedd a'r Arglwydd*, r. 87—115; *a bod haul a lleuad y byd naturiol yn meddu y fath gyfatebiaeth*, r. 105.

### Goleu a Gwres yn y Nefoedd.

126. Y rhai feddyliant o natur yn unig, nis gallant amgyffred fod goleuni yn y nefoedd, er fod y goleuni hwnw raddau lawer yn fwy na goleuni canol-ddydd y byd. Gwelais Ef yn fynych, hyd yn oed, yn yr hwyr a'r nos. Ar y cyntaf, synwn wrth glywed yr angylion yn dywedyd, nad yw goleuni y byd nemawr gwell na'r gwyll mewn cydmariaeth i oleuni y nefoedd, ond wedi i mi ei weled gallaf dystio hyny. Ei wynder a'i ddisgleirdeb a drecha bob desgrifiad; a phob peth a welais yn y nefoedd, yn y goleu hwn a ymddangosent yn fwy clir a neillduol, nag y gwelir gwrthrychau naturiol yn y byd.

127. Nid naturiol yw goleuni y nefoedd, fel goleuni y byd, ond ysbrydol, am ei fod yn deilliaw o'r Arglwydd fel haul, megis y dangoswyd yn y benod flaenorol. Yr hyn a ddeillia o'r Arglwydd, fel haul yn y nefoedd, a elwir Dwyfol Wirionedd, er hyny yn ei hanfod, Dwyfol Ddaioni ydyw, yn un â Dwyfol Wirionedd. Oddi-

yma y mae goleu a gwres yr angylion; goleu o'r Dwyfol Wirionedd, a gwres o'r Dwyfol Ddaioni. Felly, amlwg yw, mai tarddiad ysbrydol, ac nid naturiol, sydd i oleuni a gwres y nefoedd.

128. Y Dwyfol Wirionedd yw goleuni yr angylion, am eu bod yn ysbrydol ac nid naturiol. Y rhai ysbrydol a welant o'u haul eu hunain, a'r rhai naturiol o'u haul eu hunain. O'r Dwyfol Wirionedd y derbynia yr angylion eu deall, a'u deall yw eu golwg fewnol, yn llifo i'w golwg allanol, ac yn ei gynyrchu; felly pob peth a ymddengys yn y nefoedd o'r Arglwydd fel haul, a ymddengys mewn goleuni. Y fath yw tarddiad goleuni yn y nefoedd, amrywia gan hyny yn ol y derbyniad o Ddwyfol Wirionedd yr Arglwydd, neu—yr hyn sydd yr un peth—yn ol deall a doethnineb yr angylion. Gwahanol yw y goleuni yn y deyrnas nefol a'r ysbrydol, a gwahanol yn mhob cymdeithas. Y goleu yn y deyrnas nefol a ymddengys fel y fflam, am fod yr angylion a drigant yno yn derbyn goleu o'r Arglwydd fel haul: ond gwyn yw goleuni yn y deyrnas ysbrydol, am fod yr angylion a drigant yno yn derbyn goleuni o'r Arglwydd fel lleuad (Gwel uchod, r. 118). Nid yr un yw y goleuni mewn un gymdeithas a'r llall, ac nid yr un yw drwy yr un gymdeithas; y rhai yn y canol a fwynhant fwy o oleuni, a'r rhai yn yr amgylchoedd lai (Gwel r. 43). Mewn gair, i'r graddau y byddo yr angylion yn dderbynwyr o'r Dwyfol Wirionedd, sef mewn deall a doethineb o'r Arglwydd, y mwynhant oleuni, ac am hyny y gelwir hwynt angylion y goleuni.

129. Gan fod yr Arglwydd yn y nefoedd yn Ddwyfol Wirionedd, a Dwyfol Wirionedd yn oleuni y nefoedd, am hyny y gelwir yr Arglwydd yn y Gair *Y Goleuni;* hefyd pob gwirionedd o hono a elwir *goleuni*, fel y gwelir yn y rhanau canlynol: "Yna y llefarodd yr Iesu, Goleuni y byd ydwyf fi: yr hwn am dilyno i, ni rodia mewn tywyllwch, eithr Efe a gaiff oleuni y bywyd," Ioan viii. 12. "Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf," Ioan ix. 5. "Yna yr Iesu a ddywedodd wrthynt, eto ychydig enyd y mae y goleuni gyda chwi. Rhodiwch tra fyddo genych y goleuni, fel na ddalio y tywyllwch chwi: a'r hwn sydd yn rhodio mewn tywyllwch ni ŵyr i ba le y mae yn myned. Tra fyddo genych oleuni, credwch yn y goleuni, fel y byddoch blant y goleuni. Mi a ddaethum yn oleuni i'r byd, fel y bo i bob un ar sydd yn credu ynof fi, nad arhoso yn y tywyllwch," Ioan xii. 35, 36, 46. "A hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni," Ioan iii. 19. Dywedodd Ioan am yr Arglwydd, "Hwn ydoedd y gwir Oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn ar y sydd yn dyfod i'r byd," Ioan i. 4, 9. "Y bobl oedd yn eistedd mewn tywyllwch, a welodd oleuni mawr: ac i'r rhai a eisteddent yn mro a chysgod angeu, y cyfododd goleuni iddynt,"





Math. iv. 16. "Rhoddaf di yn gyfammod pobl, ac yn Oleuni Cenhedloedd," Esaiah xlii. 6. "Mi a'th roddaf hefyd yn oleuni i'r Cenhedloedd, fel y byddych yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaear," Esaiah xlix. 6. "A chenhedloedd y rhai cadwedig a rodiant yn ei goleuni hi," Dat. xxi. 24. "Anfon dy oleuni a'th wirionedd; tywysant hwy fi," Psalm xliii. 3. Yn y rhanau hyn ac ereill, gelwir yr Arglwydd yn *Oleuni* o ran y Dwyfol Wirionedd a ddeillia o hono, a'r gwirionedd ei hun hefyd a elwir yn *oleuni*. Gan fod goleuni y nefoedd yn deilliaw o'r Arglwydd fel haul, am hyny, pan weddnewidiwyd Ef ger bron Pedr, Iago, ac Ioan, "A'i wyneb a ddisgleiriodd fel yr haul, a'i ddillad oedd cyn wyned a'r goleuni," neu "yn gannaid iawn fel eira; y fath ni fedr un pannwr ar y ddaear eu cannu," Math. xvii. 2; Marc ix. 3. Ymddangosai dillad yr Arglwydd felly, am eu bod yn cynddrychioli y Dwyfol Wirionedd ddeillia o hono yn y nefoedd; *Dillad*, hefyd, yn y Gair a arwyddant wirioneddau; am hyny y dywedir yn Dafydd: "O Arglwydd fy Nuw, yr hwn wyt yn gwisgo goleuni fel dilledyn," Psalm civ. 1, 2.

130. Eglur hefyd mai ysbrydol yw goleuni y nefoedd, ac mai Dwyfol Wirionedd yw goleuni ysbrydol, am fod dyn yn mwynhau goleuni ysbrydol a chael ei oleuo ganddo i'r graddau y byddo ganddo ddeall a doethineb o'r Gwirionedd Dwyfol. Goleuni ysbrydol dyn yw goleuni ei ddeall, a gwrthrychau ei ddeall yw gwioneddau, yn cael eu trefnu yn ddadansoddol mewn trefn gan y goleuni hwnw, a'u ffurfio yn resymau, a chasgliadau yn canlyn yn gyfresau o honynt yn ol y goleuni ysbrydol. Y dyn anianol ni ŵyr mai trwy wir oleuni y gwel y deall y fath bethau, am nad yw yn gweled y goleuni hwnw â'i lygaid, na'i ganfod yn ei feddwl; er hyny gŵyr llawer am dano ac a'i gwahaniaethant oddiwrth y goleuni naturiol, yr hwn yn unig a fwynha y rhai a feddyliant yn anianol ac nid yn ysbrydol. Meddwl yn anianol wna y rhai a edrychant yn unig i'r byd, gan briodoli pob peth i natur; ond meddwl yn ysbrydol wna y rhai a edrychant i'r nefoedd, ac a briodolant bobpeth i'r Duwdod. Caniatawyd i mi yn fynych ganfod a gweled hefyd, fod y goleuni a oleua y meddwl yn wir oleuni, hollol wahanol i'r hyn a elwir goleuni naturiol. Dyrchafwyd fi yn raddol yn fwy mewnol i'r goleuni hwnw, nes y goleuwyd fy neall i ganfod pethau na chanfyddwn o'r blaen, ac o'r diwedd y fath bethau nas gall y meddwl ymaflyd ynddynt pan yn oleuedig gan oleuni natur yn unig. Bum weithiau yn brudd am fod y meddwl anianol mor bŵl i bethau ganfyddir mor glir ac amlwg mewn goleuni nefol. Gan fod goleuni perthynol i'r deall, llefarwn am y deall yn yr un termau ac am y llygad: ei fod yn *gweled* a mwynhau *goleuni* pan yn canfod, a'i fod yn *dywyll* ac yn y *tywyllwch* pan nad yw yn canfod; a llawer o ddywediadau tebyg.

131. Gan mai Dwyfol Wirionedd yw goleuni y nefoedd, y mae hefyd yn Ddwyfol Ddoethineb a Deall, gan hyny, codi i oleuni y nefoedd yw codi i ddeall a doethineb, felly y mae goleuni gan yr angylion yn gywir i'r un gradd ac y mae ganddynt ddeall a doethineb. Gan mai Dwyfol Ddoethineb yw goleuni y nefoedd, adwaenir cymeriad pob un yn y goleuni hwnw. Dangosir mewnolion pob un yn amlwg yn eu hwynebau, yn hollol fel y maent; ni chelir y peth lleiaf. Yr angylion mewnol a garant fod pob peth ynddynt yn amlwg, am na ddymunant ond daioni; ond, i'r gwrthwyneb, y rhai islaw y nefodd, ac na ddymunant ddaioni, ddychrynant yn ddirfawr rhag cael eu gweled yn ngoleuni y nefoedd, ond, er syndod yr uffernolion yn mhlith eu gilydd a ymddangosant fel dynion, ond yn ngoleuni y nefoedd, ymddangosant fel cawrfilod, gyda gwynebau erchyll a chyrff erchyll, yn ffurfiau perffaith o'u hanian ddrwg. Yr un peth yw gyda dyn o ran ei ysbryd, pan ei gwelir gan angylion. Os da yw, ymddengys fel dyn, hardd yn ol y daioni a fedd; os drwg, ymddengys fel cawrfil, dirywiedig yn ol ei ddrwg. Felly, eglur yw nad oes dim anamlwg yn ngoleuni y nefoedd, am mai Dwyfol Wirionedd yw goleuni y nefoedd.

132. Gan fod Gwirionedd Dwyfol yn oleuni yn y nefoedd, am hyny pob gwirionedd a ddisgleiria, pa le bynag y byddo, yn yr angel neu allan o hono, yn y nefoedd neu allan o honi; ond gwirioneddau allan o'r nefoedd ni ddisgleiriant fel gwirioneddau yn y nefoedd. Gwirioneddau allan o'r nefoedd a ddisgleiriant yn oeraidd, fel eira heb wres, am na ddeillia eu hanfod o ddaioni, fel gwirioneddau o fewn y nefoedd; am hyny pan disgyna goleuni y nefoedd ar y goleuni oeraidd hwnw, efe y ddiflana, ac os bydd drwg odditano, troir ef yn dywyllwch. Bum yn dyst weithiau o hyn, ac o lawer o bethau rhyfedd ereill perthynol i ddisglaerder gwirioneddau, na nodaf yma.

133. Dywedir rhywbeth yn awr am wres y nefoedd. Cariad yw hanfod gwres y nefoedd, yn deilliaw o'r Arglwydd fel haul. Dywedwyd yn barod mae haul y nefoedd yw Cariad Dwyfol yn yr Arglwydd ac yn deilliaw o'r Arglwydd; felly amlwg yw, fod gwres y nefoedd fel ei goleuni yn ysbrydol, am fod y ddau o'r un tarddiad. Y mae dau beth yn deilliaw o'r Arglwydd fel haul: Dwyfol Wirionedd a Dwyfol Ddaioni: Dwyfol Wirionedd yn y nefoedd sydd oleuni, a Dwyfol Ddaioni sydd wres; ond Dwyfol Wirionedd a Dwyfol Ddaioni sydd mor unedig, fel nad ydynt ddau ond un; er hyny gwahenir hwynt o ran yr angylion, am fod rhai angylion yn derbyn mwy o'r Dwyfol Ddaioni na'r Dwyfol Wirionedd, ac ereill yn derbyn mwy o'r Dwyfol Wirionedd na'r Dwyfol Ddaioni. Y rhai a dderbyniant fwy o'r Dwyfol Ddaioni sydd yn nheyrnas nefol yr Arglwydd, a'r rhai a dderbyniant fwy o'r Dwyfol Wirionedd sydd yn nheyrnas ysbrydol





yr Arglwydd; ond yr angylion mwyaf perffaith yw y rhai a dderbyniant y ddau yn yr un gradd.

134. Amrywia gwres y nefoedd, fel ei goleuni, yn mhob man; gwahanol yw gwres y deyrnas nefol i wres y deyrnas ysbrydol, a gwahanol yw yn mhob cymdeithas o honynt. Nid gwahanol mewn graddau yn unig, ond hefyd mewn natur. Mwy angerddol a phur ydyw yn nheyrnas nefol yr Arglwydd, am fod yr angylion yno yn derbyn mwy o'r Dwyfol Ddaioni: llai angerddol a phur ydyw yn Nheyrnas Ysbrydol yr Arglwydd, am fod yr angylion yno yn derbyn mwy o'r Dwyfol Wirionedd; a gwahaniaetha yn mhob cymdeithas yn ol y derbyniad o hono. Y mae gwres yn yr uffernoedd hefyd, ond o ansawdd aflan. Gwres y nefoedd a olygir wrth dân nefol a chysegredig, a gwres uffern a olygir wrth dân uffernol a halogedig; cariad a olygir wrth y ddau. Tân nefol a ddengys gariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog, a phob serch a darddant o'r ddau gariad hyn; tân uffernol a ddengys hunan-gariad a chariad at y byd, a phob trachwant a darddant o'r ddau gariad hyn. Mai gwres yw cariad yn deilliaw o darddiad ysbrydol sydd amlwg oddiwrth fod dyn yn poethu yn ol gweithgarwch ei gariad; canys yn ol ei faint a'i natur y cynesa ac y fflamia; a daw y gwres yn amlwg pan ymosodir ar ei gariad. Felly, hefyd, arferol yw siarad am ddyn ei fod yn *fflamio*, yn *poethu*, yn *llosgi*, yn *berwi*, ac *ar dân*, mewn perthynas i'r serchiadau ddeilliant o gariad at y da, ac hefyd y trachwantau ddeilliant o gariad at y drwg.

135. Y cariad a ddeillia o'r Arglwydd fel haul a deimlir yn y nefoedd fel gwres, am fod *mewnolion* yr angylion yn derbyn cariad o'r Daioni Dwyfol ddeillia o'r Arglwydd, a'u *hallanolion* a gynesir o'r *mewnol*. Felly, y mae gwres a chariad yn cyfateb i'w gilydd yn y nefoedd, fel y mae pob un yno yn mwynhau gwres o ansawdd a gradd yn cyfateb i'w gariad, megis y dywedwyd. Nid yw gwres y byd yn myned i'r nefoedd, am ei fod yn rhy gwrs, a naturiol yw ac nid ysbrydol; ond fel arall y mae gyda dynion, am eu bod hwy yn y byd ysbrydol a naturiol. Y maent hwy yn gynes o ran yr ysbryd yn hollol yn ol eu cariad; ond o ran y corff y maent yn gynes o wres yr ysbryd ac o wres y byd; y naill a lifa i'r llall am eu bod yn cyfateb. Natur cyfatebiaeth y ddau wres hyn a welir yn yr anifeiliaid, canys eu nwydau—a'r benaf o honynt yw yr awydd i barhau eu hiliogaeth—dorant allan ac a weithredant yn ol presenoldeb a graddau y gwres o haul y byd, yn ffynu yn unig yn y gwanwyn a'r hâf; ond mawr yw camsyniad y rhai a ddychmygant mai gwres dylifol y byd gyffroa y nwydau; oblegid nid yw y naturiol yn llifo i'r ysbrydol, ond yr ysbrydol a lifa i'r naturiol. Dylifiad yn ol Dwyfol Drefn yw hwn; croes i'r Drefn fuasai y dylifiad arall.

136. Angylion, fel dynion, a feddant ddeall ac ewyllys. Goleuni y nefoedd ffurfia fywyd eu deall, am mai Dwyfol Wirionedd yw goleuni y nefoedd, o'r hwn y deillia Dwyfol Ddoethineb; a gwres y nefoedd ffurfia fywyd eu hewyllys, am mai Dwyfol Ddaioni yw gwres y nefoedd, o'r hwn y deillia Dwyfol Gariad. Gwir hanfod bywyd yr angylion a dardd o'r gwres hwn, nid o'r goleuni, ond mor bell ag y byddo gwres ynddo; ac amlwg yw fod bywyd yn gyffredinol yn tarddu o wres, oblegid pan gilia gwres diflana bywyd. Felly hefyd am ffydd heb gariad, neu wirionedd heb ddaioni; oblegid gwirionedd a elwir gwirionedd yn deilliaw o ffydd, goleuni yw, a'r daioni a gyfyd o gariad, gwres yw. Y gwirioneddau hyn sydd fwy amlwg wrth eu cydmaru â gwres ac â goleuni y byd, i'r rhai y mae gwres a goleuni y nefoedd yn cyfateb; oblegid o wres y byd yn un â'r goleuni y mae pob peth a dŷf o'r ddaear yn bywhau a blaguro; cymer hyn le yn y gwanwyn a'r hâf; ond nid oes dim yn bywhau a blaguro trwy y goleuni heb wres, ond pobpeth yn gwywo a marw; a chymer hyn le yn y gauaf, pan na byddo gwres, er i'r goleu aros. Oddiwrth y gyfatebiaeth hon y gelwir y nefoedd yn *baradwys*, am fod y gwirionedd yno yn un â daioni, neu ffydd a chariad, fel goleu yn un â gwres yn ngwanwyn y byd. Y sylwadau hyn a eglurant yn mhellach y gwirionedd, *Mae Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn y nefoedd yw Cariad ato Ef, a chariad at gymydog;* gwel r. 13—19.

137. Dywedir yn Ioan, "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair; trwyddo Ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo Ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd. Ynddo Ef yr oedd bywyd, a'r bywyd oedd oleuni dynion. Yn y byd yr oedd Efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo Ef. A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, ac ni a welsom Ei ogoniant Ef," i. 1, 3, 4, 10, 14. Eglur yw mai yr Arglwydd olygir yma wrth *y Gair*, canys dywedir—*A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd;* ond beth olygir yn neillduol wrth y Gair, nid amlygwyd eto, am hyny rhoddir eglurhad. Y Gair yma, yw Dwyfol Wirionedd, yn yr Arglwydd, ac yn deilliaw o'r Arglwydd; am hyny y gelwir Ef goleuni, a'r goleuni sydd Ddwyfol Wirionedd fel y dangoswyd yn flaenorol. Pa fodd y gwnawd ac y crewyd pob peth gan y Dwyfol Wirionedd a eglurir yn awr.

Gwirionedd Dwyfol fedd bob gallu yn y nefoedd, ac hebddo nid oes allu o gwbl. Yr holl angylion a elwir *galluoedd*, o'r Gwirionedd Dwyfol, ac y maent yn alluoedd gwirioneddol i'r graddau y byddont dderbynwyr neu dderbynfeydd o'r Gwirionedd Dwyfol: ac felly y mae ganddynt allu ar uffern, ac ar bawb gwrthwynebol: oblegid mil o elynion yn uffern nis gallant ddal un pelydr o oleuni y nefoedd, sef, Dwyfol Wirionedd. Gan fod





yr angylion yn angylion am eu bod yn derbyn Dwyfol Wirionedd, y mae yn canlyn nad oes i'r holl nefoedd darddiad arall, oblegid o angylion y cynwysir y nefoedd.

Fod y fath allu dirfawr yn gynhenid yn y Gwirionedd Dwyfol ni ellir credu gan rai heb syniad amgen am wirionedd nag fel meddwl, neu ymadrodd, nad oes ynddynt allu cynhenid, ond mor bell ac y gwna ereill ufuddhau iddynt; ond y mae gan Wirionedd Dwyfol y fath allu cynhenid ynddo Ei Hun, a gallu o'r fath natur, fel y crewyd nef a daear ganddo, a phob peth sydd ynddynt. Gellir egluro yn mhellach fod y fath allu cynhenid yn y gwirionedd trwy ystyried gallu gwirionedd a daioni mewn dyn, a gallu y goleuni a'r gwres a ddeilliant o'r haul yn y byd.

*Trwy allu gwirionedd a daioni mewn dyn.* Pob peth a wna dyn, efe a'i gwna o'r deall a'r ewyllys. Efe a weithreda o'i ewyllys mewn perthynas i ddaioni, ac o'i ddeall mewn perthynas i wirionedd; oblegid y mae holl bethau yr ewyllys yn perthyn i ddaioni, a holl bethau y deall yn perthyn i wirionedd. Yr holl gorff, gan hyny, a osodir mewn gwaith gan yr ewyllys a'r deall, a miloedd o bethau a gyd-ruthrant o'u gwirfodd, wrth eu harch a'u pleser; felly, amlwg yw, fod yr holl gorff wedi ei ffurfio er ufuddhau i ddaioni a gwirionedd, ac, o ganlyniad, wedi ei ffurfio o ddaioni a gwirionedd.

*Trwy allu gwres a goleuni o'r haul yn y byd.* Yr holl bethau a dyfant yn y byd, megis coed, ŷd, blodau glaswellt, ffrwythau, a hadau, ni thardd eu bodolaeth o ffynonell amgen na gwres a goleuni yr haul; felly, ymddengys y fath allu cynyrchu gynwys yr elfenau hyn; beth ynte raid fod gallu Dwyfol Oleuni, sef Dwyfol Wirionedd, a Dwyfol Wres, sef Dwyfol Ddaioni! O honynt y bodola y nefoedd, ac o ganlyniad y byd—oblegid fod y byd yn bodoli trwy y nefoedd, fel y dangoswyd uchod. Esbonia hyn yn mha fodd y deallir, fod pob peth wedi eu gwneyd gan y Gair, ac mai *hebddo Ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd;* ac hefyd *fod y byd wedi ei wneuthur ganddo Ef*, sef, gan y Gwirionedd Dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd. Am y rheswm hwn, yn Llyfr Genesis, sonir *yn gyntaf am oleuni*, ac wedi hyny am y pethau ddibynant ar oleuni (Gen. i. 3, 4). Dyma yr achos hefyd fod holl bethau y bydysawd, yn y nef ac yn y byd, yn perthyn i ddaioni a gwironedd, ac o'u huniad y tardd gwir fodolaeth.

139. Sylwer am y Daioni Dwyfol a'r Gwirionedd Dwyfol a lifant i'r nefoedd o'r Arglwydd fel haul, nad ydynt *yn* yr Arglwydd ond *o'r* Arglwydd: Cariad Dwyfol yn unig sydd yn yr Arglwydd, yr Hanfod o'r hon y tardd bodolaeth Daioni Dwyfol a Gwirionedd Dwyfol yn y nefoedd. Gellir egluro hyn trwy gydmariaeth â haul y byd naturiol; nid yw y gwres a'r goleuni sydd yn y byd, *yn* yr haul ond *o'r* haul: *yn* yr haul nid oes ond tân, o'r hwn y deillia gwres a goleu.

140. Gan mai Cariad Dwyfol yw yr Arglwydd fel haul, a Chariad Dwyfol yw Daioni Dwyfol ei hun, am hyny yr Egwyddor Ddwyfol a ddeillia o hono—a'i Dduwdod yn y nefoedd, a elwir er mwyn gwahaniaethu, Gwirionedd Dwyfol, er mai Daioni Dwyfol yn un â Gwirionedd Dwyfol ydyw. Y Gwirionedd Dwyfol hwn a elwir yr (Ysbryd) Glân yn deilliaw o hono.

### Y Pedwar Parth yn y Nefoedd.

141. Y mae pedwar parth yn y nefoedd, fel yn y byd—gogledd, deheu, dwyrain a gorllewin. Penodir y rhai hyn yn y ddau fyd gan safle yr haul; yn y nefoedd gan haul y nefoedd, yr hwn yw yr Arglwydd, ac yn y byd gan haul y byd; ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt.

Y gwahaniaeth cyntaf yw, dyna y parth a elwir deheu yn y byd, lle y mae yr haul yn ei uchder mwyaf uwchlaw y ddaear; y gogledd, lle byddo yn y pwynt gwrthgyferbyniol islaw y ddaear; y dwyrain, lle y cyfyd yn y cyhydeddau; a'r gorllewin, lle y pryd hwnw y machluda. Felly, yn y byd, pob parth a benderfynir gan y deheu, ond yn y nefoedd y parth hwnw a elwir y dwyrain lle yr ymddengys yr Arglwydd fel haul; y gorllewin ar ei gyfer; y deheu ar y llaw ddeheu, a'r gogledd ar yr aswy, ac felly yn mha gyfeiriad bynag y try y trigolion eu hunain. Fel hyn yr holl barthau a benderfynir yn y nefoedd gan y dwyrain; a'r parth hwnw a elwir y dwyrain lle yr ymddengys yr Arglwydd fel haul, am fod holl *darddiad* bywyd yn deilliaw o hono Ef fel haul; ac hefyd oblegid i'r graddau y byddo gwres a goleuni, neu gariad a deall, yn cael eu derbyn gan yr angylion o hono Ef, y dywedir fod yr Arglwydd yn *cyfodi* arnynt. Dyma y rheswm y gelwir yr Arglwydd y Dwyrain yn y Gair.

142. Gwahaniaeth arall yw, fod y dwyrain o hyd o flaen yr angylion, y gorllewin o'u tu ol, y deheu ar eu llaw ddeheu, a'r gogledd ar yr aswy; ond gan mai anhawdd deall hyn yn y byd, am fod dyn yn troi ei wyneb i bob parth, am hyny rhoddir eglurhad.

Yr holl nefoedd a dry ei hun at yr Arglwydd fel ei chanolbwynt cyffredin, felly yr holl angylion a droant eu hunain ato Ef. Gwyddir fod tuedd pob peth at ganolbwynt cyffredinol ar y ddaear; ond gwahanol yw y duedd yn y nefoedd i'r duedd yn y byd: yn y nefoedd y rhanau blaen sydd yn tueddu at y canolbwynt cyffredin, ond yn y byd y rhanau isaf; y duedd hon a elwir yn y byd, y gallu canolgyrch, ac hefyd atdyniad. Mewnolion yr angylion a drwyadl droant yn mlaen, ac am fod y mewnolion yn dangos eu hunain yn y gwyneb, y gwyneb gan hyny benderfyna barthau y nefoedd.

143. Fod y dwyrain o flaen yr angylion *ffordd bynag y troant*, fydd





yn fwy anhawdd eto i'w ddeall yn y byd, am fod pob parth o flaen dyn yn ol fel y troa ei hun o amgylch: am hyny hefyd yr eglurir hyn.

Angylion a droant ac a blygant eu gwynebau a'u cyrff i bob cyfeiriad fel dynion, ond y mae y dwyrain yn wastad o flaen eu llygaid; oblegid fod newidiadau gwedd gyda'r angylion yn wahanol i hyny gyda dynion, ac yn deilliaw o darddiad gwahanol. Gwir yr ymddangosant yn debyg, ond nid ydynt. Y cariad llywodraethol yw y tarddiad o'r hwn y penderfynir ac y deillia pob gwedd gydag angylion ac ysbrydion. Dywedasom fod mewnolion yr angylion yn troi at eu canolbwynt cyffredin, yr hwn yw yr Arglwydd yn ymddangos fel haul yn y nefoedd: a chan fod eu cariad felly yn barhaus o flaen eu mewnolion, a'u gwyneb yn bodoli o'u mewnolion ac yn ffurf allanol o honynt, am hyny y mae y cariad llywodraethol yn barhaus o flaen eu gwyneb. Gan hyny, yn y nefoedd y mae yr Arglwydd fel haul yn barhaus o'u blaen, gan mai o hono Ef y tardda eu cariad; a chan fod yr Arglwydd ei Hun yn Ei gariad ei Hun gyda'r angylion, am hyny, Efe sydd yn achosi iddynt edrych ato Ef ffordd bynag y troant. Nis gellir egluro y pethau hyn yn mhellach yn awr, ond yn y penodau canlynol—yn neillduol ar Arddangosiadau ac Ymddangosiadau, ac ar amser a lle yn y nefoedd—gwneir hwynt yn hawddach i'w deall.

Cefais wybod a chanfod trwy lawer o brofiad fod yr Arglwydd o hyd o flaen yr angylion. Bryd bynag y bum yn ngwmpeini angylion, teimlwn yr Arglwydd o flaen fy wyneb: ac er nad oedd i'w weled, eto canfyddwn Ef mewn goleuni. Tystiodd yr angylion hefyd yn fynych mai felly yr oedd. Am fod yr Arglwydd yn wastad o flaen gwynebau yr angylion, arferir dywedyd yn y byd am y rhai a gredant yn Nuw ac a'i carant Ef, eu bod yn ei osod Ef o flaen eu llygaid, ac o flaen eu gwyneb, a'u bod yn edrych ato, a'i gadw mewn golwg. Y dull hwn o siarad a dardd o'r byd ysbrydol, canys llawer o ddywediadau oddiyno sydd mewn iaith ddynol, er na ŵyr dyn eu tarddiad.

144. Fod y fath droi at yr Arglwydd, yw un o ryfeddodau y nefoedd. Gall llawer fod yn yr un lle, un yn troi ei wyneb a'i gorff i'r cyfeiriad hwn, y llall i gyfeiriad arall, ac eto pawb yn gweled yr Arglwydd o'u blaen, a phob un ar deheu ar ei ddeheulaw, y gogledd ar ei aswy, a'r gorllewin o'r tu cefn. Rhyfeddod arall yn y nef yw, er fod gwedd yr angylion yn barhaus tua'r dwyrain, y mae ganddynt wedd hefyd tua'r tri pharth arall; ond eu gwedd tua'r rhai hyn sydd o'u golwg fewnol, sef golwg eu meddwl. Rhyfeddod arall hefyd yn y nef yw, nad cyfreithlon i neb sefyll tu cefn i'r llall ac edrych ar y tu ol i'w ben; am yr aflonyddai hyny y dylifiad o ddaioni a gwirionedd oddiwrth yr Arglwydd.

145. Nid yw yr angylion yn gweled yr Arglwydd fel y gwel Ef hwynt, oblegid hwy a welant yr Arglwydd trwy eu llygaid, ond yr Arglwydd a'u gwel hwynt yn eu talcen, am fod y talcen yn cyfateb i gariad; a'r Arglwydd a lifa i'w hewyllys trwy eu gariad, ac a wna ei Hun yn weledig yn eu deall, i'r hyn y mae y llygaid yn cyfateb.

146. Y parthau yn y nefoedd a gyfansoddant deyrnas nefol yr Arglwydd, a wahaniaethant oddiwrth y parthau a gyfansoddant ei deyrnas ysbrydol; am fod yr Arglwydd yn ymddangos fel haul i angylion ei deyrnas nefol, ond fel y lleuad i angylion ei deyrnas ysbrydol. Lle yr ymddengys yr Arglwydd yw y dwyrain, a'r pellder rhwng yr haul a'r lleuad yn y nefoedd yw deg a'r hugain o raddau; felly y mae yr un gwahaniaeth rhwng parthau y deyrnas nefol a rhai y deyrnas ysbrydol. Dangoswyd r. 20—28, fod y nefoedd yn cael ei rhanu i ddwy deyrnas a elwir y deyrnas nefol, a'r deyrnas ysbrydol, a bod yr Arglwydd yn ymddangos yn y deyrnas nefol fel haul, ac yn y deyrnas ysbrydol fel lleuad, r. 118; ond ni wna hyn barthau y nefoedd yn ddiwahan, oblegid nis gall yr angylion ysbrydol esgyn at yr angylion nefol, na'r rhai nefol ddisgyn at y rhai ysbrydol (Gwel uchod, r. 35).

147. Gellir deall yn awr natur ac ansawdd presenoldeb yr Arglwydd yn y nefoedd, canys y mae Efe yn mhob man, a chyda phob un, yn y daioni a'r gwirionedd a ddeillia o hono Ef; ac felly y mae Efe gyda'r angylion yn Ei eiddo ei Hun, fel y dywedwyd uchod, r. 12. Canfyddant bresenoldeb yr Arglwydd yn eu mewnolion; oddiyma y gwel eu llygaid; fel hyn hwy a'i gwelant Ef tuallan iddynt eu hunain, am fod parhad (rhwng yr Arglwydd yn bodoli ynddynt, a'r Arglwydd yn bodoli tuallan iddynt). Amlyga hyn y modd y mae yr Arglwydd ynddynt, a hwy yn yr Arglwydd, yn ol ei eiriau ei Hun. "Arhoswch ynof fi, a mi ynoch chwi," Ioan xv. 4. "Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minau ynddo yntau," Ioan vi. 56. Cnawd yr Arglwydd a arwydda Ddwyfol Ddaioni, a'i waed, Ddwyfol Wirionedd.

148. Holl drigolion y nefoedd a drigant ar wahan yn ol y parthau. Y rhai a feddant ddaioni yn tarddu o gariad a drigant tua'r dwyrain a'r gorllewin; y rhai a'i cenfydd yn glir, tua'r dwyrain, a'r rhai a'i cenfydd yn aneglur, tua'r gorllewin. Y rhai a feddant ddoethineb yn tarddu o ddaioni cariad, a drigant yn y deheu a'r gogledd; y rhai yn ngoleuni clir doethineb yn y deheu, a'r rhai yn y goleuni aneglur yn y gogledd. Trigfanau angylion teyrnas ysbrydol yr Arglwydd a drefnir yn yr un modd a rhai angylion y deyrnas nefol, eto, gyda gwahaniaeth yn ol daioni cariad a goleuni gwirionedd yn eu plith. Cariad yn y deyrnas nefol, yw cariad at yr Arglwydd, a goleuni gwirionedd yn tarddu





o hono yw doethineb; ond yn y deyrnas ysbrydol cariad at y cymydog yw, a goleuni y gwirionedd yn tarddu o hono yw deall, a elwir hefyd ffydd: gwel uchod, r. 23. Gwahaniaethant, hefyd, o ran y parthau; oblegid fod y parthau yn y ddwy deyrnas ddeg a'r hugain o raddau oddiwrth eu gilydd, fel y dywedwyd uchod, r. 146.

149. Yn mhob cymdeithas yn y nefoedd yr un drefn sydd. Y rhai cynesaf eu cariad sydd yn y dwyrain, a'r rhai llai cynes yn y gorllewin: y rhai goleuaf mewn doethineb a deall sydd yn y deheu, a'r rhai llai goleu yn y gogledd. Yr angylion a drigant fel hyn ar wahan am fod pob cymdeithas yn ddelw o'r holl nefoedd, ac hefyd yn nefoedd ar raddfa fach—Gwel uchod, r. 51—58—Yr un drefn sydd yn eu cynulliadau. Dygir hwynt i'r drefn hon yn ganlynol i ffurf y nefoedd, yr hon a wna i bob un adwaen ei le ei hun. Darpara yr Arglwydd hefyd fod rhai o bob dosparth yn mhob cymdeithas, fel y byddo ffurf y nefoedd yr un yn mhob man. Er hyny y mae trefniad y nefoedd gyffredinol yn wahanol i eiddo cymdeithas, fel y mae cyfangorff yn wahanol i'w ranau; canys y mae cymdeithasau y dwyrain yn rhagori ar rai y gorllewin, a rhai y deheu yn rhagori ar rai y gogledd.

150. Felly parthau y nefoedd a arwyddant nodweddion neillduol yr angylion a drigant yno; y dwyrain a arwydda gariad a'i ddaioni yn cael ei ganfod yn glir; y gorllewin yr un peth yn cael ei ganfod yn aneglur; y deheu doethineb a deall mewn goleuni clir, a'r gogledd yr un peth mewn goleuni aneglur. Oddiwrth yr arwyddocâd hwn i barthau y nefoedd, arwyddant yr un peth yn ystyr fewnol, neu ysbrydol y Gair; am fod ystyr fewnol, neu ysbrydol y Gair, yn cytuno yn berffaith ar pethau sydd yn y nef.

151. Gwrthwyneb yw parthau uffern. Yr uffernolion ni edrychant at yr Arglwydd fel haul na lleuad, ond yn ol oddiwrth yr Arglwydd i'r tywyllwch dudew sydd yn lle haul y byd, ac i'r tywyllwch sydd yn lle lleuad y ddaear. Y rhai a elwir Elffod (Genii) a edrychant i'r tywyllwch dudew, a'r rhai a elwir *ysbrydion* a edrychant i'r tywyllwch. Gwelir uchod, r. 121, nad yw haul a lleuad y byd yn ymddangos yn y byd ysbrydol, ond, yn lle yr haul, tywyllwch dudew yn wrthwyneb i haul y nefoedd, ac, yn lle y lleuad, tywyllwch ar gyfer lleuad y nefoedd; felly, y parthau yn uffern ydynt yn wrthwyneb i'r parthau yn y nefoedd. Y tywyllwch dudew a'r tywyllwch sydd yn y dwyrain; y gorllewin sydd, lle y mae haul y nefoedd; y deheu sydd ar y ddeheulaw, a'r gogledd ar yr aswy; pery hyn ffordd bynag y troant eu hunain; nis gall fod fel arall, am fod holl dueddfryd eu mewnolion, a phob gwedd allanol ddeillia o hyny yn troi ac ymegnio i'r un cyfeiriad. Dangoswyd uchod, r. 143, mai yn ol eu cariad y mae cyfeiriad y mewnolion a phenodiad pawb yn y byd arall; ond cariad y rhai

sydd yn uffern hunan-gariad a chariad y byd yw, a'r ddau gariad hyn a arwyddoceir gan haul a lleuad y byd naturiol (Gwel r. 122); gwrthwyneb ydynt hefyd i gariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog. Am hyny yr ysbrydion drwg a droant yn ol oddiwrth yr Arglwydd i'r tywyllwch a'r tywyllwch dudew. Y rhai sydd yn uffern hefyd a drigant, yn ol eu parthau. Y rhai sydd mewn drygau yn tarddu o'u hunan-gariad, a drigant o'r dwyrain i'r gorllewin; a'r rhai sydd mewn cyfeiliornadau o ddrwg, a drigant o'r deheu i'r gogledd; ond dywedir mwy ar hyn pan driniwn yr uffernoedd.

152. Pan gaiff unrhyw ysbryd drwg fynedfa i blith y rhai da, cymysgir y parthau i'r fath raddau, fel nas gŵyr y rhai da braidd pa le y mae eu dwyrain. Canfyddais hyn ar adegau, ac hysbyswyd hyn i mi gan ysbrydion yn tristau o'i herwydd.

153. Ysbrydion drwg weithiau a ymddangosant yn troi tua pharthau y nefoedd, ac yna y maent yn deall a chanfod y gwirionedd, ond heb gariad at ddaioni; am hyny, mor fuan ag y troant eu hunain yn ol i'w parthau eu hunain, darfyddant ddeall a chanfod y gwirionedd, a thaerant am y gwirioneddau a glywsant ac a ganfyddasant, mae cyfeilionadau ac nid gwirioneddau oeddynt; dymunant hefyd i gyfeiliornadau fod yn wirioneddau. Am y troi hwn, dywedwyd wrthyf y gellir troi deall y drygionus felly, ond nid yr ewyllys; fod yr Arglwydd wedi darparu hyn fel y gallo pawb weled a chydnabod gwirioneddau; ond er hyny nad yw neb yn eu derbyn oddieithr ei fod yn meddu daioni, am mai daioni sydd yn derbyn gwirioneddau, ac nid drwg. Tebyg yw gyda dyn fel y gellir ei wella trwy wirioneddau; ond eto nid yw yn gwella ond i'r graddau y mae yn dda. Ar gyfrif hyn y gellir troi dyn at yr Arglwydd yn yr un modd; ond os yw efe mewn bywyd drwg, buan y try efe ei hun yn ol drachefn, ac a gadarnha ynddo ei hun gyfeiliornadau ei ddrwg ei hun, yn groes i'r gwirioneddau a welodd ac a ddeallodd; cymer hyn le pan feddylia ynddo ei hun o'i gyflwr mewnol ei hun.

### Cyfnewidiadau ystad Angylion y Nefoedd.

154. Wrth gyfnewidiadau ystad yn yr angylion, y golygir eu cyfnewidiadau mewn perthynas i gariad a ffydd, ac o ganlyniad mewn perthynas i ddoethineb a deall, ac felly am ystadau eu bywyd. Sonir am ystadau yn nglyn â bywyd, a'r pethau perthynol i fywyd; a chan fod bywyd angylaidd yn fywyd o gariad a ffydd, ac felly o ddoethineb a deall, cymhwysir y term ystadau at y pethau hyn, a gelwir hwynt ystadau cariad a ffydd, ac ystadau doethineb a deall. Desgrifir yn awr y modd y cyfnewidia yr ystadau hyn gyda'r angylion.

155. Nid yw yr angylion o hyd yn yr un ystad o gariad, nac o





ganlyniad, o ddoethineb, am fod eu holl ddoethineb yn tarddu o gariad ac yn cyfateb iddo. Weithiau y maent mewn ystad o gariad angerddol, ac weithau mewn ystad o gariad llai angerddol, yn lleihau yn raddol o'r angerddoldeb mwyaf i'r lleiaf. Pan y maent yn ngradd eithaf cariad, y maent yn ngoleuni a gwres eu bywyd, neu mewn dysgleirdeb a mwynhad; ond pan y maent yn y gradd lleiaf, y maent yn y cysgod ac yn oer, neu yn eu hystad aneglur ac aflawen, o'r hon y dychwelant drachefn i'r flaenaf, ac felly yn olynol. Nid yw yr ystadau hyn yn dilyn eu gilydd yn unffurfiol, ond gydag amrywiaeth, fel amrywiaethau ystad y goleu a'r cysgod, y gwres a'r oerni; neu fel boreu, hanner dydd, prydnawn, hwyr a nos yn mhob dydd naturiol, yn amrywio yn barhaus yn nghwrs y flwyddyn. Y maent hefyd yn cyfateb i'w gilydd; y boreu yn cyfateb i ystad cariad yn ei ddysgleirdeb; hanner dydd i ystad doethineb yn ei ddysgleirdeb; prydnawn i ystad doethineb yn ei haneglurder; a nos i ystad heb gariad na doethineb; ond nid oes cyfatebiaeth rhwng y nos ag ystadau bywyd y rhai sydd yn y nefoedd. Y mae cyfatebiaeth rhwng rhai yno a'r wawr flaenora y dydd, ond cyfatebiaeth y nos sydd ar rhai yn uffern. Oddiwrth y gyfatebiaeth hon *dyddiau* a *blynyddoedd*, yn y Gair, a arwyddant ystadau bywyd yn gyffredinol; *gwres* a *goleuni*, cariad a doethineb; *boreu*, gradd cyntaf ac uchaf cariad; *hanner dydd*, doethineb yn y goleu; *prydnawn*, doethineb yn y cysgod; *y wawr*, y gwyll flaenora y boreu; *a nos*, amddifadrwydd cariad a doethineb.

156. Y mae ystadau pob peth o amgylch yr angylion ac o flaen eu llygaid yn cyfnewid gydag ystadau eu mewnolion, y rhai a ddibynant ar eu cariad a'u doethineb; am fod y pethau o'r tu allan iddynt yn ymddangos yn ol y pethau o'u mewn. Ond beth ydynt, a'u hansawdd, a ddesgrifir wrth drafod arddangosiadau ac ymddangosiadau yn y nefoedd.

157. Pob angel a basia trwy gyffelyb gyfnewidiadau ystad, a phob cymdeithas hefyd yn y cyfangorff ond yn amryw am fod pob un yn wahanol ei gariad a'i ddoethineb; canys y mae y rhai sydd yn y canol mewn ystad berffeithiach na'r rhai sydd o'u hamgylch; perffeithrwydd a leiha yn raddol o'r canolbwynt i amgylchoedd eithaf pob cymdeithas (Gwel r. 23, 128). Rhy faith fuasai desgrifio holl amrywion ystad yr angylion a'r cymdeithasau angylaidd, am fod pob un yn myned trwy gyfnewidiadau yn ol ansawdd ei gariad a'i ffydd; fel y mae un yn ei ddysgleirdeb a'i fwyniant, pan y mae arall yn ei aneglurder ac yn aflawen, a hyn yr un pryd ac yn yr un gymdeithas; Cyfnewidiadau y naill gymdeithas hefyd sydd wahanol i rai y llall, a rhai cymdeithasau y deyrnas nefolaidd i rai cymdeithasau y deyrnas ysbrydol. Y gwahaniaethau hyn yn nghyfnewidiadau ystad ydynt

yn gyffredinol, fel yr amrywiaethau yn ystad y dydd yn ngwahanol hinsoddau y ddaear, lle y mae yn foreu gyda rhai pan yn brydnawn gydag ereill; cynes gyda rhai ac oer gydag ereill, a *vice versa.*

158. Dywed yr angylion fod y fath gyfnewidiadau ystad yn y nefoedd yn dibynu ar amryw achosion; *y cyntaf* yw, y byddai mwyniant bywyd a'r nefoedd, yn tarddu o'u cariad a'u doethineb yn deilliaw o'r Arglwydd, yn graddol golli ei werth, pe yr arhosent ynddo o hyd; fel y prawf rhai yn nghanol pethau hyfryd heb amrywiaeth. *Yr ail achos yw,* fod angylion yn meddu *proprium* fel dynion; hunan-gariad yw y *proprium;* pawb yn y nefoedd a gedwir rhag eu *proprium,* a byddant mewn cariad a doethineb mor bell ag y cedwir hwynt rhagddo gan yr Arglwydd; mor bell ag na chedwir hwynt rhagddo byddant mewn hunan-gariad, a chan fod pob un yn caru ei *proprium* ac yn tynu ato, am hyny, ânt trwy gyfnewidiadau ystad neu newidiadau olynol. Y *trydydd* achos yw, fel y caffont eu perffeithio trwy y cyfnewidiadau am eu bod felly yn arfer cael eu cadw mewn cariad at yr Arglwydd, a'u dyogelu rhag hunan-gariad; rhagorach hefyd yw eu gallu i ganfod a theimlo daioni trwy fwynhad a diffyg mwynhad bob yn ail. Dywedai yr angylion hefyd mai nid yr Arglwydd sydd yn cynyrchu cyfnewidiadau eu hystad, gan fod yr Arglwydd yn wastad fel haul yn dylifo iddynt mewn gwres a goleuni, sef cariad a doethineb; ond fod achos y cyfnewidiadau ynddynt eu hunain, am eu bod yn caru eu *proprium,* yr hwn yn gyson a'u tyn oddiwrth yr Arglwydd. Eglurent hyn trwy gydmariaeth oddiwrth haul y byd; canys nid yw cyfnewidiadau gwres ac oerni, y goleu a'r cysgod, bob blwyddyn a phob dydd, yn tarddu yn yr haul—erys yr haul yn ddiysgog—ond achosir hwynt gan ysgogiad y ddaear.

159. Dangoswyd i mi pa fodd y mae yr Arglwydd yn ymddangos, fel haul, i angylion y deyrnas nefolaidd yn eu hystad gyntaf, yr ail a'r drydydd. Gwelid yr Arglwydd ar y cyntaf fel haul, yn tanbeidio a phelydru yn y fath ysblander, nas gellir ei ddesgrifio: dywedid wrthyf ei fod Ef yn ymddangos felly i'r angylion yn eu hystad gyntaf. Wedi hyny gwelid cylch mawr tywyll o amgylch yr haul, yn graddol leihau tanbeidrwydd a disgleirdeb ei lewyrch; a dywedid wrthyf, fod yr haul yn ymddangos fel hyn iddynt yn eu hail ystad. Yna aeth y cylch yn fwy tywyll, a'r haul yn llai tanbaid, nes yn raddol, ac o'r diwedd yr ymddangosai yn hollol wyn: a dywedid wrthyf fod yr haul yn ymddangos felly i'r angylion yn eu trydedd ystad. Gwelid y belen wen hon yn symud i'r aswy, tuag at leuad y nefoedd gan uno â'i goleuni, nes fod y lleuad yn goleuo mewn disgleirdeb anarferol; a dywedid wrthyf mai dyma bedwaredd ystad angylion y deyrnas nefol, a'r gyntaf i rai y deyrnas ysbrydol; fod cyfnewid-





iadau ystad fel hyn yn mhob teyrnas bob yn ail, eto nid ar unwaith yn yr holl deyrnas, ond mewn un gymdeithas ar ol y llall; ac hefyd nad yw y cyfnewidiadau hyn yn dyfod mewn cyfnodau penodol, ond yn gynt neu yn hwy, heb eu bod yn gwybod yn mlaenllaw. Dywed yr angylion hefyd nad yw yr haul yn newid na symud felly ynddo ei hun; ond ei fod yn ymddangos yn gwneyd hyny yn ol cyfnewidiadau olynol eu hystadau hwynt, am fod yr Arglwydd yn ymddangos i bob un yn ol ansawdd ei ystad; felly fod yr haul yn ymddangos yn danbaid iddynt pan fyddo eu cariad yn angerddol, ac yn llai tanbaid, a gwyn o'r diwedd, fel y byddo eu cariad yn lleihau; a bod ansawdd eu hystad yn cael ei harddangos gan y cylch tywyll, berodd yr amrywiaethau hyny yn fflam a goleuni yr haul.

160. Pan fyddo yr angylion yn eu hystad olaf, sef pan fyddont yn eu *proprium,* dechreuant dristau. Ymddiddenais â hwynt pan yn yr ystad hono, a gwelais eu tristwch; ond dywedent eu bod yn gobeithio dychwelyd yn fuan i'w hystad gyntefig, ac felly, megis, i'r nefoedd drachefn; oblegid nefoedd iddynt hwy yw cael eu cadw rhag eu *proprium.*

161. Y mae hefyd gyfnewidiadau ystad yn yr uffernoedd, ond darlunir y rhai hyn pan driniwn uffern.

### Amser yn y Nefoedd.

162. Er fod pob peth yn y nefoedd yn myned yn mlaen yn olynol fel yn y byd, eto nid oes gan yr angylion syniad am amser a lle, ac yn wir, y maent yn hollol anwybodus beth yw amser a lle. Llefarwn yn awr am amser yn y nefoedd, ac mewn penod ddilynol am le.

163. Er fod pob peth yn myned yn mlaen yn olynol yn y nefoedd fel yn y byd, ac mor berffaith fel nad oes dim gwahaniaeth, eto nid oes gan yr angylion syniad am amser, am nad oes flynyddoedd a dyddiau yn y nefoedd ond cyfnewidiadau ystad: lle y byddo blynyddoedd a dyddiau yno y mae *amser*: ond lle na byddo ond cyfnewidiau ystad, yno y mae *ystadau.*

164. Lefarwn am amser yn y byd, am fod yr haul yn ymddangos yn symud yn olynol o un gradd i'r llall yn y nefoedd, ac felly yn achosi amserau, neu fel eu gelwir, *tymhorau* y flwyddyn: heblaw hyn, efe a ymddengys yn troi o amgylch y ddaear, gan achosi yr amserau a elwir amserau y dydd. Cymer y cyfnewidiadau hyn le mewn cyfnodau rheolaidd, ond nid felly am haul y nefoedd: canys nid yw yr haul hwnw, trwy symudiadau a chylchdroadau olynol, yn achosi blynyddau a dyddiau, ond mewn ymddangosiad cyfnewidiadau ystad; ac nid, fel y dangoswyd uchod, mewn cyfnodau rheolaidd; felly, nis gall yr angylion gael unrhyw

syniad am amser, ond cânt syniad am ystad yn ei le. Beth yw ystad a welir uchod, r. 154.

165. Gan nad oes gan yr angylion, fel dynion yn y byd, syniad yn tarddu o amser, nid oes ganddynt chwaith syniad am amser ei hun, nac am ddim perthynol i amser. Ni wyddant hyd yn oed beth a feddylir wrth flwyddyn, a mis, ac wythnos, a dydd, ac awr, heddyw, yfory, ddoe; a phan glywant eu henwi gan ddyn (canys y mae angylion o hyd yn cael eu huno â dyn gan yr Arglwydd), nid oes ganddynt ond syniad am ystadau a phethau perthynol i ystad: fel hyn y mae syniadau naturiol dyn yn cael eu troi yn syniadau ysbrydol gan yr angylion. Felly y mae *amserau*, yn y Gair, yn arwyddo *ystadau*, a rhanau amser fel y rhai a nodwyd, yn arwyddo pethau ysbrydol yn cyfatteb iddynt.

166. Cyffelyb yw gyda phob peth ddibyna ar amser, megis pedwar tymhor y flwyddyn, gwanwyn, haf, hydref, a gauaf; pedwar amser y dydd, boreu, canol ddydd, hwyr, a nos; pedair oes dyn, babandod, ieuenctyd, canol-oed a henaint; a phob cyfnodau ereill y dibyna eu bodolaeth ar amser. Wrth feddwl am danynt, meddylia dyn am amser, ond angel a feddylia am ystad, fel y mae yr hyn a ddeillia o amser yn meddwl dyn yn cael ei droi i syniad am ystad gydag angylion; gwanwyn a boreu a awgryma iddynt y syniad am ystad o gariad a doethineb, fel eiddo yr angylion yn eu hystad gyntaf; haf a chanol dydd y syniad am gariad a doethineb fel sydd ganddynt yn yr ail ystad; hydref a hwyr fel pan fyddont yn y drydedd ystad; a nos a gauaf syniad am ystad fel sydd yn uffern; am hyny yr arwyddoceir y fath bethau yn y Gair gan y fath amserau (gwel uchod, r. 155). Gellir deall yn awr y modd y mae syniadau naturiol yn meddwl dyn, yn cael eu troi i syniadau ysbrydol yn meddwl yr angylion a weiniant arno.

167. Gan nad oes syniad am amser gan yr angylion, y mae eu syniad am dragwyddoldeb yn wahanol i syniad dynion ar y ddaear: eu syniad hwy am dragwyddoldeb yw *ystad anfeidrol*, nid *amser anfeidrol*. Yr oeddwn unwaith yn meddwl am dragwyddoldeb, a thrwy y syniad am amser canfyddwn beth olygyd wrth (y dywediad) *i dragwyddoldeb*, sef, bodolaeth heb ddiwedd; ond nis gallwn ffurfio unrhyw syniad am yr hyn oedd *o dragwyddoldeb*, ac felly dim am yr hyn a wnai Duw o dragwyddoldeb cyn creadigaeth. Pan mewn pryder am hyn, dyrchafwyd fi i gylch y nefoedd, ac o ganlyniad i syniad yr angylion am dragwyddoldeb, ac yna goleuwyd fi i weled y rhaid meddwl am dragwyddoldeb nid o amser, ond o ystad; ac felly y gellir canfod yr hyn feddylir wrth *o dragwyddoldeb*, yr hyn hefyd a brofais.

168. Nid yw yr angylion a lefarant wrth ddyn byth yn llefaru trwy y syniadau naturiol a berthyn i ddyn, ac a darddant o amser,





lle, materoliaeth a phethau cyffelyb; ond trwy syniadau ysbrydol, yn tarddu o ystadau, a'u hamrywiol gyfnewidiadau, o fewn i'r angylion ac oddiallan iddynt; er hyny, syniadau angylaidd, y rhai sydd ysbrydol, pan lifant i ddyn a droant ar unwaith, ac o honynt eu hunain, yn syniadau naturiol priodol i ddyn, gan gyfateb yn berffaith iddynt. Y cyfnewidiad hwn sydd anhysbys i angylion a dynion, er fod holl ddylifiad y nefoedd i ddyn yn cael ei effeithio yn y modd hwn. Cafodd rhai angylion ddyfod yn nes nag arferol i'm meddyliau, ac hyd yn oed i'm meddyliau naturiol, ac ynddynt lawer o syniadau deilliedig o amser a lle; ond gan na ddeallent ddim, ciliasant yn sydyn; clywais hwynt wedi hyny yn ymddiddan a dweyd iddynt fod mewn tywyllwch. Caniatawyd i mi wybod trwy brofiad mor hollol anwybodus yw yr angylion o amser. Rhyw angel o'r nefoedd feddai y fath gymeriad fel y gellid ei ollwng i syniadau naturiol, fel eiddo dynion, felly ymddiddenais âg Ef fel dyn â dyn. Ar y cyntaf ni wyddai beth oedd yr hyn a alwn amser, felly, rhaid oedd i mi esbonio iddo y modd y try yr haul mewn ymddangosiad o gylch y ddaear gan achosi blynyddoedd a dyddiau; a bod y blynyddoedd oherwydd hyn yn cael eu gwahaniaethu i bedwar tymhor, ac hefyd i fisoedd ac wythnosau, a'r dyddiau i bedair awr a'r hugain, a bod y cyfnodau hyn yn dychwelyd yn rheolaidd; ac mai hyn yw tarddiad amserau. Synai wrth glywed hyn, a dywedai, na wyddent ddim o'r fath bethau, ond gwyddent am ystadau. Wrth siarad sylwais hefyd, y gwyddir yn y byd nad oes amser yn y nefoedd, neu fod dynion, o'r hyn leiaf, yn siarad fel pe gwyddent hyny; canys dywedant am y marw, ei fod yn *gadael pethau amser*, a'i fod *yn myned allan o amser*, yn golygu, allan o'r byd. Sylwais hefyd y gŵyr rhai mai tarddiad amserau yw ystadau, oddiwrth yr amgylchiad, fod amserau yn cwbl ddibynu ar ystadau teimlad dynion, ac yn ymddangos yn fyr i rai mewn teimlad boddhaus a llawen; hir i rai mewn teimladau anfoddhaus a gofidus; ac amrywiol, i rai mewn ystad o obaith a dysgwyliad: ac ar gyfrif hyn, fod y dysgedigion yn dyfalu beth yw amser a lle; ac y gŵyr rhai o honynt mai i'r dyn anianol yn unig y perthyn amser.

169. Gall y dyn anianol ddychmyga yr amddifadid ef o bob meddwl, pe symudid y syniadau am amser, lle, a phethau materol, am mai ar y syniadau hyn y gorphwys pob meddwl priodol i ddyn; ond gwybydded y cyfryw fod meddyliau yn cael eu cyfyngu a'u crebachu i'r graddau y cyfranogant o amser, lle, a phethau materol; ac na chant eu cyfyngu, ond eu heangu, i'r graddau na chyfranogant o honynt, am fod y meddwl gymaint yn uwch na phethau y corff a'r byd. Felly, yr angylion a feddant ddoethineb, a'u doethineb a elwir yn anrhaethadwy, oblegid na ddisgyna i syniadau a ddeilliant oddiwrth bethau naturiol yn unig.

ARDDANGOSIADAU AC YMDDANGOSIADAU YN Y NEFOEDD.

170. Dyn yn meddwl oddiar oleuni natur yn unig, nis gall amgyffred pa fodd y gall dim yn y nefoedd fod fel pethau a fodolant yn y byd; am ei fod wedi meddwl a chadarnhau ei hun yn y syniad, mai meddyliau yn unig yw angylion, ac mai math o chwythiadau awyrol anadliad yw meddyliau, heb synwyrau fel dyn, heb lygaid, na dim i'w weled; ac eto y mae gan yr angylion yr holl synwyrau sydd gan ddyn, mewn modd llawer perffeithiach nag efe; a'r goleu yn yr hwn y gwelant sydd lawer dysgleiriach na'r goleu yn yr hwn y gwel dyn. Mai dynion yw yr angylion yn y ffurf ddynol fwyaf perffaith, ac yn meddu pob synwyr, a welir uchod, r. 73—77; a bod y goleu yn y nefoedd yn llawer dysgleiriach na'r goleu yn y byd, yn r. 126—132.

171. Nis gellir desgrifio ar fyr eiriau, natur y gwrthrychau a ymddangosant i'r angylion yn y nefoedd; tebyg ydynt y rhan fwyaf i bethau ar y ddaear, ond eu bod yn berffeithiach mewn ffurf, ac yn amlach mewn nifer. Fod y fath bethau yn y nefoedd sydd eglur oddiwrth yr hyn a welodd y proffwydi: megis Ezeciel yn gweled a darlunio y deml a'r ddaear newydd o'r xl. Ben. hyd y xlviii., yr hyn a welodd Daniel o'r vii. Ben. hyd y xii., yr hyn a welodd Ioan o'r Ben. gyntaf yn y Datguddiad hyd yr olaf, a'r pethau a welodd ereill y sonir am danynt yn llyfrau hanesiol a phroffwydol y Gair. Gwelsant y pethau hyn pan agorid y nefoedd iddynt, a dywedir fod y nefoedd yn agored, pan fyddo yr olwg fewnol yn agored, sef golwg ysbryd dyn; canys ni welir y pethau yn y nefoedd â llygaid y corff, ond â llygaid yr ysbryd, yn cael eu hagor pan wel yr Arglwydd yn dda; yna tynir dyn o oleuni naturiol ei synwyrau corfforol, a chodir ef i oleuni ysbrydol, yr hwn a wel â'i ysbryd. Yn y goleu hwn y gwelais y pethau sydd yn y nefoedd.

172. Er fod y pethau a ymddangosant yn y nefoedd, y rhan fwyaf, yn debyg i bethau ar y ddaear, eto nid ydynt yn debyg o ran eu hanfod; am fod pob peth yn y nefoedd yn bodoli o haul y nefoedd, a phob peth ar y ddaear o haul y byd: ysbrydol yw y cyntaf, ond naturiol yw yr olaf.

173. Nid yw y pethau yn y nefoedd yn bodoli yn yr un dull a phethau ar y ddaear, am fod holl bethau y nefoedd yn bodoli o'r Arglwydd, yn ol eu cyfatebiaeth âg ystad fewnol yr angylion. Perthyn i'r angylion ystad fewnol ac allanol; y mewnol a berthyn i gariad a ffydd, ac felly i'r ewyllys a'r deall, canys yr ewyllys a'r deall sydd yn eu derbyn, a'r pethau allanol a'u hamgylchant sydd yn cyfateb i'r mewnol, fel y gwelir uchod, r. 87—115. Gellir egluro hyn trwy ddeddf y gwres a'r goleuni yn y nefoedd, am fod yr angylion yn meddu gwres yn ol ansawdd eu cariad, a goleuni yn





ol ansawdd eu doethineb (Gwel r. 128—134); tebyg yw am bob peth arall a ymddengys i synwyrau yr angylion.

174. Pryd bynag y caniatawyd i mi fod yn nghwmpeini angylion, y gwrthrychau yn y nef a ymddangosent i mi yn hollol yr un fath a'r rhai ar y ddaear, fel nas gwyddwn nad ar y ddaear yr oeddwn, mewn palas breninol. Siaradwn hefyd â'r angylion fel dyn â dyn.

175. Gan fod pob peth sydd yn cyfateb i'r ystadau mewnol yn eu harddangos, gelwir hwynt ARDDANGOSIADAU; a chan eu bod yn amrywio yn ol ystadau yr angylion, gelwir hwynt YMDDANGOSIADAU, er fod y gwrthrychau a ymddangosant i'r angylion yn y nefoedd yn cael eu canfod ganddynt mewn modd mor fywiol a'r rhai ar y ddaear gan ddyn, ac yn wir yn llawer mwy clir a phenodol. Yr ymddangosiadau yn y nefoedd a elwir *ymddangosiadau sylweddol*, am eu bod yn *sylweddol* fodoli; ond y mae ymddangosiadau hefyd nad ydynt sylweddol, oblegid er eu bod yn ymddangos nid ydynt yn cyfateb i'r mewnolion; traethwn am y rhai hyn eto.

176. Er egluro natur y gwrthrychau a ymddangosant i'r angylion yn ol cyfatebiaeth, nodaf un engraifft. I'r rai mewn deall da ymddengys gerddi a pharadwysau, yn llawn coed a blodau o bob rhyw, wedi eu planu yn y drefn berffeithiaf, a'u plethu nes ffurfio deildai, gyda chynteddau gwyrddion addurnedig, a rhodfeydd o'u hamgylch, wedi eu trefnu yn y fath harddwch na fedr iaith eu desgrifio. Y rhai nodedig am eu deall da a rodiant yn y gerddi hyn i gasglu blodau a gwneyd garlantau i wisgo a choroni plant bach â hwynt. Y mae ynddynt hefyd fathau o goed a blodau, na welwyd erioed, ac na allent fodoli yn y byd; a'r coed a ddygant ffrwythau yn ol daioni a chariad y rhai deallus. Gwelir y fath bethau ganddynt, am fod gardd a pharadwys, a phrenau yn dwyn ffrwyth a blodau, yn cyfateb i ddeall a doethineb. Fod y fath bethau yn y nefoedd sydd hysbys hefyd ar y ddaear, ond i rai da yn unig, na ddiffoddasant ynddynt eu hunain oleuni y nefoedd trwy oleuni naturiol a'i dwyll; canys meddyliant a dywedant wrth son am y nefoedd, fod pethau yno *na welodd llygad ac na chlywodd clust*.

Y GWISGOEDD SYDD AM YR ANGYLION.

177. Gan mai dynion yw yr angylion, yn byw mewn cymdeithas fel dynion ar y ddaear, am hyny y mae ganddynt wisgoedd, tai a phethau ereill o'r un natur, ond gyda hyn o wahaniaeth, eu bod oll yn fwy perffaith, am fod angylion yn bodoli mewn ystad berffeithiach (na dynion). Rhagora doethineb angylion yn anrhaethadwy ar ddoethineb dynion fel y mae pob peth a genfydd ac a wel yr angylion yn rhagori ar bethau daearol, am eu bod yn cyfateb i'w doethineb (Gwel uchod, r. 173).

178. Y mae y gwisgoedd am yr angylion, fel pob peth arall yn

y nefoedd, yn cyfateb; ac am eu bod yn cyfateb bodolant yn sylweddol (gwel uchod, r. 175): a chan fod gwisgoedd yr angylion yn cyfateb i'w deall, pawb yn y nefoedd a ymddangosant mewn dillad yn ol eu deall; ac am fod rhai yn rhagori ar ereill mewn deall (r. 43, 128), rhagora eu dillad mewn gogoniant a harddwch. Gwisgoedd y rhai mwyaf deallus sydd yn gwridio fel y fflam, a gwisgoedd rhai ereill sydd glaer fel y goleu; tra gwisgoedd y rhai llai deallus yn wyn clir neu dywyll heb ysblander, a gwisgoedd y rhai llai deallus eto o amryw liwiau; ond noeth yw angylion y nefoedd fwyaf mewnol.

179. Gan fod gwisgoedd yr angylion yn cyfateb i'w deall, felly y maent yn cyfateb i wirionedd, am fod pob deall o'r Gwirionedd Dwyfol: fel pan ddywedir fod yr angylion yn cael eu gwisgo yn ol eu deall, neu yn ol y Gwirionedd Dwyfol, yr un peth yw. Gwridia gwisgoedd rhai o honynt fel y fflam, ac eiddo ereill sydd glaer fel y goleu, am fod fflam yn cyfateb i ddaioni, a goleu i wirionedd yn deilliaw o ddaioni: hefyd, gwisgoedd rhai o honynt sydd wyn clir neu dywyll heb ysblander, ac eiddo ereill o amryw liwiau am fod y Daioni a'r Gwirionedd Dwyfol yn llai dysglaer, ac yn cael eu derbyn yn amrywiol gan rai llai deallus. Gwyn hefyd, clir a thywyll, sydd yn cyfateb i wirionedd; a lliwiau i amrywiaethau gwirionedd. Noeth yw angylion y nefoedd fwyaf mewnol, am eu bod mewn diniweidrwydd; a diniweidrwydd a gyfateb i noethni.

180. Gan fod gwisgoedd am yr angylion yn y nefoedd, ymddangosasant felly bob amser pan eu gwelwyd yn y byd; megis pan eu gwelwyd gan y proffwydi ac hefyd yn medd yr Arglwydd, "A'i wynebpryd oedd fel mellten, a'i wisg yn wen fel eira" (Math. xxviii. 3.; Marc xvi. 5.; Luc xxiv. 4.; Ioan xx. 12, 13); a'r rhai a welwyd gan Ioan yn y nefoedd, "wedi eu gwisgo mewn dillad gwynion," Dat. iv. 4.; Pen. xix. 14. Am fod deall yn deilliaw o'r Dwyfol Wirionedd, yr oedd dillad yr Arglwydd yn ei weddnewidiad, "cyn wynned a'r goleuni," (Math. xvii. 2.; Marc ix. 3.; Luc ix. 26.); gellir gweled uchod, r. 29, mai Gwirionedd Dwyfol yw goleuni yn deilliaw o'r Arglwydd. Felly y mae gwisgoedd, yn y Gair, yn arwyddo gwirioneddau, a deall yn tarddu o wirioneddau: fel yn Ioan, "Y rhai ni halogasant eu dillad; a hwy a rodiant gyda mi mewn dillad gwynion; oblegid teilwng ydynt. Yr hwn sydd yn gorchfygu, hwnw a wisgir mewn dillad gwynion," Pen. iii. 4, 5. "Gwyn ei fyd yr hwn sydd yn gwylio ac yn cadw ei ddillad," Pen. xvi. 15. Ac am Jerusalem, sef yr Eglwys yn y Gwirionedd, yr ysgrifenir yn Esaiah, "Deffro, deffro, gwisg dy nerth, Sion: gwisg wisgoedd dy ogoniant, sanctaidd ddinas Jerusalem," lii. 1.; ac yn Ezeciel, "Mi a'th wisgais hefyd â gwaith edau a nodwydd, a gwregysais di â llian





main, a gorchuddiais di â sidan; a'th wisg oedd lian main a sidan," xvi. 10, 13.; ac mewn llawer o fanau ereill. Dywedir am rai nad ydynt yn y gwirionedd, eu bod heb y wisg briodas; fel yn Mathew: "A phan ddaeth y brenin i mewn—efe a ganfu yno ddyn heb wisg priodas am dano; ac efe a ddywedodd wrtho, y cyfaill pa fodd y daethost i mewn yma, heb fod genyt wisg priodas?—Cymerwch Ef ymaith, a theflwch i'r tywyllwch eithaf," xxii. 11, 12, 13. Y tŷ lle rhoddid bri ar briodas a arwydda y nefoedd a'r Eglwys, ar gyfrif eu hundeb â'r Arglwydd trwy Ei Ddwyfol Wirionedd; am hyny, yn y Gair, gelwir yr Arglwydd y Priodfab a'r Priod, a'r Nefoedd a'r Eglwys, y Briodasferch a'r Wraig.

181. Y mae gwisgoedd yr angylion nid yn unig yn ymddangos yn wisgoedd, ond y maent felly yn sylweddol. Eglur yw hyn oddiwrth y ffeithiau, eu bod yn eu gweled. yn eu teimlo, yn meddu llawer o honynt, yn eu newid, yn eu gosod i gadw pan na byddont yn eu gwisgo, ac yn eu cymeryd drachefn. Gwelais filoedd o weithiau, eu bod yn gwisgo dillad gwahanol; pan ofynwn iddynt pa le yr oeddynt yn eu cael, dywedent, "Gan yr Arglwydd": eu bod yn eu derbyn fel rhoddion; a'u bod yn cael eu gwisgo weithiau na wyddent pa fodd. Dywedent hefyd fod eu gwisgoedd yn cael eu newid yn ol cyfnewidiadau eu hystad; eu bod yn eu hystad gyntaf a'r ail yn wyn clir a dysglaer, ac yn y drydedd a'r bedwaredd ystad i raddau yn bŵl; a bod hyn hefyd yn cymeryd lle yn ol cyfatebiaeth, am fod cyfnewidiadau yn eu hystad yn gyfnewidiadau yn eu deall a'u doethineb, fel y gwelir uchod, r. 154—161.

182. Gan fod pawb yn y byd ysbrydol yn gwisgo yn ol eu deall, ac felly yn ol y gwirioneddau y deillia eu deall o honynt, y mae yn canlyn fod y rhai sydd yn uffern, heb wirioneddau, yn ymddangos mewn gwisgoedd carpiog, ffiaidd, a drewedig yn ol eu gwallgofrwydd: nis gallant wisgo yn amgen. Caniata yr Arglwydd iddynt ryw fath o wisgoedd, fel nad ymddangosont yn noeth.

### Preswylfeydd a Phalasau yr Angylion.

183. Gan fod cymdeithasau yn y nefoedd, a'r angylion yn byw fel dynion, y mae yn canlyn fod ganddynt breswylfeydd, a'u bod yn amrywiol yn ol eu sefyllfa—mawreddog i rai o ystad urddasol, a llai mawreddog i rai o ystad îs. Bum weithiau yn ymddiddan âg angylion am breswylfeydd y nefoedd, a nodwn nad oedd nemawr heddyw yn agored i gredu fod gan angylion breswylfeydd a phalasau; rhai am nad ydynt yn eu gweled, ereill am na wyddant fod yr angylion yn ddynion, ac ereill am y credant mai nefoedd yr angylion yw y nefoedd a welant â'u llygaid uwch eu pen: ac am ei bod yn ymddangos yn gyfwng gwâg, tybiant mai

ffurfiau awyrol yw yr angylion, yn byw yn yr awyr. Hefyd, ni fedrant synied pa fodd y gall pethau tebyg fod yn y byd ysbrydol, i bethau yn y byd naturiol, am na wyddant ddim am yr hyn sydd ysbrydol. Yr angylion a attebasant, y gwyddant fod y fath anwybodaeth yn ffynu heddyw yn y byd, a synent ei fod yn bodoli yn benaf o fewn yr Eglwys, ac yn fwy yn mhlith y rhai dysgedig yno na'r rhai a alwant yn anysgedig. Dywedent yn mhellach y gallai y rhai sydd mor anwybodus wybod o'r Gair, mae dynion yw yr angylion, oblegid fod y rhai a welwyd, wedi eu gweled yn ffurf dynion; ac am fod yr Arglwydd yr Hwn a gymerodd ganddo Ei holl Ddynoliaeth, wedi ei weled fel dyn; a'i bod yn canlyn gan eu bod yn ddynion, fod ganddynt balasoedd a phreswylfeydd, ac er eu gelwir yn ysbrydion, nid ffurfiau awyrol ydynt yn gwibio yn yr awyr, fel y tybia rhai yn anwybodus. Galwant y fath anwybodaeth yn wallgofrwydd. Dywedent hefyd y gellid gwybod y gwirionedd pe meddyliau dynion am angylion ac ysbrydion heb ragfarn, a'u bod yn gwneyd felly pan na byddo y gofyniad, *Ai felly y mae*, yn destun uniongyrchol ymchwiliad: canys y mae syniad cyffredinol gan bawb fod ffurf ddynol i'r angylion; a bod ganddynt drigfanau, a alwant trigfanau y nefoedd, a'u bod yn fwy gorwych na thrigfanau y ddaear; ond y mae y syniad cyffredinol hwn, a lifa o'r nefoedd, yn cael ei ddifodi ar unwaith, pan wneir y gofyniad, *Ai felly y mae*, yn brif wrthrych meddwl. Cymer hyn le yn benaf gyda'r dysgedigion, y rhai, trwy ddeall hunanol, a folltiant y nefoedd yn eu herbyn eu hunain, ac a gauant allan ei goleuni. Tebyg yw mewn perthynas i'r gred am fywyd dyn ar ol angeu. Y rhai a lefarant am dano, ac heb feddwl ar yr un pryd o'u dysgeidiaeth am yr enaid, neu o'r athrawiaeth o'i aduniad â'r corff, a gredant y cânt fyw fel dynion ar ol marw; y cânt drigo gydag angylion os buont byw yn dda, a gweled gwrthrychau gorwych, a gorfoleddu yn bêrlewygol: ond mor fuan ag y dychwelant at athrawiaeth adgyfodiad y corff, a'r dyb gyffredin am yr enaid, gan feddwl a yw yr enaid o'r fath natur—neu *Ai felly y mae*—eu syniad cyntaf a ddiflana.

184. Ond gwell rhoddi tystiolaeth profiad. Pryd bynag y bum yn ymddiddan â'r genau â'r angylion, bum yn eu preswylfeydd gyda hwy, rhai hollol debyg i breswylfeydd ar y ddaear, a elwir tai, ond yn fwy ardderchog. Cynwysant gelloedd lawer, parlyrau, ac ystafelloedd gwelyau: cynteddau hefyd, ac o'u cylch erddi, prysgwydd, blodau a meusydd. Lle byddo yr angylion yn byw yn gymdeithasau, eu preswylfeydd a gwrddant â'u gilydd, wedi eu trefnu yn ffurf dinas, gydag heolydd, ffyrdd ac ysgwarau, yn hollol fel dinasoedd ar y ddaear. Caniatawyd i mi rodio trwyddynt, ac edrych arnynt o bob tŷ, ac weithiau i fyned i mewn i'r tai. Cymer-





odd hyn le pan oeddwn yn hollol ar ddihun, a'm lygaid mewnol yn agored.

185. Gwelais balasoedd yn y nefoedd, gorwych uwchlaw pob darluniad. Y rhanau uchaf a ddisgleirient fel pe baent aur pur, a'r rhanau isaf fel pe baent feini gwerthfawr: yr oedd rhai yn fwy ysblenydd nag ereill, a'r ysblander o faes yn cyfateb i'r gorwychder o fewn. Addurnid yr ystafelloedd âg addurniadau nas gall iaith na gwyddor byth eu desgrifio. Tua'r deheu yr oedd paradwysau a phob peth ynddynt mor ardderchog. Mewn rhai lleoedd yr oedd dail y coed fel arian, a'u ffrwyth fel aur, tra lliwiau y blodau, wedi eu trefnu mewn gwelyau, yn ymddangos fel yr enfys; a'r tir yn cwrdd â phalasoedd ereill yn derfyn i'r olygfa. Y fath yw pensaerniaeth yn y nefoedd, fel y gellid meddwl mai y gelfyddid ei hun ydyw; ac nid yw hyn yn rhyfedd, gan mai o'r nefoedd y daeth y gelfyddid i'r ddaear. Dywedai yr angylion fod y fath bethau, ac aneirif bethau ereill mwy perffaith, yn cael eu dangos gan yr Arglwydd o flaen eu llygaid, ond er hyny eu bod yn fwy pleserus i'w meddyliau nag i'w llygaid, am eu bod yn gweled cyfatebion yn mhob peth, a thrwy gyfatebion, bethau dwyfol.

186. Am gyfatebion, hysbyswyd fi hefyd, fod nid yn unig y palasoedd a'r tai, ond y manylion manaf o fewn ac o faes iddynt, yn cyfateb i bethau mewnol sydd yn yr angylion o'r Arglwydd; fod y tŷ ei hun yn cyfateb i'w daioni, a'r holl bethau ynddo i'r amrywiaethau sydd yn eu daioni; a'r holl bethau tu faes i'r tŷ yn cyfateb i'w gwirioneddau yn tarddu o ddaioni, ac hefyd i'w syniadau a'u gwybodaeth; a chan fod yr oll yn cyfateb i'r daioni a'r gwirionedd a fedd yr angylion o'r Arglwydd, am hyny y maent yn cyfateb i'w cariad, ac i'w doethineb a'u deall yn tarddu o'u cariad; oblegid fod cariad yn perthyn i ddaioni; doethineb hefyd a berthyn i ddaioni, ac ar yr un pryd i wirionedd; a deall a berthyn i wirionedd yn tarddu o ddaioni. Y pethau mewnol hyn a genfydd yr angylion wrth edrych ar y gwrthrychau hyny, ac effeithiant yn fwy hyfryd ar eu meddwl nag ar eu llygaid.

187. Dengys hyn paham y galwodd yr Arglwydd ei Hun y Deml, yr hon sydd yn Jerusalem, Ioan ii. 19, 21; a phaham yr ymddangosai y Jerusalem nefol o aur pur, ei phyrth o berlau, a'i seiliau o bob rhyw faen gwerthfawr, Dat. xxi: oblegid fod y Deml yn arddangos Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd; a'r Jerusalem newydd yn arwyddo yr Eglwys a sefydlid ar ol hyny; y deuddeg porth yn dangos y gwirioneddau a arweiniant i ddaioni, a'i seiliau y gwirioneddau sylfaenol.

188. Yr angylion yn cyfansoddi teyrnas nefol yr Arglwydd, a drigant y rhan fwyaf, mewn lleoedd uchel, yn ymddangos fel mynyddau yn codi o'r tir. Y rhai a gyfansoddant deyrnas

ysbrydol yr Arglwydd, a drigant mewn lleoedd îs yn ymddangos fel bryniau; ond yr angylion yn rhanau isaf y nefoedd a drigant mewn lleoedd yn ymddangos fel creigiau. Cyfyd hyn hefyd o gyfatebiaeth, canys y mae pethau mewnol yn cyfateb i bethau uchel, a phethau allanol i bethau isel. Am hyny y mae mynyddau, yn y Gair, yn arwyddo cariad nefol; bryniau, cariad ysbrydol; a chreigiau ffydd.

189. Y mae angylion hefyd nad ydynt yn byw mewn cymdeithasau, ond mewn tai ar wahan. Triga y rhai hyn yn nghanolbarth y nefoedd, oblegid mai yr angylion goreu ydynt.

190. Nid yw y tai y triga yr angylion ynddynt yn cael eu hadeiladu â llaw, fel tai yn y byd, ond rhoddir hwynt iddynt yn rhad gan yr Arglwydd, yn ol eu derbyniad o ddaioni a gwirionedd; amrywiant hefyd ychydig yn ol cyfnewidiadau ystad mewnolion eu preswylwyr, fel y dangoswyd uchod, r. 154—160. Pob peth a fedd yr angylion, cyfrifant hwynt fel rhoddion yr Arglwydd, a rhoddir iddynt bob peth sydd yn eisieu arnynt.

### Am le yn y Nefoedd.

191. Er fod pob peth yn ymddangos yn y nefoedd mewn lle fel yn y byd, eto nid oes syniad gan yr angylion am le. Nis gall hyn ymddangos ond fel gwrthddywediad, a chan ei fod o bwys mawr, ymdrechaf ei egluro yn amlwg.

192. Cyfnewidiadau lle yn y byd ysbrydol nid yw ddim ond cyfnewidiadau yn ystad fewnol y meddwl. Trwy fath gyfnewidiadau dygwyd fi gan yr Arglwydd i'r nefoedd ac i amryw ddaearfydoedd yn y bydysawd; fy ysbryd oedd yn bresenol yno, tra y corff yn aros yn yr un lle. Yn y modd hwn y symuda yr angylion, am hyny nid oes iddynt bellderau; a chan nad oes iddynt bellderau, nid oes iddynt leoedd, ond yn lle lleoedd, cyfnewidiadau ystad.

193. Gan nad yw newid lle ond newid ystad, eglur yw mai agosrwydd yw tebygolrwydd yn ystad y mewnolion, a phellder anhebygolrwydd: am hyny y mae y rhai sydd mewn ystad debyg yn agos i'w gilydd, a'r rhai mewn ystad anhebyg yn bell. Lleoedd yn y nefoedd nid ydynt ond ystadau allanol yn cyfateb i rai mewnol. Dyma yr achos fod un nefoedd ar wahan i'r llall, a bod neillduolrwydd i bob cymdeithas a phob person. Dyma yr achos hefyd fod yr uffernoedd yn hollol ar wahan i'r nefoedd.

194. O'r un achos, unrhyw un yn y byd ysbrydol, a ymddengys yn bresenol, os y gwna arall ddymuno yn angerddol am ei bresenoldeb, oblegid trwy y dymuniad hwnw efe a'i gwel mewn meddwl, ac a esyd ei hun yn ei ystad; a *vice versa*, pella un person oddiwrth y llall i'r graddau y gwna ei gasau, am fod pob casineb yn codi o serchiadau croes a meddyliau anghytun: am hyny llawer





yn ymddangos gyda'u gilydd yn yr un lle yn y byd ysbrydol cyhyd ac y byddont gytun, a ddiflanant o'r golwg mor fuan ag y peidiant gytuno.

195. Hefyd, pan fyddo unrhyw un yn myned o un lle i'r llall, pa un ai yn ei ddinas ei hun, neu yn y cynteddau, neu y gerddi, neu at ereill allan o'i ddinas ei hun, bydd yno yn gynt pan yn dymuno hyny, ac yn hwyr pan yn ddifater; bydd y ffordd ei hun yn hir neu fyr yn ol grym ei ddymuniad, er mai yr un ffordd yw. Gwelais hyn yn fynych a synais ato. Oddiwrth hyn eto amlwg yw, fod pellderau a lleoedd gyda'r angylion yn dibynu yn hollol ar ystad eu mewnolion; ac ar gyfrif hyn nis gall unrhyw syniad am le fyned i'w meddyliau, er fod lleoedd gyda hwynt mor sylweddol ac ydynt yn y byd.

196. Gellir egluro hyn oddiwrth feddwl dyn, heb ddim yn lleol ynddo: canys beth bynag y meddylia dyn yn angerddol am dano bydd fel yn bresenol iddo. Gall unrhyw un ystyria wybod hefyd nad yw y llygad yn cyfrif lle, oddigerth, oddiwrth wrthrychau cyfryngol ar y ddaear y rhai a wel ar yr un pryd, neu oddiwrth ei wybodaeth flaenorol am eu pellder: am fod lle yn barhaol, a pheth parhaol a guddia bellder, oddieithr ei fesur â phethau nad ydynt barhaol. Cymer hyn le yn fwy neillduol gyda'r angylion, am fod eu llygaid hwy yn gweithredu yn un a'u meddwl, a'u meddwl yn un a'u serch; ac am fod pethau yn agos neu yn mhell, ac hefyd yn amrywiol, yn ol ystadau eu mewnolion fel y dywedwyd uchod.

197. Felly, yn y Gair, wrth leoedd a phob peth a berthyn i le yr arwyddoceir y fath bethau a berthynant i ystad: megis, wrth agosrwydd, pellder, ffyrdd, teithiau, ymdeithiau, milldiroedd, ystadau, gwastadeddau, meusydd, gerddi, dinasoedd ac heolydd; symudiadau; wrth fesurau o amryw fathau; wrth hyd, lled, uchder a dyfnder, ac wrth aneirif bethau ereill; canys y rhan fwyaf o bethau yn y byd a wnant ryw gyfeiriad at amser a lle. Sylwaf yn awr yn unig ar yr hyn a arwyddoceir yn y Gair wrth hyd, lled, ac uchder. Yn y byd, sonir am hyd, lled, ac uchder am bethau sydd felly mewn lle: ond yn y nefoedd, lle nad yw y trigolion yn meddwl am le, wrth hyd y deallir ystad o ddaioni, wrth led ystad o wirionedd, ac wrth uchder, graddau gwahanol y naill a'r llall. Am raddau, gwel r. 38. Y rheswm fod y fath ystadau yn cael eu harwyddo gan y tri mesur hyn yw, am mai hyd yn y nefoedd yw o'r dwyrain i'r gorllewin, a'r rhai sydd mewn daioni yn codi o gariad a drigant yno; a lled sydd o'r deheu i'r gogledd, lle y triga y rhai sydd mewn gwirionedd yn tarddu o ddaioni (gwel uchod, r. 148), ac uchder yn y nefoedd a ddengys ddaioni a gwirionedd, yn ol eu graddau. Am y rheswm hwn yr arwyddoceir y fath bethau yn y Gair wrth hyd, lled, ac

uchder: megis yn Ezekiel, o Pen. xl. hyd xlviii., lle y desgrifir y deml newydd, a'r ddaear newydd, a'r cynteddau, ystafelloedd, drysau, pyrth, ffenestri, maesdrefi, a'r oll trwy y mesurau o hyd, lled, ac uchder. Yr holl bethau hyn a arwyddant Eglwys Newydd, a'r daioni a'r gwirionedd a ffynant ynddi; pe amgen, pa ddyben sydd i'r holl fesurau hyn? Darlunir y Jerusalem newydd yn y Datguddiad yr un modd, yn y geiriau hyn: "A'r ddinas sydd wedi ei gosod yn bedair ongl, a'i hyd sydd gymaint a'i lled. Ac efe a fesurodd y ddinas a'r gorsen, yn ddeuddeng mil o ystadau. A'i hyd, a'i lled, a'i huchder sydd yn ogymaint," xxi. 16. Wrth y Jerusalem Newydd yr arwyddoceir Eglwys Newydd, a'i mesurau a arwyddant y pethau a gyfansoddant yr Eglwys. Wrth hyd, yr arwyddoceir daioni ei chariad: wrth led, ei gwirionedd yn tarddu o'r daioni hwnw: wrth uchder, daioni a gwirionedd yn ol eu graddau; wrth ddeuddeng mil o ystadau, swm y daioni a'r gwirionedd oll. Beth arall ellid olygu wrth ddinas a'i huchder yn ddeuddeng mil o ystadau (1,500 o filldiroedd), ei hyd a'i lled yn ogymaint a'i huchder? Fod lled, yn y Gair, yn arwyddo gwirionedd, sydd amlwg yn Dafydd, "Ac ni warchaeaist fi yn llaw y gelyn; gosodaist fy nhraed mewn eangder," Ps. xxxi. 8. Eto, "Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd; yr Arglwydd a'm clybu, ac a'm gosododd mewn eangder," Ps. cxviii. 5; heb nodi rhanau ereill, megis Esaiah viii. 8.; Habakkuk Pen. i. 6.

198. Oddiwrth hyn gwelir, er fod lleoedd yn y nef fel yn y byd, eto ni fesurir dim yno wrth leoedd, ond wrth ystadau; ac, felly, ni ellir mesur lleoedd yno fel yn y byd, ond yn unig eu gweled o ystad fewnol yr angylion, ac yn ol yr ystad hono.

199. Yr achos cyntaf a mwyaf hanfodol o hyn yw, fod yr Arglwydd yn bresenol i bob un yn ol ei gariad a'i ffydd, a bod pob peth yn ymddangos yn agos neu yn mhell yn ol Ei bresenoldeb Ef: am mai wrth hyn y penderfynir safle pob peth yn y nefoedd. O'i bresenoldeb Ef hefyd y caiff yr angylion ddoethineb, canys trwy hyn yr ymeanga eu meddyliau i gymundeb â phawb ac a phobpeth yn y nefoedd. Yn fyr, trwy Bresenoldeb yr Arglwydd y meddyliant mewn modd ysbrydol, ac nid mewn modd naturiol, fel y gwna dynion.

### Ffurf y Nefoedd, yr hon a reola y Cymdeithasau a'r Cymundeb Nefol.

200. Gall natur ffurf y nefoedd ymddangos i fesur oddiwrth y pethau a ddywedwyd yn y penodau blaenorol; megis fod y nefoedd yn debyg iddi ei hun yn y ffurfiau mwyaf ac yn y lleiaf, r. 72; fod pob cymdeithas gan hyny yn nefoedd mewn ffurf lai, a phob angel yn nefoedd yn y ffurf leiaf, r. 51—58; mai fel y mae yr holl nefoedd yn debyg i un dyn, felly y mae pob cymdeithas





yno yn debyg i ddyn mewn ffurf lai, a phob angel i ddyn yn y ffurf leiaf, r. 59—77; fod y rhai doethaf yn y canol, a'r rhai llai doeth o'u hamgylch yn raddfeydd i'r terfynau, ac felly yn mhob cymdeithas, r. 43; fod y rhai sydd mewn daioni yn codi o gariad yn trigo o'r dwyrain i'r gorllewin yn y nefoedd, a'r rhai sydd yn y gwirionedd yn tarddu o ddaioni, o'r deheu i'r gogledd, ac felly yn mhob cymdeithas, r. 148, 149. Yr holl bethau hyn sydd yn ol ffurf y nefoedd, ac oddiwrthynt gellir casglu beth yw natur y ffurf hono.

201. Pwysig yw deall ffurf y nefoedd, oblegid nid yn unig fod yr holl gymdeithasau yn cael eu trefnu yn ol ffurf y nefoedd, ond trwyddi y cymer pob cymundeb le, ac felly holl ymeangiad meddyliau a serchiadau; o ganlyniad holl ddeall a doethineb yr angylion. Ar gyfrif hyn, i'r graddau y bydd unrhyw un yn ffurf y nefoedd, hyny yw, mor bell y bydd ef ei hun yn ffurf y nefoedd, y bydd ddoeth. Pa un a ddywedwn yn ffurf y nefoedd, neu yn nhrefn y nefoedd, yr un peth yw; oblegid fod ffurf pob peth yn codi o'i drefn, ac yn ol ei drefn.

202. Dywedir rhywbeth yn awr mewn perthynas i ffurf y nefoedd. Crewyd dyn yn ol delw y nefoedd a delw y byd; ei natur fewnol yn ol delw y nefoedd; ei natur allanol yn ol delw y byd (gwel uchod, r. 57). Pa un a ddywedwn yn ol delw, neu yn ol ffurf, yr un peth yw; ond gan i ddyn trwy ddrygau ei ewyllys, a thrwy feddyliau gau yn codi o honynt, ddinystrio y ddelw, ac felly ffurf y nefoedd ynddo ei hun, a dwyn i fewn yn eu lle ddelw a ffurf uffern, am hyny y mae ei natur fewnol yn gauedig o'i enedigaeth; hyn yw y rheswm fod dyn, yn wahanol i'r holl anifeiliaid, yn cael ei eni mewn anwybodaeth hollol. Mewn trefn, gan hyny, i adferyd delw neu ffurf y nefoedd yn y dyn, rhaid ei addysgu am bob peth perthynol i drefn; canys, fel y nodwyd uchod, ffurf sydd yn ol y drefn. Y Gair a gynwys holl ddeddfau dwyfol drefn, canys deddfau dwyfol drefn yw gorchymynion y Gair. I'r graddau, gan hyny, y daw dyn i adwaen y gorchymynion hyny, a'u byw, yr agorir ei natur fewnol ac y ffurfir o'r newydd ynddo, drefn neu ddelw y nefoedd. Amlwg yw oddiwrth hyn mai bod yn ffurf y nefoedd, yw byw yn ol gwirioneddau y Gair.

203. I'r graddau y byddo unrhyw un yn ffurf y nefoedd, y mae efe yn y nefoedd, ac y mae efe ei hun yn nefoedd yn y ffurf leiaf, r. 57; ac o ganlyniad y mae efe mor bell yn mwynhau deall a doethineb; canys, fel y dywedwyd uchod, holl feddyliau ei deall, a holl serchiadau ei ewyllys, a ymeangant i'r nefoedd yn mhob cyfeiriad yn ol ei ffurf, ac a ddeil gymundeb mewn modd rhyfeddol â'r cymdeithasau yno, a hwy âg ef yn adymgyrchol. Rhai a dybiant nad yw eu meddyliau a'u serchiadau yn ymeangu

o'u hamgylch, ond eu bod yn gauedig o'u mewn hwynt, am eu bod yn gweled y pethau a feddyliant, yn fewnol neu fel pe ynddynt eu hunain, ac nid yn bell. Ond camgymeriad mawr yw hyn; canys fel y mae golwg y llygad yn ymeangu at wrthrychau pell, ac yn derbyn argraff yn ol trefn y pethau a wêl fel hyny, felly hefyd am y llygad mewnol, sef llygad y deall, efe a ymeanga i'r byd ysbrydol, er nad yw dyn yn deimladwy o hyny, am y rheswm roddwyd yn r. 196. Yr unig wahaniaeth yw, yr effeithir yn naturiol ar olwg y llygad, oblegid ei fod yn gweled pethau yn y byd naturiol yn unig, tra yr effeithir yn ysbrydol ar olwg y deall, oblegid nad yw yn gweled ond pethau yn y byd ysbrydol, yr oll yn perthyn i ddaioni a gwirionedd. Ni ŵyr dyn hyn, am na ŵyr mai goleuni sydd yn goleuo y deall, er heb y goleuni hwnw nis gallasai feddwl o gwbl. Am y goleuni hwnw gwel uchod, r. 126—132. Yr oedd rhyw ysbryd a gredai ei fod yn meddwl o hono ei hun, ac felly heb unrhyw ymeangiad meddyliol, allan o hono ei hun, neu unrhyw gymundeb a chymdeithasau o'r tu allan iddo; i'w argyhoeddu o'i gyfeiliornad, torwyd pob cymundeb rhyngddo a'r cymdeithasau nesaf ato, mewn canlyniad nid yn unig amddifadwyd ef o bob meddwl, ond efe a syrthiodd i lawr fel yn farw, oddieithr ei fod yn taflu ei freichiau o amgylch fel baban newydd eni. Wedi enyd adferwyd iddo y cymundeb, ac yn ol graddau yr adferiad efe a ddychwelodd i'w ystad arferol o feddwl. Ysbrydion ereill, yn dystion o hyn, a gyfaddefent fod pob meddwl a theimlad yn dylifo i fewn trwy y fath gymundeb, ac felly yr oll o fywyd; gan fod yr oll o fywyd dyn yn gynwysedig yn hyn, ei fod yn gallu meddwl a theimlo, neu, yr hyn sydd yr un peth, ei fod yn gallu deall ac ewyllysio.

204. Dealler, fod deall a doethineb pob un yn amrywio yn ol ansawdd ei gymundeb. Y rhai sydd a'u deall a'u doethineb wedi eu ffurfio o wirioneddau a daioni dilwgr, a ddaliant gymundeb a chymdeithasau yn ol ffurf y nefoedd: tra y rhai sydd a'u deall a'u doethineb yn cael eu ffurfio, nid o wirioneddau a daioni dilwgr, ond eto o bethau yn cytuno â hwynt, eu cymundeb hwy sydd doredig ac afreolaidd, am nad yw yn cymeryd lle a chymdeithasau yn gyfresau cytunol â ffurf y nefoedd; ond y rhai nid ydynt ddeallus na doeth, am eu bod mewn twyll yn deilliaw o'r drwg, daliant gymundeb â chymdeithasau yn uffern. Bydd eangder y cymundeb yn ol graddau y cadarnhad yn y drwg. Dealler yn mhellach, nad yw y cymundeb hwn a'r cymdeithasau o natur i'w ganfod gan yr aelodau, ond yn gymundeb ar sylwedd neu yr ansawdd a lifa o honynt.

205. Pawb yn y nefoedd a gysylltir mewn cymdeithas yn ol eu perthynas ysbrydol, sef perthynas daioni a gwirionedd yn ol eu trefn. Felly y mae yn y nefoedd gyffredinol, yn mhob cymdeithas





ac yn mhob tŷ. Dyma y rheswm fod yr angylion sydd yn debyg mewn daioni a gwirionedd, yn adnabod eu gilydd, fel rhai yn perthyn trwy gyfathrach a chydwaedoliaeth ar y ddaear, a bron fel pe byddent gydnabyddion o'u mebyd. Y daioni a'r gwirioneddau sydd yn cyfansoddi deall a doethineb, a gysylltir yn yr un modd yn mhob angel: adwaenant eu gilydd yn yr un modd, ac fel yr adwaenant eu gilydd, felly hefyd yr unant a'u gilydd. Am hyny y rhai sydd a gwirioneddau a daioni yn unedig ynddynt yn ol ffurf y nefoedd, a welant y canlyniadau a lifant o honynt yn gyfresau, ac a gymerant olwg eang ar eu cydlyniad yn mhob cyfeiriad. Nid felly y rhai, nad yw daioni a gwirioneddau yn unedig ynddynt yn ol ffurf y nefoedd.

206. Y fath yw ffurf pob nefoedd, yn ol yr hon y bodola cymundeb ac ymeangiad meddyliau a serchiadau yr angylion, ac yn ol yr hon y mae ganddynt ddeall a doethineb. Ond gwahanol yw y cymundeb rhwng un nefoedd a'r llall, sef, rhwng y drydedd neu y fwyaf mewnol, a'r ail neu y ganol, a rhwng y ddwy hyn a'r gyntaf neu yr isaf. Nid cymundeb ond *Dylifiad* y dylid ei alw, am yr hyn y dywedir rhywbeth yn awr. Fod tair nefoedd, a'u bod ar wahan oddiwrth eu gilydd, a ddangoswyd uchod mewn Pennod neillduol, r. 29—40.

207. Nad oes gymundeb rhwng y naill nefoedd a'r llall, ond *Dylifiad*, o'r naill i'r llall, sydd amlwg oddiwrth eu safleoedd. Y drydedd neu y nef fwyaf mewnol sydd uchod, yr ail neu y nef ganol sydd islaw, a'r nef gyntaf neu yr isaf sydd îs drachefn. Trefn cymdeithasau pob nefoedd sydd gyffelyb. Rhai sydd mewn lleoedd uchel yn ymddangos fel mynyddau (r. 188), ac angylion y nefoedd fwyaf mewnol a drigant ar eu huchelion; islaw iddynt y mae cymdeithasau yr ail nefoedd, ac islaw i'r rhai hyn drachefn y mae cymdeithasau y nefoedd isaf. Yr un drefn a fiyna yn mhob man pa un ai safloedd uchel neu beidio. Nid oes gymundeb rhwng cymdeithas o nefoedd uwch a chymdeithas o nefoedd îs ond trwy gyfatebiaethau (gwel uchod, r. 100), a chymundeb trwy gyfatebiaethau a elwir *Dylifiad*.

208. Unir un nefoedd a'r llall, neu gymdeithas o un nefoedd a chymdeithas o nefoedd arall, gan yr Arglwydd yn unig, trwy ddylifiad uniongyrchol ac anuniongyrchol—uniongyrchol o hono ei Hun, ac anuniongyrchol drwy nefoedd uwch i nefoedd îs mewn trefn. Gan fod uniad y nefoedd trwy ddylifiad oddiwrth yr Arglwydd yn unig, am hyny y darperir yn y modd mwyaf gofalus na byddo i angel o nefoedd uwch edrych i lawr i gymdeithas mewn nefoedd îs, a siarad â neb yno: os gwneir hyn, amddifadir yr angel o'i ddeall a'i ddoethineb. Yr achos o hyn a eglurir. Y mae gan bob angel dri gradd bywyd, yn cyfateb i dri gradd y nefoedd. Y rhai sydd yn y nef fwyaf mewnol, y mae y trydydd

neu y gradd mwyaf mewnol ynddynt yn agored, a'r ail a'r cyntaf yn gauedig: y rhai sydd yn y nefoedd ganol, y mae yr ail radd yn agored, a'r cyntaf a'r trydydd yn gauedig: a'r rhai sydd yn y nefoedd isaf, y mae y gradd cyntaf ynddynt yn agored, a'r ail a'r trydydd yn gauedig: mor fuan, gan hyny, y gwna angel o'r drydedd nef edrych i lawr i gymdeithas yn yr ail nef, a siarad âg unrhyw un yno, ei drydydd gradd a gauir, ac amddifadir ef o'i ddoethineb; oblegid yn y trydydd gradd y mae ei ddoethineb ef, ac nid oes ganddo ddim yn yr ail a'r cyntaf. Hyn a feddylir wrth eiriau yr Arglwydd yn Matthew: "Y neb a fyddo ar ben y tŷ, na ddisgyned i gymeryd dim allan o'i dŷ; a'r hwn a fyddo yn y maes, na ddychweled yn ei ol i gymeryd ei ddillad," xxiv. 17, 18; ac yn Luc: "Yn y dydd hwnw y neb a fyddo ar ben y tŷ, a'i ddodrefn o fewn y tŷ, na ddisgyned i'w cymeryd hwynt: a'r hwn a fyddo yn y maes, yr un ffunud na ddychweled yn ei ol, Cofiwch wraig Lot," xvii. 31, 32.

209. Nid oes ddylifiad o nefoedd îs i nefoedd uwch, am y byddai hyny yn groes i drefn: y dylifiad a ddeillia o nefoedd uwch i nefoedd îs; canys doethineb angylion nefoedd uwch ragora yn y cyfartaledd o fyrddiwn i un, ar ddoethineb angylion nefoedd îs. Hyn, hefyd, yw y rheswm nas gall angylion nefoedd îs siarad âg angylion nefoedd uwch; yn wir, pan edrychant i'r cyfeiriad hwnw, ni welant yr angylion, a'u nhefoedd a ymddengys megis rhywbeth niwlog uwch eu penau. Angylion nefoedd uwch er hyny a allant weled angylion nefoedd îs; ond nid oes caniatad iddynt siarad â hwynt, heb golli eu doethineb, fel y dywedwyd uchod.

210. Nid yw yn bosibl i feddyliau a serchiadau na lleferydd angylion y nefoedd fwyaf mewnol gael eu canfod yn y nefoedd ganol, am eu bod gymaint uwchlaw amgyffredion angylion y nefoedd hono; ond, pan wel yr Arglwydd yn dda, math o sylwedd fflamllyd a ddeillia oddiwrthynt gan ymddangos mewn nefoedd îs; tra meddyliau a serchiadau a lleferydd angylion y nefoedd ganol yn ymddangos yn sylwedd dysglaer yn y nefoedd isaf; ac weithiau fel cwmwl gwyn neu amryliw, a'i esgyniad, a'i ddisgyniad, a'i ffurf, yn dangos, i raddau, destun yr ymddiddan.

211. Oddiwrth y sylwadau hyn gellir gweled beth yw ffurf y nefoedd, ei bod yn fwyaf perffaith yn y nefoedd fwyaf mewnol: ei bod yn berffaith hefyd yn y nefoedd ganol, ond mewn gradd îs; ac yn y nefoedd isaf, ond mewn gradd îs eto; a bod ffurf un nefoedd yn deilliaw o'r llall trwy ddylfiad oddiwrth yr Arglwydd. Ond nis gellir amgyffred natur cymundeb trwy ddylifiad heb wybodaeth am natur graddau uchder, a'r gwahaniaeth rhwng y graddau hyny a graddau hydred a lledred. Eglurwyd natur y graddau hyn yn r. 38.





212. Ffurf neillduol y nefoedd er hyny, a'r modd y muda ac y llifa sydd anamgyffredadwy i'r angylion eu hunain; ond gellir cael rhyw syniad am dani oddiwrth ffurf pob peth yn y corff dynol, pan ei chwilir gan sylwedydd craff a doeth; canys dangoswyd yn r. 59—72 fod y nefoedd gyffredinol yn debyg i un dyn, ac yn r. 87—102, fod pob peth sydd mewn dyn yn cyfateb i'r nefoedd. Mor anamgyffredadwy ac anchwiliadwy yw y ffurf hono, a welir i ryw raddau cyffredin oddiwrth edafedd y gewynau, y rhai a ffurfiant bob rhan trwy eu cymhleth gyfuniadau. Nis gall y llygad ganfod natur yr edafedd hyny, a'r modd y maent yn mudo a llifo yn yr ymenydd: oblegid y maent yno yn aneirif, ac wedi eu plygu yn nghyd, ac yn ymddangos gyda'u gilydd yn un crynswth tyner: ac eto pob act o eiddo yr ewyllys a'r deall a lifant, yn y modd mwyaf pendant, ar hyd aneirif edafedd y gymhleth hon. Y modd y mae yr edafedd hyn yn ymwau yn nghyd yn y corff, a ymddengys oddiwrth yr amrywiol gasgliadau o honynt a elwir *plexus*—megis y *cardiac plexus*, y *mesenteric plexus*, ac ereill; hefyd y clymau o honynt a elwir *ganglions*, i'r rhai y daw edafedd lawer o bob talaeth, cydgymysgant ac ant allan drachefn yn gydblethiadau newyddion i gyflawni eu swyddogaethau. Mynychir hyn drachefn a thrachefn; heb nodi pethau tebyg yn mhob perfeddyn, aelod, ermig a gewyn. Y neb a sylwa ar y pethau hyn, a'r rhyfeddodau lawer a gynwysant, gyda llygad doethineb, a lenwir â syndod; ac eto ni wel y llygad ond ychydig, a'r cyfryw yn llai rhyfedd nac ereill na all weled, am eu bod yn mewnolion natur. Fod y ffurf hon yn cyfateb i ffurf y nefoedd, a ymddengys yn eglur oddiwrth fod y deall a'r ewyllys yn gweithredu ynddi ac yn ol y ffurf hon; canys beth bynag a ewyllysia dyn a ddisgyna yn ddigymell yn ol y ffurf hon i act; a pha beth bynag feddylia a dreiddia drwy yr edafedd hyn o'u dechreu i'w diwedd, ac oddiyna y daw teimladau. Gan mai y ffurf hon yw ffurf y meddwl a'r ewyllys, hon, gan hyny, yw ffurf deall a doethineb, ac y mae yn cyfateb i ffurf y nefoedd. Gwelir, oddiwrth hyn, fod holl feddyliau a theimladau yr angylion yn ymeangu yn ol y ffurf hon, ac i'r graddau y maent ynddi y byddant ddeallus a doeth. Fod ffurf y nefoedd yn tarddu o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, a welir uchod r. 78—86. Nodir y ffeithiau hyn er ddangos nas gellir byth amgyffred yn drwyadl y ffurf nefol hyd yn oed yn y pethau cyffredin a berthyn iddi, a'i bod yn anamgyffredadwy i'r angylion eu hunain, fel y sylwyd uchod.

## Llywodraethau yn y Nefoedd.

213. Gan fod y nefoedd yn cael ei gwahaniaethu i gymdeithasau, a'r cymdeithasau mwyaf yn cynwys canoedd o filoedd o angylion (r. 50); a chan fod holl aelodau yr un gymdeithas yn yr

un daioni, ond nid yn yr un doethineb (r. 47), y canlyniad o anghenrheidrwydd yw, fod llywodraethau yn y nefoedd: oblegid rhaid cadw trefn, a phob peth perthynol i drefn yn ddidor. Amrywiol yw y llywodraethau yn y nefoedd; o un math yn y cymdeithasau a gyfansoddant deyrnas nefol yr Arglwydd, ac o fath arall yn y cymdeithasau a gyfansoddant deyrnas ysbrydol yr Arglwydd; gwahaniaethant hefyd yn ol swydd neillduol pob cymdeithas, ond *llywodraeth cydgariad yw yr unig lywodraeth a fodala yn y nefoedd*, a llywodraeth cydgariad sydd Lywodraeth Nefol.

214. Y Llywodraeth yn Nheyrnas Nefol yr Arglwydd a elwir *Uniondeb* neu *Gyfiawnder*, am fod holl drigolion y deyrnas hono mewn daioni yn codi o gariad at yr Arglwydd deilliedig oddiwrth yr Arglwydd: a pha beth bynag a wneir o'r egwyddor hon a elwir yn uniawn. Y llywodraeth yn y deyrnas nefol sydd o'r Arglwydd ei Hun; Efe a'u harwain ac a'u dysg hwynt yn materion bywyd; a'r gwirioneddau a elwir gwirioneddau barn ydynt ysgrifenedig ar eu calonau. Pawb a'u gwyddant, a'u canfyddant ac a'u gwelant: am hyny ni ddaw materion barn byth i ddadl, ond materion uniondeb, yn perthyn i fywyd. Am y rhai hyn, y rhai llai doeth a holant rai ddoethach, hwythau a ymofynant â'r Arglwydd ac a dderbyniant attebion. Eu nhefoedd, neu eu llawenydd dyfnaf, yw byw yn uniawn o'r Arglwydd.

215. Y llywodraeth yn nheyrnas ysbrydol yr Arglwydd a elwir Barn, am eu bod yno mewn daioni ysbrydol, sef y daioni o garu cymydog, a'r daioni hwnw yn ei hanfod yw gwirionedd: gwirionedd a berthyn i farn, a daioni i uniondeb. Cant eu harwain hefyd gan yr Arglwydd, ond trwy gyfryngau (208): am hyny y mae ganddynt lywodraethwyr, ychydig neu lawer, yn ol anghenion y gymdeithas y byddont ynddi. Cyfreithiau hefyd sydd ganddynt, yn ol y rhai y maent yn byw yn eu plith eu hunain. Y llywodraethwyr a weinyddant bob peth yn ol y deddfau; hwy a'u deallant gan eu bod yn ddoeth, ac mewn pethau amheus cant eu goleuo gan yr Arglwydd.

216. Gan fod llywodraeth o ddaioni fel yr hon sydd yn nheyrnas nefol yr Arglwydd, yn cael ei galw Uniondeb, a llywodraeth o wirionedd, fel ar hon sydd yn nheyrnas ysbrydol yr Arglwydd, yn cael ei galw Barn; am hyny y dywedir "cyfiawnder a barn" yn y Gair pan sonir am bethau yr Eglwys a'r nef. Wrth *Gyfiawnder* yr arwyddoceir daioni nefol, ac wrth *Farn* daioni ysbrydol, yr hwn, fel y dywedwyd uchod, yn ei hanfod sydd wirionedd, megis yn y rhanau canlynol: "Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd, ar orseddfa Dafydd ac ar ei freniniaeth ef, i'w threfnu hi ac i'w chadarnhau â barn ac â chyfiawnder, o'r pryd hwn a hyd byth," Esaiah ix. 7. Wrth Dafydd yma y golygir yr Arglwydd, ac wrth ei deyrnas, y nefoedd, fel y gwelir oddiwrth y





rhan ganlynol: "Cyfodaf i Dafydd Flaguryn Cyfiawn, a Brenin a deyrnasa ac a lwydda, ac a wna *Farn* a *Chyfiawnder* ar y ddaear," Jer. xxiii. 5.; "Dyrchafwyd yr Arglwydd: canys preswylio y mae yn yr uchelder; efe a lanwodd Sion o *Farn* a *chyfiawnder*," Esa. xxxiii. 5.; wrth Sion hefyd y golygir y nefoedd a'r Eglwys. "Myfi yw yr Arglwydd a wna drugaredd, *Barn* a *Chyfiawnder* yn y ddaear; oherwydd yn y rhai hyny yr ymhyfrydais," Jer. ix. 24.; "A mi a'th ddyweddïaf â mi fy hun yn dragywydd; ïe, dyweddïaf di â mi fy hun mewn *cyfiawnder*, ac mewn *barn*," Hosea ii. 19.; "Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy *gyfiawnder;* dyfnder mawr yw dy *farnedigaethau*," Psalm xxxvi. 5, 6.; "Gofynant i mi farnedigaethau cyfiawnder, ewyllysiant nesau at Dduw," Esa. lviii. 2., ac mewn rhanau ereill.

217. Yn nheyrnas ysbrydol yr Arglwydd y mae amrywiol ffurfiau o lywodraeth, yn gwahaniaethu mewn gwahanol gymdeithasau, ac yn amrywio yn ol y swyddau gyflawnir gan y cymdeithasau; a'r swyddau yn debyg ac yn cyfateb i swyddau yr holl ranau mewn dyn. Gwyddir fod yr holl rai hyn yn amrywiol; y mae un swydd gan y galon, un arall gan yr ysgyfaint, un arall gan yr afu, un arall gan y *pancreas* a'r *spleen*, ac un arall gan bob organ synwyr. Fel y mae swydd yr aelodau hyn yn y corff yn amrywiol, felly y cymdeithasau yn y *Dyn Mawreddog*, sef y Nefoedd, am fod cymdeithasau yn cyfateb i'r holl organau hyny. Dangoswyd uchod (r. 87, 102), fod cyfatebiaeth rhwng pob rhan o'r nefoedd, a phob rhan o'r dyn. Ond holl ffurfiau y llywodraeth a gytunant i edrych ar y daioni cyhoedd fel eu dyben, ac yn y daioni hwnw, ddaioni pob un unigol. Cymer hyn le, oblegid fod pawb yn yr holl nefoedd dan nawdd yr Arglwydd, yr Hwn sydd yn caru pawb, ac o'i Ddwyfol Gariad, yn ordeinio fod y daioni cyhoedd yn ddaioni i bob un, a phob un yn derbyn daioni i'r graddau y byddo yn caru y daioni cyhoedd; canys i'r graddau y câr un gymdeithas, y câr ei haelodau un ac oll; a chan mai hyn yw cariad yr Arglwydd ei Hun, y mae Efe mor bell yn cael ei garu gan yr Arglwydd, ac yn derbyn daioni.

218. Oddiwrth y sylwadau hyn gwelir cymeriad llywodraethwyr yn y nefoedd, eu bod yn meddu mwy o gariad a doethineb nac ereill; eu bod yn dymuno yn dda i bawb o gariad, ac yn gwybod, trwy ddoethineb, y ffordd i gyflawni y daioni a ddymunant. Y rhai sydd o'r cymeriad hwn nid ydynt yn traws na thra-arglwyddiaethu, ond yn gweini a gwasanaethu; canys gwneyd daioni i ereill oddiar gariad at ddaioni, yw gwasanaethu; a darparu fod y daioni yn cael ei gyflawni, yw gweini. Ni wna y fath bersonau eu hunain yn fwy nac ereill, ond yn llai; canys gosodant ddaioni y gymdeithas a'u cymydog yn y lle blaenaf, a'u daioni eu hunain yn y lle olaf: yr hyn sydd yn y lle blaenaf sydd fwyaf, a'r hyn sydd yn y lle olaf sydd lai. Er hyny mwynhant anrhydedd a

gogoniant; preswyliant yn nghanol y gymdeithas, mewn palasoedd gorwych a'r safle uwch na'r lleill; derbyniant yr anrhydedd a'r gogoniant hwn, nid er eu mwyn eu hunain, ond er sicrhau ufudd-dod; canys gŵyr pawb yn y nefoedd fod yr anrhydedd a'r gogoniant hwn ganddynt o'r Arglwydd, ac am hyny y dylent gael ufudd-dod. Hyn olygir wrth eiriau yr Arglwydd i'w ddysgyblion: "A phwy bynag a fyno fod yn benaf yn eich plith, bydded yn was i chwi; megis na ddaeth Mab y Dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu," Math. xx. 27, 28. "Y mwyaf yn eich plith chwi, bydded megis yr ieuengaf; a'r penaf megis yr hwn sydd yn gweini," Luc xxii. 26.

219. Llywodraeth debyg yn y ffurf leiaf a ffyna yn mhob tŷ: yn mhob tŷ y mae meistr a gweision, y meistr yn caru y gweision, a'r gweision yn caru y meistr, fel y maent yn gwasanaethu eu gilydd oddiar gariad: y meistr a'u dysg pa fodd y dylent fyw, ac a ddywed beth ddylent wneyd: y gweision a ufuddhant ac a gyflawnant eu dyledswyddau. Bod yn ddefnyddiol yw pleser bywyd pawb. Oddiyma eglur yw, mai teyrnas o ddefnyddioldeb yw teyrnas yr Arglwydd.

220. Y mae llywodraethau hefyd yn uffern, oblegid heb lywodraethau, ni ellid eu cadw mewn rhwymau: ond y llywodraethau yn uffern ydynt wrthwyneb i lywodraethau yn y nefoedd. Yr uffernolion oll ydynt mewn hunangariad, a phob un yn dymuno tra-arglwyddiaethu ar ereill a bod yn oruchaf. Casant y rhai na wnant eu ffafrio, dialant arnynt a thriniant hwy yn greulon: canys dyna natur hunangariad; am hyny y rhai mwyaf maleisddrwg osodir i'w llywodraethu, ac ufuddheir iddynt oddiar ofn. Ond rhagor ar hyn wrth drin yr uffernoedd.

### Addoliad Dwyfol yn y Nefoedd.

221. Nid yw addoliad dwyfol yn y nefoedd yn anhebyg i addoliad dwyfol ar y ddaear yn ei allanolion, ond gwahaniaetha yn ei fewnolion: yno fel yma y mae athrawiaethau, pregethau, a themlau. Yr *athrawiaethau* a gytunant yn eu hanfodion, ond eu bod o ddoethineb mwy mewnol yn y nefoedd uchaf nac yn y rhai îs: y *pregethu* sydd yn ol yr athrawiaethau: ac fel y mae ganddynt dai a phalasoedd (r. 183—190), felly hefyd y mae ganddynt demlau lle y pregethir. Bodola y fath bethau yn y nefoedd, am fod yr angylion yn barhaus yn cael eu perffeithio mewn doethineb a chariad; canys y mae ganddynt ddeall ac ewyllys fel dynion, ac y maent yn alluog i gyrchu byth at berffeithrwydd: y deall a berffeithir trwy wirioneddau perthynol i ddealltwriaeth, a'r ewyllys trwy ddaioni perthynol i gariad.

222. Ond nid yw gwir addoliad dwyfol yn y nefoedd yn gynwysedig mewn mynychu temlau a gwrando pregethau, ond mewn





bywyd o gariad, a ffydd yn ol eu hathrawiaethau; y pregethau yn yr Eglwysi yn gwasanaethu yn unig fel moddion addysg yn materion bywyd. Ymddiddenais â'r angylion am hyn a dywedais wrthynt, y credir yn y byd fod addoliad dwyfol yn gynwysedig mewn myned i'r cwrdd yn unig, gwrando pregethau, derbyn yr ordinhad dair neu bedair gwaith y flwyddyn, a chydymffurfio â defodau ereill benodir gan yr Eglwys; ac hefyd neillduo amserau i weddio, ac ymddwyn yn ddefosiwnol ar y pryd. Dywedai yr angylion, mai allanolion yw y pethau hyn ddylid gadw, ond nad ydynt o unrhyw les oddieithr eu bod yn tarddu oddiar egwyddor fewnol, ac mai yr egwyddor hono yw, bywyd yn ol gorchymynion yr athrawiaeth.

223. Fel y gallwn wybod ansawdd y cynulliadau yn y temlau, caniatawyd i mi weithiau fyned iddynt, a gwrando y pregethu. Y pregethwr a saif mewn pwlpud yn y dwyrain: o flaen ei wyneb yr eistedd y rhai sydd y ngoleuni doethineb yn fwy nac ereill, ac ar y dde a'r aswy y rhai sydd mewn goleu llai. Eisteddant yn ffurf *circus*, fel y mae pob un yn ngolwg y pregethwr: nid eistedd neb o'r naill du iddo, fel i fod allan o'i olwg. Y rhai newydd a safant yn y drws, yn y dwyrain i'r deml, ac ar aswy y pwlpud: nid cyfreithlawn i neb sefyll tu ol i'r pwlpud, oblegid drysai hyny y pregethwr; drysa hefyd os y gwna neb yn y gynulleidfa anghytuno â'r hyn a glyw, gorfodir y cyfryw i droi ymaith ei wyneb. Y pregethau sydd mor llawn o ddoethineb, fel nas gellir cydmaru dim a glywir yn y byd hwn iddynt, am fod pregethwyr y nefoedd mewn goleuni mewnol. Y temlau a ymddangosant fel o gareg yn y deyrnas ysbrydol, ac fel o goed yn y deyrnas nefol; am fod careg yn cyfateb i wirionedd yn yr hwn y mae rhai y deyrnas ysbrydol, a choed yn cyfateb i ddaioni, yn yr hwn y mae rhai y deyrnas nefol: ni elwir yr adeiladau yn y deyrnas hon Temlau, ond Tai Duw. Nid yw yr addoldai yn y deyrnas nefol yn orwych: ond yn y deyrnas ysbrydol y maent yn orwych fwy neu lai.

224. Ymddiddenais âg un o'r pregethwyr am ystad santaidd y rhai a wrandawant y pregethau yn y temlau: dywedodd fod pob un yn meddu ystad dduwiol, ddefosiwnol a sanctaidd yn ol ei egwyddorion mewnol y rhai sydd o ffydd a chariad, am mai mewn ffydd a chariad y mae Sancteiddrwydd o Ddwyfoldeb yr Arglwydd: ac nas gwyddai beth oedd sancteiddrwydd allanol hebddynt; a phan feddyliai am sancteiddrwydd allanol heb y pethau hyn, dywedai, y gallai fod yn fath o ffug allanol o sancteiddrwydd, oddiar gelfyddid neu ragrith: ac y gallai rhyw dân dieithr, megis hunan neu fydol gariad, gyffroi a dangos y fath sancteiddrwydd.

225. Yr holl bregethwyr sydd o deyrnas ysbrydol yr Arglwydd, a neb o'i deyrnas nefol: oblegid fod trigolion y deyrnas hono

mewn gwirioneddau yn tarddu o ddaioni, a'r holl bregethu sydd o'r gwirioneddau. Ni pherthyn neb o'r pregethwyr i'r deyrnas nefol, am fod trigolion y deyrnas hono mewn daioni o gariad, ac o hono gwelant a chanfyddant wirioneddau, ond ni lefarant am danynt. Er fod angelion y deyrnas nefol yn canfod a gweled gwirioneddau, eto y mae pregethu yn eu plith, am eu bod trwy hyny yn cael eu goleuo yn y gwirioneddau a wyddant yn barod, a'u perffeithio trwy lawer o rai na wyddent o'r blaen. Mor fuan ag y clywant hwynt, cydnabyddant hwynt hefyd, a chanfyddant eu hansawdd; y gwirioneddau a ganfyddant, carant hwynt hefyd, ac wrth eu byw, gwnant hwynt yn ran o'u bywyd: dywedant mai byw yn ol y gwirioneddau yw caru yr Arglwydd.

226. Yr holl bregethwyr a gânt eu hapwyntio gan yr Arglwydd, ac o'u hapwyntiad, cânt y ddawn o bregethu; ni chaniateir neb arall ddysgu yn eu temlau. Gelwir hwynt pregethwyr, nid offeiriaid: y rheswm yw, am mai offeiriadaeth y nefoedd yw y deyrnas nefol: offeiriadaeth y nefoedd a arwydda ddaioni o gariad at yr Arglwydd, yn yr hwn y mae pawb yn y deyrnas hono. Breniniaeth y nefoedd yw y deyrnas ysbrydol: am fod breniniaeth yn arwyddo gwirionedd yn tarddu o ddaioni, yn yr hwn y mae pawb yn y deyrnas hono (gwel uchod, r. 24).

227. Yr holl athrawiaethau yn y pregethau a olygant fywyd fel eu dyben, ac nid ffydd heb fywyd. Athrawiaeth y nefoedd fwyaf mewnol sydd fwy llawn o ddoethineb, nac athrawiaeth y nefoedd ganol, ac athrawiaeth y nefoedd ganol sydd fwy llawn o ddeall-twriaeth, nac athrawiaeth y nefoedd isaf; am fod yr athrawiaethau yn addasedig i amgyffredion yr angylion yn mhob nefoedd. Y peth hanfodol i'r holl athrawiaethau yw Cydnabod Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd.

### Nerth Angylion y Nefoedd.

228. Nis gellir synied gan rai na wyddant ddim am y byd ysbrydol a'i ddylifiad i'r byd naturiol, fod yr angylion yn meddu nerth; canys meddyliant nas gall angylion feddu nerth, oblegid eu bod yn ysbrydol, ac mor bur a disylwedd, fel nas gellir hyd yn oed eu gweled â'r llygad; ond y rhai a edrychant yn fewnol i achosion pethau a feddyliant yn wahanol; canys hwy a wyddant fod holl nerth dyn yn tarddu o'i ddeall a'i ewyllys, gan nas gall hebddynt symud gronyn o'i gorff. Deall ac ewyllys yw yr ysbrydol o'r dyn, yn gweithio fel y myn ar y corff a'r aelodau; canys y peth a feddylia y dyn a lefara y genau a'r tafod, a'r peth a ewyllysia a wna; gan ollwng grym wrth ei bleser. Ewyllys a deall dyn a reolir gan yr Arglwydd trwy angylion ac ysbrydion; gan hyny rheola holl ranau y corff, am eu bod yn tarddu o'r ewyllys a'r deall; er y gall fod yn anghredadwy, nis gall dyn





symud cam heb ddylifiad y nefoedd. Dangoswyd hyn i mi trwy lawer o brofiad, canys caniatawyd i angylion symud fy nghamrau, fy actau, fy nhafod, neu lleferydd, wrth eu pleser, trwy ddylifiad i'm hewyllys a'm meddwl; a chadarnhawyd fi nad allwn ddim o honof fy hun. Dywedasant wedi hyny, fod pob dyn yn cael ei reoli felly, ac y gallai wybod hyny o athrawiaeth yr Eglwys ac o'r Gair; canys efe a weddia ar Dduw anfon ei angylion i'w arwain, i gyfeirio ei gamrau, i'w ddysgu, a'i ysbrydoli beth i'w feddwl, a beth i'w ddweyd, a mwy; er pan feddylia ynddo ei hun heb athrawiaeth, efe a gred ac a ddywed fel arall. Dywedir hyn fel yr adwaenir ansawdd y gallu sydd gan angylion ar ddynion.

229. Ond y mae gallu angylion yn y byd ysbrydol mor fawr, pe traethwn yr holl engreifftiau a welais, buasent yn anghredadwy. Os bydd unrhyw beth yno yn gwrthwynebu, ddylid symud am ei fod yn groes i Drefn Ddwyfol, taflant ef i lawr a dymchwelant ef trwy egni ewyllys yn unig ac edrychiad. Gwelais fynyddoedd a drigianid gan y drygionus, yn cael eu taflu lawr a'u dymchwelyd fel hyn, ac weithiau eu hysgwyd o un pen i'r llall, fel gan ddaeargryn. Gwelais greigiau yn hollti lawr i'r gwaelod, a'r drygionus arnynt yn cael eu llyncu. Gwelais hefyd rai canoedd o filoedd o ysbrydion drwg yn cael eu gwasgaru a'u taflu i uffern: nid yw rhif ddim yn erbyn yr angylion, na dyfeisiau, na chyfrwysdra, na chyngreiriau: gwelant trwy y cwbl a gwasgarant hwynt mewn moment. Ond gwelir rhagor ar hyn yn y gwaith ar "Y Farn Ddiweddaf a Dinystr Babylon." Y fath yw eu gallu yn y byd ysbrydol. Fod gan yr angylion allu cyffelyb yn y byd naturiol, pan ganiateir iddynt ei arfer, sydd eglur o'r Gair: darllenwn ynddo iddynt ddystrywio byddinoedd cyfain, a dwyn pla a laddodd dri-ugain a deg o filoedd o ddynion. Am yr angel a ddygodd y pla yr ysgrifenir: "A phan estynai yr angel ei law at Jerusalem i'w dinystrio hi, edifarhaodd ar yr Arglwydd y drwg hwn, ac a ddywedodd wrth yr angel oedd yn dinystrio y bobl, Digon bellach: atal dy law. A llefarodd Dafydd wrth yr Arglwydd, pan ganfu efe yr angel," 2 Sam. xxiv. 15, 16, 17. Gellid nodi rhagor. Gan fod yr angylion yn meddu y fath nerth, gelwir hwynt Nerthoedd; ag yn Dafydd dywedir: "Bendithiwch yr Arglwydd, ei angylion Ef, cedyrn o nerth," Psalm ciii. 20.

230. Ond gwybydder, nad oes gan yr angylion unrhyw allu o honynt eu hunain, eu holl allu sydd o'r Arglwydd; y maent yn Nerthoedd mor bell ag y cydnabyddont hyny: os tybia unrhyw angel fod ganddo nerth o hono ei hun, aiff mor wan ar unwaith, fel nas gall wrthwynebu cymaint ag un ysbryd drwg; am hyny ni phriodola yr angylion unrhyw deilyngdod iddynt eu hunain, a chroes ydynt i gael clod a gogoniant am ddim a wnant, priodolant yr oll i'r Arglwydd.

231. Gwirionedd Dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd a fedd bob gallu yn y nefoedd, am mai Gwirionedd Dwyfol yn un a Daioni Dwyfol yw yr Arglwydd yn y nefoedd (gwel r. 126—140), y mae yr angylion yn nerthoedd mor bell ag y derbyniant Ef. Ei wirionedd ei hun a'i ddaioni ei hun hefyd yw pob un, am mai ansawdd y deall a'r ewyllys yw ansawdd y dyn: a'r deall a berthyn i wirionedd, am fod yr oll o hono o'r gwirionedd, a'r ewyllys a berthyn i ddaioni, am fod yr oll o honi o ddaioni: oblegid beth bynag a ddealla dyn, efe a'i geilw yn wirionedd, a pha beth bynag a ewyllysia, efe a'i geilw yn ddaioni; felly, ei wirionedd ei hun a'i ddaioni ei hun yw pob un; mor bell, gan hyny ag y byddo angel yn wirionedd o'r Duwdod, ac yn ddaioni o'r Duwdod, y mae efe yn nerth, oblegid i'r un graddau y mae yr Arglwydd ganddo; a chan nad oes neb yn hollol yn yr un daioni a gwirionedd a'r llall,—oblegid yn y nefoedd fel yn y byd y mae amrywiaeth diderfyn—am hyny nid yr un nerth sydd gan un angel a'r llall. Y rhai a gyfansoddant freichiau y Dyn Mawreddog, neu y nefoedd, feddant y nerth mwyaf, am eu bod mewn mwy o wirioneddau nac ereill, a bod dylifiad o ddaioni i'w gwirioneddau o'r nefoedd gyffredinol; gallu yr holl ddyn hefyd a drosglwydda ei hun i'r breichiau, a thrwyddynt y gwna yr holl gorff arfer ei nerth; am hyny y mae y breichiau a'r dwylaw, yn y Gair, yn arwyddo nerth. Ymddengys weithiau yn y nefoedd, fraich noeth estynedig, o'r fath nerth aruthrol, fel y gall friwio pob peth a gyffyrdda â hwynt yn falurion, hyd yn oed pe yn graig ar y ddaear. Symudodd unwaith tuag attaf, a chanfyddais ei bod yn alluog i friwio fy esgyrn yn bylor.

232. Gwelir uchod, r. 137, fod pob nerth yn y gwirionedd Dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, a bod nerth yr angylion yn gyfartal i'r Gwirionedd Dwyfol dderbyniant o'r Arglwydd; ond angylion a dderbyniant Wirionedd Dwyfol i'r un graddau ag y derbyniant Ddaioni Dwyfol, am fod gwirioneddau yn derbyn eu holl nerth o ddaioni, a dim heb ddaioni: ar y llaw arall, holl nerth daioni sydd trwy wirioneddau, a dim heb wirioneddau, am mai canlyniad uniad y ddau yw nerth. Tebyg yw gyda ffydd a chariad: canys yr un peth yw ffydd a gwirionedd, am fod yr oll o ffydd yn wirionedd; a'r un peth hefyd yw daioni a chariad, am fod yr oll o gariad yn ddaioni. Dirfawr nerth yr angylion, trwy wirionedd o ddaioni a ddangosir yn hyn hefyd, fod ysbryd drwg, dim ond i angel edrych arno, yn cwympo mewn llewyg, a phery hyn nes y try yr angel ei lygaid oddiwrtho. Cynyrchir y fath effaith gan edrychiad yr angylion, am fod eu golwg yn deilliaw o oleuni y nefoedd, a goleuni y nefoedd yw Gwirionedd Dwyfol (gwel uchod, r. 126—132): Y llygaid hefyd sydd yn cyfateb i wirionedd yn tarddu o ddaioni.





233. Gan fod pob nerth mewn gwirioneddau yn tarddu o ddaioni, felly nid oes unrhyw nerth mewn cyfeiliornadau yn tarddu o ddrwg. Pawb yn uffern sydd mewn cyfeiliornadau yn tarddu o ddrwg: am hyny nid oes ganddynt allu yn erbyn gwirionedd a daioni: natur eu gallu yn eu plith eu hunain, a gallu ysbrydion drwg cyn eu taflu i uffern a ddangosir yn yr hyn a ganlyn.

### Lleferydd yr Angylion.

234. Angylion a ymddiddanant a'u gilydd fel dynion yn y byd, ac fel hwythau a siaradant ar amryw faterion: megis eu materion teuluaidd, materion eu cymdeithas, a materion moesol ac ysbrydol; nid oes unrhyw wahaniaeth, oddieithr eu bod yn siarad yn fwy deallus na dynion, am eu bod o feddwl mwy mewnol. Caniatawyd i mi yn fynych gymdeithasu â hwynt, a siarad â hwynt fel cyfaill â chyfaill, ac weithiau fel dyn dyeithr; a chan fy mod ar y pryd yn yr un ystad a hwythau, teimlwn yn hollol fel pe yn siarad â dynion ar y ddaear.

235. Y mae lleferydd yr angylion yn cynwys geiriau clir, fel lleferydd dynol; yr un modd hefyd, traethant a chlywir hwynt yn soniarus; canys y mae ganddynt enau, a thafod, a chlustiau fel dynion. Y mae ganddynt hefyd awyrgylch, yn yr hon y seinia eu lleferydd, ond awyrgylch ysbrydol ydyw, addasedig i'r angylion fel bodau ysbrydol. Yr angylion hefyd a anadlant yn eu hawyrgylch, a pharablant eu geiriau trwy eu hanadl, fel y gwna dynion yn yr eiddynt hwythau.

236. Yr un iaith sydd gan bawb yn yr holl nefoedd; pawb a ddeallant eu gilydd, pa un ai perthyn y byddont i gymdeithas agos neu bell. Nid yw yr iaith hon yn cael ei dysgu, ond planedig yw yn mhob un, canys llifa o'u teimlad a'u meddwl. Swn eu lleferydd a gyfateb i'w teimlad, a pharabliad y swn, sef y geiriau, a gyfateb i syniadau eu meddwl yn tarddu o'u teimlad; a chan fod eu hiaith yn cyfateb i'r pethau hyn, ysbrydol yw, sef teimlad yn seinio, a meddwl yn llefaru. Pob un sylwa a all wybod, fod pob meddwl yn tarddu o'r teimlad, yr hwn sydd o gariad, a bod syniadau meddwl yn amrywiol ffurfiau yn y rhai yr ymwasgara y teimlad cyffredin; canys ni all meddwl na syniad fodoli heb deimlad—dyna eu henaid a'u bywyd. Oherwydd hyn y gŵyr yr angylion gymeriad unrhyw un oddiwrth ei leferydd yn unig; oddiwrth ei swn adwaenant ansawdd ei deimlad, ac oddiwrth barabliad y swn, neu y geiriau, adwaenant ansawdd ei feddwl. Yr angylion doethaf a wyddant ansawdd y cariad llywodraethol oddiwrth ychydig frawddegau cysylltiedig, canys sylwant yn benaf ar y cariad hwnw. Gŵyr pawb fod gan bob un amrywiol deimladau, bydd un teimlad mewn llawenydd, un arall mewn gofid, un arall mewn tynerwch a thrugaredd, un arall mewn didwylledd a gwir-

ionedd, un arall mewn cariad, un arall mewn zel a digofaint, un arall mewn gweiniaith a thwyll, un arall wrth gyrchu am anrhydedd a gogoniant, a'r cyffelyb; ond y mae y teimlad neu y cariad llywodraethol ynddynt oll; am hyny yr angylion doethaf, y rhai a sylwant yn benaf ar y cariad hwnw, a adwaenant oddiwrth y lleferydd holl gymeriad y llefarwr. Fod hyn yn ffaith, a ddangoswyd i mi trwy lawer o brofiad. Clywais angylion yn agor bywyd un arall oddiwrth ei leferydd yn unig, a dywedant yr adwaenant ei holl fywyd oddiwrth ychydig syniadau o'i feddwl, am y canfyddant ynddynt ei gariad llywodraethol, yr hwn a gynwys holl fanylion ei fywyd mewn trefn; ac nad yw Llyfr Bywyd dyn yn ddim arall.

237. Nid oes dim yn yr iaith angylaidd yn debyg i ieithoedd dynol, ond mewn rhai geiriau sydd a'u swn yn tarddu mewn teimlad neillduol; perthyn hyn, er hyny, nid ar geiriau eu hunain, ond â'u swn, ac am hyn y dywedir rhagor yn yr hyn a ganlyn. Nad oes dim mewn iaith angylaidd yn debyg i ieithoedd dynol, sydd amlwg, oblegid nas gall angylion draethu un gair o iaith ddynol. Buont yn treio, ond nis gallant, oherwydd eu hanallu i draethu dim ond sydd berffaith gytun â'u serch; â pha beth bynag nad yw yn cytuno â'u serch, sydd groes i'w bywyd, am fod eu bywyd yn tarddu o'u cariad, a'u lleferydd o hyny. Dywedwyd wrthyf fod iaith gyntefig dynolryw ar y ddaear yn cytuno â'r iaith angylaidd, oblegid iddynt ei chael o'r nefoedd; a bod yr iaith Hebraeg yn cytuno â hi mewn rhai pethau.

238. Gan fod lleferydd yr angylion yn cyfateb i'w teimlad yn tarddu o gariad, a chariad y nefoedd yw cariad at yr Arglwydd ac at gymydog (gwel uchod, r. 13—19), y mae yn eglur mor llednais a melus y rhaid fod eu lleferydd, canys effeithia nid yn unig ar y glust, ond ar fewnolion y meddwl. Llefarodd angel unwaith wrth ysbryd calon galed, a chyffrowyd ef gan y lleferydd, fel y torodd i wylo, gan ddywedyd nas gallasai attal, oblegid mai cariad yn llefaru ydoedd, ac na wylodd ef erioed o'r blaen.

239. Lleferydd yr angylion sydd yn llawn doethineb, am eu bod yn deilliaw o'u meddwl mewnol; a doethineb yw eu meddwl mewnol, fel mae cariad yw eu teimlad mewnol. Cariad a doethineb sydd unedig yn eu lleferydd, am hyny, y maent mor llawn o ddoethineb, fel y gallant amlygu trwy un gair yr hyn nas gall dyn trwy fil. Syniadau eu meddwl hefyd a gynwysant bethau nas gall dyn eu hamgyffred, llawer llai eu traethu; ac felly y dywedir am y pethau a welwyd ac a glywyd yn y nefoedd eu bod yn anrhaethadwy, y fath na chlywodd clust ac na welodd llygad. Caniatawyd i mi wybod, trwy brofiad, eu bod felly; cefais weithiau fy ngollwng i'r ystad yn yr hon y mae yr angylion, ac ymddiddenais â hwynt, a phan yn yr ystad hono, deallwn bob peth a





ddywedent; ond pan ddychwelwn i'm hystad gyntefig, ac i'r meddwl naturiol priodol i ddyn, a dymuno adgofio yr hyn a glywais, nis gallwn; canys yr oedd miloedd o bethau na ellid eu gwasgu i syniadau meddwl naturiol, y rhai, gan hyny, na ellid eu mynegu i'r graddau lleiaf trwy eiriau dynol, ond yn unig trwy newidiadau goleuni nefol. Syniadau meddwl yr angylion, o'r rhai y deillia eu geiriau, ydynt, hefyd, newidiadau goleuni y nefoedd; a'r teimladau, o'r rhai y daw swn eu geiriau, ydynt newidiadau gwres y nefoedd; am mai goleuni y nefoedd yw Gwirionedd Dwyfol neu ddoethineb, a gwres y nefoedd yw Daioni Dwyfol neu gariad (gwel uchod, r. 126—140), a'r angylion a dderbyniant eu teimlad o'r Cariad Dwyfol, a'u meddwl o'r Ddoethineb Ddwyfol.

240. Syniadau meddwl sydd amrywiol ffurfiau yn y rhai yr ymwasgara y teimlad cyffredin, fel y dywedwyd uchod, r. 236; a chan fod lleferydd yr angylion yn deilliaw yn uniongyrchol o'u teimlad, gallant fynegu mewn mynud yr hyn nas gall dyn mewn haner awr, a gallant roddi mewn ychydig eiriau yr hyn ped ysgrifenid a gymerai dudalenau lawer: profwyd hyn i mi trwy lawer o brofiad. Syniadau meddwl yr angylion, a geiriau eu lleferydd, sydd un, fel achos effeithiol ac effaith; oblegid eu geiriau a ddengys, fel effaith, yr hyn fodola yn syniadau eu meddwl, fel achos; am hyny y cynwys pob gair ynddo ei hun gymaint o bethau. Holl fanylion meddwl, ac felly holl fanylion lleferydd yr angylion, pan eu gwneir yn weledig, a ymddangosant fel tòn denau, neu awyr yn cylchlifo, ac ynddynt bethau aneirif yn deilliaw o ddoethineb angylaidd, wedi eu gosod mewn trefn, yn myned i fewn i feddyliau, ac yn cyffroi serchiadau rhai ereill. Syniadau meddwl unrhyw un, pa un ai angel neu ddyn, a ddangosir yn weledig yn ngoleuni y nefoedd, pryd bynag y dewisa yr Arglwydd.

241. Angylion teyrnas nefol yr Arglwydd a ymddiddanant yr un modd ag angylion teyrnas ysbrydol yr Arglwydd, ond llefarant o feddwl mwy mewnol na'r angylion ysbrydol; canys y mae yr angylion nefol mewn daioni yn codi o gariad at yr Arglwydd, ac am hyny llefarant o ddoethineb: ond yr angylion ysbrydol sydd mewn daioni yn codi o gariad at gymydog, yr hwn yn ei hanfod yw gwirionedd (r. 215), am hyny llefarant o ddealltwriaeth; canys doethineb sydd o ddaioni, a dealltwriaeth o wirionedd. Ar gyfrif hyn y mae lleferydd yr angylion nefol fel ffrwd dirion esmwyth ac fel pe yn barhaol; ond lleferydd yr angylion ysbrydol sydd i raddau yn crynu ac yn doredig. Yn lleferydd yr angylion nefol ceir llawer o sain y llefaraid U ac O; ond yn lleferydd yr angylion ysbrydol, y llefariaid E ac I: canys llafariaid sydd arwyddion seiniau, a theimlad a drig mewn swn. Dangoswyd uchod fod swn lleferydd angylaidd (r. 236) yn cyfateb i'r teimlad, a phar-

abliad y swn, sef y geiriau, i syniadau meddwl yn tarddu o'r teimlad. Nid yw y llafariaid yn perthyn i iaith, ond i ddyrchafiad ei geiriau trwy swn i amlygu amryw deimladau yn ol ystad pob un, am hyny ni ysgrifenir hwynt yn yr iaith Hebraeg, a chant eu seinio—hefyd yn amrywiol. Oddiyma yr adwaen yr angylion ansawdd dyn o ran ei deimlad a'i gariad. Lleferydd yr angylion nefol ni chynwys gydseiniad celyd, ac ychydig symudiadau o un gydseiniad i'r llall heb fod gair yn dechreu gyda llafariad yn cyfryngu. Am hyny yr arferir y gair "ac" mor fynych yn y Gair fel y mae yn amlwg i rai ddarllenant y Gair yn Hebraeg, yn yr hon y mae y gair hwnw o sain dyner, ac yn wastad yn cymeryd swn llefariad o'i flaen ac ar ei ol. Y geiriau eu hunain hefyd yn y Beibl Hebraeg a ddangosant i ryw fesur, pa un ai perthyn y maent i'r dosbarth nefol neu ysbrydol; hyny yw, pa un ai cyfeirio y maent at ddaioni neu at wirionedd: y rhai a gyfeiriant at ddaioni ydynt yn llawn o'r llafariad U ac O, heb arfer ond ychydig o'r A: y rhai a gyfeiriant at wirionedd ydynt yn llawn o'r llafariad E ac I. Gan fod y teimladau yn amlygu eu hunain yn neillduol mewn seiniau, am hyny pan sonir am bynciau mawrion mewn iaith ddynol, megis y nefoedd a Duw, dewisir geiriau yn cael eu nodweddu gan y llafariaid U ac O. Seiniau cerddorol dyrchafedig a ddewisir hefyd wrth ddatgan ar y fath bynciau; ond seiniau ereill pan na byddo y pynciau mor fawr. Dyma yr achos fod cerddoriaeth yn gallu amlygu amrywiol fathau o deimladau.

242. Y mae cydgordiad cerddorol yn lleferydd yr angylion, nas gellir ei ddesgrifio. Cyfyd y cydgordiad o hyn, fod y meddyliau a'r teimladau greant y lleferydd, yn ymarllwys ac ymwasgaru yn ol ffurf y nefoedd, ac â ffurf y nefoedd y cynghanedda pob cymdeithas a phob cymundeb. Fod yr angylion yn cymdeithasu yn ol ffurf y nefoedd, a bod eu meddyliau a'u serchiadau yn llifo yn ol y ffurf hono, a welir uchod, r. 200—212.

243. Y mae iaith, fel yr hon sydd yn gyffredinol yn y byd ysbrydol, yn blanedig yn mhob dyn, ond yn mewnolion ei ran ddeallol yn unig. Ni ŵyr dyn hyn, am nad yw yn disgyn i eiriau cyfatebol i'w deimladau, fel gyda'r angylion; er hyn, trwy y ddarpariaeth hon, pan y daw i fyd arall, efe a lefara iaith ysbrydion ac angylion heb ymdrech nac addysg. Ond ar y pwnc hwn dywedwn ragor yn fuan.

244. Fel y dywedwyd uchod, yr un iaith sydd gan bawb yn y nefoedd, ond eu bod yn amrywio yn hyn, fod lleferydd yr angylion doeth yn fwy mewnol, a llawnach o amrywiaethau teimlad a syniadau meddwl; tra lleferydd y rhai llai doeth yn fwy allanol a llai llawn: a lleferydd y lleiaf eu dawn sydd fwy allanol byth, yn gynwysedig o eiriau y rhaid casglu y synwyr o honynt fel o leferydd dynion. Y mae hefyd fath o leferydd trwy y gwyneb,





yn terfynu yn seingar trwy drefniad drychfeddyliau; math arall o leferydd yw, arddangosiadau nefol yn cymysgu â syniadau, a'r syniadau eu hunain yn dyfod yn weledig; math arall trwy ystumiau yn cyfateb i'r teimladau ac yn arddangos yr un pethau a geiriau; math arall trwy egwyddorion cyffredinol teimladau a meddyliau; math arall yn debyg i'r daran; ac ereill.

245. Ysbrydol hefyd yw lleferydd ysbrydion drwg ac uffernol, am y tarddant o'u teimladau, ond o deimladau drwg ar syniadau ffiaidd a ddeilliant o honynt, y rhai sydd berffaith gâs gan yr angylion. Iaith uffern sydd, gan hyny, yn wrthwyneb i iaith y nefoedd; nis gall y drygionus oddef iaith angylaidd, na'r angylion oddef iaith uffernol; canys iaith uffern sydd i'r angylion fel drygsawr i'r ffroenau. Lleferydd rhagrithwyr, medrus i ymddangos fel angylion goleuni, sydd fel lleferydd angylion, ond o ran teimladau a syniadau dilynol meddwl, hollol groes ydyw; fel pan ganfyddir ei hansawdd fewnol gan yr angylion doeth, swnia fel rhincian danedd, a thery hwynt â dychryn erchyll.

## Lleferydd yr Angylion wrth Ddyn.

246. Pan lefaro angylion wrth ddyn, ni lefarant yn eu hiaith eu hunain, ond yn iaith y dyn, neu mewn ieithoedd ereill a ŵyr efe, ond nid mewn iaith na ŵyr. Yr achos o hyn yw, fod yr angylion wrth siarad â dyn, yn troi ato, yn uno eu hunain âg ef, a'r uniad hwn a'u dug i'r unrhyw ystad o feddwl; a chan fod meddwl dyn yn glynu wrth ei gôf, a'i leferydd yn llifo o hono, yr angylion ac yntau a arferant yr un iaith. Hefyd, pan ddynesa angel neu ysbryd at ddyn, ac uno âg ef trwy droi ato, efe a aiff i fewn i holl gôf y dyn, mor berffaith, fel nas gŵyr lai bron, na'i fod yn gwybod o hono ei hun yr oll a ŵyr y dyn, yn nghyd â'i ieithoedd. Siaredais âg angylion ar hyn, a dywedais wrthynt, eu bod o bosibl yn tybied eu bod yn llefaru wrthyf yn iaith fy mam, am ei fod yn ymddangos felly iddynt, ond mai myfi, ac nid hwy oedd yn siarad yn yr iaith hono; ac y gellid profi hyn o'r ffaith, nas gall angylion draethu un gair o unrhyw iaith ddynol (237); ac oblegid mai naturiol yw iaith ddynol, a hwythau yn ysbrydol, ac nis gall bodau ysbrydol draethu dim naturiol. Attebodd yr angylion, y gwyddent fod eu hundeb â dyn, wrth siarad âg ef, yn undeb â'i feddwl ysbrydol; ond gan fod ei feddwl ysbrydol yn llifo i'w feddwl naturiol, a'i feddwl naturiol yn glynu wrth ei gôf, iaith y dyn a ymddengys iddynt fel yr eiddynt eu hunain, ac hefyd ei holl wybodaeth; fod hyn yn canlyn o ewyllys da yr Arglwydd, fod y fath undeb, fel pe gosodid y nefoedd yn y dyn, yn cymeryd lle; ond fod ystad dyn yn awr mor wahanol, nas gall yn hwy gael y fath undeb âg angylion, ond âg ysbrydion yn unig nad ydynt yn y nefoedd. Ymddiddenais hefyd âg ysbrydion ar y pwnc hwn, ond

nid oeddent foddlon credu mai y dyn sydd yn siarad, ond mai hwy sydd yn siarad yn y dyn, ac nad yw dyn yn gwybod yr hyn a ŵyr, ond mai hwy sydd yn gwybod, a bod pob peth a ŵyr dyn yn deilliaw oddiwrthynt hwy. Ceisiais eu hargyhoeddu trwy lawer o resymau eu bod yn camgymeryd, ond yn ofer. Pwy a feddylir wrth ysbrydion, a phwy wrth angylion, a eglurir yn y tudalenau canlynol pan driniwn Fyd yr Ysbrydoedd.

247. Rheswm arall paham y mae angylion ac ysbrydion yn ymuno mor agos â dyn, fel nas gwyddant nad yr eiddynt yw pob peth a berthyn iddo, yw, am fod y cysylltiad rhwng y byd ysbrydol a naturiol yn y dyn y fath, eu bod fel pe yn un: ond gan fod dyn wedi gwahanu ei hun oddiwrth y nefoedd, darparodd yr Arglwydd, fod angylion ac ysbrydion gyda phob dyn, a'i fod yn cael ei lywodraethu gan yr Arglwydd trwyddynt. Dyma yr achos o'r undeb agos rhyngddynt. Fel arall y buasai, oni bai i ddyn wahanu ei hun oddiwrth y nefoedd; yna gallai gael ei lywodraethu gan yr Arglwydd trwy ddylifiad cyffredinol o'r nefoedd heb fod y fath undeb rhyngddo âg angylion ac ysbrydion. Ond soniwn yn neillduol am y pwnc hwn, pan ddeuwn i siarad ar undeb y nefoedd â dyn.

248. Y mae lleferydd angel neu yspryd wrth ddyn i'w clywed mor soniarus a lleferydd un dyn wrth y llall, ond ni chlywir gan ereill all fod yn bresenol, ond gan y dyn ei hun yn unig; y rheswm yw fod lleferydd yr angel neu yr ysbryd yn llifo i fewn yn gyntaf i feddwl dyn, a thrwy ffordd fewnol i'w glyw gan effeithio arno o'r mewnol; tra lleferydd dyn wrth ddyn yn llifo yn gyntaf i'r awyr, a thrwy ffordd allanol i'r clyw gan effeithio o'r allanol. Felly, amlwg fod lleferydd angel neu ysbryd wrth ddyn i'w clywed yn y dyn, a chan eu bod yn effeithio ar y clyw yn gymaint a lleferydd o'r tuallan, y maent i'w clywed mor seingar. Fod lleferydd angel neu ysbryd yn llifo lawr o'r mewnol hyd yn oed i'r glust, a brofwyd i mi gan eu heffaith ar y tafod, i'r hwn hefyd y llifant, gan ei gyffroi i ychydig gryndod; ond nid gydag unrhyw symudiad lleol, fel pan fyddo lleferydd y dyn ei hun yn parablu geiriau.

249. Anfynych y caniateir siarad âg ysbrydion y dydd hwn, am ei fod yn beryglus; canys yna y gwyddant eu bod gyda dyn, yr hyn, heb hyny, ni wyddant; ac y mae ysbrydion drwg o'r fath natur, fel yr edrychant ar ddyn gyda chasineb marwol, ac ni ddymunant ddim yn fwy angerddol na'i ddistrywio, gorff ac enaid. Effeithiant hyn hefyd yn y rhai sydd yn ymfoddhau llawer mewn dychmygion disail, gan bellhau oddiwrthynt eu hunain y pleserau sydd yn gweddu i'r dyn naturiol. Personau yn byw mewn unigedd weithiau a glywant ysbrydion yn siarad â hwynt, a hyny heb berygl, am fod yr ysbrydion sydd yn bresenol gyda hwynt yn cael





eu symud ar adegau gan yr Arglwydd, rhag iddynt wybod eu bod gyda dyn: canys y rhan amlaf o ysbrydion ni wyddant fod byd i'w gael ond a breswyliant hwy, nac am hyny fod dynion mewn lleoedd ereill: oherwydd hyn ni chaniateir i ddyn siarad nol â hwynt, pe gwnai, deuent i wybod y pethau hyn. Y rhai a feddyliant lawer ar bethau crefyddol, ac a arosant mor ddwys arnynt nes eu gweled yn fewnol, fel pe ynddynt eu hunain, a ddechreuant glywed ysbrydion yn llefaru wrthynt, canys y mae pethau crefyddol, o ba natur bynag, pan erys dyn arnynt o hono ei hun, ac heb dori rhediad ei feddyliau trwy waith yn y byd, treiddiant i'w fewnolion, ymsefydlant yno, meddianant holl ysbryd y dyn, ac ânt i fewn i'r byd ysbrydol, ac a weithredant ar yr ysbrydion a drigant yno. Breuddwydwyr a phenboethiaid yw y fath bersonau, a chredant mai yr Ysbryd Glân yw pob ysbryd a glywant, pan mae ysbrydion penboeth ydynt oll. Ysbrydion o'r nodwedd hon a welant gyfeiliornadau fel gwirioneddau, ac am eu bod yn eu gweled, perswadiant eu hunain mae gwirioneddau ydynt, a pherswadiant ereill a dderbyniant eu dylifiad; a chan i'r fath ysbrydion ddechreu cymell dynion i wneyd drwg, a chael ufudd-dod, symudwyd hwynt yn raddol. Ysbrydion penboeth a wahaniaethir oddiwrth ereill gan y neillduolrwydd hwn, eu bod yn credu mai hwy yw yr Ysbryd Glân, a bod yr hyn a ddywedant yn Ddwyfol; ni niweidia yr ysbrydion hyn y dyn fyddo mewn cymundeb â hwynt, am ei fod yn rhoddi anrhydedd ac addoliad Dwyfol iddynt. Siaredais weithiau âg ysbrydion o'r fath hyn, pan y datguddiwyd i mi yr egwyddorion a'r arferiadau drygionus a ollyngant i fewn i'w haddolwyr: trigant gyda'u gilydd tua'r aswy mewn lle anial.

250. Ond ni chaniateir i neb siarad âg angylion y nefoedd ond sydd wedi eu selio mewn gwirioneddau yn tarddu o ddaioni, yn benaf y rhai a gydnabyddant yr Arglwydd a'r Duwdod yn Ei Ddynoliaeth, am fod y nefoedd yn y gwirionedd hwn; canys, megis y dywedwyd uchod, yr Arglwydd yw Duw y nefoedd (r. 2—6; Dwyfoldeb yr Arglwydd wna y nefoedd (r. 7—12; Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn y nefoedd yw cariad ato Ef a chariad oddiwrtho Ef, at gymydog (r. 13—19); y nefoedd gyffredinol, yn yr oll, sydd debyg i un dyn, a'r un modd pob cymdeithas yn y nefoedd; a phob angel sydd mewn ffurf ddynol berffaith yn tarddu o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd (r. 59—86). Oddiwrth hyn amlwg yw, nas gall neb siarad ag angylion y nefoedd ond y rhai yr agorwyd eu mewnolion gan wirioneddau dwyfol, hyd at yr Arglwyd; oblegid i fewnolion dyn y llifa yr Arglwydd, a'r nefoedd a lifa i fewn gyda'r Arglwydd. Gwirioneddau Dwyfol a agorant fewnolion dyn, am fod dyn wedi ei greu, fel y gall fod yn ddelw o'r nefoedd o ran y dyn oddifewn, ac yn ddelw o'r byd o ran y dyn oddiallan (r. 57); a'r dyn mewnol

nid agorir ond gan Wirionedd Dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, am mai hyny yw goleuni a bywyd y nefoedd (r. 126—140).

251. Dylifiad yr Arglwydd ei Hun gyda dyn sydd i'w dalcen, ac oddiyno i'r holl wyneb; am fod talcen dyn yn cyfateb i'w gariad, a'i wyneb i'w holl fewnolion. Dylifiad yr angylion ysbrydol gyda dyn sydd i'w ben yn mhob cyfeiriad, o'r talcen a'r arleisiau, i bob rhan sydd yn cuddio y *cerebrum*, am fod y dalaeth hono o'r pen yn cyfateb i ddealltwriaeth. Ond dylifiad yr angylion nefol sydd i'r rhan hono o'r pen a guddia y *cerebellum*, ac a elwir gwegil, yn ymestyn o'r clustiau yn mhob cyfeiriad, hyd y tu ol i'r gwddf, am fod y rhan hono yn cyfateb i ddoethineb. Lleferydd yr angylion wrth ddyn a ânt yn wastad trwy y ffyrdd hyn i'w feddyliau. Wrth sylwi ar hyn y sicrhawn, pa angylion oeddynt, y rhai a lefarent wrthyf.

252. Y rhai a siaradant âg angylion y nefoedd, a welant hefyd y pethau sydd yn y nefoedd, am eu bod yn gweled yn ngoleuni y nefoedd, yn yr hwn y mae eu mewnolion; a'r angylion a welant trwyddynt hwythau y pethau sydd ar y ddaear; oblegid gyda hwynt y mae y nefoedd yn un â'r byd, a'r byd yn un â'r nefoedd; megis y dywedwyd uchod, r. 246, pan dry angylion at ddyn, ymunant âg ef yn y fath fodd, fel na wyddant lai nad eu pethau hwy yw yr hyn a berthyn iddo ef: nid yn unig y pethau a berthyn i'w leferydd, ond hefyd y pethau a glyw ac a wel: y dyn hefyd, o'i dŷ yntau, ni ŵyr lai nad ei bethau ei hun yw pob peth ddaw iddo trwy ddylifiad oddiwrth yr angylion. Y fath oedd y cysylltiad rhwng yr angylion a'r bobl henaf ar y ddaear hon, ac am hyny y gelwid yr oes hono Yr Oes Euraidd. Adnabyddent y Duwdod yn y Ffurf Ddynol, sef yr Arglwydd, ac am hyny siaradent âg angylion y nefoedd fel a'u perthynasau eu hunain, a siaradai yr angylion â hwy fel a'u perthynasau hwythau, ac ynddynt hwy gwneyd y byd a'r nef yn un; ond wedi yr amserau hyny, ciliodd dyn yn bellach, bellach o'r nefoedd, trwy garu ei hun yn fwy na'r Arglwydd, a'r byd yn fwy na'r nefoedd: yna dechreuodd deimlo pleserau hunan-gariad a bydol-gariad ar wahan oddiwrth bleserau y nefoedd; o'r diwedd aeth yn anwybodus o unrhyw bleser arall. Ei fewnolion fuont yn agored i'r nefoedd, a gauwyd yn awr, a'i allanolion yn unig oeddynt yn agored i'r byd; ac felly y mae dyn yn y goleu am bob peth perthynol i'r byd, ond yn y tywyllwch dudew am bob peth perthynol i'r nefoedd.

253. Oddiar yr amserau hyny anaml y siaradodd neb âg angylion y nefoedd, ond siaradodd rhai âg ysbrydion nad oeddynt yn y nefoedd; canys y mae mewnolion ac allanolion dyn yn troi at yr Arglwydd fel eu Canolbwynt cyffredin (r. 124) neu at hunan, sef, *cefnu ar yr Arglwydd*. Pan droant at yr Arglwydd, troant at y





nefoedd hefyd, a phan droant at hunan, troant at y byd hefyd; anhawdd dyrchafu y rhai a droant fel hyn; er hyny dyrchefir hwy gan yr Arglwydd mor bell ag y gellir, trwy droi eu cariad, dan ddylanwad gwirioneddau y Gair.

254. Hysbyswyd fi yn mha fodd y llefarai yr Arglwydd wrth y proffwydi, trwy y rhai y cafwyd y Gair. Ni lefarodd wrthynt fel y gwnai â'r rhai henaf, trwy ddylifiad i'w mewnolion, ond trwy ysbrydion, anfonedig attynt, wedi ei llanw gan yr Arglwydd â'i agwedd ei Hun, a'u hysbrydoli â geiriau i'w hadrodd i'r proffwydi. Nid dylifiad oedd hyn ond adroddiad; a chan fod y geiriau yn dyfod yn uniongyrchol oddiwrth yr Arglwydd, pob gair yn llawn o'r Duwdod, ac yn cynwys y fath ystyr fewnol, fel y mae yr angylion yn y nefoedd yn deall y geiriau mewn ystyr nefol ac ysbrydol, a dynion mewn ystyr naturiol: fel hyn yr unodd yr Arglwydd y nefoedd a'r byd trwy y Gair. Dangoswyd i mi hefyd, y modd y llenwir ysbrydion â Dwyfoldeb trwy agwedd yr Arglwydd. Yr ysbryd wedi ei lanw â Dwyfoldeb o'r Arglwydd, ni ŵyr lai nad yr Arglwydd yw, a bod yr hyn a lefara yn Ddwyfol, a phery yr ystad hon hyd oni draetho yr hyn sydd ganddo; wedi hyny gwel a chydnebydd mai ysbryd yw efe, ac iddo lefaru, nid o hono ei hun, ond o'r Arglwydd. Gan mai dyna ystad yr ysbrydion a lefarasant wrth y proffwydi, am hyny dywedent mai y Jehofah lefarodd; yr ysbrydion hefyd a alwent eu hunain Jehofah; fel y gwelir, nid yn unig oddiwrth ranau proffwydol, ond hefyd rhanau hanesyddol y Gair.

255. Fel yr adwaener natur ac ansawdd y cysylltiad rhwng angylion ac ysbrydion a dyn, caniateir i mi gofnodi rhai pethau neillduol, er egluro a chadarnhau. Pan fyddo angylion ac ysbrydion yn troi eu hunain at ddyn, ni wyddant lai nad ei iaith ef yw eu hiaith hwy, ac nad oes gandynt iaith arall; oblegid eu bod ar yr adegau hyny, yn iaith y dyn, ac nid yn eu hiaith eu hunain, yr hon nid yw, hyd yn oed yn eu côf; ond mor fuan ag y troant eu hunain oddiwrth y dyn, y maent yn eu hiaith angylaidd ac ysbrydol eu hunain drachefn, ac ni wyddant ddim o iaith y dyn. Profais hyn fy hun, canys pan fum yn nghwmni angylion, ac mewn ystad debyg i'r eiddynt, siaradwn â hwynt yn eu hiaith eu hunain, heb wybod na chofio fy iaith fy hun; ond mor fuan y peidiwn fod yn eu cwmpeini, yr oeddwn yn fy iaith fy hun. Teilwng o sylw hefyd ydyw, y gall angylion ac ysbrydion pan droant eu hunain at ddyn, siarad ag ef o unrhyw bellder. Buont yn siarad â mi o'r pellder, a'u lleferydd yn swnio mor uchel a phan oeddynt agos; ond pan droant eu hunain oddiwrth ddyn, a siarad a'u gilydd, ni chlyw ef sill, er iddynt fod yn ymyl ei glust. Oddiyma amlwg yw, fod pob cysylltiad yn y byd ysbrydol yn dibynu ar y gradd y byddo personau yn troi at eu gilydd. Teilwng yw o sylw pellach, y gall llawer o ysbrydion yr un pryd siarad a dyn, ac yntau â hwy.

Anfonant un o'u nifer at y dyn y dymunant siarad ag ef, a'r ysbryd hwn a dry ei hun at y dyn, a'r ysbrydion ereill a droant at yr ysbryd hwn, gan ganolbwyntio eu meddyliau ynddo; yntau a'u traetha. Ni ŵyr yr ysbryd hwnw lai na'i fod yn siarad o hono ei hun, ac ni wyddant hwythau lai na'i bod yn siarad o honynt eu hunain; felly yr effeithir cysylltiad rhwng llawer ag un trwy eu bod yn troi at eu gilydd. Ond am yr ysbrydion hyn sydd genhadon, ac a elwir hefyd *Deiliaid*, a'r cymundeb effeithir trwyddynt, dywedir rhagor yn y tudalenau canlynol.

256. Nid cyfreithlawn i unrhyw angel neu ysbryd lefaru wrth ddyn o'i gôf ei hun, ond o gôf y dyn yn unig; canys y mae gan angylion ac ysbrydlon gôf fel dyn. Pe llefarai ysbryd o'i gôf ei hun wrth ddyn, ni allai dyn wybod llai nad ei feddyliau ef ei hun fyddai meddyliau yr ysbryd; a buasai yn debyg i adgof o beth na welodd ac na chlywodd dyn erioed. Rhoddwyd i mi wybod hyny drwy brofiad. Hyn yw tarddiad y dyb goleddid gan rai o'r hynafiaid, y buasent ar ar ol rhai miloedd o flynyddau yn dychwelyd i'w bywyd blaenorol a'i holl waith; a'u bod hefyd, yn wirioneddol wedi dychwelyd. Coelient hyn, am y cawsant weithiau adgofion ymddangosiadol o bethau na welsant ac na chlywsant erioed. Cynyrchid yr ymddangosiad hwn gan ddylifiad o gôf ysbrydion i syniadau meddwl y dynion.

257. Y mae math o ysbrydion a elwir ysbrydion anianol a chorphorol, pan ddeuant at ddyn, ni unant eu hunain fel ysbrydion ereill a'i feddwl, ond ânt i'w gorph, meddianant eu synwyrau oll, llefarant trwy ei enau, a gweithiant trwy eu aelodau, heb wybod yn amgen nad eu corff a'u galluoedd hwy eu hunain yw eiddo y dyn. Dyma yr ysbrydion oedd gynt yn meddianu dynion; ond taflwyd hwynt i uffern gan yr Arglwydd, gan eu symud yn hollol, fel nas gallant feddianu dynion heddyw.

### Ysgrifeniadau yn y Nefoedd.

258. Gan fod lleferydd gan angylion, a'u lleferydd yn cynwys geiriau, am hyny y mae ganddynt ysgrifeniadau hefyd, ac amlygant syniadau eu meddwl trwy ysgrifenu, yn gystal a thrwy siarad. Anfonwyd papurau i mi weithiau wedi eu cuddio ag ysgrifen, rhai o honynt yn hollol fel llawysgrifau, ac ereill fel papyrau a argraffwyd yn y byd. Gellwn hefyd eu darllen yn yr un modd, ond nid oedd caniatad i dynu o honynt fwy na syniad neu ddau: am ei bod yn groes i Ddwyfol Drefn i ddyn gael ei ddysgu o'r nefoedd trwy ysgrifeniadau, oddieithr trwy y Gair, gan fod y cymundeb a'r cysylltiad rhwng y nefoedd a'r byd, ac felly rhwng yr Arglwydd a dyn, yn cael ei effeithio gan y Gair yn unig. Fod papyrau wedi eu hysgrifenu yn y nefoedd, wedi ymddangos i'r proffwydi hefyd, sydd amlwg oddiwrth Ezeciel: "Yna yr edrych-





ais, ac wele law wedi ei hanfon attaf, ac wele ynddi blyg lyfr. Ac efe a'i dadblygodd o'm blaen i: ac yr oedd wedi ei ysgrifenu wyneb a chefn," Pen. ii. 9, 10; ac yn Ioan, "Ac mi a welais yn neheulaw yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainc, lyfr wedi ei ysgrifenu oddifewn ac oddi allan, wedi ei selio â saith sêl," Dat. v. 1.

259. Darparwyd gan yr Arglwydd fod ysgrifeniadau yn y nefoedd er mwyn y Gair; oblegid y Gwirionedd Dwyfol yw y Gair yn ei hanfod, o'r hwn y deillia doethineb nefol dynion ac angylion; canys llefarwyd ef gan yr Arglwydd; a'r hyn leferir gan yr Arglwydd a dramwya drwy yr holl nefoedd mewn trefn, gan derfynu gyda dyn: felly addasedig yw i ddoethineb angylion a dealltwriaeth dyn. Y mae y Gair, gan hyny, gan angylion a darllenant ef fel y gwna dynion ar y ddaear, o hono y tynant eu hathrawiaethau, ac o hono y gwnant eu pregethau (r. 221) Yr un yw y Gair yn y nefoedd ac ar y ddaear, ond yr ystyr naturiol, sef yr ystyr lythrenol gyda ni, ni fodola yn y nefoedd, ond yr ystyr ysbrydol, sef yr ystyr fewnol fodola yno. Beth yw natur yr ystyr fewnol a welir yn y Llyfr bychan Ar y March Gwyn y sonir am dano yn y Datguddiad.

260. Anfonwyd i mi unwaith ddarn bychan o bapyr o'r nefoedd, yn ysgrifenedig arno ychydig eiriau yn unig mewn llythrenau Hebraeg, a dywedwyd wrthyf fod pob llythyren yn cynwys dirgeledigaethau doethineb; a bod y dirgeledigaethau hyny yn gynwysedig yn mhlygiadau a bwäu y llythrenau, ac hefyd yn y seiniau. Eglurodd hyn i mi ystyr geiriau yr Arglwydd: "Canys yn wir meddaf i chwi, hyd onid êl y nef a'r ddaear heibio, nid â un iod nac un tipyn o'r gyfraith heibio," Math. v. 18. Gwyddir yn yr Eglwys fod pob tipyn o'r Gair yn Ddwyfol: ond ni wyddir pa le y mae ei Ddwyfoldeb yn mhob tipyn; am hyny caiff ei egluro.

Yr ysgrifenu yn y nefoedd fwyaf mewnol a gynwys amryw ffurfiau plygedig neu dreigledig a hirseiniol, a'r treigliadau a'r hirseiniau yn ol ffurf y nefoedd. Trwy y rhai hyn y datgana yr angylion ddirgeledigaethau eu doethineb, llawer o honynt nas gall geiriau eu hadrodd; a pheth sydd yn rhyfedd yw, fod yr angylion yn medru y fath ysgrifeniadau heb gael eu dysgu; canys y maent yn blanedig ynddynt fel eu lleferydd (gwel r. 236); nefol gan hyny yw eu hysgrifeniadau. Y maent ynddynt yn wreiddiol, oblegid fod holl ymeangiad meddyliau a serchiadau yr angylion, ac felly holl gymundeb eu deall a'u doethineb, yn deilliaw yn ol ffurf y nefoedd (r. 201; ac felly y llifa eu hysgrifeniadau i'r ffurf hono. Dywedwyd wrthyf, fod y bobl henaf ar y ddaear hon yn ysgrifenu yn yr un modd cyn dyfeisio llythrenau: a'i fod wedi ei drosglwyddo i lythrenau yr iaith Hebraeg, y rhai

yn yr hen amser oeddynt oll yn fŵaog, heb un o honynt yn meddu y ffurf ysgwar a arferir heddyw. O herwydd hyn y cynwys y Gair bethau Dwyfol, a dirgelion nefol yn mhob iota, nôd, a thipyn.

261. Y fath hyn o ysgrifenu trwy lythrenau o ffurf nefolaidd, arferir yn y nefoedd fwyaf mewnol, lle y rhagora y trigolion ar bawb ereill mewn doethineb. Trwy y fath lythrenau, amlygant y serchiadau, y llifa o honynt ac y canlyn eu meddyliau mewn trefn, yn ol natur y testyn dan sylw; felly eu hysgrifeniadau a gynwysant ddirgelion nas gall meddwl eu dihysbyddu. Caniatawyd i mi weled y fath ysgrifeniadau, ond nid oes eu bath yn y nefoedd îs, yr ysgrifeniadau yno sydd debyg i'r hyn ydynt yn y byd, ac yn cael eu ffurfio mewn llythrenau tebyg; ond er hyny nid ydynt yn ddealladwy i ddyn, am eu bod mewn iaith angylaidd, yr hon nad oes ynddi ddim yr un fath a ieithoedd dynol (r. 237): canys trwy lefariaid yr amlygant deimladau, trwy gydseiniaid, y syniadau meddwl darddant o deimladau, a thrwy eiriau o'r naill a'r llall, ystyr gyffredinol y pethau (gwel uchod, r. 236, 241). Y math hwn o ysgrifenu a gynwys fwy mewn ychydig o eiriau nac a all dyn ddatgan ar dudalenau lawer. Gwelais ysgrifeniadau fel hyn hefyd. Felly y mae y Gair wedi ei ysgrifenu yn y nefoedd isaf, ond mewn ffurfiau nefolaidd yn y nefoedd fwyaf mewnol.

262. Ffaith ryfedd yw fod ysgrifeniadau yn y nefoedd yn llifo mor naturiol o feddyliau yr angylion, ac yn cael eu gwneyd mor rhwydd, fel be byddai meddyliau yn myned allan i ffurf o honynt eu hunain; ac nid yw y llaw byth yn aros i ddewis gair, am fod y geiriau o honynt eu hunain, wrth eu llefaru a'u hysgrifenu yn cyfateb i syniadau eu meddwl; ac y mae pob cyfatebiaeth yn naturiol a digymell. Y mae ysgrifeniadau yn y nefoedd hefyd yn cael eu cynyrchu heb help y llaw, yn tarddu o gyfatebiaeth yn unig ar meddyliau: ond nid yw y rhai hyn yn barhaus.

263. Gwelais ysgrifeniadau o'r nefoedd yn cynwys dim ond rhifoedd ysgrifenedig mewn trefn ac yn rhesau, yn hollol fel ysgrifeniadau cyfansoddedig o lythrenau a geiriau; a dysgwyd fi fod yr ysgrifeniadau hyn o'r nefoedd fwyaf mewnol, a bod ysgrifeniadau yr angylion nefol, y sonwyd am danynt uchod, r. 260, 261, yn cymeryd y ffurf o rifoedd o flaen angylion nefoedd îs, pan fyddo meddyliau deilliedig o honynt yn llifo i lawr yno; a bod yr ysgrifeniadau hyn mewn rhifoedd yn cynwys dirgelion, rhai o honynt, nas gall meddwl eu hamgyffred na geiriau eu mynegi. Y mae i bob rhifoedd fel geiriau eu cyfatebion, a'r arwyddocad yn ol eu cyfatebion, ond gyda hyn o wahaniaeth, fod rhifoedd yn cynwys syniadau cyffredinol, a geiriau syniadau neillduol; a chan fod un syniad cyffredinol, yn cynwys neillduolion aneirif, y mae





ysgrifeniadau mewn rhifoedd yn cynwys mwy o ddirgelion nac ysgrifeniadau mewn llythrenau. Oddiwrth hyn gwelais, fod rhifoedd, yn y Gair, yn gystal a geiriau, yn arwyddo pethau. Beth arwydda y rhifoedd syml, megis 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 12; y rhai cyfansawdd, megis, 20, 30, 50, 70, 100, 144, 1,000, 10,000, 12,000, ac ereill, a welir yn yr Arcana Colestia, yn y lleoedd y sonir am danynt. Yn yr ysgrifeniadau mewn rhifoedd yn y nefoedd, y rhif a osodir yn gyntaf yn wastad yw yr un y dybyna y rhifoedd ereill arni fel eu testyn: am fod y rhif hono fel mynegfys i'r testyn dan sylw, ac o'r rhif hono y deillia perthynas neillduol y rhifoedd ereill a'r testun.

264. Y rhai na wyddant ddim am natur y nefoedd, ac sydd anfoddlon i goledd unrhyw syniad am y nefoedd ond fel goror awyrol, a'r angylion yn ehedeg o amgylch ynddi fel meddyliau deallol heb y synwyrau i weled a chlywed, nis gall y cyfryw goelio fod gan angylion leferydd ac ysgrifeniadau, am eu bod yn gosod bodolaeth pob peth sylweddol mewn byd materol; ond y mae yn wir er hyny fod y pethau fodolant yn y nefoedd mor sylweddol a'r rhai a fodolant yn y byd, a bod angylion yn meddianu pob peth all fod yn lles i'w bywyd a'u doethineb.

### Doethineb Angylion y Nefoedd.

265. Anhawdd amgyffred natur doethineb angylaidd, am ei fod gymaint uwchlaw doethineb ddynol fel nas gellir eu cydmaru, a'r hyn sydd mor uwchraddol a ymddengys fel pe heb fodolaeth. Nis gellir desgrifio y fath ddoethineb ond trwy help gwirioneddau anadnabyddus: ond pethau anadnabyddus, cyn eu hadnabod, ydynt fel cysgodion yn y deall, yn cuddio gwir ansawdd y mater y meddylir am dano; er hyny, gellir adnabod ac amgyffred y gwirioneddau anadnabyddus hyn, os cymer y meddwl bleser yn y fath wybodaeth, am fod pleser yn cludo goleuni ganddo, oblegid fod pleser yn deilliaw o gariad: a'r rhai a garant y pethau sydd yn perthyn i ddoethineb nefol a dwyfol, goleuni o'r nef a lewyrcha arnynt, gan eu goleuo.

266. Gellir casglu am natur doethineb yr angylion oddiwrth hyn, sef eu bod yn ngoleuni y nefoedd, a Goleuni y nefoedd yn ei hanfod yw Dwyfol Wirionedd neu Ddwyfol Ddoethineb: a'r goleu hwn a oleua ar yr un pryd eu golwg fewnol, sef golwg eu meddwl, a'u golwg allanol, sef golwg eu llygaid. (Dangoswyd uchod,r. 126—133, mai Dwyfol Wirionedd neu Ddwyfol Ddoethineb yw goleuni y nefoedd.) Y mae yr angylion hefyd mewn gwres nefol, yr hwn yn ei hanfod yw Dwyfol Ddaioni, neu Ddwyfol Gariad, o'r hwn y cant y cariad a'r awydd am ddoethineb. (Dangoswyd uchod, r. 133—140, mai Dwyfol Ddaioni neu Ddwyfol Gariad yw gwres y nefoedd.) Fod angylion yn mwynhau

doethineb, fel y gellir galw pob un o honynt yn ddoethineb, a welir hefyd oddiwrth y ffaith, fod eu holl feddyliau a'u serchiadau yn llifo yn ol ffurf y nefoedd, sef ffurf Dwyfol Ddoethineb; a'u mewnolion, yn derbyn doethineb, a drefnir yn ol y ffurf hono. (Gwelwyd uchod, r. 201—212, fod meddyliau a serchiadau angylion yn llifo yn ol ffurf y nefoedd, ac o ganlyniad eu deall a'u doethineb.) Fod yr angylion yn dra-rhagorol ddoeth, sydd amlwg hefyd, oblegid fod eu lleferydd yn lleferydd doethineb, canys llifa yn uniongyrchol a digymell o'u meddwl, fel y llifa meddwl o'r serch, fel mae meddwl a serch mewn ffurf allanol yw eu lleferydd; felly nid oes dim i'w tynu oddiwrth y Dylifiad Dwyfol, ac ni ddaw syniadau anmherthynasol i'w meddyliau, fel y bydd gyda dyn pan fyddo yn llefaru. (Gwel r. 234—245, fod lleferydd angylion yn lleferydd eu meddwl a'u teimlad.) Peth arall yn cydgordio i ddyrchafu doethineb angylion yw, fod pob peth a welant a'u llygaid, ac a ganfyddant a'u synwyrau, yn cytuno a'u doethineb, am eu bod yn gyfatebion, ac am hyny yn ffurfiau yn arddangos y fath bethau ag a berthynant i ddoethineb. (Gwelir uchod, r. 170—182, fod pob peth a ymddengys yn y nefoedd yn cyfateb i fewnolion yr angylion, ac yn arddangosiadau o'u doethineb.) Heblaw hyn, nid yw meddyliau angylion yn cael eu rhwymo a'u cyfyngu, gan syniadau yn tarddu oddiwrth amser a lle, fel y mae meddyliau dynion; am fod lleoedd ac amserau yn perthyn i natur, a phethau priodol i natur a dynant y meddwl oddiwrth bethau ysbrydol, ac a dynant ymaith eangder yr olygfa ddeallol. (Gwelir uchod, r. 162—169 a 191—199, nad oes dim o amser a lle yn syniadau angylion, ac felly, nad ydynt gyfyngedig fel syniadau dynion.) Nid yw meddyliau angylion chwaith yn cael eu tynu i lawr at bethau daearol a materol, na'u rhwystro â gofalon am anghenrheidiau bywyd; ac o ganlyniad ni thynir hwy ganddynt oddiwrth bleserau doethineb, fel y mae dynion yn y byd; canys y mae pob peth sydd yn angen arnynt yn cael eu rhoddi iddynt yn rhad gan yr Arglwydd. Gwisgir hwynt yn rhad, porthir hwynt yn rhad, cant eu tai yn rhad, (r. 181, 190.) Cant eu donio hefyd yn mhellach â phob peth hyfryd a phleserus, yn ol eu derbyniad o ddoethineb oddiwrth yr Arglwydd. Dywedir y pethau hyn fel yr adwaenir o ba le y caiff yr angylion eu doethineb ddyrchafedig.

267. Gall angylion dderbyn y fath ddoethineb ddyrchafedig, am fod eu mewnolion yn agored, a chynydda doethineb, fel pob perffeithrwydd arall, tua'r mewnolion, ac yn ol y gradd yr agorir y mewnolion. Y mae tri gradd bywyd yn mhob angel yn cyfateb i'r tair nefoedd (gwel r. 29—40). Y rhai y mae eu gradd cyntaf yn agored, sydd yn y nefoedd gyntaf neu isaf; y rhai y mae yr ail radd yn agored ynddynt, sydd yn yr ail nefoedd neu y ganol;





a'r rhai y mae y trydydd gradd yn agored ynddynt, sydd yn y drydedd nef, neu y fwyaf mewnol. Doethineb angylion yn y nefoedd sydd yn ol y graddau hyn; felly, doethineb angylion y nefoedd fwyaf mewnol sydd yn tra rhagori a'r ddoethineb angylion yr ail nefoedd: a doethineb rhai yr ail nefoedd sydd yn tra rhagori a'r ddoethineb angylion y nefoedd isaf. (Gwel uchod, r. 209, 210; ac ar natur graddau, r. 38.) Bodola y fath wahaniaethau am fod pethau neillduol mewn gradd uwch, a phethau cyffredinol mewn gradd îs, a phethau cyffredinol a gynwysant bethau neillduol; canys pethau neillduol, mewn cydmariaeth i bethau cyffredinol, sydd fel miloedd neu fyrddiwnau i un, ac felly y mae doethineb angylion nefoedd uwch mewn cydmariaeth i ddoethineb angylion nefoedd îs. Ond y mae doethineb yr angylion isaf yn tra rhagori yn gyfartal â'r ddoethineb dyn, am fod dyn mewn natur gorfforol, ac yn y pethau cnawdol a berthyn iddi, a phethau y cnawd a'r corff sydd yn ngradd isaf natur. Amlwg yw oddiyma y fath ddoethineb fedd y rhai a feddyliant oddiar bethau cnawdol, ac a elwir dynion cnawdol, sef nad oes ganddynt ddoethineb, ond gwybodaeth yn unig. Ond gwahanol ydyw gyda dynion godant eu meddyliau uwchlaw pethau y cnawd, ac yn neillduol gyda rhai sydd a'u mewnolion yn agored i oleuni y nefoedd.

268. Mor fawr yw doethineb yr angylion, a welir yn mhellach oddiwrth hyn, fod cymundeb cyffredinol yn y nefoedd, fel y cyfrenir deall a doethineb pawb i bob un—cymundeb pob daioni yw y nefoedd: y rheswm yw, fod natur cariad nefol y fath, fel yr ewyllysia fod ei eiddo ef yn eiddo i arall: o ganlyniad, nid oes neb yn y nefoedd yn cyfrif ei ddaioni ei hun yn ddaioni, os na fydd hefyd yn ereill. Dyma darddiad dedwyddwch y nefoedd. Derbynia yr angylion y duedd hon o'r Arglwydd, canys dyna natur y cariad Dwyfol. Cefais wybod trwy brofiad fod y fath gymundeb yn y nefoedd. Cymerwyd, unwaith, ysbrydion diddysg i fynu i'r nefoedd, pan yno, daethant i ddoethineb angylaidd, a deallant bethau nad oedd ganddynt amgyffred am danynt o'r blaen, a dywedent bethau na fedrant adrodd yn eu cyflwr cyntefig.

269. Nis gall geiriau ddesgrifio natur doethineb yr angylion, ond gellir ei egluro trwy rai sylwadau. Gall angel fynegi trwy un gair fwy nac a all dyn trwy fil: heblaw hyn, y mae pethau aneirif mewn un gair angylaidd, na ellir eu datgan o gwbl trwy eiriau iaith ddynol: canys yn mhob gair a lefara angylion, cynwysir dirgelion doethineb mewn cydlyniad parhaol, nas gall gwyddor ddynol eu cyrhaedd. Yr hyn na fynega yr angylion yn gyflawn mewn geiriau, a wnant i fynu â swn y llais, a'r swn a gynwys y teimlad perthynol i'r pethau dan sylw yn ol eu trefn, megis y dywedwyd uchod (r. 236, 241), dangosant eu teimladau

trwy seiniau, a syniadau eu meddwl yn tarddu o deimladau, trwy eiriau; am hyny y dywedir fod y pethau a glywir yn y nefoedd yn anrhaethadwy. Gall angylion hefyd mewn ychydig eiriau adrodd holl gynwysiad unrhyw lyfr, a gollwng y fath ysbrydiaeth i bob gair, nes ei ddyrchafu i ddatgan doethineb fewnol; am fod eu lleferydd y fath, fel y cydgordia pob sain a'u serchiadau a phob gair a'u meddyliau. Eu geiriau hefyd gant eu hamrywio mewn moddau aneirif, yn ol cylchres y pethau, fyddo yn un cyfansawdd yn eu meddwl. Gall yr angylion mewnol ddatguddio holl fywyd llefarwr oddiwrth dôn ei lais yn nglŷn âg ychydig eiriau o'i eiddo; canys oddiwrth y swn yn cael ei amrywio gan y syniadau yn y geiriau, canfyddant ei gariad llywodraethol, yn cynwys, fel pe yn ysgrifenedig arno, holl fanylion ei fywyd. Oddiwrth y pethau hyn gwelir natur doethineb yr angylion. Eu doethineb, mewn cydmariaeth i ddoethineb ddynol, sydd fel myrddiwn i un: neu fel pwerau ysgogol yr holl gorff, y rhai sydd aneirif, at yr ysgogiad gynyrchant, yn yr hwn yr ymddangosant i synwyr dynol, fel un; neu y mae fel y mil rhanau welir mewn gwrthrych trwy chwyddwydr perffaith, i'r un peth pwl a ffurfiant i'r llygad noeth. Eglur-af y peth hefyd trwy esiampl. Angel o'i ddoethineb a ddesgrifiodd adenedigaeth, ac a ddangosodd ganoedd o ddirgelion am dano mewn trefn, gan lanw yr holl ddirgelion a syniadau yn cynwys dirgelion mwy mewnol byth, a hyn o'r dechreu i'r diwedd; canys Efe a eglurodd y modd y mae y dyn ysbrydol yn cael ei genhedlu o'r newydd, ei ddwyn fel yn y groth, ei eni, ei gynydd a'i berffeithiad olynol. Dywedodd y gallasai liosogi rhif y dirgelion i lawer o filoedd: fod yr hyn a ddywedodd yn perthyn yn unig i adenedigaeth y dyn allanol, a bod pethau aneirif ereill yn perthyn i adenedigaeth y dyn mewnol. Oddiwrth yr esiamplau hyn a'u tebyg a glywais gan angylion, amlygwyd i mi mor fawr yw eu doethineb, ac mor fawr, mewn cydmariaeth, yw anwybodaeth dyn; canys o braidd y gŵyr beth yw adenedigaeth, ac ni adwaen unrhyw ris o'i gynydd pan yn cael ei ail eni.

270. Sonir yn awr am ddoethineb angylion y drydedd neu y nef ganol, a'i ragoriaeth ar ddoethineb angylion y nef gyntaf, neu yr isaf. Doethineb angylion y drydedd neu y nef fwyaf mewnol sydd anamgyffredadwy i rai y nefoedd isaf; y rheswm yw, fod mewnolion angylion y drydydd nef yn agored i'r trydydd gradd, ond mewnolion angylion y nefoedd gyntaf nid ydynt yn agored ond i'r gradd cyntaf, a phob doethineb a gynydda tua'r mewnolion, ac a berffeithir yn ol y gradd y byddont yn agored (r. 208, 267). Gan fod mewnolion angylion y drydedd neu y nef fwyaf mewnol yn agored i'r trydydd gradd, am hyny y mae gwirioneddau dwyfol, fel pe byddent, yn ysgrifenedig arnynt; canys y mae mewnolion y trydydd gradd yn ffurf y nefoedd yn fwy na





mewnolion y graddau cyntaf a'r ail, a ffurf y nefoedd sydd o'r Gwirionedd Dwyfol, ac am hyny, yn ol y Ddoethineb Ddwyfol. Dyma yr achos fod gwirioneddau dwyfol yn ymddangos, fel pe yn ysgrifenedig ar yr angylion hyny, neu fel pe yn gynhenid a greddfol; felly, mor fuan y clywant wirioneddau dwyfol dilys, cydnabyddant a chanfyddant hwynt ar unwaith, ac wedi hyny, gwelant hwynt, fel pe ynddynt eu hunain. Gan fod angylion y drydedd nef o'r fath gymeriad, nid ydynt byth yn rhesymu am y gwirionedd, llai eto y gwnant ddadleu am dano, pa un a yw felly neu nad yw: ni wyddant chwaith beth yw credu neu gael ffydd; canys dywedant, "Beth yw ffydd?" "Yr wyf yn canfod ac yn gweled ei bod felly." Eglurant hyn trwy gydmariaethau fel yma: "Cymell dyn, a wêl y gwirionedd ynddo ei hun, i gredu neu gael ffydd, sydd fel dweyd wrth un a wêl dŷ, a'r amrywiol bethau ynddo ac o'i amgylch, y dylai gael ffydd ynddynt a chredu eu bod yr hyn y gwel eu bod; neu, y mae fel dweyd wrth un a wêl ardd, ei choed a'i ffrwythau, y dylai gael ffydd mai gardd ydyw, a bod y coed a'r ffrwythau yn goed a ffrwythau, ac yntau yn eu gweled yn eglur â'i lygaid." Oherwydd hyn ni wna yr angylion hyny byth enwi ffydd, ac nid oes ganddynt unrhyw syniad am dani: am hyny ni resymant am wirioneddau Dwyfol, ac ni ddadleuant am unrhyw wirionedd, a ydyw felly neu nad yw. Ond nid yw y gwirioneddau dwyfol fel hyn yn ysgrifenedig ar fewnolion angylion y nefoedd gyntaf neu isaf, am mai gradd cyntaf bywyd yn unig sydd agored gyda hwynt, ac am hyny rhesymant am wirioneddau; y rhai a resymant ni welant nemawr tuhwnt i'r peth uniongyrchol y rhesymant am dano, ac os ânt yn mhellach, hyny sydd i'w gadarnhau â rhesymau; ac wedi ei gadarnhau, dywedant mai mater ffydd yw, ac y dylid ei gredu. Siaredais â'r angylion am y pethau hyn, a dywedasant wrthyf fod y gwahaniaeth rhwng doethineb angylion y drydedd nef a doethineb angylion y nef gyntaf, fel y gwahaniaeth rhwng peth dysglaer a pheth tywyll. Hefyd, cydmarent ddoethineb angylion y drydedd nef i balas gorwych llawn o bob peth defnyddiol, yn sefyll yn nghanol paradwys eang amgylchedig â gwrthrychau ardderchog o bob rhyw; a dywedent, oblegid fod yr angylion hyny yn ngwirioneddau doethineb, y gallant fyned i fewn i'r palas, a gweled ei holl gynwysiad, a rhodio yn y baradwys yn mhob cyfeiriad, a mwynhau pob peth a welant; ond gwahanol yw gyda rhai a resymant am wirioneddau, ac yn neillduol gyda rhai a ddadleuant yn eu cylch: am nad ydynt hwy yn gweled gwirioneddau yn ngoleu y gwirionedd, ond yn eu cymeryd oddiwrth ereill, neu oddiwrth ystyr lythrenol y Gair heb ei ddeall yn fewnol, a dywedant y rhaid eu credu a chael ffydd ynddynt: wedi hyny y maent yn anfoddlawn i gymeryd unrhyw olwg fewnol ar y gwirionedd. Am y

rhai hyn, y dywedodd yr angylion nas gallant agoshau at drothwy cyntaf palas doethineb, llawer llai fyned iddo a rhodio o amgylch yn ei baradwys, am aros o honynt yn nechreuad y ffordd arweinia iddo; ond gwahanol yw gyda rhai sydd yn y gwirioneddau eu hunain, nid oes attalfa ar eu cynydd diderfyn; am fod y gwirioneddau a welant yn eu harwain i ba le bynag yr ânt, ac yn agor meusydd eang o'u blaen: pob gwirionedd sydd anfeidrol eang, ac mewn cysylltiad â lliaws ereill. Dywedent yn mhellach fod doethineb angylion y nefoedd fwyaf mewnol yn gynwysedig yn benaf yn hyn, eu bod yn gweled pethau dwyfol a nefol yn mhob gwrthrych, a phethau rhyfedd mewn cyfres o wrthrychau; am fod pob peth a wêl eu llygaid yn gyfatebion; pan welant balasoedd a gerddi, gan hyny, nid yw eu golwg yn terfynu yn y gwrthrychau eu hunain, ond gwelant hefyd y pethau mewnol o'r rhai y tarddant, ac i'r rhai y maent yn cyfateb; a hyn gyda phob amrywiaeth dichonadwy yn ol ymddangosiad neillduol y gwrthrychau, gan weled aneirif bethau ar unwaith mewn trefn reolaidd ac unol, gan effeithio mor hyfryd ar eu meddyliau, fel yr ymddangosant yn cael eu cludo allan o honynt eu hunain. Fod pob peth gweledig yn y nefoedd yn cyfateb i'r pethau dwyfol sydd gan yr angylion oddiwrth yr Arglwydd (gwel uchod, r. 170—176).

271. Y mae angylion y drydedd nef y fath, am eu bod mewn cariad at yr Arglwydd, a'r cariad hwnw a egyr fewnolion y meddwl i'r trydydd gradd, ac a dderbynia holl elfenau doethineb: y maent yn barhaus yn cael eu perffeithio mewn doethineb, er mewn modd gwahanol i angylion y nefoedd isaf. Nid yw angylion y nefoedd fwyaf mewnol yn trysori y gwirioneddau dwyfol yn eu côf, na'u trefnu yn wyddor, ond y maent yn eu byw, mor fuan ac y clywant hwynt a chanfod mai gwirioneddau ydynt. Gwirioneddau dwyfol, gan hyny, a arosant gyda hwynt fel pe yn ysgrifenedig arnynt, am fod y pethau sydd yn cael eu byw yn aros ynddynt. Ond gwahanol ydyw gydag angylion y nefoedd isaf, canys trysorant hwy y gwirioneddau yn gyntaf yn y côf, trefnant hwynt yn wyddor, ac yna galwant hwynt allan i berffeithio y deall, ac heb unrhyw syniad mewnol am eu gwirionedd, ewyllysiant hwynt gan eu byw; am hyny y maent mewn ystad gydmarol aneglur. Teilwng yw o sylw, fod angylion y drydedd nef yn cael eu perffeithio mewn doethineb trwy glywed, ac nid trwy weled: y gwirioneddau a glywant trwy bregethu, sydd yn myned, nid i'w côf, ond yn uniongyrchol i'w hamgyffredion a'u hewyllys, ac yn troi yn sylwedd yn eu bywyd; ond y pethau a wêl yr angylion hyn a'u llygaid a ânt i'w côf,—rhesymant a siaradant am danynt; felly amlwg yw, mai clywed yw ffordd ddoethineb iddynt hwy. Hyn hefyd sydd o gyfatebiaeth, am fod y glust yn cyfateb i ufudd-dod, ac ufudd-dod a berthyn i fywyd: tra y llygad yn cyf-





ateb i'r deall, a'r deall a berthyn i athrawiaeth. Darlunir ystad yr angylion hyn trwy yr oll o'r Gair, fel yn Jeremiah: "Myfi a roddaf fy nghyfraith o'u mewn hwynt; ac a'i hysgrifenaf hi yn eu calonau hwynt. Ac ni ddysgant mwyach bob un ei gymydog, a phob un ei frawd, gan ddywedyd, Adnabyddwch yr Arglwydd: oherwydd hwynt-hwy oll o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf o honynt a'm hadnabyddant, medd yr Arglwydd," xxxi. 33, 34. Ac yn Mathew, "Eithr bydded eich ymadrodd chwi, Ië, ïe; Nag ê, nag ê; oblegid beth bynag sydd dros ben hyn, o'r drwg y mae," v. 37. O'r drwg y mae yr hyn sydd dros ben hyn, am nad yw o'r Arglwydd, canys y mae y gwirioneddau sydd yn angylion y drydedd nef o'r Arglwydd, oblegid fod yr angylion hyny mewn cariad ato Ef; a chariad at yr Arglwydd, yn y nefoedd hono, yw ewyllysio a gwneyd y gwirionedd dwyfol, oblegid y gwirionedd dwyfol yw Arglwydd y nefoedd.

272. Rheswm arall, a'r prif reswm yn y nefoedd, paham y mae yr angylion yn gallu derbyn doethineb mor ddyrchafedig, yw eu bod yn rhydd oddiwrth hunan-gariad: oblegid i'r graddau y bydd un yn rhydd oddiwrth y cariad hwnw y bydd yn alluog i dderbyn doethineb mewn pethau dwyfol. Hunan-gariad a gau y mewnolion yn erbyn yr Arglwydd a'r nefoedd, ac a egyr yr allanolion gan eu troi at hunan: ac am hyny y mae pawb sydd dan reolaeth hunan-gariad mewn tywyllwch du-dew i bethau nefol, pa mor oleuedig bynag ydynt i bethau y byd. Angylion, ar y llaw arall, gan eu bod yn rhydd o hunan-gariad, ydynt yn ngoleuni doethineb; am fod eu dau gariad nefol, sef cariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog, yn agor y mewnolion, oblegid fod y ddau gariad hyny o'r Arglwydd, ac y mae yr Arglwydd ei hun ynddynt. (Mai y ddau gariad hyny sydd yn gwneyd y nefoedd yn gyffredinol, a ffurf y nefoedd yn neillduol gyda phob un a welir uchod, r. 13—19.) Gan fod cariad nefol yn agor y mewnolion i'r Arglwydd, am hyny yr holl angylion a droant eu hwynebau at yr Arglwydd (r. 142), oblegid yn y byd ysbrydol y cariad a dry fewnolion pob un ato ei hun, ac yn mha gyfeiriad bynag y try y mewnolion, y try y gwyneb hefyd: oblegid fod y gwyneb yno yn un a'r mewnolion ac yn ffurf allanol iddynt. Gan fod y cariad yn troi y mewnolion a'r wyneb ato ei hun, am hyny yr ymuna â hwynt hefyd,—canys cariad yw undeb ysbrydol, a chyfrana iddynt yr oll a fedd: o'r troi hwn, ac felly o'r ymuno a'r cyfranu, y deillia doethineb yr angylion. Fod pob undeb yn y byd ysbrydol yn dybynu ar y cyfeiriad y try y trigolion eu hunain (gwel uchod, r. 255).

273. Perffeithir yr angylion yn barhaus mewn doethineb; ond nis gellir eu perffeithio i dragwyddoldeb, fel y byddo unrhyw gyfartaledd rhwng eu doethineb a Doethineb Ddwyfol yr Arglwydd, ac nid oes gyfartaledd rhwng yr Anfeidrol a'r meidrol.

274. Gan fod doethineb yn perffeithio yr angylion a chyfansoddi eu bywyd, a chan fod y nefoedd a'i holl ddaioni yn llifo i bob un yn ol ei ddoethineb, am hyny pawb yn y nefoedd a ddymunant ddoethineb ac a'i blasiant, fel dyn newynog yn blasio bwyd; canys y mae gwybodaeth, deall, a doethineb yn faeth ysbrydol, fel y mae bwyd yn faeth naturiol, ac y maent yn cyfateb i'w gilydd.

275. Angylion yr un nefoedd, a rhai yr un gymdeithas, nid ydynt debyg ond anhebyg eu doethineb. Y rhai yn y canol sydd fwyaf eu doethineb, a'r rhai yn yr amgylchoedd hyd y terfyn eithaf, yn llai lai. Doethineb yn lleihau yn ol y pellder o'r canol sydd fel goleuni yn lleihau nes ymylu ar dywyllwch (gwel uchod, 43—128). Yn yr un graddau hefyd y mae eu goleuni, gan mai goleuni y nefoedd yw y Ddoethineb Ddwyfol, a phob un sydd mewn goleuni yn ol ei dderbyniad o'r ddoethineb hono. (Am oleuni y nefoedd a'i amrywiol dderbyniad, gwel uchod, r. 126—132.)

### Ystad Diniweidrwydd yr Angylion yn y Nefoedd.

276. Beth yw natur ac ansawdd diniweidrwydd sydd wybyddus i ychydig yn y byd, ac yn hollol anwybyddus i'r rhai sydd mewn drwg. Ymddengys, y mae yn wir, o flaen llygaid dynion, yn dangos ei hun yn ngwyneb, siarad ac ystumiau plant bach; ond eto ei natur sydd anhysbys, a mwy anhysbys byth yw fod y nefoedd yn preswylio yn benaf gyda dyn mewn diniweidrwydd. Mewn trefn, gan hyny, i'r pwnc gael ei amgyffred, af yn mlaen yn rheolaidd, a llefaraf yn gyntaf am ddiniweidrwydd babandod; nesaf, diniweidrwydd doethineb, ac yn olaf, ystad y nefoedd mewn perthynas i ddiniweidrwydd.

277. Nid yw diniweidrwydd babandod, neu blant bach, yn wir ddiniweidrwydd, am nad yw ond ffurf allanol diniweidrwydd, ac nid ei ffurf fewnol; er hyny gellwn ddysgu oddiwrtho beth yw natur diniweidrwydd, canys llewyrcha allan o'u hwynebau, o lawer o'u hystumiau, ac o'u siarad cyntaf, gan effeithio ar y rhai a'u gwelant. Y rheswm yw, nad oes ganddynt feddwl mewnol; oblegid eto ni wyddant beth yw drwg a da, na gwirionedd a thywyll—y pethau y tardda meddwl o honynt. Am hyny nid oes ganddynt gallineb yn deilliaw o hunan *(proprium)*; na bwriad, na phwyll, nac felly, ddyben drwg. Nid oes ganddynt yr hunan *(proprium)* grëir gan hunan-gariad a chariad at y byd; ni phriodolant ddim iddynt eu hunain, ond cyfeiriant y cwbl a dderbyniasant at eu rhieni; cânt eu boddio a'u difyru ar yr ychydig deganau a roddir iddynt; nid oes bryder ynddynt am fwyd a dillad nac am y dyfodol; nid edrychant i'r byd a chwenychu llawer o'i feddianau; ond carant eu rhieni, y rhai a'u magant, a'u cyd-blant y cyd-chwareuant gyda hwynt yn ddiniwed; goddefant gael eu harwain, gwrandawant, ac





ufuddhant: a chan eu bod yn yr ystad hon derbyniant bob peth i'r bywyd, gan ddyfod i feddu, heb wybod pa fodd, foesau addas, iaith ac elfenau côf a meddwl, ac ystad eu diniweidrwydd yn gyfrwng: ond y diniweidrwydd hwn, fel y dywedwyd uchod, sydd allanol, am ei fod o'r corff yn unig, ac nid o'r meddwl: nid yw eu meddwl eto wedi ei ffurfio, oblegid meddwl yw deall ac ewyllys, y syniad a'r teimlad darddant o honynt. Dywedwyd wrthyf o'r nefoedd, fod plant dan ofal neillduol yr Arglwydd, a bod ganddynt ddylifiad o'r nefoedd fwyaf mewnol, lle y mae yr ystad o ddiniweidrwydd; a bod y dylifiad yn tramwy trwy eu mewnolion, heb adael un effaith ond diniweidrwydd arnynt; mai dyna yr achos fod diniweidrwydd yn ymddangos yn eu hwynebau a'u hystumiau; ac mai y diniweidrwydd hwn sydd yn effeithio mor fewnol ar rieni, ac yn cynyrchu eu cariad hynod.

278. Diniweidrwydd doethineb sydd wir ddiniweidrwydd, oblegid ei fod yn fewnol; canys y mae o'r meddwl a'r ewyllys, ac felly o'r deall: a phan fyddo diniweidrwydd yn y pethau hyn, yno hefyd y mae doethineb, canys o honynt y mae doethineb. Ar gyfrif hyn y dywedir yn y nefoedd fod diniweidrwydd yn trigo mewn doethineb, a bod angel yn meddu doethineb i'r graddau y mae yn meddu diniweidrwydd. Cadarnhant hyn trwy sylwi nad oes neb mewn ystad o ddiniweidrwydd yn priodoli dim daioni iddynt eu hunain, ond ystyriant eu hunain fel derbynwyr yn unig, gan briodoli pob peth i'r Arglwydd; eu bod yn ewyllysio cael eu harwain ganddo Ef, ac nid ganddynt eu hunain; eu bod yn caru pob peth sydd dda, ac yn ymhyfrydu yn mhob peth sydd wir, am eu bod yn gwybod a chanfod mai caru yr hyn sydd dda, ac am hyny ei ewyllysio a'i wneyd, yw caru yr Arglwydd; ac mai caru yr hyn sydd wir yw caru cymydog; eu bod yn byw yn foddlawn ar yr hyn sydd ganddynt, pa un ai ychydig ai llawer fyddo, oblegid gwyddant eu bod yn cael cymaint ag sydd dda iddynt: ychydig, os ychydig sydd oreu, a llawer os llawer sydd dda iddynt; ac na wyddant eu hunain beth sydd oreu iddynt, oblegid mai yr Arglwydd yn unig ŵyr hyny, yr hwn sydd ac amcanion tragwyddol i holl bethau Ei ragluniaeth. Ar gyfrif hyn dibryder ydynt am y dyfodol, galwant y fath bryder yn ofal am yfory, yr hyn meddant sydd ofid am golli neu beidio derbyn y pethau nad oes eu hangen i fod yn ddefnyddiol mewn bywyd. Yn eu hymddygiad tuag at eu cymdeithion, ni weithredant byth oddiar amcan drwg, ond oddiar amcan da, uniawn, a didwyll. Cyfrwysdra y galwant weithredu oddiar amcan drwg, a chiliant oddiwrtho fel oddiwrth wenwyn sarff, am ei fod yn hollol groes i ddiniweidrwydd; a chan eu bod yn fwy na dim yn cael eu harwain gan yr Arglwydd, a phriodoli pob peth iddo Ef, fel Ei roddion, symudir hwy o'u hegwyddor hunanol *(proprium)*, ac i'r

graddau eu symudir o'u hegwyddor hunanol *(proprium)* y llifa yr Arglwydd iddynt. Ar gyfrif hyn, beth bynag glywant oddiwrtho Ef, ai trwy gyfrwng y Gair, neu bregethu, nid ystoriant yn y côf, ond ufuddhant iddo ar unwaith: hyny yw, ewyllysiant a gwnant ef, *canys yr Ewyllys ei hun yw eu côf.* Y rhai hyn, gan amlaf, ydynt syml yn eu hymddangosiad allanol, ond o fewn yn ddoeth a chall; hwy feddylir gan yr Arglwydd pan dywed: "Byddwch chwithau gall fel y seirff, a diniwed fel y colomenod," Math. x. 16. Y fath yw y diniweidrwydd a elwir diniweidrwydd doethineb, oblegid nad yw diniweidrwydd yn priodoli dim daioni iddo ei hun, ond yn priodoli pob da i'r Arglwydd; a charu fel hyn gael ei arwain gan yr Arglwydd, a derbyn pob daioni a gwirionedd y deillia doethineb o honynt; am hyny crëwyd dyn fel y gall fod mewn diniweidrwydd allanol pan yn blentyn, ac mewn diniweidrwydd mewnol pan yn hen: fel y gallo trwy yr allanol ddyfod i'r mewnol, ac fel y gallo ddychwelyd o'r mewnol i'r allanol; am hyny hefyd pan y mae dyn yn heneiddio lleiha ei gorff, a daw fel pe byddai yn blentyn yr ail waith, ond yn blentyn doeth, ac felly yn angel, oblegid plentyn doeth mewn ystyr uchel yw angel. Am hyny plentyn yn y Gair a arwydda un diniwed, a hen ŵr, un doeth a diniweidrwydd ynddo.

279. Tebyg ydyw gyda phob un sydd yn cael ei ail eni. Adenedigaeth yw aileni o ran y dyn ysbrydol. Y dyn sydd yn cael ei aileni a arweinir yn gyntaf i ddiniweidrwydd plentyn, yn cynwys na ŵyr ddim o'r gwirionedd, ac nad oes ganddo allu i wneyd daioni o hono ei hun, ond o'r Arglwydd yn unig; a'i fod yn dymuno a cheisio daioni a gwirionedd yn hollol er eu mwyn eu hunain. Rhoddir hwynt hefyd iddo gan yr Arglwydd fel y cynydda mewn dyddiau. Arweinir Ef yn gyntaf i wybodaeth am danynt, yna o wybodaeth i ddealltwriaeth, ac o ddealltwriaeth i i ddoethineb: ond y mae diniweidrwydd yn gydymaith parhaus iddo, yn cynwys fel y dywedwyd uchod, na ŵyr ddim o'r gwirionedd, ac nad oes ganddo allu i wneyd daioni o hono ei hun, ond o'r Arglwydd yn unig. Heb y ffydd hon, ac amgyffrediad o'i gwirionedd, nis gall neb dderbyn dim o'r nefoedd, am mai yn hyn yn benaf y cynwys diniweidrwydd doethineb.

280. Gan fod diniweidrwydd yn gynwysedig mewn bod yr Arglwydd yn arwain ac nid hunan, y mae pawb sydd yn y nefoedd mewn diniweidrwydd, am fod pawb yno yn caru cael eu harwain gan yr Arglwydd. Gwyddant mai arwain eu hunain yw cael eu harwain gan yr egwyddor hunanol *(proprium)*, a'r egwydddor hunanol sydd gynwysedig o hunan-gariad; a'r hwn sydd yn caru ei hun ni oddef i arall ei arwain. Am hyny, i'r graddau y byddo angel mewn diniweidrwydd, y bydd yn y nefoedd; hyny yw, y bydd mewn Daioni Dwyfol a Gwirionedd Dwyfol, am mai





bod ynddynt yw bod yn y nefoedd; rhenir y nefoedd hefyd yn ol diniweidrwydd: y rhai sydd yn y nefoedd isaf neu gyntaf, ydynt yn y gradd cyntaf neu isaf o ddiniweidrwydd: y rhai sydd yn y nef ganol neu yr ail ydynt yn y gradd canol neu yr ail o ddiniweidrwydd: a'r rhai sydd yn y drydedd neu y nef fwyaf mewnol, ydynt yn y trydydd neu y gradd mwyaf mewnol o ddiniweidrwydd. O'r holl nefoedd, yr olaf ydynt diniweidrwydd ei hun, oblegid yn fwy na phawb ereill, carant gael eu harwain gan yr Arglwydd fel plant bychain gan eu tad. Y gwirionedd Dwyfol a glywant, naill ai yn ddigyfrwng o'r Arglwydd, neu trwy gyfrwng y Gair a phregethu, derbyniant Ef yn uniongyrchol yn yr Ewyllys, a gwnant Ef gan ei gario allan mewn bywyd; am hyny eu doethineb a ragoro gymaint ar ddoethineb angylion y nefoedd îs (gwel r. 270, 271) Gan fod yr angylion nefol y fath, hwy sydd agosaf at yr Arglwydd, o'r hwn y deillia eu diniweidrwydd: y maent wedi eu hysgaru hefyd oddiwrth eu hegwyddor hunanol *(proprium)* fel y maent yn byw megis yn yr Arglwydd. Ymddangosant yn syml o'r tu allan, ac fel plant i lygaid angylion nefoedd îs, ac felly yn fychain o gorffolaeth. Ymddangosant hefyd fel pe na baent ddoeth iawn, er eu bod y doethaf o angylion y nefoedd; canys gwyddant nad oes ganddynt ddim doethineb o honynt eu hunain, ac mai bod yn wir ddoeth yw cydnabod hyny, a chyfaddef nad yw yr hyn a wyddant ddim mewn cydmariaeth i'r hyn na wyddant. Dywedant mae gwybod hyn, ei gydnabod, a'i ganfod yw y cam cyntaf i ddoethineb. Noeth yw yr angylion hyn, am fod noethni yn cyfateb i ddiniweidrwydd.

281. Bum yn siarad llawer a'r angylion am ddoethineb, ac hysbyswyd fi mai hanfod pob daioni ydyw, ac am hyny, nad yw daioni yn wir ddaioni ond i'r graddau y byddo diniweidrwydd o'i fewn; o ganlyniad, nad yw doethineb yn wir ddoethineb ond i'r graddau y byddo diniweidrwydd ynddo; yr un fath am gariad a ffydd; ar gyfrif hyn nis gall neb fyned i'r nefoedd heb ddiniweidrwydd: hyn a feddylir gan yr Arglwydd pan ddywed, "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waherddwch iddynt: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw. Yn wir meddaf i chwi, Pwy bynag ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi," Marc x. 14, 15; Luc xviii. 16, 17. Wrth blant bychain yma, ac mewn rhanau eraill o'r Gair, y meddylir y rhai diniwed. Ystad o ddiniweidrwydd hefyd ddesgrifir gan yr Arglwydd, trwy gyfatebion pur, yn Math. vi. 25—34. Daioni hefyd nid yw wir ddaioni ond mor bell ag y byddo diniweidrwydd o'i fewn, am mai o'r Arglwydd y mae pob daioni, ac am fod diniweidrwydd yn cynwys dymuniad i'r Arglwydd arwain. Hysbyswyd fi hefyd nas gellir uno gwirionedd â daioni, a daioni â gwirionedd ond trwy gyfrwng diniweidrwydd; ac oherwydd hyn,

nad yw angel yn angel y nefoedd os na fydd diniweidrwydd ynddo; canys nid yw y nefoedd yn neb nes uno gwirionedd a daioni ynddo, ac am hyny uniad gwirionedd â daioni a elwir y briodas nefol, a'r briodas nefol sydd nefoedd. Hysbyswyd fi yn mhellach, fod gwir gariad priodasol yn tarddu o ddiniweidrwydd, am ei fod yn tarddu o uniad daioni a gwirionedd wedi gwreiddio mewn dau feddwl, sef meddyliau y gŵr a'r wraig; pan ddisgyna yr uniad hwn i gylch îs, cymer y ffurf o gariad priodasol; canys y mae gŵr a gwraig yn caru eu gilydd i'r un graddau ag y mae tebygrwydd a chariad rhwng eu meddyliau: ar gyfrif hyn y mae cariad priodasol, fel plentyndod a diniweidrwydd yn chwareus.

282. Gan mai diniweidrwydd yw gwir hanfod pob daioni gydag angylion y nefoedd, eglur yw mai diniweidrwydd ei hun yw y Daioni Dwyfol a ddeillia o'r Arglwydd; canys y daioni hwnw ydyw a lifa i'r angylion, ac a effeithia ar eu hegwyddorion mwyaf mewnol, gan eu tueddu a'u haddasu i dderbyn holl ddaioni y nefoedd. Tebyg ydyw gyda phlant bychain, a'u mewnolion nid yn unig yn cael eu ffurfio gan y trawslifiad o ddiniweidrwydd o'r Arglwydd, ond addasir a thueddir hwynt yn barhaus i dderbyn y daioni o'r cariad nefol; canys y daioni a gyfyd o ddiniweidrwydd a weithia o'r egwyddor fwyaf mewnol, oblegid megis y dywedwyd, hanfod pob daioni ydyw. Oddiwrth hyn, amlwg yw fod pob diniweidrwydd o'r Arglwydd, ac am hyny y gelwir yr Arglwydd yn Oen yn y Gair, am fod Oen yn arwyddo diniweidrwydd. Oblegid mai diniweidrwydd yw egwyddor fwyaf mewnol pob daioni o'r nefoedd, am hyny yr effeithia ar y meddwl, fel pwy bynag a'i teimla, megis pan nesao angel o'r nefoedd fwyaf mewnol, ymddengys yn myned allan o hono ei hun, ac yn cael ei gludo ymaith gyda'r fath hyfrydwch, fel yr ymddengys pob hyfrydwch bydol fel dim mewn cydmariaeth. Llefaraf hyn o brofiad.

283. Pawb sydd yn y daioni a dardd o ddiniweidrwydd a deimlant fel hyn oddiwrth ddiniweidrwydd, i'r graddau y byddont yn y daioni hwnw; ond y rhai nid ydynt yn y daioni o ddiniweidrwydd ni theimlant oddiwrtho; ac am hyny pawb yn uffern ydynt yn hollol groes i ddiniweidrwydd: ni wyddant beth yw diniweidrwydd; y maent o'r fath natur, fel mai i'r graddau y byddo unrhyw un yn ddiniwed, y maent ar dân am ei niweidio. Nis gallant gan hyny oddef gweled plant bychain, ac mor fuan y gwelant hwynt, fflamiant mewn awyddfryd greulon i'w hanafu; ac felly amlwg yw fod *proprium* dyn, ac am hyny hunan gariad, yn groes i ddiniweidrwydd; canys y mae pawb yn uffern yn y *proprium*, ac o hyny mewn hunan gariad.

## Yr Ystad o Dangnefedd yn y Nefoedd.

284. Y rhai na phrofasant dangnefedd y nefoedd, nid oes gan-





ddynt syniad am natur y tangnefedd a fwynha angylion; oblegid dyn, cyd byddo yn y corff, nis gall dderbyn tangnefedd y nefoedd, ac am hyny nis gall gael syniad am dano, am fod ei syniad yn y dyn naturiol. Er canfod tangnefedd y nefoedd, rhaid i ddyn fod y fath, fel y gellir ei godi o ran ei feddwl, a'i dynu allan o'r corff, ei gadw yn yr ysbryd, a bod gyda'r angylion. Gan i mi gael syniad am dangnefedd y nefoedd, gallaf ei ddesgrifio: nid mewn geiriau fel y mae ynddo ei hun, am nad yw geiriau dynol yn ddigonol i'w ddesgrifio, ond yn unig fel y mae yn gymharol, mewn perthynas i'r orphwysfa feddyliol hono fwynha y rhai sydd foddlawn yn Nuw.

285. Dwy, sef diniweidrwydd a thangnefedd, ydynt elfenau mwyaf mewnol y nefoedd. Gelwir hwynt y mwyaf mewnol, am eu bod yn deilliaw yn uniongyrchol o'r Arglwydd. O ddiniweidrwydd y tardda pob daioni yn y nefoedd, ac o dangnefedd y tardda pob pleser mewn daioni. Y mae i bob daioni ei bleser, a thardda y naill a'r llall o gariad: canys y peth a gerir a elwir yn dda ac a deimlir yn bleserus. Oddi yma y canlyn fod dwy elfen fwyaf mewnol y nefoedd, sef diniweidrwydd a thangnefedd, yn deilliaw o gariad Dwyfol yr Arglwydd, ac yn effeithio ar yr angylion yn y modd mwyaf mewnol ac anwyl. Mai diniweidrwydd yw elfen fwyaf mewnol daioni a ddangoswyd yn y bennod flaenorol ar ystad diniweidrwydd yr angylion yn y nefoedd: ond dangosir yn awr mai tangnefedd yw yr egwyddor fwyaf mewnol yn y pleser dardd o ddaioni diniweidrwydd.

286. Llefarwn yn gyntaf am darddiad tangnefedd. Tangnefedd dwyfol a drig yn yr Arglwydd, yn bodoli o undeb y Duwdod Hanfodol â'r Ddynoliaeth Ddwyfol ynddo Ef. Tangnefedd Dwyfol yn y nefoedd a ddeillia o'r Arglwydd, yn codi o'r undeb rhyngddo Ef ac angylion y nefoedd, ac, yn fwy neillduol, o'r undeb rhwng daioni a gwirionedd yn mhob angel. Dyna ffynonellau tangnefedd. Gwelir oddiwrth hyn, mai tangnefedd yn y nefoedd yw Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn effeithio yn y modd mwyaf mewnol a gwynfydedig ar bob daioni yno, ei fod felly yn ffynonell pob llawenydd yn y nefoedd, ac mai llawenydd Dwyfol Cariad Dwyfol yr Arglwydd ydyw, yn ei hanfod, yr codi o'i Undeb Ef â'r nefoedd ac â phob angel neillduol. Y llawenydd hwn, yn cael ei ganfod gan yr Arglwydd yn yr angylion, a'i ganfod gan yr angylion o'r Arglwydd, yw tangnefedd: o hyn y tardd holl wynfyd, pleser, a dedwyddwch yr angylion yn cyfansoddi yr hyn a elwir llawenydd nefol.

287. Gan fod tarddiad tangnefedd o'r ffynonell hon, am hyny gelwir yr Arglwyd *Tywysog Tangnefedd*, ac y dywedodd mai o hono Ef y deillia tangnefedd, ac mai ynddo Ef y mae tangnefedd. Gelwir yr angylion hefyd yn *genhadon heddwch*, a'r nefoedd yn

*breswylfa heddychlawn*, megis yn y geiriau canlynol: "Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir Ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, Y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd. Ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni bydd diwedd," Esaiah ix. 6, 7. "Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi: nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi," Ioan xiv. 27. "Y pethau hyn a ddywedais wrthych fel y caffech dangnefedd ynof," Ioan xvi. 33. "Dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnat, a rhodded i ti dangnefedd," Num. vi. 26. "Cenhadon heddwch a wylant yn chwerw. Aeth y prif-ffyrdd yn ddisathr, Esaiah xxxiii. 7, 8. "A gwaith cyfiawnder fydd heddwch. A'm pobl a drig mewn preswylfa heddychlawn," Esaiah xxxii. 17, 18. Mai tangnefedd Dwyfol a nefol a olygir yn y Gair, a welir hefyd oddiwrth ranau ereill lle ei henwir: megis yn Esaiah lii. 7; Pen. liv. 10; Pen. lix. 8; Jer. xvi. 5; Pen. xxxv. 37; Pen. xxix. 11; Haggai ii. 9; Zech. viii. 12; Psalm xxxvii. 37; a manau ereill. Gan fod tangnefedd yn arwyddo yr Arglwydd a'r nefoedd, ac hefyd lawenydd nefol a phleser daioni, y cyfarchiad yn yr hen amserau oedd *Tangnefedd i chwi*, ac arferir weithiau heddyw. Cymeradwyodd yr Arglwydd y ffurf hon, pan ddywedodd wrth ei ddysgyblion wrth eu hanfon allan: "Ac i ba dŷ bynag yr eloch i mewn, yn gyntaf dywedwch, Tangnefedd i'r tŷ hwn. Ac o bydd yno fab tangnefedd, eich tangnefedd a orphwys arno," Luc x. 5, 6. A'r Arglwydd ei Hun, pan ymddangosodd i'w apostolion a ddywedodd: "Tangnefedd i chwi," Ioan xx. 19, 21, 26. Ystad o dangnefedd hefyd olygir yn y Gair pan ddywed i'r Arglwydd arogli arogl peraidd (esmwyth yn y gwreiddiol) fel yn Exod. xxix. 18, 25, 41; Lef. i. 9, 13, 17; Pen. ii. 2, 9; Pen. vi. 8, 14; Pen. xxiii. 12, 13, 18; Numeri xv. 3, 7, 13; Pen. xxviii. 6, 8, 13; Pen. xxix. 2, 6, 8, 13, 36. Arogl peraidd, yn yr ystyr nefol a arwydda, tangnefedd yn cael ei ganfod. Gan fod tangnefedd yn arwyddo undeb y Ddynoliaeth Dwyfol â'r Duwdod Hanfodol yn yr Arglwydd, a chysylltiad yr Arglwydd â'r nefoedd ac â'r Eglwys, ac â holl drigolion y nefoedd, ac â phawb sydd yn ei dderbyn yn yr Eglwys, am hyny, mewn côf am y pethau hyn, y sefydlwyd y Sabboth, y cafodd ei enwi yn ddydd gorphwysfa, neu dangnefedd, a'i wneyd yr arwyddlun mwyaf sanctaidd o'r Eglwys; ar gyfrif hyn y galwodd yr Arglwydd ei hun yn Arglwydd ar y Sabboth (Math. xii. 8; Marc ii. 27, 28; Luc vi. 5.

288. Gan mai Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn effeithio yn y modd mwyaf mewnol a gwynfydedig ar y daioni berthyn i'r angylion yw tangnefedd y nefoedd, nid ydynt yn ei ganfod yn amlwg, ond trwy hyfrydwch calon mewn daioni, trwy bleser i





wrando y gwirionedd cytunol a'u daioni, a thrwy sirioldeb meddwl pan welant y daioni a'r gwirionedd hwnw yn unedig: er hyny llifa oddiyno i holl actau a meddyliau eu bywyd, gan ddangos ei hun ynddynt fel llawenydd. Ond y mae ansawdd a maint tangnefedd yn y nefoedd yn gwahaniaethu yn ol diniweidrwydd y trigolion, am fod diniweidrwydd a thangnefedd yn myned law yn llaw; canys fel y dywedwyd uchod, diniweidrwydd yw tarddiad yr holl ddaioni yn y nefoedd, a thangnefedd yw tarddiad yr holl hyfrydwch gyfyd o ddaioni. Oddiyma amlwg yw, fod y pethau a ddywedwyd yn y benod flaenorol am yr ystad o ddiniweidrwydd yn y nefoedd, yn gymwys am yr ystad o dangnefedd: gan fod diniweidrwydd a thangnefedd yn un a'u gilydd, fel daioni a'r pleser sydd ynddo, canys yr ydym yn ymwybodol o ddaioni yn ol y pleser sydd ynddo, ac adwaenwn natur y pleser yn ol ei ddaioni. Amlwg yw, gan hyny, fod angylion y drydedd neu y nef fwyaf mewnol yn y trydydd neu y gradd mwyaf mewnol o dangnefedd, am eu bod yn y trydydd neu y gradd mwyaf mewnol o ddiniweidrwydd; a bod angylion y nefoedd îs mewn gradd llai o dangnefedd, am eu bod mewn gradd llai o ddiniweidrwydd (gwel uchod, r. 280). Fod diniweidrwydd a thangnefedd yn cyd-drigo, fel daioni a'r pleser ynddo, a welir oddiwrth blant, y rhai sydd mewn tangnefedd oblegid eu bod mewn diniweidrwydd; ac am eu bod mewn tangnefedd y maent yn llawn chwareu. Ond nid yw tangnefedd plant ond allanol, oblegid fod tangnefedd mewnol, fel diniweidrwydd mewnol, yn bodoli yn unig mewn doethineb, ac am hyny yn undeb daioni a gwirionedd, yr hyn yw tarddiad doethineb. Bodola tangnefedd nefol neu angylaidd hefyd mewn dynion yn meddu doethineb oddiar undeb daioni a gwirionedd, ac oddiwrth hyny yn ymwybodol eu bod yn foddlawn yn Nuw; ond tra byddont byw yn y byd, gorphwys eu tangnefedd yn guddiedig yn eu mewnolion; ond pan adawant y corph a myned i'r nefoedd, caiff ei ddatguddio, oblegid yno yr agorir y mewnolion.

289. Gan fod tangnefedd Dwyfol yn tarddu o'r undeb sydd rhwng yr Arglwydd a'r nefoedd, ac, yn fwy neillduol, yn mhob angel, o'r undeb rhwng daioni a gwirionedd, y mae yn canlyn fod yr angylion mewn ystad o dangnefedd, pan fyddont mewn ystad o gariad, oblegid y pryd hwnw y mae daioni a gwirionedd yn un ynddynt. Fod ystadau yr angylion yn newid yn olynol, gwel r. 154—160. Tebyg ydyw gyda dyn pan yn cael ei aileni. Pan fyddo daioni a gwirionedd yn cael eu huno ynddo, yr hyn gymer le yn benaf ar ol temtasiwn, efe a ddaw i ystad o hyfrydwch yn tarddu o dangnefedd nefol. Gellir cydmaru y tangnefedd hwn i'r boreu neu y wawr yn nhymor gwanwyn, pan fydd holl gynyrchion y ddaear yn adfywio, wedi i'r nos ffoi a'r haul godi, arogl y blodau, eneiniedig â gwlith y nefoedd, yn ymwasgaru, a hinion

gwanwyn yn ffrwythloni y tir ac yn llanw meddwl dyn â llawenydd. Cynyrchir yr effeithiau hyn, am fod y boreu neu wawr y dydd yn nhymor gwanwyn yn cyfateb i ystad o dangnefedd yr angylion yn y nefoedd (gwel r. 155).

290. Bum yn siarad a'r angylion am dangnefedd, a dywedwn y cyfrifir fod tangnefedd yn y byd pan fyddo rhyfeloedd ac ymrysonau yn darfod rhwng teyrnasoedd, gelyniaethau ac ymrafaelaelion yn peidio rhwng dynion; a bod tangnefedd mewnol yn gynwysedig mewn llonyddwch meddwl trwy symud gofalon, ac yn neillduol mewn tawelwch a phleser yn codi o lwyddiant amgylchiadau. Ond yr angylion a ddywedent, fod llonyddwch meddwl, y tawelwch a'r pleser gyfodant trwy symud gofalon a thrwy lwyddiant amgylchiadau, yn ymddangos fel elfenau tangnefedd, ond nad ydynt, oddieithr gyda rhai mewn daioni nefol, oblegid nad oes dangnefedd ond yn y daioni hwnw: am fod tangnefedd yn llifo i mewn o'r Arglwydd i ranau mwyaf mewnol y meddwl, ac oddiyno i ranau is gan amlygu ei hun trwy deimlad o lonyddwch yn y meddwl rhesymol, a thrwy deimlad o dawelwch yn y meddwl naturiol, a llawenydd yn tarddu o hyny. Nid oes dangnefedd i rai sydd mewn drwg. Ymddengys, y mae yn wir, fel pe byddent yn mwynhau gorphwysfa, tawelwch, a phleser, pan lwydda pethau yn ol eu dymuniadau, ond allanol yw hyn oll ac nid mewnol; oblegid yn fewnol llosgant mewn gelyniaeth, casineb, dialedd, creulondeb, a llawer o chwantau drwg ereill, y rhuthra eu meddwl allanol iddynt, mor fuan y gwelant unrhyw un nad yw yn eu ffafrio hwy. Pan heb gael eu hatal gan ofn, eu nwydau a dorant allan yn drais cyhoeddus, yn dangos fod eu pleser mewn gwallgofrwydd, tra pleser y rhai da mewn doethineb. Y gwahaniaeth sydd debyg fel rhwng nefoedd ac uffern.

### Undeb y Nefoedd a'r Hil Ddynol.

291. Gwyddir yn yr Eglwys, fod pob da o Dduw a dim o'r dyn, ac na ddylai neb, gan hyny, briodoli dim daioni iddo ei hunan: gwyddir hefyd, fod y drwg o'r diafol; o herwydd hyn, y rhai a lefarant yn ol athrawiaeth yr Eglwys, a ddywedant am y rhai a weithredant yn dda, ac hefyd am y rhai a siaradant ac a bregethant yn dduwiol, eu bod yn cael eu harwain gan Dduw; ond dywedant yn wahanol am rai yn gweithredu yn ddrwg ac yn siarad yn annuwiol. Nis gallai y pethau hyn fod oni bai fod undeb rhwng dyn â'r nefoedd, ac undeb rhyngddo âg uffern; ac oni bai fod yr undebau hyny a'i ewyllys ac a'i ddeall, canys o honynt hwy y gweithreda y corff, ac y llefara y genau. Dangosir yn awr natur ac ansawdd yr undeb hwn.

292. Y mae ysbrydion da ac ysbrydion drwg yn gweini ar bob dyn: trwy ysbrydion da y mae cysylltiad rhyngddo â'r nefoedd, a





thrwy ysbrydion drwg y mae cysylltiad rhyngddo âg uffern. Yr ysbrydion hyn sydd yn myd yr ysbrydoedd, yr hwn sydd yn y canol rhwng nefoedd ac uffern, am yr hwn y soniwn yn neillduol yn y tudalenau canlynol. Pan ddaw yr ysbrydion hyn at ddyn, ânt i'w holl gôf ac oddiyno i'w holl feddwl: ysbrydion drwg i'r pethau hyny yn y côf a'r meddwl sydd ddrwg, ac ysbrydion da i'r pethau hyny yn y côf a'r meddwl sydd dda. Ni ŵyr yr ysbrydion eu bod gyda dyn, ond pan fyddont gydag ef, credant mai hwy bia bob peth sydd yn ei gôf a'i feddwl: nid ydynt chwaith yn gweled dyn, oblegid nad yw pethau ein byd heulawg ni yn syrthio o fewn cylch eu golwg. Cymer yr Arglwydd y gofal mwyaf i attal ysbrydion i wybod eu bod yn bresenol gyda dyn: canys pe gwyddent, siaradent âg ef, ac yna dinystrid ef gan ysbrydion drwg: canys yr ysbrydion drwg, am eu bod yn un âg uffern, ni ddymunant ddim yn fwy taer na dystrywio dyn, nid yn unig o ran ei enaid, sef ei ffydd a'i gariad, ond hefyd ei gorff. Ond ni chymer hyn le pan na byddont yn siarad a dyn, oblegid ni wyddant y pryd hwnw mai o hono ef y mae y peth a feddyliant ac a siaradant: canys wrth siarad a'u gilydd siaradant o feddyliau y dyn, ond credant mai hwy bia y pethau a siaradant, ac y mae pawb yn edmygu a charu ei eiddo ei hun: fel hyn gwneir ysbrydion i garu a pharchu dyn er na wyddant hyny. Fod y fath undeb yn bodoli yn sylweddol rhwng ysbrydion a dyn, a wnawd mor drwyadl hysbys i mi trwy brofiad parhaus llawer o flynyddoedd, fel nad oes dim yr wyf yn fwy sicr o hono.

293. Y mae ysbrydion yn dal cymundeb âg uffern yn un a dyn, oblegid fod dyn wedi ei eni i bob drwg, ac felly ei fywyd cyntaf a dardd yn hollol o'r drwg: am hyny, oni bae fod ysbrydion o'r un ansawdd âg ef ei hun yn un a dyn, nis gallasai fyw, ac nis gellid ei dynu oddiwrth ei ddrygau a'i ddiwygio. Ar gyfrif hyn cedwir ef yn ei fywyd ei hun gan ysbrydion drwg, a chedwir ef rhagddo gan ysbrydion da. Trwy y naill a'r llall, cedwir ef mewn cydfantoliad, ac am ei fod mewn cydfantoliad y mae efe mewn rhyddid, fel y gellir ei dynu o'i ddrygau a'i dueddu at ddaioni: canys mewn ystad o ryddid gellir planu daioni ynddo, a dim heb hyny: ond nis gellir rhoddi rhyddid i ddyn oddieithr i ysbrydion o uffern ddylanwadu arno ar y naill law, ac ysbrydion o'r nefoedd ar y llaw arall, ac yntau yn sefyll yn y canol. Dangoswyd i mi hefyd, cyhyd y byddo dyn yn gyfranog o'r hyn sydd etifeddol a hunanol, nas gall fyw heb ganiatad i fod mewn drwg, ac hefyd mewn rhyddid: nas gellir gorfodi dyn i fod yn dda, am nad yw yr hyn yr arweinir ef iddo trwy orfod yn aros: ond fod y daioni dderbynia dyn mewn rhyddid yn cael ei blanu yn ei ewyllys, ac yn dyfod fel eiddo iddo ei hun: ac felly fod dyn yn dal cymundeb âg uffern ac hefyd a'r nefoedd.

294. Dangosir yn awr natur ac ansawdd cymundeb y nefoedd âg ysbrydion da, ac uffern âg ysbrydion drwg, ac o ganlyniad natur ac ansawdd undeb y nefoedd ac uffern â dyn. Y mae cymundeb rhwng yr holl ysbrydion yn myd yr ysbrydoedd, a'r nefoedd neu âg uffern: y rhai drwg âg uffern, a'r rhai da a'r nefoedd. Rhenir y nefoedd i gymdeithasau, ac felly uffern: pob ysbryd a berthyn i ryw gymdeithas, ac a fodola trwy ddylifiad o honi, gan weithredu mewn undeb â hi: am hyny gan fod dyn yn un âg ysbrydion, y mae efe hefyd yn un a'r nefoedd neu âg uffern, ac a'r gymdeithas hono lle y mae o ran ei serch neu ei gariad: canys y mae holl gymdeithasau y nefoedd yn cael eu gwahaniaethu yn ol eu serchiadau at ddaioni a gwirionedd: a holl gymdeithasau uffern yn ol eu serchiadau at y drwg a'r gau. Am gymdeithasau y nefoedd, gwel uchod, r. 41—45, hefyd r. 148—151.

295. Y mae yr ysbrydion sydd yn un a dyn o'r un ansawdd a'r dyn ei hun, o ran serch neu gariad: unir yr ysbrydion da âg ef gan yr Arglwydd, ond y dyn ei hun sydd yn gwahodd yr ysbrydion drwg: newidir yr ysbrydion sydd gyda dyn yn ol cyfnewidiadau ei serchiadau. Bydd un math o ysbrydion gydag ef yn ei fabandod, math arall pan yn blentyn, math arall pan yn ddyn ieuanc a chanol oed, a math arall pan yn hen. Yr ysbrydion gyda dyn pan yn faban a nodweddir gan ddiniweidrwydd, am hyny daliant gymundeb a nefoedd diniweidrwydd, sef y nef mwyaf mewnol neu y drydedd: y rhai sydd gydag ef pan yn blentyn a nodweddir gan serch at wybodaeth, ac a ddaliant gymundeb a'r nefoedd isaf neu y gyntaf: y rhai sydd gydag ef pan yn ddyn ieuanc a chanol oed, a nodweddir gan serch at wirionedd a daioni, a daliant gymundeb a'r nef ganol neu yr ail: a'r rhai sydd gydag ef pan yn hen a nodweddir gan ddoethineb a diniweidrwydd, a daliant gymundeb a'r nef mwyaf mewnol neu y drydedd. Ond yr ysbrydion hyn a unir gan yr Arglwydd a'r rhai y gellir eu diwygio a'u haileni: ond gwahanol yw gyda y rhai nas gellir eu diwygio a'u haileni: unir ysbrydion da â'r cyfryw hefyd, ond yn unig i'w cadw gymaint ag a ellir rhag drwg: ond eu hundeb uniongyrchol sydd â'r ysbrydion drwg, tebyg iddynt eu hunain, ac yn dal cymundeb âg uffern. Os byddant yn caru eu hunain, neu yn caru elw, neu yn caru dial, neu yn caru godineb, y mae ysbrydion tebyg yn bresenol, ac fel yn preswylio, yn eu serchiadau drwg: mor bell nas gellir cadw dyn oddiwrth ddrwg gan ysbrydion da, ysbrydion drwg a'i henyn, ac i'r graddau y ffyna chwant, glynant wrtho heb gilio. Felly y mae dyn drwg yn un âg uffern, a dyn da yn un a'r nefoedd.

296. Y rheswm fod yr Arglwydd yn rheoli dyn trwy ysbrydion yw, am nad yw yn nhrefn y nefoedd: canys genir ef i ddrygau uffern, ac o ganlyniad i ystad hollol groes i ddwyfol drefn; y mae





angen, gan hyny, ei adferyd i drefn, ac nis gellir gwneyd hyn ond trwy gyfrwng ysbrydion. Buasai yn wahanol pe ganesid dyn i ddaioni, sef yn ol trefn y nefoedd: yna ni reolid ef gan yr Arglwydd trwy ysbrydion, ond trwy drefn ei hun, ac felly trwy ddylifiad cyffredinol. Rheolir dyn gan y dylifiad hwn yn y pethau hyny a ddeilliant o'i feddwl a'i ewyllys i weithred, megis ei leferydd a'i actau, y rhai a lifant yn ol trefn naturiol. Nid yw yr ysbrydion sydd gyda dyn, gan hyny, yn un ag ef yn y pethau hyn. Rheolir anifeiliaid hefyd gan ddylifiad cyffredinol o'r byd ysbrydol, oblegid eu bod yn nhrefn eu bywyd, yr hon na allant wyro na dystrywio, am nad oes ganddynt reswm. Beth yw y gwahaniaeth rhwng dynion ac anifeiliaid a welir uchod (r. 39).

297. Sylwer yn mhellach am undeb y nefoedd a'r hil ddynol, fod yr Arglwydd ei Hun yn llifo i fewn i bob dyn, yn ol trefn y nefoedd, i'w egwyddorion mwyaf mewnol ac allanol, gan ei barotoi i dderbyn y nefoedd, a rheoli ei bethau mwyaf allanol o'r mwyaf mewnol, a'r mwyaf mewnol o'r mwyaf allanol, ac felly yn cadw pob peth perthynol iddo mewn cysylltiad â'u gilydd. Y dylifiad hwn o eiddo yr Arglwydd a elwir dylifiad uniongyrchol: ond y dylifiad arall, yr hwn a effeithir trwy gyfrwng ysbrydion, a elwir dylifiad cyfryngol: yr olaf a fodola trwy y blaenaf. Dylifiad uniongyrchol, yr hwn sydd o'r Arglwydd ei hun, a ddeillia o'i Ddynoliaeth Ddwyfol i ewyllys y dyn, a thrwy ei ewyllys i'w ddeall: felly llifa i'r daioni yn y dyn ac o'r daioni i'r gwirionedd dardd o hono, neu yr hyn sydd yr un peth, i'w gariad, a thrwy ei gariad i'w ffydd: nid yw yn llifo yn y gwrthwyneb: llai byth y llifa i ffydd heb gariad, neu i wirionedd heb ddaioni, neu i unrhyw ran o'r deall nad yw yn tarddu o'r ewyllys. Y dylifiad Dwyfol hwn sydd barhaus, a derbynir Ef yn ddaioni gan y da, ond nid gan y drwg; canys y drwg a'u gwrthodant, a'u mogant neu a'u gwyrdroant. Felly eu bywyd sydd ddrwg, yr hyn yn yr ystyr ysbrydol, yw angeu.

298. Yr ysbrydion presenol gyda dyn, y rhai sydd yn un a'r nefoedd, a'r rhai sydd yn un âg uffern, ni lifant byth i ddyn o'u côf, ac felly, o'u meddwl eu hunain, pe felly nis gallai dyn wybod llai nad ei feddyliau ef yw eu meddyliau hwy, fel y gwelir uchod, r. 256: ond teimlad yn tarddu o gariad at ddaioni a gwirionedd a lifa i fewn trwyddynt o'r nefoedd: a theimlad yn tarddu o gariad at ddrwg ac anwiredd a lifa i fewn trwyddynt o uffern. I'r graddau gan hyny y cytuna teimlad dyn a'r hyn lifa i fewn, efe a'i derbyn i'w feddwl, am fod meddwl mewnol dyn yn cydgordio yn berffaith a'i deimlad neu ei gariad: ond i'r graddau na chytuna ni wna ei dderbyn. Gan nad oes meddyliau yn llifo i ddyn oddiwrth ysbrydion, ond yn unig teimlad o ddaioni a theimlad o ddrwg, amlwg fod gan ddyn ddewisiad, oblegid fod ganddo ryddid, ac

felly gall dderbyn daioni â'i feddwl, a gwrthod y drwg: canys gwyr beth sydd dda a pheth sydd ddrwg o'r Gair. Yr hyn a dderbynia yn ei feddwl oddiar serch a briodolir iddo hefyd: ond yr hyn na dderbynia yn ei feddwl oddiar serch, ni phriodolir iddo. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn gellir gweled yn glir natur dylifiad daioni o'r nefoedd, a drwg o uffern, i ddyn.

299. Caniatawyd i mi wybod o ba le y daw pryder a gofid i ddyn, a'r tristwch mewnol a elwir Pruddglwyf. Rhai ysbrydion heb fod eto yn un âg uffern, am eu bod yn eu hystad gyntaf, y rhai a ddesgrifir pan soniwn am fyd yr ysbrydoedd, carant bethau anhreuliedig a gwenwynol, megis bwydydd mewn ystad o lygredigaeth yn y cylla: am hyny pan fyddo y fath bethau yn y dyn, y maent yn bresenol, am eu bod yn eu hoffi, ac ymddiddanant yno â'u gilydd o'u hanian ddrwg. Y teimlad yn eu hymddiddanion a lifa i'r dyn, ac os yn groes i'w deimlad ef, crea bruddglwyf, tristwch, a phryder: ond os yn cytuno a'i deimlad, crea lawenydd a sirioldeb. Yr ysbrydion hyn a ymddangosant yn agos i'r cylla, rhai ar yr aswy, rhai ar y dde, rhai islaw, a rhai uwchlaw, rhai hefyd yn agos a rhai yn mhell: amrywiol ydynt, felly, yn ol eu serchiadau. Mae hyn yw tarddiad pryder meddwl a sicrhawyd i mi trwy lawer o brofiad; canys gwelais y fath ysbrydion, clywais hwynt, teimlais bryderon oddiwrthynt, a siaredais â hwynt. Pan yrid hwynt ymaith, darfyddai y pryder: a phan ddychwelent, dychwelai y pryder, canfyddwn hefyd ei fod yn cynyddu neu leihau yn ol eu hagosrwydd neu eu pellder. Oddiyma gwelais hefyd y gred goledda rhai na wyddant beth yw cydwybod, am nad oes ganddynt un eu hunain, fod ei gwasgfeuon yn codi o anhreuliad y cylla.

300. Nid yw undeb y nefoedd â dyn yr un fath ag undeb dyn â dyn, ond undeb yw â mewnolion ei feddwl, sef a'i ddyn ysbrydol a mewnol. Y mae undeb hefyd a'i ddyn naturiol neu allanol trwy gyfrwng cyfatebion, ond am yr undeb hwn ni a ddywedwn ragor pan lefarwn am undeb y nefoedd â dyn trwy y Gair.

301. Dangosir hefyd yn y benod nesaf fod undeb y nefoedd â'r hil ddynol, a'r hil ddynol â'r nefoedd, o'r fath natur fel y mae y naill yn bodoli o'r llall.

302. Siaredais âg angylion am yr undeb rhwng y nefoedd â'r hil ddynol, a dywedais wrthynt fod aelodau yr Eglwys yn dweyd fod pob da o Dduw: a bod angylion yn bresenol gyda dyn: ond mae ychydig sydd yn gwir gredu fod angylion yn un a dyn, a llai byth eu bod yn ei feddwl a'i serch. Yr angylion a attebasant y gwyddant fod y fath ddiffyg ffydd, ac hefyd y fath ddull o siarad yn ffynu yn y byd, ac yn neillduol o fewn yr Eglwys: eu bod yn synu at hyn, oblegid fod y Gair gan rai yn yr Eglwys, yn dysgu am y nefoedd a'i hundeb â dyn: a bod natur yr undeb hwn y fath nas gall dyn feddwl y peth lleiaf heb fod ysbrydion yn un âg ef, a





bod ei fywyd ysbrydol, gan hyny, yn dybynu ar yr undeb hwn. Dywedasant hefyd fod yr anwybodaeth yma yn codi o'r gred fod dyn yn byw o hono ei hun, heb gysylltiad âg Achos Cyntaf Bywyd: ac heb wybod fod y cysylltiad hwnw yn cael ei effeithio trwy y nefoedd, a phe ei torid, syrthiai dyn yn farw ar unwaith: pe credai dyn yn sylweddol y gwirionedd fod pob da o'r Arglwydd, a phob drwg o uffern, na honai deilyngdod iddo ei hun ar gyfrif ei ddaioni, ac na chyfrifid drwg iddo: canys yna yn mhob meddwl a gweithred dda efe a edrychai at yr Arglwydd, a phob drwg yn llifo i fewn a deflid ganddo i uffern, o'r lle y daeth: ond gan nad yw dyn yn credu fod dylifiad o'r nefoedd, a chan ei fod, gan hyny, yn tybied fod pob peth a feddylia ac a ewyllysia ynddo ei hun ac o hono ei hun, efe a briodola iddo ei hun ddrwg o uffern, a'r daioni a lifa fewn o'r nefoedd a haloga efe â syniad o'i deilyngdod ei hun.

### Undeb y Nefoedd a Dyn trwy y Gair.

303. Y rhai a feddyliant oddiar reswm mewnol a allant weled fod pob peth yn dal cysylltiad a'r Achos Cyntaf, trwy gyfryngau, a pha beth bynag nad yw yn gysylltiedig fel hyn a chwelir: canys gwyddant, pan feddyliant, nas gall dim gynal ei hun, ond fod pob peth yn cael ei gynal o'r hyn sydd o'i flaen, ac felly, o'r Achos Cyntaf: a bod cysylltiad unrhyw beth â pheth o'i flaen yn gyffelyb i gysylltiad effaith a'i achos effeithiol: canys pan symudir yr achos effeithiol oddiwrth yr effaith, yr effaith a chwelir, ac a syrthia yn ddim. Gan fod dysgedigion wedi meddwl yn y modd hwn, y maent wedi gweled a datgan mae bodolaeth barhaol yw cynaliaeth: ac felly, gan fod pob peth yn bodoli yn wreiddiol o'r Achos Cyntaf, o hono ef hefyd y parhant i fodoli, sef y cânt eu cynal: ond natur y cysylltiad rhwng pob peth a'r hyn sydd o'u blaen, ac felly a'r Achos Cyntaf, o'r Hwn y mae pob peth, nis gellir ei egluro ar fyr eiriau, am ei fod yn amryw a gwahanol. Nis gellwn ond dweyd yn gyffredinol fod cysylltiad rhwng pob peth yn y byd naturiol a phob peth yn y byd ysbrydol, ac oddiwrth hyn, fod cyfatebiaeth rhwng pob peth yn y byd naturiol a phob peth yn y byd ysbrydol, am y fath gyfatebiaeth gwel r. 103—115: ac hefyd fod cysylltiad, ac felly cyfatebiaeth, rhwng pob peth perthynol i ddyn a phob peth perthynol i'r nefoedd, am yr hyn hefyd gwel uchod, r. 87—102.

304. Crewyd dyn y fath, fel y mae cysylltiad ac undeb rhyngddo a'r Arglwydd, ond cymdeithas yn unig rhyngddo a'r angylion. Y rheswm mai cymdeithas ac nid undeb sydd rhwng dyn a'r angylion yw, oblegid fod dyn, trwy greadigaeth, fel angel o ran mewnolion ei feddwl: canys y mae ewyllys a deall dyn yn debyg i ewyllys a deall angel: am hyny, wedi angeu, os bu byw yn ol

dwyfol drefn, bydd yn angel ac yn meddu doethineb fel yr angylion. Pan siaradwn, gan hyny, am undeb dyn â'r nefoedd, meddyliwn ei undeb â'r Arglwydd, ac hefyd ei gymdeithas a'r angylion; canys nid yw y nefoedd yn nefoedd oddiwrth ddim a berthyn i'r angylion, ond o Ddwyfoldeb yr Arglwydd. Mai Dwyfoldeb yr Arglwydd wna y nefoedd a welir uchod, r. 7—22. Y mae gan ddyn yr hyn nad oes gan angylion, sef, nid yn unig ei fod yn bodoli yn y byd ysbrydol o ran ei fewnolion, ond ei fod hefyd ar yr un pryd yn y byd naturiol o ran ei allanolion. Ei allanolion yn y byd naturiol yw pob peth a berthyn i'w gôf naturiol neu allanol, y rhai ydynt destunau meddwl a dychymyg: yn gyffredinol, ei feddyliau a'i wybodaethau, a'r hyfrydwch a'r pleser ynddynt, mor bell ag y byddont o'r byd; yn nghyd âg amrywiol bleserau yn perthyn i synwyrau a chynheddfau y corff: ac hefyd y synwyrau eu hunain, y lleferydd, a'r gweithredoedd. Y rhai hyn oll yw y pethau isaf yn y rhai y mae dylifiad Dwyfol yr Arglwydd yn terfynu; canys nid yw yn aros yn y canol, ond yn cerdded i'r gradd isaf: oddiwrth hyn amlwg yw mai gradd isaf Dwyfol Drefn yw dyn; a chan mai efe yw y gradd isaf, efe yw y gwaelod a'r sylfaen. Nid yw dylifiad Dwyfol yr Arglwydd, fel y dywedwyd, yn aros yn y canol, ond yn cerdded i'r gradd isaf: y canol trwy yr hwn y cerdda yw y nef angylaidd, a'r gradd isaf sydd yn y dyn: a chan nas gall dim di-gysylltiad fodoli, y mae yn canlyn fod y cysylltiad a'r undeb rhwng y nefoedd a'r hil ddynol o'r fath natur fel ag y mae y naill yn bodoli o'r llall: ac fel hyn buasai yr hil ddynol heb y nefoedd fel cadwyn wedi colli dolen: a'r nefoedd heb yr hil ddynol fel tŷ heb sylfaen.

305. Gan i ddyn dori y cysylltiad hwn rhyngddo a'r nefoedd, trwy droi ei fewnolion oddiwrth y nefoedd ato ei hun a'r byd, trwy hunan a bydol gariad, ac felly symud ei hun fel nas gall yn hwy wasanaethu fel gwaelod a sylfaen i'r nefoedd, am hyny, darparwyd gan yr Arglwydd gyfrwng yn ei le fel gwaelod a sylfaen y nefoedd, ac hefyd i gadw undeb rhwng y nefoedd a dyn. Y Cyfrwng hwn yw y Gair. Y modd y gwasanaetha y Gair fel cyfrwng a ddangoswyd yn helaeth yn yr Arcana Coelestia: gwelir y rhanau wedi eu casglu at eu gilydd yn y llyfr bychan Ar y March Gwyn yn y Datguddiad: ac hefyd yn yr Attodiad yn y llyfr ar y Jerusalem Newydd a'i Hathrawiaeth Nefol.

306. Hysbyswyd fi o'r nefoedd fod y bobl henaf gynt yn cael datguddiadau uniongyrchol, oblegid fod eu mewnolion yn troi tua'r nefoedd: a bod undeb rhwng yr Arglwydd a'r hil ddynol yr amser hwnw mewn canlyniad. Ond wedi hyny peidiodd datguddiad uniongyrchol, a daeth datguddiad anuniongyrchol trwy gyfatebion ar ei ol: addoliad Dwyfol y bobl hyn oedd oll o gyfatebion, a'u heglwysi a elwid yn eglwysi arddangosiadol. Canys





gwyddent beth oedd cyfatebiaeth ac arddangosiad, a bod pob peth yn y byd yn cyfateb i bethau ysbrydol yn y nef a'r eglwys, neu yr hyn sydd yr un peth, eu bod yn eu harddangos: ac, am hyny, y pethau naturiol, sef allanolion eu haddoliad, a wasanaethent fel cyfryngau i feddwl yn ysbrydol, ac felly i'w huno a'r angylion. Wedi dileu gwyddor cyfatebion ac arddangosiadau, ysgrifenwyd y Gair, yn yr hwn y mae yr holl eiriau, ac ystyr y geiriau yn mhob brawddeg, yn gyfatebion, ac am hyny yn cynwys ystyr fewnol ac ysbrydol, dealladwy i'r angylion. Pan fyddo dyn, gan hyny, yn darllen y Gair, a'i ddeall yn ol ystyr y lythyren, sef yr ystyr allanol, yr angylion a ganfyddant yr ystyr fewnol, neu ysbrydol: canys y mae holl feddwl angylion yn ysbrydol, ond meddwl y dyn naturiol yw: ac er fod meddwl ysbrydol a naturiol yn ymddangos yn dra gwahanol, eto ffurfiant un, oblegid eu bod yn cyfateb. Pan symudodd dyn ei hun gan hyny o'r nefoedd, a thori y rhwymyn undeb, darparodd yr Arglwydd gyfrwng undeb newydd, trwy y Gair.

307. Egluraf, trwy ychydig ddyfyniadau, y modd y mae y nefoedd yn un â dyn trwy y Gair. Desgrifir y Jerusalem Newydd yn y Datguddiad yn y geiriau hyn: "Ac mi a welais nef newydd a daear newydd: canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio: A myfi Ioan a welais y ddinas Sanctaidd, Jerusalem Newydd, yn dyfod oddiwrth Dduw i waered o'r nef. A'r ddinas sydd wedi ei gosod yn bedair-ongl, a'i hyd sydd gymaint a'i lled. A'r angel a fesurodd y ddinas a'r gorsen, yn ddeuddeng mil o ystadau. A'i hyd, a'i lled, a'i huchder, sydd yn ogymaint. Ac efe a fesurodd ei mur hi yn gant a phedwar cyfudd a deugain, wrth fesur dyn, hyny yw, eiddo yr angel: ac adeilad ei mur hi oedd o faen Jaspis: a'r ddinas oedd aur pur, yn debyg i wydr gloyw. A seiliau mur y ddinas oedd wedi eu harddu â phob rhyw faen gwerthfawr. A'r deuddeg porth, deuddeg perl oeddynt: a heol y ddinas oedd aur pur fel gwydr gloyw." Pen. xxi. 1, 2, 16—19, 21. Pan ddarlleno dyn y geiriau hyn, a'u deall yn ol ystyr y llythyren yn unig, efe a dybia fod y nef a'r ddaear weledig i ddiflanu: y creir nefoedd newydd: y disgyna y ddinas Sanctaidd Jerusalem i'r ddaear newydd, ac y bydd ei holl fesurau yn ateb yn gywir i'r desgrifiad hwn: Ond yr angylion presenol gyda dyn a ddeallant y geiriau yn hollol wahanol, oblegid eu bod yn deall yn ysbrydol, yr hyn y mae dyn yn ddeall yn naturiol. Wrth nef newydd a daear newydd y deallant hwy Eglwys Newydd. Wrth y ddinas Jerusalem yn dyfod i waered o'r nef oddiwrth Dduw,—y deallant athrawiaeth nefol Yr Eglwys hono yn cael ei datguddio gan yr Arglwydd. Wrth yr hyd, y lled a'r uchder yn gymaint a'u gilydd, a phob un o honynt yn ddeuddeng mil o ystadau, y deallant holl ddaioni a gwirionedd yr athrawiaeth hono yn un cyfan-

gorff. Wrth y mur y deallant y gwirioneddau amddiffynol. Wrth fesur y mur yn gant a phedwar cyfudd a deugain, wrth fesur dyn, hyny yw, eiddo yr angel, y deallant gyfanswm yr holl wirioneddau amddiffynol, ac hefyd eu hansawdd. Wrth y deuddeg porth y rhai oeddent ddeuddeg perl, y deallant y gwirioneddau arweiniol: perlau hefyd a arwyddant wirioneddau. Wrth seiliau y mur o bob rhyw faen gwerthfawr, y deallant y gwybodaethau y sylfaenir yr athrawiaeth arnynt. Wrth yr aur fel gwydr gloyw yn cyfansoddi y ddinas a'i heol, y deallant y daioni yn codi o gariad, yn gwneyd yr athrawiaeth a'i gwirioneddau yn dryloew. Felly yr angylion a ddeallant yr holl eiriau hyn yn hollol wahanol i ddyn: am fod syniadau naturiol dyn yn myned yn syniadau naturiol gyda'r angylion, heb eu bod yn gwybod dim o ystyr lythrenol y Gair: megis nef newydd a daear newydd, y ddinas newydd Jerusalem, ei mur, a seiliau ei mur a'i fesurau: er hyny y mae meddyliau angylion yn myned yn un â meddyliau dyn, oblegid eu bod yn cyfateb: ffurfiant un yn dra thebyg i eiriau y llefarwr, a'r dealltwriaeth o honynt gan y gwrandawr, tra heb sylwi ar y geiriau, ond yn unig ar eu hystyr. Oddiwrth yr esiampl hon ymddengys pa fodd y mae y nefoedd yn un â dyn trwy y Gair. Cymerwn esiampl arall:—"Ar dydd hwnw y bydd prif ffordd o'r Aifft i Assyria, ac yr â yr Assyriaid i'r Aifft, a'r Aifftiaid i Assyria: a'r Aifftiaid gyda'r Assyriaid a wasanaethant. Y dydd hwnw y bydd Israel yn drydydd gyd â'r Aifft, a chydag Assyria, sef yn fendith o fewn y tir: Yr hwn a fendithia Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd, Bendigedig yw yr Aifft fy mhobl i, ac Assyria gwaith fy nwylaw, ac Israel fy etifeddiaeth," Isaiah xix, 23—25. Y modd y meddylia dyn, a'r modd y meddylia angylion, wrth ddarllen y geiriau hyn, a welir oddiwrth ystyr lythrenol y Gair, ac oddiwrth ei ystyr fewnol. Meddylia dyn o'r ystyr lythrenol fod yr Aifftiaid a'r Assyriaid i gael eu dychwelyd at Dduw a'u derbyn, a'u gwneyd yn un â chenedl Israel; ond meddylia yr angylion o'r ystyr fewnol, am ddyn yr Eglwys Ysbrydol, yr hwn a ddesgrifir yn yr ystyr hono—ei feddwl ysbrydol yw Israel, ei feddwl naturiol yw yr Aifft, a'i feddwl rhesymol, rhwng y ddau, yw Assyria. Yr ystyr lythrenol ac ysbrydol a wnant un, am eu bod yn cyfateb i'w gilydd, am hyny pan fyddo yr angylion yn meddwl yn ysbrydol â dyn yn naturiol, y maent yn un bron fel yr enaid a'r corff; canys ystyr fewnol y Gair yw ei enaid, a'r ystyr lythrenol yw ei gorff. Y fath yw y Gair drwyddo, felly amlwg yw fod y Gair yn gyfrwng undeb rhwng y nefoedd a dyn, a bod yr ystyr lythrenol yn gwasanaethu fel gwaelod a sylfaen yr undeb hwn.

308. Pobl tu allan i'r Eglwys, ac heb y Gair, er hyny a unir â'r nefoedd trwy y Gair, canys y mae Eglwys yr Arglwydd yn gyffredinol, ac yn cynwys pawb sydd yn cydnabod Duw, ac yn byw





mewn cariad. Addysgir y cyfryw ar ol angeu gan ysbrydion, pryd y derbyniant wirioneddau Dwyfol. Gwelir rhagor ar hyn isod mewn penod neillduol ar y Cenhedloedd. Yr Eglwys gyffredinol ar y ddaear, fel y nefoedd gyffredinol, sydd fel un dyn yn ngolwg yr Arglwydd: dangoswyd uchod fod y nefoedd gyffredinol fel un dyn, r. 59—72. Yr Eglwys sydd yn meddu y Gair ac yn adnabod yr Arglwydd trwy y Gair, tebyg yw i'r galon a'r ysgyfaint yn y dyn: a chan fod holl berfeddion ac aelodau yr holl gorff yn derbyn bywyd o'r galon a'r ysgyfaint mewn amryw ffyrdd, felly hefyd y rhan honno o'r hil ddynol sydd allan o'r Eglwys lle y mae y Gair, ac yn cyfansoddi aelodau y dyn hwnw, derbynia fywyd o'r Eglwys sydd yn meddu y Gair. Undeb y nefoedd trwy y Gair a'r rhai sydd bell o'r Eglwys sydd debyg i'r goleuni yn ymledaenu o'r canolbwynt i bob cyfeiriad: y mae goleuni Dwyfol yn y Gair, ac y mae yr Arglwydd a'r nefoedd yn y goleuni hwnw, ac o hono yn goleuo y rhai sydd bell. Gwahanol fuasai pe na byddai y Gair yn bod. Gellir egluro y gwirioneddau hyn yn mhellach trwy yr hyn a ddywedwyd am ffurf y nefoedd, yn ol yr hon y bodola yr holl gymdeithasau a'r cymundebau angylaidd (r. 200—212). Gall rhai mewn goleuni ysbrydol amgyffred y dirgelwch hwn, ond nis gall rhai mewn goleuni naturiol ei amgyffred: canys rhai mewn goleuni ysbrydol a welant yn glir bethau aneirif, nas gwelir gan rai mewn goleuni naturiol yn unig, neu os eu gwelir, ymddangosant megis un gwrthrych aneglur.

309. Pe na roddasid Gair o'r fath ar y ddaear hon, ysgerid rhwng y trigolion a'r nefoedd, ac ni buasent fodau rhesymol yn hwy: am fod gallu rhesymol dyn yn bodoli o ddylifiad goleuni o'r nefoedd. Nid yw dynion y ddaear hefyd yn addas i dderbyn datguddiad uniongyrchol, a chael eu dysgu trwyddo am wirioneddau Dwyfol, fel trigolion daearfydoedd ereill, a ddesgrifir genyf mewn llyfr (o'r enw "Am y Daearfydoedd yn ein Cysawd Heulaidd, &c., a chyfrif am eu trigolion, o'r hyn a welwyd ac a glywyd"): canys yr ydym ni yn ddyfnach mewn pethau bydol ac allanol na hwy, a phethau mewnol sydd yn derbyn datguddiad: pe datguddid y gwirionedd i rai mewn pethau allanol, nis gallent ei ddeall. Mai y fath yw cymeriad dynion ar y ddaear hon, sydd amlwg oddiwrth rai yn yr Eglwys, er eu dysgu o'r Gair am nefoedd ac uffern, a'r bywyd ar ol angeu, eto gwadant hwynt yn eu calonau; o'r dosbarth hwn, ceir rhai enwog am eu dysg, y gellid dysgwyl y byddent ddoethach nag ereill.

310. Bum weithiau yn ymddiddan â'r angylion am y Gair, a dywedwn wrthynt fod rhai yn ei ddiystyru ar gyfrif ei arddull syml; na wyddir dim am ei ystyr fewnol, ac felly nad oes neb yn credu fod y fath ddoethineb ddyrchafedig yn gorwedd yn guddiedig ynddo. Attebai yr angylion, er fod arddull y Gair yn syml

yn yr ystyr llythrenol, ei fod y fath er hyny, mewn ardderchawgrwydd nad oes dim i'w gydmaru iddo, oblegid fod doethineb ddwyfol yn guddiedig ynddo, nid yn unig yn mhob brawddeg, ond yn mhob gair: a bod y nefoedd yn cael goleuni o'r ddoethineb hono. Dymunent ddweyd mai goleuni y nefoedd yw, oblegid ei fod yn Wirionedd Dwyfol: gan fod Gwirionedd Dwyfol yn ymddangos yn y nefoedd fel goleuni—gwel uchod, r. 132. Dywedent hefyd, mai heb y fath Air na chawsai trigolion daear oleuni o'r nefoedd, ac nas gellid uno y nefoedd â hwy: am fod yr undeb hwnw yn bodoli i'r graddau y byddo goleuni y nefoedd gyda dyn, ac i'r un graddau y byddo Gwirionedd Dwyfol yn ddatguddiedig iddo trwy y Gair. Ni ŵyr dyn fod yr undeb hwn yn cael ei ffurfio trwy gyfatebiaeth ystyr ysbrydol y Gair â'r ystyr lythrenol, oblegid na ŵyr trigolion y ddaear hon ddim am feddwl a lleferydd ysbrydol yr angylion, a'u bod yn wahanol i feddwl a lleferydd naturiol dynion; ond heb wybod hyn, anmhosibl amgyffred ystyr fewnol y Gair, ac felly, ganfod y ffurfir y fath undeb drwyddo. Dywedent hefyd, pe gwyddai dyn fod y fath ystyr, ac wrth ddarllen y Gair, pe gadawai ei feddyliai i fod dan ddylanwad y fath wybodaeth, y deuai i ddoethineb fewnol, ac i undeb agosach fyth â'r nefoedd, oblegid fel hyn efe a ddaethai i syniadau tebyg i eiddo yr angylion.

### Fod Nefoedd ac Uffern yn cael eu ffurfio o'r Hil Ddynol.

311. Hollol anwybodus yw y byd Cristionogol, fod nefoedd ac uffern yn cael eu ffurfio o'r hil ddynol, canys credir fod angylion wedi eu creu y fath o'r dechreuad, ac mai hyn oedd tarddiad y nefoedd; ac mai angel goleuni oedd diafol neu Satan, a daflwyd i lawr o'r nefoedd gyda'i ganlynwyr, oherwydd gwrthryfel, ac mai hyn oedd tarddiad uffern. Syna yr angylion yn fawr fod y fath ffydd yn ffynu yn y byd Cristionogol, ac yn neillduol na wyddir dim am y nefoedd, er fod ei bodolaeth yn un o brif athrawiaethau yr Eglwys. Gan fod y fath anwybodaeth yn ffynu, llawenha yr angylion o galon fod yr Arglwydd yn gweled yn dda ddatguddio llawer o bethau yn awr i ddynion am y nefoedd ac am uffern, ac felly, mor bell y gellir, ymlid y tywyllwch sydd beunydd ar ei gynydd, oblegid fod yr Eglwys wedi dyfod i'w diwedd. Dymunant arnaf, gan hyny, fynegi o'u genau hwy, nad oes un angel yn y nefoedd gyffredinol a grewyd felly o'r dechreuad, nac un diafol yn uffern a grewyd yn angel goleuni ac wedi hyny a daflwyd i lawr yno: ond mai o'r hil ddynol y mae pawb sydd yn y nef ac yn uffern; mai dynion wedi byw yn y byd mewn ffydd a chariad nefol yw yr angylion, ac mai dynion wedi byw yn y byd mewn ffydd a chariad uffernol yw y cythreuliaid; ac mai uffern yn y





cyfangorff yw yr hyn a elwir Diafol a Satan: y term Diafol a ddynoda yr uffern sydd o'r tu ol, lle y mae y rhai a elwir y *Genii* drwg; a'r term Satan ddynoda yr uffern sydd o'r tu blaen, lle y mae y rhai a elwir ysbrydion drwg. Desgrifir ansawdd pob un o'r uffernoedd hyn yn y tudalenau canlynol. Dywedodd yr angylion yn mhellach, fod y byd Cristionogol yn synied fel hyn am drigolion y nefoedd ac am drigolion uffern oddiwrth rai rhanau o'r Gair, yn cael eu deongli yn ol yr ystyr llythrenol yn unig, heb eu hegluro a'u hagor â gwir athrawiaeth o'r Gair: tra ystyr lythrenol y Gair, heb oleu gwir athrawiaeth, â dyn y meddwl o'r neilldu at amryw opiniwnau, ac felly achlysura anwybodaeth, heresiau, a chyfeiliornadau.

312. Rheswm arall dros y gred hon mewn aelodau Eglwysig yw, eu tyb nad aiff neb i'r nefoedd neu i uffern cyn amser y Farn ddiweddaf, pan y dychmygant y bydd pob peth gweledig yn diflanu, a phethau newydd yn eu lle; ac y dychwel yr enaid y pryd hwnw i'r corff, ac y bydd byw drachefn fel dyn yn rhinwedd yr aduniad. Y gred hon a gynwys y llall, fod angylion wedi eu creu fel y cyfryw o'r dechreuad; canys nis gellir credu fod nefoedd ac uffern yn tarddu o'r hil ddynol, tra y tybir nad oes un dyn yn myned i'r nefoedd cyn diwedd y byd. Ond fel y dangosid yn amgen i ddynion, caniatawyd i mi gymdeithasu âg angylion, ac hefyd siarad â thrigolion uffern, am lawer o flynyddoedd: weithiau yn ddibaid o foreu hyd hwyr, ac felly y cefais wybodaeth am nefoedd ac uffern. Caniatawyd y profiad hwn i mi er atal aelodau yr Eglwys i barhau yn hwy yn eu cred gyfeiliornus am adgyfodiad yn nydd y farn, ystad yr enaid yn y cyfamser, a natur angylion a'r diafol; y gred hon, sef cred mewn twyll, a sudda y meddwl mewn tywyllwch, a chyda rhai yn meddwl ar y pethau hyn oddiar ddeall yn tarddu o hunanoldeb, gyr hwynt i amheu, ac yn y diwedd i wadu: canys dywedant yn eu calonau, "Pa fodd y gall nefoedd mor eang, a'r fath fyrddiynau o sêr, a'r haul a'r lloer gael eu dystrywio a'u chwalu? A pha fodd y gall y sêr syrthio o'r nefoedd i'r ddaear a hwythau gymaint yn fwy na'r ddaear? A pha fodd y gall cyrff wedi eu bwyta gan bryfed, eu difa gan lygredigaeth, a'u chwalu i bob gwynt, eu cydgasglu eto a'u hailuno a'r eneidiau? Pa le y mae yr enaid yn y cyfamser, a pha fath beth yw wedi ei amddifadu o'r synhwyrau feddai pan yn y corff?" Heb son am lawer o ofyniadau ereill tebyg, yn perthyn i osodiadau anamgyffredadwy: ond nis gall pethau anamgyffredadwy fod yn wrthrychau ffydd, ac yn fynych dystrywiant bob ffydd yn mywyd yr enaid ar ol marw, bodolaeth nefoedd ac uffern, a'r athrawiaethau ereill perthynol i ffydd yr Eglwys. Eu bod wedi dystrywio ffydd sydd eglur oddiwrth y rhai a ddywedant, "Pwy erioed a ddaeth o'r nefoedd i'n sicrhau o'i bodolaeth? Beth yw uffern os oes y fath

le? Beth feddylir wrth fod dyn yn cael ei boeni mewn tân tragwyddol? Beth yw dydd y Farn? Oni ddysgwylwyd yn ofer am dano dros oesau lawer? Yn nghyd â llawer o bethau tebyg yn cynwys gwadiad o'r oll. Rhag, gan hyny, i rhai yn coledd y fath syniadau, fel y gwna llawer oddiar ddoethineb fydol yn cael eu galw yn wybodus a dysgedig, rhag iddynt yn hwy aflonyddu a thwyllo y rhai syml o gred a chalon, a dwyn tywyllwch uffernol ar Dduw, y nefoedd, a bywyd tragwyddol, a materion ereill yn dybynu arnynt, agorwyd mewnolion fy ysbryd gan yr Arglwydd, ac felly rhoddwyd i mi gael siarad â phawb wedi iddynt farw o'r rhai a adwaenwn tra yn byw yn y corff. Siaredais â rhai am ddiwrnodau, ac ereill am fisoedd, ac âg ereill am flwyddyn. Siaredais hefyd â thyrfaoedd o rai ymadawedig ereill, na ddywedwn ormod eu bod yn rhifo dros gan' mil, llawer o honynt yn y nefoedd a llawer yn uffern. Siaredais â rhai hefyd ddau ddiwrnod ar ol eu marw, a dywedais wrthynt fod parotoadau yn cael eu gwneyd i'w claddu; dywedent mai iawn oedd gosod ymaith yr hyn a'u gwasanaethodd fel corff a'i weithrediadau yn y byd: a dymunent arnaf ddywedyd nad oeddent farw ond byw, a'u bod yn ddynion fel o'r blaen, ac nad oeddynt ond wedi symud o un byd i'r llall; nad oeddynt yn ymwybodol iddynt golli dim, oblegid eu bod mewn corff yn meddu pob synwyr fel cynt; eu bod yn arfer deall ac ewyllys fel o'r blaen, a bod ganddynt feddyliau a serchiadau, teimladau a dymuniadau tebyg i'r hyn oedd ganddynt yn y byd. Llawer o'r rhai a fuont feirw yn ddiweddar, pan gawsant eu hunain yn fyw fel o'r blaen, ac mewn ystad gyffelyb—canys y mae yr ystad gyntaf ar ol marw yn debyg i'r hyn ydoedd yn y byd, ond newidia yn raddol i'r nef neu i uffern—a deimlent lawenydd newydd, a dywedent nad oeddent wedi credu y fath beth. Synent yn fawr iddynt fyw yn y fath anwybodaeth a dallineb am ystad eu bywyd ar ol marw; a mwy byth fod aelodau yr Eglwys mor anwybodus a dall, pan y gallent hwy, uwchlaw pawb yn y byd wybod y gwirionedd. Yna y gwelsant gyntaf achos eu dallineb a'u tywyllwch, sef fod pethau allanol, perthynol i'r byd a'r corff, yn meddianu a llanw eu meddyliau i'r fath raddau, gan eu hanalluogi i ddyrchafu eu meddyliau i oleuni y nefoedd ac edrych ar bethau yr Eglwys ond fel athrawiaethau yn unig; canys pan y mae pethau corfforol a bydol yn cael eu caru fel y gwneir heddyw, tywyllwch yn unig a lifa o honynt, gan fogi pob syniadau uwch.

313. Niferoedd lawer o ddysgedigion o'r byd Cristionogol a synant pan welant eu hunain, ar ol marw, mewn corff, a dillad am danynt, ac mewn tai, fel yr oeddynt yn y byd; a phan adgofiant yr hyn fuont yn feddwl am y bywyd ar ol marw, am yr enaid, am ysbrydion, ac am nefoedd ac uffern, gorchuddir hwynt â chywilydd, a chyfaddefant iddynt feddwl yn ffol, a bod y syml ei





ffydd yn llawer doethach na hwy. Y dysgedigion a gadarnhasant eu hunain yn y fath syniadau, a phriodoli pob peth i natur, a gawsant eu chwilio, a gwelwyd fod eu mewnolion yn hollol gauedig, a'u hallanolion yn unig yn agored, fel na buont yn edrych i'r nefoedd ond i'r byd, ac o ganlyniad hefyd i uffern; canys i'r graddau y byddo y mewnolion yn agored, yr edrych dyn i'r nefoedd, ond i'r graddau y byddo y mewnolion yn gauedig a'r allanolion yn unig yn agored, efe a edrych i uffern. Cymer hyn le am fod mewnolion dyn wedi eu ffurfio i dderbyn holl bethau y nefoedd, a'r allanolion i dderbyn holl bethau y byd: a'r rhai a dderbyniant y byd heb dderbyn y nefoedd ar yr un pryd a dderbyniant uffern.

314. Fod y nefoedd o'r hil ddynol sydd amlwg hefyd, oblegid fod meddyliau angylaidd a meddyliau dynol yn debyg. Mwynhant fel eu gilydd y gallu i ddeall, canfod ac ewyllysio: ac fel eu gilydd cawsant eu ffurfio i dderbyn y nefoedd. Y meddwl dynol sydd mor addas i dderbyn doethineb a'r meddwl angylaidd, ond ni ddaw mor ddoeth yn y byd, am ei fod mewn corff daearol, a phan yn y corff hwnw, y meddwl ysbrydol a feddylia yn naturiol. Ond wedi i'r meddwl dynol fyned yn rhydd o'r corff, ni feddylia yn naturiol mwy ond yn ysbrydol; a phan feddylia yn ysbrydol, ymeifl mewn pethau anamgyffredadwy ac anrhaethadwy i'r dyn naturiol, ac felly daw yn ddoeth fel angel. Oddiwrth y sylwadau hyn gwelir fod mewnolion dyn, sef ei ysbryd, yn ei hanfod yn angel (gwel uchod, r. 57), ac wedi ei ryddhau o'r corff daearol, ei fod mewn ffurf ddynol fel angel (fod angel mewn ffurf ddynol berffaith, gwel uchod, r. 73—77). Ond pan na byddo natur fewnol dyn yn agored i fynu ond i lawr yn unig, yna, er iddo gadw y ffurf ddynol ar ol marw, ffurf erchyll a deiflig yw: am nas gall edrych i fynu tua'r nefoedd, ond i lawr i uffern.

315. Yr hyddysg o natur Dwyfol Drefn, all ddeall hefyd i ddyn gael ei greu i fod yn angel, am ei fod yn ffurfio gradd isaf neu bellaf trefn (r. 304) lle y gellir ei ffurfio yn ddeiliad doethineb nefol ac angylaidd, yn addas i'w adnewyddu a'i liosogi; canys nid yw Dwyfol Drefn byth yn aros yn y canol ac yn ffurfio bod yno heb y gradd isaf—ni buasai felly yn ei lawnder a'i berffeithrwydd—ond deillia i'r gradd isaf, gan ddechreu ffurfio bodau yno. Yno hefyd yr ymadnewydda, gan roddi genedigaeth i gynyrchion newydd. Gwneir hyn trwy genhedliadau, ac felly y gradd isaf yw Athrofa y Nefoedd.

316. Adgyfododd yr Arglwydd nid yn unig o ran ei ysbryd, ond hefyd o ran ei gorff, oblegid iddo ogoneddu Ei holl Ddynoliaeth pan yn y byd, hyny yw, Efe a'i gwnaeth yn Ddwyfol; canys yr enaid, yr hwn a gafodd o'r Tad, oedd y Duwdod ei Hun, a'i gorff a wnaed yn ddelw yr enaid, hyny yw o'r Tad, ac felly yn Ddwyfol. Efe yn wahanol i bob dyn a adgyfodwyd o ran y corff

a'r enaid: amlygodd hyn hefyd i'r dysgyblion, y rhai a dybient pan welsant Ef iddynt weled ysbryd, canys Efe a ddywedodd: "Edrychwch fy nwylaw a'm traed, mai myfi fy hun ydyw: teimlwch fi, a gwelwch: canys nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod genyf fi," Luc xxiv. 37—39; trwy hyn dangosodd ei fod yn ddyn nid o ran yr ysbryd yn unig, ond o ran y corff hefyd.

317. Fel y gellid gwybod fod dyn yn byw yn ddyn ar ol marw, ac yn myned i'r nefoedd neu i uffern yn ol ei fywyd yn y byd, datguddiwyd llawer o bethau i mi am ystad dyn ar ol marw. Traethir y pethau hyn, mewn trefn, yn y tudalenau canlynol pan ddeuwn i son am Fyd yr Ysbrydoedd.

### Am y Cenhedloedd neu y Bobloedd tu allan i'r Eglwys yn y Nefoedd.

318. Barn gyffredin yw, nas gellir achub y rhai a enir tuallan i'r Eglwys, ac a elwir yn baganiaid a chenhedloedd, am nad yw y Gair ganddynt, ac felly na wyddant am yr Arglwydd, heb yr hwn nid oes iachawdwriaeth. Ond sicr yw y gellir eu hachub, oblegid fod trugaredd yr Arglwydd yn gyffredinol ac yn ymestyn at bob un, oblegid eu bod wedi eu geni yn ddynion fel y rhai o fewn yr Eglwys, nad ydynt ond ychydig mewn cydmariaeth, ac oblegid nad eu bai hwy yw eu bod yn anwybodus o'r Arglwydd. Gall unrhyw un sydd yn meddwl gyda gradd o reswm goleuedig wybod na enir un dyn i uffern, oblegid mai cariad ei hun yw yr Arglwydd, a'i gariad yw Ei ewyllys i achub pawb: am hyny Efe a drefnodd i bawb gael rhyw fath o grefydd, a chydnabod y Bôd Dwyfol, a meddu bywyd mewnol: gan mai byw yn ol egwyddor grefyddol yw byw yn fewnol, oblegid yna yr edrychir ar y Bôd Dwyfol; ac i'r graddau yr edrychir arno Ef, nid edrych dyn i'r byd, ond a ymneilldua oddiwrth y byd, ac felly oddiwrth fywyd y byd, yr hwn sydd fywyd allanol.

319. Fod y Cenhedloedd yn cael eu hachub yn gystal a Christionogion all fod yn hysbys i rai yn deall beth wna y nefoedd mewn dyn, canys yn y dyn y mae y nefoedd, a'r rhai sydd a'r nefoedd ynddynt a ânt i'r nefoedd ar ol marw. Nefoedd yn y dyn yw cydnabod Bôd Dwyfol, a chymeryd ei arweiniad. Y peth cyntaf a mwyaf hanfodol yn yr oll o grefydd yw cydnabod Bôd Dwyfol, ac heb y fath gydnabyddiaeth nid oes grefydd. Athrawiaethau pob crefydd a berthynant i addoliad, canys dysgant yn mha fodd y mae addoli y Bôd Dwyfol, fel âg i wneyd dyn yn gymeradwy ganddo; ac i'r graddau y gwreiddia yr athrawiaethau hyn yn y meddwl, ac y gwna dyn eu caru a'u hewyllysio, yr arweinir ef gan yr Arglwydd. Hysbys yw fod y Cenhedloedd yn byw bywyd moesol yn gystal a Christionogion, a llawer o honynt





yn amgenach. Y mae dynion yn byw yn foesol, naill ai oddiar barch i'r Bôd Dwyfol, neu oddiar barch i farn dynion yn y byd. Ond bywyd moesol oddiar barch i'r Bôd Dwyfol sydd fywyd ysbrydol hefyd. Ac er fod y ddau yn ymddangos yr un fath o faes, y maent yn hollol wahanol o fewn: y naill a achub ddyn, ond y llall ni wna ei achub, oblegid fod yr hwn sydd yn byw bywyd moesol o barch i'r Bôd Dwyfol yn cael ei arwain gan y Duwdod, ond yr hwn sydd yn byw bywyd moesol er mwyn y byd a arweinir ganddo ei hun. Ond eglurir hyn trwy esiampl. Yr hwn ni wna ddrwg i'w gymydog oblegid fod gwneyd drwg yn groes i grefydd, ac felly yn groes i'r Duwdod, a gilia rhag drwg oddiar egwyddor ysbrydol; ond yr hwn ni wna ddrwg i arall oherwydd ofn cyfraith yn unig, neu golli parch, anrhydedd neu elw, sef er ei fwyn ei hun a'r byd, efe a gilia rhag drwg oddiar egwyddor anianol yn unig, ac a arweinir ganddo ei hun. Anianol yw bywyd yr olaf, ond ysbrydol yw bywyd y blaenaf. Y dyn sydd a'i fywyd moesol yn ysbrydol, y mae ganddo y nefoedd ynddo ei hun; ond nid yw y nefoedd yn y dyn sydd a'i fywyd moesol yn fywyd anianol yn unig; y rheswm yw, oblegid fod y nefoedd yn llifo i fewn oddiuchod, ac yn agor mewnolion dyn, a thrwy ei fewnolion yn llifo i'w allanolion: tra y byd yn llifo i fewn oddi-isod, ac yn agor yr allanolion, ond nid y mewnolion: canys nid oes ddylifiad o'r byd naturiol i'r ysbrydol, ond o'r byd ysbrydol i'r naturiol; felly, os na dderbynir y nefoedd gyda'r byd, y mewnolion a gauant. Oddiwrth hyn gwelir pwy sydd yn derbyn y nefoedd ynddynt eu hunain, a phwy na dderbyniant. Ond nid yw y nefoedd yr un peth yn mhob un, canys gwahaniaetha yn mhob un yn ol ei gariad at ddaioni ac at y gwirionedd dardd o hono. Y rhai a garant ddaioni er mwyn y Bôd Dwyfol, a garant wirionedd dwyfol; canys y mae daioni a gwirionedd yn caru eu gilydd, ac yn dymuno bod yn un; am hyny, er nad yw y Cenhedloedd yn gyfarwydd â gwirioneddau pur yn ystod eu bywyd yn y byd, derbyniant hwynt oddiar egwyddor o gariad yn y byd arall.

320. Rhyw ysbryd o blith y cenhedloedd, yr hwn a fu byw yn y byd yn y daioni a gyfyd o gariad yn ol ei gredo grefyddol, a glywodd ryw ysbrydion Cristionogol yn rhesymu yn nghylch erthyglau ffydd, canys y mae ysbrydion yn rhesymu yn llawer mwy manwl a chyflawn na dynion, yn arbenig am ddaioni a gwirionedd. Efe a synodd i'w clywed yn dadleu yn y fath fodd, ac a ddywedodd nad oedd yn caru eu clywed, am eu bod yn rhesymu oddiar ymddangosiad a thwyll; efe a'u dysgodd hwynt trwy sylwi, Os yr wyf yn dda, gallaf wybod o'r daioni hwnw ei hun, pa bethau sydd wir, a'r pethau nas gwn, yr wyf yn alluog i'w derbyn.

321. Hysbyswyd fi yn fynych fod y cenhedloedd a fuont byw yn

foesol, yn ufudd, yn ymostyngol, ac mewn cydgariad, yn ol eu cred grefyddol: a thrwy hyny a dderbyniasant fath o gydwybod, cânt eu derbyn yn y byd arall, a'u dysgu gan angylion yn ngwirioneddau a daioni y ffydd gyda sylw gofalus: a phan y cânt eu dysgu, ymddygant yn wylaidd, yn ddeallus, a doeth, gan dderbyn ac yfed gwirioneddau yn rhwydd: oblegid na wnaethant erioed goledd egwyddorion croes i wirioneddau y ffydd, yn gofyn eu troi heibio yn gyntaf: llawer llai unrhyw syniadau cableddus yn erbyn yr Arglwydd, fel llawer o Gristionogion, a feddyliant am dano fel dyn yn unig. Nid felly y Cenhedloedd: canys pan glywant i Dduw ddyfod yn ddyn, ac felly amlygu ei Hun yn y byd, cydnabyddant hyny ar unwaith, ac addolant yr Arglwydd, gan ddywedyd fod Duw yn wir wedi amlygu ei hun, oblegid mai Efe yw Duw y nefoedd a'r ddaear, ac oblegid mai ei eiddo Ef yw yr hil ddynol. Gwirionedd Dwyfol yw nad oes iachawdwriaeth heb yr Arglwydd: ond wrth hyn y deallir nad oes iachawdwriaeth ond oddiwrth yr Arglwydd. Y mae llawer o ddaearfydoedd yn y bydysawd, ac oll yn llawn trigolion, ac eto ni wŷr nemawr o honynt i'r Arglwydd gymeryd y Ddynoliaeth ar ein daear ni: ond gan eu bod yn addoli yr Arglwydd yn y ffurf ddynol, y maent yn gymeradwy, a chânt eu harwain gan yr Arglwydd. Ar y pwnc hwn gweler y Llyfr bychan ar y "Y Daearfydoedd yn y Bydysawd."

322. Yn mhlith y Cenhedloedd, fel yn mhlith Cristionogion, y mae rhai doeth ac anoeth: fel yr adwaenwn eu cymeriadau, caniatawyd i mi ymddiddan â hwynt, weithiau am oriau a dyddiau ynghyd. Nid oes doethion yn awr fel y rhai fu byw yn yr hen amseroedd, ac yn neillduol yn yr Hen Eglwys, yn ymestyn dros y rhan fwyaf o Asia, ac o'r hon y cyfranwyd crefydd i lawer o genhedloedd. Ond fel yr adwaenwn eu hansawdd neillduol, caniatawyd i mi siarad yn gartrefol a rhai o honynt. Bum yn nghwmni un a gyfrifid gynt yn meddu doethineb uwchraddol, ac mewn canlyniad a adwaenid yn dda yn y byd dysgedig. Siaredais âg ef ar lawer o faterion: a rhoddwyd i mi i gredu mai Cicero oedd efe. Gwyddwn fod Cicero yn ddyn doeth, am hyny siaredais âg ef am ddoethineb, deall, trefn, Y Gair, ac yn olaf am Yr Arglwydd. Am ddoethineb, efe a ddywedodd nad oes doethineb ond a berthyn i fywyd, ac nad oes dim arall yn deilwng o'r enw: am ddeall, dywedodd ei fod yn tarddu o ddoethineb: am drefn, ei bod yn dyfod o'r Goruchel Dduw, ac mai byw yn ei drefn Ef yw bod yn ddoeth a deallus. Am y Gair, pan ddarllenais iddo ran o'r prophwydi, hoffai yn ddirfawr, ac yn neillduol fod pob enw a phob gair yn arwyddo pethau mewnol: a synai fod dysgedigion y dydd hwn heb hyfrydwch yn y fath fyfyrdod. Canfyddais yn glir fod mewnolion ei feddwl yn agored. Ond dywedodd nas gallasai wrando yn hwy, am ei fod yn canfod rhywbeth rhy sanct-





aidd i'w oddef, yn effeithio yn y modd mwyaf mewnol arno. O'r diwedd lleferais wrtho am yr Arglwydd, iddo gael ei eni yn ddyn, ond ei genhedlu o Dduw: iddo ymddiosg o'r ddynoliaeth darddodd o wraig, ac ymwisgo a'r Ddynoliaeth Ddwyfol; ac mai Efe sydd yn llywodraethu y Bydysawd. I hyn yr attebodd ei fod yn gwybod llawer o bethau am yr Arglwydd; ac yn canfod, yn ei ddull ei hun, nad oedd iachawdwriaeth dyn yn bosibl ond trwy y moddion a ddesgrifiais. Rhyw Gristionogion diras a awgrymasant amryw gableddau na thalodd sylw iddynt, ond dywedyd nad oedd eu hymddygiad i synu atto, oblegid iddynt yn mywyd y corff goledd llawer o syniadau anweddus ar y pwnc: a chyn symud y pethau hyn nas gallant dderbyn profion yn cadarnhau y gwirionedd, fel y gall rhai anwybodus.

323. Caniatawyd i mi hefyd siarad âg ereill fuont byw yn yr Hen Amseroedd, yn mhlith rhai enwog am ddoethineb. Ar y cyntaf ymddangosent o'r tu blaen, yn mhell: oddiyno canfyddent fewnolion fy meddyliau, ac felly gwyddent yn gyflawn lawer o bethau am danynt: canys oddiwrth un syniad gallent ddarganfod cyfres gyflawn o syniadau, a'i llanw i fynu â drychfeddyliau doeth, yn gymysg ac arddangosiadau prydferth. Gwyddwn eu bod o blith rhai tra doeth, a dywedwyd wrthyf mai rhai o'r henafiaid oeddynt. Yna daethant yn nes: darllenais gyfran o'r Gair iddynt, yr hwn a fawr hoffent: canfyddais natur eu pleser a'u boddhâd, ei fod yn codi yn benaf o hyn, sef fod yr oll a glywent o'r Gair yn arddangos ac yn arwyddo pethau ysbrydol a nefol. Dywedasant hefyd mai yn eu amser hwy, pan oeddynt yn byw yn y byd, fod y dull o feddwl a llefaru, ac o ysgrifenu hefyd, o gymeriad tebyg, ac mai hyn oedd prif fyfyrdod eu doethion.

324. Ond am y Cenhedloedd heddyw, nid ydynt mor ddoeth a'r henafiaid, er fod llawer o honynt o galon syml, a rhai o honynt fuont byw mewn cydgariad a dderbyniant ddoethineb yn y byd arall: o'r cyfryw rhoddir engraifft neu ddwy. Pan oeddwn unwaith yn darllen y 17 a'r 18 bennod o Barnwyr am Michah, y dygwyd ymaith gan feibion Dan ei ddelw gerfiedig, y teraphim a'r Libiad, yr oedd ysbryd cenhedlig yn bresenol, fu yn addoli delw gerfiedig pan yn byw yn y corff. Gwrandawodd yn astud am yr hyn a wnaed i Michah, a'r gofid a gafodd trwy i'r Daniaid ddwyn ymaith ei ddelw gerfiedig, effeithiodd hyn gymaint arno yntau fel y gwnaeth tristwch mewnol ei amddifadu bron o allu meddwl. Canfyddais ei dristwch, ac ar yr un pryd y diniweidrwydd oedd yn ei holl deimladau. Yr oedd rhai ysbrydion Cristionogol yn bresenol yn canfod yr un peth, a synent fod addolwr delw gerfiedig yn cael ei gyffroi a'r fath deimlad dirfawr o drugaredd a diniweidrwydd. Wedi hyny daeth ysbrydion da i siarad âg ef, a dywedasant na ddylid addoli delw gerfiedig, a'i fod ef fel

dyn yn alluog i ddeall hyny: ac y dylai feddwl am Dduw, yn annibynol ar ddelwau cerfiedig, fel Creawdwr a Llywodraethwr y Bydysawd, ac mai yr Arglwydd yw y Duw hwnw. Pan ddywedwyd hyn, trosglwyddwyd i mi deimlad mewnol ei addoliad, a chanfyddais ei fod lawer mwy santaidd nac eiddo Cristionogion. Oddiwrth hyn eglur yw fod Cenhedloedd y dydd heddyw yn myned i'r nefoedd yn llawer rhwyddach na Christionogion yn ol geiriau yr Arglwydd yn Luc. "A daw rhai o'r dwyrain, ac o'r gorllewin, ac o'r gogledd, ac o'r dehau, ac a eisteddant yn nheyrnas Dduw, ac wele, olaf ydyw y rhai a fyddant flaenaf, a blaenaf ydyw y rhai a fyddant olaf," Luc xiii. 29, 30: oblegid yn yr ystad yr oedd yr ysbryd cenhedlig ynddi, mynwesai a derbyniai holl athrawiaethau y ffydd gyda gwir gariad mewnol; yr oedd tosturi ynddo yn tarddu o gariad, ac yr oedd ei anwybodaeth yn llawn diniweidrwydd: a lle y byddo y pethau hyn, derbynir holl athrawiaethau y ffydd yn rhwydd a chyda llawenydd. Ar ol hyn derbyniwyd ef i blith yr angylion.

325. Un boreu clywn gyngherdd o bell, ac oddiwrth eu harddangosiadau cydfynedol, amlygwyd i ni mae Chineaid oeddent: canys dangosent ffurf bwch-gafr blewog, teisen milet, a llwy ebon, yn nghyd â'r syniad o ddinas yn nofio. Dymunent ddod yn nes attaf, a phan ddaethant yn nes, ewyllysient fod eu hunain gyda mi, fel y gallent ddatguddio eu meddyliau. Ond dywedwyd wrthynt nad oeddent wrthynt eu hunain, fod ereill yn bresenol, ac yn anfoddlon am eu bod hwy yn dymuno bod eu hunain, er eu bod yn ddieithriaid. Wrth ganfod eu hanfoddlonrwydd, dechreuasant ystyried a oeddent wedi tramgwyddo eu cymydog, neu hawlio unrhyw beth iddynt eu hunain berthynai i ereill. Pob meddwl yn y byd arall a drosglwyddir i ereill o amgylch; felly, canfyddais aflonyddwch eu meddwl, a'i fod yn codi o'r syniad eu bod, o bosibl, wedi pery niwed iddynt, gyda chywilydd am hyny, yn gymysg â llawer o deimladau da ereill, yn dangos eu bod yn meddu cariad. Yn fuan wedi hyn, ymddiddenais â hwynt, ac o'r diwedd lleferais wrthynt am yr Arglwydd, a phan elwais Crist arno, canfyddais ynddynt radd o wrthwynebiad, yn tarddu o'r syniadau dderbyniasant yn y byd, am eu bod yn gwybod fod Cristionogion yn byw yn waeth na hwy, a'u bod heb gariad: ond pan yn syml y gelwn Ef Yr Aglwydd, teimlent yn fewnol. Yna yr hysbyswyd hwynt gan angylion fod yr Athrawiaeth Gristionogol uwchlaw pob un arall yn y bydysawd, yn gofyn cariad at Dduw a dyn, ond mai ychydig sydd yn ei byw. Y mae rhai Cenhedloedd, yn ystod eu bywyd yn gwybod trwy siarad â hanes, fod Cristionogion yn byw bywyd drygionus, ac yn dueddol i odineb, casineb, cynen, meddwdod a throseddau tebyg, a ffieiddir gan y Cenhedloedd, am eu bod yn groes i'w hegwyddorion crefyddol. Mwy





ofnus yw y rhai hyn nag ereill yn y byd arall i dderbyn gwirioneddau y ffydd: ond hysbysir hwy gan angylion fod yr Athrawiaeth Gristionogol, a'r wir Ffydd Gristionogol yn dysgu fel arall, a bod Cristionogion yn byw llai yn ol eu hathrawiaeth na'r Cenhedloedd: pan argyhoeddir hwynt o hyn, derbyniant wirioneddau y ffydd ac addolant yr Arglwydd, ond nid mor barod ag ereill.

326. Y Cenhedloedd a addolent ryw dduw yn y ffurf o ddelw neu eilun cerfiedig, dygir hwynt yn y byd arall at ryw ysbrydion osodir yn lle eu duwiau neu eu delwau, mewn trefn i wasgar eu gau-syniadau: ac wedi iddynt aros gyda hwynt am rai dyddiau symudir hwynt. Y rhai fu yn addoli dynion hefyd a ddygir weithiau attynt, neu at ereill yn eu personoli: fel hyn dygir llawer o'r Iuddewon at Abraham, Jacob, Moses a Dafydd: ond pan welant mai dynion ydynt fel hwy eu hunain, ac nas gallant gynorthwyo, cywilyddiant, a dygir hwy i'w lleoedd yn ol eu bywyd. O'r holl genhedloedd yr Affricaniaid yw y rhai anwylaf yn y nefoedd, oblegid eu bod yn derbyn daioni a gwirioneddau y nefoedd yn rhwyddach nag ereill. Dymunent yn neillduol gael eu galw yn ufuddion ac nid yn ffyddloniaid: canys dywedant y gellir galw Cristionogion yn ffyddlawn am eu bod yn meddu athrawiaeth y ffydd, ond nas gellir eu galw hwy felly, oddieithr iddynt dderbyn yr athrawiaeth hono, neu fel y dywedant hwy eu hunain, fod yn alluog i'w derbyn.

327. Ymddiddenais â rhai yn perthyn i'r Eglwys Henafol, a fodolai ar ol y diluw ac a ymestynai drwy lawer o deyrnasoedd: megis Assyria, Mesopotamia, Syria, Ethiopia, Arabia, Lybia, Yr Aipht, Philistia, yn cynwys Tyrus a Sidon, a thir Canaan o ddau tu i'r Iorddonen. Gwyddent pan yn y byd fod yr Arglwydd yn dyfod, ac yr oeddynt wedi eu hegwyddori yn y daioni a dardd o ffydd, ond eto syrthiasant yma oddiwrth y ffydd, ac aethant yn eilun addolwyr. O'r tu blaen yr oeddynt tua'r aswy, mewn lle tywyll, ac mewn trueni. Eu lleferydd oedd fel swn pibell, heb ond un nodyn, ac yn amddifad bron o feddwl rhesymol; a dywedent iddynt fod yn y lle hwnw am oesau lawer, a'u bod yn cael eu dwyn allan weithiau i wneyd gwasanaeth isel i ereill. Oddiwrthynt arweiniwyd fi i feddwl am lawer o Gristionogion nad ydynt eilun addolwyr allanol, ond sydd felly yn fewnol, yn addoli eu hunain a'r byd, ac yn gwadu yr Arglwydd yn y galon: ystyriais hefyd y dynged a'u herys yn y byd arall.

328. Fod Eglwys yr Arglwydd yn ymestyn dros yr holl ddaear, ac felly yn gyffredinol; ei bod yn cynwys pawb sydd yn byw mewn daioni yn tarddu o gariad, yn ol eu credo grefyddol: a bod yr Eglwys, fel y Gair, ac yn yr hon yr adwaenir yr Arglwydd trwy y Gair, eu bod i'r rhai sydd tu allan fel y galon a'r ysgyfaint mewn dyn, o'r rhai y deillia bywyd i'r perfeddion a holl aelodau y corff yn ol eu ffurf, eu safle, a'u cysylltiadau, a welir r. 308.

## Plant Bach yn y Nefoedd.

329. Cred rhai mae y plant bach a enir yn yr Eglwys yn unig a dderbynir i'r nefoedd, ond na dderbynir y rhai a enir y tu allan: fel rheswm dywedant fod y plant o fewn yr Eglwys wedi eu bedyddio, ac felly eu dwyn i fewn i ffydd yr Eglwys: ond ni wyddant nad oes neb yn derbyn y nefoedd na ffydd trwy fedydd: canys nid yw bedydd ond arwydd a choffadwriaeth fod dyn i'w aileni, a bod yr hwn a anwyd yn yr Eglwys yn addas i'w aileni: am fod yr Eglwys yn meddu y Gair, yn cynwys y gwirioneddau dwyfol, effeithiant adenedigaeth, ac yn yr Eglwys adweinir yr Arglwydd, yr Hwn sydd yn aileni. Gwybydder, gan hyny, fod pob plentyn, pa le bynag ei genir—tufewn i'r Eglwys neu tuallan—o rieni duwiol neu annuwiol, y caiff ei dderbyn gan yr Arglwydd wrth farw, a'i ddysgu yn y nefoedd. Caiff ei hyfforddi yno yn ol dwyfol drefn, a'i drwytho a chariad at ddaioni, a thrwy hyny wybodaeth o'r gwirionedd: yna, fel y caiff ei berffeithio mewn deall a doethineb, dygir ef i'r nefoedd a daw yn angel. Gall pob dyn sydd yn meddwl oddiar reswm wybod na enir neb i uffern, ond pawb i'r nefoedd, ac mae y dyn ei hun sydd i'w feio os aiff i uffern, ac nis gall fod bai ar blant bach.

330. Pan fyddo plant bach farw, plant bach ydynt eto yn y byd arall, gyda'r un meddwl plentynaidd, yr un diniweidrwydd mewn anwybodaeth, a'r un tynerwch yn mhob peth. Nid ydynt ond yn yr ystad gyntaf yn arwain i'r angylaidd: canys nid yw plant bychain yn angylion, ond deuant yn angylion. Canys y mae pob un wedi myned allan o'r byd mewn ystad debyg i'r hyn oeddynt yn y byd, y plentyn mewn ystad blentynaidd, y bachgen mewn ystad fachgenaidd, a'r ieuanc, y canol oed a'r hen yn ystad ieuenctyd, canol oed neu henaint: ond wedi hyny newidia ystad pob un. Ond y mae ystad plant bach yn rhagori ar bawb ereill, oblegid eu bod mewn diniweidrwydd, ac nid yw drwg wedi gwreiddio ynddynt eto trwy fywyd gweithredol: y mae ansawdd diniweidrwydd y fath, fel y gellir planu ynddo bob peth perthynol i'r nefoedd, oblegid diniweidrwydd yw derbynfa y gwirionedd dardd o ffydd, a'r daioni gyfyd o gariad.

331. Y mae ystad plant yn y nefoedd yn tra rhagori ar blant yn y byd, am na wisgir hwynt â chorff daearol, ond â chorff fel eiddo yr angylion. Swrth yw y corff daearol ynddo ei hun, ac ni dderbynia ei argraffiadau a'i symudiadau cyntaf o'r mewnol neu y byd ysbrydol, ond o'r allanol neu y byd naturiol; am hyny rhaid i blant yn y byd ddysgu cerdded, arfer eu haelodau, a siarad: a'u synhwyrau, megis y synwyr o weled a chlywed a agorir trwy arferiad. Nid felly yn y byd arall: y maent yn ysbrydion yno, am hyny gweithredant ar unwaith yn ol eu mewnolion. Rhodiant heb





gael eu dysgu, a llefarant hefyd: ond ar y cyntaf siaradant oddiar serchiadau cyffredinol yn unig, heb eu gwahaniaethu yn glir i syniadau meddwl. Hyfforddir hwynt yn fuan yn y pethau hyn, a dysgant yn rhwydd, am fod eu hallanolion yn gydryw a'u mewnolion.—Fod lleferydd angylion yn llifo o serchiadau yn cael eu hamrywio gan ddrychfeddyliau, fel y maent yn cyfateb yn berffaith i'r meddwl, yn tarddu o serch a welir uchod, r. 234—245.

332. Mor fuan ag yr adgyfodir plant o feirw, yr hyn gymer le yn uniongyrchol wedi iddynt farw, cludir hwynt i fynu i'r nef, a rhoddir hwynt i ofal angylion o'r rhyw fenywaidd, y rhai pan yn y corff oeddynt yn caru plant yn dyner, ac ar yr un pryd yn caru Duw. Gan fod yr angylesau hyn pan yn y byd yn caru pob plant oddiar fath o dynerwch mamol, derbyniant hwynt fel yr eiddynt eu hunain: a'r plant hefyd oddiar gariad greddfol a'u carant hwythau fel eu mamau eu hunain. Pob angyles a ga gynifer o blant dan ei gofal, ag a ddymuna oddiar gariad ysbrydol a mamol. Ymddengys y nefoedd hon o'r tu blaen ar gyfer y talcen, yn gywir yn y llinell yn yr hon yr edrych yr angylion ar yr Arglwydd: ei safle sydd yno, am fod yr holl blant dan ymgeledd uniongyrchol yr Arglwydd. Derbyniant ddylifiad o nefoedd diniweidrwydd hefyd, yr hon yw y drydedd nef.

333. Gwahaniaetha plant yn eu tymherau: rhai sydd o'r un dymher a'r angylion ysbrydol, a rhai o'r un dymher a'r angylion nefol. Y rhai sydd o dymher nefol a ymddangosant ar y dde yn y nefoedd hono, a'r rhai o dymher ysbrydol ar y chwith. Yr holl blant yn y Dyn Mawreddog, sef y nefoedd, ydynt yn nhalaeth y llygaid: yn nhalaeth y llygad aswy os o dymher ysbrydol; ac yn nhalaeth y llygad deheu os o dymher nefol: am fod yr Arglwydd yn ymddangos i angylion y deyrnas ysbrydol o flaen y llygad aswy, ac i angylion y deyrnas nefol o flaen y llygad deheu (gwel uchod, r. 118). Oblegid fod y plant yn nhalaeth y llygaid yn y Dyn Mawreddog neu y nefoedd, eglur eu bod dan sylw ac ymgeledd uniongyrchol yr Arglwydd.

334. Y modd yr addysgir plant yn y nefoedd a ddesgrifir hefyd yn fyr. Dysgant siarad oddiwrth eu hathrawes: eu siarad ar y cyntaf nid yw ond swn serchus, ond daw yn raddol yn fwy pendant fel y daw syniadau i'r swn: canys syniadau yn tarddu oddiar serch gyfansodda siarad angylaidd. Gwel y Bennod ar y pwnc hwn, r. 234—245. I'w serchiadau, yn tarddu oll o ddiniweidrwydd, y dygir i fewn ar y cyntaf y fath bethau hyfryd a ymddangosant o flaen eu llygaid; a chan fod y pethau hyn o darddiad ysbrydol, pethau y nefoedd ar yr un pryd a lifant iddynt, ac felly yr agorir eu mewnolion, a deuant bob dydd yn fwy perffaith. Pan orphenir y cyfnod cyntaf hwn, symudir hwynt i nefoedd arall, lle yr addysgir hwynt gan feistri; ac felly y cynyddant.

335. Dysgir plant yn benaf trwy arddangosiadau cyfaddas i'w galluoedd—arddangosiadau anghredadwy o hardd, a llawn doethineb yn tarddu o'u hansawdd fewnol; ac fel hyn deuant yn raddol i ddealltwriaeth a'i enaid yn deilliaw o ddaioni. Oddiwrth ddau arddangosiad a welais, gellir tynu casgliad am y lleill. Yr athrawon angylaidd yn gyntaf a arddangosent yr Arglwydd yn codi o'r bedd, ac ar yr un pryd undeb ei Ddynoliaeth a'i Dduwdod, a gwnaent hyn mor ddoeth gan ragori ar bob doethineb ddynol, ond eto mewn dull diniwed a phlentynaidd. Dangosent hefyd y syniad o fedd, ond nid ar yr un pryd y syniad o'r Arglwydd, oddieithr mor bell, fel mai o braidd y canfyddent mai yr Arglwydd oedd: oblegid yn y syniad o fedd y mae rhywbeth yn brudd neu angladdol, yr hyn a symudwyd. Wedi hyny gollyngasant i'r bedd rywbeth awyrol yn ymddangos fel dwfr taenedig, yn arddangos yn y modd mwyaf gofalus, fywyd ysbrydol yn y bedydd, gan symud yn llednais bobpeth anweddus. Drachefn, gwelais hwynt yn arddangos yr Arglwydd yn disgyn at y rhai yn ngharchar, ac yn esgyn gyda hwynt i'r nefoedd; gwnaent hyn gyda challineb a duwioldeb anghydmarol. Un peth gwir blentynaidd oedd, gollwng i lawr linynau bychain, esmwyth iawn a thyner, a bron anweledig, i gynorthwyo yr Arglwydd yn ei esgyniad, tra y meddienid hwynt gan ofn sanctaidd, rhag i unrhyw ran o'r arddangosiad ymylu ar ddim amddifad o hanfod ysbrydol a nefol. Heb enwi arddangosiadau ereill mewn arferiad yn eu plith, trwy y rhai, megis trwy chwareuon cyfaddas i'w meddyliau plentynaidd y dygir hwynt i wybodaeth o'r gwirionedd ac i gariad at ddaioni.

336. Dangoswyd i mi hefyd natur dyner eu deall: pan oeddwn yn gweddio gweddi yr Arglwydd, a hwythau ar yr un pryd yn dyfod i'm meddwl trwy ddylifiad o'u cyneddf ddeallol, canfyddwn fod eu dylifiad mor esmwyth a thyner—bron fel cariad ei hun; ar yr un pryd gwelid fod eu cyneddf ddeallol yn agored hyd yn oed o'r Arglwydd; canys yr hyn a lifai o honynt ydoedd fel yn llifo drwyddynt. Yr Arglwydd, hefyd, a lifa i syniadau plant yn benaf o'r egwyddorion mwyaf mewnol, am nad oes dim yn cau eu syniadau, fel eiddo rhai mewn oed. Nid oes egwyddorion gau i'w hattal i ddeall gwirionedd, na bywyd drwg i'w hattal i dderbyn daioni, ac o ganlyniad i dderbyn doethineb. Oddiwrth hyn, amlwg yw, nad yw plant yn dyfod yn uniongyrchol ar ol marw i'r ystad angylaidd, ond y cânt eu harwain iddi yn raddol gan wybodaeth o ddaioni a gwirionedd: gwneir hyn yn ol holl drefn y nefoedd, canys y mae holl fanylion eu tymher yn hysbys i'r Arglwydd, am hyny, yn ol holl gyffroadau eu tueddiadau, arweinir hwynt i dderbyn gwirioneddau daioni, a daioni gwirionedd.

337. Dangoswyd i mi hefyd y modd yr enillir hwynt at bob peth





trwy gyfryngau hyfryd a phleserus, cyfaddas i'w tymher. Caniatawydd i mi weled plant, wedi eu gwisgo yn y modd harddaf, a'u dwyfronau yn addurnedig â garlantau o flodau ysblenydd o'r lliwiau mwyaf hyfryd a nefolaidd, amgylchent hefyd eu breichiau tyner; ar un amgylchiad, gwelais rai plant gyda'u hathrawesau a gwyryfon mewn gardd baradwysaidd o'r fath brydferthaf, nid yn gymaint gan y coed a dyfent yno, a chan amgoedresi a llwyni llawryf, yn ffurfio cynteddau a llwybrau yn arwain i'r parthau mewnol. Y plant oeddynt wedi eu gwisgo yn y modd a nodwyd, ac wrth ddynesu i'r ardd, y sypiau blodau uwchlaw y porth a lewyrchent mewn dysgleirdeb siriol. Oddiwrth hyn gellir casglu natur neillduol eu pleserau, a'u bod yn cael eu harwain i fewn gan bethau hyfryd a phleserus i ddaioni diniweidrwydd a chariad, yn cael eu denu yn barhaus iddynt gan yr Arglwydd trwy bethau dymunol.

338. Trwy fath o gymundeb arferol yn y byd arall, dangoswyd i mi natur syniadau plant pan welont unrhyw wrthrychau. Pob gwrthrych, hyd yn oed y lleiaf, a ymddengys iddynt hwy yn fyw, ac felly, yn mhob syniad meddwl plentyn y mae bywyd. Canfyddais hefyd fod syniadau plant ar y ddaear yn dra thebyg pan fyddont yn chwareu, canys ni feddant eto allu i adfeddwl, fel rhai mewn oed, gan wahaniaethu pethau difywyd.

339. Dywedwyd uchod fod plant o dymher nefol neu ysbrydol. Hawdd eu gwahaniaethu, am fod y rhai nefol yn meddwl, siarad, a gweithredu yn fwy esmwyth na'r rhai ysbrydol, fel nad oes nemawr i ddim yn ymddangos yn eu hymddygiad a'u lleferydd, ond a lifa o'r daioni dardd o gariad at yr Arglwydd ac at eu cydblant; nid yw y rhai ysbrydol yn dangos y fath esmwythder, ond y mae rhywbeth aflonydd a sigledig yn nodweddu yr oll a wnant. Y mae hyn yn amlwg hefyd oddiwrth eu digllonedd, ac oddiwrth arwyddion ereill.

340. Gall llawer dybied mai plant yw plant byth yn mhlith angylion y nefoedd. Y rhai na wyddant beth yw angel, a gadarnheir yn y dyb hon gan y lluniau welir weithiau mewn Eglwysi yn dangos angylion fel plant, ond hollol wahanol yw y ffaith. Deall a doethineb gyfansodda angel, a chyhyd y byddo plant heb ddeall a doethineb, er eu bod yn nghymdeithas angylion, nid angylion ydynt eto: ond pan ddeuant yn ddeallus a doeth, y deuant yn angylion gyntaf. Cefais fy synu wrth weled nad ydynt mwy yn ymddangos fel plant, ond fel rhai mewn oed, am nad ydynt mwy o dymher blentynaidd, ond o gymeriad angylaidd mwy addfed; yr addfedrwydd hwn sydd gynhenid mewn deall a doethineb. Daw plant yn fwy o faint, fel y cânt eu perffeithio mewn deall a doethineb, ac ymddangosant fel llanciau a gwŷr ieuainc, oblegid fod deall a doethineb yn wir faeth ysbrydol. Yr hyn a bortha eu

meddyliau a bortha eu cyrff hefyd trwy gyfatebiaeth; oblegid nad yw y corff ond ffurf allanol y mewnolion. Gwybydder nad yw plant a dyfant yn y nefoedd yn myned tuhwnt i flodeu ieuenctyd, ond arosant yn y cyflwr hwnw i dragwyddoldeb. Fel y byddwn sicr o hyn, caniatawyd i mi siarad â rhai ddysgwyd fel plant yn y nefoedd, ac a dyfasant yno. Siaredais â rhai o honynt hefyd pan oeddynt blant, ac wedi hyny â'r un rhai pan oeddynt ddynion ieuainc, a chlywais ganddynt hwy eu hunain gwrs eu bywyd o un oes i'r llall.

341 Mai diniweidrwydd yw derbynfa holl elfenau y nefoedd, ac felly mai diniweidrwydd plant yw sylfaen pob serchiadau at ddaioni a gwirionedd, a welir uchod, r. 276—283, am ddiniweidrwydd angylion y nefoedd. Dangoswyd yno fod doethineb yn gynwysedig mewn bod yn foddlawn i'r Arglwydd arwain, ac nid i un i arwain ei hunan, o ganlyniad fod dyn mewn diniweidrwydd mor bell ag y symudir ef o'i *proprium* neu ei hunanoldeb; ac mor bell y symudir unrhyw un o'i *proprinm* ei hun, y mae efe yn *proprium* yr Arglwydd, a *phroprium* yr Arglwydd yw yr hyn a elwir ei Uniondeb a'i Haeddiant. Nid yw diniweidrwydd plant yn wir ddiniweidrwydd, oblegid ei fod heb ddoethineb: canys gwir ddiniweidrwydd yw doethineb, ac i'r graddau y byddo unrhyw un yn ddoeth y câr efe gael ei arwain gan yr Arglwydd; neu yr hyn sydd yr un peth, i'r graddau y byddo unrhyw un yn cael ei arwain gan yr Arglwydd y mae efe yn ddoeth. Plant, gan hyny, a arweinir o ddiniweidrwydd allanol, yn yr hwn y maent gyntaf, ac a elwir diniweidrwydd plentynaidd, i ddiniweidrwydd mewnol, a elwir diniweidrwydd doethineb; diniweidrwydd doethineb yw dyben eu holl addysg a'u cynydd; am hyny, pan ddeuant i ddiniweidrwydd doethineb, y diniweidrwydd plentynaidd, a wasanaethodd fel sylfaen, a unir â hwynt. Arddangoswyd diniweidrwydd plant i mi, gan rywbeth yn ymddangos fel pren, bron yn amddifad o fywyd, ond yn cael ei fywhau yn gynyddol, fel y perffeithir plant trwy wybodaeth o'r gwirionedd a serch at ddaioni. Wedi hyny arddangoswyd i mi natur gwir ddiniweidrwydd trwy blentyn o'r prydferthaf, llawn bywyd a noeth; am fod y rhai mwyaf diniwed, y rhai sydd yn y nefoedd fwyaf mewnol, ac o ganlyniad, y rhai agosaf at yr Arglwydd, yn ymddangos i angylion ereill bron fel plant, a rhai o honynt yn noeth, oblegid fod diniweidrwydd yn cael ei arddangos gan noethni, nad yw yn cyffroi cywilydd, fel y darllenwn am y dyn cyntaf a'i wraig yn Mharadwys (Gen. Pen. ii. 25; am hyny, pan syrthiasant o ystad eu diniweidrwydd, cywilyddient oherwydd eu noethni, ac ymguddiasant (Pen. iii. 7, 10, 11). Mewn gair, pa ddoethaf y byddo yr angylion, mwyaf diniwed ydynt; a pha fwyaf diniwed y byddont, mwyaf yr ymddangosant iddynt eu hunain fel plant: am hyny plentyndod, yn y Gair, a arwydda ddiniweidrwydd (gwel uchod, r. 278.





342. Siaredais âg angylion am blant yn y nefoedd, a gofynais a oeddynt yn bur oddiwrth ddrygau, oblegid nad oes drwg gweithredol ynddynt fel rhai mewn oed; ond dywedwyd wrthyf eu bod yn ddrwg fel hwythau, ac hefyd nad ydynt ddim ond drwg: eu bod hwy, fel yr oll o'r angylion, yn cael eu cadw rhag drwg a'u dal yn y da gan yr Arglwydd; am hyny, ymddengys iddynt fel pe byddent yn meddu daioni o honynt eu hunain. Rhag, gan hyny, i blant dyfasant yn y nefoedd goledd gau-dyb am danynt eu hunain, a dychmygu fod y daioni a feddant yn tarddu o honynt eu hunain, ac nid o'r Arglwydd, gollyngir hwynt weithiau i'r drygau dderbyniasant yn etifeddol, a gadewir hwynt ynddynt hyd oni ddeuant i wybod, cydnabod, a chredu mai oddiwrth yr Arglwydd y mae eu daioni. Un mab i frenin, a fu farw yn blentyn ac a dyfodd yn y nefoedd, a goleddai y gau-dyb a nodwyd, o ganlyniad, gollyngwyd ef i fywyd ei ddrygau etifeddol, pan ganfyddais oddiwrth awyrgylch ei fywyd, fod ynddo duedd i dra-arglwyddiaethu ar ereill, a gwneyd yn fach o odinebau, canys efe a dderbyniodd y pethau hyn o'i rieni. Wedi iddo gydnabod ei anian ddrwg, derbyniwyd ef drachefn i blith yr angylion yr oedd efe yn byw gyda hwynt o'r blaen. Nid oes neb yn y byd arall yn dioddef cosb oherwydd ei ddrwg etifeddol, gan mai nid ei eiddo ei hun ydyw, ac nid yw i'w feio am dano; ond cosbir ef am ei ddrwg gweithredol ei hun, ac i'r graddau y gwnaeth ei ddrwg etifeddol yn eiddo iddo ei hun trwy ddrwg gweithredol. Gollyngir plant i ystad eu drwg etifeddol pan ddeuant i oed, nid i'w cosbi am dano, ond fel y dysgont nad ydynt o honynt eu hunain ddim ond drwg; mai o drugaredd yr Arglwydd y tynir hwynt o'r uffern a lyn wrthynt, ac y derbynir hwynt i'r nefoedd; eu bod yn y nefoedd nid o'u haeddiant eu hunain, ond o'r Arglwydd; ac na byddo iddynt felly ymffrostio wrth ereill am y daioni sydd ynddynt, gan fod ymffrostio mor groes i'r daioni dardd o gydgariad, ag yw groes i'r gwirionedd yn tarddu o ffydd.

343. Lawer gwaith pan fu corau o blant ieuainc iawn gyda mi, ymddangosai eu lleferydd fel rhywbeth esmwyth, ond anhrefnus, yn profi nad ydynt eto yn gweithredu fel un, fel y gwnant pan ddeuant i oed; a'r hyn a'm synai oedd, nas gallai yr ysbrydion oedd gyda mi beidio a'u tynu i siarad. Y mae y fath ddymuniad yn reddfol mewn ysbrydion. Ond sylwais fod y plant o hyd yn gwrthwynebu, gan fod yn anfoddlawn siarad fel y ceisid ganddynt. Gwrthodent a gwrthwynebent gyda math o ddigllonedd, fel y canfyddais yn fynych; a phan gaent ryddid i siarad, *nid felly y mae*, yn unig a ddywedent. Dywedwyd wrthyf fod plant yn cael eu temtio fel hyn, a bod hyny yn cael ei ganiatau er mwyn eu harfer, nid yn unig i wrthwynebu yr hyn sydd dywyllodrus a drwg, ond hefyd fel na byddont yn meddwl, llefaru, na gweithredu

oddiar ereill, ac mewn canlyniad i beidio gadael eu hunain i gael eu harwain gan neb ond yr Arglwydd.

344. Oddiwrth yr engreifftiau hyn gwelir natur addysg plant yn y nefoedd, sef eu harwain i fewn i fywyd angylaidd trwy ddeall y gwirionedd, a thrwy ddoethineb yn tarddu o ddaioni; bywyd angylaidd yw cariad at yr Arglwydd ac at eu gilydd, ac yn y fath gariad y mae diniweidrwydd. Ond mor groes yw addysg plant ar y ddaear, gyda llawer, a ymddengys oddiwrth un esiampl. Yr oeddwn ar heol un ddinas fawr, a gwelwn fechgyn bychain yn ymladd â'u gilydd, tra y dorf yn tyru o'u hamgylch gan fawr fwynhau yr olygfa: hysbyswyd fi fod y rhieni eu hunain yn anog y plant i'r fath ymladdau. Yr ysbrydion da a'r angylion a welent yr ymladdfa drwy fy llygaid i, a theimlent mor chwith fel y canfyddwn eu hatgasrwydd, a gwelwn ei fod yn cael ei achosi yn benaf gan ymddygiad y rhieni yn anog y plant i'r fath bethau. Dywedent fod rhieni yn y modd yma yn diffodd yn moreu oes yr holl gyd-gariad a'r holl ddiniweidrwydd dderbynia plant oddiwrth yr Arglwydd, gan eu gwreiddio mewn casineb a dialedd; o ganlyniad, eu bod yn cau yn fwriadol eu plant o'r nefoedd, lle nad oes dim ond cyd-gariad. Gocheled rhieni, gan hyny, a ddymunant yn dda i'w plant, y fath arferion.

345. Dangoswn hefyd y gwahaniaeth rhwng rhai yn marw yn blant a rhai yn marw mewn oed. Y mae gan y rhai sydd yn marw mewn oed, a dygant ganddynt, sylfaen cymeriad wedi ei ffurfio o'r byd daearol a materol. Y sylfaen hon yw eu côf a'u serchiadau corfforol a naturiol. Erys y sylfaen hon ar ol angeu yn sefydlog a llonydd: ond gwasanaetha byth fel derbynfa isaf y meddwl, am fod y meddwl yn llifo iddi. Y canlyniad yw, mai yn ol ansawdd y sylfaen hon, a chyfatebiaeth y meddwl rhesymol a'i chynwysiad, y fath yw ansawdd y dyn ar ol marw: ond y rhai sydd yn marw yn blant, ac yn cael eu haddysgu yn y nefoedd, nid y fath sylfaen sydd ganddynt, ond sylfaen ysbrydol-naturiol, gan nad ydynt yn derbyn dim o'r byd materol a'r corff daearol: am hyny nis gallant fod mewn serchiadau a meddyliau mor gŵrs am eu bod yn derbyn pob peth o'r nefoedd. Heblaw hyn, plant ni wyddant iddynt gael eu geni yn y byd, ond tybiant iddynt gael eu geni yn y nefoedd; o ganlyniad, ni wyddant am unrhyw enedigaeth ond genedigaeth ysbrydol, yn cael ei heffeithio gan wybodaeth o ddaioni a gwirionedd, a chan ddeall a doethineb, o'r hyn y mae dyn yn ddyn: a chan fod y pethau hyn o'r Arglwydd, credant a charant gredu, mai plant yr Arglwydd ei Hun ydynt hwy. Er hyny, gall ystad dynion dyfant i oed ar y ddaear ddod mor berffaith ag ystad plant a dyfant yn y nefoedd, ond iddynt symud serchiadau corfforol a daearol—sef hunan gariad a chariad at y byd, a derbyn serchiadau ysbrydol yn eu lle.





## Y Doethion a'r Anysgedig yn y Nefoedd.

346. Credir y bydd y doethion yn mwynhau mwy o ogoniant a dyrchafiad yn y nefoedd na'r anysgedig, am y dywedir yn Daniel: "A'r doethion a ddysgleiriant fel dysgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y sêr byth ac yn dragywydd," Dan. xii. 3. Ond ychydig ŵyr pwy feddylir wrth y doethion, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder. Credir yn gyffredin mai y rhai a elwir yn wŷr llen a dysgedig ydynt, ac yn benaf y rhai fuont ddysgawdwyr yn yr Eglwys, ac a ragorasant ar ereill mewn athrawiaeth a phregethu, ac yn fwy neillduol y rhai o honynt a droisant lawer i'r ffydd. Y rhai hyn oll, yn y byd, a gredir eu bod yn ddoethion, ond nid hwy yw y doethion yn y nefoedd y cyfeirir attynt yn y geiriau hyn, oddieithr fod eu doethineb yn ddoethineb nefol, natur ac ansawdd yr hon a eglurir.

347. Doethineb nefol sydd ddoethineb fewnol, yn codi oddiar gariad y gwirionedd, nid er mwyn gogoniant yn y byd, nac er mwyn gogoniant yn y nefoedd, ond er mwyn y gwirionedd ei hun, yr hwn a enyn y cariad a'r pleser mwyaf mewnol. Y rhai a garant ac a ymhyfrydant yn y gwirionedd ei hun, a garant ac a ymhyfrydant yn ngoleuni y nefoedd; a'r rhai a garant ac a ymhyfrydant yn ngoleuni y nefoedd, a garant ac a ymhyfrydant hefyd yn y Gwirionedd Dwyfol, ïe, yn yr Arglwydd ei Hun: canys goleuni y nefoedd yw y Gwirionedd Dwyfol, a'r Gwirionedd Dwyfol yw yr Arglwydd yn y nefoedd (gwel uchod, r. 126—140. Y goleuni hwn nid â i fewn ond i fewnolion y meddwl yn unig, am fod mewnolion y meddwl wedi eu ffurfio i'w dderbyn; ac fel yr â i fewn, effeithia arnynt, a chyfrana hyfrydwch, oblegid beth bynag sydd yn llifo i fewn o'r nefoedd ac yn cael ei dderbyn, a gluda fwynhad a phleser yn ei fynwes. Oddiyma y daw gwir gariad at y gwirionedd, yr hyn yw cariad at y gwirionedd er ei fwyn ei hun; a'r rhai sydd yn y cariad hwnw, sydd mewn doethineb nefol, ac a ddysgleiriant yn y nefoedd fel dysgleirdeb y ffurfafen. Dysgleiriant oblegid fod y gwirionedd Dwyfol pa le bynag y byddo yn y nefoedd, yn goleuo (gwel uchod, r. 132); a ffurfafen y nefoedd a arwydda trwy gyfatebiaeth yr egwyddor ddeallol fewnol hono, mewn angylion a dynion, sydd yn ngoleuni y nefoedd; ond y rhai a garant wirionedd er mwyn gogoniant yn y byd, neu er mwyn gogoniant yn y nefoedd, nis gallant ddisgleirio yn y nefoedd, oblegid nad ydynt yn caru nac yn ymhyfrydu yn ngoleuni y nefoedd, ond yn ngoleuni y byd, yr hwn yn y nefoedd sydd dywyllwch du-dew. Yn mhawb o'r fath, hunan-ogoniant sydd yn rheoli, am mai dyna amcan eu holl ymdrechion: a phan fyddo hunanogoniant yn ddyben, dyn a edrych arno ei hun yn y lle cyntaf, ac a edrych ar y gwirioneddau is-wasanaethgar i'w ogoniant, fel

moddion i gyrhaedd yr amcan, ac o ganlyniad fel ei weision; oblegid yr hwn sydd yn caru gwirioneddau dwyfol er mwyn ei hunan-ogoniant, a barcha ei hun ynddynt ac nid yr Arglwydd: o ganlyniad efe a dry ymaith olwg ei ddeall, a llygad ei ffydd o'r nefoedd i'r byd, ac oddiwrth yr Arglwydd ato ei hunan. Y mae y fath bersonau yn ngoleuni y byd, ac nid yn ngoleuni y nefoedd. Ymddengys y rhai hyn mewn ffurf allanol, neu i olwg dynion, mor ddoeth a dysgedig a'r rhai sydd yn ngoleuni y nefoedd, am eu bod yn siarad yn debyg iddynt, ac weithiau mewn ymddangosiad yn ddoethach, am eu bod yn cael eu cyffroi gan hunan gariad, ac wedi dysgu ffugio serchiadau nefol; ond yn fewnol fel yr ymddangosant i olwg angylion, y maent o gymeriad hollol wahanol. Oddiwrth y sylwadau hyn gellir gwybod i ryw fesur, pwy feddylir wrth y doethion a ddisgleiriant yn y nefoedd fel disgleirdeb y ffurfafen: ond pwy a feddylir wrth y rhai a droant lawer i gyfiawnder ac a lewyrchant fel y sêr, a ddangosir yn awr.

348. Wrth y rhai a droant lawer i gyfiawnder y meddylir y rhai doeth; ac yn y nefoedd y rhai sydd mewn daioni a elwir yn ddoeth, sef y rhai a ufuddhant ar unwaith i'r gwirioneddau dwyfol yn eu bywyd: canys pan y mae y gwirionedd dwyfol yn ymgorffoli yn y bywyd daw yn ddaioni, oblegid daw yn egwyddor yn yr ewyllys a'r cariad, a pha beth bynag sydd o'r ewyllys a'r cariad a elwir daioni. Y rhai hyn a elwir doethion, am fod doethineb yn perthyn i'r bywyd; ond y rhai deallus y gelwir y rhai nad ydynt yn dwyn allan y gwirioneddau dwyfol yn uniongyrchol yn eu bywyd, ond yn gyntaf yn eu trysori yn y côf, ac yna eu dwyn allan yn eu bywyd. Yn mha fodd ac i ba fesur y mae y rhai deallus yn gwahaniaethu oddiwrth y rhai doeth yn y nefoedd, a welir yn y benod sydd yn son am y ddwy deyrnas yn y nefoedd, y nefol a'r ysbrydol, r. 20—28; ac yn yr hon sydd yn son am y tair nefoedd, r. 29—40. Y rhai sydd yn Nheyrnas Nefol yr Arglwydd, ac o ganlyniad, yn y drydedd neu y nef fwyaf mewnol, a elwir Cyfiawnion, am nad ydynt yn priodoli unrhyw gyfiawnder iddynt eu hunain, ond yr oll i'r Arglwydd; a chyfiawnder yr Arglwydd yn y nefoedd yw y daioni sydd oddiwrth yr Arglwydd. Y rhai hyn, gan hyny, a feddylir wrth y rhai a droant lawer i gyfiawnder, ac am y rhai y dywed yr Arglwydd: "Yna y llewyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul yn nheyrnas eu Tad," Math. xiii. 43. Dywedir y llewyrchant fel yr haul, oblegid eu bod mewn cariad at yr Arglwydd oddiwrth yr Arglwydd, oblegid mai hwnw yw y cariad feddylir wrth yr haul (gwel uchod, r. 116—125). Y goleu, hefyd, a lewyrcha o'u hamgylch sydd fflamllyd, a'u drychfeddyliau sydd o ansawdd fflamllyd, am eu bod yn derbyn y daioni a gyfyd o gariad yn uniongyrchol o'r Arglwydd, fel Haul y nefoedd.





349. Pawb a ddaethant i feddu deall a doethineb yn y byd, a dderbynir yn y nefoedd, a deuant yn angylion, pob un yn ol ansawdd a swm ei ddeall a'i ddoethineb: oblegid beth bynag a feddodd dyn yn y byd, a erys ac a ddygir ganddo ar ol angau, pan y cynydda ac y daw yn llawn: ond ni bydd y cynydd a'r llawnder hwn yn fwy na graddau ei gariad a'i ddymuniad am wirionedd a'r daioni dardd o hono. Y rhai heb ond ychydig o'r fath gariad a dymuniad, ni dderbyniant ond ychydig, ond eto gymaint ag a allant dderbyn yn eu gradd; ond y rhai â llawer o gariad a dymuniad a dderbyniant lawer. Y gradd o gariad a dymuniad yw y mesur a lenwir yn llawn; i'r hwn, gan hyny, a fedd fesur mawr, llawer a ychwanegir; ac i'r hwn a fedd fesur bach, ychydig: y rheswm yw, oblegid fod cariad, yr hwn yw tarddiad dymuniad, yn derbyn pob peth sydd yn cytuno âg ef ei hun; felly, y mae cariad a derbyniad yn gyfartal. Hyn a feddylir wrth eiriau yr Arglwydd: "Oblegid pwy bynag sydd ganddo, i hwnw y rhoddir, ac efe a gaiff helaethrwydd," Math. xiii. 12; Pen. xxv. 29. "Mesur da, dwysedig, ac wedi ei ysgwyd, ac yn myned trosodd, a roddant yn eich mynwes," Luc vi. 38.

350. Derbynir pawb i'r nefoedd a garasant Wirionedd a Daioni er eu mwyn eu hunain; y rhai a garasant lawer a elwir doethion; a'r rhai a garasant ychydig a elwir anysgedig. Y doethion yn y nefoedd sydd mewn goleuni mawr, ond yr anysgedig mewn goleuni llai; pob un yn ol gradd ei gariad at Wirionedd a Daioni. Caru daioni a gwirionedd er eu mwyn eu hunain, yw eu hewyllysio a'u gwneyd; am mai y rhai sydd yn ewyllysio a gwneyd yw y rhai sydd yn caru, ond nid y rhai nad yw yn ewyllysio a gwneyd. Y rhai sydd yn ewyllysio a gwneyd yw y rhai rydd yn caru yr Arglwydd, ac yn cael eu caru gan yr Arglwydd; am mai o'r Arglwydd y mae gwirionedd a daioni, a chan eu bod o'r Arglwydd, y mae yr Arglwydd ynddynt; o ganlyniad, y mae Efe hefyd gyda y rhai a dderbyniant ddaioni a gwirionedd yn eu bywyd trwy eu hewyllysio a'u gwneyd. Dyn, ac edrych arno ynddo ei hun, nid yw ddim ond ei ddaioni a'i wirionedd ei hun: oblegid fod daioni yn perthyn i'w ewyllys, a gwirionedd i'w ddeall, ac ansawdd yr ewyllys a'r deall yw ansawdd y dyn. Oddiyma amlwg yw, fod y dyn yn cael ei garu gan yr Arglwydd i'r graddau y byddo ei ewyllys yn cael ei ffurfio gan ddaioni, a'i ddeall gan wirionedd. Cael ei garu gan yr Arglwydd a feddylia hefyd ei fod ef yn caru yr Arglwydd: am fod cariad o'r ddau tu, ac i'r hwn sydd yn cael ei garu, yr Arglwydd a rydd iddo y gallu i garu.

351. Tybir yn y byd, fod y rhai a feddant lawer o wybodaeth am athrawiaethau yr Eglwys a'r Gair, neu wyddoniaeth, eu bod yn gweled gwirioneddau yn fwy mewnol a chraff nac ereill, a'u

bod yn fwy deallus a doeth: credant hwythau yn debyg am danynt eu hunain; ond eglurwn natur gwir ddealltwriaeth a doethineb, yn gystal a'r hyn sydd ffugiol a gau. Gwir ddealltwriaeth a doethineb sydd gynwysedig mewn gweled a chanfod yr hyn sydd wir a da, ac o ganlyniad, yr hyn sydd dywyllodrus a drwg, ac mewn gwahaniaethu yn gywir rhwng y naill a'r llall, trwy ymwybyddiaeth a chanfyddiad mewnol. Y mae pethau mewnol ac allanol yn mhob dyn; y pethau mewnol a berthynant i'r dyn mewnol neu ysbrydol, a'r pethau allanol i'r dyn allanol neu naturiol; gallu dyn i ddeall a chanfod a ddybyna ar ffurf ei fewnolion, a'r graddau y cydweithredant fel un a'i allanolion. Nis gellir ffurfio mewnolion dyn ond yn y nefoedd, ond ffurfir ei allanolion yn y byd; a phan fyddo y mewnolion yn cael eu ffurfio yn y nefoedd, byddant yn dylifo i'r allanolion sydd o'r byd, fel hyn dygir hwynt i gyfatebiaeth, hyny yw, yn un mewn gweithred: pan wneir hyn, bydd dyn yn gweled a chanfod o'i fewnolion. Yr unig foddion i ffurfio y mewnolion yw, i ddyn edrych i'r Duwdod ac i'r nefoedd; canys, megis y nodwyd, y mewnolion a ffurfir yn y nef. Gwna dyn edrych i'r Duwdod pan fyddo yn credu yn ei fodolaeth, a bod pob gwirionedd a daioni, ac o ganlyniad, pob deall a doethineb, o hono Ef; ac y mae efe yn credu yn y Duwdod pan yn foddlon cael ei arwain ganddo. Fel hyn, ac nid mewn un ffordd arall, yr agorir mewnolion dyn. Y dyn sydd yn y ffydd hono, ac yn byw yn ol ei ffydd, a fedd allu a chymhwysder i ddyfod yn ddeallus a doeth; ond fel y delo yn weithredol ddeallus a doeth, anghenrhaid yw iddo ddysgu llawer o bethau, nid yn unig am y nef, ond hefyd am y byd. Y pethau a berthyn i'r nef sydd i'w dysgu o'r Gair ac o'r Eglwys; a'r pethau a berthyn i'r byd o'r gwyddorau. I'r graddau y dysg dyn y pethau hyn, a'u cymhwyso at fywyd, y daw yn ddeallus a doeth: oblegid i'r un graddau y perffeithir llygad mewnol ei ddeall, a chariad mewnol ei ewyllys. Yr anysgedig yn yr ystyr hon, yw y rhai y mae eu mewnolion yn agored, ond heb gael llawer o'u gwrteithio gan wirioneddau ysbrydol, moesol, gwladol a naturiol. Canfyddant wirioneddau pan glywant hwynt, ond ni welant hwynt ynddynt eu hunain; ond y doethion yn yr ystyr hon yw y rhai y mae eu mewnolion nid yn unig yn agored, ond yn wrteithiedig, a'r rhai a welant wirioneddau ynddynt eu hunain, ac a'u canfyddant hwynt. Oddiwrth hyn gwelir beth yw gwir ddealltwriaeth a doethineb.

352. Deall a doethineb ffugiol sydd gynwysedig, nid mewn gweled a chanfod o'r mewnolion beth sydd wirionedd a daioni, ac felly beth sydd dywyllodrus a drwg, ond mewn credu yn unig, mai gwirionedd a daioni, neu dwyll a drygioni yw yr hyn a ddywedir ei fod felly gan ereill, ac wedi hyny ei gadarnhau. Y rhai na welant y gwirionedd o'r gwirionedd ei hun, ond oddiwrth





eiriau rhai ereill, gallant mor rhwydd gofleidio a chredu y gau a'r gwir, a gallant hefyd ei gadarnhau, hyd oni ymddangoso yn y diwedd yn wir; canys beth bynag a gadarnheir a ymddengys fel gwirionedd, ac nid oes dim nas gellir ei gadarnhau. Mewnolion y cyfryw bersonau sydd agored oddi-isod yn unig, ond eu hallanolion sydd agored i'r graddau y cadarnhasant eu hunain; o ganlyniad, y goleuni yn yr hwn y gwelant, nid goleuni y nefoedd yw, ond goleuni y byd, yr hwn a elwir goleuni naturiol; yn y goleuni hwn ymddengys anwireddau yn oleu fel y gwir, a phan gadarnhaer, ymddangosant yn ddisglaer, ond nid yn ngoleuni y nefoedd. Y rhai lleiaf deallus a doeth yn yr ystyr hon yw y rhai a gadarnhasant eu hunain gryfaf yn eu hopiniwnau, a'r rhai mwyaf deallus a doeth yw y rhai a gadarnhasant eu hunain leiaf. Oddiwrth hyn, amlwg yw beth yw deall a doethineb ffugiol. Ond ni chynwysir yn y dosbarth hwn y rhai pan yn blant, a dybient y pethau hyny yn wir a glywsant gan eu meistri, os wedi tyfu, a meddwl o'u deall eu hunain, na lynant yn ystyfnig wrthynt, ond dymuno am y gwirionedd, a'i geisio a'i garu wedi ei gael; y cyfryw a garant wirionedd er ei fwyn ei hun, a gwelant ei fod yn wirionedd cyn ei gadarnhau. Cawn egluro hyn trwy esiampl. Siaradai rhai ysbrydion ar y pwnc, paham y genir anifeiliaid gyda phob gwybodaeth gyfaddas i'w hangenion, tra na enir dyn felly: dywedid mai y rheswm yw, fod anifeiliaid yn nhrefn eu bywyd, ond nad ydyw dyn; fod yn rhaid, gan hyny, ei ddwyn ef i drefn trwy wybodaethau a gwyddorau; ond pe genid dyn yn nhrefn ei fywyd, yr hyn yw caru Duw uwchlaw pob peth, a'i gymydog fel efe ei hun, genid ef gyda deall a doethineb, ac felly gyda chred yn mhob gwirionedd, yn ol graddau ei gynydd mewn gwybodaeth. Yr ysbrydion da a welsant hyn yn uniongyrchol, ac a'i canfyddasasant trwy oleuni y gwirionedd ei hun; ond yr ysbrydion a gadarnhasent eu hunain mewn ffydd yn unig, ac a adawsant heibio gariad at Dduw a dyn, nis gallent ei ddeall, am fod goleuni anwiredd yr hwn a gadarnhasant yn tywyllu goleuni y gwirionedd.

353. Gau yw pob dealltwriaeth a doethineb nad ydynt sylfaenedig ar y gydnabyddiaeth o fodolaeth Duw, oblegid fod y rhai na chydnabyddant Dduw, ond natur yn lle Duw, yn meddwl o'r corff a'r synwyrau cnawdol, a dynion cnawdol yn unig ydynt, pa faint bynag o barch gânt yn y byd am eu dysg a'u gwybodaeth; nid yw eu dysg yn codi yn uwch na'r gwrthrychau sydd o'u hamgylch yn y byd ac yn ymddangos o flaen eu llygaid. Cadwant y pethau hyn yn eu côf, ac edrychant arnynt bron yn faterol, er fod y gwyddorau a fyfyriant yr un peth ag a wasanaetha i ffurfio deall y rhai gwir ddeallus. Wrth y gwyddorau y meddylir yr amryw fathau o wybodaeth brofedig, megis, Anianeg, Seryddiaeth, Fferylliaeth, Celfyddid, Mesuroniaeth, Difyniaeth, Meddyleg,

Athroniaeth, Hanes Teyrnasoedd, Llenyddiaeth, Beirniadaeth, ac Ieithoedd. Arweinwyr yr Eglwys yn gwadu Duw, ac heb ddyrchafu eu meddyliau uwchlaw y pethau cnawdol berthynant i'r dyn allanol, edrychant ar y Gair, a pha beth bynag a berthyn iddo, fel yr edrych ereill ar y gwyddorau: oblegid nis gwnant hwynt yn faterion meddwl, nac unrhyw ymwybyddiaeth, oddiar y dyn rhesymol goleuedig, oblegid fod eu mewnolion yn gauedig, ac hefyd yr allanolion agosaf at eu mewnolion. Cauedig yw y rhai hyn, oblegid fod y fath ddynion yn troi eu hunain ymaith o'r nefoedd, ac yn plygu y galluoedd all edrych yno—sef galluoedd mewnol y meddwl—i gyfeiriad croes: y canlyniad yw, nas gallant weled gwirionedd a daioni, am fod gwirionedd a daioni yn y tywyllwch iddynt hwy, tra y gau a'r drwg yn y goleu. Er hyny gall dynion cnawdol resymu, a rhai o honynt yn fwy medrus a manwl na dynion ereill: ond rhesymant yn unig oddiar dwyll eu synhwyrau, yn cael ei gadarnhau a'u gwybodaeth wyddonol. Am eu bod yn fedrus i resymu, tybiant eu hunain yn ddoethach nac ereill; ond y tân sydd yn enyn eu rhesymau, yw tân cariad at hunan a'r byd. Y rhai hyn sydd mewn deall a doethineb gau, ac a feddylir gan yr Arglwydd yn Mathew, "Canys a hwy yn gweled, nid ydynt yn gweled; ac yn clywed, nid ydynt yn clywed, nac yn deall," Math. xiii. 13—15. Ac mewn man arall, "Am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u datguddio o honot i rai bychain," xi. 25, 26.

354. Caniatawyd i mi siarad â llawer o'r dysgedigion ar ol eu hymadawiad â'r byd: a rhai mwyaf enwog a pharchus o herwydd eu hysgrifeniadau trwy yr holl fyd llenyddol, ac âg ereill nad oeddynt mor barchus, ond er hyny, a feddent ddoethineb guddiedig. Y blaenaf, y rhai a wadasant y Duwdod yn eu calonau, er cymaint gyffesent o Hono a'u gwefusau, a aethant mor benbwl, fel nas gallent bron amgyffred unrhyw wirionedd gwladol, llawer llai unrhyw wirionedd ysbrydol. Canfyddais, a gwelais hefyd, fod mewnolion eu meddyliau mor gauedig, fel yr oeddynt yn ddu—ymddengys y fath bethau yn weledig yn y byd ysbrydol—o ganlyniad nis gallent oddef unrhyw oleuni nefol, na derbyn unrhyw ddylifiad o'r nefoedd. Y duwch a wisgai eu mewnolion oedd fwy, ac a ymledaenai yn helaethach yn y rhai a gadarnhasant eu hunain yn erbyn y Duwdod trwy eu dysg a'u gwybodaeth wyddonol. Y fath ddynion yn y byd arall a dderbyniant bob cyfeiliornad gyda phleser, ac a'i hyfant, fel y gwna yr ysbwng y dwfr, ond gwrthgurant bob gwirionedd fel y gwna llawr caled yr hyn a syrth arno. Hysbyswyd fi hefyd, fod mewnolion y rhai a gadarnasant eu hunain yn erbyn y Duwdod ac o blaid natur, yn myned yn asgwrn: eu penau hefyd a ymddengys yn galed, fel pe wedi eu gwneyd o ebon, a'r ymddangosiad hwn a gyrhaedd hyd





y trwyn,—arwydd nad oes ganddynt allu i ganfod mwy. Y rhai o'r nodwedd hon a gânt eu suddo mewn tro-byllau, yn ymddangos fel corsydd, lle y cylchdroir hwynt gan y drychiolaethau darddant o'u cyfeiliornadau. Y tân uffernol a'u poenyddia yw ei chwant am ogoniant ac enw, yn eu cyffroi i lefaru yn chwerw yn erbyn eu gilydd, a dirboeni gyda brwdfrydedd uffernol y rhai na wnant eu haddoli hwy fel duwiau. Arteithiant eu gilydd yn olynol yn y modd hwn. Y fath gyfnewidiad wneir ar bob dysgeidiaeth fydol, na dderbyniodd oleuni o'r nefoedd trwy gydnabod y Duwdod.

355. Fod y dysgedigion o'r dosbarth hwn o'r fath natur yn y byd ysbrydol, pan ânt yno ar ol marw, ellir gasglu oddiwrth un ffaith yn unig: sef fod pob peth perthynol i'r côf naturiol, ac yn uniongyrchol gysylltiedig â synhwyrau cnawdol y corff, y pryd hwnw, fel y wybodaeth wyddonol a nodwyd uchod, yn llonydd, a'r casgliadau rhesymol tarddedig o honynt, yn unig a ffurfiant faterion meddwl ac ymddiddan. Gwir yr aiff dyn ganddo a'i holl gôf naturiol, ond y pethau a gynwys ni ddeuant i'w olwg, nac i'w feddwl, fel pan oedd efe yn y byd. Nis gall, gan hyny, adgofio dim o'r côf hwnw, ac edrych arno mewn goleu ysbrydol, am na chynwys ddim a berthyn i'r goleu hwnw; ond y mae y syniadau rhesymol a deallol gasglodd dyn tra yn byw yn y corff yn cytuno â goleuni y byd ysbrydol, o ganlyniad, i'r graddau y gwnaed ysbryd dyn yn rhesymol trwy wybodaeth a gwyddoniaeth yn y byd, y mae efe yn rhesymol wedi ymddattodiad y corff; canys ysbryd fydd dyn y pryd hwnw, a'r ysbryd sydd yn meddwl tra yn byw yn y corff.

356. Y rhai ar y llaw arall a ddaethant yn ddeallus a doeth trwy wybodaeth a gwyddoniaeth, fel y gwna pawb a gymhwysant bob peth i bwrpas defnyddiol mewn bywyd, ac ar yr un pryd a gydnabyddant y Duwdod, a garant y Gair, a byw bywyd moesol ac ysbrydol fel y soniwyd uchod, r. 319; y gwyddonau i'r cyfryw a wasanaethant fel moddion i gynyddu yn ddoeth, ac hefyd i gadarnhau egwyddorion y ffydd. Canfyddais a gwelais hefyd eu meddyliau yn ymddangos yn dryloew gyda goleuni o liw gwyn, fflamllyd, neu lâs-oleu, fel diamwnt, saphir, a pherlau trybelid: ymddangosent fel hyn yn ol dyfnder eu hargyhoeddiadau o fodolaeth y Duwdod, ac o'r gwirioneddau dwyfol a dynasant o'r gwyddonau. Gwir ddeall a doethineb a ymddangosant yn y fath ffurfiau pan ddangosir hwynt yn weledig yn y byd ysbrydol: yr ymddangosiad hwn a dardd o oleuni y nefoedd, y gwirionedd dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, yr hwn yw tarddiad pob deall a doethineb (gwel uchod, r. 126—133). Y pethau dderbyniant y goleuni hwnw, ag ynddo amrywiaethau fel y lliwiau, yw mewnolion y meddwl; a chadarnhau y gwirionedd dwyfol, trwy help gwrthrychau naturiol, megis y rhai y sonir am danynt yn y gwydd-

orau, gynyrcha yr amrywiaethau hyny: canys meddwl mewnol dyn a edrych i ystordai y côf naturiol, ac a gydia yn y pethau cadarnhaol iddo, coetha hwynt fel trwy dân nefol gariad, tyn hwynt allan, a phura hwynt nes y byddont yn syniadau ysbrydol. Y gwaith hwn sydd anhysbys i ddyn tra yn y corff, canys er ei fod ar y pryd yn meddwl yn ysbrydol a naturiol, nid yw yn ymwybodol o'r hyn a feddylia yn ysbrydol, ond o'r hyn a feddylia yn naturiol yn unig; ond pan ddaw i'r byd ysbrydol, nid yw yn ymwybodol o ddim feddyliodd yn naturiol yn y byd, ond yn unig yr hyn feddyliodd yn ysbrydol; y fath yw cyfnewidiad ei ystad. Oddiwrth y ffeithiau hyn amlwg yw, fod dyn yn cael ei wneyd yn ysbrydol trwy wybodaeth a gwyddor, yn gwasanaethu fel moddion i gynyddu mewn doethineb: ond nid i neb ond a gydnabyddant y Duwdod mewn bywyd a ffydd. Derbynir y rhai hyn hefyd yn y nefoedd uwchlaw pawb ereill, ac y maent yn y canol (r. 43), am eu bod mewn goleuni mwy nag ereill. Y rhai hyn yw y rhai deallus a'r doethion yn y nefoedd, a ddysgleiriant fel dysgleirdeb y ffurfafen, ac a lewyrchant fel y sêr; ond y rhai anysgedig yno yw y rhai a gydnabyddasant y Duwdod, a charu y Gair, gan fyw yn ysbrydol a moesol, er na wrteithiwyd mewnolion eu meddyliau gan wybodaeth a gwyddor. Y meddwl dynol sydd fel y tir, a'i ansawdd yn ol y gwrtaith wrtho.

### Y Cyfoethog a'r Tlawd yn y Nefoedd.

357. Llawer o dybiau sydd am y derbyniad i'r nefoedd. Tybia rhai mai y tlodion dderbynir yno ac nid y cyfoethogion; ereill, y derbynir y cyfoethog a'r tlawd yr un fath; ereill, nas gellir derbyn y cyfoethog heb iddo roddi heibio ei gyfoeth, a dyfod fel y tlawd: a phob un a gadarnha ei opiniwn o'r Gair. Ond y rhai a wnant wahaniaeth rhwng y tlawd a'r cyfoethog o ran eu haddasder i'r nefoedd, nid ydynt yn deall y Gair. Ysbrydol yw y Gair yn ei hanfod, ond yn naturiol yn y llythyren: am hyny, y rhai a ddeallant y Gair yn ol yr ystyr lythrenol yn unig, a dim yn ol yr ystyr ysbrydol, a gamgymerant ar lawer o bynciau, ac yn neillduol am y cyfoethog a'r tlawd: megis pan dybiant ei bod mor anhawdd i oludog fyned i'r nefoedd ag yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd; a'i bod yn hawdd i'r tlawd yn unig am ei fod yn dlawd, gan y dywedir, "Gwŷn eich byd y tlodion: canys eiddoch chwi yw teyrnas Dduw," Luc vi. 20, 21. Ond y rhai a wyddant ddim am ystyr ysbrydol y Gair a feddyliant yn wahanol. Gwyddant fod y nefoedd wedi ei bwriadu i bawb sydd yn byw bywyd o ffydd a chariad, pa un ai cyfoethog neu dlawd. Ond pwy a feddylir yn y Gair wrth y cyfoethog a phwy wrth y tlawd a ddangosir yn yr hyn a ganlyn. Oddiwrth lawer o siarad a bywyd gyda'r angylion, rhoddwyd i mi wybod yn sicr fod y cyfoethog yn





myned i'r nefoedd mor hawdd a'r tlawd: nad oes un dyn yn cael ei gau o'r nefoedd am ei fod yn byw mewn llawnder, na neb yn cael ei dderbyn am ei fod yn dlawd. Y mae cyfoethogion a thlodion yn y nefoedd; a llawer o'r cyfoethogion a fwynhant fwy o ogoniant a dedwyddwch na'r tlodion.

358. Priodol nodi wrth gychwyn, y gall dyn feddu cyfoeth a phentyru golud fel y caffo fantais, ond iddo beidio gwneyd hyny trwy ddyfeisiau cyfrwys a drygionus; y gall fwyta ac yfed yn foethus, ond iddo beidio gosod ei fywyd yn hyny; y gall fyw mewn tŷ ardderchog yn ol ei sefyllfa mewn cymdeithas; y gall siarad âg ereill fel y gwna ereill, a myned i leoedd difyr ac ymddiddan am bethau bydol; ac na raid iddo ymddangos yn ddefosiwnol, yn wyneb-drist a phlygu ei ben, ond y gall fod yn llawen a siriol; ac nid yw dan orfod i roddi i'r tlodion, ond mor bell y cyffroir ef gan gariad. Mewn gair, gall fyw yn allanol bron fel dyn y byd, ac ni wna y fath ymddygiad attal y nef i'w dderbyn, os y gwna feddwl yn fewnol mewn modd gweddus am Dduw, ac ymddwyn yn ddidwyll a chyfiawn tuag at ei gymydog: oblegid yr un ansawdd yw dyn a'i deimlad a'i feddwl, neu a'i gariad a'i ffydd; pob peth a wna yn allanol a dderbyn fywyd o'i serch a'i feddwl, canys gweithredu yw ewyllysio, a siarad yw meddwl, oblegid fod dyn yn gweithredu o'i ewyllys, a llefaru o'i feddwl; am hyny, pan ddywedir yn y Gair y caiff dyn ei farnu yn ol ei weirhredoedd, a'i at-dalu yn ol ei weithredoedd, y meddwl yw, y caiff ei farnu a'i at-dalu yn ol y meddyliau a'r teimladau roddasant enedigaeth i'w weithredoedd, neu sydd yn ei weithredoedd; canys hebddynt nid oes werth mewn gweithredoedd; cymeriad gweithredoedd ddybyna yn hollol ar y meddwl a'r teimlad. Oddiyma amlwg yw na wneir cyfrif o actau allanol dyn, ond y mewnol yw y cwbl, o'r hwn y deillia yr allanol. Cymerwn eglurhad:—Tybier fod un yn ymddwyn yn ddidwyll, ac yn peidio ysbeilio arall, yn unig oherwydd ofn y gyfraith, a cholli ei gymeriad, ac felly golli ei anrhydedd a'i elw, oni bai y fath ofn, efe a'i hysbeiliai hyd eithaf ei allu; am hyny y mae twyll yn ei feddwl a'i ewyllys, er ymddangos o'i weithredoedd allanol yn ddidwyll. Y mae uffern o fewn i'r fath ddyn, oblegid ei fod yn fewnol dwyllodrus ac ysbeilgar; ond yr hwn sydd ddidwyll yn ei weithredoedd, ac nad yw yn yspeilio arall, am fod hyny yn bechod yn erbyn Duw a'i gymydog, ni wnai hwnw ysbeilio ei gymydog pe cyfle ganddo, am fod ei feddwl a'i ewyllys dan lywodraeth ei gydwybod: y mae y nefoedd o fewn y dyn hwn. Y mae gweithredoedd y ddau yn ymddangos yn debyg o'r tu allan, ond o'r tu fewn y maent yn hollol anhebyg.

359. Gan y gall dyn fyw yn allanol fel y gwna ereill: gall ddyfod yn gyfoethog, cadw bwrdd llawn, byw mewn tŷ ardderchog,

a gwisgo dillad gorwych yn ol ei sefyllfa a'i waith; mwynhau pleserau, a chymeryd gofalon bydol er mwyn gwaith a masnach, ac er adfywiad corff a meddwl, os y gwna yn fewnol gydnabod y Duwdod, a dymuno yn dda i'w gymydog, amlwg yw nad yw mor anhawdd cerdded y ffordd i'r nefoedd ag y tybia llawer. Yr unig anhawsder yw, gallu gwrthwynebu hunan gariad a chariad at y byd, ac attal eu goruchafiaeth, am eu bod yn ffynonell pob drwg. Nad yw mor anhawdd ag y tybia llawer a ddysgir yn y geiriau hyn o eiddo yr Arglwydd: "Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf; canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon: a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau: Canys fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn," Math. xi. 29, 30. Iau yr Arglwydd sydd esmwyth, a'i faich sydd ysgafn, oblegid i'r graddau y gwrthwyneba dyn y drygau dardd o'i hunan gariad a'i gariad at y byd yr arweinir ef gan yr Arglwydd, ac nid ganddo ei hun: a'r Arglwydd wedi hyny a wrthwyneba y drygau hyn yn y dyn ac a'u symud.

360. Bum yn siarad a rhai wedi marw, a roddasant, pan ar y ddaear, y byd heibio, gan ymgyflwyno i fywyd bron hollol unig, fel y gallent trwy ddidyfnu eu meddyliau oddiwrth ofalon bydol, lwyr ymroddi i fyfyrdodau duwiol, gan gredu mai dyna y ffordd i fyned i lwybr y nefoedd: ond y mae y fath ddynion yn y byd arall o dymher drist, a dirmygant ereill os na byddant fel hwy eu hunain. Y maent yn llidiog hefyd oblegid na feddant ddedwyddwch uwch nag ereill, gan gredu yr haeddant hyny; ni ofalant ddim am ereill, a throant ymaith oddiwrth swyddfeydd cariad, er eu bod yn foddion undeb â'r nefoedd. Dymunant y nefoedd yn fwy nag ereill, ond pan godir hwynt yno, achosant bryder yn meddyliau yr angylion yn aflonyddu eu dedwyddwch: am hyny ysgarir hwynt o'u cymdeithas, ac ânt i anial-leoedd, lle yr arweiniant fywyd tebyg i'r hyn oedd ganddynt yn y byd. *Nis gellir ffurfio dyn i'r nefoedd ond trwy gyfrwng y byd.* Yno y bodola yr effeithiau eithaf, sef terfyniadau y serch: canys oddieithr i'r serch ollwng ei hun allan, neu dywallt ei hun i weithredoedd, yr hyn a wneir mewn cymdeithas liosog, caiff ei fogi, ac o'r diwedd, mor llwyr, fel na bydd dyn yn meddwl dim am ei gymydog, ond yn unig am dano ei hun. Oddiyma amlwg yw fod bywyd o gariad tuag at ein cymydog, yn gynwysedig mewn gwneyd yr hyn sydd uniawn a chyfiawn yn mhob gwaith ac yn mhob galwedigaeth, yn arwain i'r nefoedd, ond nid yw bywyd o dduwioldeb heb hyn yn arwain i'r nefoedd: o ganlyniad, fod arfer cariad, a chynydd bywyd o gariad trwy hyny, yn bodoli yn unig i'r graddau y byddo dyn mewn rhyw waith neu alwedigaeth, a'u bod yn darfod i'r graddau y symuda ei hun oddiwrth waith. Egluraf hyn oddiar brofiad. Y mae llawer yn y nefoedd o'r rhai fuont mewn trafnidiaeth a masnach yn y byd, ac a gyfoethogasant trwy eu gwaith:





ond llai o'r rhai fuont mewn safleoedd anrhydeddus ac a ddaethyn gyfoethog trwy eu swyddau. Y rheswm yw, oblegid fod rhai mewn swyddau anrhydeddus, yn cael eu denu gan yr elw a'r enw gaent fel gweinyddwyr cyfiawnder, ac hefyd wrth roddi swyddau enillfawr ac anrhydeddus i ereill, i garu eu hunain a'r byd, ac felly i symud eu meddyliau a'u serchiadau o'r nefoedd a'u troi attynt eu hunain: canys i'r graddau y gwna dyn garu ei hun a'r byd, a meddwl am dano ei hun a'r byd yn mhob peth, efe a ddieithria ei hun oddiwrth y Duwdod, ac a symud ei hun o'r nefoedd.

361. Y mae sefyllfa cyfoethogion yn y nefoedd y fath, fel y maent yn rhagori ar bawb ereill mewn golud. Trig rhai o honynt mewn palasoedd a phob peth ynddynt yn dysgleirio fel mewn aur ac arian, a mwynhant hefyd gyflawnder o bethau i sicrhau amcanion defnyddiol bywyd; er hyny, ni osodant eu calon ar y cyfryw bethau, ond ar eu defnyddioldeb. Gwelant y defnyddioldeb mewn dysgleirdeb a goleuni, ond yr aur a'r arian a ymddangosant iddynt yn gydmarol dywyll ac yn y cysgod, oblegid eu bod yn caru defnyddioldeb pan yn y byd, ac yn edrych ar aur ac arian yn unig fel moddion defnyddioldeb. Felly y mae defnyddioldeb ei hun yn dysgleirio yn y nefoedd; daioni defnyddioldeb fel yr aur, a gwirionedd defnyddioldeb fel arian. Cyfoeth, pleser, a dedwyddwch y cyfoethogion yn y nefoedd sydd yn cyfateb, gan hyny, i ansawdd eu defnyddioldeb yn y byd. Y mae defnyddioldeb yn gynwysedig mewn fod dyn yn darparu angenrheidiau bywyd iddo ei hun a'i deulu; mewn dymuno llawnder er mwyn ei wlad, ac hefyd er mwyn ei gymydog, yr hwn y gall y cyfoethog ei leshau mewn llawer ffordd yn fwy na'r tlawd; ac oblegid ei fod fel hyn yn gallu tynu ei feddwl oddiwrth fywyd segur, yr hwn sydd fywyd niweidiol, oblegid fod dyn segur dan ddylanwad meddyliau drwg, yn tarddu o'i ddrwg etifeddol. Y defnyddioldeb hwn sydd dda i'r graddau y byddo egwyddor ddwyfol ynddo, hyny yw, i'r graddau yr edrycho dyn ar y Duwdod a'r nefoedd, gan osod ei ddaioni penaf yno, ac edrych ar gyfoeth yn unig fel daioni is-wasanaethgar.

362. Hollol wahanol yw cyflwr y cyfoethogion nad ydynt yn credu yn y Duwdod, ac yn gwrthod o'u meddyliau bethau y nefoedd a'r Eglwys; yn uffern y mae y rhai hyn yn nghanol aflendid, angen, a thrueni. Newidia cyfoeth i'r fath bethau pan y gwneir ei garu fel dyben; nid y cyfoeth yn unig a newidir, ond hefyd y defnydd wnaed o hono, megis boddhau eu tueddiadau naturiol, ac ymddifyru mewn pleserau; rhoddi eu bryd yn helaeth a rhydd i gyflawni gweithredoedd drygionus, neu godi eu hunain uwchlaw ereill, a dirmygu rhai islaw iddynt. Y fath gyfoeth, a'r fath ddefnydd o hono, a dry yn fudreddi am nad oes dim ysbrydol

ynddynt, ond yn unig yr hyn sydd faterol: oblegid y mae egwyddor ysbrydol mewn cyfoeth a'r defnydd wneir o hono fel enaid yn y corff, ac fel goleu y nefoedd ar dir llaith. Heb y fath egwyddor ânt yn llygredig fel corff heb enaid, ac fel tir llaith heb oleuni y nefoedd. Dyma y rhai a hudir gan gyfoeth ac a dynir ganddo o'r nefoedd.

363. Y mae serch neu gariad llywodraethol pob dyn yn aros gydag ef ar ol marw, ac ni ddiwreiddir i dragwyddoldeb; canys y mae ysbryd dyn yn hollol fel ei gariad, a'r hyn sydd ddirgelwch, y mae corff pob ysbryd ac angel yn ffurf allanol ei gariad, yn cyfateb yn berffaith i'w ffurf fewnol, yr hon yw ffurf ei feddwl naturiol a rhesymol. Oddiyma yr adweinir cymeriad ysbrydion oddiwrth eu hwynebau, eu hystumiau, a'u lleferydd: a gellid adwaen ansawdd ysbryd dyn yn yr un modd tra fyddo byw yn y byd, pe na byddai wedi dysgu ffugio gwyneb, ystumiau a geiriau na pherthyn iddo. Oddiwrth hyn gwelir fod dyn yn aros i dragwyddoldeb yr un peth a'i serch neu ei gariad llywodraethol. Caniatawyd i mi siarad â rhai fuont byw ddwy a'r bymtheg o ganrifoedd yn ol, y gwyddwn am eu bywyd oddiwrth ysgrifeniadau yr oes hono: a sicrheid eu bod yn parhau dan lywodraeth y cariad a'u llywodraethent pan yn byw yn y byd. Oddiyma hefyd amlwg yw, fod cariad at gyfoeth a'i ddefnyddioldeb yn aros gyda phob un i dragwyddoldeb, a'i fod yn hollol o'r un ansawdd a'r hyn ydoedd yn y byd; ond gyda hyn o wahaniaeth, fod cyfoeth gyda rhai a'i defnyddiodd i amcanion da, yn troi i bleserau cyfatebol i'w ddefnyddioldeb, ond gyda rhai fu yn defnyddio cyfoeth i amcanion drwg, try yn fudreddu. Ymblesera y drygionus yn y fath fudreddu bron fel yr ymbleserent mewn cyfoeth yn y byd, er mwyn y defnydd drwg a wnaent o hono. Ymbleserant mewn budreddu, oblegid fod pleserau aflan a phechodau, yr hyn oedd y drwg ddefnydd a wnaent o'u cyfoeth, ac hefyd cybydd-dod, yr hyn yw cariad at gyfoeth heb olygu unrhyw lês, yn cyfateb i fudreddu. Nid yw aflendid ysbrydol yn ddim arall.

364. Nid yw y tlodion yn myned i'r nefoedd oblegid eu tlodi, ond oblegid eu bywyd; ei fywyd a ganlyn bob un pa un ai tlawd neu gyfoethog. Ni ddangosir ffafr neillduol i'r naill mwy na'r llall: derbynir yr hwn sydd wedi byw yn dda, a gwrthodir yr hwn sydd wedi byw yn ddrwg. Heblaw hyn, y mae tlodi yn hudo a thynu dynion o'r nefoedd lawn cymaint a chyfoeth; canys y mae llawer o dlodion yn anfoddlon i'w sefyllfa, yn trachwantu llawer o bethau, ac yn credu fod cyfoeth yn wir fendith. Digofus ydynt, gan hyny, os na dderbyniant hwynt, a meithrinant feddyliau drwg am Ragluniaeth Ddwyfol. Cenfigenant hefyd wrth fanteision ereill, ac y maent mor barod a'r anuwiolion cyfoethog i ysbeilio, a byw mewn pleserau aflan pan gaffont gyfleusdra. Ond gwa-





hanol yw y tlodion sydd yn foddlawn ar eu sefyllfa, yn ofalus a diwyd yn eu galwedigaethau, yn caru gwaith yn fwy na segurdod, yn ymddwyn yn ddidwyll a ffyddlawn, ac yn byw bywyd Cristionogol. Bum weithiau yn siarad a rhai berthynent i ddosborth y tlodion a'r bobl gyffredin, y rhai pan yn byw yn y byd, a gredent yn Nuw, ac a wnaent yr hyn oedd gyfiawn a thêg yn eu galwedigaethau. A chanddynt gariad i wybod y gwirionedd, holent lawer am natur cariad a ffydd, oblegid yn y byd, clywsant lawer am ffydd, ac yn y byd arall, lawer am gariad. Am hyny dywedwyd wrthynt mai cariad yw pob peth a berthyn i fywyd, a ffydd yw pob peth a berthyn i athrawiaeth; o ganlyniad, fod cariad yn gynwysedig mewn gwneyd yr hyn sydd uniawn a thêg yn mhob gwaith, a ffydd mewn meddwl yn uniawn a thêg: fod ffydd a chariad yn uno a'u gilydd, fel athrawiaeth a bywyd yn ol yr athrawiaeth, neu fel meddwl ac ewyllys: fod ffydd yn dyfod yn gariad, pan fyddo yr hyn a feddylio dyn yn gyfiawn a thêg, yn cael ei ewyllysio a'i wneyd hefyd, a bod cariad a ffydd y pryd hwnw yn un ac nid dau. Deallent yr eglurhad hwn yn rhwydd, ac yr oeddynt yn dra boddhaus arno, gan ddywedyd, pan oeddynt yn y byd nas gallent amgyffred, pa fodd y gallai credu fod yn ddim amgen na bywyd.

365. Eglur oddiwrth y pethau hyn fod y cyfoethog a'r tlawd fel eu gilydd yn myned i'r nefoedd, a'r naill mor hawdd a'r llall; ond credir yr aiff y tlawd yno yn rhwydd, a'r cyfoethog yn afrwydd, oblegid na ddeallir y Gair lle y llefara am y cyfoethog a'r tlawd. Wrth y cyfoethog y deallir yn yr ystyr ysbrydol, y rhai helaeth eu gwybodaeth o ddaioni a gwirionedd, a'r rhai gan hyny sydd o fewn yr Eglwys lle y mae y Gair; ac wrth y tlawd, y rhai amddifad o'r fath wybodaeth, ond yn ei dymuno, y rhai sydd felly allan o'r Eglwys, lle nad yw y Gair. Wrth y gŵr goludog a wisgid â phorphor a llian main, ac a daflwyd i uffern, y golygir y genedl Iuddewig, yr hon a elwir yn oludog oblegid meddu y Gair, ac felly yn helaeth mewn gwybodaeth am ddaioni a gwirionedd. Wrth wisgoedd porphor hefyd y golygir, gwybodaeth o ddaioni, ac wrth wisgoedd llian main, gwybodaeth o'r gwirionedd: ond wrth y tlawd a fwrid wrth ei borth, ac a ddymunai gael ei lanw â'r briwsion a syrthiai oddiar fwrdd y gŵr goludog, ac a ddygwyd gan yr angylion i'r nefoedd, y golygir y Cenhedloedd, nad oedd ganddynt wybodaeth am ddaioni a gwirionedd, ond a'i dymunent (Luc xvi. 19, 31). Wrth y rhai goludog a wahoddwyd i'r Swper Mawr, ac a wnaethant ymesgusodi, y meddylir hefyd y genedl Iuddewig, a'r tlodion a ddygwyd i fewn yn eu lle, y Cenhedloedd tuallan i'r Eglwys (Luc xiv. 16—24). Eglurwn pwy feddylir wrth y goludog y dywedodd yr Arglwydd am dano. "Haws yw i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur, nag i oludog

fyned i mewn i deyrnas Dduw," Math. xix. 24. Wrth y goludog yma, y golygir y rhai goludog yn y ddwy ystyr, naturiol ac ysbrydol. Y rhai goludog yn yr ystyr naturiol, yw y rhai sydd yn llawn cyfoeth, ac yn gosod eu calon arno; ond wrth y rhai goludog yn yr ystyr ysbrydol y meddylir y rhai llawn gwybodaeth a gwyddor, dyma y cyfoeth ysbrydol, a thrwyddynt yn dymuno gwybod am bethau y nefoedd a'r Eglwys o'u deall hunanol eu hunain. Am fod hyn yn groes i'r Drefn Ddwyfol y dywedir mai hawddach i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur: oblegid camel, yn yr ystyr ysbrydol, a arwydda egwyddor gwybodaeth a gwyddor yn gyffredinol, a chrai y nodwydd a arwydda wirionedd ysbrydol. Fod y fath bethau yn cael eu harwyddo gan gamel a chrai nodwydd, ni wyddir heddyw, oblegid nad yw y wyddor sydd yn dangos ystyr ysbrydol y pethau y sonir am danynt yn llythyren y Gair, wedi ei datguddio hyd yn awr. Y mae ystyr ysbrydol a naturiol yn holl fanylion y Gair, oblegid wedi i'r Undeb uniongyrchol rhwng y nefoedd a'r byd, neu mewn geiriau ereill, rhwng angylion a dynion, beidio, ysgrifenwyd y Gair trwy gyfatebion pur, yn ol perthynas pethau naturiol ac ysbrydol, fel y byddo yn gyfrwng Undeb. Oddiwrth hyn amlwg yw pwy feddylir yn neillduol wrth y goludog yn y geiriau uchod. Fod y goludog yn y Gair yn yr ystyr ysbrydol yn dynodi y rhai sydd mewn gwybodaeth am wirionedd a daioni: a golud, y wybodaeth hono ei hun, sef golud ysbrydol a welir mewn amrywiol fanau, megis yn Esaiah x. 12, 13, 14; xxx. 6, 7; xlv. 3; Jer. xvii. 3; xlvii. 7; l. 36, 37; li. 13; Daniel v. 2, 3, 4; Ezeciel xxvi. 7, 12; xxvii. 1, hyd y diwedd; Zech. ix. 3, 4; Psalm xl. 13; Hosea xii. 9; Dat. iii. 17, 18; Luc xiv. 33; ac mewn manau ereill. Fod y tlawd yn yr ystyr ysbrydol yn dynodi y rhai sydd heb wybodaeth o wirionedd a daioni, ond yn ei dymuno a welir oddiwrth Math. xi. 5; Luc vi. 20, 21; xxiv. 21; Esaiah xiv. 30; xxix. 19; xli. 17, 18; Zeph. iii. 12, 18. Gwelir y rhanau hyn oll yn cael eu hegluro yn ol yr ystyr ysbrydol yn yr Arcana Coelestia, r. 10, 227.

### Priodasau yn y Nefoedd.

366. Gan fod y nefoedd o'r hil ddynol, y mae yr angylion gan hyny o'r ddau ryw: a chan ei bod yn ordeiniedig o'r cread fod y wraig i'r gŵr a'r gŵr i'r wraig, felly fod y naill i'r llall; a chan fod cariad at hyny yn wreiddiol yn y ddau, y canlyniad yw fod priodasau yn y nefoedd fel ar y ddaear; ond priodasau yn y nefoedd sydd dra gwahanol i briodasau ar y ddaear. Egluraf, gan hyny, natur ac ansawdd priodasau yn y nefoedd, yn mha beth y maent yn gwahaniaethu oddiwrth briodasau ar y ddaear, ac yn mha beth y maent yn cytuno.

367. Priodas yn y nefoedd yw undeb dau i un meddwl: eglura





yn gyntaf natur y fath undeb. Cynwysa y meddwl ddwy ran, gelwir un y deall, a'r llall yr ewyllys; pan fyddo y ddwy ran hyn yn gweithredu mewn undeb, yna y gelwir hwynt un meddwl. Yn y nefoedd y gŵr a weithreda fel y rhan a elwir deall, a'r wraig fel y rhan a elwir ewyllys; a phan fyddo yr undeb hwn, sef undeb y mewnolion, yn disgyn i'r rhanau isaf a berthyn i'r corph, canfyddir a theimlir ef yno fel cariad; hwnw yw y cariad priodasol. Oddiyma amlwg yw, fod cariad priodasol yn tarddu o uniad dau feddwl yn un, a gelwir hyn yn y nefoedd, cyd-fyw: ac am y cyfryw y dywedir mai un ydynt ac nid dau. Dau briod, gan hyny, yn y nefoedd a elwir nid yn ddau ond *un angel.*

368. Fod y fath undeb yn bodoli rhwng gŵr a gwraig yn eu rhanau mwyaf mewnol perthynol i'r meddwl, a ganlyn o'r cread ei hun; canys ganwyd y dyn i fod yn ddeallus, ac i feddwl o'r deall; ond ganwyd y wraig i fod yn ewyllysgar ac i feddwl o'r ewyllys: amlwg yw hyn o dueddfryd, neu dymher wreiddiol, y ddau; ac hefyd oddiwrth eu ffurf. *O'u tymher,* gwelir fod y dyn yn gweithredu o'i reswm, ond y wraig o'r serch; ac *o'u ffurf,* obligid fod y dyn yn fwy garw ac anhardd ei wyneb, yn ddyfnach ei lais, ac yn gryfach o gorff; tra y mae y fenyw yn esmwythach a harddach ei gwyneb, yn dynerach ei llais, ac yn decach o gorff. Y mae gwahaniaeth cyffelyb rhwng y deall a'r ewyllys, neu rhwng y meddwl a'r serch; ac hefyd rhwng gwirionedd a daioni, a rhwng ffydd a chariad, canys gwirionedd a ffydd a berthyn i'r deall, a daioni a chariad a berthyn i'r ewyllys. Ar gyfrif hyn yn y Gair, y golygir wrth ddyn ieuanc a dyn, yn yr ystyr ysbrydol, dealltwriaeth o'r gwirionedd, ac wrth wyryf a gwraig, cariad at ddaioni; fod yr Eglwys, oddiar gariad at ddaioni a gwirionedd, yn cael ei galw yn wraig a gwyryf; a phawb sydd yn meithrin cariad at ddaioni a elwir gwyryfon, megis yn Dat. xiv. 4.

369. Pob un, gwyrw neu fenyw, a fwynhant ddeall ac ewyllys; ond yn y dyn y deall sydd oruchaf, a'r ewyllys yn y fenyw; a'r cymeriad a benderfynir gan yr hyn sydd oruchaf. Ond yn mhriodasau y nefoedd nid oes oruchafiaeth, gan mai ewyllys y wraig yw ewyllys y gŵr hefyd, a deall y gŵr yw deall y wraig hefyd; oblegid fod y naill yn caru ewyllysio a meddwl fel yr ewyllysia ac y meddylia y llall, ac fel hyn y maent yn ewyllysio a meddwl yn eu gilydd; y canlyniad yw eu bod yn uno yn un. Undeb gwirioneddol yw hwn: canys y mae ewyllys y wraig yn myned i fewn i ddeall y gŵr, a deall y gŵr i ewyllys y wraig, yn fwyaf neillduol pan fyddont yn edrych i wynebau eu gilydd: megis y dywedwyd yn fynych, y mae cymundeb meddyliau a serchiadau yn y nefoedd, yn neillduol rhwng rhai priod, am eu bod yn caru eu gilydd. Oddiwrth y pethau hyn, gellir gweled beth yw natur yr undeb meddyliau hwnw sydd yn cyfansoddi priodas yn y nef-

oedd, ac yn cynyrchu cariad priodasol; sef fod y ddau yn ewyllysio a dymuno fod pob peth sydd yn perthyn i'r naill yn perthyn i'r llall.

370. Dywedwyd wrthyf gan yr angylion, mai i'r graddau y mae dau briod yn y fath undeb, eu bod mewn cariad priodasol, ac ar yr un pryd, ac i'r un graddau, eu bod mewn dealltwriaeth, doethineb, a dedwyddwch; oblegid fod y Daioni Dwyfol a'r Gwirionedd Dwyfol, tarddiad pob deall, doethineb, a dedwyddwch, yn llifo yn benaf i'r cariad priodasol: ac o ganlyniad mai cariad priodasol yw prif dderbynfa y dylifiad dwyfol, yr hyn yw y gwirionedd a'r cariad yn briod â'u gilydd. Gan fod y cariad priodasol yn undeb y deall a'r ewyllys, y mae hefyd yn undeb gwirionedd a daioni, gan fod y deall yn derbyn y Gwirionedd Dwyfol ac yn cael ei ffurfio gan wirioneddau; a'r ewyllys yn derbyn y Daioni Dwyfol ac yn cael ei ffurfio gan ddaioni: oblegid yr hyn a ewyllysia dyn sydd dda iddo ef, a'r hyn a ddealla yw ei wirionedd ef. Yr un peth yw, gan hyny, pa un a lefarom am undeb y deall a'r ewyllys neu undeb gwirionedd a daioni. Undeb gwirionedd a daioni sydd yn gwneyd angel, ac hefyd ei ddeall, ei ddoethineb, a'i ddedwyddwch: canys y mae ansawdd angel yn dybynu ar y graddau y byddo y daioni ynddo yn un â'r gwirionedd, a'r gwirionedd yn un â'r daioni; neu yr hyn sydd yr un peth, ar y graddau y byddo ei gariad yn un â'i ffydd, a'i ffydd â'i gariad.

371. Yr egwyddor Ddwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd a lifa yn benaf i'r cariad priodasol, oblegid fod y cariad priodasol yn disgyn o undeb daioni a gwirionedd: canys fel y dywedwyd uchod, yr un peth yw undeb y deall a'r ewyllys ac undeb daioni a gwirionedd: ac y mae undeb daioni a gwirionedd yn tarddu o Gariad Dwyfol yr Arglwydd tuag at bawb yn y nefoedd a'r ddaear. O'r Cariad Dwyfol y deillia y Daioni Dwyfol, a'r Daioni Dwyfol a dderbynir gan angylion a dynion yn y gwirionedd; canys y gwirionedd yw unig dderbynfa daioni, am hyny nis gall dim yn deilliaw o'r Arglwydd ac o'r nefoedd gael ei dderbyn gan neb nad yw yn caru y gwirionedd. I'r graddau, gan hyny, y byddo gwirionedd a daioni yn un â'u gilydd yn y dyn, y mae y dyn ei hun yn un â'r Arglwydd ac â'r nefoedd. Dyma wir darddiad y cariad priodasol, a'r cariad hwn gan hyny yw gwir dderbynfa y dylifiad dwyfol; dyma y rheswm fod undeb daioni a gwirionedd, yn cael ei alw yn y nefoedd, yn briodas nefol, y cyffelybir y nefoedd i briodas yn y Gair, gan ei galw hefyd yn briodas, yr Arglwydd yn briodfab a phriod, a'r nefoedd a'r Eglwys yn briodasferch a gwraig.

372. Pan fyddo gwirionedd a daioni wedi eu huno mewn angel neu ddyn, nid dau ydynt, ond un: a'r undeb hwn sydd debyg i'r hyn fodola pan fyddo dyn yn meddwl yr hyn y mae yn ewyllysio, ac yn ewyllysio yr hyn y mae yn feddwl; yna bydd ei feddwl a'i





ewyllys yn gwneyd un, sef un meddwl: ei feddwl yn ffurfio, neu yn dangos mewn ffurf yr hyn a ewyllysia ei ewyllys: a'i ewyllys yn cyfranu pleser i'w feddwl. Hyn hefyd yw y rheswm nad yw dau briod yn cael eu galw yn ddau yn y nefoedd, ond un angel; a hyn feddylir gan eiriau yr Arglwydd: "Oni ddarllenasoch, i'r hwn a'u gwnaeth o'r dechreu, eu gwneuthur yn wrryw a benyw? Oblegid hyn y gâd dyn dad a mam, ac y glŷn wrth ei wraig: a'r ddau fyddant yn un cnawd. Oherwydd paham, nid ydynt mwy yn ddau, ond yn un cnawd. Y peth gan hyny a gysylltodd Duw, na ysgared dyn. Nid yw pawb yn derbyn y Gair hwn, ond y rhai y rhoddwyd iddynt," Math. xix. 4, 5, 6, 11; Marc x. 6, 7, 8, 9; Gen. ii. 24. Yn y geiriau hyn desgrifir priodasau nefol yr angylion, ac ar yr un pryd priodas daioni a gwirionedd. Wrth y gorchymyn, "Y peth a gysylltodd Duw nad ysgared dyn," y golygir na ddylid ysgaru gwirionedd a daioni.

373. Oddiwrth y gwirioneddau hyn gellir gweled yn glir darddiad y gwir gariad priodasol: sef ei fod yn cael ei ffurfio yn gyntaf yn meddyliau y rhai sydd briod, a'i fod yn disgyn oddiyno i'r corff, ac yn cael ei ganfod a'i deimlo fel cariad. Canys pa beth bynag a ganfyddir ac a deimlir yn y corff a dardd o natur ysbrydol dyn, gan ei fod yn deilliaw o'i ddeall a'i ewyllys: yr hyn yw y dyn ysbrydol; beth bynag a ddisgyn o'r dyn ysbrydol i'r corff, a ymddengys yno mewn ffurf arall, ond yn debyg ac unfrydol, fel yr enaid yn y corff, ac fel achos ac effaith; fel y gwelir yn y ddwy bennod ar Gyfatebion.

374. Clywais angel unwaith yn desgrifio cariad gwir briodasol a'i bleserau nefol yn y modd hwn. Mai Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn y nefoedd yw, hyny yw, y Daioni Dwyfol a'r Gwirionedd Dwyfol, yn unedig mewn dau fôd mor berffaith, fel nad dau ydynt mwyach, ond un. Efe a ddywedodd mai y cariad hwnw wedi ei wisgo mewn ffurf yw dau briod yn y nefoedd, am mai ei ddaioni ei hun a'i wirionedd ei hun yw pob un, o ran ei feddwl a'i gorff; drych y meddwl yw y corff, gan ei fod yn cael ei ffurfio yn ol ei ddelw. Casglai oddiwrth hyn fod delw Duw ar ddau sydd mewn gwir gariad priodasol; a chan fod delw Duw arnynt, felly hefyd y mae delw y nefoedd: oblegid mai y Daioni Dwyfol a'r Gwirionedd yn deilliaw o'r Arglwydd yw y nefoedd gyffredinol; ac oddiyma y mae pob peth nefol yn ysgrifenedig ar y cariad hwnw gyda gwynfyd a phleserau uwchlaw cyfrif. Efe a amlygodd y rhif trwy air yn cynwys myrddiwnau o fyrddiwnau, a synai na ŵyr aelodau yr Eglwys ddim am hyn, er mai nefoedd yr Arglwydd ar y ddaear yw yr Eglwys, a phriodas rhwng daioni a gwirionedd yw y nefoedd. Dywedodd ei fod yn synu fod mwy o odinebu tu fewn i'r Eglwys na thu allan, a bod y drwg yn cael ei amddffyn fel yn gyfreithlon: er nad yw pleserau godineb yn

yr ystyr ysbrydol, ac o ganlyniad yn y byd ysbrydol, ond pleserau cariad at dwyll yn unedig â drwg. Uffernol yw y pleserau hyn, a hollol groes i bleserau y nefoedd, sef pleserau cariad at wirionedd yn unedig â daioni

375. Gŵyr pawb fod dau briod sydd yn caru eu gilydd, yn fewnol unedig, ac mai hanfod priodas yw undeb meddyliau: oddiwrth hyn gellir gwybod fod ansawdd eu cariad a natur eu hundeb yn dybynu ar nodwedd hanfodol eu meddyliau. Caiff y meddwl rhesymol ei ffurfio yn hollol gan wirioneddau a daioni: oblegid pob peth yn y bydysawd a berthyn i ddaioni a gwirionedd, ac hefyd i'w huniad a'u gilydd; felly y mae ansawdd undeb meddyliau yr un peth ag ansawdd y gwirioneddau a'r daioni a'u ffurfiant: o ganlyniad yr undeb mwyaf perffaith rhwng meddyliau yw yr hwn a ffurfir gan wirioneddau a daioni pur. Gwybydder nad nes dau beth yn caru eu gilydd yn fwy na gwirionedd a daioni: ac mai cariad, gan hyny, yw ffynonell gwir gariad priodasol. Twyll a drwg hefyd a garant eu gilydd, ond y cariad hwn a droir yn uffern.

376. Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd yn awr am darddiad cariad priodasol, gellir casglu pwy sydd yn ei fwynhau, a phwy na sydd: am fod y rhai sydd mewn cariad priodasol yn meddu daioni dwyfol yn tarddu o wirioneddau dwyfol: a'r cariad priodasol sydd bur i'r graddau y byddo y gwirioneddau unedig a'r daioni yn bur. Gan mai o'r Arglwydd y mae pob daioni unedig â gwirionedd, y canlyniad yw, nas gall neb fod mewn gwir gariad priodasol, heb gydnabod yr Arglwydd, a'i Dduwdod: oblegid heb y gydnabyddiaeth hon nis gall yr Arglwydd lifo i fewn ac uno ei Hun â'r gwirioneddau sydd yn y dyn.

377. Oddiwrth hyn amlwg yw nad yw y rhai sydd yn y gau-gredoau, llai fyth y rhai sydd yn y gau-gredoau oddiar ddrwg, mewn cariad priodasol. Gyda rhai mewn drwg, ac o ganlyniad mewn gau-gredoau, cauedig yw y mewnolion perthynol i'r meddwl rhesymol, am hyny nis gall ffynonell cariad priodasol fodoli yno; ond o dan y mewnolion hyny, yn y dyn allanol neu naturiol, y mae undeb twyll a drwg, a'r undeb hwnw a elwir y briodas uffernol. Caniatawyd i mi gael gweled natur y briodas a fodola rhwng y rhai sydd mewn twyll yn tarddu o ddrwg, yr hon a elwir y briodas uffernol. Siaradant â'u gilydd, ac ymgysylltant oddiar nwydau anllad, ond yn fewnol llosgant mewn digofaint marwol yn erbyn eu gilydd, tuhwnt i bod desgrifiad.

378. Nis gall cariad priodasol fodoli rhwng dau berson o grefyddau gwahanol, oblegid nas gall gwirionedd y naill gytuno â daioni y llall, ac nis gall dwy elfen anhebyg ac anghydgordiol wneyd un meddwl o ddau: fel nad oes dim ysbrydol yn ffynonell eu cariad, ac os byddant yn cydfyw a chytuno, achosion naturiol





sydd i hyny. Ar gyfrif hyn cymer priodasau yn y nefoedd le rhwng rhai yn yr un gymdeithas, am eu bod mewn daioni a gwirionedd tebyg, ond nid rhwng rhai o aelodau gwahanol gymdeithasau. Pawb yn yr un gymdeithas, ydynt mewn daioni a gwirionedd tebyg, a gwahaniaethant oddiwrth rai mewn cymdeithasau ereill, fel y gwelir uchod, r. 41, a'r pennodau dilynol. Arddangosid hyn yn y genedl Iuddewig trwy fod priodasau yn cymeryd lle yn yr un llwyth, ac yn neillduol yn yr un teulu, ac nid allan o honynt.

379. Nis gall gwir gariad priodasol chwaith fodoli rhwng un gŵr âg amryw wragedd, am fod hyny yn dystrywio ei natur ysbrydol, yr hyn a gynwys ffurfio un meddwl o ddau: o ganlyniad, dystrywia undeb mewnol, sef undeb daioni a gwirionedd, o'r hyn y tardd gwir hanfod cariad priodasol. Dyn yn priodi mwy nag un wraig sydd debyg i'r deall yn ymranu rhwng llawer ewyllys, ac fel dyn yn glynu, nid wrth un Eglwys, ond wrth amryw, nes yw ei ffydd wrth ymranu i amryw ffyrdd yn diflanu. Dywed yr angylion fod priodi mwy o wragedd nag un yn hollol groes i Ddwyfol Drefn; y gwyddant hyn trwy lawer o achosion, a thrwy hyn yn neillduol, eu bod mor fuan ag y meddyliant am briodas gyda mwy nag un, yn colli pob teimlad o wynfyd mewnol a dedwyddwch nefol, a'u bod yn myned fel meddwon, am fod daioni yn cael ei ysgaru ynddynt oddiwrth ei wirionedd ei hun: a chan fod y mewnolion perthynol i'w meddwl, yn syrthio i'r fath ystad, dim ond meddwl am amlwreiciaeth, beth bynag fyddo y dyben, canfyddant yn glir fod priodas â mwy nag un wraig yn cau y dyn mewnol, ac yn lle cariad priodasol yn creu cariad anllad, yr hwn sydd yn tynu o'r nefoedd. Dywedant yn mhellach mai anhawdd i ddyn amgyffred hyn, oblegid mai ychydig sydd yn awr mewn gwir gariad priodasol, ac na ŵyr y rhai nad ydynt ynddo, ddim am bleserau mewnol a chynhenid y fath gariad, ond yn unig am bleser llygredig, yr hwn yn fuan wrth gyd-fyw a dry yn ddiflasder; tra y mae pleser gwir gariad priodasol nid yn unig yn parhau hyd henaint yn y byd, ond daw hefyd yn bleser y nefoedd ar ol angeu, ac yno y llenwir ef â mwyniant mewnol, a chaiff ei berffeithio i dragwyddoldeb. Dywedant hefyd fod gwynfydau cariad gwir briodasol yn rhifo amryw filoedd, na ŵyr dyn am gymaint ag un o honynt, ac nas gellir eu hamgyffred gan ddyn heb fod yn mhriodas daioni a gwirionedd deilliedig o'r Arglwydd.

380. Cariad i lywodraethu ar eu gilydd a gymer ymaith yn llwyr y cariad priodasol a'i nefol fwyniant: canys, megis y nodwyd uchod, cariad priodasol a'i bleserau sydd gynwysedig mewn bod ewyllys y naill yn ewyllys i'r llall, ac felly o bob tu. Cariad at lywodraethu a ddystrywia hyn: oblegid awydda yr hwn sydd yn llywodraethu i'w ewyllys ef yn unig reoli y llall, a dim o

ewyllys y llall i'w reoli ef: ac felly nid oes cydgyfnewidiad rhyngddynt, na chymundeb cariad a'i bleserau; ond y cymundeb hwn, a'r undeb o hono, yw y gwir bleser mewnol, sef y gwynfyd, sydd mewn priodas. Cariad at lywodraeth a lwyr ddiffodda y gwynfyd hwn, a chydag ef bob peth nefol ac ysbrydol mewn cariad priodasol, fel nad adwaenir hyd yn oed ei fodolaeth; a phe profid i'r fath bersonau ei fod yn bod, cyfrifent ef mor ddirmygedig, fel y gwnai dim ond son am wynfyd o'r fath ffynonell, bery iddynt wawdio neu ffromi. Pan y mae y naill yn ewyllysio neu garu yr hyn y mae y llall yn ewyllysio neu garu, y mae y ddau yn rhydd, am mai hiliogaeth cariad yw pob rhyddid: ond lle y mae llywodraeth nid yw y naill na'r llall yn rhydd, am fod y naill yn gaeth i'r llall, a'r llall yn gaeth i'w chwant lywodraethol. Anamgyffredadwy yw hyn i'r hwn sydd anwybodus o ryddid cariad nefol; oddiwrth yr hyn a ddywedwyd am darddiad a natur cariad priodasol, gellir gweled, mai i'r graddau y ffyna ysbryd llywydraethu, nad yw meddyliau yn cael eu huno, ond eu gwahanu, canys y mae llywodraeth yn darostwng, ac y mae meddwl darostyngedig heb ewyllys, neu yn meddu ewyllys groes: os heb ewyllys, heb gariad hefyd, ac os ewyllys groes, yno y mae casineb yn lle cariad. Y mae mewnolion y rhai sydd yn byw yn y fath briodas mewn gwrthdarawiad a brwydrau yn erbyn eu gilydd, yr hyn yn wastad a fodola rhwng dau wrthgyferbyniol, pa faint bynag fyddo yr attalfa a'r rheolaeth ar yr allaonlion er mwyn heddwch. Gwrthdarawiad a brwydrau eu mewnolion a ymddangosant yn amlwg ar ol angeu, pan, fel rheol, y cwrddant â'u gilydd, ac yr ymladdant fel pe mynent rwygo eu gilydd yn ddarnau; oblegid y pryd hwnw ymddygant yn ol ystad eu mewnolion. Gwelais hwy weithiau yn ymladd a rhwygo eu gilydd mewn llawer o engreifftiau yn llawn dialedd a chreulondeb; canys mewnolion pob un a ollyngir yn rhydd yn y byd arall, ac ni attelir hwynt mwy gan ystyriaethau allanol sydd a'u tarddiad mewn achosion bydol; canys yno ymddengys pob un yn amlwg y fath ag yw o fewn.

381. Bodola gyda rhai rhyw debygolrwydd i gariad priodasol, yr hwn, er hyny, nad yw gariad priodasol, pan nad yw y rhai priod mewn cariad at ddaioni a gwirionedd, ond cariad yw yn ymddangos yn debyg iddo, yn codi oddiar lawer o achosion: megis er engraifft, fel y gofaler am danynt gartref; fel y caffont fyw yn ddyogel, yn dawel a diog; fel y nodder hwynt mewn afiechyd a henaint, neu er mwyn eu plant, y rhai a garant; mewn rhai amgylchiadau bydd gorfodaeth, yn codi o ofn y priod, neu colli clod, neu niweidiau; ac weithiau cyfyd oddiar serthedd. Gall cariad priodasol hefyd wahaniaethu mewn dau briod. Gall un feddu mwy neu lai o hono, a'r llall ychydig neu ddim; ac felly gall y nefoedd fod yn gyfran i un ac uffern i'r llall.





382. Gwir gariad priodasol a ffyna yn y nefoedd fwyaf mewnol, oblegid fod angylion y nefoedd hono yn mhriodas daioni a gwirionedd, ac hefyd mewn diniweidrwydd. Y mae angylion y nefoedd isaf hefyd mewn cariad priodasol, ond i'r graddau yn unig y byddont mewn diniweidrwydd, canys ystad o ddiniweidrwydd yw cariad priodasol ynddo ei hun: ac am hyny rhai priod, mewn cariad priodasol, a fwynhant bleserau nefol, yn ymddangos o flaen eu meddyliau bron fel chwareuon diniweidrwydd yn mhlith plant; pob peth a'u difyrant, oblegid fod y nefoedd a'u llawenydd yn llifo i fewn i holl fanylion eu bywyd. Arddangosir cariad priodasol gan hyny yn y nefoedd trwy y gwrthrychau harddaf. Gwelais ef yn cael ei arddangos trwy wyryf anrhaethol hardd, yn cael eu hamgylchu gan gwmwl gwyn; a dywedwyd wrthyf fod holl harddwch angylion y nefoedd yn tarddu o'r cariad priodasol. Y serchiadau a'r meddyliau a lifant o hono a arddangosir gan awyrgylchau dysglaer fel y diemwnt, ac yn serianu fel perlau drudfawr; a'r oll yn llawn pleserau yn effeithio ar fewnolion y meddwl. Mewn gair, y nefoedd a arddengys ei hun mewn cariad priodasol, oblegid mai y nefoedd yn yr angylion yw undeb daioni a gwirionedd, a'r undeb hwn sydd yn gwneyd cariad priodasol.

382*. Priodasau yn y nefoedd a wahaniaethant oddiwrth briodasau ar y ddaear yn yr ystyr hon; heblaw amcanion ereill, ordeinir priodasau ar y ddaear er cenhedlu plant, ond ni wneir hyny yn y nefoedd: ond yn y nefoedd, yn lle cenhedlu plant, cenhedlir daioni a gwirionedd, fel y dangoswyd uchod. Yn y briodas hono, y prif bethau gânt eu caru yw daioni a gwirionedd a'u hundeb. Dyma y pethau a gânt eu hepilio o briodasau yn y nefoedd, ac ar gyfrif hyn y mae genedigaethau a chenhedliadau, yn y Gair, yn arwyddo genedigaethau a chenhedliadau ysbrydol daioni a gwirionedd. Mam a thad a arwyddant wirionedd yn un â daioni yn epilio; meibion a merched y gwirioneddau a'r daioni gânt eu hepilio; a meibion a merched yn nghyfraith, uniad y pethau hyn; ac felly mewn engreifftiau ereill. Oddiwrth hyn, amlwg yw nad yw priodasau yn y nefoedd yr un fath a phriodasau ar y ddaear. Yn y nefoedd, ysbrydol yw y priodasau, ac nid ydynt i'w galw yn briodasau cnawdol, ond yn undeb meddyliau yn tarddu yn mhriodas daioni a gwirionedd: ond ar y ddaear y maent yn briodasau cnawdol, oblegid eu bod, nid yn unig o'r ysbryd, ond hefyd o'r cnawd: a chan nad oes briodasau cnawdol yn y nefoedd, ni elwir dau briod yno yn ŵr a gwraig, ond oddiwrth y drychfeddwl sydd gan yr angylion am uniad dau feddwl, gelwir pob un o honynt wrth enw yn arwyddo yr hyn ydynt gyda'u gilydd ac i'w gilydd yn un. Oddiwrth y sylwadau hyn

* Ceir y rhif hon yr ail waith yn y gwreiddiol.

gellir gwybod beth sydd i'w ddeall oddiwrth eiriau yr Arglwydd yn Luc xx. 35, 36, am briodasau.

383. Caniatawyd i mi hefyd weled y modd y cymer priodasau le yn y nefoedd. Trwy yr holl nefoedd, y mae y rhai sydd o gymeriadau tebyg gyda'u gilydd, a'r rhai sydd o gymeriadau anhebyg ar wahan. Pob cymdeithas nefol a gynwys angylion o dymherau tebyg: tebyg a dyn at ei debyg, nid trwyddynt eu hunain, ond gan yr Arglwydd (gwel uchod, r. 41, 43, 44, a'r hyn a ganlyn). Yn yr un modd, dau gydmar priodasol, sydd a'u meddyliau yn addas i'w huno yn un, a dynir at eu gilydd o'u henaid mwyaf mewnol ar yr olwg gyntaf: am hyny carant eu gilydd, gwelant eu bod yn ddau gydmar priodasol, a phriodant. Felly, o'r Arglwydd yn unig y mae yr holl briodasau yn y nefoedd. Cadwant hefyd wledd gysegredig a lliosog ar adeg pob priodas; gwahaniaetha y gwleddoedd yn y Cymdeithasau.

384. Ystyria yr angylion briodasau ar y ddaear y pethau mwyaf sanctaidd, am eu bod yn fagwrfa yr hil ddynol, ac angylion y nefoedd (megis y dangoswyd mewn pennod neillduol fod y nefoedd o'r hil ddynol); oblegid eu bod hefyd yn deilliaw o darddiad ysbrydol, sef o briodas daioni a gwirionedd; ac oblegid fod Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn dylifo yn benaf i'r cariad priodasol. Ar y llaw arall, ystyriant odineb yn halogedig, oblegid ei fod yn groes i gariad priodasol: canys megis mewn priodasau y gwel yr angylion briodas daioni a gwirionedd, yr hyn yw y nefoedd, felly mewn godinebau, gwelant briodas anwiredd a drygioni, yr hyn yw uffern. Oherwydd hyn, pan glywant odineb ond cael ei enwi, troant ymaith. Hyn yw y rheswm fod y nefoedd yn gauedig yn erbyn y dyn pan y cyflawna odineb gyda hyfrydwch; a phan fyddo y nefoedd yn gauedig i'w erbyn, nid yw efe mwy yn cydnabod y Duwdod na dim perthynol i ffydd yr Eglwys. Y mae pawb yn uffern yn groes i gariad priodasol, fel y rhoddwyd i mi ganfod, oddiwrth y dylifiadau oddiyno, yn debyg i ymdrech barhaus i chwalu a halogi priodasau; oddiwrth hyn, amlwg yw mai prif bleser uffern yw godineb: yr hyn hefyd yw y pleser o ddinystrio undeb daioni a gwirionedd, yr hwn undeb sydd yn gwneyd y nefodd. Oddiyma y canlyn fod pleser godineb yn bleser uffernol, hollol groes i bleser priodas, yr hwn sydd bleser nefol.

385. Rhyw ysbrydion, oddiar arferiad ffurfiasant yn y corff, a'm haflonyddent gyda medr neillduol, trwy ddylifiad tyner, fel yn tonogi, yn debyg fel y gwna ysbrydion da: ond canfyddais fod cyfrwysder, a drygau tebyg, ynddynt yn eu cyffroi i'm rhwydo a'm twyllo. O'r diwedd siaredais âg un o honynt, a fu, fel y dywedwyd wrthyf, yn swyddog milwrol pan yn byw yn y byd; fel y canfyddais fod tuedd anllad yn guddiedig yn ei feddyliau, siaredais





âg ef am briodas. Siaredais mewn iaith ysbrydol, gydag arddangosiadau, yn amlygu y meddwl amcanedig yn gyflawn, a llawer o syniadau mewn moment. Dywedodd ei fod pan yn byw yn y corff yn edrych yn fach ar odinebau: ond rhoddwyd i mi ddywedyd wrtho fod godinebau yn erchyll, er nad ymddangosant felly i rai o'i fath ef, ond yn gyfreithlon, oblegid eu hyfrydwch ynddynt, a'u gallu mewn canlyniad i hudo y meddwl i dwyll. Dywedais y gallai wybod hyn oddiwrth yr ystyriaeth fod priodas yn fagwrfa i'r hil ddynol, ac hefyd i deyrnas nefoedd, ac nad yw i'w halogi mewn un modd, ond i'w chyfrif yn santaidd: y dylai wybod, gan ei fod yn y byd arall, ac mewn ystad i ganfod yn glirach, fod cariad priodasol yn disgyn o'r Arglwydd trwy y nefoedd, ac mai oddiwrth y cariad hwn, fel oddiwrth dad, y daw cydgordiad, yr hwn yw rhwymyn cryf y nefoedd; fod godinebwyr, pan yn nesu at y cymdeithasau nefol, yn cael teimlo eu drygsawr eu hunain, a thaflant eu hunain oddiyno, bendramwnwgl tuag uffern; y gallai o leiaf wybod, fod halogi priodas yn groes i'r deddfau dwyfol, ac yn groes i ddeddfau gwladol pob teyrnas, ac yn groes i oleuni rheswm, oblegid ei fod yn groes i bob trefn ddwyfol a dynol, heb son am lawer o ystyriaethau ereill: ond efe a attebodd na feddyliodd erioed am y fath bethau pan yn byw yn y corff. Efe a ddymunai resymu ai felly yr oedd neu beidio; ond dywedwyd wrtho nad yw y gwirionedd yn galw am resymu, am fod rhesymau yn ffafrio pleser y rhesymwr, ac felly yn ffafrio ei ddrygau a'i anwiredd: y dylai efe yn gyntaf feddwl am y pethau a ddywedwyd, oblegid eu bod yn wirioneddau, ac y dylai hefyd feddwl o'r egwyddor hono adwaenir mor dda yn y byd—na ddylai neb wneuthur i arall yr hyn nad yw yn foddlawn i arall wneuthur iddo Ef: pe hudai unrhyw odinebwr ei wraig ef ei hun, anwyl ganddo, fel yr anwyla pob un ei wraig yn adeg gyntaf priodas, oni wnai yntau ffieiddio godineb: ac wedi ei gyffroi gan y fath drais, fel dyn o feddwl cryf, oni wnai efe yn fwy nag ereill ymgadarnhau yn y gred o erchylldra godineb, a'i gondemnio hyd yn oed i uffern.

386. Dangoswyd i mi y modd y mae pleserau cariad priodasol yn tynu tua'r nefoedd, a phleserau godineb tuag uffern. Tynfa pleserau cariad priodasol tua'r nefoedd, a ddangoswyd trwy wynfydau a dedwyddwch yn cynyddu yn barhaus mewn rhif hyd oni ddaethant yn aneirif ac anrhaethadwy; pa fwyaf mewnol yr aent, mwyaf aneirif ac anrhaethadwy oeddynt, hyd oni chyrhaeddasant wir wynfydau a dedwyddwch y nefoedd fwyaf mewnol, sef nefoedd diniweidrwydd, a'r oll mewn rhyddid perffaith: canys pob rhyddid a deillia o gariad, ac felly y rhyddid mwyaf perffaith o gariad priodasol, gan mai cariad nefol ei hun yw hwnw. Ond tynfa godineb oedd tuag uffern, ac yn raddol tua'r uffern isaf lle nad

oes dim ond sydd erchyll a dychrynllyd. Dyna y dynged a erys odinebwyr wedi gadael y byd. Wrth odinebwyr y meddylir y rhai sydd yn ymhyfrydu mewn godinebau, heb ddim hyfrydwch mewn priodas.

### Gwaith yr Angylion yn y Nefoedd.

387. Anmhosibl enwi neu desgrifio yn fanwl galwedigaethau y nefoedd, oblegid eu bod yn aneirif, ac yn amrywio yn ol swyddau neillduol pob cymdeithas: ond gellir dyweyd rhai pethau am danynt yn gyffredinol. Pob cymdeithas a gyflawna swydd neillduol; canys megis y mae y cymdeithasau yn cael eu gwahaniaethu gan natur y daioni a feddant (gwel uchod, r. 41), gwahaniaethir hwynt hefyd gan eu defnyddioldeb; gan fod daioni gyda phawb yn y nefoedd mewn gwaith, yr hyn yw defnyddioldeb. Defnyddiol yw pob un sydd yno, canys Teyrnas o ddefnyddioldeb yw Teyrnas yr Arglwydd.

388. Y mae yn y nefoedd, fel ar y ddaear, lawer o swyddau: canys y mae yno oruchwylion Eglwysig, goruchwylion gwladol, a goruchwylion teuluaidd. Eglur fod goruchwylion Eglwysig yn y nefoedd oddiwrth yr hyn a ddywedwyd uchod am addoliad dwyfol (r. 221—227); goruchwylion gwladol, oddiwrth yr hyn a ddywedwyd am lywodraethau yn y nefoedd (r. 213—220); a goruchwylion teuluaidd oddiwrth yr hyn a ddywedwyd am drigfanau a phalasoedd yr angylion (r. 183—190), ac am briodasau yn y nefoedd (r. 366—386). Felly, amlwg yw fod llawer o swyddau a gweinidogaethau yn mhob cymdeithas nefol.

389. Gwneir pob peth yn y nefoedd yn ol Trefn Ddwyfol, yn cael ei gwarchod yn mhob lle gan weinidogaeth angylion: angylion mwy doeth yn gofalu am y pethau sydd dda neu o les cyffredinol, ac angylion llai doeth am y pethau sydd dda neu o les neillduol, ac felly yn mlaen. Pawb sydd ddarostyngedig fel y mae pob defnyddioldeb yn ddarostyngedig i Ddwyfol Drefn: felly y canlyn fod urddas yn perthyn i bob swydd yn ol urddas ei defnyddioldeb. Nid oes yr un angel, er hyny, yn honi yr urddas iddo ei hun, ond yn priodoli pob urddas i'r defnyddioldeb: a chan mai y defnyddioldeb yw y daioni a wna, a bod pob daioni o'r Arglwydd, am hyny y rhydd ef y clod i gyd i'r Arglwydd. Yr hwn, gan hyny, a feddylia am yr anrhydedd fel yn ddyledus iddo ef yn y lle cyntaf, ac yn yr ail le i'r defnyddioldeb a wna, ac nid yn y lle cyntaf i'r defnyddioldeb a wna, ac yn israddol yn unig iddo ef, nis gall y cyfryw gyflawni unrhyw swydd yn y nefoedd: oblegid ei fod yn edrych yn ol oddiwrth yr Arglwydd, trwy gyfrif ei hun yn y lle cyntaf, a defnyddioldeb yn yr ail le. Pan soniwn am ddefnyddioldeb, golygwn yr Arglwydd hefyd, oblegid fel y nodwyd, daioni yw defnyddioldeb, a daioni sydd oddiwrth yr Arglwydd.





390. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn gellir casglu natur ac ansawdd israddoliaeth yn y nefoedd, sef, i'r graddau y byddo un yn caru, edmygu, ac anrhydeddu defnyddioldeb, y bydd efe hefyd yn caru, edmygu, ac anrhydeddu y person trwy yr hwn y daw y defnyddioldeb; ac hefyd fod y person yn cael ei garu, ei edmygu, a'i anrhydeddu i'r graddau na byddo yn priodoli y defnyddioldeb iddo ei hun, ond i'r Arglwydd: oblegid i'r graddau hyny y bydd efe yn ddoeth a defnyddiol oddiar egwyddor dda. Cariad ysbrydol, edmygedd, ac anrhydedd nid ydynt ddim ond cariad. Edmygedd ac anrhydedd at ddefnyddioldeb yn y person sydd ddefnyddiol; ac anrhydedd y person a dardd o'i ddefnyddioldeb, ac nid anrhydedd y defnyddioldeb o'r person. Yr hwn sydd yn edrych ar ddynion mewn goleuni ysbrydol, ni wna eu cyfrif mewn un modd arall; canys efe a wel fod un dyn yn debyg i'r llall, pa un a fydd efe mewn urddas mawr neu fychan: eu bod yn gwahaniaethu yn unig mewn doethineb, a bod doethineb yn gynwysedig mewn caru defnyddioldeb, ac o ganlyniad caru lles ein cyd-ddinasyddion, ein cymdeithas, ein gwlad a'r Eglwys. Yn hyn hefyd y cynwysir cariad at yr Arglwydd, oblegid fod pob daioni, yr hyn yw daioni defnyddioldeb, yn tarddu o'r Arglwydd. Hyn hefyd yw caru cymydog, gan mai ein cymydog yw y daioni sydd i'w garu yn ein cyd-ddinasyddion, yn ein cymdeithas, ein gwlad a'r Eglwys, a'r daioni sydd i'w wneyd iddynt.

391. Gwahaniaethir holl gymdeithasau y nefoedd yn ol eu defnyddioldeb, oblegid eu bod yn cael eu gwahaniaethu yn ol amrywiaethau eu daioni, megis y dywedwyd uchod (r. 41), a'r hyn a ganlyn: amrywiaethau eu daioni yw amrywiaethau eu gweithredoedd da, yr hyn yw defnyddioldeb. Y mae cymdeithasau eu gwaith yw gofalu am blant, cymdeithasau ereill eu gwaith yw eu hyfforddu a'u haddysgu fel eu bod yn tyfu; ereill yr un modd yn hyfforddu ac addysgu bechgyn a merched o duedd dda trwy eu haddysg yn y byd, y rhai a ddeuant i'r nefoedd; ereill yn dysgu y rhai da anwybodus o'r byd Cristionogol, gan eu harwain i'r nefoedd: ereill yn cyflawni yr un gwaith i'r gwahanol genhedloedd; ereill yn amddiffyn ysbrydion newydd ddyfod o'r byd, rhag gormes ysbrydion drwg; rhai, hefyd, a wyliant y rhai sydd yn y ddaear îs; ac y mae rhai yn gweini ar yr uffernolion i'w hatal i boenyddio eu gilydd tuhwnt i'r terfynau gosodedig; y mae ereill hefyd yn gwasanaethu ar y rhai sydd yn adgyfodi o farw. Yn gyffredinol y mae angylion o bob cymdeithas yn cael eu hanfon at ddynion, i'w gwarchod, a'u tynu oddiwrth serchiadau drwg, ac mewn canlyniad oddiwrth feddyliau drwg, a'u hysbrydoli â serchiadau da, mor bell ag y maent yn foddlon eu derbyn yn rhydd. Trwy y fath serchiadau hefyd y maent yn rheoli gweithredoedd dynion, gan symud amcanion drwg oddiwrthynt mor bell

y gallant. Pan fyddo angylion yn gweini ar ddyn, trigant, fel pe byddai, yn eu serchiadau, ac y maent yn agos ato i'r graddau y byddo efe mewn daioni yn tarddu o wirionedd: ond y maent yn bell i'r graddau y byddo ei fywyd yn mhell o ddaioni. Yr holl weinyddiadau hyn o eiddo yr angylion ydynt swyddau yn cael eu cyflawni gan yr Arglwydd trwyddynt: canys yr angylion a'u cyflawnant, nid o honynt eu hunain, ond o'r Arglwydd; ac felly wrth angylion yn y Gair yn yr ystyr fewnol y meddylir, nid angylion, ond dylanwad oddiwrth yr Arglwydd: am yr un rheswm y gelwir yr angylion yn dduwiau yn y Gair.

392. Gweinidogaethau cyffredinol yr angylion yw y rhai hyn; ond y mae gan bob angel ei waith neillduol ei hun: canys y mae pob defnyddioldeb cyffredinol yn cael ei gyfansoddi o aneirif weinyddiadau, yn cael eu galw yn weinyddiadau cyfryngol, gweinyddol, ac is-wasanaethgar. Yr oll a phob un o honynt wedi eu trefnu yn ol Dwyfol Drefn, a chyda'u gilydd yn cyfansoddi a pherffeithio y defnyddioldeb cyffredinol, sef y daioni cyffredin.

393. Bydd swyddau Eglwysig yn y nefoedd yn ngofal rhai, pan yn y byd a garent y Gair, ac a chwilient yn awyddys i'r gwirioneddau a gynwys, nid er mwyn enw neu elw, ond er mwyn defnyddioldeb bywyd, iddynt eu hunain ac i ereill. Y rhai hyn sydd dra goleuedig yn y nefoedd yn ngoleu doethineb, yn ol eu cariad a'u dymuniad i fod yn ddefnyddiol; canys deuant i'r goleuni hwnw yn y nefoedd o'r Gair, nad yw naturiol fel yn y byd, ond ysbrydol (gwel uchod, r. 259). Y rhai hyn a lanwant swydd pregethwyr, ac yn ol Dwyfol Drefn, y rhai a ragorant ar ereill mewn doethineb oddiar oleuni, a lanwant y lleoedd uchaf. Ond swyddau gwladol a lenwir gan rai, pan oeddynt yn y byd a garent eu gwlad a'i daioni cyffredinol, yn fwy na'u mantais personol eu hunain, ac a wnaent yn uniawn a chyfiawn oddiar gariad at uniondeb a chyfiawnder. Y fath ddynion a feddant gymhwysder i lanw swyddau yn y nefoedd i'r graddau y gwna cariad at uniondeb eu cymhell i chwilio deddfau cyfiawnder, ac felly i ddyfod yn ddoeth. Y swyddau a lanwant sydd yn cyfateb yn hollol i raddau eu dealltwriaeth; a'u dealltwriaeth sydd gyfartal i'w cariad at y daioni cyffredin. Heblaw hyn, y mae y fath niferoedd o swyddau yn y nefoedd, a'r fath niferoedd o weinidogaethau, a'r fath niferoedd o alwedigaethau hefyd, fel mai anmhosibl eu cyfrif gan eu hamledd. Ychydig mewn cydmariaeth yw y rhai sydd yn y byd. Yr holl angylion a deimlant bleser yn eu gwaith a'u llafur oddiar gariad at ddefnyddioldeb, a dim oddiar gariad at enw ac elw. Nid oes neb yno dan lywodraeth cariad at elw er mwyn ei fywiolaeth, am fod holl anghenrheidiau bywyd yn cael ei rhoddi iddynt yn rhad—eu tai, eu dillad, a'u bwyd. Amlwg yw oddiwrth y pethau hyn nad oes le yn y nefoedd i rai sydd yn caru





eu hunain a'r byd yn fwy na defnyddioldeb; canys y mae cariad pob un yn aros gydag ef ar ol marw, ac ni chaiff ei ddiwreiddio i dragwyddoldeb (gwel uchod, r. 363).

394. Rhoddir ei waith i bob un yn y nefoedd yn ol egwyddor cyfatebiaeth, a'r gyfatebiaeth hono sydd, nid â'r gwaith ei hun, ond â defnyddioldeb y gwaith (gwel uchod, r. 112 a r. 106). Yr hwn sydd mewn gwaith yn y nefoedd yn cyfateb i'w ddefnyddioldeb, sydd mewn ystad hollol debyg i'r hyn ydoedd yn y byd, am fod yr hyn sydd ysbrydol a'r hyn sydd naturiol yn toddi yn un trwy gyfatebiaeth: ond gyda hyn o wahaniaeth, ei fod ef yn awr mewn pleser mwy mewnol, am ei fod mewn bywyd ysbrydol, sef, bywyd mewnol, ac am hyny y mae efe yn mwynhau gwynfyd mwy nefolaidd.

### Llawenydd a Dedwyddwch Nefol.

395. O braidd y gŵyr neb heddyw beth yw y nefoedd a llawenydd y nefoedd. Syniad y rhai a feddyliasant ar y pwnc sydd mor gwrs a chyffredinol, fel o brin y mae ganddynt syniad o gwbl. Cefais gyfleusderau i wybod yn gywir oddiwrth ysbrydion a aethant o'r byd hwn i'r byd arall, pa syniadau a goleddant am y nefoedd a llawenydd y nefoedd: canys pan adewir hwynt iddynt eu hunain, meddyliant yn yr un modd a phan oeddynt yn y byd. Ni wyddir beth yw llawenydd nefol, oblegid fod y rhai fu yn meddwl am dano wedi ffurfio eu barn oddiwrth y llawenydd allanol a berthyn i'r dyn naturiol, ac heb wybod dim am y dyn mewnol neu ysbrydol, ac am hyny dim am ei bleser a'i wynfyd. Pe dywedai y rhai sydd yn mwynhau pleser mewnol ac ysbrydol wrthynt natur llawenydd nefol, nis gallent ei amgyffred, oblegid y cynwysai syniadau anadnabydus iddynt hwy, nas gallent eu canfod, ac am hyny buasai y wybodaeth yn mhlith y pethau a wrthyd y dyn anianol. Er hyn gall pob un wybod, pan y mae dyn yn gadael ei ystad allanol, ei fod yn dyfod i'w ystad fewnol ac ysbrydol, ac am hyny, mai mewnol neu ysbrydol yw pleser nefol, ac nid allanol a naturiol: a chan ei fod yn fewnol ac ysbrydol, purach a rhagorach yw na phleser naturiol, oblegid ei fod yn effeithio ar fewnolion dyn, perthynol i'w enaid a'i ysbryd. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn yn unig, gall fod yn eglur i bob un, y bydd ei bleser yn y byd arall o'r un natur a phleser ei ysbryd yn y byd hwn: ac nad yw pleser y corff, yr hwn a elwir pleser cnawdol, yn nefol. Yr hyn sydd yn ysbryd dyn a erys gydag ef pan ymedy â'r corff, ar ol marw, pryd y bydd byw yn ysbryd.

396. Pob pleser a lifa o gariad, canys yr hyn y mae dyn yn garu, hyny a deimla efe yn bleserus, ac nid oes bleser o un ffynonell arall; felly yn ol y cariad y mae y pleser. Pleserau y corff neu y cnawd a lifant oll o hunan-gariad a chariad at y byd, y rhai ydynt darddiad y chwantau a'u pleserau; ond pleserau yr

enaid neu yr ysbryd a lifant oll o gariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog, y rhai ydynt darddiad y serchiadau at ddaioni a gwirionedd, a'u boddhad mewnol. Y serchiadau hyn a'u pleserau a lifant i fewn o'r Arglwydd, ac o'r nefoedd, trwy ffordd fewnol, yr hon sydd oddiuchod, ac a effeithiant ar y mewnolion: ond y serchiadau cyntaf a'u pleserau a lifant i fewn o'r cnawd ac o'r byd trwy ffordd allanol, yr hon sydd oddi isod, ac a effeithiant ar yr allanolion. I'r graddau gan hyny y byddo serchiadau y nefoedd yn cael eu derbyn gan ddyn, ac yn cael dylanwad arno, yr agorir mewnolion ei enaid neu ei ysbryd, ac yr edrych i fyny o'r byd i'r nefoedd: ond i'r graddau y byddo serchiadau y byd yn cael eu derbyn ac yn effeithio arno, ei allanolion, o'r corff a'r cnawd a agorir, ac efe a edrych o'r nefoedd i'r byd. Gan fod serchiadau yn llifo i fewn ac yn cael eu derbyn, y mae eu pleserau hefyd yn llifo i fewn gyda hwynt: pleserau y nefoedd i'r mewnolion, a phleserau y byd i'r allanolion; canys megis y nodwyd, pob pleser a dardd o gariad.

397. Y mae y nefoedd mor llawn o bleserau, fel nad yw wrth edrych arni ynddi ei hun ddim ond pleser a gwynfyd: gan mai y Daioni Dwyfol yn deilliaw o Gariad Dwyfol yr Arglwydd sydd yn gwneyd y nefoedd yn gyffredinol a neillduol gyda phob angel. A'r Cariad Dwyfol a gynwysir mewn dymuno iachawdwriaeth a dedwyddwch pawb o'r egwyddorion mwyaf mewnol i'r helaethrwydd llawnaf. Ar gyfrif hyn y mae y nefoedd a llawenydd nefol yn golygu yr un peth.

398. Y mae pleserau y nefoedd yn anrhaethadwy ac aneirif: ond er eu bod yn aneirif, nis gellir gwybod na chredu un o honynt gan yr hwn sydd yn mhleser y corff neu y cnawd yn unig; oblegid, fel y nodwyd, ei fewnolion a edrych o'r nef i'r byd, ac felly yn ol: canys yr hwn sydd yn boddi yn mhleser y corff neu y cnawd, neu, yr hyn sydd yr un peth, mewn hunan-gariad a chariad at y byd, ni theimla bleser ond mewn anrhydedd, mewn elw, ac yn mhleserau glwth y corff a'r synhwyrau; ond gwna y pethau hyn ddiffodd a mogi y pleserau mewnol sydd o'r nefoedd, gan ddystrywio pob cred yn eu bodolaeth. Y dynion hyn a synent yn fawr pe dywedid wrthynt fod pleserau ereill yn aros, pan symudir pleserau anrhydedd ac elw; a synent fwy byth pe dywedid wrthynt fod pleserau y nefoedd sydd yn canlyn yn lle pleserau anrhydedd ac elw yn aneirif, ac o'r fath natur, nad yw pleserau y corff a'r cnawd, y rhai yn benaf ydynt anrhydedd ac elw, nas gellir eu cydmaru iddynt. Eglur yn awr paham nad adwaenir natur llawenydd nefol.

399. Mor fawr yw pleser y nefoedd, ellir weled oddiwrth y ffaith fod pleser i bawb yn y nefoedd gyfranu eu pleserau a'u gwynfydau i'w gilydd: a chan fod pawb yn y nefoedd o'r nodwedd





hon, eglur yw mor fawr yw y pleser; canys, fel y dangoswyd uchod (r. 268), y mae pawb yn y nefoedd yn cyfranu i bob un a phob un i pawb. Y fath gydgyfranogiad a lifa o ddau gariad y nefoedd, sef, fel y dywedwyd, cariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog. Y mae yn natur y ddau gariad hyn i gyfranu eu pleserau, canys y mae cariad at yr Arglwydd yn gyfranogol, am mai Cariad yr Arglwydd yw cariad i gyfranu yr oll a fedd Efe i'w holl greaduriaid, gan ei fod Ef yn ewyllysio dedwyddwch pawb; ac y mae cariad cyffelyb yn mhob un sydd yn ei garu Ef, oblegid fod yr Arglwydd ynddynt; oddiyma y llifa cydgyfranogiad pleserau o bob angel i bawb, ac o bawb i bob un. Fod cariad at gymydog o'r un natur, a welir oddiwrth a ganlyn: felly, amlwg yw mai natur y ddau gariad hyny yw cyfranu eu pleserau; nid felly cariad at hunan ac at y byd: hunan-gariad a dŷn ymaith ac a gymer bob pleser oddiwrth ereill, ac a'u crynhoa iddo ei hun, oblegid mai iddo ei hun yn unig y dymuna yn dda: a chariad at y byd a ddymuna feddianu eiddo ei gymydog fel eiddo iddo ei hun: felly natur y ddau gariad hyn yw dystrywio y pleserau fwynheir gan ereill. Pan y byddont gyfranogol, hyny sydd er eu mwyn eu hunain, ac nid er mwyn ereill; am hyny, mewn perthynas i ereill nid ydynt gyfranogol, ond dynystriol, ond mor bell y byddo pleserau ereill yn perthyn iddynt hwy eu hunain, neu yn bodoli ynddynt hwy eu hunain. Canfyddais yn fynych trwy brofiad byw, mai dyna natur hunan a bydol gariad, pan reolant; canys pa bryd bynag y dynesai attaf ysbrydion, fuont orlawn o'r ddau gariad hyn pan yn byw yn y byd, ciliai a diflanai fy nheimlad o bleser: a dywedwyd wrthyf, os dynesant at unrhyw gymdeithas nefol, fod pleser rhai yn y gymdeithas hono yn lleihau yn gywir yn ol graddau eu presenoldeb; a'r hyn sydd ryfedd yw fod yr ysbrydion drwg y pryd hwnw yn mwynhau eu pleser. Felly, gwelais yn amlwg gymeriad ysbrydoedd y fath ddynion pan yn y corff, oblegid eu bod yn debyg wedi gadael y corff: sef eu bod yn dymuno neu yn chwenych pleserau neu feddianau rhai ereill, a'u bod yn mwynhau mor bell ag y gallant eu cael. Y mae hunan a bydol gariad, gan hyny, yn ddynystriol i lawenydd y nefoedd, ac o ganlyniad y maent yn hollol groes i ddau gariad y nefoedd, y rhai sydd gyfranogol.

400. Nodwn am y pleser a fwynha y rhai sydd yn boddi mewn hunan-gariad a chariad at y byd, pan ddynesant at unrhyw gymdeithas nefol, pleser eu chwantau eu hunain ydyw, croes hollol, o ganlyniad i bleser y nefoedd. Deuant i bleser eu chwantau eu hunain pan y symudont bleser nefol oddiwrth rai sydd ynddo, gan eu difuddio. Ond gwahanol yw pan na allont eu symud a'u difuddio, y pryd hwnw nis gallant ddynesu, oblegid i'r graddau y dynesant, cydia ing a phoen ynddynt: oherwydd hyn, anaml y

mentrant yn agos. Rhoddwyd i mi hefyd i wybod hyn trwy lawer o brofiadau; rhoddaf rai engreifftiau.

Ysbrydion yn dyfod o'r byd hwn i'r byd arall, ni ddymunant ddim yn fwy taer na chael eu derbyn i'r nefoedd. Bron pawb a ddymunant fyned i fewn, am y tybiant fod y nefoedd yn gynwysedig mewn myned i fewn a chael derbyniad. Oherwydd eu bod yn dymuno mor daer, dygir hwynt i ryw gymdeithas yn y nefoedd isaf. Ond y rhai sydd yn caru eu hunain a'r byd, pan ddynesant at drothwy cyntaf y nefoedd hono, dechreuant deimlo cyfyngder ac arteithiau mewnol, fel y profant uffern yn hytrach na'r nefoedd ynddynt eu hunain; am hyny, taflant eu hunain i lawr yn bendramwngl oddiyno, ac ni chânt orphwysfa nes dyfod i blith eu tebyg yn uffern. Digwyddodd yn fynych hefyd fod y fath ysbrydion yn dymuno gwybod beth yw llawenydd nefol, a phan glywent mai yn mewnolion yr angylion y mae, ewyllysiant gyfranogi o hono. Gwnaed hyny hefyd; canys beth bynag a ddymuna ysbryd nad yw eto yn y nef neu yn uffern, a ganiateir iddo, os gwna lês. Ond pan gawsant gyfranogi, dechreuasant gael eu harteithio mor angerddol, fel na wyddent yn mha agwedd i osod eu cyrff trwy angerdd eu poenau. Bwrient eu penau at eu traed, taflent eu hunain i'r llawr, lle y nydd-droent yn dorchau fel nadroedd. Y fath oedd effaith pleser nefol yn y rhai oedd a'u pleserau yn tarddu o hunan-gariad a chariad at y byd; oblegid fod y ddau gariad hyny yn hollol groes i ddau gariad y nefoedd; a phan fyddo pethau croes yn gweithredu ar eu gilydd y fath yw y boen a ganlyn. Pleser nefol a ddaw i fewn trwy ffordd fewnol, a phan lifa i bleser gwrthwynebol iddo ei hun, gwrthdroa y mewnolion, lle y mae y pleser gwrthwynebol, hyny yw, plyga hwynt yn groes i'w natur ac i'w rhediad: a hyny sydd yn peri y fath arteithiau. Y rheswm eu bod yn groes i'w gilydd yw, fel y dywedwyd uchod, y mae cariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog yn dymuno cyfranu yr oll a feddant i ereill, canys hyn gyfansodda eu pleser; pan y mae cariad at hunan a chariad at y byd yn dymuno tynu oddiwrth ereill yr hyn a feddant, a'i feddianu eu hunain, a mwynhant bleser mor bell ag y llwyddant yn hyny. Oddiwrth yr ystyriaethau hyn gellir gwybod hefyd paham y mae uffern ar wahan i'r nefoedd. Pawb sydd yn uffern, pan yn byw yn y byd, oeddynt yn mhleserau y cnawd a'r corff yn unig, yn deilliaw o gariad at hunan a'r byd; ond pawb sydd yn y nefoedd, pan yn byw yn y byd, oeddynt yn mhleserau yr enaid a'r ysbryd, yn deilliaw o gariad at yr Arglwydd ac at eu cymydog. Gan fod cariad y nefoedd a chariad uffern mor groes i'w gilydd, y maent mor hollol wahanedig, fel na faidd ysbryd yn uffern, godi copa ei ben nac estyn bys allan o honi, heb gael ei arteithio a'i boenydio i'r graddau y cynygia wneyd hyny. Gwelais hyn hefyd yn aml.





401. Y dyn sydd mewn cariad at hunan a'r byd, a deimla, tra yn byw yn y corff, yr hyfrydwch ddeillia o honynt, ac a fwynha y pleserau darddant yno; ond y dyn sydd mewn cariad at yr Arglwydd a'i gymydog, cyhyd y byddo byw yn y corff, ni theimla fwyniant amlwg iawn yn tarddu o'r ddau gariad hyn, ac o'r teimladau da ddeilliant o honynt: ond math o wynfyd yn unig bron diarwybod, oblegid ei fod yn drysoredig yn ei fewnolion, gorchuddiedig gan ei allanolion o'r corff, ac yn cael ei farweiddio gan ofalon byd. Y cyflyrau hyn a gyfnewidiant yn hollol ar ol marw. Yna, pleserau hunan-gariad a chariad at y byd a droant yn deimladau poenus ac erchyll, yr hyn a elwir yn dân uffern: ac weithiau i wrthrychau aflunaidd ac aflan yn cyfateb i'r pleserau ffiaidd hyny, hyfryd y pryd hwnw i'r drygionus (er mor rhyfedd yw adrodd); ond y pleser pŵl a'r gwynfyd bron diarwybod a berthynent i rai yn y byd mewn cariad at Dduw a'u cymydog, a droir y pryd hwnw i bleser y nefoedd, i'w ganfod a'i deimlo yn mhob ffordd; canys y gwynfyd trysoredig a chuddiedig yn eu mewnolion, pan yn byw yn y byd, a ddatguddir y pryd hwnw ac a ddygir allan i deimlad amlwg: oblegid y pryd hwnw byddant yn yr ysbryd, a dyna oedd pleser eu hysbryd.

402. Holl bleserau y nefoedd ydynt unedig â defnyddioldeb, ac yn gynhenid ynddo, oblegid mai defnyddioldeb yw y gweithredoedd da a godant o gariad, yn yr hwn y mae yr angylion yn byw; am hyny, pob un a fwynha bleserau o'r un natur a'i ddefnyddioldeb, ac i'r un graddau a'i gariad i fod yn ddefnyddiol. Mai pleserau defnyddioldeb yw holl bleserau y nefoedd, all fod yn amlwg trwy gydmariaeth â phump synwyr y corff. I bob synwyr rhoddir pleser yn ol ei ddefnyddioldeb. Y mae gan y llygad ei bleser neillduol; a chan y clyw, yr arogliad, yr archwaethiad, a'r teimlad eu pleserau neillduol. Y llygad a dŷn ei bleser oddiwrth brydferthion lliw a llun; y clyw oddiwrth gydsain seiniau; yr arogliad oddiwrth arogl peraidd; a'r archwaethiad oddiwrth fwydydd blasus. Adwaenir defnyddioldeb neillduol y synhwyrau hyn gan y rhai a fyfyriant arnynt, ac yn fwy helaeth gan rai cyfarwydd a'u cyfatebion. Caiff y llygad y fath bleser ar gyfrif ei ddefnyddioldeb i'r deall, yr hyn yw y llygad mewnol; y clyw ar gyfrif ei ddefnyddioldeb i'r deall a'r ewyllys fel cyfrwng gwrando a sylwi: yr arogliad ar gyfrif ei ddefnyddioldeb i'r ymenydd a'r ysgyfaint; a'r archwaethiad ar gyfrif ei ddefnyddioldeb i'r cylla, ac felly i'r holl gorff trwy ei dueddu i gymeryd lluniaeth. Y pleser priodasol, yr hwn sydd bleser teimlad purach a godidocach, a ragora ar y lleill oll ar gyfrif ei ddefnyddioldeb, sef eppilio yr hîl ddynol, ac felly y nefoedd angylaidd. Y pleserau hyn ydynt yn un â'r synhwyrau trwy ddylifiad o'r nefoedd, lle y mae pob pleser yn defnyddiol ac yn ol defnyddioldeb.

403. Rhyw ysbrydion, oddiar opiniwn gawsant yn y byd, a gredant fod dedwyddwch nefol yn gynwysedig mewn bywyd segur, a chael gwasanaeth ereill: ond dywedwyd wrthynt nas gall dedwyddwch fod yn gynwysedig mewn llonyddwch heb waith, oblegid pob un felly a ddymunai gymeryd ymaith dedwyddwch ereill er mwyn ychwanegu ei ddedwyddwch ei hun: a chan y byddai pawb o'r un ddymuniad ni byddai neb yn ddedwydd; na byddai y fath fywyd yn weithredol ond yn ddiog, a bod diogi yn gwneyd bywyd yn farwaidd: nad oes ddedwyddwch heb weithgarwch, ac mai er mwyn adfywiad y gorphwysir oddiwrth waith, fel y gall dyn ddychwelyd gyda grym newydd at weithgarwch ei fywyd. Dangoswyd wedi hyny trwy lawer o amlygiadau, fod bywyd angylaidd yn gynwysedig mewn cyflawni gweithredoedd da oddiar gariad, y rhai ydynt ddefnyddiol, a bod angylion yn cael eu holl ddedwyddwch mewn defnyddioldeb, oddiar ddefnyddioldeb, ac yn ol ddefnyddioldeb. Y rhai a goleddent y syniad fod llawenydd nefol yn gynwysedig mewn bywyd diog, ac mewn anadlu mwynhad tragwyddol heb waith, rhoddwyd prawf iddynt o'r fath fywyd, fel y cywilyddient; ac argyhoeddwyd hwynt ei fod yn athrist dros ben, ac y byddent wedi colli pob llawenydd, yn fuan yn ei ffieiddio a'i gasau.

404. Rhyw ysbrydion yn cyfrif eu hunain yn ddoethach nag ereill, a ddywedent mai eu cred yn y byd oedd, fod llawenydd nefol yn gynwysedig yn unig mewn moli a chlodfori Duw, ac mai dyna fywyd gweithredol y nefoedd: ond dywedwyd wrthynt mai nid moli a chlodfori Duw yw y fath fywyd gweithredol, ac nad oes ar Dduw angen mawl a chlod; ond ei Ewyllys Ef yw i bawb fod yn ddefnyddiol trwy wneyd gweithredoedd da a elwir daioni cariad. Nis gallai yr ysbrydion hyn, er hyny, synied am lawenydd nefol mewn cyflawni daioni oddiar gariad, ond yn hytrach caethiwed. Ond yr angylion a dystient fod perffaith ryddid wrth gyflawni y gweithredoedd hyny, am eu bod yn deilliaw o serchiadau mewnol, ac yn nglŷn â mwynhad anrhaethadwy.

405. Bron pawb yn myned i'r byd arall, a dybiant fod pob un yn yr un uffern, neu yn yr un nefoedd, er fod gwahaniaethau ac amrywiaethau aneirif yn uffern a'r nefoedd. Nid yw uffern y naill byth yn hollol yr un fath ag uffern y llall, na nefoedd y naill yr un a nefoedd y llall; bron fel na cheir un dyn, ysbryd, neu angel, yn hollol yr un fath ag arall, hyd yn oed yn ei wyneb. Pan feddyliwn yn unig am ddau yn hollol yr un fath neu yn gyfartal, yr angylion a amlygent aethau, a dywedent fod pob cyfanwaith yn cael ei ffurfio gan gyduniad cydgordiol amryw ranau, a bod ansawdd y cyfan yn tarddu o'r cydgordiad: fod pob cymdeithas o'r nefoedd yn un cyfanwaith: fod holl gymdeithasau y nefoedd hefyd gyda'u gilydd yn gwneyd un cyfanwaith: yr





unoliaeth yma a deillia o'r Arglwydd yn unig trwy gariad fel cyfrwng. Y mae pob math o ddefnyddioldeb hefyd yn y nefoedd, ac nid yw defnyddioldeb un angel byth yn hollol yr un fath a defnyddioldeb angel arall: ac o ganlyniad nid yw ei allu i fwynhau; ond y mae pleserau defnyddioldeb pob un yn aneirif, ac y mae yr aneirif bleserau hyny hefyd yn amrywiol: ac eto y maent mor unedig fel y mae pob un yn perthyn i'w gilydd. Y gydberthynas hon sydd debyg i ddefnyddioldeb pob aelod, ermig a pherfeddyn yn y corff, a mwy fyth i bob llestr ac edefyn yn mhob aelod, ermig a pherfeddyn. Yr oll o honynt yn unedig ac unigol, ydynt mor gysylltiedig â'u gilydd, fel y golygant eu daioni eu hunain yn eu gilydd, ac felly daioni pob un yn mhawb, a daioni pawb yn mhob un. Oddiwrth y berthynas gyffredinol a neillduol hon, gweithredant fel un.

406. Ymddiddenais yn fynych âg ysbrydion newydd ddyfod o'r byd am yr ystad o fywyd tragwyddol, gan nodi fod pwys gwybod pwy yw Arglwydd y deyrnas dragwyddol, beth yw natur ei lywodraeth, a pheth yw ei ffurf: fel nad oes dim pwysicach i rai yn y byd yn symud o un deyrnas i'r llall, na gwybod enw a chymeriad y brenin, natur ei lywodraeth, a llawer o fanylion ereill perthynol i'w deyrnas, rhaid ei bod yn llawer pwysicach gwybod natur y deyrnas yn yr hon y maent i fyw i dragwyddoldeb. Gwybydder, gan hyny, mai yr Arglwydd yw brenin y nefoedd, a'r holl fydysawd, canys yr Hwn a reola y naill a reola y llall; hefyd mai eiddo yr Arglwydd yw y deyrnas i'r hon y daw yr ysbrydion, ac mai gwirioneddau tragwyddol yw deddfau y deyrnas hon, sylfaenedig ar y brif ddeddf, fod ei deiliaid i garu yr Arglwydd uwchlaw pob peth, a'u cymydog fel hwy eu hunain. Os yn wir y dymunent fod fel yr angylion, dylent garu eu cymydog yn well na hwy eu hunain. Wrth glywed y pethau hyn nis gallai yr ysbrydion roddi un attebiad, oblegid iddynt glywed rhywbeth tebyg pan yn mywyd y corff, ond heb ei gredu. Synent fod y fath gariad yn y nefoedd, a'i bod yn bosibl i unrhyw un garu ei gymydog yn fwy nag ef ei hun: ond hysbyswyd hwynt fod pob daioni yn cynyddu yn ddirfawr yn y byd arall, a bod bywyd dyn tra yn y corff, o'r fath natur nas gall fyned yn mhellach na charu ei gymydog fel efe ei hun, oblegid rhwystrau corfforol: ond pan symudir y rhwystrau hyn, daw y cariad yn burach, ac o'r diwedd yn angylaidd, sef, caru eu cymydog yn fwy na hwy eu hunain. Canys yn y nefoedd, pleser yw gwneyd daioni i arall, ac nid oes bleser i un wneyd daioni iddo ei hun, ond gyda golwg i'r daioni ddyfod yn eiddo arall, o ganlyniad er mwyn arall: hyn olygir wrth garu cymydog yn fwy na hunan. Dangoswyd iddynt fod y fath gariad yn bosibl, oddiwrth gariad priodasol rhai personau yn y byd, yn dewis marw yn hytrach nag i gydmar bywyd gael cam; oddiwrth

gariad rhieni tuag at eu plant, pan y gwna mam oddef newyn yn hytrach na gweled ei phlentyn heb fwyd; oddiwrth wir gyfeillgarwch yn cyffroi un cyfaill i wynebu peryglon dros y llall; oddiwrth gyfeillgarwch moesgar a ffugiol, yn ymdrechu dynwared didwylledd, yn cynyg ei bethau goreu i'r rhai y profasant ewyllys da iddynt, ac mewn geiriau yn dymuno eu lles yn fwy na'r eiddynt eu hunain, er na theimlant felly yn eu calon; ac yn ddiweddaf oddiwrth natur cariad, yn cael ei lawenydd yn ngwasanaeth ereill, nid er ei fwyn ei hun, ond er eu mwyn hwy. Ond nis gellid amgyffred y pethau hyn gan y rhai a garent eu hunain yn fwy nag ereill, ac a garent fudr elw tra yn y corff. Llai byth y gallai cybyddion eu deall.

407. Rhyw ysbryd a chanddo awdurdod anarferol pan yn byw yn y corff, a feddai ddymuniad i reoli yn y byd arall; ond dywedwyd wrtho ei fod ef yn awr mewn teyrnas arall, yr hon sydd dragwyddol; bod yr awdurdod oedd ganddo ar y ddaear wedi diflanu, ac na chyfrifir neb yn y byd lle y mae efe yn awr, ond yn ol y daioni a'r gwirionedd sydd ynddynt, ac yn ol mesur trugaredd yr Arglwydd, yr hwn a dderbyniant yn rhinwedd eu bywyd yn y byd: fod y deyrnas hon fel rhai ar y ddaear lle perchir dyn am ei gyfoeth, ac am ei ffafr gyda'r Brenin, ond yn unig mai y cyfoeth yma yw daioni a gwirionedd, a ffafr y Brenin yw trugaredd yr Arglwydd, yn cael ei chyfranu i bob dyn yn ol ei fywyd yn y byd; ac os dymunai efe arfer awdurdod yn unrhyw fodd arall, ei fod yn wrthryfelwr, oblegid ei fod yn awr yn nheyrnas Brenin arall. Wrth glywed y pethau hyn efe a gywilyddiodd.

408. Bum yn ymddiddan âg ysbrydion a dybient fod y nefoedd a llawenydd nefol yn gynwysedig mewn bod yn fawr; ond dywedwyd wrthynt mai y mwyaf yn y nefoedd yw y lleiaf, oblegid lleiaf y gelwir yr hwn nad oes ganddo allu na doethineb o hono ei hun, ac nad yw yn dymuno cael dim ond oddiwrth yr Arglwydd; mai yr hwn sydd leiaf fel hyn sydd fwyaf ei ddedwyddwch, a chan fod ganddo y dedwyddwch mwyaf, efe sydd fwyaf, canys y mae ganddo bob gallu oddiwrth yr Arglwydd, a rhagora ar ereill mewn doethineb. Beth yw bod yn fwyaf, ond bod yn fwyaf dedwydd? canys bod yn fwyaf dedwydd gais y galluog trwy awdurdod, a'r cyfoethog trwy olud. Dywedwyd wrthynt yn mhellach nad yw y nefoedd yn gynwysedig mewn dymuno bod y lleiaf er mwyn bod yn fwyaf, oblegid hyn fuasai dyheu am fod yn fwyaf, ond mewn didwyll dymuno daioni ereill yn fwy na'i hunan, a'u gwasanaethu er mwyn eu dedwyddwch oddiar gariad, heb unrhyw obaith hunanol am wobr.

409. Nis gellir desgrifio llawenydd nefol yn ei hanfod, oblegid ei fod yn nirgelion mwyaf mewnol bywyd yr angylion, ac oddiyno yn holl fanylion eu meddwl a'u teimlad, ac o ganlyniad yn holl





fanylion eu geiriau a'u gwaith. Y mae fel pe byddai eu mewnolion yn hollol agored a rhydd i dderbyn pleser a gwynfyd, gan ymwasgaru trwy pob edefyn, a thrwy eu holl gyfansoddiad. Y syniad a'r teimlad o'r pleser a'r gwynfyd a ganlyn sydd tuhwnt i bob desgrifiad: canys yr hyn ddechreua yn y dirgeloedd mwyaf mewnol, a lifa i'r holl ranau, hyd yn oed y lleiaf, gan ymwasgaru gydag ychwanegiad parhaus, tua'r allanolion. Ysbrydion da nad ydynt eto yn y pleser hwnw, oblegid na chymerwyd hwynt eto i fynu i'r nefoedd, pan ganfyddant y pleser yn llifo oddiwrth angel trwy gylch ei gariad, llenwir hwynt â'r fath hyfrydwch, fel y syrthiant i berlewyg. Cymerodd hyn le yn aml i rai yn dymuno gwybod natur llawenydd nefol.

410. Yr oedd rhyw ysbrydion yn dymuno gwybod natur llawenydd nefol, a chaniatawyd iddynt ei ganfod i'r fath raddau nas gallent ei ddal yn hwy; ond nid llawenydd angylaidd er hyny ganfyddent, ond llawenydd heb fod gymaint braidd a gradd leiaf llawenydd angylaidd: profwyd hyn trwy ei gyfranu i mi, pan y canfyddais ei fod mor fach, fel yr ymylai bron ar oerni, er ei alw ganddynt yn llawenydd mwyaf nefol, oblegid mai eu llawenydd mwyaf mewnol hwy ydoedd. Oddiwrth hyn amlwg yw, nid yn unig fod graddau o lawenydd yn y nefoedd, ond hefyd nad yw llawenydd mwyaf mewnol un angel yn dyfod yn agos braidd at lawenydd isaf neu ganolig angel arall; ac yn mhellach pan dderbynio unrhyw un ei lawenydd ei hun i'w lawnder eithaf, y mae efe yn ei lawenydd nefol ei hun, ac nis gall oddef llawenydd mwy mewnol, heb ei deimlo yn boen.

411. Rhyw ysbrydion, nid rhai drwg, a syrthiasant i ystad o orphwysfa tebyg i gwsg, ac a gymerwyd i fyny i'r nefoedd, o ran mewnolion eu meddwl: oblegid, cyn agor mewnolion ysbrydion, gellir eu cymeryd i fyny i'r nefoedd, a'u dysgu am ddedwyddwch y trigolion. Gwelais hwynt yn yr ystad hon o orphwysfa am tua haner awr, wedi hyny dychwelasant i'w hallanolion yr oeddynt ynddynt o'r blaen, ond yn cadw yr adgof am yr hyn a welsant. Dywedent iddynt fod yn mhlith angylion yn y nefoedd, a gweled a chanfod gwrthrychau rhyfeddol, oll yn dysgleirio fel gydag aur, arian, a meini gwerthfawr, ardderchog mewn ffurf a syn mewn amrywiaeth: nad oedd yr angylion yn ymhyfrydu yn y pethau allanol hyn eu hunain, yn gymaint a'r pethau oeddynt yn arddangos, y rhai oedd ddwyfol, anrhaethadwy, ac o ddoethineb anfeidrol, a bod y pethau hyn yn ffynonell llawenydd iddynt, heb son am aneirif bethau ereill, nas gellir traethu y ddegfed ran o fil o honynt mewn iaith ddynol, na dyfod i syniadau cyfranog yn unrhyw radd o fateroliaeth.

412. Bron pawb wedi myned i fyd arall, ydynt anwybodus o natur gwynfyd a dedwyddwch nefol, oblegid na wyddant natur

llawenydd mewnol, ond yn ffurfio eu syniadau am dano yn hollol oddiwrth lawenydd a phleser corfforol a bydol. Y peth na wyddant am dano a gyfrifant fel dim, er fod llawenydd corfforol a bydol yn gydmarol ddiwerth. Mewn trefn i rai o duedd dda, na wyddant beth yw llawenydd nefol, allu gwybod a deall ei natur, dygir hwynt yn gyntaf i olygfeydd Paradwysaidd, hardd tuhwnt i bob dychymyg. Tybiant eu bod yn awr wedi dyfod i'r Baradwys Nefol; ond dysgir hwynt nad hyn yw dedwyddwch nefol. Caniateir iddynt, gan hyny, brofi yr ystad o lawenydd mewnol, hyd eithaf eu gallu mwyaf mewnol i'w dderbyn a'i ganfod. Yna dygir hwynt i ystad o dangnefedd o ran eu dirgelion mwyaf mewnol, pan y cyfaddefant nas gellir datgan na dychmygu am ddim cyffelyb iddo; yn olaf dygir hwynt i ystad o ddiniweidrwydd yn ei ystyr fwyaf mewnol; ac felly dysgir hwynt beth yw gwir natur daioni ysbrydol a nefol.

413. Mewn trefn i mi allu gwybod natur y nefoedd, ac ansawdd llawenydd nefol, caniatawyd i mi gan yr Arglwydd yn fynych, ac am hir amser yn nghyd, i ganfod pleserau llawenydd nefol. Gan i mi gan hyny gael profiad byw o honynt, gwn ei hansawdd, ond eto nis gallaf eu desgrifio. Gall ychydig sylwadau, er hyny, roddi rhyw syniad am danynt. Llawenydd nefol sydd deimlad o lawenydd a phleserau aneirif, y rhai gyda'u gilydd a gyfansoddant ystad o deimlad, yn cynwys cyd-gordiad aneirif serchiadau. Ni chanfyddais y pethau hyn yn glir, ond yn aneglur, oblegid mai y canfyddiad mwyaf cyffredinol ydoedd; ond rhoddwyd i mi ganfod fod aneirif bethau yn gynwysedig yn y teimlad hwnw, wedi eu trefnu fel nas gellir eu desgrifio, oblegid eu bod yn llifo o drefn y nefoedd. Ffyna yr un drefn yn manylion manaf y teimlad, yn cael eu harddangos i'r meddwl a'u canfod yn y cyfanswm fel un ystad gyffredinol yn unig, yn ol cymhwysder y derbynydd. Mewn gair, cynwysir aneirif bethau wedi eu trefnu yn y modd perffeithiaf yn mhob ystad gyfan neu gyffredin; ac nid oes un o'r pethau hyn nad yw yn fyw ac yn effeithio ar y lleill oll o'r dirgelion mwyaf mewnol, canys oddiyno y deillia pob llawenydd nefol. Canfyddais hefyd fod y llawenydd a'r pleser yn dyfod fel o'r galon, yn ymwasgaru gyda'r tynerwch mwyaf trwy yr holl edef *(fibres)* mwyaf mewnol, ac oddiyno i gasgliad o edef *(fibres)*, gyda'r fath deimlad mewnol o foddhad, fel yr ymddangosai pob edefyn yn ddim ond llawenydd a phleser, a phob gallu i ganfod a theimlo a ymddangosent yn fyw mewn dedwyddwch. Llawenydd pleserau corfforol, mewn cydmariaeth i'r llawenydd hyn, sydd debyg i dalp o fater garw a phigog mewn cydmariaeth i'r *aura*, sef y drydedd awyr, fwyaf pur a mwyn. Canfyddais pan ddymunwn drosglwyddo fy mwynhad i arall, mwynhad newydd a lifai i fewn, mwy mewnol a llawnach na'r cyntaf, a bod y swm yn cyfateb i angerdd





fy nymuniad. Canfyddais fod hyn, hefyd, oddiwrth yr Arglwydd.

414. Y rhai sydd yn y nefoedd a ddynesant yn barhaus at wanwyn bywyd, a pha fwyaf o filoedd o flynyddau y byddant byw, mwyaf pleserus a dedwydd yw y gwanwyn at yr hwn y cyrhaeddant. Cynyddant fel hyn i dragwyddoldeb, yn ol graddau eu cariad a'u ffydd. Menywod a fuont feirw yn hen, ac wedi treulio gan oedran, ond a fuont byw mewn ffydd yn yr Arglwydd, mewn cariad tuag at eu cymydog, ac mewn cariad priodasol dedwydd gyda gŵr, deuant gydag olyniad blynyddoedd fwy fwy i flodau ieuengrwydd, ac i harddwch tuhwnt i bob dychymyg am harddwch ellir ffurfio trwy yr hyn a wêl y llygad. Daioni a chariad a'u ffurfiant i'w delw eu hunain, ac a wnant i bleser a harddwch cariad i lewyrchu allan o bob rhan o'u hwyneb, gan eu gwneyd yn wir ffurfiau cariad. Gwelwyd hwynt gan rai, nes eu llanw â syndod. Ffurf cariad, yr hon a welir yn fyw yn y nefoedd, a gynyrchir gan gariad ei hun, ac a arddengys yr achos mor berffaith, fel y mae yr holl angel, ac yn neillduol y wyneb, fel pe byddai yn gariad i'w weled a'i ganfod yn agored. Pan edrychir ar y ffurf hon, ymddengys yn anrhaethadwy hardd, ac effeithia â chariad fywyd mwyaf mewnol y meddwl. Mewn gair, myned yn hen yn y nefoedd yw myned yn ieuanc. Y rhai sydd yn byw mewn cariad tuag at yr Arglwydd, a'u cymydog, a ddeuant y fath ffurfiau, neu y fath brydferthion yn y byd arall. Ffurfiau felly yw yr holl angylion, gydag amrywiaeth aneirif: o honynt y cynwysir y nefoedd.

### Mawredd y Nefoedd.

415. Fod nefoedd yr Arglwydd yn fawr, sydd amlwg oddiwrth lawer o bethau a ddywedwyd yn y penodau blaenorol, ac yn neillduol oddiwrth hyn, fod y nefoedd yn cael ei ffurfio o'r hil ddynol (gwel uchod, r. 311—317) nid yn unig o'r rhai a enir o'r tufewn i'r Eglwys, ond hefyd o'r rhai a enir o'r tuallan i'r Eglwys (r. 318—328), hyny yw, o bawb sydd wedi byw mewn daioni o ddechreuad y ddaear. Mor fawr yw y dorf drigiana y belen ddaearol hon ellir weled gan bob un fedd unrhyw wybodaeth am barthau, gwledydd, a theyrnasoedd y ddaear. Trwy gyfrifiad ceir fod llawer o filoedd o ddynion yn marw bob dydd, a rhai myrddiynau neu filiwnau bob blwyddyn. Dechreuodd hyn oddiar yr amseroedd boreuaf, filoedd o flynyddau yn ol, a'r meirw oll a aethant i'r byd arall, sef y byd ysbrydol, ac ânt yno yn barhaus bob dydd. Ond pa nifer o honynt a ddaethant ac a ddeuant yn angylion, nis gellir dywedyd. Dywedwyd wrthyf eu bod yn lliosog iawn yn yr hen amseroedd, oblegid fod dynion y pryd hwnw yn meddwl yn fwy mewnol ac ysbrydol, a'u bod ar gyfrif hyn mewn cariad nefol; ond eu bod mewn oesau dilynol yn llai lliosog, am fod dynion wedi myned yn fwy allanol a dechreu

meddwl yn fwy anianol, a suddo felly mewn serchiadau daearol. Oddiwrth y pethau hyn yn gyntaf, gwelir fod y nefoedd a ffurfir gan drigolion y ddaear hon yn unig yn ddirfawr ei maintioli.

416. Fod nefoedd yr Arglwydd yn fawr, a welir hefyd oddiwrth yr ystyriaeth hon yn unig, fod yr holl blant bach, wedi eu geni yn yr Eglwys ac allan o'r Eglwys, yn cael eu mabwysiadu gan yr Arglwydd ac yn dyfod yn angylion. Eu rhif a gynwys y bedwaredd neu y bumed ran o'r holl hîl ddynol ar y ddaear. Fod pob plentyn, pa le bynag ei genir, yn yr Eglwys neu o'r tuallan, o rieni duwiol neu anuwiol, yn cael ei dderbyn gan yr Arglwydd pan fyddo marw, ei addysgu yn y nefoedd yn ol Dwyfol Drefn, ei drwytho â serchiadau da, a thrwyddynt â gwybodaethau y gwirionedd, ac wedi hyny ei berffeithio mewn deall a doethineb, ei ddwyn i'r nefoedd a dyfod yn angel, a welir uchod (r. 329—345). Gellir casglu oddiwrth hyn, gan hyny, y fath dyrfa fawr o angylion y nefoedd a ddaeth o honynt hwy yn unig, oddiar creadigaeth y byd.

417. Mawredd nefoedd yr Arglwydd a ymddengys yn mhellach oddiwrth y ffaith fod yr holl blanedau gweladwy i'r llygad yn ein cyfundraeth heulaidd yn ddaearfydoedd: a bod heblaw y rhai hyn, aneirif rai ereill yn y bydysawd, oll yn llawn trigolion. Triniais y rhai hyn mewn llyfr neillduol, "Ar y Daearfydoedd yn y Bydysawd," o'r hwn y dyfynir a ganlyn: "Fod daearfydoedd lawer â dynion arnynt, y rhai a ddeuant yn ysbrydion ac angylion ar ol angeu, sydd dra hysbys yn y byd arall: canys caniateir i bob un yno siarad âg ysbrydion o ddaearfydoedd ereill, pan yn dymuno hyny oddiar gariad at wirionedd a defnyddioldeb; ac felly eu sicrhau o fodolaeth lliawsawgrwydd o fydoedd, a'u haddysgu fod yr hîl ddynol yn trigianu nid mewn un, ond mewn bydoedd aneirif. Siaredais ar y mater hwn âg ysbrydion o'n daear ni, a sylwais y gall unrhyw berson deallus wybod oddiwrth lawer o bethau cyfarwydd iddo, fod daearfydoedd lliosog yn cael eu trigianu gan ddynion; a bod rheswm yn dangos nad yw cyrff mawrion fel y planedau, rai o honynt yn fwy na'n daear ni, yn gruglwythau gweigion, wedi eu creu yn unig i droi o amgylch yr haul, a gollwng eu goleu gwan ar un byd yn unig, ond fod iddynt ddefnyddioldeb llawer uwch na hyn. Yr hwn sydd yn credu, fel y dylai pawb gredu, fod y Duwdod wedi creu y bydysawd er mwyn rhoddi bodolaeth i'r hîl ddynol, ac felly i'r nefoedd, am mai yr hîl ddynol yw magwrfan y nefoedd, rhaid i'r cyfryw gredu fod dynion lle bynag y mae daear. Fod y planedau o fewn y gyfundraeth heulaidd, gweladwy i ni, yn ddaearfydoedd sydd amlwg, oblegid eu bod yn gyfansoddedig o ddefnydd daearol: canys adlewyrchant oleuni yr haul, ac wrth edrych arnynt trwy chwyddwydrau, nid ymddangosant fel sêr yn llewyrchu fel fflam, ond fel





daearfydoedd yn amrywio gyda goleuni a thywyllwch; hefyd troant o amgylch yr haul fel ein daear ni, tramwyant trwy gylch y deuddeg Arwydd *(Zodiac)*, ac felly meddant flynyddoedd a thymhorau y flwyddyn, gwanwyn, hâf, hydref, a gauaf: troant hefyd ar eu pegynau fel ein daear ni, am hyny meddant ddyddiau, ac amserau y dydd, boreu, canolddydd, prydnawn, a hwyr. Y mae lleuadau hefyd, a elwir gosgorddion, gan rai o honynt, yn cylchdroi o'u hamgylch mewn amserau gosodedig, fel y lleuad o amgylch ein daear ni: a'r blaned Sadwrn, oherwydd ei phellder dirfawr o'r haul, a gwmpasir â modrwyau mawrion goleu, yn rhoddi llawer o oleuni, er trwy adlewyrchiad, i'r ddaear hono. Pwy, yn gwybod y pethau hyn, a dybia yn rhesymol fod y planedau yn gyrff gweigion? Nodais, pan yn siarad âg ysbrydion, y gall dyn yn rhwydd gredu fod mwy o ddaearfydoedd yn y bydysawd nag un, pan ystyria fod y nef serenog mor fawr, a'r sêr ynddi mor aneirif, pob un o honynt yn eu lle, neu yn eu cyfundraeth, yn haul fel haul ein byd ni, ond yn amrywio mewn maintioli. Pwy bynag a ystyria hyn yn iawn, rhaid iddo gasglu fod amcan i'r fath beirnianwaith erfawr, a'r amcan hwnw yn amcan olaf creadigaeth, sef bodolaeth Teyrnas Nefol, yn yr hon y gall y Duwdod drigo gydag angylion a dynion. Canys y bydysawd gweledig, neu y wybrenau uwchlaw i ni, dysglaer gan y fath niferoedd o sêr, y rhai ydynt gynifer o heuliau, nid yw ond cyfrwng bodolaeth daearfydoedd yn cael eu trigianu gan ddynion, y gellir ffurfio teyrnas nefol o honynt. Oddiwrth y ffeithiau hyn, nis gall y dyn rhesymol gredu i'r fath foddion mawr, darparedig i'r fath amcan mawr, gael eu creu er mwyn yr hîl ddynol ar un ddaear yn unig. Beth fuasai hyn i'r Duwdod, yr hwn sydd Anfeidrol, ac i'r hwn ni fuasai miloedd, îe, myrddiynau o ddaearfydoedd, oll yn llawn trigolion, ond peth bychan iawn? Y mae ysbrydion, eu prif fyfyrdod yw casglu gwybodaeth, oblegid mai mewn gwybodaeth yn unig y mae eu pleser: ar gyfrif hyn, caniateir iddynt grwydro oddiamgylch, a myned, hyd yn oed allan o'r gyfundraeth heulaidd, i gyfundraethau heuliau ereill. Hysbyswyd fi gan yr ysbrydion hyn fod daearfydoedd yn cael eu preswylio gan ddynion, nid yn unig yn y gyfundraeth heulaidd hon, ond hefyd tuhwnt iddi, yn y nef serenog, a'u bod yn ddirfawr o liosog. Yr ysbrydion hyn sydd o'r blaned Mercury. Cyfrifwyd, pe be byddai miliwn o ddaearfydoedd yn y bydysawd, a thri chan' miliwn o ddynion ar bob daear, a phe dilynai dau cant o genhedlaethau eu gilydd mewn chwe' mil o flynyddau, a phe rhoddid tair hir-llath gubaidd *(cubic)* o le i bob dyn neu ysbryd, ni lanwai y cyfanrif le y ddaear hon, ac ni lanwai fwy na lle lleuad un o'r planedau. Buasai hyn yn ran mor fach yn y byd, prin y gellid ei weled, canys o braidd y gwel llygad noeth leuad un o'r planedau: ond

beth yw hyn i Greawdwr y bydysawd, i'r hwn ni buasai yr holl fydysawd pe yn llawn fel hyn yn ddigon, oblegid ei fod Ef yn Anfeidrol! Siaredais â'r angylion ar y mater hwn, a dywedent eu bod hwythau yn coleddu yr un syniad am anamlder yr hîl ddynol mewn perthynas i Anfeidroldeb y Creawdwr; ond nad ydynt, er hyny, yn meddwl oddiar leoedd ond oddiar ystadau; ac yn ol eu syniad hwy, na buasai myrddiynau o ddaearfydoedd mor lliosog ag y gall y meddwl ddychmygu, ond dim mewn cydmariaeth i'r Arglwydd." Gellir ymgynghori â'r llyfr a nodwyd uchod am y daearfydoedd yn y bydysawd, a'r ysbrydion a'r angylion a ddeuant o honynt. Datguddiwyd ei gynwysiad i mi, fel y gellid gwybod fod nefoedd yr Arglwydd yn fawr, ei bod yn cael ei ffurfio yn hollol o'r hîl ddynol, a bod yr Arglwydd yn cael ei gydnabod yn mhob man fel Duw y nefoedd a'r ddaear.

418. Gellir gweled yn mhellach fod nefoedd yr Arglwydd yn fawr, wrth ystyried ei bod yn y cyfangorff yn debyg i un dyn, ac yn cyfateb i bob rhan neillduol o'r dyn, ac nis gellir byth llanw i i fynu yn berffaith y gyfatebiaeth hon: canys nid cyfatebiaeth yw yn unig â phob aelod, ermig a pherfeddyn o'r corff yn gyffredinol, ond hefyd yn neillduol ac unigol, ar oll a phob un, o'r perfedd a'r ermigau mân o fewn iddynt, ïe, a phob llestr unigol, ac â phob edefyn *(fibre)* unigol; ac nid ar rhai hyn yn unig, ond hefyd ar sylweddau organaidd dderbyniant yn fewnol ddylifiad y nefoedd, ac ydynt yn ffynonellau uniongyrchol gweithrediadau mewnol iswasanaethgar i weithrediadau y meddwl: gan fod pob peth fodola yn fewnol mewn dyn, yn bodoli mewn ffurfiau, sydd sylweddau, a pheth nad yw yn bodoli yn sylweddau fel gwrthrych, nid yw ddim. Y mae cyfatebiaeth rhwng yr holl bethau hyn a'r nefoedd, fel y gellir gweled yn y bennod ar gyfatebiaeth pob peth yn y nefoedd a phob peth yn y dyn (r. 87—102; a'r gyfatebiaeth hon nis gellir byth ei llanw i fyny, gan mai pa liosocaf y byddo y cymdeithasau angylaidd yn cyfateb i un aelod, mwyaf perffaith y bydd y nefoedd; canys, yn y nefoedd cynydda pob perffeithrwydd yn ol y rhif. Y rheswn fod pob perffeithrwydd yn y nefoedd yn cynyddu yn ol y rhif yw, oblegid fod yr un amcan gan bawb yno, a phawb yn edrych yn unfrydol ar yr amcan hwnw. Yr amcan hwn yw, y daioni cyffredinol; a thra y byddo hyn yn ffynu daw daioni i bob un oddiwrth ddaioni pawb, a daioni i bawb oddiwrth ddaioni pob un. Cymer hyn le oblegid fod yr Arglwydd yn troi pawb yn y nefoedd ato ei Hun, ac felly yn eu gwneyd yn un ynddo ei Hunan (gwel uchod, r. 123). Byd yn amlwg i bob un sydd yn meddwl oddiar reswm goleuedig, fod y fath unfrydedd a chydgordiad yn deilliaw o'r fath darddiad, ac o fewn y fath rwymyn, yn rhwym o gynyrchu perffeithrwydd.

419. Caniatawyd i mi weled eangder y nefoedd sydd yn cael ei





phreswylio, ac hefyd y rhan nad yw yn cael ei phreswylio. Y nefoedd nad yw yn cael ei phreswylio sydd mor fawr, pe byddai myrddiynau o ddaearfydoedd, a llu mor fawr o ddynion ar bob daear ag sydd ar ein daear ni, ni lenwid y nefoedd i dragwyddoldeb. Ar y pwnc hwn hefyd, gwel y llyfr bychan ar Y Daearfydoedd yn y Bydysawd (r. 168).

420. Tybir oddiar rai ranau o'r Gair yn cael eu deall yn ol yr ystyr llythrenol, nad yw y nefoedd yn fawr, ond o helaethrwydd bychan; megis yn y rhanau hyny lle y dywedir mai y tlodion yn unig dderbynir i'r nefoedd; na ellir derbyn neb ond yr etholedigion; mai dim ond y rhai tu fewn i'r Eglwys a neb tu allan a gânt fyned i fewn; mai dros y rhai hyny yn unig y mae yr Arglwydd yn eiriol; y caiff ei chau wedi ei llanw, a bod yr amser i'w llanw wedi ei rag-derfynu. Ond ni wŷr y fath bersonau na chauir y nefoedd byth; nad oes unrhyw adeg ragderfynedig i'w chau, na unrhyw nifer benodedig i'w derbyn; mai yr etholedigion y gelwir y rhai sydd yn byw mewn daioni a gwirionedd; mai tlodion y gelwir y rhai sydd heb wybodaeth am daioni a gwirionedd, ond yn crefu am danynt, ac mewn canlyniad yn cael eu galw yn rhai newynog. Y rhai a goeliant fod y nefoedd o helaethrwydd bychan, oblegid nad ydynt yn deall y Gair, a dybiant ei bod mewn un man, lle y mae cynulliad cyffredinol, er fod y nefoedd yn cynwys aneirif gymdeithasau (gwel uchod, r. 41—50). Dychmygant hefyd fod y nefoedd yn cael ei rhoddi trwy drugaredd uniongyrchol, a bod pob derbyniad iddi yn dybynu ar ffafr yn unig. Ni ddeallant fod yr Arglwydd o'i drugaredd yn arwain pawb a'i derbyniant Ef; ac mai y rhai sydd yn ei dderbyn Ef yw y rhai sydd yn byw yn ol deddfau Dwyfol Drefn, sef gorchymynion cariad a ffydd; ac mai cael arweiniad fel hyn gan yr Arglwydd, o fabandod hyd ddiwedd ei oes yn y byd, ac wedi hyny i dragwyddoldeb, feddylir wrth drugaredd. Gwybydder gan hyny, fod pob dyn yn cael ei eni i'r nefoedd; fod yr hwn sydd yn derbyn y nefoedd iddo ei hun yn y byd yn cael ei dderbyn i'r nefoedd, a bod yr hwn nad yw yn ei dderbyn yn cael ei gau allan.

# AM FYD YR YSBRYDOEDD, A CHYFLWR DYN AR OL ANGEU.

## Beth yw Byd yr Ysbrydoedd?

421. Nid y nefoedd nac uffern yw byd yr ysbrydoedd, ond lle neu gyflwr canolog rhwng y ddau. Yno yr â dyn gyntaf ar ol marw: ac wedi cyflawni ei gyfnod yno, yn ol ei fywyd yn y byd, codir ef i'r nefoedd, neu teflir ef i uffern.

422. Byd yr ysbrydoedd sydd le canolog rhwng nefoedd ac uffern, ac hefyd yn gyflwr canolog yn mywyd dyn. Ei fod yn lle canolog, a wnaed yn amlwg i mi, oblegid fod yr uffernoedd islaw iddo, a'r nefoedd uwchlaw iddo: ac oblegid nad yw dyn, tra yno, yn y nefoedd nac yn uffern. Cyflwr y nefoedd yn y dyn yw undeb daioni a gwirionedd, a chyflwr uffern yn y dyn yw undeb drygioni a thwyll. Pan fyddo daioni yn un â gwirionedd mewn ysbryd, efe a â i'r nefoedd, oblegid fel y dywedwyd, undeb daioni a gwirionedd yw y nefoedd ynddo: ond pan fyddo drygioni yn un â thwyll mewn ysbryd, teflir ef i uffern, oblegid mai yr undeb hwnw yw uffern ynddo. Ffurfir yr undebau hyn yn myd yr ysbrydoedd, gan fod dyn yno mewn cyflwr canolog. Undeb y deall a'r ewyllys a olyga yr un peth âg undeb gwirionedd a daioni.

423. Dywedir rhywbeth yn awr yn gyntaf am undeb y deall a'r ewyllys, a'i debygolrwydd i undeb gwirionedd a daioni, gan fod yr undeb hwnw yn cael ei ffurfio yn myd yr ysbrydoedd. Y mae gan ddyn ddeall ac ewyllys: y deall sydd yn derbyn gwirionedd ac yn cael ei ffurfio ganddo, a'r ewyllys sydd yn derbyn daioni ac yn cael ei ffurfio ganddo. Am hyny, beth bynag a ddealla dyn ac a feddylia, a eilw yn wirionedd, a pha beth bynag a ewyllysia ac a feddylia, a eilw yn dda. Gall dyn feddwl o'r deall, ac felly ganfod yr hyn sydd wir a da; ond nid yw efe yn meddwl o'r ewyllys, oddieithr ei fod yn ewyllysio a gwneyd yr hyn a gymeradwya ei ddeall. Tra fyddo efe felly yn ewyllysio a gweithredu, y mae gwirionedd yn y deall a'r ewyllys, ac o ganlyniad yn y dyn. Canys nid y deall yn unig sydd yn cyfansoddi dyn, na'r ewyllys yn unig, ond y deall a'r ewyllys yn nghyd; am hyny yr hyn sydd yn y deall a'r ewyllys, sydd yn y dyn ac yn cael





eu priodoli iddo. Yr hyn sydd yn y deall yn unig sydd gyda'r dyn y mae yn wir, ond nid yw ynddo: am nad yw ond peth y cof, wedi ei drysori yno, am yr hyn y gall feddwl pan na byddo ynddo ei hun, ond allan o hono ei hun gydag ereill: o ganlyniad, gall siarad ac ymresymu am dano, a ffugio teimladau ac ystumiau yn perthyn iddo.

424. Darparwyd i ddyn allu meddwl o'r deall, ac nid ar yr un pryd o'r ewyllys, mewn trefn iddo allu diwygio: am fod dyn yn diwygio trwy wirioneddau, a gwirioneddau, fel y nodwyd, a berthynant i'r deall. Genir dyn i bob drwg o ran ei ewyllys, ac felly, o hono ei hun, ni ewyllysia dda i neb ond iddo ei hun yn unig; a'r hwn a ddymuna ei les ei hun yn unig, a foddheir gan adfydau ereill, yn neillduol, os tueddant er mantais iddo ei: canys efe a ddymuna feddianu buddianau ereill, yn cynwys golud neu anrhydedd, a chaiff bleser i'r graddau y llwydda. Mewn trefn i wella a diwygio yr ewyllys o'r ystad hon, y mae gan ddyn allu i ddeall gwirioneddau, a darostwng drwyddynt serchiadau drwg yr ewyllys. Ar gyfrif hyn y gall dyn feddwl ar y gwirioneddau o'i ddeall, eu llefaru hefyd, a'u gwneyd; ond eto nis gall efe feddwl y gwirioneddau o'i ewyllys, nes y byddo o ansawdd i'w hewyllysio a'u gwneyd hwynt o hono ei hunan, hyny yw, o'r galon. Pan fyddo dyn o'r fath ansawdd, yr hyn a feddylia efe o'r deall sydd un â'i ffydd: a'r hyn a feddylia efe o'r ewyllys sydd un â'i gariad; am hyny ffydd a chariad, fel deall ac eswyllys, sydd un ynddo.

425. I'r graddau gan hyny y byddo gwirioneddau y deall yn un â daioni yr ewyllys, hyny yw, i'r graddau y byddo dyn yn ewyllysio gwirioneddau, yna yn eu gwneyd, y mae ganddo nefoedd ynddo ei hunan, megis y dywedwyd uchod, undeb daioni a gwirionedd yw y nefoedd; ond i'r graddau y byddo anwireddau y deall yn un â drygau yr ewyllys, y mae uffern gan y dyn ynddo ei hunan, oblegid mae undeb anwiredd a drygioni yw uffern; ac i'r graddau y byddo gwirioneddau y deall heb eu huno â gweithredoedd da yr ewyllys, bydd dyn mewn cyflwr canolog. Cyflwr pawb bron heddyw yw, eu bod yn gwybod gwirioneddau, a'u meddwl hefyd oddiar wybodaeth a deall, tra yn gwneyd llawer o honynt, neu ychydig neu ddim: neu yn gweithredu yn groes iddynt oddiar gariad at ddrwg, ac felly oddiar gyfeiliornad. Mewn trefn gan hyny i ddyn gael ei wneyd yn ddeiliad nefoedd neu uffern, dygir ef yn gyntaf ar ol marw i fyd yr ysbrydoedd, ac yn y byd hwnw ffurfir undeb daioni a gwirionedd yn y rhai sydd i'w dyrchafu i'r nefoedd, ac undeb drygioni ac anwiredd yn y rhai sydd i'w taflu i uffern. Canys nid oes ganiatad i neb yn y nefoedd nac uffern i gael meddwl rhanedig, trwy ddeall un peth ac ewyllysio peth arall, ond rhaid iddo ddeall yr hyn a ewyllysia,

a rhaid iddo ewyllysio yr hyn a ddealla: am hyny, yr hwn a ewyllysia ddaioni yn y nefoedd, rhaid fod gwirionedd yn ei ddeall, a'r hwn a ewyllysia ddrwg yn uffern, rhaid fod twyll yn ei ddeall. Ar gyfrif hyn symudir pob twyll oddiwrth y rhai da yn myd yr ysbrydoedd, a rhoddir gwirioneddau iddynt, yn cytuno a chydgordio â'u daioni; ond symudir pob gwirionedd oddiwrth y rhai drwg, a rhoddir cyfeiliornadau iddynt yn cytuno a chydgordio â'u drwg. Oddiwrth y pethau hyn, hawdd gwybod beth yw Byd yr Ysbrydoedd.

426. Byd yr ysbrydoedd a gynwys dyrfaoedd lliosog, am mai yno yr â pawb yn uniongyrchol ar ol eu hadgyfodiad, a phawb gânt eu chwilio a'u parotoi yno i'w trigfanau tragwyddol. Nid oes amser penodol iddynt aros yno. Rhai ni wnant ond dyfod yno, pan gymerir hwynt i fyny yn uniongyrchol i'r nefoedd, neu eu teflir i lawr i uffern; erys rhai yno amryw wythnosau, ereill amryw flynyddoedd, ond nid erys neb dros ddeg mlynedd ar hugain. Yr amrywiaethau yn hŷd eu harosiad a ddybyna ar gyfatebiaeth neu ddiffyg cyfatebiaeth eu mewnolion a'u hallanolion. Ond yn mha fodd y mae dyn yn cael ei arwain yn y byd hwnw o un ystad i'r llall, ac felly ei barotoi i'w drigfan dragwyddol, a eglurir yn y bennod nesaf.

427. Mor fuan ag yr â dynion i fyd yr ysbrydoedd ar ol marw, gwahaniaethir hwynt yn gywir i ddosparthiadau gan yr Arglwydd. Cysylltir y rhai drwg yn uniongyrchol ar gymdeithas uffernol yr oeddent ynddi o ran eu cariad llywodraethol pan yn y byd, a'r rhai da a gysylltir yn uniongyrchol â'r gymdeithas nefol yr oeddent ynddi o ran eu cariad a'u ffydd pan yn y byd; ond er eu gwahaniaethu fel hyn, eto y rhai fuont gyfeillion a chydnabyddion yn mywyd y corff, a gwrddant ac a siaradant â'u gilydd yn myd yr ysbrydoedd, pan ddymunant hyny, yn neillduol gwŷr a gwragedd, a brodyr a chwiorydd. Gwelais dad yn siarad â chwech mab ac yn eu hadnabod oll, a llawer ereill yn siarad â'u perthynasau a'u cyfeillion. Ond gan fod eu tuedd yn wahanol, mewn canlyniad i'w bywyd yn y byd, wedi ychydig amser ymwahanent. Y rhai a ânt o fyd yr ysbrydoedd i'r nefoedd neu i uffern, ni adwaenant eu gilydd mwy, ac ni welant eu gilydd mwy oddieithr eu bod o duedd debyg yn codi oddiar gariad tebyg. Y rheswm fod pawb fuont yn adwaen eu gilydd yn gweled eu gilydd yn myd yr ysbrydoedd, ac nid yn y nefoedd nac yn uffern yw, oblegid eu bod tra yn myd yr ysbrydoedd, yn cael eu dwyn i gyflyrau tebyg i'r rhai y buont ynddynt pan yn byw yn y corff, gan fyned o'r naill i'r llall; ond wedi hyny, dygir pawb i gyflwr parhaus tebyg i'w cariad llywodraethol; yna ni bydd y naill yn adnabod y llall ond oddiar debygrwydd cariad: canys





megis y dangoswyd uchod, tebygrwydd sydd yn uno, ac anhebygrwydd yn gwahanu.

428. Fel y mae Byd yr Ysbrydoedd yn gyflwr canolog rhwng nefoedd ac uffern, fel y maent yn y dyn, felly hefyd y mae yn lle canolog: odditano y mae yr uffernoedd, ac uwchlaw iddo y mae y nefoedd. Cauedig yw yr holl uffernoedd tua'r byd hwnw, oddigerth fod agoriadau trwy dyllau a holltau fel rhai mewn creigiau, a thrwy adwyau llydain; ond caiff y rhai hyn oll eu cadw, i attal neb i ddyfod allan ond trwy ganiatad, yr hyn a wneir ar rai amgylchiadau neillduol, fel yr eglurir eto. Cauir y nefoedd hefyd yn ddyogel ar bob llaw, fel nad oes agoriad i unrhyw gymdeithas nefol, ond trwy ffordd gûl, yn cael ei gwarchod. Y ffyrdd hyn i fyned allan ac i fewn a elwir yn y Gair yn byrth a drysau uffern a'r nefoedd.

429. Byd yr Ysbrydoedd a ymddengys fel dyffryn yn codi a gostwng rhwng creigiau a mynyddoedd. Nid yw pyrth a drysau y cymdeithasau nefol yn weledig i neb ond i'r rhai sydd barod i'r nefoedd: nis gall neb arall gael gafael arnynt. Y mae un fynedfa o fyd yr y ysbrydoedd i bob cymdeithas, a thuhwnt i'r fynedfa y mae un llwybr, yn rhanu i amryw ganghenau wrth esgyn. Pyrth a drysau uffern hefyd ydynt guddiedig, oddieithr i rai ar fyned trwyddynt: i'r cyfryw yr agorant, pan yr ymddengys ogofâu tywyll a phardduog, yn cyfeirio yn wyrgam lawr i'r dyfnder, lle y mae eto amryw ddrysau. Trwy yr ogofau hyn y cwyd drygsawr ffiaidd a phydredig, a ochelir gan ysbrydion da, am eu bod yn atgas ganddynt, ond tyn yr ysbrydion drwg atynt, am eu bod yn eu hoffi; canys megis y mae pob dyn drwg yn y byd yn hoffi ei ddrwg ei hun, felly ar ol marw y mae efe yn hoffi y drygsawr sydd yn cyfateb i'w ddrwg. Gellir cydmaru y fath bersonau yn yr ystyr hon i adar a bwystfilod ysglyfaethus, megis cigfrain, bleiddiaid, a moch yn ehedeg neu yru at y burgun neu y tomenau, pan aroglant eu drygsawr. Clywais ysbryd unwaith yn gwaeddi yn groch, fel pe wedi ei daro gan ddirdyniadau mewnol, oherwydd arogli persawr y nefoedd: wedi hyny gwelais ef wrth ei fodd ac yn llawen wrth arogli y drygsawr gyfyd o uffern.

430. Y mae dau borth hefyd yn mhob dyn, un yn agor tuag uffern, a'r llall tua'r nefoedd. Agorir un gan ddrygau ac anwireddau yn deilliaw o uffern, a'r llall gan ddaioni a gwirionedd yn deilliaw o'r nefoedd. Y porth tuag uffern sydd agored yn y rhai sydd mewn drwg, ac am hyny mewn anwiredd, tra nad oes ond ychydig belydrau o'r nefoedd yn llifo fewn trwy agenau oddiuchod, yn eu cynorthwyo i feddwl, rhesymu, a siarad; ond y porth tua'r nefoedd sydd agored yn y rhai sydd mewn daioni, ac am hyny mewn gwirionedd: canys y mae dwy ffordd yn arwain i feddwl rhesymol dyn: ffordd uwchraddol neu fewnol, trwy yr hon y daw

daioni a gwirionedd i fewn o'r Arglwydd, a ffordd israddol neu allanol, trwy yr hon y daw drygioni ac anwiredd i fewn o uffern. Y meddwl rhesymol ei hun sydd yn y canol lle yr arweinia y ddwy ffordd, am hyny, i'r graddau y derbynir goleuni o'r nefoedd, y mae dyn yn rhesymol, ond i'r graddau y gwrthoda y goleuni hwnw, nid yw yn rhesymol, pa mor rhesymol bynag y gall ymddangos iddo ei hun. Dywedir y pethau hyn, fel y gellir gwybod natur ac ansawdd cyfatebiaeth dyn â'r nefoedd ac âg uffern. Ei feddwl rhesymol, yn ystod ei ffurfiad, sydd yn cyfateb i Fyd yr Ysbrydoedd; beth bynag sydd uwchlaw y meddwl hwnw sydd yn cyfateb i'r nefoedd, a pha beth bynag sydd islaw iddo i uffern. Y rhanau uwchlaw ydynt agored, a'r rhai islaw yn gauedig yn erbyn dylifiad drygau ac anwiredd, gyda'r rhai sydd yn cael eu parotoi i'r nefoedd; ond y rhanau islaw ydynt agored, a'r rhai uwchlaw yn gauedig, yn erbyn dylifiad daioni a gwirionedd, gyda'r rhai sydd yn cael eu parotoi i uffern. Felly, nis gall yr olaf lai nag edrych islaw iddynt, hyny yw, tuag uffern; a'r blaenaf nis gallant lai nag edrych uwchlaw iddynt, hyny yw, tua'r nefoedd. Edrych uwchlaw iddynt eu hunain yw edrych at yr Arglwydd, oblegid mai Efe yw y canolbwynt cyffredin, y cyfeiria pob peth perthynol i'r nefoedd ato: ond edrych islaw yw edrych ymaith oddiwrth yr Arglwydd i'r canolbwynt gwrthgyferbyniol yr edrych ac y cyfeiria pob peth perthynol i uffern ato (r. 123, 124).

431. Wrth ysbrydion yn y tudalenau blaenorol y meddylir y rhai sydd yn myd yr ysbrydoedd, ac wrth angylion, y rhai sydd yn y nefoedd.

### Ysbryd yw pob dyn o ran ei fewnolion.

432. Pob un a bwysa y pwnc yn iawn rhaid iddo gasglu nad y corff sydd yn meddwl, oblegid mai naturiol yw, ond mai yr enaid sydd, oblegid ei fod yn ysbrydol. Enaid dyn, yr ysgrifenwyd cymaint am ei anfarwoldeb, ei ysbryd yw, canys anfarwol yw hwn yn mhob peth a berthyn iddo, a hwn sydd yn meddwl yn y corff. Ysbrydol yw yr ysbryd, a'r hyn sydd ysbrydol sydd yn derbyn yr hyn sydd ysbrydol, ac yn byw mewn modd ysbrydol; a byw mewn modd ysbrydol yw meddwl ac ewyllysio. Yr holl fywyd rhesymol, gan hyny, a ymddengys yn y corff, a berthyn i'r ysbryd a dim o hono i'r corff: canys y corff, fel y dywedwyd uchod, sydd faterol, a materoldeb, yr hyn sydd briodol i'r corff, a ychwanegir, a bron a gysylltir fel pe byddai a'r ysbryd, mewn trefn i ysbryd dyn allu byw, a bod yn ddefnyddiol yn y byd naturiol—byd a'i holl wrthrychau yn faterol, ac ynddynt eu hunain yn amddifad o fywyd. Yn awr, gan nad yw yr hyn sydd faterol yn fyw, ond yr hyn sydd ysbrydol yn unig, eglur yw pa beth bynag sydd yn fyw mewn dyn, mai ei ysbryd ydyw, ac nad yw y





corff ond yn ei wasanaethu, fel offeryn yn is-wasanaethgar i allu byw ysgogol. Dywedir, y mae yn wir am offeryn, ei fod yn gweithio, symud, neu daro: ond camgymeriad yw credu mai actau yr offeryn yw y rhai hyn, ac nid actau yr hwn sydd yn ei ddefnyddio.

433. Gan fod pob peth sydd yn fyw yn y corff, a'r hyn sydd yn gweithredu a theimlo oddiar fywyd, yn perthyn i'r ysbryd yn unig, ac nid i'r corff, y mae yn canlyn mai yr ysbryd yw y gwir ddyn: neu yr hyn sydd yr un peth, mai ysbryd yw dyn ac edrych arno ynddo ei hunan, a bod ei ysbryd mewn ffurf ddynol; canys pa beth bynag sydd yn fyw ac yn teimlo mewn dyn a berthyn i'w ysbryd, ac y mae pob peth yn fyw ac yn teimlo o'i ben i wadn ei droed. Am hyny, pan wahenir y corff oddiwrth yr ysbryd, yr hyn a elwir marw, y mae y dyn o hyd yn aros ac yn byw. Clywais o'r nefoedd fod rhai o'r meirw, cyn eu dadebriad, yn meddwl hyd yn oed yn y corff oer, yn gorwedd ar yr astell, ac na wyddant lai na'i bod o hyd yn fyw, oddieithr nas gallant symud gronyn o'r corff materol.

434. Nis gall dyn feddwl ac ewyllysio oddieithr fod defnydd, sef sylwedd, o'r hwn ac yn yr hwn y gall efe feddwl ac ewyllysio. Beth bynag a dybir ei fod heb ddefnydd sylweddol nid yw ddim. Hyn sydd amlwg, oblegid nas gall dyn weled heb organ, sef defnydd gweled, na chlywed heb organ, sef defnydd clywed. Nid yw gweled a chlywed yn bodoli, ac nis gallant fodoli heb y llygad a'r glust. Yr un fath y mae meddwl, sef gweled mewnol, ac amgyffrediad, sef clywed mewnol, nis gallant fodoli ond o ddefnyddiau sylweddol, sef ffurfiau organaidd, ac ynddynt. Felly, amlwg yw, fod ffurf i ysbryd dyn yn gystal a'i gorff, ac mai y ffurf ddynol yw ffurf yr ysbryd, gyda synwyrau ac ermigau mor berffaith, pan ar wahan a'r corff a phan yn y corff: a bod yr oll o fywyd y llygad, a'r oll o fywyd y glust, mewn gair yr holl fywyd teimladwy a fedd dyn, yn perthyn nid i'w gorff, ond i'w ysbryd yn yr organau hyny, ac yn eu manylion manaf. Y mae ysbrydion gan hyny yn gweled, clywed a theimlo fel dynion; nid yn y byd naturiol wedi gadael y corff, ond yn y byd ysbrydol. Y teimlad naturiol feddai yr ysbryd pan yn y corff, a ddeilliai trwy y natur faterol mewn cysylltiad âg ef; ond meddai hyd yn oed y pryd hwnw deimlad ysbrydol trwy feddwl ac ewyllysio.

435. Nodir y pethau hyn er argyhoeddi y dyn rhesymol mai ysbryd yw dyn, ac edrych arno ynddo ei hun, ac nad y ffurf gorfforol ychwanegir atto i gyflawni ei waith yn y byd naturiol a materol yw y dyn, ond offeryn yn unig at wasanaeth yr ysbryd. Ond mwy dewisol yw profion oddiar brofiad, oblegid fod profion rhesymol uwchlaw amgyffred llawer, ac oblegid fod y rhai a gadarnhasant eu hunain mewn tyb wahanol, yn eu gwneyd i

ymddangos yn amheus trwy resymau yn tarddu oddiar dwyll y synhwyrau. Y rhai a gadarnhasant eu hunain mewn tyb wahanol a arferant feddwl fod anifeiliaid, hefyd, yn meddu bywyd a theimlad, ac felly eu bod hefyd yn meddu natur ysbrydol fel dynion: yr hon er hyny, gyda'r anifeiliaid a drenga gyda'r corff. Ond nid yw natur ysbrydol anifeiliaid o'r un rhywogoeth â natur ysbrydol dynion. Canys y mae gan ddyn, yr hyn nad oes gan anifeiliaid, sef gradd neu oror fwyaf mewnol yr enaid, i'r hon y daw Duw trwy ddylifiad, gan godi dyn atto ei Hun, a'i uno âg Ef ei Hun. Dyma yr achos y gall dyn, yn wahanol i anifeiliaid, feddwl am Dduw, ac am y pethau dwyfol perthynol i'r nefoedd a'r Eglwys, a charu Duw o'r pethau hyny ac ynddynt, ac felly gael ei uno âg Ef: a'r hyn ellir uno â Duw nis gellir ei chwalu, tra y chwelir yn anocheladwy yr hyn nas gellir ei uno â Duw. Soniwyd uchod (r. 39) am radd neu oror fwyaf mewnol yr enaid, yr hon a fedd dyn, ond na fedd anifeiliaid. Ail-adroddaf yma yr hyn a ddywedwyd yno, oblegid ei bod o bwys gwasgaru y syniadau gau goleddwyd trwy anwybodaeth, am y gwahaniaeth rhwng dyn ac anifeiliaid: ffyna y camsyniadau hyny gyda llawer, trwy ddiffyg gwybodaeth ar y pwnc, a'r deall heb ei agor, nis gallant ffurfio casgliadau rhesymol am y peth drostynt eu hunain. Y geiriau y cyfeirir attynt sydd fel y canlyn:—"Nodaf, wrth ddiweddu, ddirgelwch perthynol i angylion y tair nefoedd, na ddaeth i feddwl dyn erioed o'r blaen, am na ddeallodd neb hyd yma natur y graddau. Y mae yn mhob angel ac yn mhob dyn, radd oruchel neu fwyaf mewnol, neu ryw oror oruchel a mwyaf mewnol yn yr enaid, i'r hon y llifa Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd yn gyntaf, ac o'r hon y trefnir pob peth mewnol arall yn ol graddau trefn mewn angel a dyn. Gellir galw yr oror oruchel a mwyaf mewnol hon yn ddyfodfa yr Arglwydd i angylion a dynion, ac hefyd Ei drigfa neillduol ynddynt. Yn rhinwedd yr oror oruchel a mwyaf mewnol hon y mae dyn yn ddyn, ac i'w wahaniaethu oddiwrth yr anifeiliaid, y rhai sydd hebddi; oherwydd hyn gall dyn, o ran holl fewnolion ei feddwl mewnol ac allanol, gael ei godi gan yr Arglwydd atto Ei Hun; a chredu ynddo, a'i garu a'i weled: a gallu derbyn deall a doethineb, a llefaru yn rhesymol. Oherwydd hyn hefyd y bydd dyn byw byth. Ond y trefniadau a'r darpariadau wneir gan yr Arglwydd yn yr oror oruchel hon, ni ddeuant yn amlwg i syniad unrhyw angel, am eu bod uwchlaw ei feddwl a thuhwnt i'w ddoethineb."

436. Mai ysbryd yw dyn o ran ei fewnolion, a ddangoswyd i mi trwy lawer o brofiad, pe casglwn y cwbl, llanwai dudalenau lawer. Bum yn siarad âg ysbrydion fel ysbryd, a bum yn siarad â hwy fel dyn yn y corff. Pan siaradwn â hwy fel ysbryd, ni wyddent lai nad ysbryd oeddwn fy hun, mewn ffurf ddynol fel





hwythau: am hyny yr oedd fy mewnolion yn weledig iddynt, canys pan siaradwn â hwy fel ysbryd, nid ymddangosai fy nghorff materol.

437. Eglur mai ysbryd yw dyn o ran ei fewnolion, oblegid wedi gadael y corff, yr hyn a gymer le yn angeu, y mae efe yn fyw eto fel dyn megis cynt. I'm cadarnhau yn hyn, caniatawyd i mi ymddiddan â phawb bron o'r meirw a adwaenwn tra yn fyw yn y corff: â rhai am oriau, âg ereill am wythnosau a misoedd, ac âg ereill am flynyddau. Caniatawyd hyn fel y byddwn sicr o'r gwirionedd hwn fy hun, a'i dystio i ereill.

438. Gellir ychwanegu fod pob dyn, o ran ei ysbryd, yn nghymdeithas ysbrydion, hyd yn oed tra yn y corff, er na ŵyr hyny. Trwyddynt fel cyfryngau y mae y dyn da mewn cymdeithas angylaidd, a'r dyn drwg mewn cymdeithas uffernol: aiff y naill a'r llall i'w cymdeithasau hyn ar ol marw. Dangoswyd a phrofwyd hyn yn aml i rai ddaethant i blith ysbrydion ar ol marw. Gwir, nad yw dyn yn ymddangos fel ysbryd yn y gymdeithas y mae efe ynddi, tra yn byw yn y byd, am ei fod y pryd hwnw yn meddwl yn naturiol; ond y rhai a feddyliant ar wahan a'r corff, a ymddangosant weithiau yn eu cymdeithas eu hunain, oblegid eu bod y pryd hwnw yn yr ysbryd. Hawdd eu gwahaniaethu oddiwrth yr ysbrydion sydd yno yn weithredol, oblegid eu bod yn rhodio oddiamgylch fel personau mewn myfyrdod dwfn, yn ddistaw a disylw o ereill, fel pe na byddent yn eu gweled, a phan y gwna unrhyw ysbryd eu cyfarch, diflanant ar unwaith.

439. Er egluro y gwirionedd mai ysbryd yw dyn o ran ei fewnolion, adroddaf oddiar brofiad y modd y mae efe yn cael ei dynu o'r corff, a'r modd y mae efe yn cael ei gludo gan yr ysbryd i le arall.

440. Am y cyntaf, sef dyn yn cael ei ddwyn o'r corff, cymer le rhwng cwsg a dihun, ystad na ŵyr efe lai na'i fod yn hollol ar ddihun. Yr holl synwyrau ydynt mor weithgar yn yr ystad hon a phan fyddo yn berffaith ar ddihun o ran y corff: y gweled, y clywed, a'r hyn sydd ryfedd, y teimlad: canys y mae y teimlad yn fwy byw yn awr nac y gall fod byth tra y corff ar ddihun. Gwelir ysbrydion ac angylion yn holl sylwedd bywyd: clywir hwynt hefyd, a'r hyn sydd ryfedd, teimlir hwynt: canys nid oes nemawr ddim o'r corff yn cyfryngu rhyngddynt â'r dyn. Dyma yr ystad a elwir bod yn absenol o'r corff, y dywedodd un profiadol, pa un ai yn y corff neu allan o'r corff nas gwyddai. Caniatawyd i mi fyned i'r ystad hon dair neu bedair gwaith yn unig, fel yr adwaenwn eu nhatur, ac y byddwn sicr fod ysbrydion ac angylion yn mwynhau pob synwyr, a bod dyn hefyd o ran ei ysbryd, pan dynir ef o'r corff.

441. Dangoswyd i mi hefyd trwy brofiad gweithredol beth

yw fod un yn cael ei ddwyn gan yr ysbryd i le arall, a'r modd y gwneir hyn: ond ni chaniatawyd hyn ond dwy neu dair gwaith. Nodaf un engraifft. Wrth rodio ar hyd heolydd dinas, a thrwy feusydd, yn nghymdeithas ysbrydion, ni wyddom lai nad oeddwn ar ddihun a'm llygaid yn agored fel ar amserau ereill. Rhodiwn yn mlaen heb gamgymeryd y ffordd, er fy mod mewn gweledigaeth, yn gweled llwyni, afonydd, palasoedd, tai, a llawer o bethau ereill. Ond wedi i mi rodio am oriau, adferwyd fi yn sydyn i weledigaeth y corff, a gwelais fy mod mewn lle gwahanol. Synwn yn fawr, a chanfyddais i mi fod mewn ystad debyg i'r hon brofodd rhai y dywedir am danynt, eu bod wedi eu dwyn gan yr ysbryd i le arall. Tra pery, ni feddylir am hyd y ffordd, er iddi fod yn filldiroedd lawer, ac ni feddylir am yr amser, er iddo fod yn oriau neu ddyddiau lawer; nid oes chwaith deimlad o flinder, ond arweinir y dyn yn ddigyfeiliorn, trwy ffyrdd na ŵyr, nes cyrhaedd y lle a fwriadai.

442. Y ddwy ystad hyn o eiddo dyn, ydynt ystadau mewnol, sef ei ystadau pan yn yr ysbryd, ydynt ystadau anarferol, a dangoswyd hwynt i mi yn unig fel yr adwaenwn eu nhatur, am y gwyddir am eu bodolaeth yn yr Eglwys; ond siarad âg ysbrydion, a bod gyda hwynt fel un o honynt hwythau, a ganiatawyd i mi yn awr pan yn gyflawn ar ddihun, am lawer o flynyddau.

443. Fod dyn yn ysbryd o ran ei fewnolion ellir brofi yn mhellach oddiwrth y pethau ddywedwyd uchod (r. 311—317) lle y dangoswyd fod holl drigolion nefoedd ac uffern o'r hîl ddynol.

444. Pan ddywedwn mai ysbryd yw dyn o ran ei fewnolion, golygwn ei fod yn ysbryd o ran pob peth a berthyn i'w feddwl a'i ewyllys, canys y pethau hyn yw y mewnolion sydd yn gwneyd dyn yn wirioneddol ddyn, ac argraffant eu delw arno, fel mai y peth ydynt yw efe.

### Adgyfodiad Dyn oddiwrth y Meirw, a'i Fynediad i Fywyd Tragwyddol.

445. Pan na all y corff gyflawni ei swyddau yn hwy yn y byd naturiol, yn cyfateb i feddyliau a serchiadau yr ysbryd, yn tarddu o'r byd ysbrydol, dywedir fod dyn yn marw, a chymer hyn le pan fyddo anadliadau yr ysgyfaint a churiadau y galon yn darfod. Er hyny nid yw y dyn yn marw y pryd hwnw, ond yn cael ei wahanu o'r corff cnawdol yn unig, oedd o ddefnydd iddo yn y byd: y mae y dyn ei hun yn fyw. Dywedir fod y dyn ei hun yn fyw, oblegid fod dyn yn ddyn nid o'r corff, ond o'r ysbryd: canys yr ysbryd sydd yn meddwl yn y dyn, a meddwl yn nghyd â theimlad sydd yn gwneyd dyn. Felly, amlwg yw pan fydd dyn marw, nad yw ond myned o un byd i'r llall: oherwydd hyn angeu, yn ystyr fewnol y Gair, a arwydda Adgyfodiad, a pharhad bywyd.





446. Cymundeb mwyaf mewnol yr ysbryd â'r corff a gymer le yn yr anadliad, ac yn symudiad y galon; y meddwl a ddeil gymundeb â'r anadliad, a'r teimlad, perthynol i gariad ar galon. Am hyny, pan dderfydd y ddau symudiad hyn, ysgerir rhwng yr ysbryd a'r corff ar unwaith. Anadliad yr ysgyfaint a churiad y galon yw y rhwymau, pan dorir hwynt, gadewir yr ysbryd wrtho ei hun: a'r corff, wedi ei amddifadu o fywyd, a oera ac a bydra. Cymundeb mwyaf mewnol ysbryd dyn sydd â'r anadl a'r galon, am fod yr holl symudiadau yn dybynu ar y ddau hyny, nid yn unig yn y corff yn gyffredinol, ond yn mhob rhan o hono.

447. Erys ysbryd dyn yn y corff, wedi ei ysgariad, hyd oni lwyr dderfydd symudiad y galon, a chymer hyn le yn gynt neu yn hwy, yn ol natur y dolur fyddo yn achosi angeu: mewn rhai achosion pery symudiad y galon yn hir, mewn ereill derfydd yn fuan. Mor fuan y derfydd y symudiad hwn, adgyfodir dyn: ond gan yr Arglwydd yn unig y gwneir hyn. Wrth adgyfodiad y golygir dwyn yr enaid allan o'r corff, a'i ddwyn i fewn i'r byd ysbrydol. Nid yw ysbryd dyn yn gadael y corff nes y derfydd symudiad y galon, oblegid fod y galon yn cyfateb i'r teimlad a berthyn i gariad, a chariad yw gwir fywyd dyn; canys cariad yw tarddiad bywiol wres. Cyhyd gan hyny y pery symudiad y galon, pery y gyfatebiaeth hon, ac o ganlyniad fywyd yr ysbryd yn y corff.

448. Nid yn unig dywedwyd wrthyf y modd y cymer yr adgyfodiad le, ond hefyd dangoswyd i mi trwy brofiad byw: cefais y profiad fy hun fel y gallwn amgyffred y cyfnewidiad mawr.

449. Dygwyd fi i ystad ddideimlad o ran y synwyrau corfforol, ac felly yn agos i ystad personau yn marw, tra y bywyd mewnol a'r gallu i feddwl yn aros yn gyflawn, fel y gallwn ganfod a chofio y pethau yr awn trwyddynt, a'r pethau yr eir trwyddynt gan rai yn adgyfodi oddiwrth y meirw. Canfyddais fod anadliad y corff bron cael ei gymeryd ymaith, tra yr anadliad mewnol, sef eiddo yr ysbryd, yn aros, yn un âg anadliad esmwyth a distaw y corff. Agorwyd cymundeb yn awr rhwng curiad y galon a theyrnas nefol yr Arglwydd, oblegid fod y deyrnas nefol yn cyfateb i'r galon. Angylion o'r deyrnas hono hefyd oeddent weledig: rhai yn mhell, a dau yn agos at fy mhen. Pob teimlad perthynol i mi fy hun a gymerwyd ymaith, ond meddwl a chanfyddiad a arosent. Parheais yn yr ystad hon am rai oriau, a'r ysbrydion o'm cylch a giliasant, gan dybied fy mod yn farw. Canfyddais hefyd arogl peraidd tebyg i gorff marw wedi ei berarogli: canys pan fyddo angylion nefol yn bresenol, sawr y corff a ganfyddir fel arogl peraidd: nis gall ysbrydion wrth arogli hyn ddod yn agos. Felly hefyd yr erlidir ymaith ysbrydion drwg oddiwrth ysbryd y dyn pan arweinir ef i fewn yn gyntaf i'r bywyd tragwyddol. Yr

angylion gerllaw fy mhen ni lefarent, ond yr oedd cymundeb rhwng eu meddyliau hwy a'm meddyliau inau. Pan dderbynir y fath gymundeb, gwyddant fod ysbryd y dyn mewn ystad addas i gael ei lwyr ysgaru oddiwrth y corff. Cymundeb eu meddyliau a gymerai le trwy edrych i'm gwyneb: canys felly y cymer y fath gymundeb le yn y nefoedd. Gan fod meddwl a chanfyddiad yn aros gyda mi, fel y gallwn ddeall a chofio pa fodd y cymer yr adgyfodiad le, canfyddais fod yr angylion hyny yn gyntaf yn chwilio beth oedd fy meddyliau, er sicrhau a oeddent yn debyg i feddyliau rhai yn marw, sef ar bethau tragwyddol fynychaf: a'u bod yn dymuno cadw fy meddyliau yn yr ystad hono. Dywedwyd wrthyf wedi hyny, fod ysbryd dyn yn cael ei gadw yn y meddyliau olaf oedd ganddo pan oedd ei gorff yn marw, nes y dychwelo i'r meddyliau a lifent o'r teimlad cyffredinol neu lywodraethol a'i meddianau yn y byd. Rhoddwyd i mi ganfod yn neillduol, a theimlo hefyd, fod mewnolion fy meddwl yn cael eu tynu allan a'i dihatru hefyd, ac mewn canlyniad fy ysbryd, o'r corff, dywedwyd wrthyf fod hyn yn deilliaw o'r Arglwydd, ac mai hyn sydd yn effeithio yr Adgyfodiad.

450. Yr angylion nefol yn gweini ar y dyn wedi adgyfodi nis gadawant ef, oblegid eu bod yn caru pob un: ond os yw yr ysbryd o'r fath ansawdd nas gall aros gydag angylion nefol, efe a ddymuna eu gadael hwynt. Yna angylion o Deyrnas Ysbrydol yr Arglwydd a ddynesant, ac a roddant iddo ddefnydd goleuni: canys hyd yn hyn nid oedd efe ond meddwl yn unig, heb weled dim. Dangoswyd i mi y modd y gwneir hyn. Ymddangosai yr angylion hyny fel pe byddent yn dadrolio gwisg y llygad aswy tua'r trwyn, fel y gellid agor y llygad, a chyfranu golwg. Ymddangosiad yn unig yw hyn, ond yr ysbryd a'i cenfydd fel Sylwedd; pan ymddengys gwisg y llygad wedi ei dadrolio, gwelir math o welediad dysglaer ond aneglur, tebyg i'r hyn a welir trwy gloriau y llygaid wrth ddihuno gyntaf. Y gwelediad dysglaer, ond aneglur, hwn a ymddangosai i mi o liw yr awyr lâs, ond dywedwyd wrthyf wedi hyny fod y lliw yn amrywio gyda gwahanol bersonau. Yna canlynodd teimlad fel pe byddai rhywbeth yn cael ei ddadrolio yn dyner oddiar yr wyneb, a dilynwyd hyn gan ystad o feddwl ysbrydol. Y dadroliad hwn oddiar y wyneb nid yw hefyd ond ymddangosiad, yn arddangos y symudiad o feddwl naturiol i feddwl ysbrydol. Yr angylion a arferant y gofal mwyaf i gau allan bob meddwl yn y person sydd yn adgyfodi, ond a fyddo yn tarddu o gariad. Dywedant wrtho yn awr ei fod yn ysbryd. Wedi i'r angylion ysbrydol roddi goleuni i'r Ysbryd Newydd, rhoddant iddo bob caredigrwydd ddichon iddo ddymuno, ac addysgant ef am bethau y byd arall, mor bell y gall eu hamgyffred. Ond os na bydd ewyllys ganddo





i dderbyn addysg, dymuna gilio o gymdeithas yr angylion hyny. Nid yw yr angylion hyn yn ei adael ef, ond efe sydd yn eu gadael hwy: canys y mae yr angylion yn caru pob un, ac ni ddymunant ddim yn fwy na bod yn garedig i bawb, eu dysgu, a'u dwyn i'r nefoedd, am mai hyn yw eu prif bleser. Pan fyddo yr ysbryd fel hyn yn cilio oddiwrth yr angylion, derbynir ef gan ysbrydion da, y rhai a roddant iddo bob caredigrwydd cyhyd yr erys gyda hwynt. Ond os bu ei fywyd yn y byd y fath nas gall oddef cymdeithas y rhai da, dymuna eu gadael hwythau hefyd, a phery y cyfnewidiadau hyn hyd oni ymuno efe âg ysbrydion mewn perffaith gydgordiad â'i fywyd pan yn y byd. Gyda hwynt y caiff ei fywyd, a rhyfedd yw dweyd, yr arweinia wedi hyny fywyd tebyg i'w fywyd yn y byd.

451. Ond nid yw yr ystad gyntaf hon o fywyd dyn ar ol angeu yn parhau ond ychydig ddyddiau; ond y modd yr arweinir ef wedi hyny o un ystad i'r llall, ac o'r diwedd i'r nefoedd neu uffern, a ddangosir yn yr hyn a ganlyn, oddiar y profiad helaeth a roddwydd i mi.

452. Bum yn siarad â rhai ar y trydydd dydd ar ol eu marw, wedi gorphen y gwaith ddarlunir yn r. 449, 450. Adwaenwn dri o'r ysbrydion hyn yn y byd, a dywedais wrthynt fod eu cyfeillion yn awr yn parotoi i gladdu eu cyrff. Pan ddywedais am eu claddu, tarawyd hwy â math o syfrdandod, a thystient eu bod yn fyw, ac y gallai eu cyfeillion gladdu yr hyn a wasanaethodd iddynt fel corff yn y byd. Wedi hyny synent yn ddirfawr, am na chredasant yn y fath fywyd ar ol angeu pan yn byw yn y corff, a rhyfeddent yn neillduol fod yr un anghrediniaeth yn ffynu bron yn gyffredinol o fewn yr Eglwys. Y rhai a wadant anfarwoldeb yr enaid, a gywilyddiant yn fawr pan gânt eu hunain yn fyw ar ol marw: y rhai a gadarnhasant eu hunain yn y fath anghrediniaeth, a ymddidolant oddiwrth y rhai a gredasant y gwirionedd. Y rhan fwyaf o honynt sydd mewn cysylltiad â rhyw gymdeithas uffernol, gan eu bod hefyd yn gwadu y Duwdod, ac yn dirmygu gwirioneddau yr Eglwys: canys i'r graddau y gwna neb gadarnhau ei hun yn erbyn anfarwoldeb yr enaid, y cadarnha ei hun hefyd yn erbyn pob athrawiaeth perthynol i'r nef a'r Eglwys.

### Dyn ar ol angeu sydd mewn ffurf ddynol berffaith.

453. Fod ffurf ddynol i ysbryd dyn, neu mai dyn yw yr ysbryd o ran ei ffurf, sydd eglur oddiwrth a ddywedwyd mewn amryw o'r penodau blaenorol, yn neillduol yn y rhai y dangoswyd fod pob angel mewn ffurff ddynol berffaith (r. 73—77); mai ysbryd yw pob dyn o ran ei fewnolion (r. 432—444); a bod angylion y nefoedd yn deilliaw o'r hil ddynol (r. 311—317. Gwelir hyn yn fwy clir byth oddiwrth y ffaith fod dyn yn ddyn o'i ysbryd, ac nid

o'i gorff: ac nad yw yr ysbryd yn cael ei ychwanegu at y ffurf gorfforol, ond y ffurf gorfforol ei hychwanegu at yr ysbryd, canys gwisgir yr ysbryd â chorff yn ol ei ffurf ei hun. Am hyny y gweithreda ysbryd dyn ar bob rhan o'r corff, hyd yn oed y rhanau manaf, mor neillduol a chyffredinol, fel pe byddai unrhyw ran heb weithredu arni gan yr ysbryd, neu yn yr hon nad yw yr ysbryd yn gweithredu, nid yw y rhan hono yn fyw. Eglur yw hyn oddiwrth yr ystyriaeth mai meddwl ac ewyllys sydd yn ysgogi holl ranau y corff, yn unedig ac ar wahan, gyda'r fath berffeithrwydd, fel y mae pob gronyn yn cydsynio yn y symudiad cydgordiol, a pha beth bynag nad yw yn cydsynio felly, nid yw ran o'r corff, a chaiff ei daflu allan fel peth difywyd; ond meddwl ac ewyllys a berthynant i'r ysbryd, ac nid i'r corff. Nid yw yr ysbryd mewn ffurf ddynol yn ymddangos i ddyn wedi gadael y corff, ac nis gwelir mewn dyn tra yn byw yn y byd, oblegid fod y llygad, neu organ golwg y corff, yn faterol, a'r hyn sydd faterol ni wêl ddim ond y materol; yr ysbrydol wêl yr ysbrydol. Pan, gan hyny, y byddo defnydd materol y llygad yn cael ei amddifadu o'r gallu i gydweithio a chyfateb i'r ysbrydol, gwelir ysbrydion yn eu ffurf eu hunain, yr hon yw y ffurf ddynol, nid yn unig yr ysbrydion yn y byd ysbrydol, ond hefyd ysbrydion dynion tra yn byw yn y corff.

454. Dynol yw ffurf ysbryd dyn, oblegid fod dyn o ran ei ysbryd, wedi ei greu yn ol ffurf y nefoedd: canys y mae pob peth perthynol i'r nefoedd a'i threfn wedi eu casglu i'r pethau perthynol i feddwl dyn: ac am hyny, y gall dderbyn deall a doethineb. Yr un peth yw dweyd y gall dderbyn deall a doethineb, a dweyd y gall dderbyn y nefoedd, fel y gwelir oddiwrth yr hyn a ddywedwyd am oleuni a gwres y nefoedd (r. 126—140); am ffurf y nefoedd (r. 200—212); am ddoethineb yr angylion (r. 265—257); ac oddiwrth y benod a ddengys fod y nefoedd gyffredinol, yn y gyfangorff ac yn y rhanau, yn debyg i un dyn (r. 59—77). Yn r. 78—86, dangoswyd hefyd fod ffurf ddynol y nefoedd yn tarddu o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd.

455. Gall dyn rhesymol ddeall y pethau hyn, oblegid y medr edrych ar bethau oddiar gadwyn yr achosion, ac oddiar wirioneddau yn eu trefn: ond dyn nad yw resymol ni fedr eu deall. Y mae amryw achosion dros hyn, ond y prif reswm yw, nad yw yn foddlawn eu deall: oblegid eu bod yn groes i'r anwireddau a wnaeth iddo ei hun fel gwirioneddau; a'r hwn ar gyfrif hyn nad yw foddlawn i ddeall, a gau yn erbyn dylifiad y nefoedd i'w natur resymol. Eto, gall cymundeb gael ei agor, os paid yr ewyllys a gwrthwynebu (gwel uchod, r. 424). Dangoswyd i mi trwy lawer o brofiad, y gall dyn ddeall y gwirionedd a dyfod yn rhesymol, os dewisa. Ysbrydion drwg, wedi myned yn ddireswm





yn y byd trwy wadu y Duwdod a gwirioneddau yr Eglwys, a chadarnhau eu hunain yn erbyn y gwirioneddau hyny, gwelais hwynt yn fynych yn cael eu troi gan allu Dwyfol at ysbrydion yn ngoleuni y gwirionedd; yna y gwnaent amgyffred y gwirioneddau hyny fel yr angylion, addefent hwynt, ac addefent hefyd eu bod yn eu deall oll; ond mor fuan y llithrent yn ol iddynt eu hunain, a throi at gariad eu hewyllys, ni wnaent amgyffred dim, a llefarent yn erbyn y gwirionedd. Clywais hefyd ysbrydion uffernol yn dywedyd y gwyddant ac y canfyddant fod yr hyn a wnant yn ddrwg, a'r hyn a feddyliant yn anwiredd; ond nas gallant wrthwynebu pleser eu cariad, yn arwain eu meddyliau i weled drwg fel da, ac anwiredd fel gwirionedd. Felly, dangoswyd fod y rhai sydd mewn anwiredd yn tarddu o ddrwg, a gallu ganddynt i ddeall y gwirionedd, ac o ganlyniad i ddyfod yn rhesymol, ond nad ydynt yn dewis; ac ni ddewisant oblegid eu bod yn caru anwiredd yn fwy na gwirionedd, am fod anwiredd yn cytuno a'u drwg. Caru a dewis sydd yr un peth, canys yr hyn a ewyllysia dyn a gâr efe, a'r hyn a gâr efe a ewyllysia. Gan fod ystad dyn y fath y gall ddeall gwirioneddau os dewisa, caniateir i mi gadarnhau gwirioneddau ysbrydol y nefoedd a'r Eglwys trwy ystyriaethau rhesymol, mewn trefn i chwalu yr anwireddau a gauasant natur resymol llaweroedd, ac fel y gellir fel hyn agor eu llygaid meddyliol i ryw fesur. Caniateir i bawb wedi eu gwreiddio yn y gwirionedd, gadarnhau gwirioneddau ysbrydol trwy brofion rhesymol. Pwy all deall y Gair oddiwrth ei ystyr lythrenol, oddieithr iddo weled y gwirioneddau a gynwys oddiar reswm goleuedig? Beth ond diffyg gweled felly yw yr achos o'r holl heresiau godir o'r Gair?

456. Fod ysbryd dyn yn ddyn, ac yn ffurf dyn wedi gadael y corff, a ddangoswyd i mi trwy brofiad dyddiol llawer o flynyddoedd: canys gwelais, clywais, ac ymddiddenais âg ysbrydion filoedd o weithiau, a siaredais â hwynt am yr anghrediniaeth gyffredinol fod ysbrydion yn ddynion, a dywedais wrthynt fod y dysgedigion yn galw y rhai a feddyliant felly yn ffol. Yr ysbrydion a ofidient yn eu calon fod y fath anwybodaeth eto yn parhau yn y byd, ac yn neillduol yn yr Eglwys. Dywedent fod y fath anghrediniaeth yn tarddu yn benaf gyda'r dysgedigion, yn meddwl am yr enaid yn ol eu syniadau corfforol a chnawdol, yn casglu felly nad yw ond meddwl yn unig, ac edrych arno heb wrthrych i fodoli ynddo, sydd fel anadliad o awyr, i'w wasgaru pan fyddo y corff farw. Ond gan fod yr Eglwys, ar awdurdod y Gair, yn credu yn anfarwoldeb yr enaid, rhaid iddynt briodoli iddo rhyw egwyddor fywiol, fel meddwl, er gwadu iddo egwyddor deimladwy fel sydd gan ddyn, hyd ei ail-uniad â'r corff. Dyma sail yr athrawiaeth gyffredin am yr adgyfodiad, ac o'r grêd fod yr enaid

a'r corff i'w hail-uno yn amser y farn ddiweddaf. Felly, pan fyddo unrhyw un yn meddwl am yr enaid oddiwrth yr athrawiaeth a'r dybiaeth hon, nid yw yn synied am dano fel ysbryd mewn ffurf ddynol: ac, yn wir, nid oes nemawr y dydd hwn yn deall beth yw natur ysbrydol, a llai byth fod bodau ysbrydol, angylion ac ysbrydion, oll mewn ffurf ddynol. Bron pawb, gan hyny, yn ymadael o'r byd hwn i'r llall, a synant gael eu hunain yn fyw, a'u bod yn ddynion fel o'r blaen; y gallant weled, a chlywed a siarad; eu bod fel o'r blaen yn meddu teimlad corfforol, ac nad oes wahaniaeth o gwbl i'w ganfod (gwel uchod, r. 74): ond pan orphenant synu attynt eu hunain, synant fod yr Eglwys mewn dygn anwybodaeth am ystad dyn ar ol marw, ac felly am nefoedd ac uffern, er fod pawb fuont byw yn y byd ac wedi myned i'r byd arall yn byw yno fel dynion. Synant hefyd na ddatguddir hyn yn glir i ddyn trwy weledigaethau, oblegid ei fod yn ran hanfodol o ffydd yr Eglwys: ond dywedir wrthynt o'r nefoedd, y gellid rhoddi y fath ddatguddiadau, gan nad oes dim yn hawddach pan wêl yr Arglwydd yn dda, ond na wnai y rhai a gadarnhasant eu hunain mewn anwireddau gredu hyd yn oed tystiolaeth eu synhwyrau: ac hefyd y byddai y fath weledigaethau yn beryglus iddynt, oblegid credent yn gyntaf, a gwadent wedi hyny, ac fel hyn halogent y gwirionedd ei hun. Credu y gwirionedd a'i wadu wedi hyny, yw halogiad; y rhai euog o hyn a gânt eu taflu i'r uffern isaf a mwyaf truenus. Y perygl hwn olygir yn ngeiriau yr Arglwydd: "Efe a ddallodd eu llygaid ac a galedodd eu calon: fel na welent â'u llygaid, a deall â'u calon, ac ymchwelyd o honynt, ac i mi eu hiachau hwynt," Ioan xii. 40; ac y parhaent i anghredu pan mewn anwireddau wrth y geiriau hyn: "Abraham a ddywedodd wrtho, Y mae ganddynt Moses a'r proffwydi, gwrandawant arnynt hwy. Yntau a ddywedodd, Nag ê, y tad Abraham: eithr os â un oddiwrth y meirw attynt, hwy a edifarhânt. Yna Abraham a ddywedodd wrtho, Oni wrandawant ar Moses a'r proffwydi, ni chredant chwaith pe codai un oddiwrth y meirw," Luc xvi. 29—31.

457. Pan elo ysbryd dyn gyntaf i fyd yr ysbrydoedd, yr hyn gymer le yn fuan wedi ei adgyfodiad, ceidw yr un gwyneb a'r un swn llais ag oedd ganddo yn y byd, oblegid ei fod eto yn ystad ei allanolion, a'i fewnolion heb gael eu datguddio. Dyma ystad gyntaf dyn ar ol angeu. Wedi hyny newidia ei wyneb, a daw yn hollol wahanol; daw yn debyg i'w deimlad neu gariad llywodraethol mewnolion ei feddwl pan yn y byd, ac a reolai ei ysbryd pan yn y corff: canys wyneb ysbryd dyn a wahaniaetha yn ddirfawr oddiwrth wyneb ei gorff; gwyneb ei gorff a ddeillia oddiwrth ei rieni, ond gwyneb yr ysbryd a ddeillia o'i gariad, ac y mae yn ddelw o hono. I hyn daw yr ysbryd ar ol marw, pan symudir yr allanolion, a phan ddatguddir y mewnolion. Dyma





drydedd ystad dyn. Gwelais rai ysbrydion newydd ddyfod o'r byd, ac adwaenwn hwynt wrth eu hwynebau a'u lleferydd; ond nid adwaenwn hwynt pan welais hwy wedi hyny. Y rhai wedi gwreiddio mewn serchiadau da a ymddangosent yn awr gyda gwynebau hardd, ond hagr oedd gwynebau y rhai oedd wedi gwreiddio mewn serchiadau drwg: canys ysbryd dyn, ac edrych arno ynddo ei hun, nid yw ddim ond ei serch, a'r gwyneb yn ffurf allanol o hono. Rheswm arall dros fod y gwyneb yn newid yw, nad oes ganiatad i neb yn y byd arall ffugio serchiadau na pherthyn iddo, nac o ganlyniad i wisgo golwg groes i'w gariad. Pawb, gan hyny, o bob cymeriad a ddygir i ystad yn yr hon y llefarant fel y meddyliant, a dangosant dueddiadau yr ewyllys trwy y gwyneb a'r ystumiau. Felly y daw gwynebau yr holl ysbrydion yn ffurfiau a delwau eu serchiadau, ac am hyny pawb a adwaenent eu gilydd yn y byd a adwaenant eu gilydd yn myd yr ysbrydoedd, ond nid felly yn y nefoedd nac yn uffern (gwel uchod, r. 427).

458. Gwynebau rhagrithwyr a newidiant yn fwy arafaidd nac eiddo ereill, oblegid eu bod wedi arfer ffurfio eu mewnolion i efelychu teimladau da: am hyny ymddangosant dros hir amser nid yn anhardd; ond diosgir hwy yn raddol o'u holl ragrith, a sefydlir eu mewnolion perthynol i'w meddyliau yn ol ffurf eu serchiadau, wedi hyny ânt yn fwy hagr nag ereill. Rhagrithwyr yw dynion a siaradant fel angylion, ond yn fewnol ni chydnabyddant ddim ond natur, ac felly gwadant y Duwdod, ac o ganlyniad y pethau perthynol i'r nefoedd a'r Eglwys.

459. Gwybydder fod ffurf ddynol pob dyn yn hardd ar ol angeu i'r graddau y byddo ei gariad yn fewnol at wirioneddau, a'i fywyd yn ufudd iddynt: canys y mae mewnolion pob un yn cael eu hagor a'u ffurfio yn ol y cariad a'r bywyd hwnw; am hyny, pa fwyaf mewnol fyddo y serch, mwyaf cyd-ffurfiol yw â'r nefoedd, a mwyaf hardd yw y gwyneb. Angylion y nefoedd fwyaf mewnol, gan hyny, sydd fwyaf hardd, oblegid eu bod yn ffurfiau cariad nefol. Ond llai yw harddwch y rhai sydd wedi caru gwirioneddau dwyfol yn fwy allanol, a'u hufudd-dod iddynt yn fwy allanol: canys eu hallanolion yn unig a lewyrchent o'u hwynebau, ac nid yw cariad nefol mewnol yn dryloeyw drwyddynt, ac o ganlyniad ffurf y nefoedd fel y mae ynddi ei hun, ond ymddengys rhywbeth cymharol dywyll yn eu gwynebau, na fywheir gan ardderchowgrwydd a dysglaerder bywyd mewnol. Mewn gair, pob perffeithrwydd a gynydda tua'r mewnolion, ac a lleiha tua'r allanolion, ac felly y gwna prydferthwch. Gwelais wynebau angylion y drydedd nef, y rhai sydd mor hardd, nas gall yr un paentiwr, gyda gallu uchaf ei gelfyddyd, ddangos hyd yn oed y filfed ran o ddysgleirder goleuni eu bywyd; ond gellir darlunio i ryw raddau wynebau angylion y nefoedd isaf.

460. Nodaf wrth diweddu ddirgelwch anadnabyddus hyd yma. Pob daioni a gwirionedd yn deilliaw o'r Arglwydd, ac yn gwneyd y nefoedd, sydd mewn ffurf ddynol, nid yn unig yn y cyfan-gorff, ond yn mhob rhan; a'r ffurf hon a effeithia ar bob un dderbynia ddaioni a gwirionedd oddiwrth yr Arglwydd, ac a rydd y ffurf ddynol i bob un yn y nefoedd yn ol mesur ei dderbyniad. Oherwydd hyn y mae y nefoedd yn debyg iddi ei hun yn gyffredinol a neillduol, ac mai y ffurf ddynol yw ffurf yr oll: pob cymdeithas a phob angel, fel y dangoswyd yn y pedair penod (r. 59—86). Gellir ychwanegu fod y ffurf ddynol yn treiddio trwy fanylion manaf meddwl, yn tarddu o gariad nefol yn yr angylion. Anhawdd i ddyn amgyffred y dirgelwch hwn, ond deallir ef yn glir gan angylion, oblegid eu bod hwy yn ngoleuni y nefoedd.

### Cof, Meddwl, Teimlad, a phob synwyr feddai dyn yn y byd a arosant gydag ef wedi marw; ni ad ddim ar ei ol ond ei gorff daearol.

461. Dangoswyd i mi trwy brofiad lawer, fod dyn wrth farw, a myned allan o'r byd naturiol i'r byd ysbrydol, yn cymeryd gydag ef bob peth perthynol iddo fel dyn, oddieithr ei gorff daearol. Canys pan aiff i'r byd ysbrydol, neu i'r bywyd ar ol marw, y mae efe mewn corff fel yr oedd efe yn y byd naturiol, ac i bob ymddangosiad, yn yr un corff, gan nas gall y teimlad na'r olwg ganfod unrhyw wahaniaeth: ond ysbrydol yw ei gorff yn awr, ac wedi ei wahanu neu ei buro oddiwrth ronynau materol. Pan fyddo bodau ysbrydol yn teimlo a gweled pethau ysbrydol, yr effaith i'r teimlad sydd hollol yr un peth, a phan fyddo bodau naturiol yn teimlo a gweled pethau naturiol. Am hyny pan ddaw dyn yn ysbryd, nid yw yn ymwybodol ei fod wedi marw, a chred ei fod eto yn y corff yr oedd ynddo pan yn y byd. Ysbryd dynol hefyd a fwynhâ bob synwyr allanol a mewnol ag oedd ganddo yn y byd; gwel fel o'r blaen; clyw a llefara fel o'r blaen; arogla ac archwaetha fel o'r blaen, a phan gyffyrddir âg ef, teimla fel o'r blaen; hiraetha hefyd, dymuna, deisyfa, meddylia, adfeddylia, effeithir arno, cara ac ewyllysia fel o'r blaen; a'r hwn sydd hoff o fyfyrio a ddarllena ac a ysgrifena fel o'r blaen; mewn gair, pan fyddo dyn yn myned o un bywyd i'r llall, neu o un byd i'r llall, tebyg yw i un yn myned o un lle i'r llall: canys cluda ganddo yr holl bethau a feddai ynddo ei hun fel dyn, fel nas gellir dweyd fod angeu yn amddifadu dyn o ddim perthynol iddo ei hun, gan nad yw angeu ddim ond bwrw heibio y corff materol. Y côf naturiol hefyd a erys, canys ysbrydion a gadwant bob peth a glywsant, a welsant, a ddarllenasant, a ddysgasant, ac a feddyliasant yn y byd o fabandod boreuaf hyd ddiwedd oes; ond gan nas gall y gwrthrychau naturiol yn y côf gael eu hadgynyrchu yn y byd ysbrydol, y maent





yn llonydd, fel gyda dyn yn y byd hwn, pan na fydd yn meddwl am danynt. Ond adgynyrchir hwynt pan wêl yr Arglwydd yn dda. Am y côf hwn, a'i ystad ar ol angeu, dywedir rhagor yn fuan. Nis gall dynion anianol gredu mai y fath yw ystad dyn ar ol marw, oblegid nad ydynt yn amgyffred, canys nis gall dynion anianol ond meddwl yn anianol, hyd yn oed am bethau ysbrydol. Beth bynag gan hyny nad yw yn amlwg i'w synhwyrau corfforol, hyny yw, beth bynag na welant a'u llygaid, a theimlo a'u dwylaw, haerant nad yw yn bod, fel y darllenwn am Thomas (Ioan xx. 25—27, 29. Darlunir cymeriad y dyn cnawdol uchod yn r. 267, a'r cyfeiriadau wneir yno.

462. Er hyny, mawr yw y gwahaniaeth rhwng bywyd dyn yn y byd ysbrydol, â'i fywyd yn y byd naturiol, o ran y synhwyrau mewnol a'u teimladau, a'r synhwyrau allanol a'u teimladau. Y mae synhwyrau trigolion y nefoedd yn llawer mwy godidog nag oeddynt yn y byd. Gwelant a chlywant yn rhagorach, a meddyliant yn fwy doeth: canys gwelant yn ngoleuni y nefoedd, yr hwn sydd yn rhagori, trwy lawer o raddau, ar oleuni y byd (gwel uchod r. 126): a chlywant trwy awyrgylch ysbrydol, sydd lawer purach nag awyrgylch daear (r. 235). Y gwahaniaeth hwn rhwng y synhwyrau allanol sydd debyg i'r gwahaniaeth rhwng awyr glir a tharth tywyll, neu rhwng goleuni canolddydd a chysgodau yr hwyr: gan mai y Gwirionedd Dwyfol yw goleuni y nefoedd, cynorthwya y llygad angylaidd i ganfod a gwahaniaethu y gwrthrychau lleiaf. Golwg allanol yr angylion hefyd sydd yn cyfateb i'w golwg fewnol, neu eu deall: canys y naill a lifa i'r llall, ac a weithredant yn un; oherwydd hyn y mae eu llygaid mor hynod o graff; eu clyw hefyd sydd yn cyfateb i'w canfyddiad yn codi o'u deall a'u hewyllys; am hyny canfyddant fanylion manaf meddwl a theimlad siaradwr yn sŵn ei lais ac yn ei eiriau; manylion ei deimlad yn sŵn ei lais, a manylion ei feddwl yn ei eiriau (gwel r. 234—245): ond nid yw synhwyrau ereill yr angylion mor odidog a'r synhwyrau o weled a chlywed, am fod y synhwyrau hyn mor wasanaethgar i'w deall a'u doethineb, tra nad yw y lleill felly: pe byddent, gan hyny, mor odidog, a'r synhwyrau o weled a chlywed, cymerent ymaith oleuni a phleser eu doethineb, a dygent i fewn bleser dymuniadau yn canlyn amryw chwantau ac o'r corff, yn pylu a gwanhau y deall i'r graddau y ffynont. Felly yn hollol y mae gyda dynion yn y byd, canys y maent yn bŵl ac ystyfnig i wirioneddau ysbrydol i'r graddau y byddont yn boddhau afiaeth yr archwaethiad a'r teimlad corfforol. Fod synhwyrau mewnol angylion y nefoedd, perthynol i'w meddwl a'r teimlad, hefyd yn fwy godidog a pherffaith nac oeddynt yn y byd, sydd amlwg oddiwrth y bennod am ddoethineb angylion y nefoedd (r. 265—275). Ystad y rhai yn uffern hefyd, sydd dra gwahanol

i'w hystad yn y byd, canys i'r graddau y mae synhwyrau allanol a mewnol angylion y nefoedd yn rhagorol a pherffaith, pŵl ac anmherffaith yw eiddo ysbrydion uffern: ond dywedir rhagor eto ar hyn.

462*. Fod dyn yn myned a'i holl gôf ganddo wrth adael y byd, a ddangoswyd i mi trwy lawer o brofion, llawer o honynt sydd deilwng i'w hadrodd. Nodaf rai. Rhyw ysbrydion a wadent y troseddau a'r ysgelerderau a wnaethant yn y byd; am hyny, rhag y tybid eu bod yn ddiniwed, datguddiwyd eu holl actau, a chyfrifwyd hwynt mewn trefn o'u côf eu hunain, o ddechreu oes i'w diwedd. Cynwysent yn benaf o odineb a phuteindra. Rhai dwyllasant ereill drwy ddichellion, gan ysbeilio a lladrata, a ddatguddiwyd yn yr un modd, a'u holl ddichellion a gyfrifwyd mewn trefn, er fod llawer o honynt yn adnabyddus i bawb yn y byd ond iddynt eu hunain. Cydnabyddent wirionedd y pethau hyn, oblegid eu hamlygu megis yn y goleuni, yn nghyd â phob meddwl, bwriad, pleser, ac ofn, a gyffroent eu meddyliau ar y pryd. Ereill wedi derbyn gwobrau, a gwneyd elw o'u barn, a chwiliwyd, a holl actau eu bywyd swyddol a gyfrifwyd o'u côf eu hunain. Dangoswyd pob manylion. Swm a natur y wobr, yr amser, ystad eu meddwl a'u bwriad ar y pryd, rhuthrai yr oll i'w côf, ac arddangosid hwynt yn weledig i'r gwyddfodolion. Y troseddau oeddent ganoedd lawer mewn nifer. Gwnaed hyn mewn amryw achosion, a'r hyn sydd ryfedd, hyd yn oed y côf-lyfrau, lle y côf-nodwyd eu hactau gan yr ysbrydion hyn, a agorwyd ac a ddarllenwyd o'u blaen, tudalen ar ol tudalen. Ereill wedi treisio diweirdeb, a hudo gwyryfon i warth, a ddygwyd i farn gyffelyb, a holl fanylion eu drygioni a gyfrifid o'u côf. Gwynebau y gwyryfon a'r gwragedd a halogwyd ganddynt, a arddangosid fel pe yn bresenol, yn nghyd â'r lleoedd y buont yn cwrdd, y siarad ac ystad eu meddyliau. Y datguddiadau hyn a barhaent weithiau am oriau, ac a ganlynent eu gilydd fel *panorama* cyflym. Yr oedd rhyw ysbryd a edrychai fel dim ar y drwg o absenu. Clywais ei gablau a'i enllibau yn cael eu hadrodd yn eu trefn, ac yn ei eiriau ef ei hun: y personau a gablodd, a'r rhai y bu yn eu cablu wrthynt, a ddatguddiwyd hefyd mor fyw, a phe yn bresenol: eto, bu ef yn ofalus i gelu y cwbl pan yn byw yn y byd. Ysbryd arall wedi difuddio perthynas o'i etifeddiaeth trwy ffalsder, a gollfarnwyd yn yr un ffordd, a rhyfedd yw adrodd, y llythyrau a'r papyrau basiodd rhyngddynt—a ddarllenwyd yn fy nghlyw, a dywedwyd wrthyf nad oedd gair yn eisiau. Yr un person hefyd ychydig cyn marw, a laddodd ei gymydog yn ddirgel trwy wenwyn: ei drosedd fel hyn a

* Ceir y rhif hon ddwywaith yn y gwreiddiol.





ddygwyd i oleuni. Ymddangosai y llofrudd yn tori twll yn y ddaear, allan o'r hon y daeth dyn allan, fel un yn dyfod o fedd, gan waeddi arno, "Beth a wnaethost i mi?" Yna yr holl fanylion a ddatguddiwyd: siarad cyfeillgar y llofrudd wrth y llofruddiedig: y modd y rhoddodd y cwpan iddo: rhediad y meddyliau a arweiniodd i'r llofruddiaeth, a'r amgylchiadau wedi hyny. Wedi y datguddiadau hyn, dedfrydwyd ef ar unwaith i uffern. Mewn gair, yr holl droseddau, yr actau drygionus, y lladradau, y dyfeisiau a'r dichellion, a gânt eu harddangos mor amlwg i bob ysbryd drwg, o'u côf eu hunain; felly y byddant gondemniedig: ni bydd un lle i wadu, oblegid yr holl amgylchiadau a ymddangosant gyda'u gilydd. Gwelwyd a dangoswyd côf rhyw ysbryd gan angylion, a chlywais beth oedd ei feddyliau am fis gyda'u gilydd, ddydd ar ol dydd, gyda'r cywirdeb mwyaf: canys dangoswyd ystad pob dydd. Eglur yw oddiwrth yr esiamplau hyn, fod dyn yn myned a'i holl gôf gydag ef i fyd arall, ac nad oes dim, pa mor guddiedig bynag y byddo, nas gwneir yn amlwg ar ol angeu, yn ngwydd llawer: yn ol geiriau yr Arglgydd: "Canys nid oes dim cuddiedig ar nas datguddir; na dirgel, ar nis gwybyddir. Am hyny, pa bethau bynag a ddywedasoch yn y tywyllwch, a glywir yn y goleu; a'r peth a ddywedasoch yn y glust mewn ystafelloedd, a bregethir ar benau tai," Luc xii. 2, 3.

463. Pan ddatguddir i ddyn ei weithredoedd ar ol marw, yr angylion ordeiniedig i'r gwaith, a edrychant i'w wyneb, ac a chwiliant ei holl gorff drwyddo, gan ddechreu ar fysedd y ddwy law. Fel y synwn beth allai hyn fod, cefais eglurhad. Holl fanylion meddwl ac ewyllys dyn sydd ysgrifenedig ar ei ymenydd, canys yno y mae eu dechreuad. Y maent yn ysgrifenedig hefyd ar yr holl gorff, am fod pob peth perthynol i'r meddwl a'r ewyllys yn deilliaw yno o'u dechreuad, ac yn diweddu yno fel yn eu terfynau eithaf. Am hyny, beth bynag sydd ysgrifenedig ar y côf, a'r ewyllys, a'r meddwl sydd yn canlyn, sydd ysgrifenedig nid yn unig ar yr ymenydd, ond hefyd ar yr holl ddyn, ac yn bodoli yno mewn trefn yn ol trefn y rhanau yn y corff. Felly, gwelais fod yr holl ddyn y fath ag yw ei ewyllys, a'r meddwl yn tarddu o honi, fel mai ei ddrwg ei hun yw dyn drwg, a'i ddaioni ei hun yw dyn da. Amlwg yn awr yw beth olygir yn y Gair wrth Lyfr Bywyd dyn, sef fod ei holl weithredoedd a'i holl feddyliau yn ysgrifenedig ar yr holl ddyn, ac yn ymddangos, pan elwir hwynt allan o'i gôf, fel pe eu darllenid o Lyfr, a'u gweled mewn drych pan edrychir ar yr ysbryd yn ngoleuni y nefoedd. Amgylchiad hynod perthynol i barhad y côf ar ol marw, a'm cadarnhaodd yn y gwirionedd, fod nid yn unig, pethau yn gyffredinol, ond hefyd y manylion manaf, yn aros yn y côf, ac na chânt byth eu dileu. Gwelais rai llyfrau, wedi eu hysgrifenu,

megis yn y byd, ac hysbyswyd fi, iddynt gael eu cymeryd o gôf eu hawdwyr, ac nad oedd gair yn eisiau, a gynwysai y llyfrau, megis eu hysgrifenwyd gan y personau hyny yn y byd. Fel hyn y gellir dwyn allan y neillduolion manaf o gôf dyn, hyd yn oed y pethau a anghofiodd yn y byd. Eglurwyd i mi yr achos. Y mae gan ddyn gôf allanol a chôf mewnol: côf allanol yn perthyn i'w ddyn anianol, a chôf mewnol yn perthyn i'w ddyn ysbrydol. Pob peth feddylia dyn, a ewyllysia, ac a lefara, neu yr hyn a wnaeth, a glywodd, neu a welodd sydd ysgrifenedig ar ei gôf mewnol neu ysbrydol: ond beth bynag dderbynir i'r côf ysbrydol nis dileir byth, canys ysgrifenedig yw ar yr un pryd ar yr ysbryd ei hun, ac ar aelodau y corff, megis y dywedwyd uchod: felly y ffurfir yr ysbryd yn ol meddyliau ac actau yr ewyllys. Gwn yr ymddengys y pethau hyn fel dychmygion, ac anhawdd i'w credu, er hyny, y maent yn wir. Na thybied dyn gan hyny, y gall dim a feddyliodd yn ddirgel, neu a wnaeth yn ddirgel, aros yn ddirgel ar ol angeu; ond bydded sicr y datguddir pob gweithred a phob meddwl fel yn y dydd goleu.

464. Er fod y côf allanol neu naturiol yn y dyn ar ol angeu, eto, nid yw y pethau naturiol yn y côf hwnw yn cael eu hadgynyrchu yn y byd arall, ond y pethau ysbrydol unedig â hwynt trwy gyfatebion. Er hyny, y pethau ysbrydol hyn, pan gymerant ffurf weledig, a ymddangosant yn hollol fel y pethau naturiol y maent yn cyfateb iddynt yn y byd naturiol: canys y mae yr holl bethau yn y nefoedd yn weledig i angylion, fel y gwrthrychau naturiol yn weledig i ddynion, er yn eu hanfod, mai ysbrydol ydynt ac nid naturiol. Dangoswyd y gwahaniaeth hwn uchod, yn y benod ar arddangosiadau ac ymddangosiadau yn y nefoedd (r. 170—176). Y côf allanol neu naturiol, yn cynwys syniadau yn tarddu o fateroldeb, amser a lle, a phob peth arall priodol i natur, ni bydd o wasanaeth i'r ysbryd fel y bu i'r dyn yn y byd. Oblegid pan fyddo dyn yn y byd yn meddwl oddiar synhwyrau allanol ei feddwl, ac nid ar yr un pryd oddiar y synhwyrau mewnol, neu ddeallol, meddwl yn naturiol y mae efe, ac nid yn ysbrydol: ond yn y byd arall, ysbryd yw efe mewn byd ysbrydol, am hyny, nid yw efe yn meddwl yn naturiol ond yn ysbrydol. Meddwl yn ysbrydol yw meddwl yn ddeallol neu resymol. Felly y mae y côf allanol neu naturiol, o ran pob syniadau materol, yn llonydd ar ol marw, oddieithr y rhanau hyny o'i gynwys a wnaeth dyn yn rhesymol trwy ddefnydd rhesymol o honynt. Y mae y côf allanol yn llonydd o ran pob peth materol, oblegid nas gellir adgynyrchu syniadau materol yn y byd ysbrydol; canys y mae ysbrydion ac angylion yn llefaru o'u serchiadau, a'r meddyliau lifant o honynt; ac am hyny, nis gallant draethu gair croes i'w serchiadau a'u meddyliau. Dangoswyd hyn uchod wrth son am leferydd yr





angylion wrth eu gilydd, ac hefyd am eu lleferydd wrth ddyn (r. 234—257). Felly, i'r graddau y daw dyn yn rhesymol yn y byd trwy ieithoedd a gwyddorau, y bydd resymol ar ol marw, ac nid o gwbl i'r graddau y bydd ddysgedig a gwybodus o'r gwyddonau. Siaredais â llawer elwid yn ddysgedigion yn y byd, am eu bod yn gyfarwydd â ieithoedd henafol, megis Hebraeg, Groeg a Lladin, ond na wnaethant wrteithio eu rheswn drwy y llyfrau a ysgrifenwyd yn yr ieithoedd hyny. Yr oedd rhai o honynt mor anwybodus a'r rhai na wyddent yr un iaith ond yr eiddynt eu hunain: ac ymddangosai ereill yn hollol hurt, ond cadwent er hyny eu tyb hunanol eu bod hwy yn ddoethach nag ereill. Bum yn siarad â rhai a dybient, pan oeddynt yn y byd, fod dyn yn ddoeth yn ol graddau eangder ei gôf, gorlenwent eu côf, gan hyny, â lliaws o bethau. Siaradent hefyd bron yn hollol o'u côf, o ganlyniad, oddiwrth ereill ac nid o honynt eu hunain, am na wnaethant ddefnyddio cynwysiad eu côf i berffeithio eu rheswm. Yr oedd rhai o honynt yn hollol hurt: ereill yn wallgofiaid, heb allu amgyffred unrhyw wirionedd, gan weled ai gwirionedd ydoedd neu beidio, tra y cydient yn aiddgar yn mhob twyll a elwid yn wirioneddau gan rai o honont eu hunain gyfrifent yn ddysgedigion: canys o honynt eu hunain, ni allent wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau mewn unrhyw osodiad, o ganlyniad, nis gallent ddeall yn rhesymol ddim a glywent gan ereill. Bum yn siarad hefyd â rhai fuont yn ysgrifenu llawer yn y byd ar byngciau gwyddonol o bob math, ac a gyrhaeddasant enwogrwydd eang fel dysgedigion. Rhai o honynt, y mae yn wir, a fedrent resymu am wirioneddau, a dadleu a oeddynt wirioneddau neu beidio; ac ereill, pan droent at rai yn ngoleuni y gwirionedd, a ddeallent eu bod yn wirioneddau; ond eto nid oeddynt foddlon i'w deall, am hyny, gwadent hwynt drachefn pan ddychwelent i'w hanwireddau eu hunain, ac o ganlyniad iddynt eu hunain. Yr oedd rhai mor anwybodus a'r werin anllythrenog, ac felly, gwahaniaethant oddiwrth eu gilydd yn ol y graddau y gwrteithasant eu rheswm trwy y gweithiau gwyddonol a ysgrifenasant. Ond y rhai fuont yn meddwl oddiar eu gwyddoniaeth yn erbyn gwirioneddau yr Eglwys, gan gadarnhau eu hunain yn eu hanwireddau, ni wrteithiasant eu rheswm, ond yn unig y gallu i resymu. Gwir, y gelwir hyn yn y byd yn resymoldeb, ond ni pherthyn i resymoldeb; nid yw ond gallu i wneyd i unrhyw beth ymddangos fel gwirionedd fel y byddo dyn yn dewis. Y fath ddynion, gan hyny, oddiar rag-syniadau, ac oddiar gau-dybiau, a welant anwiredd fel gwirionedd, ac nis gallant adwaen y gwirionedd ei hun. Nis gellir eu dwyn i gydnabod y gwirionedd, oblegid nas gellir gweled gwirionedd oddiar anwiredd, ond gellir gweled anwiredd oddiar wirionedd. Y mae rheswm dyn fel gardd,

neu wely-blodau, neu fraenar: y côf yw y tir: gwirioneddau gwyddonol a gwybodaeth yw yr hadau: ond nid oes flagur naturiol heb oleu a gwres yr haul, felly hefyd nid oes flagur ysbrydol heb oleu a gwres y nefoedd. Goleu y nefoedd yw Dwyfol Wirionedd, a gwres y nefoedd yw Dwyfol Gariad: oddiwrthynt yn unig y tardda gwir resymoldeb. Yr angylion a ofidiant yn ddirfawr fod y dysgedigion yn priodoli pob peth i natur, ac felly yn cau mewnolion eu meddyliau, fel na allant weled dim o'r gwirionedd oddiar oleuni gwirionedd, sef goleuni y nefoedd. Yn y byd arall, gan hyny, amddifadir hwy o'u rheswm, rhag gwasgar o honynt anwireddau yn mhlith y rhai da anllythrenog trwy eu rhesymau, a'u hudo. Alltudir hwynt hefyd i leoedd anial.

465. Yr oedd rhyw ysbryd yn ddig oblegid nas gallai gofio llawer o bethau cyfarwydd iddo yn mywyd y corff, a gofidiau iddo golli pleser fu gynt yn fawr. Ond dywedwyd wrtho na chollodd ddim, ei fod yn gwybod eto, bob peth a wyddai erioed, ond nad oedd ganiatad i neb yn y byd a breswyliai yn awr sôn am y fath bethau: y dylai fod yn foddlon ar allu meddwl a siarad yn llawer gwell a pherffeithiach nag o'r blaen, heb suddo ei reswm, fel yr arferai mewn pethau cwrs, tywyll, materol a chorfforol, nad ydynt fuddiol yn y deyrnas y mae efe ynddi yn awr: a'i fod yn awr yn meddu pob peth i fod yn ddefnyddiol yn y bywyd tragwyddol, ac mai felly y gall fod yn wynfydedig a dedwydd, ond nid fel arall: mai prawf o anwybodaeth, gan hyny, oedd credu fod dealltwriaeth yn darfod yn y deyrnas y mae efe ynddi yn awr, gyda symudiad a llonyddiad pethau materol yn y côf, pan mai y gwir yw, mai i'r graddau y tynir y meddwl oddiwrth bethau cnawdol y dyn allanol, neu y corff, y codir ef at bethau ysbrydol a nefol.

466. Dangosir y gwahaniaeth rhwng y ddau gôf weithiau yn y byd arall mewn ffurfiau na welir ond yno: canys ymddengys llawer o bethau yno yn amlwg i'r llygad, nas gall dyn synied am danynt ond mewn drychfeddwl. Y côf allanol a ymddengys fel cnawd caled, a'r côf mewnol fel y mêr, tebyg i sylwedd yr ymenydd dynol: oddiwrth ymddangosiad y ddau yr adwaenir cymeriadau. Gyda rhai a wrteithiant y côf yn unig yn ystod eu bywyd yn y corff, gan esgeuluso eu rheswm, y caledwch a ymddengys yn galed, a phlethedig oddifewn fel â gïau. Gyda rhai a lanwasant y côf âg anwireddau, ymddengys yn flewog a garw oddiwrth y cruglwyth didrefn o bethau a gynwys. Gyda rhai a wrteithiasant y côf er mwyn hunan-gariad a chariad at y byd, edefynau *(fibres)* a ymddangosant wedi eu gludio yn nghyd ac yn asgwrnaidd. Gyda rhai awyddus i dreiddio i'r dirgelion dwyfol trwy y gwyddonau, yn neillduol trwy yr hyn a elwir Athroniaeth, a'r rhai na chredent wirioneddau ysbrydol oddieithr eu profi felly,





y côf a ymddengys yn dywyll: a'r tywyllwch sydd y fath fel y llwnc belydrau y golenni, gan eu troi yn dywyllwch. Gyda rhai tywyllodrus a rhagrithiol, ymddengys yn esgyrnog a chaled fel y pren ebenus, yn adlewyrchu pelydrau y goleuni; ond gyda rhai a feddant ddaioni yn codi o gariad a gwirioneddau y ffydd, nid oes y fath galedwch, oblegid fod eu côf mewnol yn trosglwyddo pelydrau y goleuni i'r allanol, lle y mae gwrthrychau y côf allanol yn derfynau, yn sylfeini, a derbynfeydd pleserus y fath oleuni: canys y côf allanol yw terfyn trefn, ynddo y mae pethau ysbrydol a nefol yn diweddu ac aros, pan gynwys wirionedd a daioni.

467. Dynion mewn cariad at yr Arglwydd ac at eu cymydog, a feddant ddeall a doethineb angylaidd o'u mewn hyd yn oed tra yn byw yn y byd; ond y maent yn drysoredig yn egwyddorion mwyaf mewnol eu côf mewnol, ac nis gallant ymddangos hyd yn oed iddynt eu hunain, nes rhoddi heibio y pethau corfforol. Yna y côf allanol a roddir i gysgu, a deffroant i'r côf mewnol, ac o radd i radd i'r côf angylaidd ei hun.

468. Y modd i wrteithio y rheswm a eglurir yn awr ar fyr eiriau. Gwir resymoldeb sydd gynwysedig o wirioneddau ac nid o anwireddau; canys yr hyn sydd gynwysedig o anwireddau nid yw resymoldeb. Y mae tri math o wirioneddau: gwladol, moesol, ac ysbrydol. Gwirioneddau gwladol a berthynant i faterion cyfraith, a'r fath sydd yn nglŷn â ffurfiau llywodraeth mewn gwledydd: ac yn gyffredinol i gyfiawnder ac uniondeb. Gwirioneddau moesol a berthynant i ymddygiad bywyd mewn cymdeithas a'i ymrwymiadau. Cyfeiriant, gan hyny, at uniondeb a didwylledd yn gyffredinol; ac yn neillduol at rinweddau o bob math. Ond gwirioneddau ysbrydol a berthynant i bethau y nefoedd a'r Eglwys, am hyny yn gyffredinol, i ddaioni yn codi o gariad, a gwirionedd yn gorphwys ar ffydd. Y mae tri gradd o fywyd yn mhob dyn (gwel uchod, r. 267). Y rheswm a agorir i'r gradd cyntaf gan wirioneddau gwladol; i'r ail radd gan wirioneddau moesol; ac i'r trydydd gradd gan wirioneddau ysbrydol. Ond gwybydder nad yw y rheswm yn cael ei ffurfio a'i agor gan wybodaeth yn unig o'r gwirioneddau hyny, ond trwy eu byw, hyny yw, trwy eu caru oddiar deimlad ysbrydol: a'u caru oddiar deimlad ysbrydol yw caru yr hyn sydd gyfiawn ac uniawn oblegid ei fod yn gyfiawn ac uniawn; yr hyn sydd ddidwyll ac uniawn oblegid ei fod yn ddidwyll ac uniawn; a'r hyn sydd dda a gwir oblegid ei fod yn dda a gwir. Ond eu byw a'u caru oddiar deimlad corfforol yw eu caru er mwyn hunan, enw, anrhydedd, neu elw. I'r graddau, gan hyny, y gwna dyn eu caru oddiar deimlad corfforol, nid yw resymol, oblegid caru ei hun y mae, ac nid yw yn eu caru hwy, ond fel gweision dan orfod yn gwasanaethu meistr: a phan fyddo gwirioneddau yn weision, nid ânt

i fewn i ddyn, ac agor unrhyw radd o'i fywyd, hyd yn oed y cyntaf, ond arosant yn y côf yn unig, fel gwybodaeth allanol mewn ffurf faterol, ac yn ymuno yno â hunan-gariad, sef cariad corfforol. Amlwg yn awr yw y modd y mae dyn yn dyfod yn rhesymol,—daw yn rhesymol i'r trydydd gradd trwy gariad ysbrydol at ddaioni a gwirionedd yn perthyn i'r nefoedd a'r Eglwys; i'r ail radd trwy gariad at ddidwylledd a thegwch; ac i'r gradd cyntaf trwy gariad at gyfiawnder ac uniondeb. Daw y ddau gariad olaf hefyd yn ysbrydol yn y dyn gwir resymol, oblegid fod cariad ysbrydol at ddaioni a gwirionedd yn llifo iddynt, yn ymuno â hwynt, a'u ffurfio i'w ddelw ei hun.

469. Y mae gan ysbrydion a dynion gôf fel dynion: canys beth bynag a glywant, a welant, a feddyliant ac a wnant, a erys gyda hwynt fel moddion i wrteithio eu rheswm—gwaith a bery i dragwyddoldeb. Felly y mae ysbrydion ac angylion yn cynyddu mewn deall a doethineb fel dynion trwy wybodaeth o wirionedd a daioni. Dangoswyd i mi trwy lawer o brofiad fod côf gan ysbrydion ac angylion: canys clywais hwynt pan yn ymddiddan âg ysbrydion ereill, yn llefaru o'u côf am lawer o bethau fuont yn feddwl a gwneyd, yn gyhoedd a dirgel. Gwelais hefyd fod rhai mewn unrhyw wirionedd, oddiar ddaioni syml, yn derbyn gwybodaeth, a thrwy hyny ddealltwriaeth, ac wedi hyny eu cymeryd i'r nefoedd. Ond gwybydder, er hyny, nad oes neb yn derbyn gwybodaeth, a thrwy hyny ddealltwriaeth, oddieithr i raddau eu cariad at ddaioni a gwirionedd pan yn y byd: canys y mae cariad pob ysbryd ac angel yn aros yr un, mewn ansawdd ac angerddoldeb, a phan yn y byd, er ei fod wedi hyny yn cael ei berffeithio, drwy ei lanw i fyny, am dragwyddoldeb: canys nid oes dim nas gellir ei lanw fyny i dragwyddoldeb. Gellir amrywio, cyfoethogi, lliosogi a ffrwythloni pob peth yn ddiderfyn, ac nis gellir gosod pendraw i unrhyw beth da, oblegid ei fod yn tarddu o'r Anfeidrol. Fod ysbrydion ac angylion yn barhaus yn dyfod yn fwy perffaith mewn deall a doethineb trwy wybodaeth o wirionedd a daioni, a welir yn y penodau ar ddoethineb angylion y nefoedd (r. 265—275): ar y rhai yn y nefoedd a berthynent i'r cenhedloedd neu y bobloedd allan o'r Eglwys (r. 318—328): ac ar blant yn y nefoedd (r. 329—345); a bod hyn yn cyrhaedd i raddau y cariad at ddaioni a gwirionedd yr oeddynt ynddynt pan yn y byd, ond nid tuhwnt i hyny (r. 349).

### Cymeriad Dyn ar ol Marw sydd yr un a'i Fywyd yn y Byd.

470. Gŵyr pob Cristion o'r Gair fod bywyd pob un yn aros gydag ef ar ol marw; canys dangosir yno mewn llawer man fod dyn yn cael ei farnu a'i wobrwyo yn ol ei weithredoedd: pob un hefyd sydd yn meddwl dan ddylanwad daioni a gwirionedd a





gred fod pawb sydd wedi byw yn dda yn myned i'r nefoedd, a phawb sydd yn byw yn ddrwg yn myned i uffern. Ond y rhai sydd mewn drwg nid ydynt yn foddlon credu y bydd eu cyflwr ar ol marw yn ol eu bywyd yn y byd; canys meddyliant, yn neillduol mewn cystudd, fod y nef yn agored i bob un o drugaredd yn unig, beth bynag fyddo y bywyd: a bod y derbyniad yn ol y ffydd, yr hon a wahanant oddiwrth y bywyd.

471. Y caiff dyn ei farnu a'i wobrwyo yn ol ei weithredoedd a ddangosir mewn llawer o fanau yn y Gair, o'r rhai y rhoddaf yma ychydig: "Mab y dyn a ddaw yn ngogoniant ei Dad gyda'r angylion: ac yna y rhydd efe i bawb yn ol ei weithred," Math. xvi. 27. "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Yspryd, fel y gorphwysont oddiwrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt," Dat. xiv. 13. "Ac mi a roddaf i bob un o honoch yn ol eich gweithredoedd," Dat. ii. 23. "Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd: a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd: a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau yn ol eu gweithredoedd. A rhoddodd y môr i fynu y meirw oedd ynddo; a marwolaeth ac uffern a roddasant i fynu y meirw oedd ynddynt hwythau, a hwy a farnwyd bob un yn ol eu gweithredoedd," Dat. xx. 12, 13. "Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys; a'm gwobr sydd gyda mi, i roddi i bob un fel y byddo ei waith ef," Dat. xxii. 12. "Pwy bynag sydd yn gwrando fy ngeiriau hyn, ac yn eu gwneuthur, a gyffelybir i ŵr doeth: a phob un a'r sydd yn gwrando fy ngeiriau hyn, ac heb eu gwneuthur, a gyffelybir i ŵr ffol," Math. vii. 24, 26. "Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phroffwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di? Ac yna yr addefaf wrthynt, Nis adnabum chwi erioed: ewch ymaith oddiwrthyf, chwi weithredwyr anwiredd." Math. vii. 22, 23. "Yna y dechreuwch ddywedyd, Ni a fwytasom ac a yfasom yn dy wydd di, a thi a ddysgaist yn ein heolydd ni. Ac efe a ddywedodd, Yr wyf yn dywedyd i chwi, Nid adwaen chwi o ba le yr ydych: ewch ymaith oddiwrthyf chwi holl weithredwyr anwiredd," Luc xiii. 26, 27. "A mi a dalaf iddynt yn ol eu gweithredoedd, ac yn ol gwaith eu dwylaw eu hun," Jer. xxv. 14. "Y mae llygaid yr Arglwydd yn agored ar holl ffyrdd meibion dynion, i roddi i bob un yn ol ei ffyrdd, ac yn ol ffrwyth ei weithredoedd," Jer. xxxii. 19. "Ymwelaf â hwynt am eu ffyrdd, a thalaf iddynt eu gweithredoedd," Hos. iv. 9. "Megis y meddyliodd Arglwydd y lluoedd wneuthur â ni yn ol ein ffyrdd, ac yn ol ein gweithredoedd ein hun, felly y gwnaeth ef â ni," Zech. i. 6. Pryd

bynag y byddo yr Arglwydd yn prophwydo am y farn ddiweddaf, ni sonia am ddim ond gweithredoedd, gan ddatgan fod y rhai a wnaethant dda yn myned i fywyd tragwyddol, a'r rhai a wnaethant ddrwg i gospedigaeth dragwyddol: gwel Math. xxv. 32—46, a llawer o ranau ereill yn sôn am iachawdwriaeth a damnedigaeth dyn. Eglur yw mai bywyd allanol dyn yw ei weithredoedd, a bod ansawdd ei fywyd mewnol yn amlygedig ynddynt.

472. Ond wrth y gweithredoedd y bernir dyn wrthynt, y golygir, nid y gweithredoedd fel y maent yn ymddangos yn allanol, ond fel y maent yn ymddangos yn fewnol; canys gŵyr pob un fod pob gweithred yn deilliaw o ewyllys a meddwl dyn. Pe amgen, ni buasent ond ysgogiadau yn unig, fel eiddo *automaton* neu ddelw: am hyny nid yw gwaith ac edrych arno ynddo ei hun, ddim ond effaith, a'i enaid a'i fywyd yn tarddu mor berffaith o'r ewyllys a'r meddwl, fel mai ewyllys a meddwl mewn effaith ydyw, neu ewyllys a meddwl mewn ffurf allanol. Felly y canlyn mai y fath ag yw yr ewyllys a'r meddwl gynyrchant y gwaith, y fath hefyd yw y gwaith ei hun. Os yw y meddwl a'r ewyllys yn dda, y mae y gwaith yn dda: ond os yw y meddwl a'r ewyllys yn ddrwg, y mae y gwaith yn ddrwg, er iddo ymddangos yn dda o'r tu allan. Gall mil o ddynion weithredu mor debyg, fel nas gellir gwahaniaethu rhyngddynt, ac eto gall gweithredoedd pob un o honynt fod yn hanfodol wahanol i'w gilydd, am eu bod yn deilliaw oddiar egwyddorion annhebyg. Er engraifft o ymddwyn yn ddidwyll a chyfiawn tuag at gymydog, gall un dyn ymddwyn yn ddidwyll a chyfiawn er ymddangos ei fod yn ddidwyll a chyfiawn er ei fwyn ei hun a'i glod; un arall, er mwyn y byd a budr-elw; y trydydd, er mwyn gwobr a theilyngdod; y pedwerydd, er mwyn cyfeillgarwch; y pummed, trwy ofn y gyfraith, neu golli parch a gwaith; y chweched, er tynu un arall i'w ochr ef, er fod ei achos yn ddrwg; y seithfed, er mwyn twyllo; ac ereill oddiar egwyddorion ereill. Y mae gweithredoedd y rhai hyn oll yn ymddangos yn dda, oblegid mai da yw ymddwyn yn ddidwyll a thêg tuag at gymydog, ond drwg ydynt, oblegid eu cyflawni, nid er mwyn didwylledd ac uniondeb, ond er mwyn hunan a'r byd. Hunan a'r byd y maent yn garu, a didwylledd ac uniondeb allanol yn iswasanaethgar iddynt, fel gweision i feistr yn eu dirmygu a'u taflu ymaith, pan na byddont mwyach o wasanaeth iddo. Ymddygiad didwyll a chyfiawn y rhai a weithredant oddiar gariad at ddidwylledd ac uniondeb a ymddengys yn debyg o'r tuallan. O'r rhai hyn, gweithreda rhai oddiar gariad y gwirionedd yn tarddu o ffydd, neu mewn geiriau ereill, ufudd-dod, oblegid ei fod yn orchymynedig yn y Gair; ereill oddiar ddaioni ffydd, neu, oddiar gydwybod, dan ddylanwad crefydd; ereill oddiar ddaioni cariad at gymydog, am y dylid ystyried ei lês; ereill oddiar ddaioni





cariad tuag at yr Arglwydd, am y dylid gwneyd daioni er ei fwyn ei hun, ac felly hefyd, didwylledd ac uniondcb. Carant ddidwylledd ac uniondeb, oblegid eu bod yn deilliaw o'r Arglwydd, ac am fod y Sylwedd Dwyfol ddeillia o'r Arglwydd ynddynt, ac am eu bod, gan hyny, yn Ddwyfol yn eu hanfod. Y mae y gweithredoedd wneir oddiar yr egwyddorion hyn yn fewnol dda, ac am hyny yn allanol dda: canys megis y dywedwyd, y mae gweithredoedd o'r un ansawdd â'r ewyllys a'r meddwl fyddo ynddynt, ac hebddynt ysgogiadau difywyd ydynt. Oddiwrth y gwirioneddau hyn, amlwg yw beth feddylir wrth weithredoedd yn y Gair.

473. Gan fod gweithredoedd yn deilliaw o'r ewyllys a'r meddwl, gan hnny, deilliant hefyd o gariad a ffydd, ac y maent o ganlyniad o'r un ansawdd a chariad a ffydd, am fod cariad ac ewyllys yn golygu yr un peth, ac hefyd ffydd a meddwl pwyllog: oblegid yr hyn y mae dyn yn garu y mae yn ewyllysio, a'r hyn y mae yn gredu y mae yn feddwl. Os yw dyn yn caru yr hyn y mae yn gredu, y mae efe hefyd yn ei ewyllysio, a'i wneyd, mor bell y gall. Gall pob un wybod fod ffydd a chariad yn ewyllys a meddwl dyn, ac nid tuallan iddynt, am fod yr ewyllys yn cael ei thanio gan gariad, a'r meddwl ei oleuo gan wirioneddau y ffydd; am hyny ni oleuir neb ond a allant feddwl yn ddoeth, ac yn ol moddion goleuni a feddyliant wirionedd ac a ewyllysiant wirionedd: neu, yr hyn sydd yr un peth, credu y gwirionedd a charu y gwirionedd.

474. Gwybydder mai yr ewyllys sydd yn cyfansoddi y dyn, ac nid y meddwl, ond mor bell y deillia o'r ewyllys; deillia gwaith neu weithredoedd o'r ddau. Neu yr un peth yw dweyd mai cariad sydd yn cyfansoddi dyn, ac nid ffydd, ond mor bell y deillia o gariad; deillia gweithredoedd o'r ddau. Y mae yn canlyn, mai yr ewyllys neu y cariad yw y dyn ei hun, canys beth bynag ddeillia o unrhyw beth sydd is-wasanaethgar i'r peth hwnw y deillia o hono. Deilliaw yw dyfod allan mewn ffurf weladwy y gellir ei ddeall. Felly, amlwg yw nad yw ffydd ar wahan a chariad yn ffydd, ond gwybodaeth yn unig yw yn amddifad o fywyd ysbrydol: ac nad yw gwaith heb gariad yn waith bywyd, ond yn waith angeu, yn ymddangos fel pe yn fyw oddiar gariad at ddrwg a ffydd yn yr hyn sydd gau. Yr ymddangosiad hwn o fywyd a elwir marwolaeth ysbrydol.

475. Gwybydder yn mhellach fod yr holl ddyn yn gynwysedig yn ei waith, ac nad yw ei ewyllys a'i feddwl, neu ei gariad a'i ffydd, sef ei fewnolion, yn gyflawn, hyd oni fyddont yn bodoli mewn gwaith neu weithredoedd, sef ei allanolion: canys mewn gweithredoedd y mae cariad a ffydd yn terfynu, ac heb weithredoedd nid ydynt ond disylwedd, heb fodolaeth, ac felly heb ffurfio rhan o'r dyn. Meddwl ac ewyllysio heb weithredu pan fyddo

cyfle, sydd fel fflam wedi ei chau mewn llestr, yn marw; neu fel hâd wedi ei daflu ar y tywod, heb egino, ond yn darfod; pan y mae meddwl, ac ewyllysio a gweithredu fel fflam yn yr awyr agored yn gwasgar goleu a gwres i bawb o gylch; neu fel hâd yn y ddaear yn tyfu yn bren neu flodeuyn, ac felly yn cyrhaedd perffeithrwydd ei fodolaeth. Gall pawb wybod mai ewyllysio heb weithredu, pan fyddo cyfle, yw peidio ewyllysio; ac mai caru heb wneyd da, pan yn bosibl, yw peidio caru: canys ewyllys heb waith, a chariad heb ddaioni, nid ydynt ond lledrithiau meddwl, yn diflanu. Cariad ac ewyllys yw enaid pob gwaith, a ffurfiant iddynt eu hunain gorff trwy weithredu yn ddidwyll a chyfiawn. Nid oes i'r corff ysbrydol, neu gorff ysbryd dyn darddiad arall: canys câ eu ffurfio o'r pethau hyny yn unig a wna dyn o'i gariad neu ei ewyllys (gwel uchod, r. 463). Mewn gair, pob peth perthynol i ddyn ac i ysbryd dyn a fodola yn ei waith.

476. Oddiwrth hyn amlwg mai y bywyd a erys gyda dyn ar ol angeu yw ei gariad a'i ffydd o hono: nid cariad a ffydd yn y meddwl yn unig, ond mewn gwaith. Gweithredoedd, gan hyny, a gyfansoddant fywyd ysbrydol dyn, am eu bod yn cynwys o'u mewn bob peth perthynol i gariad a ffydd dyn.

477. Y cariad llywodraethol a erys gyda dyn ar ol angeu, a bydd yn ddigyfnewid am dragwyddoldeb. Y mae pob dyn dan ddylanwad llawer cariad, ond y maent oll yn perthyn i'w gariad llywodraethol, yn un âg ef, neu yn ranau cyfansoddol o hono. Pob peth perthynol i'r ewyllys yn cytuno â'r cariad llywodraethol a elwir cariadau, oblegid eu bod yn cael eu caru; a'r cariadau hyn sydd fewnol ac allanol, am fod rhai o honynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cariad llywodraethol, a rhai o honynt yn anuniongyrchol: rhai sydd agosach ato a rhai yn mhellach, ond y maent oll mewn rhyw fodd yn weision iddo. Ac edrych arnynt gyda'u gilydd, y maent fel yn cyfansoddi teyrnas; a threfnir hwynt yn y dyn felly, er ei fod ef yn hollol anwybodus o hyny. Amlygir hyn i raddau iddo yn y byd arall, oblegid fod eangiad ei feddwl a'i serch yn dybynu ar drefniad eu serchiadau; ymeangant i gymdeithasau nefol, os yw ei gariad llywodraethol yn gynwysedig o gariadau nefol, ac i gymdeithasau uffernol os yw ei gariad llywodraethol yn gynwysedig o gariadau uffernol. Holl feddyliau a serchiadau ysbrydion ac angylion a ymeangant i'r cymdeithasau o'u hamgylch, fel y gwelir yn y benod ar ddoethineb angylion y nefoedd; ac hefyd ar ffurf y nefoedd, yn ol yr hon y bodola cymdeithas a chymundeb angylaidd.

478. Y gwirioneddau a ddangoswyd hyd yma a effeithiant yn unig ar feddwl y dyn rhesymol; ond fel y gellid eu gwneyd yn ganfyddadwy hefyd i'r synhwyrau, traethaf rai ffeithiau oddiar brofiad i'w hegluro a'u cadarnhau. *Yn Gyntaf*, dangosir mai ei





gariad ei hun neu ei ewyllys ei hun yw dyn ar ol angeu. *Yn Ail*, ei fod yn aros i dragwyddoldeb o'r un ansawdd a'i ewyllys neu ei gariad llywodraethol. *Yn Drydydd*, fod dyn sydd mewn cariad nefol ac ysbrydol yn myned i'r nefoedd, a bod yr hwn sydd mewn cariad corfforol a bydol, heb gariad nefol ac ysbrydol, yn myned i uffern. *Yn Bedwerydd*, nad yw ffydd yn aros gyda dyn, os heb darddu o gariad nefol; ac *yn Bumed*, mai cariad mewn act sydd yn aros gyda dyn, sef ei fywyd.

479. *Mai ei gariad ei hun, neu ei ewyllys ei hun, yw dyn ar ol angeu* a dystiolaethwyd i mi trwy lawnder o brofiad. Yr holl nefoedd a renir i gymdeithasau yn ol y gwahaniaethau o gariad at ddaioni, a phob ysbryd a ddyrchefir i'r nefoedd i fod yn angel a ddygir i gymdeithas lle y ffyna ei gariad llywodraethol ef: yno efe a deimla gartref, fel pe yn y tŷ lle ei ganed; cenfydd hyn, a bydd yno mewn cymdeithas âg angylion tebyg iddo ei hun. Pan edy y gymdeithas hono, a myned i le arall, teimla fath o wrthwynebiad mewnol, gyda dymuniad i ddychwelyd at y rhai tebyg iddo ei hun, sef at ei gariad llywodraethol. Felly y trefnir cymdeithasau yn y nefoedd. Yr un fath hefyd yn uffern, y trefnir y cymdeithasau yn ol y serchiadau sydd groes i serchiadau y nefoedd. Fod nefoedd ac uffern yn cynwys cymdeithasau aneirif, a'u bod oll yn cael eu gwahaniaethu yn ol gwahaniaethau cariad, a welir uchod (r. 41—50, a r. 200—212. Eglur hefyd fod dyn ar ol angeu yr un peth a'i gariad ei hun, oblegid symudir a chymerir ymaith oddiwrtho y pryd hwnw, y pethau anghytunol a'i gariad llywodraethol. Os yw efe yn ysbryd da, pob peth croes neu anghydgordiol a'i ddaioni a symudir, ac a gymerir ymaith, ac fel hyn gollyngir ef i'w gariad ei hun: ac os yw efe yn ddrwg, cymer yr un drefn le, ond gyda hyn o wahaniaeth, mai gwirioneddau gymerir ymaith oddiwrth y drwg, ac anwireddau a gymerir ymaith oddiwrth y da, nes o'r diwedd y bydd pob un wedi dyfod i'w gariad ei hun. Cymer hyn le pan ddygir yr ysbryd i'w drydedd ystad, fel y dangosir mewn penod ddyfodol. Yna y try ei wyneb yn gyson at ei gariad ei hun, yn wastad o flaen ei wyneb, yn mha gyfeiriad bynag y try ei hun (gwel uchod, r. 123,124). Hawdd yw arwain yr holl ysbrydion lle y myner, ond eu cadw yn eu cariad llywodraethol: canys nis gallant wrthsefyll yr atdyniad, er gwybod yn berffaith eu bod yn cael eu harwain felly, ac er penderfynu gwrthsefyll. Gwnaed llawer prawf a allai ysbrydion weithredu i unrhyw raddau yn groes i'w cariad llywodraethol, ond nis gallent. Eu cariad sydd fel cadwyn neu raff yn eu rhwymo o amgylch, â'r hon y gellir eu tynu, ac o'r hon nis gallant ymrhyddhau. Cyflwr dynion yn y byd sydd yr un fath; canys arweinir hwynt gan eu cariad llywodraethol, a thrwy y cariad hwnw arweinir hwynt gan ddynion ereill. Ond pan ddeuant yn ysbryd-

ion, y mae teyrnasiad eu cariad llywodraethol yn fwy perffaith, oblegid y pryd hwnw ni chaniateir i neb gymeryd arno ymddangos mewn unrhyw gariad arall, a ffugio cymeriad heb fod yn perthyn iddo ei hun. Mai ysbryd dyn yw ei gariad llywodraethol sydd amlwg yn mhob cymdeithas yn y byd arall: canys i'r graddau y byddo un yn gweithredu neu lefaru yn gytun â chariad un arall, efe a ymddengys yn gwbl bresenol gydag ef, ei wyneb yn ymeangu, yn siriol a bywiog; ond i'r graddau y byddo un yn gweithredu neu lefaru yn groes i gariad un arall, dechreua ei wyneb newid, tywyllu, a diflanu o'r golwg, nes o'r diwedd y llwyr ddiflana. Synais yn fynych at hyn, am nas gall dim o'r fath gymeryd lle yn y byd; ond dywedwyd wrthyf fod peth tebyg yn cymeryd lle yn y byd yma yn ysbryd dyn, pan gilia oddiwrth un arall, nad yw mwy yn weladwy iddo. Mai ei gariad llywodraethol ei hun yw pob ysbryd a brofwyd i mi gan yr amgylchiad, fod pob ysbryd yn cofleidio a phriodoli iddo ei hun bob peth cytunol a'i gariad, gan wrthod a neillduo oddiwrtho ei hun bob peth anghytunol. Y mae y cariad llywodraethol fel defnydd masw a mân dyllog y pren, yn yfed yr hylifau a faethant ei gynydd, ac yn gwrthod y lleill oll. Tebyg yw hefyd i anifeiliaid o bob math, yn adwaen eu bwyd priodol, ac yn chwilio yr hyn sydd gytunol a'u nhatur, tra yn gwrthod pob peth nad yw yn cytuno â hwynt: canys dymuna pob cariad gael ei borthi â'r hyn sydd gydgordiol âg ef ei hun, cariad drwg âg anwireddau, a chariad da â gwirioneddau. Sylwais weithiau fod ysbrydion syml da yn dymuno addysgu rhai drwg mewn gwirionedd a daioni, ond ffoant ymaith yn mhell oddiwrth yr addysg, a phan ddaethant at eu cyfeillion, cofleidient yn awyddus yr anwireddau cytunol a'u cariad. Sylwais hefyd pan y mae ysbrydion da yn ymddiddan â'u gilydd am wirioneddau, gwrendy y rhai da gyda phleser, ond y rhai drwg ni sylwant ac nid ymddangosant yn gwrando. Yn y Byd Ysbrydol ymddengys ffyrdd lawer, rhai yn arwain i'r nefoedd, rhai i uffern, a phob un o honynt yn arwain i ryw gymdeithas. Nid yw yr ysbrydion da yn myned ond i'r ffyrdd sydd yn arwain i'r nefoedd, ac yn neillduol y rhai sydd yn arwain i gymdeithasau lle y ffyna eu cariad neillduol hwy: ni welant ffyrdd ereill; ond ysbrydion drwg nid ânt i ffyrdd ond sydd yn arwain i uffern, ac yn neillduol y rhai sydd yn arwain i gymdeithasau lle y ffyna eu cariad neillduol hwy; ni welant ffyrdd ereill: neu os y gwelant hwynt, anfoddlawn ydynt i rodio ynddynt. Y fath ffyrdd yn y Byd Ysbrydol ydynt wir ymddangosiadau, yn cyfateb i wirioneddau neu anwirioneddau, ac felly ffyrdd, yn y Gair, a arwyddant wirioneddau neu anwireddau. Profiad gan hyny a gadarnha dystiolaeth rheswm, mai ei gariad ei hun, a'i ewyllys ei hun yw pob dyn ar ol marw. Dywedwn ei ewyllys ei hun, oblegid mai ewyllys pob un yw ei gariad.





480. Fod dyn ar ol marw yn aros i dragwyddoldeb o'r un ansawdd a'i ewyllys neu ei gariad llywodraethol, a brofwyd i mi trwy lawer o brofiad. Caniatawyd i mi ymddiddan âg ysbrydion fuont byw ddwy fil o flynyddau yn ol, y darlunir eu bywyd mewn hanes, a chefais eu bod eto yn cadw eu nodwedd neillduol, ac yn hollol yr un fath ag y cawsant eu darlunio; am fod ansawdd eu cariad o'r hwn ac yn ol yr hwn y ffurfiasant eu cymeriadau yn aros yr un. Ymddiddenais hefyd â rhai fuont byw ddau-cant-arbymtheg o flynyddau yn ol, yr adwaenir eu bywyd mewn hanes; âg ereill fuont byw bedwar cant o flynyddau yn ol; ag ereill fuont byw dri chant o flynyddau yn ol, ac âg ereill fuont byw yn ddiweddarach; a chefais yn ddieithriad fod yr un cariad a'u llywodraethent pan yn y byd yn eu llywodraethu oll eto. Yr unig wahaniaeth oedd fod pleserau eu cariad wedi eu troi i bethau cyfatebol iddynt. Dywed yr angylion fod bywyd y cariad llywodraethol yn aros yn ddigyfnewid i dragwyddoldeb, oblegid mai ei gariad ei hun yw pob un, ac felly mai cyfnewid cariad llywodraethol ysbryd fyddai ei ddifuddio o'i fywyd, neu ei ddifodi. Eglurant y rheswm am hyn, sef, nad yw dyn yn agored i gael ei ddiwygio trwy addysg ar ol marw, fel yn y byd, oblegid fod y plân *(plane)* neu y sylfaen isaf, cynwysedig o wybodaeth a serchiadau naturiol, yn gauedig yno, ac nis gellir eu hagor, oblegid nad ydynt ysbrydol (gwel uchod, r. 464); fod y mewnolion perthynol i'r meddwl mewnol ac allanol yn gorphwys ar y sylfaen hono, fel tŷ ar ei sylfaen: ac felly fod dyn yn aros i dragwyddoldeb yr un fath ag y bu bywyd ei gariad pan yn y byd. Syna yr angylion yn fawr na ŵyr dyn fod pob un o'r un gymeriad a'i gariad llywodraethol; a bod llawer yn credu y gallant gael eu cadw trwy drugaredd uniongyrchol, a thrwy ffydd yn unig, beth bynag fu ansawdd eu bywyd; ac hefyd na wyddant fod Trugaredd Ddwyfol yn gweithio trwy gyfryngau, ac mai cymeryd ein harwain gan yr Arglwydd ydyw, tra fyddom yn y byd ac wedi hyny i Dragwyddoldeb, a bod y rhai nad ydynt yn byw mewn drwg yn cael eu harwain gan ei drugaredd Ef. Synant hefyd na ŵyr dyn mai teimlad o'r gwirionedd yw ffydd, yn deilliaw o gariad nefol, yr hwn sydd o'r Arglwydd.

481. Fod y dyn sydd mewn cariad nefol ac ysbrydol yn myned i'r nefoedd, a'r hwn sydd mewn cariad corfforol a bydol, heb gariad nefol ac ysbrydol, yn myned i uffern, a sicrhawyd i mi gan bawb a welais wedi eu cymeryd i fynu i'r nefoedd, neu eu taflu i uffern. Y rhai a gymerwyd i fynu i'r nefoedd oeddynt yn mywyd cariad nefol ac ysbrydol, ond y rhai a daflwyd i uffern yn mywyd cariad corfforol a bydol. Cariad nefol sydd gynwysedig mewn caru daioni, didwylledd, ac uniondeb er eu mwyn eu hunain, ac mewn gwneyd daioni ac uniondeb o'r cariad hwnw. Y fath ber-

sonau a fwynhant fywyd da, didwyll ac uniawn, sef bywyd nefol. Y rhai a garant ddaioni, didwylledd ac uniondeb, er eu mwyn eu hunain, gan eu byw, a garant yr Arglwydd uwchlaw pob peth: oblegid fod daioni, didwylledd ac uniondeb o hono Ef. Am yr un rheswm hefyd carant eu cymydog, oblegid mai daioni, didwylledd ac uniondeb yw y cymydog y gorchymynir i ni ei garu; ond cariad corfforol sydd gynwysedig mewn caru daioni, didwylledd ac uniondeb, nid er eu mwyn eu hunain, ond er mwyn hunan, oblegid eu caru yn unig fel moddion i sicrhau enw, anrhydedd ac elw. Nid nôd cariad y fath bersonau yw yr Arglwydd a'u cymydog, ond eu hunain a'r byd yn unig: am hyny hoffant dwyll, a thwyll a wna eu da yn ddrwg, eu didwylledd yn dywyllodrus, a'u cyfiawnder yn anghyfiawn: oblegid mai drygioni, twyll, ac anghyfiawnder, yw gwrthrychau eu cariad. Gan mai cariad pob un sydd yn penderfynu ansawdd bywyd pob un, chwilir pob un ar unwaith wedi ei fynediad ar ol angeu i'r byd ysbrydol, beth yw ansawdd ei gariad, ac â phwy mewn cyffelyb gariad y maent yn gysylltiedig trwy rwymun anweledig: y rhai mewn cariad nefol sydd gysylltiedig â rhai tebyg iddynt eu hunain yn y nefoedd, a'r rhai mewn cariad corfforol â rhai tebyg iddynt eu hunain yn uffern. Wedi iddynt fyned trwy eu hystad gyntaf a'r ail, y ddau ddosbarth a gwbl wahenir oddiwrth eu gilydd, fel nad adwaenant ac nas gwelant eu gilydd mwy: canys wedi hyny ei gariad ei hun fydd pob un, nid yn unig o ran ei fewnolion, sef ei feddwl, ond hefyd o ran ei allanolion, sef ei wyneb, ei gorff, a'i leferydd. Bydd pob un yn ddelw o'i gariad ei hun. Y rhai sydd yn ffurfiau cariad corfforol, a ymddangosant yn hurt, tywyll, du, a salw; ond y rhai sydd ffurfiau o gariad nefol, a ymddangosant yn fywiog, siriol, têg, a hardd. Eu meddyliau a'u syniadau ydynt lawn mor anhebyg: deallus a doeth yw y rhai sydd ffurfiau o gariad nefol; ond pwl a gwallgof yw y rhai sydd ffurfiau o gariad corfforol. Pan geir caniatad i edrych i'w meddyliau a'u serchiadau, mewnolion y rhai sydd mewn cariad nefol a ymddangosant fel goleuni, rhai fel goleuni fflamllyd, a'u hallanolion yn ymddangos mewn amryw liwiau prydferth fel yr enfys; ond mewnolion y rhai sydd mewn cariad corfforol a ymddangosant yn ddu, am eu bod yn gauedig, a rhai o honynt a ymddangosant yn danllyd bygddu, dyna ymddangosiad mewnol rhai maleisddrwg a thwyllodrus, a'u hallanolion mewn lliwiau erchyll, trist eu gweled. Y mae y mewnolion a'r allanolion perthynol i'r meddwl rhesymol a naturiol, yn weledig yn y byd ysbrydol, pan wêl yr Arglwydd yn dda. Y rhai sydd mewn cariad corfforol ni welant ddim yn ngoleuni y nefoedd, tywyllwch dudew yw iddynt hwy; ond goleuni uffern, tebyg i olosg yn cyneu, a ymddengys iddynt fel goleu clir. Eu golwg fewnol hefyd a dywylla yn ngoleuni y nefoedd, fel y gwallgofant: am hyny, gochelant y goleuni hwnw ac ymguddiant mewn ffauau ac ogofäu, o ddyfnder cyfartal i'w cyfeiliornadau, yn tarddu o'u drygau. Ar y llaw arall, y rhai sydd mewn cariad nefol a welant bob peth yn fwy clir i'r graddau yr ânt i fewn neu i fynu i oleuni y nefoedd; ac i'r un graddau hefyd pob peth a welant a ymddangosant yn fwy hardd, a chanfyddir pob gwirionedd yn fwy deallus ac yn fwy doeth. Y rhai sydd mewn cariad corfforol, nis gallant fyw yn ngwres y nefoedd, am mai cariad nefol yw gwres y nefoedd; ond gwres uffern sydd gydnaws â hwynt, oblegid y gwres hwnw yw cariad i ymddwyn yn greulon tuag at bawb na wnant eu ffafrio hwy: a'r pleserau godant o'r cariad hwnw yw diystyru ereill, gelyniaeth, casineb, a dialedd. Y pleserau hyn yw mwynhad eu bywyd. Ni wyddant ddim beth yw gwneyd daioni i ereill oddiar ddaioni, ac er mwyn daioni, ond y maent yn fedrus i wneuthur drwg oddiar ddrwg, ac er mwyn drwg. Nis gall rhai mewn cariad corfforol anadlu yn y nefoedd, mor fuan y dygir unrhyw ysbryd drwg yno, bydd yn dyheu am ei anadl fel dyn yn ingoedd angeu; ond y mae y rhai sydd mewn cariad nefol yn anadlu yn fwy rhydd, a byw yn fwy llawn, i'r graddau yr ânt yn fwy mewnol i'r nefoedd. Felly, amlwg yw mai cariad nefol ac ysbrydol yw y nefoedd yn y dyn, am fod pob peth perthynol i'r nefoedd yn ysgrifenedig ar y cariad hwnw; ac hefyd fod cariad corfforol a bydol, heb yr hyn sydd nefol ac ysbrydol, yn uffern yn y dyn, oblegid fod pob peth perthynol i uffern yn ysgrifenedig ar y cariadau hyny. Y mae yn canlyn fod yr hwn sydd mewn cariad nefol ac ysbrydol yn myned i'r nefoedd, a bod yr hwn sydd mewn cariad corfforol a bydol, yn amddifad o'r hyn sydd nefol ac ysbrydol, yn myned i uffern.

482. *Nad yw ffydd yn aros yn y dyn oddieithr tarddu o honi o gariad nefol*, a amlygwyd i mi trwy lawer o brofiad, pe cofnodwn yr oll a welais ac a glywais, llanwai gyfrol. Gallaf dystio hyn, nad oes ac nas gall fod unrhyw ffydd gyda y rhai sydd mewn cariad corfforol a bydol heb gariad nefol ac ysbrydol; ac nad yw eu ffydd ond gwybodaeth yn unig, neu goel wag fod peth yn wir, am ei fod o wasanaeth i'w cariad. Llawer yn tybied fod ganddynt ffydd, a ddygwyd at rai yn meddu ffydd sylweddol, a phan agorwyd cymundeb rhyngddynt, canfyddasant nad oedd eu ffydd yn ffydd. Cyffesasant, hefyd, wedi hyny, nad ffydd, yw credu yn unig yn y gwirionedd, ac yn y Gair, ond mai caru y gwirionedd oddiar gariad nefol, a'i ewyllysio a'i wneyd oddiar deimlad mewnol, yw ffydd. Dangoswyd hefyd iddynt fod eu coel a alwant ffydd, fel goleu y gauaf, heb wres ynddo, pan fyddo pob peth ar y ddaear yn gorwedd yn farw, a chloedig mewn rhew, neu gladdedig mewn eira. Mor fuan y disgyna pelydrau goleuni y nefoedd ar oleuni eu ffydd dybianol, nid yn unig diffydd, ond

try yn dywyllwch dudew, nas gall neb weled ei hun ynddo. Y mewnolion hefyd a dywyllant, fel na ddeall y fath ysbrydion ddim, ac o'r diwedd ânt yn wallgof trwy gyfeiliornadau. Yr holl wirioneddau a ddysgasant o'r Gair ac o athrawiaeth yr Eglwys, ac a alwasant gwirioneddau eu ffydd, a gymerir ymaith oddiwrthynt, ac yn eu lle llenwir hwynt â phob twyll sydd gytunol â drygau eu bywyd: oblegid gollyngir pawb i'w cariadau eu hunain, ac i'r anwireddau cytunol â'r cariadau hyny, am hyny casânt a gwrthodant wirioneddau, am eu bod yn wrthwyneb i'r anwireddau godant o'u nwydau drwg. Gallaf dystio oddiar fy holl brofiad am y nefoedd ac uffern, mai yn uffern y mae pawb a gredasant yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd yn unig, ac a fuont byw yn ddrwg. Gwelais lawer o filoedd o honynt yn cael eu taflu yno (gwel am danynt yn y Traethawd ar "Y Farn Ddiweddaf a Dinystr Babylon").

483. *Mai cariad mewn act sydd yn aros gyda dyn, sef ei fywyd.*—Canlyn hyn fel casgliad oddiwrth yr holl dystiolaethau oddiar brofiad a roddwyd, ac hefyd oddiwrth yr hyn a ddywedwyd am weithredoedd. Gwaith cariad mewn act yw gweithred neu waith.

484. Pob gweithred a gwaith a berthynant i fywyd moesol a gwladol, ac felly y maent yn perthyn i ddidwylledd a thegwch, ac i gyfiawnder ac uniondeb. Didwylledd a thegwch a berthynant i fywyd moesol; cyfiawnder ac uniondeb i fywyd gwladol: y cariad o'r hwn eu harferir sydd nefol neu uffernol. Y mae gweithredoedd a gwaith bywyd moesol a gwladol yn nefol, os gwneir hwynt oddiar gariad nefol: am fod pob peth a wneir oddiar gariad nefol, a wneir o'r Arglwydd, a pha beth bynag wneir o'r Arglwydd sydd dda; ond uffernol yw gweithredoedd a gwaith bywyd moesol a gwladol, os gwneir hwynt oddiar gariad uffernol: am fod pob peth wneir o'r cariad hwn, sef cariad at hunan a'r byd, a wneir o'r dyn ei hun, a pha beth bynag a wneir o'r dyn ei hun, sydd ddrwg ynddo ei hun; oblegid dyn, ynddo ei hun, o ran ei *proprium*, nid yw ddim ond drwg.

### Pleserau Bywyd pob un ar ol Marw a droant i Bleserau yn cyfateb iddynt.

485. Y mae y prif serch neu y cariad llywodraethol yn aros gyda phob un i dragwyddoldeb, fel y dangoswyd yn y benod flaenorol; dangosir yn awr fod pleserau y serch neu y cariad hwnw yn troi i bleserau yn cyfateb iddynt. Pleserau cyfatebol sydd bleserau ysbrydol yn cyfateb i bleserau naturiol. Fod y rhai hyn yn troi yn bleserau ysbrydol yn y byd arall sydd amlwg, oblegid tra fyddo dyn yn y byd naturiol y mae efe mewn corff daearol, ond pan aiff i'r byd ysbrydol, efe a fydd mewn corff ysbrydol. Gellir gweled uchod, r. 73—77, a r. 453—460, fod angylion mewn ffurf ddynol berffaith; fod dynion yn cadw yr un





ffurf ar ol marw, a bod y cyrff a arwisgant y pryd hwnw yn ysbrydol; ac eglurwyd natur y gyfatebiaeth a fodola rhwng pethau naturiol a phethau ysbrydol yn r. 87—115.

486. Pob pleserau a fwynha dyn a darddant o'i gariad llywodraethol, am nad oes dim yn bleserus i ddyn nad yw yn garu; o ganlyniad, yr hyn a deimla yn fwyaf plererus yw yr hyn a gâr fwyaf. Yr un peth yw dywedyd, cariad llywodraethol, neu yr hyn a gerir fwyaf. Y mae pleserau yn amrywiol, canys y mae yn gyffredinol yr un nifer o bleserau ag sydd o gariadau llywodraethol, am hyny, gynifer ag sydd o ddynion, ysbrydion ac angylion: am nad yw cariad llywodraethol y naill yn mhob peth byth yr un fath a chariad llywodraethol y llall. Dyna paham nad oes ddau wyneb yn hollol yr un fath; oblegid fod y wyneb yn ddelw o'r meddwl, ac yn y byd ysbrydol, daw yn ddelw o'r cariad llywodraethol. Y mae pleserau neillduol pob un hefyd o amrywiaeth aneirif, ac nid oes un pleser ar ei ben ei hun yn hollol yr un fath a'r llall, pa un ai pleserau yn canlyn eu gilydd neu yn cyd-fodoli. Ond y mae holl bleserau pob un yn perthyn i'w gariad ei hun, sef ei gariad llywodraethol, canys cyfansoddant ef, ac felly, gwnant eu hunain yn un âg ef; a'r un modd, pob pleserau yn gyffredinol, a berthynant i un cariad llywodraethol cyffredinol: yn y nefoedd cariad at yr Arglwydd, ac yn uffern cariad at hunan.

487. Nis gellir deall beth yw y pleserau ysbrydol a'u hansawdd, y try y pleserau naturiol iddynt ar ol marw, ond trwy wyddor cyf-cyfatebiaeth. Y wyddor hon a ddysg yn gyffredinol, nas gall dim naturiol fodoli heb rywbeth ysbrydol yn cyfateb iddo, a dysg hefyd beth yw natur ac ansawdd neillduol y peth sydd yn cyfateb. Trwy y wyddor hon, gan hyny, y gall dyn wybod ei ystad ei hun ar ol angeu, os gŵyr efe ei gariad ei hun, a deall ei berthynas â'r cariad llywodraethol cyffredinol hwnw y soniwyd am dano, a berthyn i bob cariad; ond y rhai sydd mewn hunan-gariad, nis gallant adwaen eu cariad llywodraethol, oblegid eu bod yn caru beth bynag sydd eiddynt eu hunain. Galwant, gan hyny, eu drwg yn dda, a'r anwireddau a'u ffurfiant ac a gadarnhant eu drwg, a alwant yn wirioneddau. Er hyny, os ewyllysiant, gallant adwaen eu hunain oddiwrth ereill sydd ddoeth, oblegid fod y fath ddynion yn gweled yr hyn na welant hwy eu hunain. Ond nis gallant os byddant mor feddw ar hunan-gariad nes gwrthod pob dysgeidiaeth. Ond y rhai sydd mewn cariad nefol a dderbyniant addysg, a gwelant y drygau y ganwyd hwynt iddynt, pan fradychir hwynt iddynt: canys gwelant hwynt trwy y gwirioneddau a'u datguddiant. Gall pob un weled drwg a'i gyfeiliornadau trwy wirionedd yn tarddu o ddaioni; ond nis gall neb sydd mewn drwg weled daioni a gwirionedd, oblegid fod cyfeiliornadau yn tarddu o'r

drwg yn dywyllwch, ac yn cyfateb i dywyllwch. Tebyg yw y rhai mewn cyfeiliornadau yn tarddu o ddrwg i ddeillion heb allu gweled yn y goleuni. Ciliant hefyd oddiwrth wirioneddau fel adar y nos oddiwrth y dydd, oblegid fod gwirioneddau yn tarddu o ddaioni yn oleuni, ac yn cyfateb i oleuni (gwel uchod, r. 125—134). Am hyny y mae y rhai sydd mewn gwirioneddau yn tarddu o ddaioni yn weledyddion, a dynion yr agorwyd eu llygaid i wahaniaethu rhwng pethau y tywyllwch a'r goleuni. Rhoddwyd i mi hefyd sicrwydd o'r pethau hyn trwy brofiad. Angylion y nefoedd a welant ac a ganfyddant y drygau a'r cyfeiliornadau a godant weithiau ynddynt eu hunain, ac hefyd y drygau a'r cyfeiliornadau a ffynant yn yr ysbrydion sydd yn gysylltiedig âg uffern yn Myd yr Ysbrydoedd; ond nis gall yr ysbrydion hyny eu hunain weled eu drygau a'u cyfeiliornadau eu hunain. Nis gallant synied beth yw daioni cariad nefol, beth yw cydwybod, beth yw didwylledd ac uniondeb, oddieithr er hunan-les, a beth yw fod yr Arglwydd yn arwain. Haerant nad yw y fath bethau yn bod, am hyny nad ydynt o werth. Dywedir y pethau hyn er anog dynion i holi eu hunain, a dysgu oddiwrth eu pleserau ansawdd eu cariad, fel y gallont ragwybod eu cyflwr eu hunain ar ol marw, i'r graddau y deallont wyddor cyfatebiaeth.

488. Gellir gwybod trwy wyddor cyfatebiaeth pa fodd y mae pleserau bywyd pob un yn troi ar ol angeu yn bleserau cyfatebol iddynt; ond gan na wyddir yn gyffredin am fodolaeth yr egwyddor, egluraf y peth trwy esiamplau oddiar brofiad. Pawb mewn drwg, ac a gadarnhasant eu hunain mewn cyfeiliornadau yn erbyn gwirioneddau yr Eglwys, ac yn neillduol y rhai a wrthodasant y Gair, a suddant i leoedd tanddaearol, yn ymddangos, o'r tu faes, yn dywyll iawn, ac ânt i agenau y creigiau i ymguddio; y rheswm am hyn yw eu bod yn caru cyfeiliornadau ac yn casau gwirioneddau: canys y mae ogofau tanddaearol, agenau y creigiau, ac hefyd tywyllwch ei hun yn cyfateb i gyfeiliornadau, a goleuni yn cyfateb i wirioneddau. Pleser yw iddynt drigo yn y fath leoedd, a phoen iddynt yw trigo ar y meusydd agored. Tebyg y gwna y rhai fuont yn ymbleseru gosod rhwydau yn ddirgel, ac mewn cynllunio yn ddichellgar o'r golwg i dwyllo. Erys y rhai hyn hefyd yn y lleoedd tanddaearol hyny, ac ymwthiant i gelloedd mor dywyll, fel nas gallant gymaint a gweled eu gilydd; yn y conglau sibrydant i glustiau y naill y llall; i hyn y try pleserau eu cariad. Hefyd y rhai fuont yn myfyrio y gwyddorau heb un amcan ond cael eu cyfrif yn ddysgedig, heb wrteithio y rheswm trwyddynt, ond yn cymeryd pleser gwag i ystorio y côf, carant leoedd tywodlyd, gan eu dewis o flaen meusydd a gerddi, oblegid fod lleoedd tywodlyd yn gyfateb i'r fath fyfyrdodau. Rhai cyfarwydd yn athrawiaethau eu heglwys eu hunain ac





eglwysi ereill, ond heb eu byw, a ddewisant leoedd creigiog, gan gilio o lanerchau gwrteithiog oblegid eu bod yn eu casau. Y rhai a briodolant bob peth i natur, ac hefyd y rhai a briodolant bob peth i'w callineb eu hunain, a thrwy amryw ystrywiau a gyrhaeddasant anrhydedd a golud, ymroddant yn y byd arall i fyfyrio dyfeisiau dewinol, y rhai sydd drais ar Ddwyfol Drefn, a chânt ynddynt bleser mwyaf eu bywyd. Rhai yn defnyddio gwirioneddau dwyfol i gyrhaedd eu hamcanion eu hunain, ac felly yn eu cyfeiliorni, a garant leoedd a sawr y biswail, oblegid eu bod yn cyfateb i bleserau y fath gariad. Y rhai sydd gybyddion brwnt a breswyliant selerau, a charant fudreddion moch, a'r fath drymsawr ag a ddeillia o sylweddau anrheuliedig yn y cylla. Rhai dreuliasant eu bywyd mewn pleserau yn unig, gan fyw yn foethus, a phorthi eu blysiau, gan gyfrif hyny yn ddaioni penaf bywyd, yn y byd arall carant a chofleidiant y tomenau a'r geudai, oblegid mai aflendid ysbrydol yw pleserau yn unig. Ciliant o leoedd glân a rhydd o aflendid, am eu bod yn diflas iddynt. Y rhai a ymbleserant mewn godinebau, a breswyliant yn y byd arall mewn puteindai gwael a budr, y rhai a garant, tra y gochelant dai diwair, a llewygant os digwyddant ddod yn agos attynt. Nid oes dim yn fwy hyfryd ganddynt na thori rhwymau priodas. Y rhai sydd yn chwantu dial, ac am hyny yn meddu natur ffyrnig a chreulon, a garant gelaneddau, neu y lleoedd y byddont; trigant hefyd mewn uffernoedd o'r fath. Felly hefyd mewn engreifftiau ereill.

489. Ond pleserau bywyd y rhai fuont byw yn y byd mewn cariad nefol a droant i wrthrychau cyfatebol, fel y pethau yn y nefoedd yn bodoli o haul y nefoedd, ac o oleuni yr haul hwnw; y goleuni hwnw a ddengys wrthrychau, a gynwysant yn fewnol bethau dwyfol, yn effeithio ar fewnolion meddyliau yr angylion, ac ar yr un pryd ar eu hallanolion perthynol i'r corff. A chan fod goleuni dwyfol, sef y Gwirionedd Dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, yn llifo i feddyliau agored gan gariad Dwyfol, am hyny achosa bresenoldeb gweledig gwrthrychau cyfatebol i bleserau eu cariad. Y mae y gwrthrychau gweledig a fodolant yn y nefoedd yn cyfateb i fewnolion yr angylion, neu i'r pethau perthynol i'w ffydd a'u cariad, ac felly i'w deall a'u doethineb, fel y dangoswyd yn y benod ar Arddangosiadau ac Ymddangosiadau yn y Nefoedd (r. 170—176); a'r hon ar Ddoethineb Angylion y Nefoedd (r. 265—275). Gan ein bod wedi ymgymeryd â chadarnhau y mater hwn trwy ffeithiau oddiar brofiad, er egluro y gwirioneddau a draethwyd yn barod oddiar achosion pethau, ychwanegaf rai pethau, am bleserau naturiol yn troi yn bleserau nefol, yn y rhai fuont byw yn y byd dan ddylanwad cariad nefol. Y rhai sydd yn caru gwirioneddau dwyfol, a'r Gair, oddiar serch mewnol, neu

oddiar serch at y gwirionedd ei hun, a breswyliasant yn y goleuni yn y byd arall, ar leoedd uchel, yn ymddangos fel mynyddoedd, yn cael eu hamgylchu yn barhaus â goleuni y nefoedd: ni wyddant beth yw tywyllwch, fel y nos yn y byd; y maent yn byw hefyd yn hinsawdd y gwanwyn. Pan edrychant o amgylch, gwelant feusydd a chaeau ŷd a gwinllanoedd. Pob peth yn eu tai sydd ddysglaer, fel pe wedi eu gwneuthur o feini gwerthfawr; ac edrych trwy y ffenestri sydd debyg i edrych trwy y grisial gloew. Dyma y gwrthrychau dymunol o flaen eu llygaid, ond y mae yr un pethau yn fewnol ddymunol, trwy eu bod yn cyfateb i bethau nefol; am fod y gwirioneddau o'r Gair, y rhai a garant, yn cyfateb i gnydau ŷd, gwinllanoedd, meini gwerthfawr, ffenestri, a grisial. Y rhai sydd yn defnyddio athrawiaethau yr Eglwys o'r Gair yn uniongyrchol mewn bywyd, a ragorant ar bawb ereill yn mhleserau doethineb. Yn mhob gwrthrych o'u hamgylch gwelant bethau dwyfol. Gwelant y gwrthrychau, ond pethau dwyfol yn cyfateb iddynt a lifant yn uniongyrchol i'w meddyliau, gan eu llanw â gwynfyd yn treiddio pob synwyr, tra pob beth yn ymddangos yn chwerthin, yn chwareu, a byw. (Ar y pwnc hwn gwel uchod, r. 270.) Y rhai sydd yn caru y gwyddonau, a thrwyddynt yn gwrteithio eu rheswm, ac felly yn cyrhaedd dealltwriaeth, gysylltiedig â chydnabyddiaeth o Dduw, cânt bleserau gwyddoniaeth a rheswm wedi eu cyfnewid yn y byd arall i bleser ysbrydol, sef pleser gwybodaeth daioni a gwirionedd. Preswyliant mewn gerddi, addurnedig â gwelyau o flodau, a llenyrch wedi eu trefnu yn ranau prydferth, amgylchedig â rhesi o goed yn ffurfio rhodfeydd dymunol. Y coed a'r blodau a amrywiant bob dydd. Yr holl olygfa a rydd bleser cyffredinol i'w meddyliau, yn cael ei adnewyddu gan amrywiaethau y manylion: a chan fod y gwrthrychau yn cyfateb i bethau dwyfol, a'r rhai a'u gwelant yn deall gwyddor cyfatebiaeth, adgyflenwir hwynt yn barhaus â gwybodaethau newyddion, yn perffeithio eu rheswm ysbrydol. Teimlant y pleserau hyn, oblegid fod gerddi, gwelyau blodau; llenyrch, a choed yn cyfateb i wyddoniaeth a gwybodaeth, ac felly i ddealltwriaeth. Y rhai a briodolent bob peth i'r Duwdod, ac a gyfrifent natur yn farw, ac is-wasanaethgar yn unig i ddybenion ysbrydol, ac a gadarnhasant eu hunain yn y gred hono, preswyliant mewn goleuni nefol, yn gwneyd pob peth o flaen eu llygaid yn dryloew, ac yn y tryloeywder hwnw, gwelant aneirif amliwiadau goleuni, yn llifo yn uniongyrchol i'w llygad mewnol, gyda theimlad clir o bleserau mewnol. Dodrefn eu tai a ymddangosant yn gyfansoddedig o'r diemwnt, yn dysgleirio gyda chyflelyb amliwiadau o oleuni. Dywedwyd wrthyf fod muriau eu tai hefyd yn dryloeyw fel grisial, a bod ffurfiau nofiawl yn ymddangos o'u mewn yn arddangos pethau nefol mewn amrywiaeth parhaus. Y





rheswm yw, fod tryloewder yn cyfateb i'r deall wedi ei oleuo gan yr Arglwydd, yn rhydd oddiwrth y cysgodion a darddant o ffydd anianol yn unig, ac o gariad at bethau naturiol. Y pethau hyn ac aneirif ryfeddodau ereill a wnant i'r rhai yn y nefoedd ddywedyd, eu bod wedi gweled pethau na welodd llygad, ac oddiar ganfyddiad o bethau dwyfol yn llifo o honynt, eu bod yn clywed yr hyn na chlywodd clust. Y rhai nad ymddygant yn ddichellgar, ond a ddymunant i'w holl feddyliau fod yn wybyddus, mor bell y byddo yn gyson â dyledswyddau bywyd cymdeithasol, am nad ydynt yn meddwl dim ond sydd ddidwyll ac uniawn oddiar Egwyddor Ddwyfol, ymddangosant yn y nefoedd, gyda gwynebau o oleuni dysglaer, yn ddelw o'u holl feddwl a'u calon, tra eu lleferydd a'u hactau yn ffurfiau perffaith o'u serchiadau: felly, cânt eu caru yn fwy nag ereill. Pan lefarant, eu gwynebau a dywyllant i raddau, ond wedi iddynt orphen llefaru, holl gynwys eu siarad a ymddengys yn amlwg yn eu hwynebau. Pob gwrthrych o'u hamgylch, hefyd, a ymddangosant felly gan eu bod yn cyfateb i'w mewnolion, a chanfyddir yn glir gan ereill yr hyn y maent yn arddangos ac arwyddo. Pan fyddo ysbrydion hoff o ymddwyn yn ddichellgar, yn gweled y rhai rhagorol hyn o bell, gochelant eu presenoldeb, ac ymddangosant iddynt eu hunain yn ymlusgo oddiwrthynt, megis seirff. Y rhai a gyfrifent odineb yn ddrygioni erchyll, ac a fuont byw mewn cariad diwair priodasol, y maent yn ffurf a threfn y nefoedd yn fwy nac ereill, ac felly yn meddu harddwch perffaith, ac yn parhau byth yn mlodau eu dyddiau. Pleserau eu cariad sydd anrhaethadwy, ac ânt ar gynydd i dragwyddoldeb: canys holl bleserau a llawenydd y nefoedd a lifant i'r cariad hwnw, oblegid ei fod yn disgyn o'r undeb sydd rhwng yr Arglwydd a'r nefoedd a'r Eglwys, ac mewn ystyr gyffredinol, o undeb daioni a gwirionedd: sef yr undeb sydd yn cyfansoddi y nefoedd ei hun, yn y cyfangorff ac yn mhob angel: (gwel uchod, r. 366—386). Nid oes iaith ddynol all ddarlunio eu pleserau allanol. Yr engreifftiau hyn o gyfatebiaeth pleserau gyda rhai mewn cariad nefol, nid ydynt ond ychydig o'r rhai a ddatguddiwyd i mi.

490. Oddiwrth y pethau hyn gellir gwybod fod pob pleserau ar ol angeu yn troi i rai gyfatebol, a'r cariad y tarddant o hono yn aros yr un byth bythoedd: megis cariad priodasol, cariad at gyfiawnder, cariad at ddidwylledd, cariad at ddaioni, cariad at wirionedd, cariad at wyddoniaeth a gwybodaethau, cariad at ddealltwriaeth a doethineb, a phob cariad arall. Pleserau a lifant o honynt fel ffrydiau o'r ffynon, ac felly y parhant; ond dyrchefir hwynt i radd uwch—sef o fod yn bleserau naturiol, i fod yn bleserau ysbrydol.

Ystad Gyntaf Dyn ar ol Marw.

491. Y mae dyn yn myned trwy dair ystâd ar ol marw cyn myned i'r nefoedd neu i uffern. Yn ei allanolion y mae efe yn ei ystâd gyntaf; yn ei fewnolion yn yr ail; ac mewn parotoad yn y drydedd, Aiff dyn trwy yr ystadau hyn yn Myd yr Ysbrydoedd. Ond y mae rhai ysbrydion nad ânt trwyddynt, canys codir hwynt i'r nefoedd, neu teflir hwynt i uffern yn uniongyrchol ar ol marw. Y rhai a godir yn uniongyrchol i'r nefoedd ydynt wedi eu haileni, ac felly wedi eu parotoi i'r nefoedd yn y byd. Pawb wedi eu haileni a'u parotoi felly, fel nad oes eisiau iddynt ond taflu ymaith halogrwydd natur a'r corff, a ddygir yn uniongyrchol gan yr angylion i'r nefoedd: gwelais rai yn cael eu symud felly yn fuan ar ol awr angeu. Ond y rhai fuont ddrygionus o fewn, gan ymddangos yn dda o faes, a llanw felly eu drygnaws trwy ddefnyddio daioni fel offeryn twyll, teflir hwynt ar unwaith i uffern. Gwelais rai o honynt yn cael eu bwrw yno yn uniongyrchol ar ol marw. Un o'r rhai mwyaf twyllodrus a daflwyd a'i ben lawr a'i draed i fyny; ac ereill mewn ffyrdd ereill. Teflir rhai ysbrydion i ogofäu yn uniongyrchol ar ol marw, gan eu hysgaru oddiwrth ereill yn Myd yr Ysbrydoedd. Dygir hwynt allan o'u ffauau ac anfonir hwynt yn ol iddynt drachefn bob yn ail. Y rhai hyn, dan gochl moesgarwch, a ymddygent yn faleisus tuag at eu cymydogion. Ond bychan yw rhif y ddau fath hyn at y rhai a gedwir yn Myd yr Ysbrydoedd, ac a barotoir yno yn ol Dwyfol Drefn, i'r nef neu i uffern.

492. Daw dyn yn uniongyrchol ar ol marw i'w ystâd gyntaf, sef ystâd ei allanolion; canys y mae gan bob dyn o ran ei ysbryd fewnolion ac allanolion. Allanolion ei ysbryd a'i galluoga i gymhwyso ei gorff, ac yn neillduol ei wyneb, ei siarad, a'i foesau, at y gymdeithas y mae yn byw ynddi yn y byd. Ond mewnolion yr ysbryd a berthyn i'w ewyllys, a'r meddwl dardd oddiyno, ac anaml y dangosir y pethau hyn yn y gwyneb, y siarad a'r moesau: am fod dyn wedi arfer o'i fabandod i wisgo ymddangosiad o gyfeillgarwch, haelfrydedd a didwylledd, a chelu meddyliau ei ewyllys ei hun. Felly y ffurfia dyn arferion allanol mewn cytundeb â bywyd moesol a gwladol, beth bynag fyddo ei wir gymeriad mewnol; ac effaith yr arferion hyn yw, na ŵyr dyn nemawr ddim am ei fewnolion, ac na feddylia ddim am danynt.

493. Y mae ystâd gyntaf dyn ar ol marw fel ei ystâd yn y byd, oblegid ei fod eto yn ei allanolion. Y mae ganddo gan hyny wyneb tebyg, siarad tebyg, a thymer debyg, gydag ystâd debyg o fywyd moesol a gwladol: fel nas gŵyr lai nad yw eto yn y byd, oddieithr troi o hono at yr amgylchiadau o'i gylch, a chofio i'r angylion ddweyd wrtho yn ei adgyfodiad ei fod yn awr yn ysbryd





(r. 450). Felly, parhad yw y bywyd dyfodol o'r presenol, a thramwyfa yw angeu o'r naill i'r llall.

494. Gan fod ysbryd dyn newydd ymadael â'r byd o'r fath natur, adwaenir ef gan ei gyfeillion, a chan y rhai y bu yn gyfarwydd â hwynt yn y byd: canys y mae ysbrydion yn adnabod ereill, nid yn unig oddiwrth eu gwyneb a'u siarad, ond hefyd oddiwrth gylch eu bywyd, pan ddeuant yn agos. Pan fyddo unrhyw un yn y byd arall yn meddwl am un arall, meddylia am ei wyneb, ac ar yr un pryd am lawer o amgylchiadau ei fywyd, a phan yn gwneyd hyny, bydd y llall yn bresenol, fel pe wedi ei anfon neu ei alw. Cymer hyn le oblegid fod cymundeb cyffredinol meddyliau yn y byd arall, ac oblegid nad oes lleoedd yno fel yn y byd naturiol (gwel uchod, r. 191—199). Oherwydd hyn, yr holl ysbrydion ar eu mynediad i fyd arall a adwaenir gan eu cyfeillion, eu perthynasau, a phawb cyfarwydd â hwynt; siaradant â hwynt, wedi hyny cydgymdeithasant yn ol mesur eu cyfeillgarwch yn y byd. Clywais yn aml rai newydd ddyfod o'r byd yn llawenhau wrth gwrdd â'u cyfeillion drachefn, a'u cyfeillion yn llawenhau wrth gwrdd â hwythau. Rhai priod yn fynych a gwrddant â'u gilydd, gan gydlawenhau, ac a arosant gyda'u gilydd dros amser, mwy neu lai, yn ol graddau eu mwyniant wrth gydfyw yn y byd. Os na bydd gwir gariad priodasol, sef undeb meddyliau oddiar gariad nefol yn eu cysylltu, ysgerir hwynt yn mhen ysbaid; ond os bu eu meddyliau yn groes, a hwythau wedi casau eu gilydd yn fewnol, torant allan yn awr i elyniaeth gyhoeddus, ac weithiau i ymladd; er hyny, ni ysgerir hwynt nes delont i'r ail ystâd y sonir am dani yn y benod nesaf.

495. Gan fod bywyd ysbrydion newydd farw yn debyg i'w bywyd naturiol yn y byd, a chan na feddant wybodaeth flaenorol am natur y bywyd ar ol marw, nac am nefoedd ac uffern, ond a ddysgasant oddiwrth lythyren y Gair a phregethau, am hyny, wedi synu eu bod mewn corff ac yn mwynhau pob synwyr feddent yn y byd, teimlant ddymuniad i wybod am natur nef ac uffern, a pha le y maent. Eu cyfeillion a'u dysgant am ystâd y bywyd tragwyddol, dygant hwynt i amryw leoedd, ac arweiniant hwynt i amryw gymdeithasau. Dygir rhai i ddinasoedd, gerddi, a pharadwysau, a dangosir iddynt yn fynych adeiladau mawreddog a golygfeydd prydferth, am fod y pethau hyny yn fwyniant i'r allanolion y maent ynddynt. Dygir hwynt hefyd ar droion i adgofio y meddyliau goleddent yn y byd am ystâd yr enaid ar ol angeu, ac am nef ac uffern, nes y llidiont, am iddynt fod mor hollol anwybodus am y pethau hyn, ac am fod y fath anwybodaeth yn ffynu yn yr Eglwys. Pryderus yw bron pawb o honynt a wybod a gânt fyned i'r nefoedd, a llawer o honynt a gredant y cânt, oherwydd iddynt fyw yn foesol a gwladol: heb ystyried fod

y drwg a'r da yn byw yn debyg yn yr allanolion, yn gwneyd daioni i ereill yn yr un modd, yn myned i'r Eglwys, gwrando pregethau, a dweyd gweddiau; ni wyddant nad yw gweithredoedd allanol nac allanolion addoliad o un budd, ond yr egwyddorion mewnol a ddeilliant o honynt. Allan o filoedd, braidd y ceir un a ŵyr beth yw pethau mewnol, a bod y nefoedd a'r Eglwys yn y dyn yn gynwysedig o'r pethau hyny. Llai byth a wyddant fod ansawdd gweithredoedd allanol yn dybynu ar y bwriadau a'r meddyliau, ac ar y cariad a'r ffydd a'u rheolant, ac o'r rhai y tarddant. Pan ddysgir hwynt yn y pethau hyn, ni wnant amgyffred fod meddwl ac ewyllysio o unrhyw bwys, ond mai siarad a gweithredu yw pob peth. Felly y mae y rhan amlaf o'r rhai sydd yn myned o'r Byd Cristionogol i Fyd arall y Dydd hwn.

496. Chwilir hwynt gan ysbrydion da o ran eu hansawdd, yr hyn a wneir mewn amryw ffyrdd, gan fod y rhai drwg yn yr ystâd gyntaf yn traethu gwirioneddau, a gwneyd gweithredoedd da, fel y rhai da, oblegid, fel y dywedwyd uchod, eu bod wedi byw yn foesol; buont byw dan lywodraethau rheolaidd, yn ddarostyngedig i'r ddeddfau, yn ceisio yr enw o fod yn uniawn a didwyll, yn boddio ffafr y cyhoedd, ac yn meddu anrhydedd a golud. Ond gwahaniaethir ysbrydion drwg oddiwrth rai da gan un peth neillduol, sef eu parodrwydd i sylwi ar yr hyn a ddywedir am bethau allanol, a'u difaterwch am bethau mewnol, sef gwirioneddau a daioni y nefoedd a'r Eglwys. Clywant hwynt y mae yn wir, ond clywed yn ddisylw ac aflawen a wnant. Gwahaniaethir hwynt hefyd wrth hyn: troant i ryw gyfeiriadau, a phan adewir hwynt iddynt eu hunain, rhodiant yn y cyfeiriadau hyny. Y cyfeiriadau y troant a'r llwybrau a rodiant a ddangosant ansawdd y cariad a'i harwain.

497. Yr holl ysbrydion a ddeuant o'r byd ydynt yn gysylltiedig, trwy rwymau anweledig, â rhyw gymdeithas neillduol yn y nef neu yn uffern; ond cysylltiad a'u mewnolion yn unig yw hwn, ac ni chant eu hamlygu cyhyd yr arhosant yn eu hallanolion, oblegid fod pethau allanol yn cuddio pethau mewnol, yn neillduol gyda rhai mewn drwg mewnol. Ond wedi hyny amlygir hwynt yn glir pan ddeuant i'r ail ystâd, oblegid yn yr ystâd hono datguddir y mewnolion, a gosodir yr allanolion i gysgu.

498. Parha ystâd gyntaf dyn ar ol marw gyda rhai am rai dyddiau, gydag ereill am rai misoedd, a chydag ereill am flwyddyn; ond anfynych fwy na blwyddyn gyda neb. Cyfyd y gwahaniaeth o'r cytundeb neu yr anghytundeb rhwng y mewnolion a'r allanolion. Gyda phob un, rhaid i'r allanolion a'r mewnolion weithio mewn undeb, a chyfatebiaeth: oblegid ni chaniateir i neb yn y byd ysbrydol feddwl ac ewyllysio mewn un ffordd, a siarad a gweithredu ffordd arall. Rhaid i bob un yno fod yn wir ddelw ei deimlad neu





ei gariad ei hun, ac felly yr un oddiallan ag yw o fewn: am hyny, diosgir allanolion dyn, a dygir hwynt i drefn fyddo yn cyfateb i'w fewnolion.

### Ail Ystad Dyn ar ol Marw.

499. Ail ystâd dyn ar ol marw a elwir ystâd ei fewnolion, oblegid ei fod yn awr yn mewnolion ei enaid, sef ei ewyllys a'i feddwl, tra yr allanolion yr oedd ynddynt yn ei ystâd gyntaf wedi eu gosod i gysgu. Unrhyw un sylwa ar fywyd dyn, ei siarad a'i weithredoedd, a ŵyr ei fod yn gyfansoddedig o bethau allanol a mewnol, neu o feddyliau a bwriadau allanol a mewnol; y pethau canlynol a brofant hyny. Er esiampl, pob un yn byw mewn cymdeithas waraidd, a feddylia am ereill yn ol a glywodd neu a ddeallodd am danynt, trwy hanes neu siarad: ond nid yw efe yn llefaru wrthynt yn ol ei feddyliau, ond ymddyga tuag attynt yn foesgar, er iddo gredu eu bod yn ddrygionus. Ffugwyr a gwenhieithwyr ydynt engreifftiau amlwg o hyn, canys llefarant a gweithredant yn hollol groes i'w meddwl a'u hewyllys. Rhagrithwyr hefyd a siaradant am Dduw, a'r nefoedd, ac iachawdwriaeth eneidiau, a gwirioneddau yr Eglwys, a lles eu gwlad a'u cymydogion, fel pe baent dan ddylanwad ffydd a chariad; pan yn eu calon ni chredant yr hyn a lefarant, ac ni charant ond eu hunain. Amlwg oddiwrth y pethau hyn fod dau fath o feddwl, un yn allanol a'r llall yn fewnol, a bod y fath bersonau yn llefaru o'r meddwl allanol, tra eu meddwl mewnol yn gwahaniaethu yn fawr; a bod y ddau fath hyn o feddwl yn cael eu gwahanu trwy ofal manwl, rhag i'r mewnol lifo i'r allanol, a dyfod yn unrhyw fodd yn amlwg. Y mae dyn wedi ei ffurfio trwy greadigaeth, fel y byddo ei feddwl mewnol yn gweithredu yn un â'i feddwl allanol trwy gyfatebiaeth. Cymer yr undeb hwn le yn y rhai da, oblegid nad ydynt yn meddwl ond yr hyn sydd dda, nac yn llefaru ond yr hyn a feddyliant: ond nid yw y meddwl mewnol yn gweithredu yn un â'r meddwl allanol yn y rhai drwg, oblegid eu bod yn meddwl yr hyn sydd ddrwg ac yn llefaru yr hyn sydd dda. Gyda hwynt, gan hyny, y mae trefn wedi ei gwrthdroi, am fod daioni o'r tu allan a drwg o'r tu fewn, ac felly, drwg a lywodraetha y da, fel arglwydd ei gaethwas, fel trwy ymddangosiad o ddaioni y gall gyrhaedd ei amcanion drwg yn tarddu oddiar hunan-gariad. Gan fod y fath amcan yn guddiedig yn y daioni a lefarant neu a wnant, amlwg nad yw eu daioni yn ddaioni, ond ei fod wedi ei lygru â drwg, pa mor dda bynag yr ymddengys i'r rhai nad adwaenant y drwg o fewn. Nid felly y rhai da, canys gyda hwynt nid yw trefn wedi ei gwrthdroi, ond daioni o'u meddwl mewnol a lifa i'w meddwl allanol, ac oddiyno i'w geiriau a'u gweithredoedd. Dyma y drefn y crewyd dyn ynddi, oblegid fel hyn y mae ei fewnolion yn

y nefoedd, ac yn ngoleuni y nefoedd; ond goleuni y nefoedd yw y Gwirionedd Dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd, yr hyn yw yr Arglwydd Ei Hun yn y nefoedd (r. 126—140), am byny y rhai da a gânt eu harwain gan yr Arglwydd. Dywedir y pethau hyn er profi fod gan bob dyn feddwl mewnol a meddwl allanol, a'u bod yn wahanol i'w gilydd. Pan sonir am feddwl, golygir yr ewyllys hefyd, am fod pob meddwl yn deilliaw o'r ewyllys, gan nad yw yn bosibl meddwl heb yr ewyllys. Oddiwrth y pethau hyn hawdd deall perthynas allanolion a mewnolion dyn.

500. Pan sonir am yr ewyllys a'r meddwl, yr ewyllys a olyga hefyd y serch a'r cariad, a'r holl fwyniant a'r pleser darddant oddiyno, oblegid serch a chariad a drigant yn yr ewyllys: canys yr hyn y mae dyn yn ewyllysio, y mae efe yn garu ac yn deimlo yn fwyniant a phleser; ac o'r tu arall, yr hyn y mae dyn yn garu, ac yn deimlo yn fwyniant a phleser, hyny hefyd y mae efe yn ewyllysio. Wrth y meddwl y golygir pob peth trwy yr hyn y gwna dyn gadarnhau ei serch a'i gariad; am nad yw meddwl ddim ond ffurf yr ewyllys, neu gyfrwng yr ewyllys i ymddangos yn y goleuni. Y ffurf hon a gynyrchir gan amryw ddosraniadau rhesymol, yn tarddu o'r byd ysbrydol, ac yn perthyn yn briodol i ysbryd dyn.

501. Gwybydder fod dyn yn hollol o ran ei gymeriad y fath ag yw ei fewnolion, ac nid y fath ag yw ei allanolion, ar wahan a'i fewnolion: oblegid fod y mewnolion o'r ysbryd, a bywyd dyn yw bywyd ei ysbryd, gan mai o'r ysbryd y mae y corff yn byw. Felly cymeriad dyn yn ol yr hyn ydyw yn fewnol a erys yr un i dragwyddoldeb: ond gan fod yr allanolion hefyd yn perthyn i'r corff, cânt eu gwahanu ar ol marw, a pha beth bynag a dardd o honynt, ac a lŷn wrth yr ysbryd, a roddir i gysgu, ac a wasanaetha yn unig fel sylfaen i'r mewnolion, megis y dangoswyd uchod, wrth sôn am gôf dyn yn aros ar ol angeu. Felly, amlwg yw beth sydd yn perthyn yn wirioneddol i ddyn, a beth na pherthyn iddo. Gyda rhai drygionus, pob peth a berthyn i'w meddwl allanol, o'r hwn y llefarant, ac i'w hewyllys allanol, o'r hon y gweithredant, nid eu heiddo eu hunain ydynt, ac nid ydynt yn perthyn yn briodol iddynt, ond yn unig y pethau a berthyn i'w meddwl a'u hewyllys fewnol.

502. Wedi gorphen yr ystâd gyntaf a ddarluniwyd yn y benod flaenorol, sef ystâd ei allanolion, y dyn, yn awr yn ysbryd, a ollyngir i ystâd ei fewnolion, neu i ystâd ei ewyllys fewnol a'r meddwl ddeillia oddiyno, ystâd y bu ynddi yn y byd, pan wrtho ei hun, yn meddwl yn rhydd ac heb atalfa. Syrthia i'r ystâd hon yn ddiarwybod, bron fel yn y byd, pan dŷn ei feddyliau agosaf at ei siarad, ac o'r rhai y tardd ei siarad, gan eu canolbwyntio yn fewnol. Pan gan hyny y byddo dyn, yn awr yn ysbryd, yn yr ystâd hon, y mae efe ynddo ei hun, ac yn ei wir fywyd: gan mai meddwl yn rhydd o'i wir gariad ei hun yw gwir fywyd dyn, a'r dyn ei hun.





503. Pan fyddo ysbryd yn yr ystâd hon, efe a feddylia o'i wir ewyllys, ac felly o'i wir serch neu ei gariad, fel y mae ei feddwl yn un â'i ewyllys; a'r undeb sydd mor berffaith, fel yr ymddengys yr ysbryd yn ewyllysio yn fwy na meddwl. Tebyg agos yw pan lefara, oddieithr ei fod y pryd hwnw yn teimlo graddau o ofn, rhag i'w wir feddyliau, neu feddyliau ei ewyllys fyned allan yn noeth. Cyfyd hyn o arferiad yr ewyllys ei hun, pan mewn cymdeithas yn y byd.

504. Pawb yn ddieithriad a ollyngir i'r ystâd hon ar ol marw, gan mai gwir ystâd eu hysbrydoedd ydyw: ond yr ystâd gyntaf sydd fel yr hon yr oeddynt ynddi mewn cymdeithas, ac ni pherthyn yn briodol iddynt. Nad yw yr ystâd gyntaf hon, sef ystâd yr allanolion, ystâd uniongyrchol dyn ar ol marw, megis y dangoswyd yn y benod flaenorol, yn wir ystâd y dyn, a brofir trwy lawer o ystyriaethau: megis, fod ysbrydion nid yn unig yn meddwl, ond yn siarad hefyd, o'u serch eu hunain: canys eu lleferydd a darddant o'u serch, fel y dangoswyd yn y benod ar Leferydd yr angylion (r. 234—245. Meddyliai y dyn mewn modd tebyg pan yn y byd, tra yn meddwl o'i fewn ei hun: canys y pryd hwnw ni feddylia oddiar leferydd y corff, ond gwelai y pethau a draethai y corff, a llawer mwy mewn mynud nag a allai wedi hyny adrodd yn mhen haner awr. Amlwg nad yw ystâd dyn pan yn ei allanolion yn perthyn yn briodol iddo, na chan hyny, yn wir ystâd ei ysbryd, oblegid pan y mae mewn cymdeithas yn y byd, efe a lefara yn ol deddfau bywyd moesol a gwladol, a'i feddwl mewnol a reola ei feddwl allanol, fel y gwna un person reoli y llall, i'w atal i dori dros derfynau moesgarwch a gweddeidd-dra.

505. Pan fyddo ysbryd yn ystâd ei fewnolion, ymddengys yn amlwg beth oedd ansawdd y dyn ynddo ei hunan yn ystod ei fywyd yn y byd, oblegid ei fod yn awr yn gweithredu o'i *proprium*, neu o'r hyn sydd briodol iddo ei hun. Os y bu ef yn gwreiddio mewn egwyddorion da yn ystod ei fywyd yn y byd, gweithreda yn awr yn rhesymol a doeth; yn fwy doeth na phan yn y byd, oblegid ei fod wedi ei ryddhau oddirth y corff, ac felly oddiwrth bethau daearol, fuont yn tywyllu a thaflu cwmwl ar ei ddoethineb. Ond yr hwn oedd wedi gwreiddio mewn drygioni pan yn y byd, a weithreda yn awr yn ffôl a gwallgof; yn fwy gwallgof na phan yn y byd, oblegid ei fod yn awr yn rhydd ac heb attalfeydd. Pan yn y byd, yr oedd efe yn gall mewn allanolion, ac felly yn ymddangos fel dyn rhesymol: ond pan symudir pethau allanol oddiwrtho, ei wallgofrwydd a ddatguddir. Dyn drwg yn ymddangos yn dda sydd debyg i lestr glân a dysglaer o'r tu allan a chlawr yn ei guddio, ond pob math o aflendid o'i fewn; yn ol geiriau yr Arglwydd: "Canys tebyg ydych chwi i feddau wedi eu gwynu, y rhai sydd yn ymddangos yn deg oddiallan,

ond oddimewn sydd yn llawn o esgyrn y meirw, a phob aflendid," Math. xxiii. 27.

506. Pawb fuont byw yn dda yn y byd, gan weithredu oddiar gydwybod, fel y gwna y rhai a gydnabyddant y Duwdod a charu gwirioneddau dwyfol, ac yn fwy neillduol, y rhai a'u cymhwysant at fywyd, ymddangosant iddynt eu hunain, pan ollyngir hwynt i ystâd eu mewnolion, fel pe byddent wedi dihuno o gwsg, neu dramwy o'r tywyllwch i'r goleuni. Meddyliant hefyd oddiar oleuni y nefoedd, ac felly oddiar ddoethineb fewnol; a gweithredant oddiar ddaioni, ac felly oddiar gariad mewnol; tra y llifa y nefoedd ei hun i'w meddyliau a'u serchiadau, gyda gwynfyd a phleser mewnol nad oedd ganddynt ddychymyg am dano o'r blaen; canys y mae cymundeb rhyngddynt yn awr âg angylion y nefoedd. Yn awr hefyd, cydnabyddant yr Arglwydd ac addolant Ef o'u gwir fywyd, gan eu bod yn eu bywyd priodol eu hunain pan fyddont yn ystâd eu mewnolion, megis y dywedwyd uchod (r. 505). Cydnabyddant ac addolant yr Arglwydd mewn rhyddid, am fod rhyddid yn deilliaw o'r serch mewnol: ac fel hyn enciliant o sancteiddrwydd allanol i sancteiddrwydd mewnol, yn yr hwn y cynwysir gwir addoliad. Y fath yw ystâd y rhai fuont byw yn Gristionogol yn y byd yn ol gorchymynion y Gair. Ond hollol groes yw ystâd y rhai fuont byw yn ddrwg, yn ddigydwybod, ac am hyny yn gwadu y Duwdod. Pawb yn byw mewn pechod a fewnol wadant y Duwdod, pa faint bynag y tybiant pan mewn allanolion, nad ydynt yn ei wadu ond yn ei gydnabod; oblegid anghymodadwy yw cydnabod Duw a byw mewn pechod. Pan ddaw y fath ddynion i ystad eu mewnolion yn y byd arall, tòr eu chwantau drygionus i eithafion mewn geiriau a gweithredoedd, ac ymddangosant yn wallgof ynddynt: megis diystyru ereill, gwatwar, cablu, casineb, dialedd, a dyfeisiau twyllodrus, yn cael eu llunio gan rai o honynt gyda'r fath ffalsder a malais, fel yr ymddengys yn anghredadwy fod y fath bethau yn bodoli yn unrhyw ddyn. Y maent yn awr mewn ystâd i weithredu yn rhydd yn ol meddyliau eu hewyllys, am eu bod wedi eu gwahanu oddiwrth bethau allanol a'u hattalient yn y byd. Mewn gair, y maent yn amddifad o resymoldeb, am nad oedd y rheswm a feddent yn y byd yn trigo yn eu mewnolion, ond yn eu hallanolion, er ymddangos o honynt iddynt eu hunain yn ddoethach nag ereill. Yn yr ail ystâd hon, gan hyny, y rhai sydd o'r fath gymeriad a ollyngir weithiau am amser byr i ystâd eu hallanolion, ac yn yr adgof o'u gweithredoedd pan yn ystâd eu mewnolion. Bydd cywilydd ar rai o honynt y pryd hwnw, a chydnabyddant iddynt fod yn wallgof: ond ni bydd cywilydd ar ereill, tra ereill yn ddigofus am na chaniateid iddynt aros yn barhaus yn ystâd eu hallanolion: ond dangosir iddynt beth fyddent pe yr arosent yn barhaus yn yr





ystâd hono, yr ymhyfrydent yn yr un drygau yn ddirgelaidd, gan dwyllo y rhai syml o galon a chredo ag ymddangosiad o ddaioni, didwylledd ac uniondeb, hyd oni lwyr ddinystrient eu hunain: canys y danllwyth o'u mewn a losgai o'r diwedd eu hallanolion, gan ddifa eu holl fywyd.

507. Pan fyddo ysbrydion yn yr ail ystâd hon, gwelir heb gêl beth oeddynt yn wirioneddol pan yn y byd; canys cyhoeddant bob peth a wnaethant neu a ddywedasant yn ddirgel, oblegid na bydd pethau allanol mwyach yn eu hatal. Dywedant, gan hyny, bethau tebyg yn agored, a gwnant bethau tebyg yn gyhoeddus, heb un gofal am eu henw fel yn y byd. Gollyngir hwynt hefyd i lawer ystâd o'u drygau, er i angylion ac ysbrydion da adwaen eu cymeriad. Fel hyn y datguddir pethau cuddiedig, ac y gwybyddir pethau dirgel yn ol geiriau yr Arglwydd: "Canys nid oes dim cuddiedig ar nas datguddir; na dirgel ar nis gwybyddir. Am hyny pa bethau bynag a ddywedasoch yn y tywyllwch, a glywir yn y goleu; a'r peth a ddywedasoch yn y glust mewn ystafelloedd, a bregethir ar benau tai," Luc xii. 2, 3. "Eithr yr ydwyf yn dywedyd wrthych, mai am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant hwy gyfrif yn nydd y farn," Math. xii. 36.

508. Nis gellir darlunio mewn ychydig eiriau ansawdd y drygionus yn yr ystâd hon, am fod pob un o honynt yn wallgof yn ol eu chwantau neillduol, y rhai sydd amrywiol. Ni roddaf, gan hyny, ond rhai esiamplau y gellir ffurfio barn oddiwrthynt am y lleill. Y rhai fu yn caru eu hunain uwchlaw pob peth, a cheisio eu gogoniant eu hunain yn unig yn nghyflawniad eu dyledswyddau: ac a fuont ddefnyddiol, nid er mwyn defnyddioldeb na phleser ynddo, ond fel y cyfrifid hwy yn deilyngach nag ereill, ac y gallent felly fwynhau anrhydedd, y mae y rhai hyn yn yr ail ystâd yn fwy hurt nag ereill: canys i'r graddau y bydd un yn caru ei hun y bydd yn pellhau o'r nefoedd, ac i'r graddau y bydd yn pellhau o'r nefoedd y bydd yn pellhau oddiwrth ddoethineb. Y rhai a ymgollent mewn hunan-gariad, a chyfrwysder yn y byd, ac a godasant i anrhydedd trwy ddichellion, ydynt yn nghymdeithas yr ysbrydion gwaethaf, a dysgant ystrywiau dewinol, sef camddefnyddio Trefn Ddwyfol, i boeni a niweidio pawb na wnant eu parchu hwy. Gosodant faglau iddynt, meithrinant gasineb tuag attynt, a llosgant mewn awydd i ddial arnynt, gan drachwantu dangos eu creulondeb tuag at bawb nad ymostyngant iddynt hwy. Rhuthrant i gyflawni yr erchyllderau hyn i'r graddau y byddo y giwaid uffernol yn barod i'w cynorthwyo. O'r diwedd dyfalant pa fodd y gallant ddringo i'r nefoedd a'i dystrywio, neu gael eu haddoli yno fel duwiau. Y fath yw eithafion eu gwallgofrwydd. Y mae Pabyddion o'r cymeriad hwn yn fwy gwallgof nag ereill, am eu bod yn tybied fod nefoedd ac uffern yn ddar-

ostyngedig iddynt, a'u bod yn gallu maddeu pechodau pobl fel y mynont. Ymhonant bob priodoledd ddwyfol, galwant eu hunain yn Grist; eu coel fod hyn oll yn wir sydd mor gryf, fel pa le bynag y llifa i fewn, aflonydda feddyliau gan eu tywyllu yn boenus. Y mae yr ysbrydion hyn yn dra thebyg yn y ddwy ystâd, ond yn yr ail y maent yn amddifad o resymoldeb. Am eu gwallgofrwydd, a'u tynged wedi myned trwy yr ail ystâd ceir rhai manylion yn y llyfr bychan am Y Farn Ddiweddaf a Dinystr Babilon. Y rhai a briodolent y Greadigaeth i natur, ac fel canlyniad a wadent y Duwdod yn eu calonau, er nad â'r gwefusau, ac felly a wadent bob peth perthynol i'r nefoedd a'r Eglwys, yn yr ystâd hon ymgysylltant mewn cymdeithas â rhai tebyg iddynt eu hunain, ac unrhyw un ragora ar ereill mewn cyfrwysdra, galwant ef yn dduw, gan roddi iddo addoliad dwyfol. Gwelais rai o honynt gyda'u gilydd yn addoli dewin, yn dadleu yn nghylch natur, ac yn ymddwyn mor ddireswm a phe byddent fwystfilod mewn ffurf ddynol. Eto, yn mysg y rhai hyn y mae rhai fuont mewn swyddau uchel ac anhrydeddus yn y byd, ac a fuont enwog am eu dysg a'u doethineb. Felly mewn engreifftiau ereill. Oddiwrth yr ychydig esiamplau hyn gellir casglu beth yw ansawdd y rhai y mae eu mewnolion, perthynol i'r meddwl, yn gauedig tua'r nefoedd, fel y maent gyda phawb na dderbynient unrhyw ddylifiad o'r nefoedd, trwy gydnabod y Duwdod, a thrwy fywyd o ffydd. Gall pob un farnu o hono ei hunan pa beth a fuasai efe, pe o'r fath gymeriad, ac yn rhydd i weithredu heb ofn y gyfraith, neu golli bywyd, neu niweidio ei enw da, neu fforffetu ei anrhydedd, neu ei elw, neu y pleserau dardd o honynt. Er hyny, rhoddir attalfeydd ar wallgofrwydd y fath ysbrydion a hyn gan yr Arglwydd, fel na ruthront dros derfynau defnyddioldeb; canys attebir rhyw amcan defnyddiol gan bob ysbryd hyd yn oed o'r cymeriad hwn. Gwel ysbrydion da ynddynt beth yw drwg, a pheth yw ei natur, a pheth fuasai dyn pe heb gael ei arwain gan yr Arglwydd. Gwnant les hefyd trwy gydgynull yr holl ysbrydion tebyg, a'u gwahanu oddiwrth y rhai da: ac hefyd fod y gwirionedd a'r daioni fuont yn ffugio yn yr allanolion yn cael eu cymeryd oddiwrthynt, a hwythau yn cael eu harwain i ddrygau eu bywyd eu hunain, ac i gyfeiliornadau eu drygau, ac felly i gael eu parotoi i uffern. Nid oes neb yn myned i uffern hyd oni fyddo yn ei ddrwg ei hun a'i gyfeiliornadau, am na chaniateir i neb yno gael meddwl rhanedig, neu feddwl a siarad un peth ac ewyllysio peth arall. Rhaid i bob ysbryd drwg yno feddwl yr hyn sydd gyfeiliornus yn tarddu o'i ddrwg, a llefaru o'r cyfeiliornad hwnw; ond ei feddwl a'i leferydd a ddeilliant o'i ewyllys, ac am hyny o'i wir gariad gyda'i fwyniant a'i bleser, fel pan yn y byd, pan feddyliai yn ei ysbryd, neu ynddo ei hunan, pan dan ddylanwad





serch mewnol. Y rheswm yw, oblegid mai yr ewyllys yw y dyn ei hun, ac nid y meddwl, ond mor bell y cyfranoga o'r ewyllys: a'r ewyllys yw gwir natur neu dueddfryd y dyn: fel mai cael ei ollwng i'w ewyllys yw cael ei ollwng i'w wir natur neu dueddfryd, ac hefyd i'w fywyd ei hun; canys dyn a sicrha iddo ei hun natur yn ol yr hyn yw ei fywyd, ac erys ar ol angeu o'r un ansawdd a'r natur a sicrhaodd iddo ei hun yn y byd; yr hon nas gall y drygionus ei gwella na'i chyfnewid ar ol angeu trwy feddwl na thrwy ddeall y gwirionedd.

509. Yn yr ail ystâd hon ysbrydion drwg a ruthrant i droseddau o bob math, am hyny cânt eu cospi yn aml a llym. Y mae llawer math o gosbau yn myd yr ysbrydoedd, ac nid oes bartïaeth yno, pa un ai gwas neu frenin fu y troseddwr yn y byd: gan fod pob drwg yn dwyn ei gosp ganddo, am eu bod yn gysylltiedig â'u gilydd, gan hyny, yr hwn sydd mewn drwg sydd hefyd yn nghospedigaeth ei ddrwg. Er hyny, ni chospir neb yno am droseddau a gyflawnodd yn y byd, ond cospir ef yn unig am y troseddau a gyflawna yno. Ond nid oes wahaniaeth pa un a ddywedir fod y drygionus yn cael eu cospi am eu troseddau yn y byd hwn, neu am y troseddau gyflawnant yn y byd arall: oblegid fod pob un ar ol angeu yn dychwelyd i'w fywyd ei hun, ac felly i ddrygau tebyg, canys y mae cymeriad yr ysbryd yn aros yr un (gwel r. 470—484). Cospir ysbrydion drwg, oblegid yn yr ystâd hon ofn cosb yw yr unig foddion i ddarostwng eu drygau: nid yw cynghor, nac addysg, nac ofn y gyfraith, na cholli parch, o unrhyw les, am fod yr ysbryd yn awr yn gweithredu o'i natur ei hun, yr hon nas gellir ei hatal na'i thori ond trwy gosbau. Ond nid yw ysbrydion da byth yn cael eu cosbi, er iddynt gyflawni pechodau yn y byd, am nad yw eu drygau yn dychwelyd. Datguddiwyd i mi hefyd fod eu drygau o natur wahanol; nad ydynt yn cael eu cyflawni oddiar unrhyw fwriad croes i'r gwirionedd, nac o galon ddrwg, ond o'r drwg dderbyniant yn etifeddol o'u rhieni; a'u bod yn syrthio i bechod trwy fagl pleser dall, pan fyddont mewn allanolion ar wahan a'r mewnolion.

510. Daw pob un i'w gymdeithas ei hun, yn yr hon yr oedd ei ysbryd pan ydoedd yn byw yn y byd; canys y mae pob dyn yn gysylltiedig â rhyw gymdeithas yn y nef neu yn uffern; y dyn drwg sydd gysylltiedig â chymdeithas yn uffern, a'r dyn da â chymdeithas yn y nefoedd; a phob un a ddychwel i'w gymdeithas ei hun ar ol angeu, fel y gwelir yn r. 438. Dygir yr ysbryd i'r gymdeithas hon o radd i radd, nes o'r diwedd yr â i fewn iddi. Pan fyddo ysbryd drwg yn ystâd ei fewnolion, try yn raddol tuag at ei gymdeithas ei hun, ac o'r diwedd yn uniongyrchol tuag atti cyn gorphen yr ystâd hon; yna teifl ei hun i'r uffern lle y mae ei debyg; a phan deifl ei hun o'i wirfodd yno, ymddengys fel un yn

cwympo bendramwngl—a'i ben i lawr a'i draed i fynu. Ymddengys fel hyn am ei fod yn gwrthdroi trefn, trwy garu pethau uffernol a gwrthod pethau nefol. Rhai ysbrydion drwg yn yr ail ystâd a ânt i'w huffernoedd ac a ddeuant allan drachefn, ond nid ymddengys y rhai hyn yn cwympo a'u penau i lawr, fel y gwnant wedi eu llwyr ddifuddio o bob cywirdeb a daioni. Y gymdeithas yr oeddynt ynddi o ran eu hysbryd, a ddangosir iddynt hefyd pan yn ystâd eu hallanolion, fel y gwypont mai yn uffern yr oeddynt pan yn byw yn y corff: ond nid oeddynt yn yr un ystâd a'r rhai yn uffern ei hun, ond mewn ystâd debyg i rai yn Myd yr Ysbryd-oedd; am yr ystâd hon mewn cydmariaeth i ystâd y rhai sydd yn uffern, dywedir rhagor yn fuan.

511. Ysgerir ysbrydion drwg a da oddiwrth eu gilydd yn yr ail ystâd hon. Yn yr ystâd gyntaf trigent yn nghyd, oblegid pan y mae ysbryd yn ei allanolion, y mae efe fel pan oedd yn y byd, lle y mae y drwg yn cymdeithasu â'r da, a'r da â'r drwg: ond gwahanol yw pan ddygir ef i'w fewnolion, a'i adael i'w natur neu ei ewyllys ei hun. Ysgerir y drwg a'r da oddiwrth eu gilydd mewn amryw ffyrdd. Arferir eu harwain at y cymdeithasau y buont mewn cymundeb â hwy trwy feddyliau a serchiadau da yn eu hystâd gyntaf, ac felly a hudwyd ganddynt trwy ymddangosiad o ddaioni, i gredu nad oeddynt mewn drwg. Fynychaf arweinir hwy o amgylch Cylch eang, a dangosir eu gwir gymeriad yn mhob rhan o hono i'r ysbrydion da. Wrth eu gweled, yr ysbrydion a droant ymaith, ac wrth eu bod yn troi, yr ysbrydion drwg a droant eu gwynebau oddiwrthynt hwythau ac a edrychant i'r parth lle y mae y gymdeithas uffernol y maent ar fyned iddi. Gellid nodi llawer dull arall o ysgaru.

### Trydedd Ystad Dyn ar ol Angeu, sef Ystad Addysg y rhai a ant i'r Nefoedd.

512. Trydedd Ystâd dyn, neu ei ysbryd, ar ol angeu, sydd ystâd addysg. Darperir yr ystâd hon i'r rhai a ânt i'r nefoedd ac a ddeuant yn angylion, ond nid i'r rhai a ânt i uffern, oblegid nas gellir eu haddysgu hwy. Eu hail ystâd yw eu trydedd hefyd, a therfyna trwy eu bod yn llwyr droi at eu cariad eu hunain, ac felly at y gymdeithas hono yn uffern sydd yn yr un cariad. Pan gymer hyn le, meddyliant ac ewyllysiant o'r cariad hwnw; a chan fod y cariad hwnw yn uffernol, ni ewyllysiant ddim ond drwg, ac ni feddyliant ddim ond cyfeiliornad, dyna eu pleserau, oblegid eu bod yn wrthrychau eu cariad. Gwrthodant bob daioni a gwirionedd a ffugient gynt er cyrhaedd amcanion eu cariad. Y rhai da a ddygir o'r ail ystâd i'r drydedd, sef yr ystâd i barotoi i'r nefoedd trwy addysg: canys nis gall neb ddyfod yn barod i'r nefoedd ond trwy wybodaeth o ddaioni a gwirionedd, hyny yw,





trwy addysg: gan nas gall neb wybod beth yw daioni ysbrydol a gwirionedd, na natur pethau croes iddynt, sef drwg a chyfeilionad, heb ddysg. Gellir gwybod yn y byd beth yw daioni a gwirionedd gwladol a moesol, neu uniondeb a diwylledd, oblegid fod deddfau gwladol yn dysgu uniondeb, a chymdeithas yn arwain dynion i fyw yn ol y ddeddf foesol, yr hon a gyfeiria drwyddi at ddidwylledd ac uniondeb: ond ni ddysgir daioni a gwirionedd ysbrydol o'r byd, ond o'r nefoedd. Gellir gwybod am danynt, y mae yn wir, o'r Gair, ac oddiwrth athrawiaeth yr Eglwys yn tarddu o'r Gair, ond nis gallant lifo i'r bywyd, oddieithr fod dyn yn y nefoedd o ran mewnolion ei feddwl; ac y mae dyn yn y nefoedd pan fyddo yn cydnabod y Duwdod, ac ar yr un pryd yn gweithredu yn uniawn a didwyll oddiar argyhoeddiad y dylai wneyd hyny oblegid fod y Gair yn gofyn; yna bydd ei uniondeb a'i ddidwylledd yn deilliaw o barch i'r Duwdod, ac nid oddiar gariad ato ei hun a'r byd. Nis gall neb weithredu fel hyn heb yn gyntaf gael ei ddysgu fod Duw; fod nefoedd ac uffern; fod bywyd ar ol angeu; y dylai dyn garu Duw uwchlaw pob peth, a'i gymydog fel efe ei hun; ac y dylai gredu beth bynag sydd ddatguddiedig yn y Gair, oblegid fod y Gair yn Ddwyfol. Heb wybod a chydnabod y gwirioneddau hyn nis gall dyn feddwl yn ysbrydol; ac os na feddylia am danynt, nis gall eu hewyllysio; nis gall dyn feddwl am y peth na ŵyr, a'r peth nas gall feddwl am dano nis gall ei ewyllysio. Pan fyddo dyn gan hyny yn ewyllysio y gwirioneddau hyn, y nefoedd, sef yr Arglwydd drwy y nefoedd, a lifa i'w fywyd: canys efe a lifa i'r ewyllys, a thrwy yr ewyllys i'r meddwl, a thrwy y naill a'r llall i'r bywyd—holl fywyd dyn a ddeillia o'i feddwl a'i ewyllys. Felly, amlwg yw nad yw daioni a gwirionedd ysbrydol yn cael eu dysgu o'r byd, ond o'r nefoedd, ac nas gellir parotoi neb i'r nefoedd ond trwy addysg. Yr Arglwydd a ddysg bob un i'r graddau y llifa i'w fywyd: canys i'r graddau hyny y tania yn ei ewyllys gariad i wybod gwirioneddau, ac y goleua ei ddeall i'w hadwaen. Pan gymer y pethau hyn le, agorir mewnolion dyn; plenir y nefoedd ynddynt; a llifa egwyddor nefolaidd a dwyfol i ddidwylledd ei fywyd moesol, ac i uniondeb ei fywyd gwladol, gan eu gwneyd yn ysbrydol; oblegid ei fod yn awr yn gweithredu oddiar egwyddor ddwyfol, sef o barch i'r Duwdod. Didwylledd ac uniondeb bywyd moesol a gwladol, yn llifo o'r ffynonell hon, ydynt effeithiau bywyd ysbrydol: ac y mae yr effaith yn derbyn yr oll sydd ynddo o'r achos effeithiol; canys fel y mae yr achos y mae yr effaith.

513. Rhoddir addysg gan angylion llawer o gymdeithasau, ond yn benaf gan rai yn y parthau gogleddol a deheuol, oblegid eu bod hwy yn nodedig mewn deall a doethineb, yn tarddu oddiar wybodaeth o ddaioni a gwirionedd. Y lleoedd addysg sydd tua'r

gogledd, ac y maent o amryw fathau wedi eu trefnu a'u gwahaniaethu yn ol rhywogaeth gyffredinol a neillduol daioni nefol, fel y gall pob un gael ei addysgu yn ol ei athrylith neillduol ei hun, a'i allu i dderbyn; ac ymestynant yn mhob cyfeiriad i bellder dirfawr. Yr ysbrydion da sydd i gael eu haddysgu a gânt eu harwain yno gan yr Arglwydd, wedi iddynt fyned trwy yr ail ystâd yn Myd yr Ysbrydoedd: ond nid pawb, canys y rhai a ddysgant yn y byd a barotoir yno hefyd gan yr Arglwydd i'r nefoedd, ac a gymerir i'r nefoedd ffordd arall. Rhai o honynt a ânt i'r nefoedd yn uniongyrchol ar ol marw; rhai, wedi arosiad byr gydag ysbrydion da, yn mhlith y rhai y collant eu meddyliau a'u serchiadau cwrs, yn codi o'u parch a'u golud yn y byd, ac felly y cânt eu puro; ereill a gânt eu diosg o'u drygau mewn lleoedd o dan wadnau y traed, a elwir y ddaear isod: aiff rhai o honynt yno trwy boenau ingol, sef y rhai fuont yn cadarnhau eu hunain mewn cyfeiliornadau, ac eto yn arwain bywyd da; oblegid pan gadarnheir cyfeiliornadau, glynant yn y modd cyndynaf, ac nis gellir gweled na derbyn gwirioneddau nes eu gwasgar. Am yr amrywiol ffyrdd i'w gwasgar a phuro ysbrydion, cyfeirir y darllenydd at ranau lluosog yn yr Arcana Coeslestia.

514. Pawb mewn lleoedd addysg a breswyliant yn ddosbarthiadau gwahanol, am fod pob un o honynt yn gysylltiedig o fewn â chymdeithas nefol y bydd ynddi yn fuan; a chan fod cymdeithasau y nefoedd wedi eu trefnu yn ol ffurf y nefoedd (gwel uchod, r. 200, 212), felly hefyd y lleoedd lle rhoddir addysg. Pan welir hwynt o'r nefoedd ymddangosant fel y nefoedd ei hun mewn ffurf lai, yn ymestyn ar hyd, o'r dwyrain i'r gorllewin, ac mewn lled o'r deheu i'r gogledd: ond y lled sydd lai i bob ymddangosiad na'r hyd. Y drefn gyffredinol sydd yn y modd yma: o'r tu blaen y mae y rhai fuont feirw pan yn blant, ac a gawsant eu haddysgu yn y nefoedd hyd adeg ieuenctyd; wedi gorphen gyda'u hathrawesau, dygir hwynt yma gan yr Arglwydd i gael eu dysgu. Tu ol iddynt yr addysgir rhai fuont feirw mewn oed, ac yn meddu cariad at y gwirionedd yn codi o fywyd da pan yn y byd. Tu ol i'r rhai hyn y mae canlynwyr Mahomet, a fuont byw yn foesol yn y byd, yn cydnabod un Person Dwyfol, ac yn credu fod yr Arglwydd yn Broffwyd Mawr. Pan dynant oddiwrth Mahomet, am nas gall eu cynorthwyo, dynesant at yr Arglwydd, addolant Ef, cydnabyddant ei Dduwdod, ac yna addysgir hwynt yn y grefydd Gristionogol. Tu ol i'r rhai hyn, a mwy i'r gogledd, y mae lleoedd addysg i'r Cenhedloedd fuont byw yn dda yn y byd mewn cydymffurfiad â'u crefydd, ac a ddaethant felly i feddu cydwybod i'w cymhell i weithredu yn gyfiawn ac uniawn, nid yn gymaint mewn ufudd-dod i ddeddfau eu gwlad ac i ddeddfau crefydd, y rhai gredant ddylent gael eu cadw yn santaidd a





dihalog. Y rhai hyn oll pan ddysgir hwynt, a arweinir yn rhwydd i gydnabod yr Arglwydd, oblegid fod yn argraffedig yn eu calonau, nad yw Duw yn anweledig, ond yn weledig mewn ffurf ddynol. Y rhai hyn sydd liosocaf, a'r goreu o honynt sydd o Affrica.

515. Ni addysgir pawb yn yr un modd, na chan angylion o gymdeithasau nefol tebyg. Y rhai fagwyd yn y nefoedd o'u mabandod, a addysgir gan angylion y nefoedd fewnol: oblegid na choleddasant gyfeiliornadau oddiwrth egwyddorion crefydd gau, ac na chawsant eu halogi gan egwyddorion cwrs yn codi o anrhydedd a golud yn y byd. Y rhai sydd yn marw mewn oed, a ddysgir rhan amlaf, gan angylion y nefoedd isaf, am fod yr angylion hyny yn gweddu yn well iddynt nag angylion y nefoedd fewnol, y rhai sydd mewn doethineb fewnol nas gallant hwy eto ei derbyn; ond Mahometaniaid a addysgir gan angylion fuont unwaith o'r un grefydd, ac a drowyd at Gristionogaeth. Cenhedloedd, hefyd, a addysgir gan angylion fuont fel hwythau.

516. Pob addysg a gyfrenir yno trwy athrawiaeth yn tarddu o'r Gair, ac nid trwy y Gair heb athrawiaeth. Addysgir Cristionogion trwy yr athrawiaeth o'r nefoedd, yr hon sydd yn cytuno yn berffaith âg ystyr fewnol y Gair. Mahometaniaid a Chenhedloedd a gânt eu dysgu trwy athrawiaethau addas i'w hamgyffredion, yn gwahaniaethu oddiwrth athrawiaeth y nefoedd yn unig yn hyn, eu bod yn dysgu bywyd ysbrydol trwy fywyd moesol, yn gytun â daliadau eu crefydd, o'r hon y ffurfiasant eu bywyd yn y byd.

517. Addysg yn y nefoedd a wahaniaetha oddiwrth addysg ar y ddaear yn hyn, fod gwybodaeth yno yn cael ei hargraffu, nid ar y côf, ond ar y bywyd; côf ysbrydion yw eu bywyd, oblegid derbyniant ac yfant bob peth cytunol â'u bywyd, ond ni dderbyniant ac ni yfant ddim anghytunol: canys serchiadau yw ysbrydion mewn ffurf ddynol gyfatebol. Am hyny ysbrydolir hwynt yn barhaus â chariad at wirionedd er mwyn byw yn ddefnyddiol. Canys darpara yr Arglwydd fod pob un yn caru y defnyddioldeb cydnaws a'i athrylith; y cariad hwn hefyd a angerddolir gan y gobaith o fod yn angel. Gan fod pob defnyddioldeb yn y nefoedd yn perthyn i'r daioni cyhoedd, sef daioni Teyrnas yr Arglwydd, yr hon yn y byd hwnw yw eu gwlad; a chan fod pob defnyddioldeb neillduol ac unigol yn ardderchog i'r graddau y byddo yn perthyn yn agos a chyflawn i'r daioni cyhoedd: y canlyniad yw fod pob defnyddioldeb neillduol ac unigol, y rhai sydd aneirif, yn dda a nefolaidd. Y mae cariad at wirionedd gan hyny yn mhob un, yn gysylltiedig â chariad at ddefnyddioldeb, a hyny mor agos, fel y gweithredant yn un, ac fel hyn y mae y gwirionedd yn blanedig mewn defnyddioldeb, a gwirioneddau defnyddioldeb yw y gwirioneddau a ddysgant. Yn y modd hwn yr addysgir ysbrydion angylaidd, ac y parotoir hwynt i'r nefoedd.

Cariad at wirionedd cyfaddas i'w defnyddioldeb a gyfrenir iddynt trwy amryw foddion, y rhan amlaf o honynt yn anhysbys yn y byd; yn neillduol trwy arddangosiadau o ddefnyddioldeb, yn cael eu cynyrchu yn y byd ysbrydol mewn mil o ffyrdd, gyda'r fath deimladau hyfryd a phleserus, nes treiddio yr ysbryd, o'i fewnolion perthynol i'w feddwl, i'w allanolion perthynol i'w gorff, gan effeithio arno oll. Bydd yr ysbryd fel hyn yn ei ddefnyddioldeb ei hun: ac felly pan â i'w gymdeithas ei hun, i'r hon yr arweinir ef gan y cwrs hwn o addysg, bydd efe yn ei fywyd ei hun pan yn cyflawni ei ddefnyddioldeb ei hun. Oddiwrth y sylwadau hyn, eglur yw, nad yw gwybodaeth, sef gwirioneddau allanol, yn arwain neb i'r nefoedd, ond y bywyd, sef bywyd o ddefnyddioldeb, yn cael ei blanu trwy wybodaeth.

518. Rhai ysbrydion, oddiwrth eu syniadau blaenorol yn y byd, a goeliant y caent fyned i'r nefoedd, a'u derbyn o flaen ereill, oblegid eu bod yn ddynion dysgedig, ac yn meddu swm mawr o wybodaeth o'r Gair, ac o athrawiaethau eu Heglwysi. Credent gan hyny eu bod yn ddoethion, ac mai am danynt hwy y dywedir, "Disgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen, ac fel y sêr byth ac yn dragywydd," Dan. xii. 3. Ond cawsant eu chwilio er sicrhau pa un ai yn eu côf, neu yn eu bywyd yr oedd eu gwybodaeth; a'r rhai a goleddent wir gariad at y gwirionedd, sef cariad er mwyn amcanion defnyddiol, yn annibynol a'r ddybenion corfforol a bydol, ac felly yn ysbrydol—derbyniwyd hwy i'r nefoedd wedi eu haddysgu, a rhoddwyd iddynt i wybod mai y Gwirionedd Dwyfol ddisgleiria yn y nef: canys Y Gwirionedd Dwyfol yw goleuni y nefoedd, yn ymgorffoli mewn defnyddioldeb, yr hyn sydd yn derbyn pelydrau y goleuni, gan eu troi i amryw liwiau ardderchog. Ond y rhai oedd a'u gwybodaeth yn y côf yn unig, ac na feddent ond gallu i resymu am y gwirionedd, a chadarnhau pob syniad a gymerent i fynu fel egwyddor gyntaf, nid oeddynt yn unrhyw oleuni nefol, er credu o honynt, oddiar ymchwydd y fath wybodaeth, eu bod yn fwy dysgedig nag ereill, ac y dylent gan hyny gael myned i'r nefoedd, a'r angylion i weini arnynt. Er eu gwared oddiwrth y fath ffydd ynfyd, cymerwyd hwynt i fynu i'r nefoedd gyntaf, neu isaf, fel y gallent fyned i ryw gymdeithas angylaidd. Ond gyda eu bod yn y porth, dechreuodd eu llygaid dywyllu trwy ddylifiad goleuni y nefoedd, aeth eu deall yn gymysglyd, ac o'r diwedd dyheuent am eu hanadl, fel pe yn ing angeu. Gwres y nefoedd hefyd, sef y cariad nefol, a'i tarawodd â dirdyniadau mewnol, am hyny, cymerwyd hwynt i lawr drachefn, ac addysgwyd hwynt nad yw gwybodaeth yn gwneyd angel, ond y bywyd geir trwy wybodaeth: oblegid fod gwybodaeth wrthi ei hun tuallan i'r nefoedd, ond y bywyd geir trwyddi tufewn i'r nefoedd.

519. Wedi i ysbrydion gael eu parotoi i'r nefoedd trwy addysg yn y lleoedd a nodwyd, yr hyn a wneir ar fyrder, oblegid eu bod yn meddu syniadau ysbrydol yn cynwys llawer o bethau ar unwaith, gwisgir hwynt â gwisgoedd angylaidd, gwynion gan mwyaf fel llian main, a dygir hwynt i'r ffordd yn arwain i fynu i'r nefoedd; yna gadewir hwynt yn ngofal angylion a wyliant y ffordd; wedi hyny derbynir hwy gan angylion ereill, a dygir hwy i amryw gymdeithasau, lle y derbyniant lawer o hyfrydwch; ac o'r diwedd, arweinir pob un i'w gymdeithas ei hun gan yr Arglwydd. Gwneir hyn drwy eu harwain trwy amryw ffyrdd, weithiau yn droellau dyrys, ac anhysbys i bob angel, ond i'r Arglwydd yn unig. Pan ânt i'w cymdeithas eu hun, agorir eu mewnolion, a chan eu bod fel mewnolion yr angylion yn y gymdeithas hono, cydnabyddir a derbynir hwynt gan hyny ar unwaith ac mewn llawenydd.





520. Nodaf un peth neillduol perthynol i'r ffyrdd yr esgyna angylion newydd ar hyd-ddynt o'r lleoedd addysg i'r nefoedd. Y mae wyth o Ffyrdd, dwy o bob lle addysg, un yn esgyn tua'r dwyrain, a'r llall tua'r gorllewin. Y rhai a ânt i Deyrnas Nefol yr Arglwydd a ddygir i fewn trwy y ffordd ddwyreiniol; ond y rhai a ânt i'r Deyrnas Ysbrydol a ddygir i fewn trwy y ffordd orllewinol. Y pedair ffordd a arweiniant i Deyrnas Nefol yr Arglwydd a ymddangosant yn addurnedig âg olew-wydd a choed ffrwythau o amryw fathau; ond y rhai a arweiniant i'w Deyrnas Ysbrydol â gwinwydd a llawryf. Tardda hyn mewn cyfatebiaeth, oblegid fod gwinwydd a llawryf yn cyfateb i gariad at wirionedd a'i ddefnyddioldeb: tra olew-wydd a choed ffrwythau yn cyfateb i gariad at ddaioni a'i ddefnyddioldeb.

### Nad oes Neb yn myned i'r Nefoedd trwy Weithred o Drugaredd Ddiamodol.

521. Y rhai nad oes ganddynt wybodaeth iawn am y nefoedd, y ffordd i'r nefoedd, a bywyd y nefoedd mewn dyn, a dybiant fod derbyniad i'r nefoedd yn rodd trugaredd rad i rai yn meddu ffydd, a thros y rhai y mae yr Arglwydd yn eiriol. Credant gan hyny mai ffafr yn unig yw derbyniad, ac y gellid cadw pob dyn yn ddieithriad pe yr ewyllysiai yr Arglwydd; a thybia rhai y gellid achub pawb yn uffern hefyd. Ond dengys hyn eu hanwybodaeth hollol o wir natur dyn, sef ei fod yn gyfangwbl yr un peth a'i fywyd; fod ei fywyd yr un peth a'i gariad, nid yn unig o ran y mewnolion perthynol i'r ewyllys a'r deall, ond o ran ei allanolion perthynol i'r corff; ac nad yw y ffurf gorfforol, ond ffurf allanol yn dangos y mewnolion fel achos yn yr effaith, ac o ganlyniad mai ei gariad ei hun yw yr holl ddyn (gwel uchod, r. 363). Ni ŵyr y fath ddynion chwaith nad yw y corff yn byw o hono ei hun, ond o'r ysbryd, mai ysbryd dyn yw ei gariad ei hun, ac nad yw

ei gorff ysbrydol ddim ond ei gariad mewn ffurf ddynol, yn dyfod i'r golwg ar ol marw (gwel uchod, r. 453—460). Cyhyd y byddo y gwirioneddau hyn yn anhysbys, gall dyn gredu mai gweithred ddiamodol o ewyllys da yr Arglwydd yw Iachawdwriaeth, yn cael ei galw yn drugaredd a gras.

522. Ond dangosir yn gyntaf beth yw Dwyfol Drugaredd. Dwyfol Drugaredd yw Trugaredd bur yr Arglwydd yn ceisio achub yr holl hîl ddynol. Y mae yn bresenol o hyd gyda phob dyn i'r amcan hwn, heb gilio byth, fel yr achubir pawb y gellir eu hachub. Ond nis gellir achub neb ond trwy foddion dwyfol datguddiedig gan yr Arglwydd yn y Gair. Moddion dwyfol yw gwirioneddau dwyfol ddysgant ddyn pa fodd i fyw fel yr achuber ef. Trwyddynt yr arweinia yr Arglwydd ddyn i'r nefoedd, gan blanu bywyd y nefoedd ynddo, ac Efe a wna hyn â phawb. Ond nis gellir planu bywyd y nefoedd yn unrhyw un, heb iddo ymwrthod â'r drwg, oblegid fod y drwg yn gwrthwynebu bywyd y nefoedd. I'r graddau, gan hyny, y gwna dyn ymwrthod â'r drwg, yr arweinia yr Arglwydd ef o'i bur drugaredd, trwy foddion dwyfol, o fabandod hyd ddiwedd bywyd yn y byd, ac wedi hyny i dragwyddoldeb. Dyma y Ddwyfol Drugaredd, ac felly amlwg yw fod Trugaredd yr Arglwydd yn drugaredd bur, ac nad trugaredd ddiamodol yw yn gallu achub pawb o ewyllys da, beth bynag fyddo eu bywyd.

523. Nid yw yr Arglwydd byth yn gweithredu yn groes i drefn, oblegid mai Trefn ei hun yw Efe. Y Gwirionedd Dwyfol yn deilliaw o'r Arglwydd sydd yn gwneyd trefn, a gwirioneddau dwyfol yw deddfau trefn, yn ol y rhai yr arweinia yr Arglwydd ddyn. Achub dyn gan hyny trwy drugaredd uniongyrchol sydd groes i Ddwyfol Drefn, a'r hyn sydd groes i Ddwyfol Drefn, sydd groes i'r Bôd Dwyfol ei hun. Dwyfol Drefn yw y nefoedd yn y dyn, ond gwyrodd dyn y drefn hono ynddo ei hun trwy fywyd croes i'w deddfau, sef gwirioneddau dwyfol; ond dug yr Arglwydd ef yn ol drachefn o'i bur drugaredd, trwy ddeddfau trefn: i'r graddau y dygir ef yn ol y derbynia y nefoedd ynddo ei hun; a'r hwn sydd a'r nefoedd ynddo a â i'r nefoeddd ar ol marw. Felly eto, amlwg yw, fod Dwyfol Drugaredd yr Arglwydd yn bur drugaredd, ond nid trugaredd ddiamodol.

524. Pe gellid achub dyn trwy drugaredd ddiamodol, achubid pawb, hyd yn oed yr uffernolion, ac ni fyddai uffern; oblegid fod yr Arglwydd yn Drugaredd ei hun, Cariad ei hun, a Daioni ei hun. Dweyd fod yr Arglwydd yn abl i achub pawb, ac nad yw yn eu hachub, yw dweyd yn erbyn ei Natur Ddwyfol, oblegid hysbys yw o'r Gair, fod yr Arglwydd yn ewyllysio achub pawb, ac nad yw yn hoffi damnio neb.

525. Y rhan amlaf, ddeuant i'r byd arall o'r byd Cristionogol,





a gredant eu bod i gael eu hachub trwy drugaredd ddiamodol: canys gweddiant am y cyfryw drugaredd, ac wrth eu chwilio, ceir eu bod yn tybied, mai dim ond myned i fewn i'r nefoedd sydd ddigonol i'w mwynhau yn eu holl llawenydd: gan fod yn hollol anwybodus beth yw y nefoedd a'i lawenydd. Am hyny dywedwyd wrthynt nad yw yr Arglwydd yn gwrthod y nefoedd i neb, ac y gallant fyned iddi os carant, ac aros yno cyhyd ag yr ewyllysiant. Yna, y rhai a ddymunant a gânt fyned i fewn, ond mor fuan ag y dynesant at y trothwy, teimlant ingoedd calon wrth anadlu gwres y nefoedd, sef cariad yr angylion, ac oddiwrth ddylifiad goleuni nefol, sef y Dwyfol Wirionedd, fel y teimlant boenau uffernol yn lle llawenydd nefol, a thaflant eu hunain i lawr yn bendramwngl. Felly y dysgir hwynt trwy brofiad byw nas gellir rhoddi mwyniant y nefoedd i neb trwy drugaredd ddiamodol.

526. Bum weithiau yn siarad â'r angylion ar y mater hwn, ac yn dweyd wrthynt, fod y rhan amlaf sydd yn byw yn ddrwg yn y byd wrth siarad âg ereill am y nefoedd a bywyd tragwyddol, yn dangos nad oes ganddynt un syniad am fyned i'r nefoedd ond trwy drugaredd yn unig; a bod y gred hon yn ffynu yn benaf yn mhlith y rhai a wnant ffydd yn unig amod iachawdwriaeth: canys ni thalant sylw i fywyd cyson âg egwyddorion cyntaf crefydd, nac i weithredoedd cariad a'u cyfansoddant, nac o ganlyniad i unrhyw foddion arall, trwy y rhai y plana yr Arglwydd y nefoedd yn y dyn, a'i alluogi i fwynhau llawenydd nefol; a chan eu bod fel hyn yn gwrthod pob moddion parotoad i'r nefoedd, daliant yn unol a'u hegwyddorion, fod dyn yn myned i'r nefoedd o drugaredd yn unig, a bod Duw y Tad yn cael ei gyffroi i fod yn drugarog trwy eiriolaeth y Mab. Yr angylion a attebent, y gwyddant y rhaid i'r fath goel ganlyn y dybiaeth fod dyn yn cael ei achub trwy ffydd yn unig, a chan nad yw y fath gred, pen yr oll, yn wir, ceidw allan oleuni y nefoedd, a ffynonell anwybodaeth yw a ffyna yn yr Eglwys heddyw am yr Arglwydd a'r nefoedd a'r bywyd ar ol angeu, a llawenydd nefol, a hanfod cariad, ac yn gyffredinol am ddaioni a'i gysylltiad â gwirionedd, ac o ganlyniad am fywyd dyn, ei darddiad, a'i ansawdd. Am hyny, ni wyddant nad yw ansawdd bywyd dyn yn tarddu o'i feddwl, ond o'i ewyllys a'i waith: ac o'r meddwl yn unig i'r graddau y cyfranoga o'r ewyllys, ac felly nad yw ffydd yn rhoddi unrhyw ansawdd i'r bywyd ond mor bell ag y tardd o gariad. Yr angylion a alarant wrth feddwl fod y rhai a gredant mewn iachawdwriaeth trwy ffydd yn unig, yn anwybodus nas gall ffydd yn unig fodoli, oblegid ffydd heb ei tharddiad, sef cariad, nid yw ond gwybodaeth yn unig. Rhai a ychwanegant ati ryw fath o goel debyg i ffydd (gwel uchod, r. 482), ond nid yw y goel hono tufewn i fywyd dyn ond tu faes iddo, canys y mae ar wahan a'r dyn os nad yw yn glynu wrth ei gariad. Dywedent yn

mhellach am y rhai a goeliant mai ffydd yn unig yw cyfrwng hanfodol iachawdwriaeth dyn, nas gallant lai na chredu mewn trugaredd ddiamodol: oblegid canfyddant trwy oleuni naturiol, a gwelant trwy brofiad, mai nid ffydd yn unig sydd yn gwneyd bywyd dyn, gan y gall y rhai sydd yn byw yn ddrwg feddwl fel y rhai da, a choleddu yr un gred fewnol: oblegid hyn credir y gellir achub y drwg fel y da, os gallant siarad mewn hyder yn awr angen am eiriolaeth yr Arglwydd a'r drugaredd drwyddo. Dywedai yr angylion na welsant neb erioed wedi byw yn ddrwg yn y byd yn cael ei dderbyn i'r nefoedd trwy weithred o drugaredd ddiamodol, pa faint bynag a siaradai yn y byd oddiar yr ymddiriedaeth a olygir yn neillduol wrth ffydd. Pan ofynwyd iddynt, ai ni dderbyniwyd Abraham, Isaac, Jacob, Dafydd, a'r apostolion i'r nefoedd trwy drugaredd ddiamodol. Attebasant, Dim un o honynt, ond fod pob un o honynt wedi eu derbyn yn ol eu bywyd yn y byd; y gwyddant pa le y maent; ac na pherchir hwynt yno yn fwy nag ereill. Dywedent mai y rheswm dros wneyd y fath goffa parchus o honynt yn y Gair yw, eu bod yn yr ystyr fewnol yn dangos yr Arglwydd. Fod Abraham, Isaac, a Jacob yn dangos yr Arglwydd o ran ei Ddwyfoldeb a'i Ddynoliaeth Ddwyfol; Dafydd a ddengys yr Arglwydd o ran ei Ddwyfoldeb Breninol; yr apostolion a ddangosant yr Arglwydd o ran gwirioneddau dwyfol. Dywedent yn mhellach, nad ydynt hwy yn meddwl o gwbl am y personau hyn pan ddarllenir y Gair gan ddyn, oblegid nad yw eu henwau yn dyfod i'r nefoedd; ond yn eu lle, fel y dywedwyd, meddyliant am yr Arglwydd, ac o ganlyniad yn y Gair sydd yn y nefoedd (gwel uchod, r. 259)—ni sonir am danynt yn unman, oblegid mai ystyr fewnol y Gair sydd yn y byd hwn yw y Gair hwnw.

527. Gallaf dystio oddiar lawer o brofiad nad yw yn bosibl planu bywyd y nefoedd yn y rhai fuont byw yn groes i'r nefoedd yn y byd. Yr oedd rhai a dybient y gallent yn hawdd dderbyn gwirioneddau dwyfol ar ol marw, wrth eu clywed gan angylion, y credent hwynt, ac o ganlyniad y byddent byw yn wahanol, ac y caent felly eu derbyn i'r nefoedd. Rhoddwyd prawf gan hyny ar nifer fawr o honynt, fel y gellid eu hargyhoeddi nad yw edifeirwch yn bosibl ar ol marw. Deallai rhai o honynt y gwirioneddau a glywent, ac ymddangosent yn eu derbyn; ond mor fuan ag y troent at fywyd eu cariad, gwrthodent hwynt, ac hyd yn oed llefarent i'w herbyn. Rhai a'u gwrthodent ar unwaith gan fod yn anfoddlon i'w clywed; ond ereill a ddymunent gael llonydd gan y bywyd unol a'u cariad yn y byd, a chael y bywyd angylaidd neu fywyd y nefoedd yn ei le. Caniatawyd hyn, ond pan gymerwyd ymaith fywyd eu cariad, gorweddent fel yn farw, wedi eu hamddifadu o'u holl alluoedd. Trwy y pethau hyn a phethau ereill,





dysgid y rhai da ac anwybodus nas gellir newid bywyd neb ar ol marw; nas gellir newid bywyd drwg i fod yn dda, na bywyd ysbryd uffernol i fod yn angel: oblegid fod pob ysbryd o'i ben i'w draed o'r un ansawdd a'i gariad, a chan hyny o'r un ansawdd a'i fywyd—trawsnewid ei fywyd croes fuasai ei ddinystrio yn hollol. Dywed yr angylion y buasai yn hawddach newid ystlum i golomen, neu ddylluhan i aderyn paradwys, na newid ysbryd uffernol i angel y nefoedd. Fod dyn ar ol angeu yn parhau yr un peth a'i fywyd yn y byd a welir uchod, r. 470—484. Oddiwrth y pethau hyn, amlwg yw nas gellir derbyn neb i'r nefoedd trwy weithred o drugaredd ddiamodol.

### Nid yw mor Anhawdd, ag y tybia llawer, Byw Bywyd sydd yn Arwain i'r Nefoedd.

528. Tybia rhai mai anhawdd yw byw y bywyd sydd yn arwain i'r nefoedd, sef y bywyd ysbrydol, oblegid y clywant fod yn rhaid iddynt adael y byd, ac amddifadu eu hunain o'r hyn a elwir chwantau y corff a'r cnawd, a byw mewn modd ysbrydol. Wrth hyn y deallant, y rhaid iddynt ymwrthod â phethau bydol, megis golud ac anrhydedd yn benaf; y rhaid iddynt yn barhaus ymgolli mewn myfyrdodau duwiol am Dduw, iachawdwriaeth, a bywyd tragwyddol; ac y rhaid iddynt dreulio eu bywyd mewn gweddi, a darllen y Gair a llyfrau duwiol. Hyn a olygant wrth ymwrthod â'r byd, a byw i'r ysbryd ac nid i'r cnawd. Ond tra gwahanol i hyn yw y gwirionedd ar y pwnc, fel y dangoswyd i mi trwy lawer o brofiad, a thrwy ymddiddan â'r angylion. Oddiwrth hyn y dysgais fod y rhai sydd yn ymwrthod â'r byd ac yn byw i'r ysbryd yn y modd ddarluniwyd, yn dyfod i feddu bywyd pruddaidd nas gall dderbyn llawenydd y nefoedd: ac erys ei fywyd ei hun gyda phob un ar ol marw. Er cymhwyso dyn i dderbyn bywyd y nefoedd, rhaid iddo fyw yn y byd, a chymeryd rhan yn ei waith a'i ddyledswyddau, canys wrth fyw yn foesol a gwladol y derbynia efe fywyd ysbrydol: nid oes ffordd arall i ffurfio bywyd ysbrydol mewn dyn, na pharotoi ei ysbryd i'r nefoedd: canys byw bywyd mewnol heb fywyd allanol ar yr un pryd, sydd fel un yn byw mewn tŷ heb sylfaen, yr hwn yn raddol a sudda i'r llawr, neu a agena ac a hyllt, neu a ogwydda nes syrthio.

529. Wrth gymeryd golwg resymol ar fywyd dyn, gwelir ei fod yn driphlyg, cynwysedig o fywyd ysbrydol, bywyd moesol, a bywyd gwladol, pob un yn wahanol i'w gilydd: canys y mae rhai yn byw bywyd gwladol, heb fywyd moesol ac ysbrydol; ereill yn byw bywyd moesol, heb fywyd ysbrydol; ac ereill yn byw bywyd gwladol, bywyd moesol a bywyd ysbrydol yn un â'u gilydd. Y mae y rhai olaf yn byw bywyd y nefoedd, ond y rhai blaenaf fywyd y byd ar wahan â bywyd y nefoedd. Oddiwrth y pethau

hyn amlwg yw, nad yw y bywyd ysbrydol heb fod cysylltiad rhyngddo a'r bywyd naturiol, neu fywyd y byd, ond fod cysylltiad rhyngddynt, fel rhwng yr enaid a'r corff, a'u gwahanu sydd debyg i un yn byw mewn tŷ heb sylfaen, megis y dangoswyd. Bywyd moesol a gwladol yw maes gweithrediad y bywyd ysbrydol: canys ewyllysio yn dda a berthyn i'r bywyd ysbrydol, a gwneyd yn dda a berthyn i'r bywyd moesol a gwladol; ac heb hyn ni chynwys y bywyd ysbrydol ddim ond meddwl a siarad, a'r ewyllys yn encilio, oblegid nad oes ganddi sail i orphwys arni; ac eto, yr ewyllys yw egwyddor ysbrydol hanfodol dyn.

530. Nad yw mor anhawdd, ag y tybia llawer, byw y bywyd sydd yn arwain i'r nefoedd a welir oddiwrth yr ystyriaethau canlynol:—Pwy na all fyw yn wladol a moesol, gan fod pob un o'i fabandod yn cael ei ddysgu i hyny, ac yn dyfod i wybod y ffordd wrth fyw yn y byd? Y mae pawb hefyd yn byw felly, y drwg fel y da: canys pwy sydd na ddymuna gael ei gyfrif yn ddidwyll ac uniawn? Y mae pawb bron yn ymddangos yn ddidwyll a chyfiawn o'r tuallan, fel y gellid tybied eu bod felly o galon, ac yn ymddwyn oddiar wir ddidwylledd a chyfiawnder. Dylai y dyn ysbrybol wneyd yr un peth, a gall ei wneyd mor rhwydd a'r dyn naturiol, gyda hyn o wahaniaeth: fod y dyn ysbrydol yn credu yn y Duwdod, ac yn gweithredu yn ddidwyll a chyfiawn, nid yn unig oblegid fod deddfau gwladol a moesol yn gofyn hyny, ond o barch i'r Deddfau Dwyfol, oblegid eu bod hwythau yn gofyn hyny hefyd: canys yn ei holl weithredoedd, y dyn ysbrydol a feddylia am y Deddfau Dwyfol, ac felly y mae efe mewn cymundeb âg angylion y nefoedd; ac i'r graddau y byddo yn meddwl a gweithredu felly, y mae efe yn myned yn un â hwynt, a'r dyn mewnol, sef y dyn ysbrydol, a agorir. Pan fyddo dyn yn yr ystâd hon, mabwysiedir ac arweinir ef gan yr Arglwydd, er yn anymwybodol iddo, ac yna bydd didwylledd ac uniondeb ei fywyd moesol a gwladol yn tarddu o ffynonell ysbrydol; a byw yn ddidwyll a chyfiawn o ffynonell ysbrydol, yw gweithredu oddiar wir ddidwylledd ac uniondeb yn y galon. Y mae cyfiawnder a didwylledd y dyn ysbrydol, yn ymddangos o'r tuallan yr un peth a chyfiawnder a didwylledd y dyn anianol, ac hyd yn oed fel eiddo dynion drwg ac ysbrydion uffernol, ond o'r tufewn y maent yn hollol wahanol: canys dynion drwg a ymddygant yn gyfiawn a didwyll er eu mwyn eu hunain a'r byd yn unig; am hyny, pe nad ofnent y gyfraith a'i chosbau, neu golli enw da, anrhydedd, elw, neu fywyd, ymddygent yn y modd mwyaf twyllodrus ac anghyfiawn: oblegid nid ofnant Dduw ac ni pharchant y Ddeddf Ddwyfol, ac felly ni feddant unrhyw attalfa fewnol. Pe symudid attalfeydd allanol, twyllent, lladratent, ac ysbeilient ereill gyda'r awydd a'r pleser mwyaf. Mai y fath yw eu cymeriad mewnol a ymddengys yn





amlwg oddiwrth rai tebyg iddynt yn y byd arall, lle y symudir pethau allanol, ac yr agorir y mewnolion y bydd dynion byw ynddynt am dragwyddoldeb (gwel uchod, r. 499—511); gan eu bod yno yn rhydd oddiwrth attalfeydd allanol, yn gynwysedig, megis y dywedwyd, mewn ofn cyfraith, a cholli cymeriad, anrhydedd, elw, neu fywyd, ymddygant yn wallgof a chwarddant am ben didwylledd ac uniondeb. Ond pan symudir pethau allanol oddiwrth y rhai a ymddygasant yn ddidwyll ac uniawn dan ddylanwad y Deddfau Dwyfol, a phan adewir hwynt i'w mewnolion, ymddygant yn ddoeth: oblegid eu bod yn un âg angylion y nefoedd, oddiwrth y rhai y derbyniant eu doethineb. Oddiwrth y pethau hyn amlwg yw, y gall dyn ysbrydol ymddwyn yn hollol yr un fath a'r dyn anianol mewn pethau gwladol a moesol, ond iddo fod yn un â'r Duwdod o ran y dyn mewnol, sef ei ewyllys a'i feddwl (gwel uchod, r. 358, 359, 360).

531. Y mae deddfau bywyd ysbrydol, gwladol a moesol yn cael eu cyhoeddi yn y deg Gorchymyn. Y pedwar cyntaf a gynwysant ddeddfau bywyd ysbrydol: y pedwar nesaf a gynwysant ddeddfau bywyd gwladol; a'r ddau olaf a gynwysant ddeddfau bywyd moesol. Y mae y dyn anianol yn byw yn ol y gorchymynion hyn yn allanol, yr un modd a'r dyn ysbrydol: canys y mae efe hefyd yn addoli Duw, yn myned i'r cwrdd, yn gwrando pregethau, yn ymddangos yn ddefosiwnol, nid yw yn lladd, nac yn godinebu, na lladrata: nid yw chwaith yn camdystiolaethu nac yn ysbeilio ei gymydog o'i feddianau; ond y mae efe yn cadw oddiwrth y pechodau hyn yn unig er ei fwyn ei hun a'r byd, er mwyn cadw ymddangosiad: o ganlyniad, y mae efe yn fewnol anhebyg i'w ymddangosiad allanol: canys efe a wâd y Duwdod yn ei galon, rhagrithiwr yw yn ei addoliad, a phan adewir iddo ei hun a'i feddyliau ei hun, efe a chwardd am ben pethau sanctaidd yr Eglwys, gan gredu mai eu hunig ddefnyddioldeb ydynt bod yn attalfeydd i'r lliaws difeddwl. Hollol wahan â'r nefoedd yw y fath ddyn, a chan nad yw yn ddyn ysbrydol, nid yw chwaith yn ddyn moesol na gwladol: canys er nad yw efe yn llofruddio, y mae yn casau pob un a'i gwrthwyneba, ac yn llosgi mewn dialedd trwy ysbrydiaeth y fath gasineb: fel oni bai fod deddfau gwladol a rhwymau allanol yn ei attall, efe a lofruddiai: a chan ei fod yn awyddu yn barhaus am ddial, y mae efe yn llofrudd parhaus. Hefyd, er nad yw efe yn godinebu, ond gan ei fod yn cyfreithloni godineb, y mae efe yn odinebwr parhaus: canys efe a odineba mor bell y gall heb gael ei ddal. Er nad yw yn lladrata, eto, efe a chwenycha eiddo rhai ereill, ac ni chyfrifa dwyll a dichellion yn anghyfreithlon, o ganlyniad, efe a chwery y lleidr parhaus yn ei feddwl. Ei ymddygiad sydd debyg gyda gorchymynion bywyd moesol, y

rhai a ddysgant nad ydym i ddwyn cam-dystiolaeth na chwenychu eiddo rhai ereill. Y fath yw cymeriad pob dyn sydd yn gwadu y Duwdod, ac heb gydwybod yn tarddu o grefydd, fel y gwelir yn amlwg pan ddiosgir y fath bersonau yn y byd arall o'u hallanolion, ac y gollyngir hwynt i'w mewnolion: canys y pryd hwnw, wedi eu hysgaru o'r nefoedd, gweithredant yn un âg uffern, ac o ganlyniad, byddant yn nghymdeithas y rhai sydd yn uffern. Ond nid felly y rhai gydnabyddasant y Duwdod yn eu calonau, a barchasant y deddfau Dwyfol yn eu bywyd, ac a ufuddhasant i'r pedwar gorchymyn cyntaf o'r gyfraith fel y lleill. Pan ollyngir y rhai hyn i'w mewnolion, byddant yn ddoethach na phan yn y byd: canys iddynt hwy, y cyfnewidiad hwn fydd fel mynediad o dywyllwch i oleuni, o anwybodaeth i ddoethineb, o dristwch i wynfyd, oblegid eu bod yn y Duwdod, ac felly yn y nefoedd. Nodir y pethau hyn, fel y gellir deall y gwahaniaeth hanfodol sydd rhwng y ddau fath hyn o ddynion, er eu bod yn debyg o'r tuallan.

532. Gŵyr pob un fod meddyliau yn llifo a thueddu at eu gwrthrych, yn ol y bwriad: canys golwg fewnol dyn yw y meddwl, ac fel yr olwg allanol, yn cael ei droi a'i sefydlu gan yr ewyllys. Os, gan hyny, bydd meddwl neu yr olwg fewnol yn troi at y byd, a sefydlu ar y byd, bydd yn fydol: os try at hunan a hunan-glod, bydd yn gorfforol: ac os try i'r nefoedd, bydd yn nefol. Felly, hefyd, y canlyn, os try i'r nefoedd, efe a ddyrchefir: os try at hunan, tynir ef i lawr o'r nefoedd, a sudda mewn pethau corfforol: os try at y byd, plyga i lawr o'r nefoedd, ac ymwasgara yn mhlith y gwrthrychau a wêl y llygad. Bwriad a dardd o'r cariad, am hyny, cariad dyn sydd yn penderfynu ei olwg fewnol, neu yn troi y meddwl at ei wrthrychau. Cariad at hunan a'i try at hunan, a phethau hunanol: cariad y byd at bethau bydol, a chariad y nefoedd at bethau nefol. Os, gan hyny, y gellir gwybod cariad dyn, gellir hefyd gwybod ystâd ei fewnolion, am fod cariad y nefoedd yn dyrchafu y mewnolion perthynol i'r meddwl, ac yn eu hagor oddiuchod tua'r nefoedd; ond cariad y byd a chariad at hunan a gauant y mewnolion uwchlaw iddynt, ac a'u hagorant oddi isod. Felly, gellir casglu, os bydd rhanau uchaf y meddwl yn gauedig oddi uchod, nas gall dyn mwyach weled y pethau a berthynant i'r nefoedd a'r Eglwys, ond eu bod yn ymddangos iddo ef mewn tywyllwch dudew. Ond gwedir neu ni ddeallir pa beth bynag sydd mewn tywyllwch dudew, am hyny, y rhai a garant eu hunain a'r byd uwchlaw pob peth, gwadant y gwirioneddau dwyfol yn eu calonau, oblegid fod rhanau uchaf eu meddyliau yn gauedig, ac er y gallant lefaru am y fath bethau o'u côf, er hyny, nid ydynt yn eu deall: oblegid eu bod yn edrych arnynt yn yr un modd ag yr edrychant ar bethau bydol a chorfforol. Nis gallant dalu sylw i ddim, ond sydd yn





dyfod i fewn trwy y synwyrau corfforol, ac nid oes ganddynt hyfrydwch mewn dim arall; ond y mae llawer o'r pethau hyn yn ffiaidd, yn anllad, yn halogedig a drygionus: ac nis gellir eu symud, oblegid, gyda'r fath bersonau, nid oes ddylifiad o'r nefoedd i'r meddwl, ond cauedig oddi uchod yw, fel y nodwyd. Bwriad dyn, yr hwn sydd yn penderfynu ei olwg fewnol neu ei feddwl, yw ei ewyllys: canys yr hyn y mae dyn yn ewyllysio, efe a fwriada, a'r hyn a fwriada, efe a feddylia. Os yw ei fwriad, gan hyny, yn cyfeirio tua'r nefoedd, yno y try ei feddwl, a chyda'i feddwl ei holl enaid, yr hwn sydd felly yn y nefoedd: am hyny y gall edrych lawr ar bethau y byd, y rhai sydd islaw iddo, fel dyn yn edrych o ben tŷ: ac felly y mae pan fyddo mewnolion y meddwl yn agored, gall weled ei ddrygau a'i gyfeiliornadau ei hun, oblegid eu bod islaw y meddwl ysbrydol; ond pan na byddo mewnolion y meddwl yn agored, nis gall weled ei ddrygau a'i gyfeiliornadau, oblegid ei fod ynddynt, ac nid uwchlaw iddynt. Oddiwrth y pethau hyn gellir gweled tarddiad doethineb a tharddiad gwallgofrwydd, ac nid anhawdd deall beth fydd ansawdd dyn ar ol angeu, pan adewir iddo ewyllysio, a meddwl, a gweithredu, a llefaru yn ol ei fewnolion. Dengys y ffeithiau hyn hefyd mor wahanol y gall dynion fod yn fewnol, er mor debyg yn allanol.

533. Nad yw mor anhawdd ag y tybia llawer, byw y bywyd sydd yn arwain i'r nefoedd sydd eglur hefyd, oblegid pan gynygia unrhyw beth i ddyn y gŵyr sydd dwyllodrus ac anghyfiawn, ac yntau yn tueddu i'w wneyd, yr unig beth angenrheidiol yw iddo feddwl y rhaid peidio ei wneyd, am ei fod yn groes i'r gorchymynion Dwyfol. Os ymrodda i feddwl felly, nes ffurfio arferiad gyson, yna unir ef yn raddol â'r nefoedd, agorir rhanau uchaf ei feddwl, ac i'r graddau y cânt eu hagor, y bydd alluog i adwaen twyll ac anghyfiawnder: ac i'r graddau y gwel hwynt, y gellir eu symud ymaith, canys anmhosibl symud ymaith unrhyw ddrwg cyn ei weled. Dyma ystâd y gall dyn fyned iddi oddiar ryddid, oblegid pwy nad all feddwl oddiar ryddid yn y modd a ddarluniwyd? Ond wedi iddo ddechreu, yr Arglwydd a weithreda o'i fewn i gynyrchu pob math o ddaioni, ac a'i galluoga, nid yn unig i weled drygau, ond i'w gwrthod hwynt o'i ewyllys, ac o'r diwedd eu casau. Hyn olygir wrth eiriau yr Arglwydd, "Fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn," Math. xi. 30. Ond gwybydder, fod yr anhawsder i feddwl fel hyn, ac hefyd i wrthwynebu drygau, yn cynyddu i'r graddau y gwna dyn gyflawni drygau o'i wirfodd: canys i'r un graddau y gwna ymarfer â drygau, nes o'r diwedd nad yw yn eu gweled, ac y dygir ef hyd yn oed i'w caru, ac oddiar hyfrydwch cariad i'w hesgusodi, a thrwy bob math o dwyll resymau i'w cadarnhau fel pethau cyf-

reithlon a da. Ond hyn a gymer le gyda rhai newydd ddyfod i'w hoed, yn rhuthro i bob drwg heb attalfa, ac ar yr un pryd yn gwrthod pethau dwyfol o'r galon.

534. Gwelais unwaith arddangosiad o'r ddwy ffordd sydd yn arwain i'r nefoedd ac i uffern. Yn gyntaf, ymddangosodd ffordd lydan yn arwain i'r aswy, neu tua'r gogledd, a llawer o ysbrydion yn tramwy ar hyd-ddi. Ond yn y pellder yr oedd maen mawr, lle y terfynai y ffordd lydan: o'r maen hwnw yr oedd dwy ffordd, un i'r aswy, ac un i gyfeiriad gwahanol i'r deheu. Y ffordd tua'r aswy oedd gul a chyfyng yn arwain trwy y gorllewin i'r dê, ac felly i oleuni y nefoedd, ond y ffordd tua'r ddeheu oedd lydan ac eang, yn arwain yn wyrgam i lawr tuag uffern. Yr holl ysbrydion ar y cyntaf a welid yn myned yn yr un ffordd, nes dyfod at y maen mawr ar ben y ddwy ffordd; ond wedi dyfod yno gwahenid hwynt. Y rhai da a droent tua'r aswy, ac aent i'r ffordd gul sydd yn arwain tua'r nefoedd; ond y rhai drwg ni welent y maen, am hyny syrthiasant arno ac anafwyd hwynt, a phan godasant, rhedasant ar hyd y ffordd lydan tua'r ddeheu, sydd yn arwain i uffern. Eglurwyd i mi wedi hyny arwyddocâd yr holl bethau hyn. Y ffordd gyntaf, sef yr un lydan, y cydrodiai y da a'r drwg ynddi gan ymddiddan â'u gilydd fel cyfeillion, a arddangosai ystâd y rhai sydd yn byw yn allanol debyg mewn didwylledd ac uniondeb, ac nas gall y llygad wahaniaethu rhyngddynt. Y maen ar ben y ddwy ffordd, neu ar y gongl, y tramgwyddodd y drygionus wrtho, ac oddiwrth yr hwn y rhedasant i'r ffordd yn arwain tuag uffern, a arddangosai y Gwirionedd Dwyfol, ac yn yr ystyr uchaf, Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, yn cael eu gwadu gan y rhai a edrychant tuag uffern. Ond y rhai a gydnabyddent y Gwirionedd Dwyfol, a Dwyfoldeb yr Arglwydd a ddygid ar hyd y ffordd sydd yn arwain i'r nefoedd. Oddiwrth y pethau hyn, gwnaed yn fwy amlwg, fod y drwg a'r da yn byw yn allanol debyg, neu yn rhodio yr un ffordd, y naill mor rhwydd a'r llall: ac eto, y rhai a gydnabyddant y Duwdod o'r galon, ac yn neillduol y rhai yn yr Eglwys a gydnabyddant Ddwyfoldeb yr Arglwydd, a gânt eu harwain i'r nefoedd, a'r rhai na wnant, i uffern. Meddyliau dyn yn deilliaw o'i fwriad a'i ewyllys, a arddangosir yn y byd arall trwy ffyrdd, yn amrywio mewn ymddangosiad yn ol amrywiaeth y meddyliau o'r bwriadau, a phawb yn rhodio ynddynt yn ol eu meddyliau; fel y mae cymeriad yr ysbrydion a chymeriad eu meddyliau yn amlwg oddiwrth y ffyrdd a rodiant. Oddiwrth hyn gweler ystyr geiriau yr Arglwydd:—"Ewch i mewn trwy y porth cyfyng: canys eang yw y porth, a llydan yw y ffordd, sydd yn arwain i ddistryw; a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn trwyddi: Oblegid cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd, sydd yn arwain i'r bywyd;





ac ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi," Math. vii. 13, 14. Cyfyng yw y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd, nid oblegid ei bod yn anhawdd, ond fel y dywedir, oblegid mai ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi. Oddiwrth y maen a welais ar y gongl lle y terfynai y ffordd lydan a chyffredin, ac o'r lle yr arweiniai dwy ffordd arall i gyfeiriadau gwahanol, y dangosir ystyr y geiriau hyn gan yr Arglwydd: "Beth gan hyny yw yr hyn a ysgrifenwyd, Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, hwn a wnaethpwyd yn ben y gongl? Pwy bynag a syrthio ar y maen hwnw, a ddryllir," Luc xx. 17, 18. Y maen a arwydda y Gwirionedd Dwyfol, a'r Maen (neu graig) Israel, yr Arglwydd yn Ei Ddynoliaeth Ddwyfol: yr adeiladwyr yw aelodau yr Eglwys. Pen y gongl yw y lle yr ymrana y ddwy ffordd; syrthio ar y maen hwnw yw gwadu a dinystr.

535. Caniatawyd i mi siarad â rhai yn y byd arall, wedi ymneillduo oddiwrth alwedigaethau y byd, fel y gallent ymgysegru i fywyd duwiol a santaidd: ac hefyd âg ereill a ymgystuddiasant mewn amryw ffyrdd, am y tybient mai hyny oedd ymwrthod â'r byd, a gorchfygu chwantau y cnawd; ond nis gall y rhan amlaf o honynt gymdeithasu â'r angylion, am eu bod wedi meithrin bywyd athrist yn y byd, gan ymbellhau oddiwrth fywyd o gariad, nas gellir ei feddu ond wrth fyw yn y byd; ond bywyd llawen yw bywyd yr angylion, yn codi o'u gwynfyd, ac yn gynwysedig mewn gwneyd daioni, sef gweithredoedd cariad: heblaw hyn, y rhai sydd wedi arwain bywyd ar wahan a galwedigaethau y byd, y maent ar dân gan y syniad o'u teilyngdod eu hunain, ac am hyny, o hyd yn daer am gael eu derbyn i'r nefoedd, gan feddwl am lawenydd nefol fel gwobr, yn hollol anwybodus o'i natur. Pan o'r diwedd y dygir hwynt i blith angylion, a chan fod eu llawenydd, heb un syniad o deilyngdod, ac yn gynwysedig mewn cyflawniad cyhoedd o ddyledswyddau, ac yn y gwynfyd gyfyd o'r daioni a wnant, synant fel rhai yn gweled pethau anhygoel: a chan na allant dderbyn y llawenydd hwnw, ymadawant, ac ânt i gymdeithas ysbrydion tebyg iddynt eu hunain, fuont byw bywyd tebyg yn y byd. Am y rhai fuont byw mewn santeiddrwydd allanol yn y byd, yn dyfal fynychu lleoedd addoliad, yn cysegru eu hunain i weddi a hunan-fawrhad, ac ar yr un pryd, yn parhaus feithrin y syniad y cânt eu parchu a'u hanrhydeddu yn fwy nag ereill, a'u cyfrif yn saint ar ol marw, nid ânt i'r nefoedd, oblegid gwneuthur yr holl bethau hyn er eu mwyn eu hunain: canys halogant y gwirioneddau dwyfol â'u hunan-gariad, a suddant hwynt ynddo, nes myned mor wallgof, rai o honynt, a thybied eu bod yn dduwiau. Rhan y rhai hyn sydd yn uffern gyda rhai tebyg iddynt. Y mae ereill yn gyfrwys a thwyllodrus, a chânt eu taflu i uffern y rhai twyllodrus. Dyma y rhai fuont byw yn

dduwiol a santaidd trwy gyfrwysdra, er mwyn twyllo y bobl gyffredin i gredu fod santciddrwydd dwyfol ynddynt. Dyma gymeriad llawer o Saint y Pabyddion. Caniatawyd i mi siarad â rhai o honynt, pan y desgrifid eu bywyd yn amlwg, o ran ei ansawdd yn y byd hwn ac wedi hyny. Gwneir y sylwadau hyn, er mwyn dangos nad yw y bywyd sydd yn arwain i'r nefoedd, yn fywyd neillduedig o'r byd, ond yn fywyd o waith yn y byd: nad yw bywyd duwiol heb fywyd o gariad nas gellir ei feddu ond yn y byd, yn arwain i'r nefoedd; ond y mae bywyd o gariad sydd yn arwain i'r nefoedd yn gynwysedig mewn ymddwyn yn ddidwyll ac uniawn yn mhob sefyllfa, yn mhob gwaith, ac yn ein holl ymddygiadau oddiar egwyddor fewnol a nefolaidd: a bod y fath egwyddor neu darddiad i'r fath fywyd pan ymddygo dyn yn ddidwyll a chyfiawn, oblegid fod y deddfau Dwyfol yn gofyn hyny. Nid yw y fath fywyd yn anhawdd, ond bywyd o dduwioldeb yn unig heb gariad sydd anhawdd, er ei fod yn arwain ymaith o'r nefoedd, gymaint ag y tybir yn gyffredin ei fod yn arwain i'r nefoedd.





# AM UFFERN.

### Yr Arglwydd Reola yr Uffernoedd.

536. Dangoswyd yn barod, drwy y rhan flaenorol o'r gwaith hwn, yn neillduol yn r. 2—6, mai yr Arglwydd yw Duw y nefoedd, am hyny fod holl Lywodraeth y nefoedd yn eiddo Iddo; ond gan fod perthynas y nefoedd âg uffern, ac uffern â'r nefoedd, fel perthynas dau beth wrthwynebol, yn gwrthweithio eu gilydd, eu gweithiad a'u gwrthweithiad yn cynyrchu cydbwysedd yn yr hon y cynelir pob peth; gan hyny, er cadw yr oll mewn cydbwysedd, angenrheidiol yw i'r hwn reola y nefoedd reoli uffern hefyd: canys pe nad ataliai yr Un Rheolwr ymosodiadau uffern, gan dawelu y gwallgofrwydd ymgynddeirioga yno, distrywid y Cydbwysedd, a syrthiai y Bydysawd oll gyda hyny.

537. Bydd o les yma i ddweyd ychydig ar Gydbwysedd. Pan fyddo dau wrthrych yn gweithredu—un yn erbyn y llall—gwrthweithiad a gwrthwynebiad un yn gyfartal i weithiad ac ymosodiad y llall, ffaith adnabyddus yw na fydd grym yn un o honynt: canys y ddau a ddirymant eu gilydd; ac o ganlyniad, gall unrhyw drydydd gallu ddylanwadu arnynt wrth bleser, mor hawdd a phe na bai gwrthwynebiad. Tebyg yw y cydbwysedd rhwng nefoedd ag uffern. Nid cydbwysedd dau ymladdwr corfforol o gryfder cyfartal, ond cydbwysedd ysbrydol y gau yn erbyn y gwir, a'r drwg yn erbyn y da. Y mae anadliadau parhaus o uffern, o'r gau yn deilliaw o'r drwg, ac o'r nefoedd, o'r gwir yn deilliaw o'r da, yn cynyrchu cydbwysedd ysbrydol, yn yr hwn y mae dyn yn meddu rhyddid i feddwl ac ewyllysio: canys pa beth bynag a feddylia ac a ewyllysia dyn a berthyn i'r drwg a'r gau a dardd o hono, neu i'r da a'r gwir dardd o hono; o ganlyniad, pan mewn cydbwysedd, rhydd yw i dderbyn y drwg a'r gau darddant o uffern, neu y gwirionedd a'r daioni o'r nefoedd. Cedwir pob dyn yn y cydbwysedd hwn gan yr Arglwydd, canys Efe a reola nefoedd ac uffern. Dangosir mewn penod arall, paham y cedwir dyn mewn rhyddid drwy y cydbwysedd hwn, paham na symudir drygioni ac anwiredd oddiwrtho, a phaham na phlenir daioni a gwirionedd ynddo.

538. Caniatawyd i mi yn fynych ganfod awyrgylch yr anwiredd yn deilliaw o'r drwg a dardd o uffern: tebyg yw i egni ddibaid i

ddistrywio pob daioni a gwirionedd, gyda llid, a math o wallgofrwydd cynddeiriog am nas gallant. Y mae yr Egni yma yn flaenaf yn erbyn dylanwad Dwyfol yr Arglwydd, yr hwn a fynent ddistrywio a diddymu, am fod pob daioni a gwirionedd yn deilliaw o hono Ef. Ond y mae awyrgylch o wiriouedd yn tarddu o ddaioni yn llifo o'r nefoedd, gan atal cynddeiriogrwydd yr uffernoedd, ac felly sicrhau y Cydbwysedd. Gwelwyd fod yr awyrgylch hon o'r nefoedd yn dyfod o'r Arglwydd yn unig, er ymddangos yn dyfod o'r angylion yn y nefoedd. O'r Arglwydd yn unig y mae, ac nid o'r angylion, canys cydnebydd pob angel yn y nef, nad oes dim daioni na gwirionedd o hono ef ei hun, ond yr oll o'r Arglwydd.

539. Pob gallu yn y byd ysbrydol a berthyn i wirionedd yn tarddu o ddaioni, a dim o gwbl i gyfeiliornad yn tarddu o ddrwg. Y rheswm fod pob gallu yn y gwirionedd yn tarddu o ddaioni yw, oblegid fod y Dylanwad Dwyfol yn y nefoedd yn Ddaioni Dwyfol a Gwirionedd Dwyfol: a phob gallu a berthyn i'r Duwdod. Y rheswm nad oes allu o gwbl mewn cyfeiliornad yn tarddu o ddrwg yw, oblegid fod pob gallu yn y gwirionedd yn tarddu o ddaioni: ac mewn cyfeiliornad yn tarddu o'r drwg nid oes dim o'r gwirionedd a dardd o'r da. Y canlyniad yw, fod pob gallu yn y nefoedd a dim yn uffern: canys y mae pob un yn y nefoedd, yn y gwirionedd dardd o'r daioni, a phob un yn uffern yn y cyfeiliornad dardd o'r drwg: oblegid ni dderbynir neb i'r nefoedd nes y byddo yn y gwirionedd dardd o'r daioni, na neb yn cael ei daflu i uffern nes bod yn y cyfeiliornad dardd o'r drwg. Gwelir hyn yn y Penodau ar ystâd gyntaf, ail, a thrydedd dyn ar ol marw (r. 491—520): a gwelir fod pob gallu yn eiddo i'r gwirionedd yn tarddu o'r daioni, yn y Benod ar Allu angylion yn y nefoedd (r. 228—233).

540. Y fath yw y cydbwysedd rhwng nefoedd ac uffern. Bodola holl drigolion Byd yr Ysbrydoedd yn y cydbwysedd hwn, gan fod Byd yr Ysbrydoedd yn y canol rhwng nefoedd ac uffern: a chedwir pawb yn y byd naturiol mewn cydbwysedd tebyg, am yr un rheswm, oblegid rheolir hwynt gan yr Arglwydd trwy gyfrwng ysbrydion, y rhai sydd yn Myd yr Ysbrydoedd: ond dywedir rhagor ar hyn mewn Penod arall. Ni allai y cydbwysedd hwn fodoli, oni bai fod yr Arglwydd yn llywodraethu nefoedd ac uffern, gan reoli eu hegnion o bob tu: pe amgen, y cyfeiliornadau darddant o'r drwg a orbwysent, gan effeithio ar y rhai da, ond anwybodus, sydd yn byw yn amgylchoedd pellaf y nefoedd, yn hawddach eu gwyrdroi na'r angylion eu hunain, ac felly darfyddai y cydbwysedd, a chydag ef ryddid dyn.

541. Rhenir uffern i gymdeithasau yr un modd a'r nefoedd, ac o'r un rhif: canys y mae i bob cymdeithas yn y nef, gymdeithas





gyferbyniol yn uffern, er mwyn cadw y cydbwysedd. Ond rhenir y cymdeithasau yn uffern yn ol eu drygau a'r cyfeiliornadau darddant o honynt, am fod cymdeithasau y nefoedd yn cael eu rhanu yn ol eu daioni a'r gwirioneddau darddant o'r daioni. Eglur fod i bob daioni ei ddrwg gwrthgyferbyniol, a phob gwirionedd ei gyfeiliornad gwrthgyferbyniol, oblegid nas gall un o honynt fodoli heb berthynas i'r hyn sydd wrthgyferbyniol; canys y mae pethau gwrthgyferbyniol yn datguddio ansawdd eu gilydd, a graddau eu hangerddoldeb; dyma wreiddyn pob amgyffrediad a theimlad. Am hyny, darpara yr Arglwydd yn barhaus, fod i bob cymdeithas yn y nefoedd un wrthgyferbyniol yn uffern, yn cydbwyso eu gilydd.

542. Gan fod uffern yn cael ei rhanu i'r un nifer o gymdeithasau a'r nefoedd, gan hyny, y mae yr un nifer o uffernoedd ag sydd o gymdeithasau nefol: canys fel y mae pob cymdeithas o'r nefoedd yn nefoedd fach (gwel uchod r. 51—58), y mae pob cymdeithas o uffern hefyd yn uffern fach. Ond yn gyffredinol, y mae tair nefoedd, a thair uffern. Yr uffern isaf sydd wrthgyferbyniol i'r nef fwyaf mewnol, neu y drydedd; yr uffern ganol sydd wrthgyferbyniol i'r nefoedd ganol, neu yr ail; a'r uffern uchaf sydd wrthgyferbyniol i'r nefoedd gyntaf, neu i'r isaf.

543. Dangosir yn fyr y modd y rheola yr Arglwydd yr uffernoedd. Rheolir yr uffernoedd yn gyffredinol, gan y dylifiad cyffredinol o'r Daioni Dwyfol a'r Gwirionedd Dwyfol o'r nefoedd, trwy yr hwn y cyfyngir ac yr attelir yr ymdrech gyffredinol a dardd o'r uffernoedd; ond rheolir hwynt hefyd gan ddylifiad neillduol o bob nefoedd ac o bob cymdeithas o'r nefoedd; ac yn fwy neillduol, rheolir hwynt gan angylion, benodir i'w harolygu ac attal y gwallgofrwydd a'r terfysgoedd ffynant yn eu plith. Weithiau, hefyd, anfonir angylion yno i ddofi y gwallgofrwydd a'r terfysgoedd a'u presenoldeb. Ond yn gyffredinol, rheolir holl drigolion uffern gan ofn. Rheolir rhai gan ofnau blanwyd ynddynt yn y byd, yn parhau i ddylanwadu arnynt; ond gan nad yw yr ofnau hyn yn ddigon gyda'r oll o honynt, ac hefyd am eu bod yn graddol golli eu dylanwad, ychwanegir ofn cosbedigaeth, a'r ofn hwn yw y prif foddion i'w hattal rhag gwneyd drygau. Y mae cosbedigaethau uffern yn amrywiol, ac yn ysgafn neu yn drwm, yn ol natur y drygau sydd i'w hattal. Y rhai ragorant ar ereill mewn cyfrwysder a dichell, ac yn gallu eu cadw mewn ufudd-dod a chaethiwed trwy gosbau ac ofnau, gosodir y rhai hyn i arglwyddiaethu ar eu cymdeithion; ond y llywodraethwyr hyn ni feiddiant dori dros y terfynau osodir iddynt. Teilwng yw nodi eto, mai ofn cosbedigaeth yw yr unig foddion i attal cynddaredd a thrais yr uffernolion. Nid oes foddion arall.

544. Tybiwyd hyd yma yn y byd fod rhyw un diafol yn teyrnasu dros yr uffernoedd; iddo gael ei greu yn angel goleuni, a'i daflu

gyda'i giwed i uffern am ryfela yn erbyn Duw; ffynodd y gred hon am fod y rhanau o'r Gair a lefarant am y Diafol a Satan, ac hefyd Lusiffer, wedi cael eu deall yn llythrenol; ond y mae Diafol a Satan yn arwyddo uffern mewn gwahanol agweddau. Diafol a arwydda yr uffern sydd o'r tu ol, preswylfa yr ysbrydion gwaethaf, yn cael eu galw y Genii drygionus; a Satan a arwydda yr uffern sydd o'r tu blaen, preswylfa rhai llai drygnawsus, yn cael eu galw yn ysbrydion aflan; a Lusiffer a arwydda y rhai sydd o Babel neu Babilon, ac a ffugiant awdurdod hyd yn oed dros y nefoedd. Nad oes yr un diafol unigol y plyga yr uffernolion iddo, sydd eglur hefyd, oblegid fod pawb yn uffern, fel yn y nefoedd, yn deilliaw o'r hîl ddynol (gwel r. 311—317): ac oblegid eu bod o ddechreuad y Greadigaeth hyd yn awr, yn rhifo myrddiwnau o fyrddiwnau, a phob un o honynt yn ddiafol o'r fath ryw ag y gwnaeth ei hun drwy fyw yn groes i'r Goruchaf. Ar y materion hyn, gwel uchod, r. 311, 312.

### NAD YW YR ARGLWYDD YN TAFLU NEB I UFFERN, OND MAI YR YSBRYDION AFLAN A DAFLANT EU HUNAIN YNO.

545. Cred rhai yn gryf y try Duw ei wyneb oddiwrth ddyn, gan ei wrthod, a'i daflu i uffern, a'i fod yn ddig wrtho am ei bechodau; ac ereill ânt yn mhellach, gan ddal fod Duw yn cosbi dyn, a dwyn drygau arno. Cadarnhant hefyd eu barn oddiwrth ystyr lythrenol y Gair, yn cynwys ymadroddion mewn ymddangosiad yn eu cefnogi; ond ni wyddant fod ystyr ysbrydol y Gair, yr hon esbonia y llythyren yn hollol wahanol, ac o ganlyniad fod gwir athrawiaeth yr Eglwys, yn tarddu o ystyr ysbrydol y Gair, yn dysgu fel arall. Gwir athrawiaeth a ddengys na thry yr Arglwydd byth ei wyneb oddiwrth ddyn, na wna Ef byth ei wrthod, byth ei daflu i uffern, ac nad yw byth yn ddig: a gwel pob un hyn o feddwl goleuedig, wrth ddarllen y Gair, oherwydd Duw Cariad yw, Daioni yw, Trugaredd yw. Ond nis gall daioni wneyd drwg i neb, na chariad a thrugaredd daflu dyn ymaith; am fod hyny yn groes i'w nhatur, ac o ganlyniad yn groes i'r Natur Ddwyfol. Am hyny, pan ddarllena y fath ddynion y Gair, gwelant yn eglur nad yw Duw byth yn troi ymaith oddiwrth ddyn, a chan nad yw byth yn troi ymaith oddiwrth ddyn, efe a ymddûg tuag atto o ddaioni, o drugaredd, o gariad; hyny yw, y mae yn ewyllysio ei ddaioni, yn ei garu, ac yn drugarog wrtho. O ganlyniad, gwelant hefyd fod llythyren y Gair o angenrheidrwydd yn cynwys ystyr ysbrydol, yn ol yr hon y mae yr ymadroddion y cyfeirir attynt uchod i'w hesbonio; a'u bod yn eu hystyr lythrenol yn addasedig i ddeall-twriaeth cyntaf ac anmherffaith dyn, ac i'w syniadau mwyaf cyffredinol.

546. Gwel y rhai goleuedig yn mhellach fod da a drwg yn





wrthgyferbyniol, ac mor groes i'w gilydd ag yw nefoedd i uffern; fod pob daioni o'r nef a phob drwg o uffern; a chan mai Egwyddor Ddwyfol yr Arglwydd gyfansodda y nefoedd (r. 7—12), ni ddaw dim ond da i fewn i ddyn oddiwrth Dduw, a dim ond drwg o uffern; ac felly fod yr Arglwydd yn wastadol yn tynu dyn oddiwrth ddrwg a'i arwain at y da, tra uffern yn wastadol yn ei arwain at ddrwg. Pe na bai dyn rhwng y ddau, ni feddai allu meddwl, nac ewyllys, llai fyth unrhyw ryddid neu ddewisiad; canys o gydbwysedd da a drwg y deillia y rhai hyn oll. Gan hyny, pe troai yr Arglwydd ymaith oddiwrth ddyn, a'i adael i ddrwg yn unig, ni buasai yn ddyn mwyach; felly, amlwg yw fod yr Arglwydd yn llifo i bob dyn gyda daioni, bydded dda neu ddrwg, ond fod gwahaniaeth rhwng y da a'r drwg: canys y mae dylifiad yr Arglwydd mewn ymdrech barhaus gyda'r dyn drwg, i'w arwain oddiwrth y drwg, a chyda'r dyn da i'w dywys at y da; ond achos y gwahaniaeth hwn sydd yn y dyn ei hun, am mai efe yw y derbyniwr.

547. Amlwg, gan hyny, y galluogir dyn i wneyd drwg gan uffern, a da gan yr Arglwydd. Ond gan fod dyn yn credu ei fod yn gwneyd pa beth bynag a wna o hono ei hun, y drwg a wna a lyna wrtho fel ei eiddo ei hun, ac felly dyn yw yr achos o'i ddrwg ei hun, ac nid yr Arglwydd. Drwg mewn dyn yw uffern o'i fewn, oblegid yr un peth yw drwg ag uffern. Yn awr, gan mai dyn yw yr achos o'i ddrygioni ei hun, y canlyniad yw, ei fod yn taflu ei hun i uffern; canys y mae yr Arglwydd mor bell o daflu dyn i uffern, fel y gwna ei wared oddiyno i'r graddau nad yw yn ewyllysio a charu bod yn ei ddrwg; ond dangoswyd yn r. 470—484, fod holl ewyllys a chariad dyn yn aros gydag ef ar ol angeu, ac o ganlyniad, fod yr hwn a ewyllysia ac a gâr ddrwg ar y ddaear, yn ei ewyllysio a'i garu yn y byd arall, gyda'r gwahaniaeth ofnadwy nad yw efe mwy yn foddlawn i'w dynu oddiwrtho. Dyma y rheswm fod dyn mewn drwg yn rhwym i uffern, ac yno yn awr o ran ei ysbryd; ac ar ol marw ni ddymuna ddim yn fwy taer na myned i fyw gyda'i ddrwg ei hun. Hollol eglur yw, gan hyny, nad yw Duw yn cosbi dyn ar ol marw, ond fod y dyn yn taflu ei hun i uffern.

548. Dangosir yn awr y modd y tafl dyn ei hun i uffern. Pan aiff dyn gyntaf i'r byd arall, derbynir ef gan angylion a weinyddant arno gyda phob caredigrwydd, gan siarad âg ef am yr Arglwydd, a'r nefoedd, a'r bywyd angylaidd, ac a'i dysgant ef mewn gwirionedd a daioni. Ond os yw efe yn un o'r cyfryw a wyddai y pethau hyn tra yn y byd, ond a'u gwadau neu eu dirmygai yn ei galon, buan y dymuna ei gadael, a chwilia am gyfle i gilio. Pan wel yr angylion ei fwriad, gadawant ef, cyfeillacha âg ereill a'i gadawant am yr un rheswm, hyd oni ymuna âg ysbrydion mewn

drwg tebyg iddo ei hun (gwel uchod, r. 445—452). Mor fuan ag y daw i'w gymdeithas ei hun, try oddiwrth yr Arglwydd, gan droi ei wyneb tua'r uffern yr oedd mewn cysylltiad â hi pan yn y y byd, preswylfa y rhai sydd yn yr un cariad at ddrwg. Profa y pethau hyn, fod yr Arglwydd yn tynu pob ysbryd atto ei Hun drwy weinidogaeth angylion, a thrwy ddylifiad o'r nefoedd; ond fod yr ysbrydion sydd mewn drwg yn gwrthwynebu a'u holl allu, ac fel pe baent yn rhwygo eu hunain oddiwrth yr Arglwydd: oblegid llusgir hwynt gan eu drwg eu hunain, ac felly gan uffern, fel â rhaff; a chan fod eu cariad at ddrwg yn eu gwneyd yn foddlon i gael eu llusgo, eglur eu bod yn taflu eu hunain o'u gwirfodd i uffern. Ni chredir hyn ar y ddaear, oblegid y syniad a ffyna am natur uffern: ac nid yw yn ymddangos yn groes i'r fath syniad yn y byd arall, ond i'r rhai a ânt i uffern, oblegid ymddangosant i ereill fel pe yn cael eu taflu i lawr, ac yn wir, ymddengys y rhai sydd mewn cariad tanbaid at ddrygioni, fel pe yn cael eu taflu ar eu penau. Yr ymddangosiad yma yw sail y gred eu bod yn cael eu taflu i uffern gan Dduw: ond gwelir rhagor ar y mater hwn eto (r. 574). Digonol yw y ffeithiau hyn i brofi nad yw yr Arglwydd yn taflu neb i uffern; ond fod pob un sydd yn myned yno yn taflu ei hun yno, pan yn byw ar y ddaear, ac hefyd ar ol marw, pan yn ysbryd yn mhlith ysbrydion.

549. Nis gall yr Arglwydd o'i hanfod Ddwyfol, yr hon yw Daioni, Cariad, a Thrugaredd, ymddwyn yr un fath tuag at bob dyn, oblegid fod y drygau a'r anwireddau ddeilliant o honynt, nid yn unig yn gwrthwynebu a phylu ei Ddylifiad Dwyfol, ond yn ei wrthod yn hollol. Canys y mae y drygau a'r anwireddau ddeilliant o honynt fel cymylau duon rhwng yr haul a'r llygad, yn cymeryd ymaith ddysgleirder a sirioldeb y dydd, er fod yr haul mewn ymdrech wastadol i'w gwasgaru, ac yn trosglwyddo rhyw faint o oleuni gwan trwy lwybrau anuniongyrch lawer. Felly yn hollol yn y byd ysbrydol, oblegid yr haul yno yw yr Arglwydd a'r Cariad Dwyfol (r. 116—140). Y goleuni yw y Gwirionedd Dwyfol (r. 126—140). Cymylau duon yw yr anwireddau darddant o'r drwg, a'r llygad yw y dealltwriaeth. Am hyny, i'r graddau y mae unrhyw un yn y byd ysbrydol mewn anwireddau yn deilliaw o'r drwg, amgylchynir ef a chwmwl—du a thrwchus yn ol graddau ei ddrwg. O'r gydmariaeth hon gwelir fod yr Arglwydd bob amser yn bresenol gyda phawb, ond ei fod yn cael derbyniad gwahanol gyda phob un.

550. Cosbir ysbrydion aflan yn Myd yr Ysbrydoedd yn drwm, er eu rhwystro i wneyd drwg. Ymddengys hyn fel gwaith yr Arglwydd, er nad oes gosbedigaeth o gwbl oddiwrth yr Arglwydd, canys y mae drwg a'i gosb yn dal cysylltiad mor agos â'u gilydd, fel nas gellir eu gwahanu, gan mai drwg ei hun yw gwreiddyn




cosb: ar giwed uffernol ni chwenychant, ac ni charant ddim yn fwy na gwneyd drwg, ac yn neillduol cosbi a phoenyddio ereill. Gan hyny, niweidiant a chosbant bob un nad yw dan nawdd yr Arglwydd; a chan fod pawb a wnant ddrwg o galon ddrwg yn gwrthod nawdd yr Arglwydd, ysbrydion drwg a ruthrant arnynt gan eu cosbi. Gellir egluro hyn i raddau trwy droseddau a'u cosbau yn y byd, lle y maent hefyd yn gysylltiedig: canys rhagdrefna y gyfraith ryw gosb am bob trosedd, o ganlyniad, pwy bynag ruthra i drosedd, ruthra hefyd i gospedigaeth; yr unig wahaniaeth yw, y gellir cuddio trosedd ar y ddaear, ond nas gellir ei guddio yn y byd arall. O'r holl ystyriaethau hyn, y mae yn canlyn, na wna yr Arglwydd ddrwg i neb, a'i berthynas i'r drwgweithredwr sydd debyg i berthynas brenin, neu farnwr, neu y gyfraith—neb o honynt yn achos y gosb, oblegid na chymhellodd neb o honynt y troseddwr i wneyd drwg.

## Y MAE HOLL DRIGOLION UFFERN MEWN DRYGAU AC YN Y CYFEILIORNADAU DDEILLIANT O'R DRYGAU, YN TARDDU ODDIAR HUNAN-GARIAD A CHARIAD AT Y BYD.

551. Y mae pawb sydd yn uffern mewn drygau ac yn y cyfeiliornadau ddeilliant o honynt, ond nid oes neb yno mewn drygau ac ar yr un pryd mewn gwirioneddau. Y mae pob dyn drwg bron ar y ddaear yn gyfarwydd â'r gwirioneddau ysbrydol, sef gwirioneddau yr Eglwys: canys dysgant hwynt pan yn blant, ac ar ol hyny, argreffir hwynt arnynt gan bregethau, wrth ddarllen y Gair, ac wrth siarad am danynt. Rhai o honynt, yn wir, a hudant ereill i gredu eu bod yn Gristionogion o galon, gan eu hyawdledd yn siarad am y gwirioneddau y ffugiant gariad attynt; ac hefyd am fod eu gweithredoedd yn ymddangos fel pe yn codi oddiar ddidwylledd ffydd ysbrydol; ond y rhai o honynt a feddyliant yn fewnol groes i'r gwirioneddau, ac a ochelant rhag cyflawni y drwg cytunol a'u gwir feddyliau, yn unig oherwydd ofn y gyfraith, neu er mwyn enw, anrhydedd, neu enill, drwg ydynt oll yn eu calon, ac nid ydynt mewn gwirionedd a daioni o ran eu hysbryd, ond o ran eu corff yn unig. Am hyny, pan ddygir pethau allanol oddiwrthynt yn y byd arall, ac y datguddir y pethau mewnol perthynol i'w hysbrydoedd, y maent yn gyfangwbl mewn drygau a chyfeiliornadau; a dangosir yn eglur nad oedd gwirionedd a daioni ond math o wybodaeth yn trigo yn eu côf, a ddygent allan yn ffugiol wrth siarad, pan yn gwisgo mantell daioni, fel pe yn tarddu o ffydd a chariad ysbrydol. Pan ollyngir y fath ysbrydion i'w mewnolion, a thrwy hyny i'w drygau, nis gallant mwyach siarad gwirioneddau, dim ond cyfeiliornadau; y pryd hwn siaradant o'u drygau, canys anmhosibl yw llefaru y gwirionedd oddiar ddrwg, gan nad yw yr ysbryd yn awr ddim ond ei ddrwg ei hun, a'r hyn

a dardd o'r drwg yw cyfeiliornad. Gostyngir pob ysbryd aflan i'r ystâd hon cyn ei daflu i uffern (gwel uchod, r. 499—512). Gelwir hyn yn ryddhad oddiwrth wirionedd a daioni; ond nid yw ond agoriad i'r mewnolion, neu i hunan *(proprium)* yr ysbryd, yr hyn yw yr ysbryd ei hun. Ar hyn, gwel uchod, r. 425.

552. Pan ddygir dyn i'r ystâd hon ar ol angeu, nid yw efe mwyach yn ysbryd fel dyn yn y corff, megis yn ei ystâd gyntaf (gwel uchod, r. 491—498), ond yn wir ysbryd; oherwydd gwir ysbryd a fedd wyneb a chorff yn cyfateb i'w fewnolion, y rhai a berthynant i'r meddwl, ac o ganlyniad, ei wedd allanol sydd gysgod neu ddelw o'r mewnol. Cyrhaeddir yr ystâd hon, ar ol myned drwy yr ystâd gyntaf a'r ail a ddesgrifiwyd yn barod; yna adnabyddir cymeriad ysbryd wrth ei olwg, nid yn unig wrth ei wyneb, ond hefyd wrth ei gorff, ei leferydd, a'i ystumiau; a chan ei fod yn awr yn ei wir hunaniaeth, nis gall aros mewn unrhyw fan ond lle byddo rhai tebyg iddo. Canys yn y byd ysbrydol y mae cymundeb cyffredinol serchiadau a meddyliau, fel y dygir ysbryd at ei debyg, fel o hono ei hun, oblegid efe a'u cais o gariad ac hyfrydwch. Try attynt oherwydd ei fod yn awr yn anadlu ei fywyd ei hun, neu yn cael ei anadl yn rhwydd, yr hyn nis gall pan dry i gyfeiriad arall. Gwybydder fod cymundeb âg ereill, yn y byd ysbrydol yn dibynu ar agwedd yr wyneb; a bod gan bob un yn barhaus o'i flaen, y rhai sydd mewn cariad cyffelyb—pa ffordd bynag y try ei gorff (gwel uchod, r. 151). Hyn yw y rheswm fod yr holl ysbrydion uffernol yn troi eu cefnau at yr Arglwydd, a'u gwynebau tua'r tywyllwch eithaf, a'r tywyllwch, a lenwant leoedd haul a lleuad y byd materol; a bod holl angylion y nefoedd yn troi eu hunain at yr Arglwydd fel haul a lleuad y nefoedd (gwel uchod, r. 123, 143, 144, 151). Amlwg yw oddiwrth yr ystyriaethau hyn fod pawb yn yr uffernoedd mewn drygau, ac yn y cyfeiliornadau ddeilliant o honynt, ac hefyd eu bod yn troi i gyfeiriad eu serchiadau.

553. Ymddengys pob ysbryd yn uffern, pan eu gwelir drwy unrhyw radd o'r goleuni nefol, yn ffurf ei ddrwg ei hun, am fod pob un yno yn ddelw o'i ddrwg, gan fod y mewnolion a'r allanolion yn gweithredu mewn undeb, a'r mewnolion yn cael eu dangos yn eglur yn yr allanolion, sef y gwyneb, y corff, y lleferydd, a'r ystumiau. Adwaenir eu hansawdd, gan hyny, wrth eu golwg. Fel rheol, dengys eu ffurfiau ddirmyg tuag at ereill; bygythion yn erbyn y rhai na wnant eu parchu; atgasrwydd a dialedd o wahanol fathau; a thrwy y ffurfiau hyn, gwelir yn eglur eu nhwydau cynhyrfus a'u creulonder. Ond pan y mae ereill yn eu parchu, eu canmol a'u haddoli, codant eu gwynebau i fyny gan lawenhau mewn hyfrydwch. Anmosibl rhoddi darluniad byr o'r holl ffurfiau hyn, am nad oes un o honynt yn hollol yr





un fath a'r llall. Ond y mae rhyw debygolrwydd cyffredinol rhwng y rhai sydd mewn drygau tebyg, a chan hyny yn yr un gymdeithas uffernol, a'r tebygolrwydd hwn fel sail i bob gwynebpryd, ac achos rhyw gyffelybrwydd. Fel rheol, eu gwynebau sydd erchyll a difywyd fel gwynebau y meirw; ond rhai o honynt sydd dduon, ac ereill yn danllyd fel ffaglau; tra ereill wedi eu anharddu â phigodau, penddynod, a chornwydydd. Yn aml ni welir gwyneb, ond rhywbeth blewog neu esgyrnaidd yn ei le, ac weithiau dim ond dannedd. Eu cyrff hefyd sydd anghenfilaidd; a'u lleferydd yn lleferydd llid, neu atgasrwydd, neu ddialedd: oherwydd llefara pob un o'i anwiredd ei hun, a chwyd sŵn ei lais o'i ddrwg ei hun. Mewn gair, y maent oll yn ddelwau o'u huffernoedd eu hunain. Ni chaniatawyd i mi weled ffurf yr uffern gyffredinol; ond dywedwyd wrthyf, mai fel y mae y nefoedd gyffredinol yn y cyfangorff yn debyg i un dyn (r. 59—67), felly y mae yr uffern gyffredinol yn y cyfangorff yn gyffelyb i un diafol, a gellir hefyd ei harddangos yn y ffurf hono (gwel uchod, r. 544). Ond datguddiwyd yn fynych i mi ffurfiau neillduol yr uffernoedd, sef y cymdeithasau uffernol; canys wrth yr agorfeydd, a elwir pyrth uffern, ymddengys anghenfil fel rheol, yn cynrychioli ffurf gyffredin y rhai sydd o'r tufewn. Arddangosir hefyd nwydau cynddeiriog y rhai sydd yno gan bethau erchyll ac ysgeler na wnaf eu henwi. Ond beth bynag yw ymddangosiad yr ysbrydion uffernol, pan edrychir arnynt yn ngoleuni y nefoedd, ymddangosant i'w gilydd fel dynion; darpariaeth trugaredd yr Arglwydd yw hyn, fel nad ymddangosont mor ffiaidd i'w gilydd ag y gwnant i'r angylion. Ond nid yw yr ymddangosiad trugarog hwn ond twyll, canys mor fuan y gadewir un pelydr o oleuni y nefoedd i fewn, try eu ffurfiau dynol i luniau anghenfilaidd, yn arddangos eu gwir gymeriad: oherwydd ymddengys pob peth fel y mae yn ngoleuni y nefoedd. Gan hyny, ciliant rhag goleuni y nefoedd, a thaflant eu hunain i lawr i'w goleuni gwael eu hunain, yr hwn sydd fel goleu golosg llosgedig, ac weithiau fel brwmstan llosgedig. Troir y goleuni hwn yn dywyllwch eithaf os syrth un pelydr o oleuni y nefoedd arno. Felly y dywedir fod yr uffernoedd mewn tywyllwch eithaf, ac mewn tywyllwch; a bod tywyllwch eithaf a thywyllwch yn arwyddo cyfeiliornadau o ddrygau fel sydd yn uffern.

554. Gan fod ffurfiau anghenfilaidd ysbrydion yr uffernoedd yn ffurfiau o ddirmyg tuag at ereill, o fygythion yn erbyn y rhai na thalant iddynt anrhydedd a pharch, ac o atgasrwydd a dialedd yn erbyn y rhai na ddangosant ffafr iddynt, eglur eu bod oll yn ffurfiau cyffredin o hunan-gariad a chariad at y byd: a bod y drygau y maent yn ffurfiau neillduol o honynt yn tarddu o'r ddau gariad hyn. Dywedwyd wrthyf hefyd o'r nefoedd, a chadarnhawyd

ynof drwy hir brofiad, mai y ddau gariad, sef cariad at hunan, a chariad at y byd, deyrnasant yn yr uffernoedd, ac a wnant yr uffernoedd; ac mai cariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog deyrnasant yn y nefoedd, ac a wnant y nefoedd; ac hefyd fod dau gariad uffern, a dau gariad y nefoedd, yn hollol groes i'w gilydd.

555. Synais ar y cyntaf pa fodd y mae hunan-gariad a chariad at y byd mor ddieiflig: a bod y rhai a'u meithrinant mor anghenfilaidd yr olwg arnynt. Ychydig feddylir am hunan-gariad ar y ddaear; balchder, sef ymddangosiad allanol, meddwl chwyddedig yn unig a ystyrir fel hunan-gariad, am ei fod yn amlwg. Pan nad yw hunan-gariad yn ymddangos yn chwyddedig, ystyrir ef fel y tân bywiol yn enyn dynion i awyddu am swyddau a bod yn ddefnyddiol; a delir yr elai y meddwl yn farwaidd mewn unrhyw sefyllfa, pe nas deffroid gan awydd am anrhydedd a gogoniant. Gofynir, Pwy erioed wnaeth unrhyw weithred deilwng, ddefnyddiol, ac ardderchog, ond er mwyn poblogrwydd a chlod gan ereill, neu er mwyn bod yn fawr yn meddyliau ereill? A pheth yw hyn, ond cariad angerddol at anrhydedd a gogoniant, sef hunan-gariad? Fel hyn, ni wyddir mai hunan-gariad yw y cariad a deyrnasa yn uffern, ac a gyfansodda uffern mewn dyn; ac felly angenrheidiol yw ei ddarlunio, a dangos fod pob drygau a'r cyfeilionadau ddeilliant o honynt yn tarddu o'r cariad hwnw.

556. Hunan-gariad yw dyn yn dymuno yn dda iddo ei hun yn unig, ac nid i ereill, ond er ei fwyn ei hun, bydded yr Eglwys, ei wlad neu yr hîl ddynol. Gwneyd lles yn unig er mwyn enw, anrhydedd, a gogoniant, sydd hefyd yn ffurf o hunan-gariad: oblegid os na cheir y gwobrwyon hyn wrth wasanaethu ereill, dywed y dyn hunanol yn ei galon: "Beth sydd a fynwyf fi â hyn? Paham y rhaid i mi wneyd hyn? Pa fantais yw i mi?" felly, ni wna. Eglur, gan hyny, nad yw y dyn sydd mewn hunan-gariad, yn caru yr Eglwys, na'i wlad, na chymdeithas, nac unrhyw lesiant, ond ei hun yn unig. Ei fwynhad yw mwynhad hunan-gariad yn unig, a chan mai y mwynhad dardd o'r cariad gyfansodda fywyd dyn, felly, ei fywyd sydd fywyd o hunan: a bywyd o hunan a dardd o'r hyn yw dyn ynddo ei hun, a'r hyn yw dyn ynddo ei hun nid yw ond drwg. Yr hwn a gâr ei hun, a gâr hefyd y rhai sydd gysylltiedig âg ef: megis ei blant, ei wyrion, a phawb sydd yn un âg ef, ac a eilw yn gyfeillion. Eu caru hwy hefyd yw caru ei hunan. Canys edrycha arnynt fel ynddo ei hun, ac yntau ynddynt hwythau, a chyfrif yn gyfeillion iddo, bawb a'i canmolant, a'i parchant ac a dalant warogaeth iddo.

557. Ymddengys natur hunan-gariad yn eglur wrth ei gydmaru â chariad nefol. Cariad nefol sydd gynwysedig mewn caru gweithredoedd defnyddiol er eu mwyn eu hunain, sef y gweithredoedd da wna dyn i'r Eglwys, i'w wlad, i'r gymdeithas y perthyn iddi, a'i





gyd-ddinasyddion: oherwydd hyn yw caru yr Arglwydd a'r cymydog, canys y mae amcanion defnyddiol, a phob gweithredoedd da o'r Arglwydd, a rhai hyn yw y cymydog sydd i'w garu; ond pwy bynag a'u câr er ei fwyn ei hun, a'u câr yn unig fel gweision yn gweinu er enill neu esmwythder iddo ei hun, gan hyny, mynai yr hwn sydd mewn hunan-gariad gael yr Eglwys, ei wlad, ei gydddinasyddion, a'r holl hîl ddynol i'w wasanaethu ef. Gesyd ei hun uwchlaw iddynt, a hwythau islaw iddo ef. Cyn belled, gan hyny, y byddo un mewn hunan-gariad, efe a symud ei hun o'r nefoedd, oblegid ei fod yn symud ei hun o'r cariad nefol.

558. Eto, mor bell y byddo unrhyw un yn y cariad nefol, arweinir ef gan yr Arglwydd, gan fod y cariad hwnw yn gynwysedig mewn amcanion defnyddiol a gweithredoedd da, a'u cyflawni oddiar hyfrydwch calon, er mwyn yr Eglwys, ein gwlad, ein cydddinasyddion neu yr hîl ddynol; canys y mae yr Arglwydd ei hun yn y cariad hwnw, a disgyna o Hono. Hor bell hefyd y byddo unrhyw un mewn hunan-gariad, arweinir ef ganddo ei hun: canys y cariad hwnw sydd gynwysedig mewn cyflawni swyddau defnyddiol a gweithredoedd da er ei fwyn ei hun yn unig: ond i'r graddau yr arweinir unrhyw un ganddo ei hunan, nis arweinir ef gan yr Arglwydd, o ganlyniad, mor bell y mae unrhyw un yn caru ei hunan, efe y ymbellhâ oddiwrth y Duwdod, ac felly, oddiwrth y nefoedd. Arweinir dyn ganddo ei hunan pan yr arweinir ef gan yr hyn yw ynddo ei hun *(proprium)*, ond nid yw yr hyn yw dyn ynddo ei hun ddim ond drwg: canys ei anian ddrwg etifeddol yw, yn gynwysedig mewn caru ei hunan yn fwy na Duw, a'r byd yn fwy na'r nefoedd. Gollyngir dyn i'r hyn yw ynddo ei hunan, ac felly i'w ddrygau etifeddol, mor aml ag y cyflawna weithredoedd da er ei fwyn ei hunan: oherwydd y pryd hwn, edrycha o'i weithredoedd da atto ei hun, ac nid oddiwrtho ei hun at y gweithredoedd da, ac felly y gweithredoedd da ydynt ddelw o hono ef ei hun ac nid o'r Duwdod. Cadarnhawyd hyn i mi trwy brofiad. Y mae ysbrydion aflan yn y rhan ganolog, rhwng y Gogledd a'r Gorllewin, dan y nefoedd, yn fedrus yn y ddyfais o arwain ysbrydion o dueddiadau da i'r hyn ydynt ynddynt eu hunain *(proprium)*, ac o ganlyniad i ddrygau o wahanol fathau, yr hyn a wnant trwy ddwyn i fewn iddynt feddyliau am danynt eu hunain, naill ai yn agored, trwy glod ac anrhydedd, neu yn ddirgel, trwy gyfeirio eu serchiadau attynt eu hunain; ac mor bell y cyflawnant hyn, troant wynebau yr ysbrydion hyny ymaith o'r nefoedd, gan dywyllu eu deall, a dwyn allan ddrygau o'r hyn ydynt ynddynt eu hunain *(proprium)*.

558*. Fod hunan-gariad yn wrthgyferbyniol i gariad at gym-

* Ceir y rhif hon ddwywaith yn y gwreiddiol.

ydog, sydd eglur oddiwrth darddiad a hanfod y ddau. Gyda rhai sydd mewn hunan-gariad, dechreua cariad at gymydog gyda hwy eu hunain, oblegid honant mai cymydog agosaf dyn yw efe ei hun, ac felly oddiwrth hunan, fel canolbwynt, yr â eu cariad allan at bawb sydd yn un â hwynt, gan leihau ar eu ffordd, fel y bydd eu hundeb trwy gariad yn lleihau, ac yn llwyr ddiflanu gyda y rhai tuallan i'w cymdeithas, gan gyfrif yn elynion y rhai sydd groes iddynt hwy a'u drygau, er fod y cyfryw yn ddoeth ac uniawn, yn ddidwyll a chyfiawn. Ond y mae cariad ysbrydol tuag at gymydog yn dechreu gyda'r Arglwydd, ac oddiwrtho Ef fel canolbwynt, lleda i bawb sydd yn un âg ef mewn ffydd a chariad, gan ymestyn tuag at bawb yn ol ansawdd eu cariad a'u ffydd. Felly, eglur yw fod y cariad tuag at gymydog a ddechreua gyda dyn ei hun, yn wrthgyferbyniol i'r cariad ddechreua gyda'r Arglwydd; a bod y cyntaf yn deilliaw o'r drwg, am ei fod yn tarddu yn yr hyn yw dyn o hono ei hun *(proprium)*; ond yr olaf a ddeillia o'r da, am ei fod yn dyfod o'r Arglwydd, yr Hwn yw Daioni ei hun. Amlwg hefyd fod y cariad at gymydog ddeillia oddiwrth ddyn fel y mae o hono ei hun, yn anianol, tra y mae y cariad a ddeillia oddiwrth Dduw yn nefol. Mewn gair, lle y mae hunan-gariad yn rheoli, cyfansodda ben y dyn, tra nad yw y cariad nefol ond y traed y saf arnynt os yn gyfleus iddo; os amgen, sathra y cariad hwn dan ei draed. Dyma y rheswm yr ymddengys y rhai a deflir i uffern yn cwympo ar eu penau a'u traed i fyny tua'r nefoedd (gwel uchod, r. 548).

559. Hunan-gariad hefyd sydd o'r fath ansawdd, i'r graddau y rhoddir rhyddid iddo, hyny yw, mor bell y symudir rhwymau allanol, rhuthra yn mlaen mewn chwant gynddeiriog, i lywodraethu nid yn unig yr holl ddaear, ond hefyd yr holl nefoedd, ac hyd yn oed y Duwdod ei hun: canys ni ŵyr na ffin na therfyn. Llecha y duedd hon yn mhob un sydd mewn hunan-gariad, er nad ymddengys i'r byd, lle yr attelir ef gan ofn y gyfraith a'i chosbau, neu ofn colli cymeriad, anrhydedd, enill, swydd, neu fywyd,—y rhwymau y soniwyd am danynt eisioes. Gwelir hyn yn eglur oddiwrth ymddygiad brenhinoedd a llywodraethwyr, nad ydynt ddarostyngedig i'r fath rwymau: oblegid rhuthrant mewn angerddoldeb i goncro talaethau a theyrnasoedd, ac awyddant am awdurdod ddiderfyn, gyda chwantau na wna llwyddiant ond eu heangu. Yr un gwirionedd sydd fwy eglur byth, oddiwrth yr Eglwys Babaidd, sef Babylon, yn estyn ei theyrnwialen dros y nef, ac a ysbeilia holl allu Dwyfol yr Arglwydd iddi ei hun, ac a drachwanta yn barhaus am ychwaneg. Pan â dynion o'r cymeriad hwn i'r byd arall, y maent yn hollol elynol i'r Duwdod ac i'r nefoedd, ac yn ffafriol i uffern fel y gwelir yn y Llyfr "Ar y Farn Ddiweddaf a Dinystr Babylon."





560. Dychmyger am gymdeithas gyfansoddedig oll o ddynion yn caru eu hunain yn unig, ac heb garu ereill ond mor bell y byddont yn un â hwy. Eglur yw fod eu cariad yn gyffelyb i'r cariad fodola rhwng lladron: canys cofleidiant a galwant eu gilydd yn gyfeillion pan yn un er mwyn budd cyffredinol; ond pan dorir yr undeb, dirmygant bob llywodraeth a lladdant eu gilydd. Pe chwilid mewnolion neu feddyliau y fath ddynion, gwelid eu bod yn llawn digofaint marwol tuag at eu gilydd, tra y chwarddant yn eu calonau am ben pob cyfiawnder a didwylledd, ac hyd yn oed am y Duwdod ei hun: canys cyfrifant Ef fel ddiddym. Ymddengys hyn yn fwy eglur pan driniwn y cymdeithasau yn uffern, cyfansoddedig o ysbrydion dan reolaeth hunan-gariad.

561. Y mewnolion perthynol i feddyliau a serchiadau y rhai a garant eu hunain uwchlaw pob peth, a droant attynt eu hunain a'r byd, ac felly ymaith oddiwrth yr Arglwydd a'r nefoedd. O ganlyniad, llenwir hwynt â drygau o bob math, fel nas gall dim Dwyfol lifo i fewn iddynt: canys halogir y dylifiad dwyfol ar ei fynediad cyntaf iddynt, drwy eu meddyliau hunanol, tra yr ymgymysga ar yr un pryd â'r drygau godant o'r hyn ydynt hwy o honynt eu hunain *(proprium)*. Oherwydd hyn, y rhai hunanol yn y byd arall a edrychant ymaith oddiwrth yr Arglwydd tua chrynswth y tywyllwch eithaf a leinw le haul y byd naturiol, ac yn hollol wrthgyferbyniol i haul y nefoedd, sef yr Arglwydd (gwel uchod, r. 123). Tywyllwch eithaf yn y Gair a arwydda ddrygau, a haul y byd naturiol, hunan-gariad.

562. Drygau neillduol rhai mewn hunan-gariad ydynt, diystyrwch o ereill, cenfigen, digofaint, ac o ganlyniad, gelyniaeth at bawb na wnant eu pleidio; atgasrwydd o wahanol fathau, dialedd, cyfrwysdra, dichell, anrhugarogrwydd, a chreulonder. Am grefydd, nid yn unig meithrinant ddiystyrwch tuag at y Duwdod a phethau dwyfol, sef gwirionedd a daioni yr Eglwys, ond teimlant ddigofaint attynt, a'r digofaint hwnw a droir yn gasineb pan ddeuant yn ysbrydion: canys y pryd hwnw, nid yn unig nis gallant oddef clywed am wirionedd a daioni yr Eglwys, ond ffyrnigant mewn atgasrwydd at bawb fyddo yn cydnabod ac addoli y Duwdod. Bum yn siarad unwaith ag ysbryd a fu yn ŵr o ddylanwad yn y byd, ond a garai ei hun yn ddiderfyn; pan soniais wrtho am Dduw, ac yn enwedig enw yr Arglwydd, cyffrowyd ei atgasrwydd i'r fath raddau, llosgai mewn gorawydd i ladd yr Arglwydd. Pan nad oedd attalfa ar ei gariad, dymunai fod yn frenin uffern, fel y gallai flino y nefoedd yn ddibaid oddiar hunan-gariad. Coledda llawer o'r Pabyddion y dymuniad hwn, pan welant yn y byd arall fod pob gallu gan yr Arglwydd, a dim ganddynt hwy.

563. Ymddangosodd rhyw ysbrydion i mi unwaith yn y parth gorllewinol tua'r dehau, yn dywedyd iddynt lenwi swyddau

urddasol iawn pan yn y byd, ac yr haeddant eu dyrchafu uwchlaw ereill, a'u rheoli; ond pan brofwyd hwy gan yr angylion, a phan ddadblygwyd eu nhatur fewnol, gwelwyd nad defnyddioldeb oedd eu dyben wrth gyflawni eu swyddau yn y byd, ond eu hunain yn unig, felly, dewisach ganddynt eu hunain na defnyddioldeb. Ond gan eu bod yn angerddol awyddus i'w gosod goruwch ereill, caniatawyd iddynt gymeryd eu lleoedd yn mysg personau y dibynai arnynt drefnu materion pwysig: yna gwelwyd nas gallent ystyried y pwnc dan sylw, na gweled pethau yn fewnol ynddynt eu hunain: siaradent hefyd, nid oblegid defnyddioldeb y mesur gynygiwyd, ond oddiar ddyben hunanol: a gwelwyd y gweithredent oddiar ffafr bersonol yn ol eu pleser a'u mympwy eu hunain. Am hyny, diswyddwyd hwynt, a gadawyd iddynt chwilio gwaith yn rhyw le arall. Yna aethant yn bellach i'r gorllewin, a derbyniwyd hwy yn awr mewn un lle, ac wedi hyny mewn lle arall. Ond dywedid wrthynt yn mhob man na feddylient am ddim ond eu hunain, o ganlyniad eu bod yn hurtiaid fel ysbrydion cnawdol a chorfforol. Am hyny, alltudiwyd hwynt o bob parth, ac o'r diwedd mewn dygn dlodi, erfynient am elusen. Profa hyn, yn eglur, er y gall rhai mewn hunan-gariad ymddangos ar y ddaear yn llefaru fel doethion o wres y fath gariad, eto, nid yw eu lleferydd ond o'r côf, ac nid o oleuni rheswm. Ond yn y byd arall, ni oddefir i bethau y côf naturiol gael eu hadgoffa, gan hyny, mwy hurt yw yr ysbrydion hyn nag ereill, am eu bod ar wahan â'r Duwdod.

564. Y mae dau fath o Arglwyddiaeth. Tardd un o gariad at gymydog, a'r llall o hunan-gariad, ac felly y maent yn eu hanfodion yn hollol groes i'w gilydd. Yr hwn arfera awdurdod oddiar gariad at gymydog, a ddymuna wneyd da i bawb, ac ni châr ddim yn fwy na defnyddioldeb, ac felly i wasanaethu ereill; ond gwasanaethu ereill yw dymuno eu llwyddiant, a bod yn ddefnyddiol i'r Eglwys, i'n gwlad, i gymdeithas a'n cyd-ddeiliaid. Hyn, gan hyny, yw cariad yr hwn a gâr ei gymydog, a hyn yw hyfrydwch ei galon: o ganlyniad, pan godir ef i swyddau urddasol uwchlaw ereill, llawenha nid oblegid urddas y swyddau eu hunain, ond oblegid y fantais i fod yn fwy defnyddiol. Y fath yw Arglwyddiaeth y nefoedd. Ond yr hwn a reola oddiar hunan-gariad, ni ddymuna lwyddiant neb ond ei hunan, ac felly, cyflawna ei holl weithredoedd defnyddiol er mwyn ei barch a'i ogoniant ei hun, am mai y pethau hyn yn unig sydd ddefnyddiol yn ei olwg ef. Hyd yn oed pan yn gwasanaethu ereill, ei amcan cuddiedig yw gwasanaethu ei hun, fel y caffo ei barchu a'i godi i awdurdod uwch. Fel hyn y trachwanta am awdurdod, nid er mwyn gwneyd da i'r Eglwys a'i wlad, ond er mwyn bod yn fawr a gogoneddus, a thrwy hyny fwynhau hyfrydwch ei galon. Erys





cariad at awdurdod gyda phob un wedi gadael y byd; ond i'r rhai hyny yn unig a arferant eu hawdurdod oddiar gariad at gymydog yr ymddiriedir awdurdod a nerth yn y nef: oblegid nid eu hawdurdod yn bersonol yn unig, ond y defnyddioldeb a garant reola ynddynt; a phan reola defnyddioldeb, rheola yr Arglwydd. Ar y llaw arall, y rhai a arferant awdurdod yn y byd o dan ddylanwad hunan-gariad, ydynt gaethion truenus yn uffern. Gwelais fawrion daear, a deyrnasent yn drahaus, yn cael eu taflu i ganol yr ysbrydion gwaelaf, a rhai o honynt yn preswylio yn y ffauau mwyaf ffiaidd.

565. Nid yw cariad at y byd mor uniongyrchol groes i gariad nefol âg yw hunan-gariad, am nad oes drygau mor ofnadwy yn guddiedig ynddo. Cynwysa cariad at y byd, ddymuniad i feddianu golud ereill trwy bob math o ddyfeisiau: trwy roddi y galon ar gyfoeth, a gadael y byd i'w tynu oddiwrth gariad ysbrydol, sef cariad at gymydog, a thrwy hyn ein dyeithrio oddiwrth y nefoedd a'r Duwdod. Ond y mae i'r cariad hwn lawer ffurf; y mae cariad at gyfoeth er mwyn codi i swyddau urddasol yn cynyrchu hyfrydwch bydol. Y mae cariad at gyfoeth er ei fwyn ei hun, yr hyn yw cybydd-dod, ac felly yn mlaen. Y dyben y chwenychir golud, sef ei ddefnyddioldeb, a rydd ei ansawdd i'r cariad atto, oblegid tardd ansawdd pob cariad o'i ddyben neu ei amcan; canys y mae pob peth arall yn îs-wasanaethgar iddo.

### Beth feddylir wrth Dan Uffern a Rhingcian Dannedd.

566. Hyd yma, nid oes nemawr wedi deall ystyr y tân tragwyddol, a'r rhingcian dannedd, y dywedir am danynt yn y Gair fel tynged y rhai sydd yn uffern: o herwydd meddylia dynion yn faterol am y Gair, oddiar anwybodaeth o'i ystyr ysbrydol, ac felly meddylia rhai fod tân yn dynodi tân materol; rhai ei fod yn sefyll am boenau yn gyffredinol; rhai ei fod yn arwyddo ingoedd cydwybod; ac ereill, fod y gair yn cael ei arfer yn unig i beri braw, a dychrynu y rhai drwg rhag cyflawni troseddau. Felly y meddylia rhai fod rhingcian dannedd, yn golygu y weithred yn llythrenol: ac ereill, mai dim ond dychryn olygir, tebyg i'r hyn gyffroir gan y swn. Ond gwybodaeth o ystyr ysbrydol y Gair, a ddengys wir ystyr y tân tragwyddol, a'r rhingcian dannedd: canys i bob ymadrodd a brawddeg o'r Gair y mae ystyr ysbrydol; oblegid ysbrydol yw y Gair yn ei hanfod, ac nis gellir datguddio yr hyn sydd ysbrydol i ddyn ond mewn modd naturiol: am fod dyn yn y byd naturiol, ac yn meddwl oddiar bethau y byd hwnw. Dangoswn yn awr, gan hyny, beth yw y tân tragwyddol, a beth olygir wrth y rhingcian dannedd, pan arferir yr ymadroddion i ddynodi ystâd ysbrydion ar ol marw.

567. Tardd gwres o ddwy ffynonell: un yw haul y nefoedd, sef

yr Arglwydd, a'r llall yw haul y byd. Y gwres a ddeillia o haul y nefoedd, sydd wres ysbrydol, yr hwn yn ei hanfod sydd gariad (gwel uchod, r. 126—140); ond y gwres a ddeillia o haul y byd sydd wres naturiol, yr hwn nad yw yn ei hanfod yn gariad, ond a addasir i weithredu fel derbynfa y gwres ysbrydol, neu gariad. Mai cariad yn ei hanfod yw gwres sydd amlwg oddiwrth y ffaith, fod y meddwl a'r corff yn cynhesu trwy gariad, yn ol graddau ac ansawdd y cariad. Profa dyn hyn yn y gauaf fel yr haf. Gwres y gwaed hefyd sydd brawf pellach o'r un peth. Fod gwres naturiol, gyfyd oddiwrth haul y byd yn gweithredu fel derbynfa i'r gwres ysbrydol sydd eglur oddiwrth wres y corff: canys cynyrchir gwres y corff gan wres yr ysbryd, gan lanw ei le yn y corff; gwelir hyn yn neillduol oddiwrth effaith gwres yn y gwanwyn a'r haf ar greaduriaid o bob rhyw, canys adnewyddant eu serchiadau yr adegau hyny bob blwyddyn: nid fod y gwres hwnw yn eu hysbrydoli â chariad, ond parotoa eu cyrff i dderbyn y gwres a lifa i fewn iddynt o'r byd ysbrydol: canys dylifa y byd ysbrydol i'r byd naturiol fel achos i'w effaith. Os dychmyga neb mai gwres naturiol sydd yn cynyrchu serchiadau anifeiliaid, twyllir ef yn fawr, canys dylifa y byd ysbrydol i'r byd naturiol, ac nid y gwrthwyneb: ac ysbrydol yw pob cariad, oblegid ei fod o'r bywyd ei hun. Os oes unrhyw un yn credu y bodola unrhyw beth yn y byd naturiol yn annibynol ar ddylifiad o'r byd ysbrydol, twyllir yntau hefyd, am fod pob peth naturiol yn bodoli a pharhau i fodoli oddiwrth bethau ysbrydol. Hefyd, egina gwrthrychau y deyrnas lysieuog trwy ddylifiad o'r byd ysbrydol, oblegid ni wna gwres naturiol y gwanwyn a'r haf ond yn unig parotoi yr hadau i'w ffurfiau naturiol wrth eu hagor a'u lledu i dderbyn y dylifiant hwnw o'u mewn fel achos eu blaendarddiad. Nodir y ffeithiau hyn er profi fod dau fath o wres, un yn ysbrydol, a'r llall yn naturiol: fod y gwres ysbrydol yn tarddu o haul y nefoedd, a gwres naturiol o haul y byd; ac mai dylifiad yr ysbrydol i'r naturiol, a chydweithrediad canlynol y naill a'r llall, sydd yn cynyrchu yr effeithiau a welir yn y byd.

568. Y gwres ysbrydol fodola mewn dyn yw gwres ei fywyd, canys fel y nodwyd, cariad yw y gwres hwnw yn ei hanfod; a hyn feddylir yn y Gair wrth dân. Tân nefol a arwydda gariad at yr Arglwydd a chariad at gymydog; a thân uffernol a arwydda hunan-gariad a chariad at y byd.

569. Daw tân uffern, neu gariad uffernol o'r un ffynonell a thân y nefoedd neu gariad nefol. Deillia y ddau o haul y nefoedd, sef yr Arglwydd, ond troir y Dylifiad Dwyfol yn uffernol gan y rhai a'u derbyniant: canys y mae pob dylifiad o'r byd ysbrydol yn myned i ansawdd y derbyniad roddir iddo, neu i ansawdd y ffurfiau y dylifa iddynt, yn hollol fel y newidir gwres a goleuni





haul y byd gan y pethau a'u derbyniant. Pan ddylifa gwres naturiol i blanhigion a blodau, cynyrcha dyfiant a thyn allan aroglau pêr a hyfryd; ond pan ddylifa yr un gwres i aflendid a chelanedd, achosa bydredd a thyn allan ddrygsawr atgas. Yr un modd, pan syrth goleuni naturiol ar un gwrthrych, dengys liwiau hardd a hyfryd, ond os syrth ar un arall, dengys rai salw a diserch. Felly y mae gyda goleuni a gwres haul y nefoedd, yr hwn sydd gariad: canys pan ddylifa y gwres neu y cariad i mewn i ddynion da, ysbrydion da neu angylion, gwna eu daioni yn ffrwythlon: ond pan ddylifa i rai drwg, bydd yr effafth yn hollol wahanol; canys eu drygau a fogant neu a wyrdroant y dylifiad. Felly hefyd, pan ddylifa goleuni y nefoedd i'r gwirioneddau a darddant o'r da, efe a rydd ddealltwriaeth a doethineb; ond pan ddylifa i'r cyfeiliornadau darddant o'r drwg, troir ef i wallgofrwydd a drychiolaethau o wahanol fathau. Felly yn mhob achos, dibyna yr effaith ar y derbyniad.

570. Gan mai hunan-gariad a chariad at y byd yw tân uffern, cynwysa bob chwant a berthyn iddynt: oblegid chwant yw cariad mewn ymarferiad dibaid, am fod dyn yn wastad yn dymuno yr hyn a gâr. Chwant yw hyfrydwch hefyd, oblegid pan gaffo dyn unrhyw beth a gâr neu a ddymuna, teimla hyfrydwch: ac nid oes unrhyw darddiad arall i hyfrydwch calon. Tân uffern, gan hyny, yw y chwant a'r hyfrydwch darddant oddiar hunan-gariad a chariad at y byd: a'r drygau darddant o'r ddau gariad hyn ydynt, diystyrwch o ereill; dygasedd a gelyniaeth at y rhai a'u gwrthwynebant; cenfigen, atgasrwydd, dialedd; ac o ganlyniad, ffyrnigrwydd a chreulonder: ac mewn perthynas i'r Duwdod, gwadu ei fodolaeth, ac o ganlyniad, gwawdio, diystyru, a chablu pethau sanctaidd yr Eglwys. Ar ol angeu, pan ddaw dyn yn ysbryd, troir y drygau hyn yn ddigofaint a gelyniaeth yn erbyn pob peth sanctaidd (gwel uchod, r. 562); a chan fod drygau yn y rhai drwg, yn parhaus anadlu distryw a chelanedd yn erbyn y rhai a alwant yn elynion, ac yn erbyn y rhai y llosgant gan gasineb a dialedd, felly hyfrydwch eu bywyd yw dymuno eu distrywio a'u lladd; a phan na allant wneuthur hyny, eto ymhyfrydant yn y dymuniad i'w niweidio a'u poeni. Dyma y pethau a olygir wrth dân yn y Gair, pan yn son am y drygionus ac uffern; ychwanegaf rai rhanau er cadarnhad: "Canys pob un o honynt sydd ragrithiwr a drygionus, a phob genau yn traethu ynfydrwydd; oherwydd anwiredd a lysg fel tân; y mieri a'r drain a ysa efe, ac a gyneu yn nrysni y coed; a hwy a ymddyrchafant fel ymddyrchafiad mwg; a bydd y bobl fel ymborth tân: nid eiriach neb ei frawd," Esaiah ix. 17, 18, 19. "A gwnaf ryfeddodau yn y nefoedd; ac yn y ddaear, gwaed a thân, a cholofnau mwg. Yr haul a droir yn dywyllwch," Joel ii. 30, 31. "Ei daear a droir yn bŷg

llosgedig. Nis diffoddir nos na dydd; ei mwg a ddring byth," Es. xxiv. 9, 10. "Canys wele y dydd yn dyfod yn llosgi megis ffwrn; a'r holl feilchion, a holl weithredwyr anwiredd, a fyddant sofl: a'r dydd sydd yn dyfod a'u llysg hwynt," Mal. iv. 1. "Babylon a aeth yn drigfa cythreuliaid—a hwy a lefasant pan welsant fwg ei llosgiad; a'i mwg hi a gododd yn oes oesoedd," Dat. xviii. 2, 18; xix. 3. "Ac efe a agorodd y pydew heb waelod; a chododd mwg o'r pydew, fel mwg ffwrn fawr: a thywyllwyd yr haul a'r awyr gan fwg y pydew," Dat. ix. 2. "Ac yr oedd yn myned allan o safnau y meirch, dân, a mwg, a brwmstan," Gan y tri hyn y lladdwyd traian y dynion, gan y tân, a chan y mwg, a chan y brwmstan," Dat ix. 17, 18. "Os addola neb y bwystfil, hwnw hefyd a ŷf o win digofaint Duw, yr hwn yn ddigymysg a dywalltwyd yn phīol ei lid ef; ac efe a boenir mewn tân a brwmstan," Dat. xiv. 9, 10. "A'r pedwerydd angel a dywalltodd ei phīol ar yr haul; a gallu a roed iddo i boethi dynion â thân. A phoethwyd y dynion â gwres mawr," Dat. xvi. 8, 9. "A bwriwyd hwy i'r llyn sydd yn llosgi gan dân a brwmstan," Dat. xix. 20; xx. 14, 15; xxi. 8. "Pob pren gan hyny, yr hwn nid yw yn dwyn ffrwyth da a dorir i lawr, ac a deflir yn tân," Math. iii. 10; Luc iii. 9. "Mab y dyn a ddenfyn ei angylion, a hwy a gynullant o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd; ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dân," Math. xiii. 41, 42, 50. "Yna y dywed efe hefyd wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragwyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion," Math. xxv. 41. Teflir hwynt i'r tân tragwyddol—"i dân uffern—lle na bydd eu pryf hwynt yn marw na'r tân yn diffodd," Math. xviii. 8, 9; Marc ix. 43—48. Dywedodd y gŵr goludog yn uffern wrth Abraham—"Fe a'm poenir yn y fflam hon," Luc xvi. 24. Yn y rhanau hyn, a llawer ereill, wrth dân y golygir chwant a dardd o hunan-gariad a chariad at y byd; ac wrth y mwg a ddeillia o hono, y golygir yr anwiredd a gyfyd o'r drwg.

571. Gan fod tân uffern yn dynodi chwant gwneyd drwg, yn tarddu o hunan-gariad a chariad at y byd, a chan fod y fath chwant yn ffynu yn holl drigolion uffern, fel y dangoswyd yn y benod flaenorol: o ganlyniad, pan agorir yr uffernoedd ymddengys yno welediad tân a mwg, fel pan fyddo tai ar dân. Ymddangosiad dwys danllyd sydd i'r uffernoedd lle rheola hunangariad yn benaf, ac ymddangosiad fflamllyd i'r rhai lle rheola cariad at y byd; ond pan gauir yr uffernoedd, nid oes ymddangosiad tanllyd, ond yn ei le, ymgasgliad dudew o fwg; er hyny, enyna y tân oddifewn, a chanfyddir hyn trwy y gwres ddaw allan o hono. Tebyg yw y gwres hwnw i wres adfeilion yn llosgi ar ol tân, ac mewn rhai manau fel gwres ffwrnes wedi ei phoethi,





tra mewn manau ereill tebyg yw i wres anwedd dwfr poeth; a phan ddylifa i ddyn, cynhyrfa eu chwantau. Mewn dynion drwg, deffroa atgasrwydd a dialedd, ac yn yr afiach gwallgofrwydd. Bodola y tân neu y gwres hwn yn mhawb a feithrinant hunangariad a chariad at y byd, oblegid fod eu hysbrydoedd yn gaeth i'r uffernoedd, lle y teyrnasa y ddau gariad hyn: o ganlyniad, y maent mewn cymundeb â hwynt, hyd yn oed pan yn byw yn y corff. Gwybydder, er hyny, nad yw trigolion uffern yn byw mewn tân, ond mai ymddangosiad yw y tân; canys ni theimlant losgiad, ond cynhesrwydd yn unig tebyg i'r hyn a deimlent ar y ddaear. Ymddangosiad y tân a gyfyd oddiwrth gyfatebiaeth, am fod cariad yn cyfateb i dân; ac y mae yr holl bethau a ymddangosant yn y byd arall yn gyfatebiaethau.

572. Troir tân uffern, neu y tân uffernol yn oerni angerddol, pryd bynag y dylifa gwres y nefoedd iddo; ac yna yr uffernolion a grynant, fel rhai wedi eu taro â thwymyn oerfel, a theimlant ddirdyniadau mewnol. Cyfyd hyn oddiwrth eu gwrthwynebiad hollol i'r Duwdod, oherwydd fod gwres y nefoedd, sef cariad dwyfol, yn diffodd gwres uffern, sef hunan-gariad, ac felly diffydd dân eu bywyd; ac oddi yma y daw oerni dirfawr, a chryndod a dirdyniadau. Yna y canlyn tywyllwch dudew, wedi hyny gwallgofrwydd a dallineb. Ond anfynych y cymer hyn le: dim ond pan fyddo angen tawelu terfysgoedd eithafol yr uffernoedd yn tori dros y terfynau.

573. Gan fod y tân uffernol yn dynodi pob chwant i wneyd drwg yn codi oddiar hunan-gariad, am hyny, dynoda hefyd boenau uffern: canys y chwant a ddeillia o'r cariad hwnw a dania yr hunanol â dymuniad i ddrygu pawb na wnant eu canmol, eu parchu a'u haddoli hwy; ac yn ol graddau eu digofaint, y casineb a'r dialedd dardd o hono yw eu chwant i arfer creulondeb tuag attynt. Pan reola y fath chwant yn mhob aelod o gymdeithas nad attelir gan rwymau allanol, megis ofn y gyfraith, neu ofn colli geirda, anrhydedd, elw, neu einioes, ymosoda pob un ar y llall, dan ddylanwad ei ddrwg ei hun, gan eu darostwng i'w ewyllys mor bell ag y gall; ac ymhyfrydu mewn creulonder tuag at y rhai nad ymostyngant. Hyfrydwch mewn creulondeb ddeil gysylltiad mor agos a chariad at awdurdod, fel y mae y ddau o angerddoldeb cyfartal lle bynag y byddont; canys y mae yr hyfrydwch o niweidio yn gynhenid mewn gelyniaeth, cenfigen, atgasrwydd, a dialedd, sef drygau y cariad hwnw. Cymdeithasau o'r fath yw yr holl uffernoedd, o ganlyniad, coledda pob ysbryd uffernol atgasrwydd calon tuag at bob ysbryd uffernol arall, ac or atgasrwydd hwnw, poena hwynt â chreulonderau erchyll, mor bell ag y gall. Y creulonderau hyn, a'r dirdyniadau a achosant a olygir hefyd wrth dân uffern, am eu bod yn effeithiau chwantau uffernol.

574. Dangoswyd yn r. 548 fod yr ysbrydion drwg yn taflu eu hunain i uffern o'u gwirfodd, er fod y fath boenau yno; dangosir yn awr pa fodd y mae hyn. Cyfyd o bob uffern gylch o'r chwantau sydd neillduol i'w thrigolion, a phan ganfyddir y cylch hwn gan unrhyw un mewn chwantau tebyg, cyffroir ei galon, a llenwir ef â hyfrydwch: oherwydd y mae chwant a'i hyfrydwch yn un, canys pa beth bynag y chwanta dyn am dano sydd hyfryd iddo. O ganlyniad, try yr ysbryd ei hun tua'r uffern y deillia y cylch o honi, a dymuna fyned yno oddiar yr hyfrydwch calon a rydd iddo: canys ni ŵyr efe eto ddim am ei phoenau; ond hyd yn oed y rhai a wyddant am danynt a fynant fyned yno oddiar yr un dymuniad, oherwydd nis gall neb yn y byd ysbrydol wrthwynebu ei chwant ei hun: canys y chwant a gyfyd o'r cariad, a'r cariad a gyfyd o'r ewyllys, a pherthyna yr ewyllys i wir natur dyn, a phawb yno a weithredant o'u nhatur. Felly, pan fyddo ysbryd o'i wirfodd, neu o'i ryddid, yn cyfeirio ei gwrs i'w uffern ei hun, ac yn myned i fewn iddi, derbynir ef ar y cyntaf yn gyfeillgar, ac arweinir ef i gredu ei fod yn mhlith cyfeillion; ond ni phery hyn ond ychydig oriau, yn ystod y rhai y chwilir ef, o berthynas i natur ei gyfrwysdra, ac yna am ansawdd ei allu. Wedi yr ymchwil hon, dechreua ei gyfeillion newydd ei flino mewn gwahanol ffyrdd, gyda llymder ac angerdd cynyddol. Gwneir hyn trwy ei arwain yn fwy mewnol a dwfn i uffern; canys y mae yr ysbrydion yn fwy adwythig fel y mae yr uffern, a breswyliant yn fwy mewnol a dwfn. Ar ol y blinderau cyntaf, poenant ef â chreulonderau, nes ei ddarostwng i gyflwr caethwas. Ond y mae cynhyrfiadau gwrthryfelgar yn cymeryd lle yn barhaus yno, am y dymuna pob un fod yn fwyaf, gan losgi mewn digofaint at ereill, ac o hyn cyfyd terfysgoedd newyddion, gan newid yr olygfa. Canys dygir allan y rhai oeddynt gaethion o'u caethiwed, fel y cynorthwyont ryw ddiafol newydd i ddarostwng ereill, tra y poenir mewn amryw ffyrdd y rhai nad ymostyngant, ac na roddant ufudd-dod perffaith i'r gormeswr. Felly y bydd yn barhaus. Y fath ddirdyniadau yw poenau uffern, ac a elwir yn dân uffern.

575. Rhingcian dannedd yw ymrysonau a gwrthdadleuon dibaid cyfeiliornadau amrywiol, ac o ganlyniad, y rhai a'u coleddant, yn nghyd â diystyrwch o ereill, gelyniaeth, gwawd, dirmyg, a chabledd. Tyr y drygau hyn allan hefyd yn wahanol fathau o gelanedd, oblegid ymladda pob un o blaid ei egwyddorion gau ei hun, gan eu galw yn wirionedd: a phan glywir yr ymrysonau a'r gwrthddadleuon hyn tuallan i'r uffernoedd, tebyg yw i swn rhingcian dannedd, a throir hwy yn rhingcian dannedd gwirioneddol, pan ddylifa gwirioneddau o'r nef i fewn yno. Yn yr uffernoedd hyny y mae pawb a gydnabyddant natur ac a wadant y Duwdod, a'r rhai sydd wedi cadarnhau eu hunain yn y fath bethau, sydd yn





yr uffernoedd dyfnaf. Y rhan amlaf o honynt sydd ysbrydion corphorol a chnawdol, neu rai na chredant ddim ond a welant â'u llygaid ac a deimlant a'u dwylaw: oblegid analluog ydynt i dderbyn unrhyw oleuni o'r nefoedd, ac felly nis gallant weled dim yn fewnol ynddynt eu hunain. Felly, y mae holl dwyll y synhwyrau yn wirionedd iddynt hwy, a dadleuant o dan eu dylanwad; a hyn yw y rheswm y swnia eu dadleuon fel rhingcian dannedd; canys y mae pob twyll yn y byd arall yn swnio yn arw, a'r dannedd a gyfatebant i'r pethau mwyaf allanol a berthynant i natur, ac hefyd i bethau mwyaf allanol dyn, sef y pethau corfforol a chnawdol. Fod rhingcian dannedd yn uffern a ddangosir yn Math. viii. 12; xiii. 42, 50; xxii. 13; xxiv. 51; xxv. 30; Luc xiii. 28.

### Am Ddwfn Ddrygioni a Dichellion Echryslawn yr Uffernolion.

576. Y mae rhagoriaeth ysbrydion mewn cydmariaeth i ddynion yn amlwg a dealladwy i bob un feddylia yn fewnol, ac a ŵyr ddim am weithrediadau ei feddwl ei hun; oblegid gall dyn bwyso, rhesymu, a thynu casgliadau mewn perthynas i fwy o faterion mewn mynudyn nas gall fynegi mewn ysgrifen neu lleferydd mewn hanner awr; ac oddiwrth hyn amlwg yw fel y rhagora dyn arno ei hun pan yn ei ysbryd, ac o ganlyniad, pan y delo yn ysbryd: canys yr ysbryd sydd yn meddwl, a'r corff yw yr offeryn i'r ysbryd fynegi ei feddyliau mewn lleferydd neu ysgrifen. Felly y canlyn, fod y dyn ddaw yn angel ar ol marw yn meddu deall a doethineb anrhaethadwy mewn cydmariaeth i'r hyn feddai yn ystod ei fywyd yn y byd: canys pan yr oedd yn byw yn y byd, ei ysbryd oedd rwymedig wrth ei gorff, a thrwy y corff yr oedd yn y byd naturiol; mewn canlyniad, llifai ei feddyliau ysbrydol i syniadau naturiol, y rhai sydd yn gydmarol gyffredin, cwrs, a thywyll, ac felly yn analluog i dderbyn aneirif bethau y meddwl ysbrydol. Syniadau naturiol, hefyd, a orchuddiant y rhai ysbrydol â chysgodau tewion yn codi oddiar ofalon y byd: ond derfydd y rhai hyn pan ryddheir yr ysbryd o'r corff, a myned o hono i'w ystâd ysbrydol, trwy gilio o'r byd naturiol i'w le ei hun, sef y byd ysbrydol; canys y mae ystâd ei feddwl a'i gariad y pryd hwn yn llawer rhagorach na chynt, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywedwyd; ac felly y mae y meddwl angylaidd yn ymestyn i bethau anrhaethol ac anrhaethadwy, nas dichon dyn eu hamgyffred yn ei feddwl naturiol: er fod pob angel wedi ei eni yn ddyn, wedi byw fel dyn, ac heb ymddangos iddo ei hun yn gallach na dynion ereill.

577. I'r graddau y mae doethineb a deall angylion yn aruchel ac anrhaethadwy, y mae dwfn ddrygioni yr uffernolion yn ddirfawr ac angerddol: oblegid pan ryddheir ysbryd dyn o'r corff, bydd

yn ei ddaioni ei hun neu yn ei ddrwg ei hun; ysbryd angylaidd yn ei ddaioni ei hun, ac ysbryd uffernol yn ei ddrwg ei hun: canys ei ddaioni ei hun neu ei ddrwg ei hun yw pob ysbryd, fel y dangoswyd yn fynych o'r blaen; o ganlyniad, gan fod ysbrydion angylaidd yn meddwl, ewyllysio, siarad, a gweithredu oddiar eu daioni eu hunain, yr un modd y gwna ysbrydion uffernol o'u drygioni eu hunain; ond meddwl, ewyllysio, llefaru, a gweithredu o'u drwg eu hunain, yw gwneyd hyny oddiar bob peth gynhwysir yn y drwg hwnw. Fel arall yr oeddynt pan yn y corff, oblegid y pryd hwnw, attelid drwg yr ysbryd trwy ofn y gyfraith, a chariad at elw, anrhydedd, a chlod. Rhwymir pob dyn gan y rhwystrau hyn, gan attal drygioni ei ysbryd dori allan yn ei wir ffurf. Heblaw hyn, gorchuddir ysbryd y dyn drwg â rhinwedd, didwyll-edd ac uniondeb allanol, ac â ffugiol gariad at wirionedd a daioni, er mwyn y byd. O dan yr ymddangosiadau allanol hyn, y llecha drwg mor guddiedig, fel nas gŵyr y dyn ei hun am ddwfn ddryg-ioni a dichellion ei ysbryd: na'i fod ynddo ei hun y fath ddiafol ag y bydd ar ol marw, pan ddaw ei ysbryd iddo ei hun ac i'w natur ei hun. Yna yr ymddengys drygioni i raddau anghred-adwy; canys tyr allan filoedd o ddrygau o'r drwg llywodraethol, ac yn eu plith, rai nas gellir eu desgrifio â geiriau unrhyw iaith. Caniatawyd i mi wybod eu hansawdd a'i ganfod trwy brofiad helaeth: canys caniataodd yr Arglwydd i mi fod yn y byd ysbrydol o ran fy ysbryd, ac ar yr un pryd yn y byd naturiol o ran y corff; ac felly gallaf dystiolaethu fod eu drygioni mor fawr, fel mai anmhosibl yw desgrifio y filfed ran o hono; ac hefyd pe na byddai yr Arglwydd yn amddiffyn dyn, anmhosibl fyddai iddo ddianc rhag uffern: canys y mae angylion o'r nef ac ysbrydion o uffern yn gweini ar bob dyn, fel y dangoswyd uchod (r. 292, 293), ac nis gall yr Arglwydd amddiffyn dyn oddieithr iddo gydnabod y Duwdod a byw mewn ffydd a chariad: canys os na fydd byw y fath fywyd, yn tarddu o'r fath gydnabyddiaeth, try ei hun oddi-wrth yr Arglwydd a thuag at yr uffernolion, ac felly llygrir ei ysbryd â'u drygioni hwy. Er hyny, tynir dyn yn barhaus gan yr Arglwydd oddiwrth y drygau a dŷn dyn atto ei hun, trwy fod mewn cysylltiad â chymdeithas yr ysbrydion hyny: canys os na attelir ef gan rwymau mewnol, sef rhwymau cydwybod, y rhai na dderbynia dyn os yn gwadu y Duwdod, eto attelir ef gan rwymau allanol, sef, fel y dywedwyd, ofn y gyfraith a'i chosbau, neu ofn colli elw, neu anrhydedd a chlod. Gellir, y mae yn wir, tynu y fath ddyn oddiwrth ei ddrygau trwy bleserau ei gariad, a thrwy ofn eu colli, ond nis gellir ei ddwyn felly i ddaioni ysbrydol: oherwydd pan dynir ef atto, myfyria gyfrwysder a dichellion, gan ymddangos yn dda, didwyll a chyfiawn, er mwyn perswadio ereill i feddwl yn dda am dano, ac felly eu twyllo. Ychwanega y cyf-





rwysder hwn ei hun at ddrygioni ei ysbryd, gan ei ffurfio, a'i lunio i'w ansawdd ei hun.

578. Y gwaethaf o'r holl ysbrydion yw y rhai oedd mewn drygau oddiar hunan-gariad, a'u gweithredoedd yn tarddu oddiar dwyll mewnol: oblegid treiddia twyll yn ddyfnach i feddyliau a bwriadau dyn nag unrhyw ddrwg arall, gan eu llygru â gwenwyn, a thrwy hyny, ddystrywio yr oll o fywyd ysbrydol dyn; trigiana y rhan fwyaf o'r rhai hyn yn yr uffernoedd sydd o'r tu cefn, a gelwir hwy yn *genii*. Eu prif hyfrydwch yw gwneyd eu hunain yn anweledig, a hofran o gylch ereill fel gwylliaid, a thywallt eu drygau yn ddirgel, a gwasgar gwenwyn o'u hamgylch fel gwib-erod; poenir y rhai hyn yn fwy ofnadwy nag ereill; tra y rhai nad oeddynt dwyllodrus, ac na ddifrodwyd gan ddichellion ffyrnig, ond ar yr un pryd mewn drygau yn codi o hunan-gariad, y maent hwythau hefyd mewn uffernoedd o'r tucefn, ond yn llai dwfn. Ar y llaw arall, y mae y rhai hyny sydd mewn drygau yn codi o gariad at y byd, yn yr uffernoedd o'r tu blaen, a gelwir hwy yn ysbrydion. Nid yw y rhai hyn yn y fath ddrygau, hyny yw, ni choleddant yr un atgasrwydd a dialedd a'r ysbrydion sydd mewn drygau yn codi o hunan-gariad, o ganlyniad, y maent yn llai cyfrwys a maleisus, a phreswyliant uffernoedd llai enbyd.

579. Datguddiwyd i mi trwy brofiad y fath ddwfn ddrygioni berthyn i'r rhai a elwir *genii*. Ni ddylifa y *genii* i'r meddyliau gan weithredu arnynt, ond i'r serchiadau, y rhai a ganfyddant ac a aroglant, fel y gwna cwn eu hysglyfaeth yn y goedwig. Pan gan-fyddant serchiadau da mewn unrhyw un, troant hwy ar unwaith i ddrwg, gan eu plygu mewn modd rhyfedd, trwy ei bleserau, a hyny mor lladradaidd, a chyda'r fath gyfrwysder uffernol, fel nad yw y dyn yn ymwybodol o hono, oherwydd arferant y gofal cywreiniaf i rwystro dim rhag myned i'r meddwl, canys bradychai hyny hwynt. Eu safle gyda dyn sydd islaw rhan ol y pen. Y *genii* hyn oedd ddynion a hudent feddyliau ereill trwy gyfrwysder, trwy eu tynu a'u perswadio trwy bleserau eu chwantau; ond gyrir y fath ysbrydion gan yr Arglwydd oddiwrth bob dyn sydd ag unrhyw obaith am ei ddiwygiad: oherwydd eu dylanwad sydd y fath, fel y maent yn alluog, nid yn unig i ddystrywio cydwybod dyn, ond hefyd i ddeffroi ei ddrygau etifeddol, y rhai pe amgen, a arosent yn guddiedig. Am hyny, darperir gan yr Arglwydd fod uffernoedd y *genii* yn hollol gauedig, er attal i ddyn gael ei dynu i'r drygau hyny; a phan ddaw unrhyw ddyn o'r fath gym-eriad i'r byd arall, teflir ef ar unwaith i'w huffern. Pan edrychir i mewn i dwyll a chyfrwysder y *genii* hyn, ymddangosant fel gwiberod.

580. Dwfn ddrygioni yr uffernolion sydd amlwg oddiwrth eu dyfeisiau: mor lliosog ydynt, llenwid cyfrol pe na wneyd ond eu

henwi, a byddai desgrifiad o honynt yn gofyn llawer cyfrol; ond y mae y dyfeisiau hyn bron yn hollol anadnabyddus yn y byd. Perthyna *un math* i gamarfer cyfatebion; *ail fath* i gamdriniaeth o allanolion Dwyfol Drefn; y *trydydd* i gyfranogiad a dylifiad meddyliau a serchiadau trwy droi at yr un a lygrant, trwy sefydlu eu llygaid arno, trwy weithredu arno trwy ysbrydion ereill o'r pellder, a thrwy ereill wedi eu hanfon oddiwrthynt eu hunain; perthyna y *pedwerydd* i weithrediadau trwy ddrychiolaethau; y *pumed* i anfoniad allan feddyliau a theimladau, trwy yr hyn y byddant yn bresenol mewn lle gwahanol i'r hwn y maent ynddo yn gorfforol: a'r *chwechfed* i ffugiau, darbwylliadau, a chelwyddau. Pan rhyddheir ysbryd dyn drwg o'r corff, arfera y dyfeisiau hyn o hono ei hun, am eu bod yn gynhenid yn natur drwg, ac fel hyn y poena yr uffernolion eu gilydd yn yr uffernoedd; ond gan fod y dyfeisiau hyn yn anadnabyddus ar y ddaear, oddieithr y rhai gynwysir yn y ffugiau, y darbwylliadau, a'r celwyddau, ni ddesgrifiaf hwynt yn fanwl, am na ddeallid hwynt, ac hefyd, am eu bod mor ofnadwy.

581. Yr Arglwydd a ganiata boenau yn uffern, am nad oes ffordd arall i attal a darostwng y drygau sydd yno: canys yr unig ffordd i'w hattal a'u darostwng, a thrwy hyny, gadw yr uffernolion o fewn terfynau, yw ofn cospedigaeth. Nid oes ffordd arall; oblegid heb ofn cospedigaeth ac arteithiau, rhuthrai y drwg allan i wallgofrwydd, a difrodid y bydysawd, fel y difrodid teyrnas ar y ddaear, pe heb ddeddf na chospedigaeth ynddi.

### Ymddangosiad, Sefyllfa, ac Amledd yr Uffernoedd.

582. Y mae y gwrthrychau sydd weledig yn y byd ysbrydol, lle trig ysbrydion ac angylion, mor debyg i'r rhai sydd yn y byd naturiol, fel nad oes wahaniaeth gweladwy rhyngddynt. Y mae yno wastadeddau, a mynyddoedd, a bryniau, a chreigiau, a dyffrynoedd, a llawer o bethau ereill a welir ar y ddaear; ond y maent oll yn bodoli o darddiad ysbrydol, o ganlyniad, yn weledig i ysbrydion ac angylion yn unig, ac nid i ddynion, am eu bod hwy yn y byd naturiol: oblegid rhai ysbrydol a welant bethau sydd o darddiad ysbrydol, a rhai naturiol bethau o darddiad naturiol. Oblegid hyn, anmhosibl i ddyn weled y gwrthrychau sydd yn y byd ysbrydol cyn y daw yn ysbryd ar ol angau, oddieithr i'r Arglwydd ganiatau iddo fod yn yr ysbryd; ac nis gall angel neu ysbryd weled dim yn y byd naturiol, os na bydd yn bresenol gyda dyn y caniateir iddo siarad âg ysbrydion ac angylion. Canys y mae llygaid dyn wedi eu haddasu i dderbyn goleuni y byd naturiol, a llygaid angylion ac ysbrydion i dderbyn goleuni y byd ysbrydol, ac eto y mae llygaid y naill a'r llall yn ymddangos yn hollol debyg. Nis gall y dyn anianol amgyffred mai y fath yw natur y





byd ysbrydol, a llai fyth y dyn cnawdol, yr hwn na chred ond a wel a'i lygaid corfforol, ac a gyffwrdd a'i ddwylaw corfforol: am mai argraffiadau materol golwg a theimlad yw unig sylfaen ei ffydd, efe a feddylia oddiar yr argraffiadau hyny, am hyny, materol yw ei feddwl ac nid ysbrydol. Y tebygolrwydd rhwng y byd naturiol a'r byd ysbrydol a wna i rai newydd farw deimlo yn ansicr pa un a ydynt eto yn y byd lle eu ganwyd, ac o'r hwn yr ymadawsant, felly galwant angau yn symudiad o un byd i'r llall. Fod y fath debygolrwydd rhwng y ddau fyd a welir uchod yn y benod ar Arddangosiadau ac Ymddangosiadau yn y nefoedd (r. 170—176).

583. Y mae y nefoedd yn y parthau uchaf o'r byd ysbrydol; byd yr ysbrydoedd mewn parthau îs; a'r uffernoedd dan y ddau. Nid yw y nefoedd yn weledig i'r ysbrydion sydd yn myd yr ysbrydoedd, ond pan agorir eu golwg fewnol, er yr ymddengys ar amserau fel niwloedd neu gymylau gwynion: am fod angylion y nefoedd mewn ystâd fewnol o ddealltwriaeth a doethineb, ac felly uwchlaw golwg y rhai sydd yn myd yr ysbrydoedd; ond gwel yr ysbrydion sydd yn y gwastadeddau a'r dyffrynoedd eu gilydd, hyd nes gwahenir hwy trwy eu gollwng i'w mewnolion; canys ar ol hyn ni wel y rhai drwg y rhai da mwyach, er y gall y rhai da weled y rhai drwg; ond y rhai da a droant eu hunain oddiwrth y rhai drwg, ac felly y byddant yn anweledig. Nid yw yr uffernoedd yn weledig o fyd yr ysbrydoedd, am eu bod yn gauedig; ond y mae yr agoriadau a elwir pyrth uffern yn weledig, pan agorir hwynt i ollwng ysbrydion drwg i fewn. Holl byrth uffern a agorant o fyd yr ysbrydoedd, ac nid o'r nefoedd.

584. Y mae uffernoedd yn mhob man, o dan fynyddoedd, bryniau, creigiau, gwastadeddau, a dyffrynoedd byd yr ysbrydoedd. Ymddengys yr agoriadau, neu byrth uffern, y rhai ydynt o dan y mynyddau, y bryniau, a'r creigiau, fel tyllau ac holltau mewn creigiau: rhai yn ymestyn yn eang a helaeth, rhai yn gul ac unionsyth, a llawer o honynt yn arw. Ymddangosant oll yn ddu a thywyll pan edrychir iddynt; ond y mae yr uffernolion sydd ynddynt mewn math o oleu tebyg i olosg yn cyneu, a'u llygaid yn addas i'w dderbyn: oherwydd pan drigent ar y ddaear, yr oeddent mewn tywyllwch dudew o ran gwirioneddau dwyfol, oblegid eu bod yn eu gwadu; ac ymddangosent mewn goleuni o ran cyfeiliornadau, am eu bod yn eu cadarnhau. O ganlyniad, daeth eu llygaid ysbrydol i ffurf yn cyfateb i'r goleuni hwnw, ac felly y mae goleuni y nefoedd yn dywyllwch eithaf iddynt, a phan ddeuant allan o'u ffauau, ni welant ddim. Profa y pethau hyn yn eglur, fod dyn yn cael agoriad i oleuni y nefoedd, i'r graddau y cydnabydda y Duwdod, ac y cadarnha ei hun yn ngwirioneddau a daioni y nefoedd a'r Eglwys; a'i fod hefyd yn myned i dywyllwch

eithaf uffern i'r graddau y gwâd y Duwdod, ac y cadarnha ei hun mewn pethau croes i ddaioni a gwirioneddau y nefoedd a'r Eglwys.

585. Y mae agoriadau neu byrth uffern, y rhai sydd dan y gwastadeddau a'r dyffrynoedd, o wahanol ffurfiau: rhai o honynt yn debyg i'r rhai sydd islaw y mynyddoedd, y bryniau, a'r creigiau; ereill yn debyg i ffauau ac ogofäu; ereill fel holltau a chwyrndrobyllau; rhai fel corsydd; a rhai fel llynoedd llonydd o ddwfr. Ond cuddir hwynt oll, ac ni chânt eu hagor, ond pan deflir ysbrydion aflan o fyd yr ysbrydoedd i fewn iddynt; yna cyfyd mygdarth o honynt, fel mwg a thân gyfyd oddiwrth dai ar dân; neu fel fflam heb fwg; neu fel y parddu a ddaw o simnai yn llosgi; neu fel niwl a chwmwl tew. Clywais nad yw yr uffernolion eu hunain yn gweled na theimlo y pethau hyn, gan eu bod ynddynt fel yn eu hawyrgylch eu hunain, ac felly yn hyfrydwch eu bywyd; gan fod y fath ymddangosiadau yn cyfateb i'r drygau a'r cyfeiliornadau sydd ynddynt; tân yn cyfateb i elyniaeth a dialedd; mwg a pharddu i'r cyfeiliornadau darddant o honynt; fflam i ddrygau hunan-gariad; a niwloedd a thew-gymylau i'r cyfeiliornadau a ddeilliant o'r drygau hyny.

586. Caniatawyd i mi edrych i'r uffernoedd, a gweled pa fath leoedd ydynt oddifewn: canys pan ewyllysia yr Arglwydd, treiddia llygaid ysbryd neu angel oddifry drwy eu dyfnderoedd, gan ddarganfod pob peth gynwysant, er eu bod dan orchuddion; ac yn y modd yma, goddefwyd i mi edrych i mewn iddynt. Ymddengys rhai uffernoedd fel ogofäu a ffauau mewn creigiau yn troi tuag i fewn, wedi hyny ar osgo, neu i lawr yn unionsyth; rhai ereill fel llochesau a ffauau, fel y rhai y trig bwystfilod gwylltion ynddynt mewn coedwigoedd. Rhai ereill eto sydd fel ogofäu bwaog ac ystafelloedd cuddiedig, megis y gwelir mewn mwngloddiau, ac ogofäu ynddynt yn cyfeirio i'r gororau obry: y rhan fwyaf o honynt sydd driphlyg, y parthau uchaf yn ymddangos yn hollol dywyll, am y trigianir hwy gan ysbrydion mewn cyfeiliornadau yn codi o'r drwg; ond ymddengys y rhan isaf yn danllyd, am y trigianir hwy gan ysbrydion sydd mewn drygioni eu hunain, canys y mae tywyllwch eithaf yn cyfateb i'r cyfeiliornadau a darddant o'r drwg, a thân i'r drwg ei hun. Y rhai a weithredant yn fewnol oddiar ddrwg sydd yn yr uffernoedd dyfnaf, a'r rhai weithredant yn allanol oddiar ddrwg, sef oddiar gyfeiliornadau yn tarddu oddiar ddrwg, mewn uffernoedd llai ddwfn. Mewn rhai uffernoedd ymddengys megis adfeilion tai a dinasoedd wedi coelcerth gyffredinol, a thrigiana yr uffernolion yn yr adfeilion hyn gan ymguddio ynddynt. Yn yr uffernoedd llai ffyrnig ymddengys megis bwthynod diaddurn mewn rhai manau yn gysylltiedig â'u gilydd, fel heolydd culion ac ystrydoedd dinas. Tufewn





i'r tai, y mae yr uffernolion mewn terfysgoedd parhaus, gelyniaethau, ymladdau, a llofruddiaethau, tra yr ystrydoedd a'r heolydd yn llawn ysbeiliadau ac anrheithiau. Mewn rhai uffernoedd nid oes ond puteindai, atgas yr olwg, yn orlawn o bob aflendid. Y mae hefyd goedwigoedd tewion, ac uffernolion yn gwibhela ynddynt fel bwystfilodd gwylltion, gan ymguddio mewn ffauau tan-ddaearol pan erlidir hwynt gan ereill: diffaethleoedd a'r oll ynddynt yn dywodllyd a diffrwyth, a chreigiau ysgythrog yma a thraw yn cynwys ogofäu; a bythod mewn manau ereill. I'r diffaethleoedd hyn y teflr allan o'r uffernoedd yr ysbrydion ddioddefasant eithafion cosb, yn enwedig y rhai fuont gyfrwysach nag ereill pan yn y byd, i ddyfeisio a llunio dichellion a thwyll. Y fath fywyd yw eu hystâd olaf.

587. Ni ŵyr neb safle gywir yr uffernoedd, hyd yn oed angylion y nefoedd: canys ni pherthyn y wybodaeth ond i'r Arglwydd yn unig; ond y mae lleoliad cyffredinol yr uffernoedd yn wybyddus oddiwrth barthau eu safleoedd, a phenderfynir parthau y byd ysbrydol gan y serchiadau. Dechreua holl barthau y nefoedd o'r Arglwydd fel Haul, ac o ganlyniad o'r dwyrain; a chan fod yr uffernoedd yn wrthgyferbyniol i'r nefoedd, dechreua eu parthau hwy o'r gorllewin, yr hwn sydd wrthgyferbyniol (gwel y benod ar Bedwar Parth y Nefoedd (r. 141—153): ac felly, yr uffernoedd yn y parth gorllewinol yw y gwaethaf a'r mwyaf erchyll o honynt oll. Gwaethygant a chynydda eu herchyllderau fel y pellhant o'r dwyrain. Preswylir yr uffernoedd hyn gan ysbrydion oeddynt, pan yn y byd, yn orlawn o hunan-gariad, ac felly, yn orlawn o ddiystyrwch o ereill, ac o elyniaeth yn erbyn y rhai na chymerent eu plaid, ac o ganlyniad, atgasrwydd a dialedd yn erbyn y rhai na wnaent eu parchu a'u haddoli. Yn yr uffernoedd pellaf o'r parth hwn y mae y Pabyddion, a ddymunent gael eu haddoli fel duwiau, ac o ganlyniad a losgent gan atgasrwydd a dialedd at bawb na chydnabyddent eu dylanwad ar eneidiau dynion ac ar y nefoedd. Coleddant eto y duedd a'u nodweddent pan yn y byd, a gorlawn ydynt o atgasrwydd a dialedd tuag at y rhai a'u gwrthwynebant. Eu prif hyfrydwch yw gweithredu creulonder; ond troir yr hyfrydwch yn eu herbyn eu hunain yn y byd arall: oherwydd yn eu huffernoedd, yn llanw y parth gorllewinol, cynddeirioga pob un fel gwallgofddyn yn erbyn pawb na chydnebydd ei allu dwyfol; ond trinir y pwnc hwn yn fanylach mewn llyfr bychan "Ar y Farn Ddiweddaf a Dinystr Babilon." Ni ellir gwybod y modd y trefnir yr uffernoedd yn y parth hwnw, ond yn unig fod y rhai mwyaf echryslon ar yr ochrau a ymylant ar y parth gogleddol, a'r rhai llai echryslon tua'r dê. Fel hyn y graddol leiha erchylldod yr uffernoedd o'r gogledd i'r dê, ac hefyd tua'r dwyrain, lle y preswylia ysbrydion ffroenuchel, yn

gwadu bodolaeth Duw, ond eto nad ydynt mor llawn o'r fath ddigasedd, dialedd, a dichell, a'r rhai yn ngororau dyfnaf y parth gorllewinol. Nid oes uffernoedd yn y parth dwyreiniol yn awr, gan fod y rhai oeddynt yno wedi eu trosglwyddo i'r tu blaen i'r parth gorllewinol. Y mae llawer o uffernoedd yn mharthau y gogledd a'r dê, ond preswylir hwynt gan ysbrydion, pan ar y ddaear, oeddynt yn llawn cariad at y byd, ac o ganlyniad, mewn gwahanol fathau o ddrygau, megis gelyniaeth, cynenau, lladrad, ysbail, cyfrwysdra, trachwant, ac annhrugarowgrwydd; y rhai gwaethaf sydd yn mharth y gogledd, a rhai llai ffyrnig yn y dê. Y maent yn fwy echryslon fel y nesant i'r gorllewin, ac y pellhant o'r de; ac yn llai echryslon, fel y nesant i'r dwyrain a'r dê. Tucefn i'r uffernoedd yn y parth gorllewinol, y mae coedwigoedd tywyll, ac ysbrydion mileinig yn gwibhela ynddynt fel bwystfilod rheibus; y mae coedwigoedd tebyg hefyd tucefn i'r uffernoedd yn y parth gogleddol; ond tucefn i uffernoedd y parth deheuol y mae y diffaethleoedd y cyfeiriwyd attynt o'r blaen. Hyd yma â'r safleoedd yr uffernoedd.

588. Mewn perthynas i nifer yr uffernoedd, cyfartal ydynt i rif y cymdeithasau angylaidd yn y nefoedd: oherwydd fod i bob cymdeithas nefol un wrthgyferbyniol mewn rhyw gymdeithas uffernol yn cyfateb iddi. Fod y cymdeithasau nefol yn aneirif, a'u bod oll yn cael eu gwahaniaethu yn ol y daioni yn codi o gariad a ffydd, a ddangoswyd yn y benod ar y Cymdeithasau Gyfansoddant y Nefoedd (r. 41—50); ac yn yr un ar Eangder y Nefoedd (r. 415—420). Trefnir y cymdeithasau uffernol, gan hyny, yn gyfatebol i gymdeithasau y nefoedd; ond cânt eu gwahaniaethu yn ol y drygau gwrthgyferbyniol i ddaioni, cariad, a ffydd. Cynwysa pob drwg, fel pob da, amrywiaethau diderfyn. Ond ni ddeallir hyn yn hawdd gan rai nad oes ganddynt ond syniad syml am bob drwg, megis, er engraifft, dirmyg, gelyniaeth, atgasrwydd. dialedd, dichell, a drygau ereill o'r un natur. Gwybydder, gan hyny, fod pob un o'r drygau hyn yn cynwys y fath nifer o wahaniaethau neillduol, a phob un o'r rhai hyn drachefn y fath nifer o wahaniaethau neillduol, fel na byddai cyfrol yn ddigon i'w henwi oll. Y mae yr uffernoedd wedi eu trefnu mor bendant yn ol gwahaniaethau pob drwg, fel nas gellir tybied am ddim yn fwy rheolaidd a phendant. Oddiwrth hyn hefyd, amlwg yw eu bod yn aneirif, a'u bod yn agos neu bell oddiwrth eu gilydd yn ol gwahaniaethau eu drygau cyffredinol, neillduol a mwy neillduol. Y mae hefyd uffernoedd o dan uffernoedd. Deil rhai o honynt gymundeb â'u gilydd drwy dramwyfa, ond mwy drwy ddylifiadau; ond rheolir pob cymundeb yn ol perthynas un math, neu rywogaeth o ddrwg a drygau ereill. Fod nifer yr uffernoedd yn fawr iawn a brofwyd i mi trwy y





ffaith fod uffernoedd o dan bob mynydd, bryn, a chraig, ac hefyd o dan bob gwastadedd a dyffryn yn y byd ysbrydol: a'u bod yn ymestyn odditanynt mewn hyd, lled, a dyfnder. Mewn gair, y mae yr holl nefoedd, a holl fyd yr ysbrydoedd fel pe wedi eu ceuo odditanynt, ac uffern yn ymestyn yn ddidor yno. Cymaint a hyna ar amledd yr uffernoedd.

### Y Cydbwysedd rhwng Nefoedd ac Uffern.

589. Heb gydbwysedd rhwng pob peth nis gall dim fodoli, canys hebddo nid oes weithiad na gwrthweithiad: oblegid cydbwysedd yw cydfantoliad dau allu, un yn gweithio a'r llall yn gwrthweithio. Y mae cydbwysedd yn perthyn i holl bethau y byd naturiol, ac hefyd i bob peth ar ei ben ei hun: yn gyffredinol y mae yr awyrgylchoedd mewn cydbwysedd, y rhanau isaf yn gwrthweithio a gwrthwynebu, i'r graddau y bydd y rhanau uchaf yn gweithio a gwasgu arnynt. Yn y byd naturiol hefyd y mae cydbwysedd rhwng gwres ac oerfel, goleuni a gwyll, sychder a lleithder; canys y tymheredd canolog yw eu cydbwysedd. Y mae cydbwysedd hefyd yn holl wrthrychau tair teyrnas natur, y fwnawl, y llysieuol, a'r anifeilaidd: oherwydd heb gydbwysedd yn y teyrnasoedd hyn, ni allai dim fodoli na pharhau, am fod math o egni gyffredinol tuag at weithiad ar un llaw a gwrthweithiad ar y llaw arall. Cynyrchir pob bodolaeth, hyny yw, pob effaith mewn cydbwysedd, a chynyrchir ef gan un gallu yn gweithio, ac un arall yn goddef gweithredu arno; neu gan un gallu yn llifo i fewn trwy weithiad, ac un arall yn ei dderbyn gan ymostwng iddo yn weddus. Yn y byd naturiol, gelwir yr hyn a weithia a'r hyn a wrthweithia yn nerth, ac hefyd yn ymdrech neu egni; ond yn y byd ysbrydol gelwir yr hyn a weithia a'r hyn a wrthweithia yn fywyd ac ewyllys. Bywyd yn y byd hwnw sydd fywiol nerth, ac ewyllys sydd fywiol ymdrech neu egni; a'u cydbwysedd a elwir yn rhyddid. Y mae cydbwysedd ysbrydol, gan hyny, yn bodoli ac yn parhau trwy ddaioni yn gweithio ar un llaw, a drwg yn gwrthweithio ar y llaw arall; neu trwy ddrwg yn gweithio ar un llaw, a daioni yn gwrthweithio ar y llaw arall. Y cydbwysedd yn yr hwn y gweithia daioni ac y gwrthweithia drygioni a berthyn i rai da; a'r cydbwysedd yn yr hwn y gweithia drygioni ac y gwrthweithia daioni a berthyn i rai drwg. Cydbwysedd ysbrydol yw mantoliad da a drwg, am fod holl fywyd dyn yn perthyn i dda a drwg, a'i ewyllys sydd dderbynfa i'r naill a'r llall. Y mae cydbwysedd hefyd rhwng y gwir a'r gau, yn dibynu ar y cydbwysedd rhwng da a drwg, yn debyg i'r cydbwysedd rhwng goleuni a gwyll, yn gweithredu ar wrthrychau y byd llysieuol, i'r graddau y bydd gwres neu oerni yn y goleu a'r gwyll: oherwydd ni chynyrcha goleu a gwyll ddim

o honynt eu hunain, ond cynyrcha gwres drwyddynt, fel y profir gan y tebygolrwydd sydd rhwng goleu a gwyll gauaf a gwanwyn. Y gydmariaeth rhwng y gwir a'r gau, a'r goleu a'r gwyll sydd trwy gyfatebiaeth, oblegid y gwir sydd yn cyfateb i'r goleu, y gau i'r gwyll, a gwres i'r daioni a ddeillia o'r cariad. Goleu ysbrydol hefyd yw gwirionedd, gwyll ysbrydol yw cyfeiliornad, a gwres ysbrydol yw y daioni a ddeillia o gariad. Ar y pwnc hwn gwel y benod ar Oleuni a Gwres y Nefoedd (r. 126--140).

590. Y mae cydbwysedd parhaus rhwng nefoedd ac uffern, oblegid fod ymdrech wastadol i wneyd drwg yn llifo ac yn esgyn o uffern, ac ymdrech wastadol i wneyd da yn llifo a disgyn o'r nefoedd, a byd yr ysbrydoedd sydd mewn cydbwysedd rhyngddynt. Fod byd yr ysbrydoedd yn y canol rhwng nefoedd ac uffern, a welir uchod (r. 421—431). Y mae byd yr ysbrydoedd mewn cydbwysedd, oblegid fod pob dyn yn myned i'r byd hwnw yn uniongyrchol ar ol marw, a chedwir ef yno mewn ystâd debyg i'r hon oedd ynddi yn y byd naturiol; ond ni byddai hyn yn bosibl oni bai fod y cydbwysedd perffeithiaf yn ffynu yno: canys sicrheir ansawdd yr holl ysbrydion trwy eu gosod mewn ystâd o ryddid, tebyg i'r hon oeddynt ynddi pan ar y ddaear: a chydbwysedd ysbrydol mewn dynion ac ysbrydion yw rhyddid, fel y dywedwyd uchod (r. 589). Y mae natur rhyddid pob un yn wybyddus i'r angylion yn y nefoedd trwy gymundeb eu serchiadau a'u meddyliau; eglur yw i'r ysbrydion angylaidd trwy y ffyrdd a rodiant: canys rhodia ysbrydion da ar hyd ffyrdd yn cyfeirio i'r nefoedd, ond ysbrydion drwg ar hyd ffyrdd yn cyfeirio i uffern. Gwelir y fath ffyrdd yn y byd ysbrydol, ac felly arwydda ffyrdd yn y Gair wirioneddau yn arwain i ddaioni, ac yn yr ystyr wrthgyferbyniol, gyfeiliornadau yn arwain i ddrwg. Oddiyma hefyd, arwydda myned, cerdded, a theithio yn y Gair, gynydd bywyd. Caniatawyd i mi yn fynych weled y ffyrdd hyn, a sylwi ar ysbrydion yn symud a cherdded ar hyd-ddynt, yn ol eu serchiadau a'r meddyliau yn tarddu o honynt.

591. Y mae drwg yn llifo ac esgyn yn barhaus o uffern, a da yn llifo a disgyn yn barhaus o'r nefoedd, am fod cylch ysbrydol yn cwmpasu pob un, a'r cylch hwnw yn llifo allan o fywyd ei serchiadau a'i feddyliau; a chan fod y fath gylch o fywyd yn llifo allan o bob un, y canlyniad yw, ei fod yn llifo allan o bob cymdeithas nefol, ac o bob cymdeithas uffernol, ac felly oddiwrth yr holl gymdeithasau hyny yn nghyd, sef o'r nefoedd gyffredinol ac o'r uffern gyffredinol. Daioni lifa allan o'r nefoedd, oblegid fod holl drigolion y nefoedd mewn daioni; a drwg lifa allan o uffern, am fod holl drigolion uffern mewn drwg. Y daioni a lifa o'r nefoedd sydd oll o'r Arglwydd, am fod yr angylion yn y nefoedd, yn cael eu cadw o'u hunan *(proprium)* eu hunain, a'u cadw





yn hunan *(proprium)* yr Arglwydd, sef Daioni ei Hun, tra y mae yr ysbrydion yn uffern yn eu hunan *(proprium)* eu hunain; ond hunan *(proprium)* pob un nid yw ddim ond drwg, a chan nad yw ddim ond drwg, am hyny uffern ydyw. Felly, amlwg yw nad yw y cydbwysedd y cedwir yr angylion ynddo yn y nefoedd, a'r ysbrydion yn uffern, yr un fath a chydbwysedd byd yr ysbrydoedd: canys cydbwysedd yr angylion yn y nefoedd yw y mesur y buont foddlawn i fod mewn daioni pan oeddynt yn y byd, neu fesur y daioni y buont byw yn wirioneddol ynddo, ac felly hefyd y mesur y ffieiddient ddrwg; ond cydbwysedd yr ysbrydion yn uffern, yw y mesur y buont foddlawn i fod mewn drwg, neu fesur y drwg y buont byw ynddo, ac felly hefyd y mesur yr oedd eu calonau a'u meddyliau yn groes i ddaioni.

592. Nis gallai fod cydbwysedd onibai fod yr Arglwydd yn rheoli y nefoedd a'r uffernoedd, a phe na byddai cydbwysedd, nis gallai nefoedd nac uffern fodoli, am fod pob peth yn y bysysawd, yn y byd naturiol ac ysbrydol, yn cael ei gynal trwy gydbwysedd. Gall pob dyn rhesymol fod yn sicr o hyn: tybier fod gorbwysedd ar un llaw, a dim gwrthwynebiad ar y llaw arall, oni ddarfyddai y ddau? Rhaid fyddai i'r byd ysbrydol, gan hyny, ddarfod, pe na wrthweithiai da yn erbyn drwg, gan attal ei ymosodiadau dibaid; ac oni bai fod y Duwdod ei hun yn effeithio yr attalfa hon, dinystrid nefoedd ac uffern, a'r holl hîl ddynol gyda hwynt. Dywedaf, oni bai fod Duw ei hun yn effeithio yr attalfa hon, am nad yw hunan *(proprium)* pob un, bydded angel, ysbryd, neu ddyn, yn ddim ond drwg (gwel uchod, r. 591): o ganlyniad, nid yw yn bosibl i angylion neu ysbrydion wrthwynebu y drygau a gyfodant yn barhaus o'r uffernoedd, oblegid o'u hunan *(proprium)* eu hunain tueddant yn barhaus tuag uffern, ac felly amlwg yw, oni bai fod yr Arglwydd ei hun yn unig yn rheoli nefoedd ac uffern nas gallasai neb fod yn gadwedig. Heblaw hyn, gweithreda yr holl uffernoedd fel un gallu, am fod drygau yn yr uffernoedd yn un a'u gilydd fel pob da yn y nefoedd; y Gallu Dwyfol a ddeillia o'r Arglwydd yn unig, sydd alluog i wrthwynebu yr holl uffernoedd yn eu hundeb yn erbyn y nefoedd, ac yn erbyn pawb sydd yn y nefoedd: oblegid fod yr uffernoedd yn aneirif.

593. Y mae y cydbwysedd rhwng y nefoedd a'r uffernoedd yn lleihau neu fwyhau yn ol rhif yr ysbrydion a ânt iddynt, yn cynwys llawer o filoedd bob dydd; ond i wybod a chanfod pa fordd y try y glorian, i'w rheoli a'i chydraddoli gyda chywirdeb perffaith, nid yw hyn yn ngallu unrhyw angel, ond yn ngallu yr Arglwydd yn unig: oblegid fod y cylch Dwyfol a ddeillia o'r Arglwydd yn Hollbresenol, ac yn canfod y perygl lleiaf yn unrhyw gyfeiriad: pan na wêl yr angel ond yr hyn sydd agos atto, ac ni chenfydd ynddo ei hun, hyd yn oed yr hyn a gymer le yn ei gymdeithas ei hun.

594. Y mae y modd y trefnir pob peth yn y nefoedd a'r uffernoedd, fel y gellir cadw yr holl breswylwyr yn gyffredinol a neillduol mewn cydbwysedd, i'w ganfod i ryw fesur oddiwrth y pethau a ddywedwyd o'r blaen am y nefoedd a'r uffernoedd: sef fod y cymdeithasau nefol yn cael eu trefnu yn berffaith yn ol mathau a rhywogaethau y daioni a feddant; a'r holl gymdeithasau yn uffern yn ol mathau a rhywogaethau y drwg a'u nodweddant; fod o dan bob cymdeithas nefol, gymdeithas uffernol wrthgyferbyniol yn cyfateb iddi, oddiwrth yr hyn y deillia cydbwysedd rhyngddynt; a bod yr Arglwydd yn darparu yn wastad, na chaiff unrhyw gymdeithas uffernol drechu y gymdeithas nefol wrthgyferbyniol iddi, ac os dechreua drechu, attalfeydd o amryw fath a'i darostynga i'w chydbwysedd priodol. Lliosog yw yr attalfeydd hyn, ond ni enwaf ond ychydig o honynt. Perthyna rhai o honynt i gryfach presenoldeb oddiwrth yr Arglwydd. Rhai i gymundeb a chysylltiad agosach rhwng un gymdeithas a'r llall, a rhwng amryw gymdeithasau a'u gilydd. Rhai i fwriad allan ysbrydion uffernol afreidiol i'r anialdiroedd. Rhai i symudiad rhai o'r ysbrydion hyny o un uffern i'r llall. Rhai i drefniad y rhai sydd yn yr uffernoedd, yr hyn a wneir trwy amryw ffyrdd. Rhai i guddio yr uffernoedd dan orchuddion mwy cwrs a thrwchus, ac hefyd i'w gollwng i lawr i ddyfnderau mwy dirfawr: heb enwi ffyrdd ereill a arferir yn y nefolion leoedd uwchlaw yr uffernoedd hyn. Nodir y ffeithiau hyn fel y gellir canfod i ryw fesur fod yr Arglwydd ei hun yn darparu fod cydbwysedd rhwng da a drwg yn mhob man, ac o ganlyniad rhwng nefoedd ac uffern: oblegid fod dyogelwch pawb yn y nefoedd ac ar y ddaear yn dibynu ar y cydbwysedd hwnw.

595. Gwybydder fod yr uffernoedd yn ymosod ar y nefoedd yn barhaus, gan ymdrechu ei distrywio, ond yr Arglwydd a'i hamddiffyn yn barhaus trwy gadw yr angylion rhag y drygau ddeilliant o'u hunan *(proprium)* eu hunain, a'u cadw yn y daioni ddeillia o hono Ef ei hun. Caniatawyd i mi yn fynych ganfod y cylch o ddylanwad a lifa o'r uffernoedd, yr hwn nad yw ddim ond cylch o ymdrechion i ddinystrio dylanwad Dwyfol yr Arglwydd, ac o ganlyniad, y nefoedd; canfyddais hefyd weithiau rai o'r uffernoedd yn berwi, sef mewn ymdrech i ruthro allan i ddinystrio. Ar y llaw arall, nid yw y nefoedd byth yn ymosod ar yr uffernoedd, oblegid y cylch Dwyfol a ddeillia o'r Arglwydd a ymdrecha yn barhaus i gadw pawb; a chan nas gellir achub y rhai sydd yn uffern, am eu bod oll mewn drwg a gelynol i Egwyddol Ddwyfol yr Arglwydd, am hyny, darostyngir eu terfysgoedd, ac attelir eu creulonderau hyd y gellir, er eu rhwystro i dori dros y terfynau yn erbyn eu gilydd. Effeithir hyn hefyd trwy aneirif gyfryngau y Gallu Dwyfol.





596. Rhenir y nefoedd i ddwy deyrnas, y deyrnas nefol a'r deyrnas ysbrydol—am danynt gwel uchod (r. 20—28). Yr un modd hefyd, y mae dwy deyrnas uffernol, un yn wrthgyferbyniol i'r deyrnas nefol, a'r llall i'r deyrnas ysbrydol. Y mae y deyrnas uffernol sydd wrthgyferbyniol i'r nefol yn y gorllewin, a gelwir ei thrigolion yn *genii;* ond y mae yr un sydd wrthgyferbyniol i'r deyrnas ysbrydol yn y gogledd a'r dê, a gelwir ei thrigolion yn ysbrydion. Y mae pawb sydd yn y deyrnas nefol mewn cariad at yr Arglwydd, ond pawb yn yr uffernoedd gwrthgyferbyniol i'r deyrnas hon sydd mewn hunan-gariad; a phawb yn y deyrnas ysbrydol sydd mewn cariad at gymydog, ond pawb sydd yn yr uffernoedd gwrthgyferbyniol i'r deyrnas hono mewn cariad at y byd. Felly, amlwg yw fod cariad at yr Arglwydd yn groes i hunan-gariad; a chariad at gymydog yn groes i gariad at y byd. Darperir yn barhaus gan yr Arglwydd na chaiff unrhyw ddylifiad o'r uffernoedd gwrthgyferbyniol i'w deyrnas nefol ei gyfeirio tuag at angylion y deyrnas ysbrydol: oblegid pe caniateid hyn, distrywid y deyrnas ysbrydol, am y rheswm roddwyd uchod (r. 578, 579). Dyma y ddau gydbwysedd cyffredinol a gedwir yn wastadol gan yr Arglwydd.

### Fod Dyn yn Mwynhau Rhyddid trwy y Cydbwysedd rhwng Nefoedd ac Uffern.

597. Triniwyd y cydbwysedd rhwng nefoedd ac uffern yn y benod flaenorol, a dangoswyd ei fod yn gydbwysedd rhwng y da a ddeillia o'r nefoedd a'r drwg a ddeillia o uffern; a'i fod, o ganlyniad, yn gydbwysedd ysbrydol, yr hwn yn ei hanfod yw rhyddid. Cydbwysedd ysbrydol yw rhyddid yn ei hanfod, am ei fod yn gydbwysedd rhwng da a drwg, ac hefyd rhwng y gwir a'r gau, y rhai sydd bethau ysbrydol; ac felly y gallu o ewyllysio da neu drwg, ac o feddwl y gwir neu y gau, a dewis y naill o flaen y llall, yw y rhyddid y soniwn am dano: rhoddir y rhyddid hwn i bob dyn gan yr Arglwydd, ac ni chaiff byth ei amddifadu o hono. Oherwydd ei darddiad, nid eiddo y dyn ei hun yw y rhyddid hwn, ond eiddo yr Arglwydd, oblegid o'r Arglwydd y mae; ond rhoddir ef i'r dyn gyda'i fywyd fel ei eiddo ei hun, fel y gellir ei ddiwygio a'i achub: oblegid heb ryddid nis gall fod diwygiad nac iachawdwriaeth. Gall unrhyw un weled trwy ei reswm, fod dyn yn rhydd i feddwl yn ddrwg neu yn dda, yn gywir neu yn anghywir, cyfiawn neu anghyfiawn: hefyd ei fod yn rhydd i lefaru a gweithredu yn dda, cywir a chyfiawn, ond yr attelir ef rhag dweyd a gwneyd yn ddrwg, anghywir, ac anghyfiawn, trwy gyfreithiau ysbrydol, moesol, a gwladol, yn cadw ei ddyn allanol mewn rhwymau. Felly, eglur yw fod ysbryd dyn, sef yr hyn sydd yn meddwl ac ewyllysio, mewn rhyddid; ond nad yw y dyn allanol,

sef yr hyn sydd yn llefaru a gweithredu, mewn rhyddid, os nad yw mewn cytundeb â'r cyfreithiau hyny.

598. Nis gellir diwygio dyn, heb iddo fod yn rhydd, canys genir ef i ddrygau o bob math, y rhaid eu symud, cyn y gellir ei achub; ond nis gellir eu symud os na wel efe hwynt ynddo ei hunan, ac os na chydnebydd hwynt, ac wedi hyny peidio eu hewyllysio, ac o'r diwedd eu dal mewn atgasrwydd. Pryd hyn am y tro cyntaf y symudir hwynt; ond nis gellir effeithio hyn oddieithr iddo fod mewn da yn gystal a drwg, oblegid gall weled drygau o ddaioni, ond nis gall weled daioni o ddrwg. Dysga dyn y pethau da ysbrydol y gall feddwl am danynt, o'i ieuenctyd wrth ddarllen y Gair, a chlywed pregethau; a dysga bethau moesol a gwladol trwy fyw yn y byd. Dyma y rheswm cyntaf paham y dylai dyn fod mewn rhyddid. Rheswm arall yw, nad yw dyn yn meddianu dim iddo ei hun, ond yr hyn a wna oddiar deimlad cariad. Gall pethau ereill fyned i mewn, y mae yn wir, ond ni threiddiant yn bellach na'r meddwl, ac ni chyrhaeddant yr ewyllys. Ond ni ddaw dim yn eiddo dyn ei hun, nad yw yn myned i fewn i'w ewyllys, oblegid cymer y meddwl ei ddefnyddiau o'r côf, ond y mae pob peth sydd yn yr ewyllys yn tarddu o'r bywyd. Nid oes dim yn rhydd, ond a ddeillia o'r ewyllys, neu yr hyn sydd yr un peth, o'r teimlad ddeillia o gariad; oherwydd pa beth bynag a ewyllysia neu a gâr dyn, hyny a wna yn rhydd: o ganlyniad y mae rhyddid dyn, a'r teimlad gyfyd o'i gariad a'i ewyllys, yr un; a rhoddir rhyddid i ddyn fel y gall deimlo daioni a gwirionedd, neu eu caru, a thrwy hyny ddyfod yn eiddo iddo. Mewn gair, beth bynag nad yw yn myned i mewn i ddyn mewn rhyddid, ni erys, am nad yw yn perthyn i'w gariad, neu i'w ewyllys, ac am nad yw yr hyn na pherthyn i gariad neu ewyllys dyn o'i ysbryd, oblegid hanfod ysbryd dyn yw cariad neu ewyllys. Arferwn y ddau air, oherwydd yr hyn a gâr dyn hyny hefyd efe a ewyllysia. Dyma, gan hyny, y rhesyman paham nas gellir diwygio dyn, ond mewn rhyddid.

599. Er mwyn i ddyn fod mewn rhyddid, fel moddion i'w ddiwygio, cysylltir ef o ran ei ysbryd â'r nefoedd, ac hefyd âg uffern; canys y mae ysbrydion o uffern ac angylion o'r nefoedd yn gweini ar bob dyn. Trwy yr ysbrydion o uffern, y mae yn ei ddrwg ei hun, a thrwy yr angylion o'r nefoedd y mae yn y daioni a ddeillia o'r Arglwydd, ac felly mewn cydbwysedd ysbrydol, yr hyn yw rhyddid. Fod angylion o'r nefoedd, ac ysbrydion o uffern yn gysylltiedig â phob dyn, a ddangoswyd yn y benod ar undeb y nefoedd â'r hîl ddynol (r. 291—302).

600. Gwybydder nad yw dyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r nefoedd ac uffern, ond anuniongyrchol, trwy ysbrydion yn myd yr ysbrydoedd: oherwydd yr ysbrydion hyn yn unig sydd yn gysyllt-





iedig â dyn, a neb yn y nef ei hun, neu yn uffern ei hun; ond cysylltir ef âg uffern trwy ysbrydion aflan yn myd yr ysbrydoedd, ac â'r nefoedd trwy ysbrydiou da yno. Y mae byd yr ysbrydoedd, gan hyny, yn y canol rhwng nefoedd ac uffern, ac yn safle arbenig y cydbwysedd. Fod byd yr ysbrydoedd yn y canol rhwng nefoedd ac uffern a ddangoswyd yn y benod ar y byd hwnw (r. 421—431): a'i fod yn safle arbenig cydbwysedd rhwng nefoedd ac uffern a ddangoswyd yn y benod flaenorol (r. 589—596). Y mae ffynonell rhyddid dyn, gan hyny yn awr yn amlwg.

601. Dywedwn ychydig eiriau yn mhellach am yr ysbrydion sydd yn gysylltiedig â dyn. Gall cymdeithas gyfan ddal cymundeb â chymdeithas arall, neu âg unrhyw un neillduol, pa le bynag y byddo, trwy gyfrwng ysbryd anfonedig o'r gymdeithas hono, a gelwir y fath ysbryd yn "ddeiliad i lawer." Yr un fath yw mewn perthynar i undeb dyn â chymdeithasau yn y nefoedd, a chymdeithasau yn uffern trwy ysbrydion sydd yn gysylltiedig âg ef yn myd yr ysbrydoedd.

602. Yn olaf, dywedwn rywbeth am y gred gynhenid fedd pob dyn trwy dderbyn dylifiad o'r nefoedd, y bydd byw ar ol marw. Rhai ysbrydion syml o'r bobl gyffredin, a fuont byw ar y ddaear yn y daioni a dardd o ffydd, a ddarostyngwyd i ystâd debyg i'r hon oeddynt ynddi yn y byd, yr hyn ellir wneyd âg unrhyw un trwy ganiatad yr Arglwydd, yna dangoswyd pa fath syniad oedd ganddynt am ystâd dyn ar ol marw. Dywedent fod rhai dynion dysgedig wedi gofyn iddynt yn y byd, beth feddylient am sefyllfa eu heneidiau ar ol eu bywyd yn y byd; ac iddynt atteb na wyddent beth oedd yr enaid: eu bod wedi gofyn ar ol hyn, beth gredent fyddai eu sefyllfa ar ol marw, ac iddynt ddweyd y credent y byddent byw fel ysbrydion: iddynt ofyn yn nesaf, beth a gredent oedd ysbryd, ac attebasant, "dyn yw ysbryd." A phan ofynwyd iddynt yn nesaf, pa fodd y gwyddent hyn, dywedasant y gwyddent, am mai felly yr oedd; ac i'r dynion dysgedig hyn synu fod gan bobl syml y fath ffydd, pan nad oeddynt hwy eu hunain yn ei meddu. Am hyny, amlwg yw fod gan bob dyn sydd mewn undeb â'r nefoedd argyhoeddiad cynhenid y bydd byw ar ol marw; a'r argyhoeddiad hwn a dardd trwy y dylifiad o'r nefoedd, hyny yw, trwy y nefoedd, o'r Arglwydd, trwy gyfrwng yr ysbrydion sydd yn gysylltiedig â dyn yn myd yr ysbrydoedd, a bodola yn y rhai na ddiffoddasant ryddid meddwl trwy ragfarnau am enaid dyn: oblegid dywed y fath ddynion, mai meddwl yn unig, neu ryw egwyddor fywiol yw yr enaid, a cheisiant ei olrhain i ryw ran neillduol o'r corff: pan nad yw yr *enaid* ddim ond bywyd dyn, tra yr *ysbryd* yw y dyn ei hun, a'r *corff materol* a gluda drwy y byd, yn ddim ond offeryn i alluogi yr ysbryd neu y dyn ei hun i weithredu yn gydnaws â chyfansoddiad y byd naturiol.

603. Yr hyn a ddywedwyd yn y gyfrol hon am y nefoedd, byd yr ysbrydoedd, ac uffern, a ymddengys yn dywyll i'r rhai nad oes ganddynt hyfrydwch mewn gwybodaeth o wirioneddau ysbrydol: ond yn eglur i rhai fedd yr hyfrydwch hwnw, ac yn enwedig i'r rhai feithrinant gariad at y gwirionedd er ei fwyn ei hun, hyny yw, a garant wirionedd am ei fod yn wirionedd: oherwydd pa beth bynag a gerir a aiff i mewn a goleuni i syniadau y meddwl, ac yn nodedig felly pan mai gwirionedd yw yr hyn a gerir, am fod pob gwirionedd yn y goleuni.

Y DIWEDD.

GWRECSAM: HUGHES A'I FAB, ARGRAFFWYR.

COLUMBIA UNIVERSITY LIBRARIES
10683569

938.94 Sw337

Swedenborg
Nef ac uffern...